# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
www.ceredigion.gov.uk

SYLWCH: Fe fydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar ffilmio i'w ddarlledu'n fyw neu ar ôl i'r cyfarfod orffen, a hynny drwy gyfrwng safle rhyngrwyd y Cyngor. Hefyd gallai'r lluniau a'r sain a recordir cael eu defnyddio at ddibenion hyfforddi yn y Cyngor.

Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a fydd y cyfan neu ran o'r cyfarfod yn cael ei ffilmio ai peidio.

Yn gyffredinol ni fydd y rhannau lle mae'r cyhoedd yn eistedd yn cael eu ffilmio. Er hynny, trwy ddod i mewn i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r man lle mae seddi'r cyhoedd, mae'r cyhoedd yn cytuno y gallant gael eu ffilmio ac o bosibl i'r lluniau a'r sain a gaiff eu recordio cael eu defnyddio, fel y nodir uchod. Os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn, cysylltwch â'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd.

13 Mawrth 2024

Annwyl Syr/Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Cabinet yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell trwy fideo-gynadledda Dydd Mawrth, 19 Mawrth 2024 am 10.00am i drafod y materion canlynol:

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Materion Personol**

3. **Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

4. **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny**
   **ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 5 - 10)**

5. **Unrhyw ddeisebau a dderbyniwyd**

6. **Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**

7. **Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda**

8. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion ynghylch Adroddiad yr ymgynghoriad ynghylch y cynnig i ddiwygio cyfrwng iaith y Dysgu Sylfaen a derbyn disgyblion 3 oed yn rhan amser yn Ysgol Gynradd Cei Newydd**
   **ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 11 - 56)**

9. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Economi ac Adfywio ynghylch y Bwriad i werthu asedau**
**ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 57 - 70)**

10. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Gofal ynghylch Opsiynau yn y dyfodol ar gyfer Cartref Gofal Preswyl Tregerddan, Bow Street**
**ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 71 - 90)**

11. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar ynghylch Pwll Nofio a Neuadd Goffa Aberteifi**
**ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 91 - 96)**

12. **EITEM EITHRIEDIG (Tudalennau 97 - 100)**
Nid yw'r adroddiad (Atodiad 1) ar yr eitem uchod ar gael i'w gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth)(Amrywio)(Cymru) 2007. Os bydd y Cyngor yn penderfynu ystyried yr eitem hon yn breifat, yn unol ag Adran 100B(2) y Ddeddf ac ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd, caiff y cyhoedd a'r wasg eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth honno.

Wrth ddelio â'r eitem hyn, gofynnir i'r Aelodau ystyried a ydynt am gau'r cyhoedd a'r wasg allan o'r Cyfarfod.

13. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar ynghylch Ail-ddynodi'r Cynllun Trwyddedu Ychwanegol ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth yng Ngheredigion gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**
**ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 101 - 158)**

14. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar ynghylch Asesiad o'r Farchnad Dai Leol gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**
**ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 159 - 288)**

15. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ynghylch Cynllun Cydraddoldeb Strategol Ceredigion 2024-28**
**ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 289 - 372)**

16. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu ynghylch Trefniadau diwygiedig Tâl y Crwner 2024/2025**
**ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 373 - 376)**

17. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch y Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch Llywodraeth Cymru 2024-25**
**ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 377 - 392)**

**18.** **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch y Polisi Sicrwydd a Bondiau Corfforaethol**
**ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 393 - 402)**

**19.** **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Cyllideb Refeniw Reoladwy23/24 - Perfformiad Ariannol - Chwarter 3**
**ER GWYBODAETH (Tudalennau 403 - 428)**

**20.** **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Adroddiad Monitro'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Chwarter 3**
**ER GWYBODAETH (Tudalennau 429 - 438)**

**21.** **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Adroddiad Perfformiad Chwarterol Rheoli'r Trysorlys 2023/24**
**ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 439 - 448)**

**22.** **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar ynghylch Adroddiad Blynyddol Uned Gofalwyr Ceredigion 2022-2023 gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**
**ER GWYBODAETH (Tudalennau 449 - 472)**

**23.** **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ynghylch Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol Chwarter 2 2023-2024 gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**
**ER GWYBODAETH (Tudalennau 473 - 506)**

**24.** **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ynghylch Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS - Chwarter 2 2023/24**
**ER GWYBODAETH (Tudalennau 507 - 570)**

**25.** **Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Cabinet**

Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb

Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.

Yn gywir



**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At: Arweinydd y Cyngor ac Aelodau'r Cabinet**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Rhybudd o Benderfyniadau **Cyfarfod y Cabinet** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell ar **Ddydd Mawrth, 20 Chwefror 2024**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5.00pm Dydd Iau, 22 Chwefror 2024. Y dyddiad olaf i dderbyn cais i alw unrhyw benderfyniad i mewn yw 5.00pm Dydd Iau, 29 Chwefror 2024 drwy ei anfon at Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) Dydd Gwener, 1 Mawrth 2024.

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Bryan Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Catrin M S. Davies, Clive Davies, Gareth Davies, Keith Henson, Wyn Thomas ac Alun Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Marc Davies, Endaf Edwards, Elaine Evans, Elizabeth Evans, Gwyn Wigley Evans, Keith Evans, Raymond Evans, Hugh Hughes, Gareth Lloyd, Ann Bowen Morgan, Caryl Roberts a Carl Worrall.

(10.00am - 1.22pm)

**152 Ymddiheuriadau**

i. Ymddiheurodd y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.
ii. Ymddiheurodd y Cynghorydd Rhodri Evans, Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod oherwydd ymrwymiadau eraill y Cyngor.
iii. Ymddiheurodd James Starbuck, Cyfarwyddwr Corfforaethol am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**153 Materion Personol**

Cydymdeimlwyd â theulu Gwilym Tudur, sylfaenydd Siop y Pethe, Aberystwyth a fu farw yn ddiweddar.

**154 Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

i. Datganodd y Cynghorydd Gareth Davies fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 163 (atodiad 5, eitem 63) a buddiant personol mewn perthynas ag eitem 170.
ii. Datganodd y Cynghorydd Alun Williams fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 167.
iii. Datganodd y Cynghorydd Endaf Edwards fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 170 ac mewn materion yn ymwneud â chyflogeion y Cyngor.

**155 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny**

Cadarnhau bod cofnodion Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2024 yn gywir.

Materion yn codi: Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion.

**156** **Unrhyw ddeisebau a dderbyniwyd**
Dim.

**157** **Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**
Dim.

**158** **Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda**
Dim.

**159** **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch Adolygu Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**
PENDERFYNIAD:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad a'r adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus.
2. Cymeradwyo Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion (Atodiad A), yn amodol ar y newidiadau canlynol, fel y nodir yn yr adroddiad:

Tudalen 7:
“6.2 Nid yw’r ddau fath o angorfeydd Masnachol, ar ôl eu dyrannu, yn drosglwyddadwy i drydydd parti heb gydsyniad ysgrifenedig y Cyngor ymlaen llaw. Bydd unrhyw drosglwyddiadau yn unol â 18.2 y polisi hwn.”

Tudalen 14:
“Trosglwyddo Angorfeydd a Chyfleusterau
18.1 Nid oes dim hawliau trosglwyddo mewn perthynas ag Angorfeydd neu gyfleusterau Hamdden o fewn Harbyrau a reolir gan Geredigion.

18.2 Mae trosglwyddiadau sy’n ymwneud ag angorfeydd Masnachol yn amodol ar gydsyniad ysgrifenedig y Cyngor ymlaen llaw, ni ddylid gwrthod cydsyniad o'r fath yn afresymol. Bydd unrhyw gydsyniad a roddir yn amodol ar y cwch a neilltuwyd ar hyn o bryd i'r angorfa yn aros ar yr angorfa ar ôl cwblhau'r trosglwyddiad.

Lle rhoddir cydsyniad, bydd y Cyngor yn codi ffi trosglwyddo angorfa ar yr ymgeisydd sy’n cymryd yr angorfa (gweler ‘Ffioedd a Chostau’ cyfredol). Yn ogystal â’r ffi trosglwyddo, bydd y ffioedd angori llawn sy’n berthnasol i’r cwch am y tymor hefyd yn berthnasol (gweler ‘Ffioedd a Chostau’ cyfredol). Dim ond ar ôl cael taliad llawn o'r ffioedd hyn y bydd y trosglwyddiad yn cael ei gwblhau.”

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Mabwysiadu a gweithredu Polisi Rheoli Harbyrau sy’n cefnogi ac yn hwyluso’r gwaith o reoli’r harbyrau yn deg, yn gyson ac yn dryloyw er budd holl ddefnyddwyr yr harbyrau.

**160** **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch Caffael Contract Trin Gwastraff Gweddilliol**

PENDERFYNIAD:
Cytuno i ddyfarnu'r contract i'r Tendr Mwyaf Manteisiol yn Economaidd, yn amodol ar gyfnod segur statudol o 10 diwrnod.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Sicrhau bod gwastraff gweddilliol y sir yn cael ei waredu yn barhaus yn unol â rhwymedigaethau statudol y Cyngor.

**161** **EITEM EITHRIEDIG**

Nid yw'r adroddiad sy'n ymwneud ag eitem 160 ar yr agenda, Atodiad A a B, i'w gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) 5 (Amrywio) (Cymru) 2007. Os bydd y Cyngor yn penderfynu ystyried yr eitem hon yn breifat, ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd, caiff y cyhoedd eu heithrio o’r cyfarfod yn ystod y drafodaeth honno, yn unol ag Adran 100B(2) o’r Ddeddf.

Gofynnwyd i'r Aelodau, wrth ymdrin â'r eitem, ystyried a ddylid gwahardd y cyhoedd a’r wasg o'r Cyfarfod.

PENDERFYNIAD:
Y dylai'r eitem barhau i fod yn eithriedig.
Peidio gwahardd y cyhoedd a’r wasg o’r cyfarfod.

*Y rheswm dros y penderfyniad:*
Ni thrafodwyd y ddogfen yn gyhoeddus.

**162** **Nodi’r Adborth gan bob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu’r Gyllideb**

Nodi’r Adborth gan bob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu’r Gyllideb.

**163** **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Cyllideb Refeniw 24/25**

PENDERFYNIAD:

1. Nodi mai Ardoll Tân 24/25 cymeradwy Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion yw £5.440m, sef cynnydd o £584k (12%). Ar ôl darparu ar gyfer cyllid costau Pensiwn tybiedig gan Lywodraeth Cymru, mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 1.1% yn Nhreth y Cyngor i drigolion Ceredigion.
2. Cymeradwyo'r rhestr o Ffioedd a Chostau i fod yn effeithiol o 01/04/24 fel yr amlinellir yn:
   a) Atodiad 1
   b) Atodiad 2
   c) Atodiad 3
   d) Atodiad 4

3. I argymell i'r Cyngor Llawn, mewn perthynas â Phremiymau Treth y Cyngor o 01/04/24:
    a) O 01/04/24, dylai 25% o'r holl arian a godir o bremiymau Treth y Cyngor ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor (net o ad-daliadau / costau Treth y Cyngor) gael ei glustnodi a'i ddefnyddio i gefnogi'r Cynllun Tai Cymunedol, ar yr amod drwy'r amser na fydd cyfanswm y cyllid a ddelir yn y Cynllun Tai Cymunedol yn fwy na £2.0m ac y bydd unrhyw gyllid y tu hwnt i'r lefel hon mewn unrhyw flwyddyn benodol yn cael ei ddefnyddio i gefnogi sefyllfa'r gyllideb gyffredinol.
    b) O 01/04/24, bydd 75% o'r holl arian a godir o bremiymau Treth y Cyngor ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor (net o ad-daliadau / costau Treth y Cyngor) yn cael ei gadw a'i ddefnyddio i gefnogi sefyllfa'r gyllideb gyffredinol, er mwyn lleihau baich Treth y Cyngor ar drigolion Ceredigion.
4. I argymell i'r Cyngor Llawn, ar gyfer y Gyllideb 24/25:
    a) Gofyniad y Gyllideb ar gyfer 24/25 yw £193.572m, sy'n cynnwys yr holl gynigion ar gyfer Lleihau'r Gyllideb a amlinellir yn Atodiad 5, ond gan eithrio Eitem 63 ynghylch y Gwasanaeth Casglu Cynhyrchion Hylendid Amsugnol.
    b) Mae lefel Treth y Cyngor arfaethedig 24/25 at ddibenion y Cyngor Sir yn gynnydd o 11.10% (sef 1.1% mewn perthynas â chynnydd Ardoll yr Awdurdod Tân a 10.0% ar gyfer holl Wasanaethau y Cyngor)
    c) Byddai hyn yn cyfateb i gynnydd Band D o £172.45 (sef £14.37 y mis / £3.32 yr wythnos).
5. Cymeradwyo mai'r terfyn i'w gyflwyno ar gyfer gwastraff gweddilliol o 01/04/24 ymlaen fyddai 3 bag du (dim mwy na 60 litr yr un) fesul aelwyd breswyl fesul casgliad bob 3 wythnos.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Galluogi'r gwaith o baratoi Cyllideb 2024/25 i barhau, fel y gellir paratoi papurau'r Gyllideb a chyfrifiadau Treth y Cyngor ar gyfer cyfarfod y Cyngor Llawn ar 29/02/24.

**164 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024/25 a Pholisi Isafswm Darpariaeth Refeniw (MRP) 2024/25**

PENDERFYNIAD:
1. Nodi cynnwys yr adroddiad.
2. I argymell i'r Cyngor Llawn:
    a) cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer Benthyca a Buddsoddiadau ar gyfer 2024/25;
    b) cymeradwyo Polisi y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2024/25; a
    c) bod y Cyngor yn dirprwyo awdurdod i'r swyddog Adran 151, mewn ymgynghoriad ag Aelod y Cabinet ar gyfer Cyllid a Chaffael, i ddiwygio Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, a'r Rhaglen Fuddsoddi, yn ystod y flwyddyn.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Pennu Strategaeth Rheoli Trysorlys a Pholisi Isafswm Refeniw ar gyfer 2024/25.

165 **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion ynghylch Adroddiad yr ymgynghoriad ynghylch y cynnig i ddiwygio cyfrwng iaith y Dysgu Sylfaen a derbyn disgyblion 3 oed yn rhan amser yn Ysgol Gynradd Comins Coch**

PENDERFYNIAD:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad ymgynghori.
2. Cymeradwyo cyhoeddi'r hysbysiad statudol.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*

Er mwyn cymeradwyo'r ddogfen ymateb i'r ymgynghoriad a chyhoeddi'r hysbysiad statudol yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion – 011/2018.

166 **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion ynghylch Adroddiad yr ymgynghoriad ynghylch y cynnig i ddiwygio cyfrwng iaith y Dysgu Sylfaen a derbyn disgyblion 3 oed yn rhan amser yn Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant**

PENDERFYNIAD:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad ymgynghori.
2. Cymeradwyo cyhoeddi'r hysbysiad statudol.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*

Er mwyn cymeradwyo'r ddogfen ymateb i'r ymgynghoriad a chyhoeddi'r hysbysiad statudol yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion – 011/2018.

167 **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion ynghylch Adroddiad yr ymgynghoriad ynghylch y cynnig i ddiwygio cyfrwng iaith y Dysgu Sylfaen yn Ysgol Gynradd Plascrug**

PENDERFYNIAD:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad ymgynghori.
2. Cymeradwyo cyhoeddi'r hysbysiad statudol.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*

Er mwyn cymeradwyo'r ddogfen ymateb i'r ymgynghoriad a chyhoeddi'r hysbysiad statudol yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion – 011/2018.

168 **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion ynghylch Adroddiad yr ymgynghoriad ynghylch y cynnig i ddiwygio cyfrwng iaith y Dysgu Sylfaen yn Ysgol Gynradd Llwyn yr Eos**

PENDERFYNIAD:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad ymgynghori.
2. Cymeradwyo cyhoeddi'r hysbysiad statudol.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*

Er mwyn cymeradwyo'r ddogfen ymateb i'r ymgynghoriad a chyhoeddi'r hysbysiad statudol yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion – 011/2018.

**169** **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion ynghylch Enw Swyddogol yr Ysgol ardal newydd yn Nyffryn Aeron**
PENDERFYNIAD:
Cymeradwyo'r enw Ysgol Dyffryn Aeron fel yr enw ar gyfer yr ysgol ardal newydd.

*Y rheswm dros y penderfyniad:*
Cymeradwyo'r enw swyddogol.

**170** **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion ynghylch Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol ar Gyrff Llywodraethol**
PENDERFYNIAD:
Cadarnhau enwebu'r sawl a enwir yn yr adroddiad yn gynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol ar Gyrff Llywodraethol yr Ysgolion perthnasol.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Enwebu cynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol ar Gyrff Llywodraethol.

**171** **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ynghylch Polisi, Strategaeth a Fframwaith Rheoli Risg Corfforaethol Drafft**
PENDERFYNIAD:
Cymeradwyo'r Polisi, Strategaeth a Fframwaith Rheoli Risg drafft.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Sicrhau bod y Polisi, Strategaeth a Fframwaith Rheoli Risg yn gyfredol ac yn addas i'r diben.

**172** **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Economi ac Adfywio ynghylch Adroddiad Blynyddol y Fforwm Mynediad Lleol gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**
Nodwyd yr adroddiad a'r adborth o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus.

**173** **Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Cabinet**
Dim.

**174** **Agenda Atodol - Cyllid a Chaffael - Asesiad Effaith Integredig ar gyfer Eitem 12**
Ystyriwyd yr eitem o dan eitem 163.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2024**

**Cadeirydd:________________**

**Dyddiad:__________________**

## CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **19 Mawrth 2024** |
| **Teitl:** | **Adroddiad yr ymgynghoriad ynghylch y cynnig i ddiwygio cyfrwng iaith y Dysgu Sylfaen a derbyn disgyblion 3 oed yn rhan amser yn Ysgol Gynradd Cei Newydd** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Pwrpas yr adroddiad yw rhoi cyfle i'r Cabinet ystyried adroddiad yr ymgynghoriad a chymeradwyo cyhoeddi'r hysbysiad statudol** |
| **Er:** | **Penderfyniad** |

**Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:**
**Y Cynghorydd Wyn Thomas, Aelod Cabinet dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**

**Cyflwyniad**

Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol rhwng 15 Medi 2023 a 17 Tachwedd 2023 ynghylch y cynnig i ddiwygio cyfrwng iaith y Dysgu Sylfaen a derbyn disgyblion 3 oed yn rhan amser.

Derbyniwyd cyfanswm o 10 ymateb yn ystod yr ymgynghoriad, ac roedd 6 o'r rhain yn cefnogi'r cynnig.

Yn dilyn cyhoeddi'r dogfennau statudol, mae adroddiad yr ymgynghoriad ynghlwm sy'n cynnwys y canlynol:

- Crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymgyngoreion.
- Ymateb yr Awdurdod Lleol ar ffurf eglurhad o'r pryderon a godwyd gyda rhesymau ategol.
- Ymateb Estyn i'r ymgynghoriad.
- Ymateb yr Awdurdod Lleol i adroddiad Estyn.

**Atodiad A**

Adroddiad yr ymgynghoriad gan gynnwys safbwyntiau'r Cyngor Ysgol

**Atodiad B**

Ymateb Estyn i'r cynnig

**Atodiad C**

Hysbysiad Statudol

Os bydd y Cabinet yn cymeradwyo'r cynnig, yna mae'n rhaid ei gyhoeddi ar ffurf hysbysiad statudol.

Rhaid cyhoeddi'r hysbysiad statudol ar ddiwrnod ysgol ac mae'n rhaid i bawb sydd eisiau gwrthwynebu cynnig ynghylch trefniadaeth ysgolion gael cyfle i wneud hynny, yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Er mwyn cael eu hystyried fel gwrthwynebiadau statudol, mae'n rhaid i'r gwrthwynebiadau gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig neu mewn e-bost a'u hanfon i'r Awdurdod Lleol cyn pen cyfnod o 28 diwrnod a fydd yn dechrau ar y diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad.

**Atodiad D**

Yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori.

**<u>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:</u>**
**A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam.**

Cwblhawyd Asesiadau Effaith ar y Gymuned, yr Iaith Gymraeg, a Chydraddoldeb fel rhan o'r ymgynghoriad statudol- [asesiadau-effaith-statudol-cei-newydd.pdf](asesiadau-effaith-statudol-cei-newydd.pdf)

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**
**Hirdymor:** Sicrhau cynaliadwyedd hirdymor addysg yn y gymuned a sicrhau bod gan y gymuned ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu. Rhoi cyfle i ddisgyblion gyfrannu tuag at y targed a bennwyd gan Lywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.
**Cydweithio:** Cynhaliwyd trafodaethau â'r Corff Llywodraethol wrth ddatblygu'r cynnig. Gwneir y penderfyniad terfynol gan y Cabinet. Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys llawer o ymgysylltu a chyswllt gyda disgyblion, staff, Llywodraethwyr a'r gymuned.
**Cynnwys:** Bu'r cynnig yn destun ymgynghoriad statudol ffurfiol a oedd yn cynnwys ymgysylltu wedi'i dargedu â rhanddeiliaid.
**Atal:** Ymatebir i bryderon a godir drwy ymgysylltu clir a pharhaus â rhanddeiliaid a phartneriaid drwy gydol y cyfnod cynllunio ac ymgynghori.
**Integreiddio:** Mae'r Gymraeg yn ganolog i waith Cyngor Sir Ceredigion a'i amcanion strategol. Mae integreiddio cymunedol yn ganolog i bob ysgol, gan greu amgylchedd sy'n cefnogi diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg. Rhagwelir na fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith negyddol.

**<u>Argymhelliad / Argymhellion:</u>**
**Gofynnir i'r Aelodau ystyried y canlynol:**

1. **Nodi cynnwys yr adroddiad ymgynghori.**
2. **Cymeradwyo cyhoeddi'r hysbysiad statudol.**

**<u>Rhesymau dros y penderfyniad:</u>**
**Er mwyn cymeradwyo'r ddogfen ymateb i'r ymgynghoriad a chyhoeddi'r hysbysiad statudol yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion – 011/2018**

**<u>Trosolwg a Chraffu:</u>**
Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu – 30 Mawrth 2023

**Fframwaith Polisi:**
Cod Trefniadaeth Ysgolion – Cod Statudol Llywodraeth Cymru – 011/2018
Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg – 2022 -2032

**Amcanion Llesiant Corfforaethol:**
Darparu'r Dechrau Gorau Mewn Bywyd a Galluogi Pobl o Bob Oed i Ddysgu

**Goblygiadau Cyllid a Chaffael:**
Bydd angen cyllid ar gyfer athro meithrin 0.5 FTE ychwanegol

**Goblygiadau Cyfreithiol:**
Amherthnasol

**Goblygiadau Staffio:**
Athro meithrin 0.5 FTE ychwanegol

**Goblygiadau o ran Eiddo / Asedau:**
Amherthnasol

**Risg(iau):**
Methu â chyflawni canlyniadau CYSGA 2022-32 os na chaiff y cynnig ei gymeradwyo.

**Pwerau Statudol:**
Cod Trefniadaeth Ysgolion – Cod Statudol Llywodraeth Cymru– 011/2018

**Papurau Cefndir:**
Amherthnasol

**Atodiadau:**
Atodiad A – Adroddiad yr ymgynghoriad gan gynnwys safbwyntiau'r Cyngor Ysgol
Atodiad B – Ymateb Estyn i'r cynnig
Atodiad C – Hysbysiad Statudol
Atodiad D – Yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:**
Clive Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion

**Swyddog Adrodd:**
Clive Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion

**Dyddiad:**
12 Mawrth 2024

## Atodiad A

Adroddiad Ymgynghori sy'n cynnwys y sylwadau a fynegwyd gan y Cyngor Ysgol

**Ymateb Cyngor Sir Ceredigion i Ymgynghoriad Ysgol Cei Newydd.**

**Sylwadau o blaid**

| Sylw a Dderbyniwyd | Ymateb y Cyngor Sir |
|---|---|
| Bydd y newid yn cynyddu medrau dwyieithog disgyblion ac yn sicrhau cyfleoedd ehangach iddynt yn y dyfodol. | Nodwyd y sylw cefnogol |
| Bydd yn cynyddu dewis yn hytrach na lleihau dewis, a fydd yn caniatáu i ddisgyblion gyfrannu at Gymru amlieithog. | Yn cytuno – mae bod yn gwbl ddwyieithog yn cynyddu dewis yn hytrach na lleihau dewis. |
| Trochi yw'r unig ffordd o ddod yn rhugl ac mi fydd yn darparu cyfleoedd a sgiliau. | Nodwyd y sylw cefnogol |
| Mae hyn yn cefnogi diwylliant lleol ac yn annog dysgwyr i aros yn yr ardal. | Mae cadw pobl ifanc yn yr ardal yn flaenoriaeth sirol ac mae'n cydfynd â Strategaeth Gorfforaethol Ceredigion 2022-2027 a Chynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-2028. |
| Mae hyn yn cefnogi'r nodau o ran y Gymraeg. | Nodwyd y sylw cefnogol |
| Angen cyllid priodol er mwyn llwyddo. | Bydd cyllid ar ffurf grant y Gymraeg a chymorth wedi'i ddarparu gan Athrawon Datblygu'r Gymraeg yn cael ei neilltuo i gefnogi'r cynnig. |
| Cymorth i rieni. | Bydd y gwersi Cymraeg ar gyfer rhieni'n parhau fel rhan o'r bartneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Bydd adnoddau'n dal i gael eu rhannu â rhieni drwy blatfformau'r cyfryngau cymdeithasol ac ar wefan yr ysgol. |
| Defnydd o ddulliau addysgu cyfoes ac eang, e.e. celfyddydau creadigol a mynegiannol. | Nodwyd y sylw |
| Dylai'r Cyngor ystyried llwybr dysgu Cymraeg o oedran cyn-ysgol i'r 6ed dosbarth gyda dysgu galwedigaethol. | Nodwyd y sylw |
| Ail-eirio ar gyfer pob plentyn meithrin / tair oed | Nodwyd y sylw |
| Cynnig ffrwd cyfrwng Cymraeg ym Mhenglais ac uned drochi hwyr yno. | Nodwyd yr awgrym |
| Cymorth ar gyfer yr ysgolion pontio hyn. | Bydd y cymorth yn barhaus a chyson yn unol â'r cynlluniau datblygu. |
| Cefnogaeth lwyr i'r cynllun. | Nodwyd y sylw cefnogol. |

| | |
|---|---|
| Ffigurau cyflogadwyedd Prifysgol Aberystwyth yn dangos bod myfyrwyr sy'n medru'r Gymraeg ac wedi astudio trwy'r Gymraeg yn fwy tebygol o fod mewn gwaith lefel raddedig neu astudiaethau ôl-raddedig 6 mis ar ôl graddio na myfyrwyr sy'n medru'r Gymraeg ond heb astudio trwy'r Gymraeg, a myfyrwyr sydd ddim yn medru'r Gymraeg. | Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd yn ddiddorol a nodwyd y ffeithiau. |
| Mae'r cynllun yn sicrhau tegwch ieithyddol | Nodwyd y sylw |
| Cam cychwynnol ddylai hwn fod a dylid ystyried symud gweddill yr ysgol ar hyd y continwwm | Bydd dilyniant ieithyddol yn flaenoriaeth wrth i'r disgyblion symud drwy'r ysgol. |
| Mae'r achos o safbwynt cefnogi datblygiad ieithyddol ac addysgiadol disgyblion y dyfodol yn un hollol gadarn | Nodwyd y sylw cefnogol. |
| Yn yr ysgolion hynny lle cynigir ychwanegiad o ddosbarth meithrin, gallwn ond canmol y cam hwn. Gwyddom o brofiad ar draws Cymru bod cychwyn ein plant yn gynnar yn yr ysgol yn rhoi'r sail ieithyddol orau iddynt ac y mae taith at ddwyieithrwydd, ac i nifer, amlieithrwydd, tipyn yn haws yn ifanc iawn. Y mae ychwanegu dosbarth meithrin hefyd yn cynorthwyo hyfywedd y dosbarth derbyn ac yn ei sgil yr ysgol gyfan, gan fod y dosbarth meithrin yn bwydo'r derbyn yn naturiol. Yn ieithyddol, dyma yw cryfder mwyaf cychwyn yn y dosbarth meithrin, mae'r dilyniant yn naturiol i'r plentyn ac yn wir o fantais i rieni/gofalwyr i ymgartrefu mewn cymuned ysgol yn gynharach. Tybed a oes angen ffactora cynorthwyydd dysgu i'r gyllideb ar gyfer yr ysgolion hyn ond ffactora hefyd yr un aelod staff cynorthwyol at fuddiannau'r cynlluniau yn ogystal? | Nodwyd y sylwadau. Mae cyllid wedi'i neilltuo ar gyfer athro 0.5. Bydd yr ysgol yn gallu defnyddio'r cyllid yn y ffordd fwyaf effeithiol i gwrdd ag amgylchiadau'r ysgol, sy'n newid yn barhaus. |

## Sylwadau yn erbyn y cynnig

| Sylw a Dderbyniwyd | Ymateb y Cyngor Sir |
|---|---|
| Byddai'r cynnig hwn yn cael effaith sylweddol ar nifer y disgyblion yn y lleoliad meithrin ac mae'r ysgol eisoes yn llawn.<br><br>Pryderon ynghylch lleoli'r dosbarth meithrin yn yr ysgol am nad oes gan yr ysgol ddigon o le ar gyfer ystafell ddosbarth ychwanegol a mi fyddai llai o staff. | Mae CYBLD 2023 yn nodi bod nifer y disgyblion ar y gofrestr yn 83 a bod gan yr ysgol le ar gyfer 98 o ddisgyblion. Felly nid yw'r ysgol wedi cyrraedd ei chapasiti llawn. |
| Fel lleoliad, rydym yn darparu'r gymuned leol â gofal plant llawn amser fel rhan o oriau addysg, y cynnig 30 awr, Dechrau'n Deg, a'r clwb gwyliau, gyda'r cyfan hyn yn ased gwerthfawr i rieni sy'n gweithio. Byddai colli'r cyllid addysg yn cael effaith andwyol ar y lleoliad a fyddai mewn perygl o gau. | Bydd cyllid ar gyfer gofal cofleidiol yn cael ei ariannu o hyd gan Gynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru, ac mae'r lleoliad yn elwa yn sgil ymestyn cynnig gofal plant Dechrau'n Deg ar gyfer plant dwy oed o Ebrill 2023. |
| Mae dysgu Cymraeg yn y cyfnod sylfaen yn dda, ond dim ond babanod yw plant 3 oed mewn gwirionedd, ac mae hyn yn esgus arall i gwtogi ar gyllid meithrin a chyllid i rieni, gan roi pwysau ychwanegol ar ysgolion, gyda'r holl gwtogi ar gyllid. | Gweler uchod. |
| Rydym ni, fel CMCN, eisoes yn cynnig darpariaeth Gymraeg o safon uchel. Nid ydym yn deall y bwriad na'r angen i fynd ag oriau addysgol oddi ar y Cylch?!!!!!<br>Mae'r rhan fwyaf o'r hyn sydd yn y cynnig o ran y ddarpariaeth i blant yn cael ei wneud yn barod yma yn y Cylch. Rydym yn cynnig darpariaeth feithrin arbenigol, adnoddau a chyfleoedd yn Gymraeg.<br><br>Yn y ddogfen asesiadau effaith statudol nodir: "Bydd darpariaeth Feithrin o fewn yr ysgol yn sicrhau bod disgyblion 3 oed yn medru mynychu'r ysgol yn rhan amser ac | Rydym yn cydnabod safon uchel yr addysg yn y Cylch.<br>Fodd bynnag, nod Egwyddor Graidd 1.2.4 y ddogfen Egwyddorion Sicrhau Seilwaith Addysg Cynaliadwy (Cabinet, Mai 2023) yw 'parhau i ddatblygu'r ddarpariaeth addysg ar gyfer rhai 3 oed mewn ysgolion fel bo'n briodol'. Bydd hyn, yn unol â'r ddogfen uchod, yn helpu i sicrhau dyfodol y ddarpariaeth addysg gynradd yn yr ardal.<br><br>Rydym yn cydnabod bod ambell i her yn gysylltiedig â safle Ysgol Cei Newydd mewn perthynas a'i ehangu i gynnig darpariaeth feithrin. Byddwn yn ymgymryd â gwaith |

| | |
|---|---|
| yn cynyddu nifer y disgyblion sydd yn mynychu'r ysgol."<br>Hoffwn ofyn sut mae cynyddu nifer y disgyblion yn yr ysgol yn ffactor sydd angen ystyriaeth wrth benderfynu symud yr addysg gynnar o'r Cylch Meithrin i'r ysgol. Os symudir addysg plant 3 oed i'r ysgol nid oes unrhyw sicrwydd y bydd y Cylch yn medru parhau i gynnig gofal cofleidiol i'r plant fydd yn yr ysgol yn rhan amser. Byddai angen i'r Cylch Meithrin ystyried cynaliadwyedd y Cylch, y gost o benodi staff ychwanegol a'r effaith o golli'r gyllideb 3 oed ar y Cylch. | dichonoldeb pellach i nodi'r opsiynau mwyaf effeithiol. |
| Nid ydym wedi bod yn rhan o'r ymgynghoriad.<br><br>Nid yw ein barn ar y ddarpariaeth wedi'i hystyried, nac effaith y cynnig ar ein lleoliad. | Cafodd yr ymgynghoriad ei ledaenu'n eang yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Mae aelodau Fforwm CSCA yn cynnwys cynrychiolaeth o'r sector Blynyddoedd Cynnar.<br><br>Mae'r Atodiad i'r ymgynghoriad yn amlinellu effaith y cynnig ar y lleoliad. |
| Mae cyllid ALl wedi galluogi'r lleoliad i ddatblygu adnoddau awyr agored a dan do i ddiwallu anghenion y dysgwyr. Mi fyddai'n golled mawr, o ran arian ac adnoddau, pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen. | Byddai'r adnoddau'n cael eu cadw gan y lleoliad i'w defnyddio ar gyfer y ddarpariaeth gofal plant a gynigir. |
| Mae'r cynnig yn dweud y byddai gofal cofleidiol yn cael ei ddarparu gan y lleoliad. Pryderon diogelwch o ran sut fyddai staff/rhieni'n cludo plant yn ddiogel yn ôl i'r lleoliad, yn sgil ffordd brysur a dim pafin (darperir tystiolaeth ffotograffig).<br><br>Hefyd, oherwydd y pellter rhwng yr Ysgol a'r Cylch, a'r ffaith bod y llwybr cerdded sy'n cysylltu lleoliad y Cylch gyda'r ysgol yn anaddas i hebrwng plant mewn grwpiau rhwng y ddau leoliad, mi fyddai angen | Cyfrifoldeb y rhieni yw cludo eu plant yn ôl ac ymlaen o unrhyw leoliad a ddewisir ganddynt. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod y llwybr rhwng y ddau leoliad yn un heriol. |

| | |
|---|---|
| ystyried sut byddai modd sicrhau diogelwch y plant cyn medru cynnig y gwasanaeth pwysig hwn. | |
| Pe bai'r lleoliad yn cau o ganlyniad i'r cynnig, pryderon ynghylch colli swyddi staff presennol heb y ffynhonnell incwm sylweddol hon.<br><br>Hefyd mi fyddai angen hyfforddiant ar unrhyw staff ysgol newydd, lle mae holl staff y lleoliad wedi'u hyfforddi'n llawn ac i safon uwch yn barod (darperir rhestr). | Rhaid i'r holl staff addysgu feddu ar Gymhwyster Athro Cymwysedig a bod wedi'u cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg.<br>Byddai'r awdurdod yn darparu cyllid ychwanegol ar gyfer athro 0.5.<br>Pe bai'r ysgol yn hysbysebu am staff cymorth, gallai staff y lleoliad presennol ymgeisio am unrhyw swyddi o'r fath petaent yn dymuno. Bydd yr ysgol yn dilyn prosesau recriwtio diogel CSC wrth benodi staff. Mae cyfleoedd a chymorth Datblygiad Proffesiynol ar gael i holl staff yr ysgol. |
| Byddai'r cynnig i dynnu arian addysg plant 3 oed o'r gwasanaeth yn gam all effeithio'n enfawr ar y gwasanaeth a gynigir i'r teuluoedd, a byddai hefyd yn cael effaith ar gynaladwyedd a dyfodol y ddarpariaeth. Gall y cam hwn achosi i'r gymuned golli gwasanaeth pwysig yn yr ardal. | Nodwyd eich sylw. Bydd y gwasanaeth gofal a gynigir o fantais mawr i'r gymuned leol. |
| Mae'r plant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sy'n mynychu'r Cylch yn derbyn cymorth ychwanegol gan Gynllun Cyfeirio Ceredigion yn gynnar iawn yn eu bywyd ac yn elwa'n enfawr drwy dderbyn cefnogaeth gan y cynllun ac unigolion proffesiynol o fewn y sir. Mae staff y Cylch yn deall anghenion plant unigol ac yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol drwy hyfforddiant parhaol. Nid yw'r gwasanaeth hwn ar gael i'r ysgolion. | Mae'r sir wedi ymrwymo i sicrhau na fydd hyn yn broblem drwy ei chynllun datblygu ADY.<br><br>-Cynllunio plentyn-ganolog ar waith a byddwn yn cynllunio i gwrdd ag anghenion y disgybl unigol. Mae gweithredu ADY o 0-25 yn sicrhau adnabyddiaeth gynnar, cyn oed ysgol. Mae hyn yn rhoi cyfle i gynllunio darpariaeth ac ymyrraeth briodol cyn i'r disgybl ddechrau yn yr ysgol. Bydd modd hyfforddi ac uwch-sgilio staff cyn i'r disgybl ddechrau yn yr ysgol.<br>- Pob adnodd cefnogi ADY yn cael ei ddarparu'n ddwyieithog (Canolfan Athrawon, hyfforddiant, rhaglenni ymyrraeth, llawlyfr, templedi, ac adnoddau cyfathrebu). Felly bydd pob adnodd cefnogi ar gael yn ddwyieithog.<br>- Mi fydd ALTE lefel 3 ac uwch yn ofynnol ar gyfer pob penodiad newydd. Os nad yw hyn yn bosibl mi fydd yn rhaid cael |

| | |
|---|---|
| | ymrwymiad i ddysgu Cymraeg o fewn dwy flynedd o'r penodiad.<br>- Bydd y Cyngor yn darparu hyfforddiant Cymraeg ar gyfer pob aelod staff yn dilyn eu penodiad, yn ôl yr angen.<br>- Bydd y Cyngor yn darparu hyfforddiant gloywi iaith pellach i fireinio sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol yn ôl yr angen. |
| Yn y ddogfen gwybodaeth atodol o dan y pennawd "I ba raddau y bydd y cynnig yn integreiddio addysg blynyddoedd cynnar â gwasanaethau gofal plant……… dywedir – "Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, mi fydd gan rieni ddewis, sef bod eu plentyn yn aros yn y lleoliad nas cynhelir, neu'n mynychu'r ddarpariaeth feithrin yn yr ysgol yn rhan-amser."<br>Ydy hyn yn golygu y byddai gan y rhieni ddewis o ran ble i anfon eu plant ar gyfer derbyn darpariaeth addysg gynnar? A fyddai'r Ysgol a'r Cylch Meithrin yn cynnig y gwasanaeth hwn? Nid yw'n glir ac ychydig yn gamarweiniol oherwydd gall y darllenwr ei ddehongli mewn ffyrdd gwahanol, ac felly ymateb i'r ymgynghoriad heb wybod yr ystyr cywir. | Nid yw addysg yn statudol nes bod plant yn cyrraedd 5 oed. Fodd bynnag, os cymeradwyir y cynnig, oherwydd sefyllfa unigryw Cei Newydd o ran lleoliadau'r Cylch a'r Ysgol, byddwn yn cynnal astudiaeth ddichonoldeb ychwanegol er mwyn dod o hyd i ateb synhwyrol.<br><br>Ymddiheurwn am unrhyw ddryswch. |

**Ymateb Estyn.**

| **Sylw a Dderbyniwyd** | **Ymateb y Sir** |
|---|---|
| Eglurhad pellach ar effaith y cynllun o fewn meysydd megis addysgu, safonau disgyblion, arweinyddiaeth a rheolaeth. | Bydd yr effaith ar y meysydd a nodir yn cael ei fonitro fel rhan o brosesau hunanwerthuso a sicrhau ansawdd yr ysgol. Mae parhau i ddatblygu darpariaeth a safonau Cymraeg yr ysgol wedi'i nodi fel blaenoriaeth o fewn cynllun datblygu'r ysgol. |
| Nid yw'r Cyngor yn nodi a oes yna leoliadau nas cynhelir yn yr ardal leol ai peidio, a ph'un ai y gallai'r lleoliadau hyn gael eu heffeithio gan y cynnig hwn. | Ychwanegwyd atodiad at yr ymgynghoriad a oedd yn mynd i'r afael â'r pwynt hwn a chafodd yr ymgynghoriad ei ymestyn am gyfnod o bythefnos. |
| Hyfforddiant staff | Mae cydweithio positif a chyd-ddealltwriaeth o flaenoriaethau'r CSCA gyda'r Cynllun Cymraeg Sabothol wedi golygu bod mwy o leoedd ar gael ar gyrsiau |

| | |
|---|---|
| | addas/gofynnol. Gwnaed defnydd effeithiol hefyd o grant Trochi LlC i ddatblygu sgiliau Cymraeg staff cymorth. |
| Sut fydd y cymorth ychwanegol posib ar gyfer disgyblion gydag ADY yn cael ei ddarparu pan fydd Cymraeg yn dod yn iaith gyfartal o ran y ddarpariaeth. | Mae'r sir wedi ymrwymo i sicrhau na fydd hyn yn broblem drwy ei chynllun datblygu ADY.<br><br>-Cynllunio plentyn-ganolog ar waith a byddwn yn cynllunio i gwrdd ag anghenion y disgybl unigol. Mae gweithredu ADY o 0-25 yn sicrhau adnabyddiaeth gynnar, cyn oed ysgol. Mae hyn yn rhoi cyfle i gynllunio darpariaeth ac ymyrraeth briodol cyn i'r disgybl ddechrau yn yr ysgol. Bydd modd hyfforddi ac uwch-sgilio staff cyn i'r disgybl ddechrau yn yr ysgol.<br>- Pob adnodd cefnogi ADY yn cael ei ddarparu'n ddwyieithog (Canolfan Athrawon, hyfforddiant, rhaglenni ymyrraeth, llawlyfr, templedi, ac adnoddau cyfathrebu). Felly bydd pob adnodd cefnogi ar gael yn ddwyieithog.<br>- Mi fydd ALTE lefel 3 ac uwch yn ofynnol ar gyfer pob penodiad newydd. Os nad yw hyn yn bosibl mi fydd yn rhaid cael ymrwymiad i ddysgu Cymraeg o fewn dwy flynedd o'r penodiad.<br>- Bydd y Cyngor yn darparu hyfforddiant Cymraeg ar gyfer pob aelod staff yn dilyn eu penodiad, yn ôl yr angen.<br>- Bydd y Cyngor yn darparu hyfforddiant gloywi iaith pellach i fireinio sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol yn ôl yr angen. |
| Nid yw'r cynnig yn nodi faint o leoedd meithrin fydd yn cael eu darparu yn Ysgol Gynradd Cei Newydd, p'un ai oes lle i'r disgyblion hyn, a sut allai hyn effeithio ar yr ysgol yn gyffredinol. | Mae CYBLD lonawr 2023 yn cadarnhau bod lle i 98 o ddisgyblion yn yr ysgol, a bod y nifer ar y gofrestr yn 83. Y nifer o ddisgyblion sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd yw 79 ac erbyn Medi 2024 mi fydd y nifer wedi gostwng i 68. Mae'r niferoedd cyn derbyn yn awgrymu bod yna bosibilrwydd o 8 o ddisgyblion oed Derbyn, ynghyd â 5 disgybl oed meithrin, yn dibynnu ar ganlyniad y cynnig. |
| Does dim ymrwymiad i ddarparu cymorth ariannol i'r ysgol i ryddhau staff ar gyfer cynlluniau Sabothol a hyfforddiant penodol. | Mae grant Cymraeg mewn Addysg wedi'i ddyrannu i bob ysgol T2, ochr yn ochr â defnydd o'r Grant Trochi i ryddhau staff a |

| | |
|---|---|
| | darparu hyfforddiant priodol. Telir y costau cyflenwi gan gynllun Sabothol LlC a darperir cymorth dilynol gan Dîm Datblygu'r Gymraeg. |
| Nid yw'r cynnig yn nodi a oes gan yr ysgol ddigon o le a darpariaeth awyr agored i gwrdd ag anghenion disgyblion 3 oed. | Nodwyd y sylw. Mae'r ysgol eisoes yn amserlennu'r ardal awyr agored sydd ar gael ar gyfer amseroedd chwarae, ac yn gwneud y mwyaf o'r ardal sydd ar gael i helpu'r disgyblion ieuengaf i ddysgu yn yr awyr agored. |

**Cyngor Ysgol Cei Newydd (6)**

1. Pawb yn deall y cynnig – roedd un aelod wedi trafod y cynnig gartref gyda rhiant am ei bod hi'n gweithio yn y Feithrinfa leol.
2. Pob disgybl (6/6) yn cytuno ei bod hi'n bwysig bod yn ddwyieithog ac y byddai dysgu Cymraeg yn eu helpu i gyfathrebu o fewn eu cymunedau, yn ogystal â helpu gyda'u gyrfaoedd yn y dyfodol. Roeddent hefyd yn meddwl gorau po fwyaf o ieithoedd rydych chi'n dysgu.
3. Gwersi Cymraeg, Dathlu diwrnodau arbennig megis Shwmae Sumae, Eisteddfod Gŵyl Dewi, Eisteddfod yr Urdd, Pwyllgor Cewri Cei, Gwasanaethau, Gwobrwyo am siarad Cymraeg.
4. Pawb yn cytuno bod siarad Cymraeg yn bwysig i'r rhai sy'n byw yng Nghymru a hanner yr aelodau'n meddwl y byddent yn debygol o aros yng Nghymru i weithio yn y dyfodol.
5. 5/6 yn cytuno gyda'r cynnig y dylai disgyblion Cyfnod Sylfaen dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg, gydag un disgybl yn meddwl y byddai'n well iddynt ddysgu Saesneg nes eu bod yn 4 oed ac yna cyflwyno Cymraeg. Roedd hanner y disgyblion yn meddwl bod derbyn disgyblion Meithrin 3 oed yn rhan amser yn syniad da. Roedd y tri arall yn poeni am y canlynol:
    - y byddai swyddi'n cael eu colli yn y Feithrinfa bresennol, oedd ddim yn cael ei rhedeg gan yr ysgol
    - na fyddai digon o le yn yr ysgol bresennol ar gyfer y disgyblion Meithrin ychwanegol
    - y byddai'n golygu mwy o waith i'r staff presennol. Esboniwyd petai disgyblion rhan amser yn cael eu derbyn i'r Feithrinfa, yna byddai aelod staff ychwanegol yn cael ei benodi.

**Atodiad B**

Ymateb Estyn

**Ymateb Estyn i'r cynnig i ddiwygio cyfrwng iaith dysgu sylfaen a derbyn plant 3 blwydd oed i Ysgol Gynradd Ceinewydd**

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig. Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr a gwybodaeth ychwanegol arall fel data gan Lywodraeth Cymru a barn y Consortia Rhanbarthol sy'n cyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion i'r ysgolion yn y cynnig.

**Crynodeb/Casgliad**

Mae Estyn yn cydnabod y symudiadau cadarnhaol y mae'r awdurdod lleol yn eu cynnig i ddatblygu'r Gymraeg mewn ysgolion yn yr ardal. Fodd bynnag, nid oes gennym ddigon o wybodaeth i roi sylwadau ar effaith y cynllun heb fwy o eglurhad mewn meysydd, fel effaith y cynnig ar addysgu, safonau disgyblion, arweinyddiaeth a rheolaeth.

**Disgrifiad a manteision**

Mae'r cynigiwr wedi cynnig rhesymeg addas ar gyfer yr ymgynghoriad, gan amlinellu'r rhesymau i'r cynnig ddiwygio cyfrwng iaith dysgu sylfaen a derbyn plant 3 blwydd oed i Ysgol Gynradd Ceinewydd yn rhan-amser. Maent hefyd wedi cyflwyno rhesymeg briodol sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA).

Mae'r awdurdod lleol wedi darparu disgrifiad priodol o fanwl o'r cynnig ac amserlen arfaethedig ar gyfer gweithredu. Nod yr amserlen yw galluogi staff yn Ysgol Gynradd Ceinewydd i adeiladu'n systematig ar gaffaeliad disgyblion o ran y Gymraeg dros gyfnod o bedair blynedd.

Mae'r awdurdod lleol wedi amlinellu ystod o fanteision ac anfanteision y cynnig hwn yn briodol. Prif fantais y cynnig hwn yw sicrhau mwy o degwch a chysondeb ieithyddol ledled y sir. Mae hefyd yn bodloni dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru fel bod disgyblion yn hyderus yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan felly greu dinasyddion dwyieithog. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn nodi p'un a oes lleoliadau nas cynhelir yn yr ardal leol, a ph'un a allai'r lleoliadau hyn gael eu heffeithio gan y cynnig hwn.

Mae'r cynigiwr wedi amlinellu nifer o risgiau ynghylch goblygiadau hyfforddi aelodau staff i safon a fydd yn eu galluogi i gynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu medrau Cymraeg. Maent wedi mynegi pryder na fydd y cynllun Cymraeg sabothol efallai yn bodloni'r galw. Maent wedi nodi y bydd set medrau staff sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd yn cael ei defnyddio'n llawn. Fodd bynnag, nid yw'r cynigiwr wedi cyflwyno camau lliniaru addas yn erbyn y risgiau posibl hyn.

Mae'r Cyngor wedi cydnabod y gallai'r newidiadau hyn fod yn fwy heriol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'n nodi y bydd yn ceisio sicrhau bod pob cam ymarferol yn cael ei gymryd i sicrhau cyn lleied o darfu ag y bo modd. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn mynd i'r afael â sut i ddiwallu'r angen posibl am gymorth ychwanegol fydd ei angen ar ddisgyblion ag ADY, efallai, pan fydd y Gymraeg yn dod yn iaith gyfartal o ran darpariaeth.

Mae'r cynigiwr yn nodi'n deg na fydd unrhyw newid i drefniadau teithio presennol o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn.

Mae'r awdurdod lleol wedi ystyried sut bydd derbyn plant tair blwydd oed yn rhan-amser yn effeithio ar ysgolion eraill yn yr ardal. Mae'r adroddiad yn datgan bod 21 o leoedd meithrin yn Ysgol Gynradd Bro Siôn Cwilt ac nad yw'r data hwn ar gael ar gyfer Ysgol Llanarth. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn nodi faint o leoedd meithrin fydd yn cael eu darparu yn Ysgol Gynradd Ceinewydd, p'un a oes lle ar gyfer y disgyblion hyn a sut gallai hyn effeithio ar yr ysgol yn gyffredinol.

Mae'r awdurdod lleol wedi cynnal asesiad o'r effaith ar y Gymraeg ac yn ystyried y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion hyd at saith mlwydd oed. Maent wedi cwblhau Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned cyn yr ymgynghoriad.

Mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth briodol i oblygiadau ariannol y cynnig hwn. Bydd yr awdurdod lleol yn darparu cyllid i 0.5 athrawes feithrin CALI ar gyfer yr ysgol. Fodd bynnag, nid oes ymrwymiad i ddarparu cymorth ariannol i'r ysgol ryddhau staff ar gyfer cynlluniau sabothol a hyfforddiant penodol.

**Agweddau addysgol ar y cynnig**

Mae'r awdurdod lleol wedi ystyried effaith y cynigion ar ansawdd a safonau a darpariaeth yn rhannol. Mae wedi cynnwys datganiadau ar safonau yn y Gymraeg o arolygiad diweddar Estyn ym mis Mehefin 2023. Mae'r adran hon yn fanwl ac yn amlinellu safonau cyrhaeddiad presennol yn y Gymraeg yn glir. Fodd bynnag, prin y mae'n cyfeirio at effaith bosibl y cynnig ar safonau yn y dyfodol.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried effaith debygol y cynnig ar allu'r ysgol i gyflwyno'r cwricwlwm llawn yn y cyfnod dysgu sylfaen. Mae wedi nodi na ragwelir y bydd y cynnig hwn yn cael effaith negyddol ar eu gallu i gyflwyno'r cwricwlwm mewn ffordd briodol, wahaniaethol, eang ac amrywiol. Fodd bynnag, nid yw'n nodi p'un a oes digon o ofod a darpariaeth awyr agored yn yr ysgol i ddarparu ar gyfer anghenion plant tair blwydd oed.

Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi ystyriaeth glir i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae wedi amlinellu gweithgareddau cydweithio rhwng partneriaid a rhanddeiliaid ac wedi tanlinellu pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau lles.

**Atodiad C**

Rhybudd Statudol

| | |
|---|---|
| **Hysbysiad Statudol i wneud newid a reoleiddir i ysgol gymunedol a gynhelir, ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol neu ysgol feithrin<br>Gan<br>Gyngor Sir Ceredigion, Gwasanaeth Ysgolion, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UE** | **Statutory Notice to make a regulated alteration to a maintained community, foundation, voluntary or nursery school<br>By<br>Ceredigion County Council, Schools Service, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UE** |
| Hysbysir drwy hyn yn unol ag adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Sir Ceredigion, ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynnig newid **Ysgol Gynradd Cei newydd, Cei Newydd, SA45 9TE** *fel y bydd cyfrwng y cyfarwyddid yn y Dysgu Sylfaen yn Gymraeg a derbyn disgyblion 3 oed yn rhan amser.* Cynhelir yr ysgol gan Gyngor Sir Ceredigion. | Notice is given in accordance with section 42 of the School Standards and Organisation Act 2013 and the School Organisation Code that Ceredigion County Council, having consulted such persons as required, proposes to alter **New Quay Primary School, New Quay, SA45 9TE** so *that the language medium in the foundation learning is Welsh and to admit 3-year old pupils on a part time basis*. The school is currently maintained by Ceredigion County Council. |
| Cynhaliodd Cyngor Sir Ceredigion gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion, ymatebion y cynigydd ac ymateb llawn Estyn ar gael ar wefan Cyngor Sir Ceredigion (www.ceredigion.gov.uk). | Ceredigion County Council undertook a period of consultation before deciding to publish this proposal. A consultation report containing a summary of the issues raised by consultees, the proposer's responses and Estyn's full response is available on Ceredigion County Council website (www.Ceredigion.gov.uk). |
| Cynigir gweithredu'r cynnig ar **1 Medi 2024.** | It is proposed to implement the proposal on **1 September 2024** |
| Bydd 14 o leoedd meithrin o fis Medi 2024. Byddai cynnig mynediad rhan amser i addysg yn 3 oed yn ehangu | There will be 14 nursery places from September 2024. Offering access to education at 3 years of age on a part- |

| | |
|---|---|
| cyfleoedd caffael Iaith disgyblion ac yn cyflwyno ecwiti darpariaeth mwy cyson o fewn yr ysgolion hynny sydd wedi eu pennu yn y categori Trosiannol 2*. | time basis expands pupils' language attainment opportunities and provides a more equal and consistent provision within schools that have been placed in the T2 category*. |
| Prif nod y cynnig yw adeiladu ar y dilyniant ieithyddol cyfredol. Mae'r datblygiad yn golygu, erbyn Medi 2024, y byddai polisi addysg cyfrwng Cymraeg ar waith ar draws y Dysgu Sylfaen yn Ysgol Cei Newydd. | The main aim of the proposal is to build on the current linguistic progression. The development means that, by September 2024, there would be a Welsh medium education policy in place across the Foundation Learning at New Quay School. |
| Dyma'r amserlen weithredu: | The implementation timetable will be as follows: |

| **Start date** | **School Year** |
|---|---|
| Medi 2024 | Derbyn disgyblion Meithrin rhan amser am y tro cyntaf |
| Medi 2025 | Derbyn |
| Medi 2026 | Blwyddyn 1 |
| Medi 2027 | Blwyddyn 2 |

| **Start date** | **School Year** |
|---|---|
| Sept 2024 | Admitting part time Nursery pupils for the first time |
| Sept 2025 | Reception |
| Sept 2026 | Year 1 |
| Sept 2027 | Year 2 |

| | |
|---|---|
| Erbyn Medi 2028, byddai'r disgyblion Blwyddyn 3 yr ysgol â sail gadarn yn arbennig ar lafar a byddant yn medru adeiladu ar y sgiliau hynny tra hefyd yn datblygu eu sgiliau a'u haddysg trwy gyfrwng y Saesneg. | By September 2028, the school's Year 3 pupils will have a sound foundation, especially orally, and will be able to build on those skills whilst also developing their skills and education through the medium of English. |
| Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, hynny yw erbyn **5 Mai 2024**. | Within a period of one 28 days of the date on which the proposal was published, that is to say by **5 May 2024** any person may object to the proposals. |
| Dylid anfon gwrthwynebiadau at Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Ysgolion, Cyngor Sir Ceredigion, Gwasanaeth Ysgolion, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Aberystwyth, | Objections should be sent to: Corporate Lead Officer for Schools, Ceredigion County Council, Schools Service, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 |

| | |
|---|---|
| Ceredigion, SY23 3UE neu ebostio: cysgaceinewydd@ceredigion.llyw.cymru | 3UE or email: wespnewquay@ceredigion.gov.uk |
| Llofnodwyd: | Signed: |
| Clive Williams<br>Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Ysgolion<br>Ar ran Cyngor Sir Ceredigion<br>Dyddiad: 8 Ebrill 2024 | Clive Williams<br>Corporate Lead Officer for Schools<br>For Ceredigion County Council<br>Date: 8 April 2024 |
| *https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-12/canllawiau-ar-gategoreiddio-ysgolion-yn-ol-y-ddarpariaeth-cyfrwng-cymraeg.pdf | *https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2021-12/guidance-on-school-categories-according-to-welsh-medium-provision.pdf |

## Atodiad D

Ymatebion a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori

# 17. FFURFLEN YMATEB – YSGOL GYNRADD CEI NEWYDD

Mae'r ffurflen ymateb ganlynol yn caniatáu i randdeiliaid roi sylwadau ar y prif gynnig h.y. diwygio'r Gymraeg yn y Dysgu Sylfaen ynghyd â chaniatau derbyn oedran meithrin rhan amser i'r ysgol.

**SYLWADAU**

Cytunaf yn gryf bod angen y datblygiadau ieithyddol a nodwyd er mwyn cynyddu medrau dwyieithog y disgyblion a sicrhau cyfleoedd ehangach iddynt yn y dyfodol. Mae'r cyfle i gynnig mwy o ddewis iddynt, a chyfrannu at fywyd mewn Cymru aml-ieithog.

| | |
|---|---|
| **Llofnod:** | [redacted] |
| **Printiwch eich Enw:** | |
| **E-bost:** | |
| **Cyfeiriad:** | |
| **Dyddiad:** | 30/10/2023 |

Nodwch os hoffech chi gael gwybod pan fydd yr adroddiad ymgynghori'n cael ei gyhoeddi: ☐

Sylwer, oni bai eich bod yn nodi i'r gwrthwyneb, bydd eich sylwadau ar gael i'r cyhoedd fel rhan o gofnodion ffurfiol yr ymgynghoriad.

Dychweler erbyn **Hydref 30 2023** fan bellaf at:

Ymgynghoriad CSGA, Gwasanaeth Ysgolion, 2il Lawr, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, SY23 3UE

Neu e-bostiwch: cysgaceinewydd@ceredigion.llyw.cymru neu wespnewquay@ceredigion.gov.uk

[redacted]

**From:** [redacted]
**Sent:** 16 November 2023 11:22
**To:** Ceredigion language provision New Quay
**Subject:** Ymateb i'r Ymgynghoriad

You don't often get email [redacted]

Annwyl Gyfeillion,
Diolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad. Carwn ddatgan fy mod yn aelod o Fforwm CSCA Ceredigion ac yn mynychu'r Fforwm fel cynrychiolydd o Brifysgol Aberystwyth. Nid yw'r ymateb hwn yn ddatganiad ar ran y Brifysgol.

Rwy'n gefnogol dros ben i'r cynnig.

Mae dogfennau'r ymgynghoriad wedi eu gosod allan yn glir ac maent yn delio'n dda gyda materion ymarferol sydd ynghlwm â newid o'r fath.

Mae'r achos o safbwynt cefnogi datblygiad ieithyddol ac addysgiadol disgyblion y dyfodol yn un hollol gadarn. Cadarn iawn hefyd yw'r rhesymeg o ran y cynnig fel rhan o amcanion CSCA Ceredigion sydd ei hun yn cefnogi nodau Llwyodaeth Cymru wrth gyflwyno'r Cwricwlwm newydd a Strategaeth Cymraeg 2050.

Yn gywir,
[redacted]

---

Y Brifysgol orau yn y DU am Ansawdd ei Dysgu a Phrofiad Myfyrwyr
Best University in the UK for Teaching Quality and Student Experience
(The Times and Sunday Times, Good University Guide 2021)
Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ateb Saesneg i bob gohebiaeth Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome correspondence in Welsh and English. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and correspondence in English will be answered in English. Corresponding in Welsh will not involve any delay.

[redacted]

**From:** [redacted]
**Sent:** 17 November 2023 15:02
**To:** Ceredigion language provision New Quay
**Subject:** Ymgynghoriad ar Ysgol Gynradd Cei Newydd

Dydych chi ddim yn cael negeseuon e-b[redacted]sgu pam bod hyn yn bwysig

Annwyl Syr / Madam

Carwn i nodi fy mod i'n cefnogi'r cynlluniau i gynnig addysg Gymraeg i ddisgyblion 3-7 oed ac addysg meithrin yn Ysgol Gynradd Cei Newydd. Mae'n ddatblygiad pwysig a fydd yn cefnogi polisi Llywodraeth Cymru o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050. Drwy gydweithio â'r Coleg Cymraeg, mae Prifysgol Aberystwyth wedi ehangu ei darpariaeth Gymraeg yn helaeth dros y 10 mlynedd diwethaf. Mae'r ffigurau cyflogadwyedd yn dangos bod myfyrwyr sy'n medru'r Gymraeg ac wedi astudio yn Gymraeg yn fwy tebygol o fod mewn gwaith lefel raddedig neu astudiaethau ôl-raddedig 6 mis ar ôl graddio na myfyrwyr sy'n medru'r Gymraeg ond heb astudio drwy'r Gymraeg a myfyrwyr sydd ddim yn medru'r Gymraeg. Fodd bynnag, nid ydym ni wedi gweld datblygiadau tebyg mewn addysg Gymraeg yn y sector addysg orfodol yn lleol ac nid oes modd i ganran sylweddol o fyfyrwyr sy'n dod inni o ysgolion Ceredigion fanteisio ar y ddarpariaeth Gymraeg. Mae'r datblygiad hwn yn gam yn y cyfeiriad iawn wrth sicrhau bod bob person ifanc yng Ngheredigion yn gallu manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg o'r ysgol feithrin i'r brifysgol a thu hwnt.

Cofion gorau,

[redacted]

Please write to me in Welsh or English

[redacted]

**From:** [redacted]
**Sent:** 30 November 2023 16:49
**To:** Ceredigion language provision Comins Coch; Ceredigion language provision Plascrug; Ceredigion language provision Llwyny-Yr-Eos; Ceredigion language provision St Padarn
**Subject:** WESP Consultation

[Some people who received this message don't often get e[redacted]rn why this is important at https://aka.ms/LearnAboutSenderIdentification ]

To whom it may concern,

Apologies for the lateness of this email in relation to the consultation on changing the language of teaching at Plascrug, St Padarn's, Comins Coch and Llwyn yr Eos primary schools. I hope you are still taking comments.

As a bilingual Welsh - English speaker who uses both languages daily in my work and social life, I truly appreciate the value of the Welsh language. I moved to the area at the age of 9 and attended a Welsh medium primary school and have been grateful for this opportunity since.
Within my work role, I visit all of the primary schools in the Aberystwyth area on a regular basis to support staff and children.

However, I do not agree with the change of all schools within the Aberystwyth area to Welsh medium in the Foundation Phase. My reasons for this are as follows :

- Many of the families who register their children at the above 4 schools (Plascrug and St Padarn in particular) have moved to the area from different countries across the world. Their home languages vary from Arabic, Polish, Ukrainian, Igbo, Turkish and many others. Often their parents work in the local hospital and are contributing significantly to our local economy. If they do not have the option for an English - medium school for their children, will they move to the area? Or will this put them off doing so? Alongside this, some of these parents do not have English-language skills which allow them to help their children with homework as it is. By changing this to Welsh, you would be adding an additional barrier to this.

- These 4 schools are already incorporating a good level of Welsh into their day to day routines within the classroom, more and more so over the past 2 or so years and many of the children have a good level of basic Welsh by the end of year 1/2 which they can use in basic social interactions and beyond.

-There are excellent, experienced teachers within all of these schools whose level of Welsh language may not be sufficient to teach through it day to day. It is unfair to take quality staff away from children in the earliest, and crucial years of their education because of the language they feel confident teaching in.

- For children with Additional Learning Needs (particularly in relation to language and literacy) whose home language is English / any other language other than Welsh, the priority should be developing of their home language, which they can then build additional language(s) upon, if needed. By adding Welsh into the mix, you do add a layer of complexity and issues arise about which language they should receive Additional Learning Provision through. For children whose home language is Welsh, their parents will send them to one of the many local Welsh-medium primary schools available in the area.

- Choice - the beauty of the current system is that parents have a choice. They can choose whether they want their children to receive their education through the medium of English or Welsh. This, I feel, is a real advantage in our area and families appreciate this.

I hope you can take these points into consideration and that the parents within these schools have had / will have ample opportunity to share their thoughts too, not just in writing but in well-advertised discussion forums, where accessibility is taken into consideration (easy-read information, interpreters etc.)

Yours Sincerely,

[redacted]

[redacted] Clic 20/11/23
To whom it mag concern,
I apologise of this is the incorrect method  to respond to consultations, but there no clear instructions on your website that I could find, so I hope this finds it way to the correct addressee.

In regards the to the proposal to make 5 primary schools Welsh medium, I do not support this and strongly recommend the council reconsider. As an educator for over 10 years in both Welsh and English schools, and as a parent of a three year old who is soon to begin primary school on one of these schools, I am concerned this enforced Welsh language medium will ultimately lead to issues with literacy and oracy skills, which should really be the main educational focus post covid.

I am Welsh, I can speak decent Welsh, but English is my first language and the most widespread language in the world, and still the most broadly spoken language in Wales and Ceredigion specifically. There are more effective ways to encourage children to speak Welsh through second language classes, cultural classes, and bilingual streaming which don't potentially isolate a large population of the students and run the risk of them being left behind because they are being taught through a language they don't know and that will bot be reinforced at home for many.

Furthermore there are very obvious logistical issues - teaching is in a recruitment crisis and to narrow the field of potential educators further has proved to be challenging on multiple schools already. I believe most parents would rather have their children taught by a trained professional who can speak conversational Welsh than an untrained teacher who can speak it fluently. Some jobs simply aren't being filled because there are no fluent Welsh applicants, and so the students are taught by non- specialist supply staff, which is obviously more detrimental to their education than having a bilingual teacher.

I support the need to embrace Welsh culture and encourage the learning of the language, but to enforce it from 3 when their cognitive abilities are still grasping the concepts of language will inevitably leave some students, particularly those with ALN, at a huge disadvantage, which doesn't seem to have be considered at all. I have seen this anecdotally already, with some students coming from English speaking households who are becoming isolated and deteriorating academically  because they are unable to access the content in a lot of subjects - not because they are unintelligent, but because they can't understand. I fundamentally believe that all schools are responsible for ensuring that EVERY student has the chance to reach the potential, and yet the reports seem to spend a great deal of time considering political and financial aspects. Nowhere in the advantages/disadvantages tables does it reference pupils wellbeing or the potential impact on their literacy and oracy0 development.

I doubt my response will be awarded much consideration, but the need to plead this case is one of both personal and professional significance to me.

Please reconsider.

[redacted]

**From:** [redacted]
**Sent:** 02 November 2023 17:00
**To:** [redacted]
**Subject:** Ychydig o Sylwadau Ynglyn At Ysgolion a'r Ddatblygiad Addysg Yng Ngheredigion

You don't often get emai[redacted] why this is important

Annwy[redacted]

Rydw i'n gobeithio mae'r ebost hon yn ffindio chi'n iawn. Diolch yn fawr am i gyd o'r gwaith yr ydych yn ei wneud yng Ngheredigion a gyda'r Cyngor Sir.

Yn gobeithiol, byddwch chi'n hapus i ddarllen ychydig o fy syniadau a sylwaday ynglyn at y sistem addysg yng Ngheredigion. Anfonais i mewn sylwadau yn ystod cyfnod ymgynghoriad y Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg rhyw dwy flynedd nol, ac dwi'n falch i gweld bod y Cyngor wedi neud mwy ne lai popeth nes i awgrymu!

Os mae'n addas, dwi'n moyn cynnig awgrymiadau hyd yn oed mwy eithriadol ar gyfer y ddyfodol - efallai mae nhw'n cael ei ystyried yn barod gan y Cyngor Sir.

Gyda'r amser yn dod ble mae pob plentyn yng Ngheredigion yn graddio o ysgol gynradd gyfrwng Cymraeg gyda Cymraeg rhygl, mae'n diddorol i meddwl am beth byddai'n digwydd ynglyn at addysg Saesneg yn sir.

Fel dwi'n deall, bydd na dim ond un ysgol sy'n addysgu drwy'r gyfrwng y Saesneg yn y sir, sef Ysgol Penglais. Er mwyn normaleiddio'r Cymraeg fel iaith y gymuned, dwi'n moyn awgrymu bod na ffrwd Saesneg yn cael ei sefydlu ynddo fe, a hefyd bod y ffrwd Saesneg yn dechrau yn blwyddyn 9, er mwyn plant sy'n symud i'r sir yn hwyr. Ar gyfer plant sy'n symud i Ceredigion ym mlwyddyn 7 neu 8, fasai'n bosib ddarparu Addysg Drochi Ar Gyfer Hwyrddyfodiaid, fel sy'n digwydd gyda'r Saesneg er mwyn hwyrddyfodiaid i'r sistem addysg y D.U.

Gall y sir gynnig addysg gyfrwng Saesneg er mwyn plant sy'n symud i Ceredigion am 13 oed neu'n hynach, a fyddai'n ffindio'n anodd addasu mor hwyr a ddysgu'r iaith.

Beth ydych chi'n meddwl am y syniad?

Diolch yn fawr iawn a chofion

## 17. FFURFLEN YMATEB – YSGOL GYNRADD CEI NEWYDD

Mae'r ffurflen ymateb ganlynol yn caniatáu i randdeiliaid roi sylwadau ar y prif gynnig h.y. diwygio'r Gymraeg yn y Dysgu Sylfaen ynghyd â chaniatau derbyn oedran meithrin rhan amser i'r ysgol.

Mae [redacted] yn cynnig gwasanaeth gofal ac addysg cyfrwng Gymraeg o safon i deuluoedd a phlant oedran 2-4 oed yn ardal Cei Newydd.

Mae Cylch Meithrin Cei Newydd wedi cofrestru gydag Arolygaeth Gofal Cymru. Mae'r gwasanaeth hefyd yn derbyn cyllid gan Gyngor Sir Ceredigion i gynnig ac i ddarparu addysg plant 3 oed, ac yn dilyn y Cwricwlwm i Gymru (ac felly yn cael eu harolygu gan Estyn yn rheolaidd). Yn ogystal â bod yn ddarparwyr ar gyfer y Cynnig Gofal Plant 30 awr a gwasanaeth gofal Dechrau'n Deg ar gyfer plant 2oed yn yr ardal. Mae'r Cylch hefyd yn cynnal clwb gwyliau yn ystod gwyliau'r haf i deuluoedd lleol. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cydnabod fod y cylch o safon drwy eu hariannu i gynnig yr oll wasanaethau hyn, ac mae hyn yn brawf fod y gymuned yn derbyn addysg a gofal o safon. Mae ymrwymiad y staff cymwysedig, pwyllgor rheoli'r cylch a'r rhieni yn cyfrannu at lwyddiant y cylch.

Byddai'r penderfyniad i dynnu arian addysg plant 3 oed o'r gwasanaeth yn gam all effeithio'n enfawr ar y gwasanaeth a chynigir i'r teuluoedd, hefyd cael effaith a'r cynaladwyedd a dyfodol y ddarpariaeth. Gall y cam hwn achosi'r gymuned i golli gwasanaeth pwysig yr ardal.

Mae'r plant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sy'n mynychu'r cylch yn derbyn cymorth ychwanegol gan Gynllun Cyfeirio Ceredigion yn gynnar iawn yn eu bywyd ac yn elwa'n enfawr drwy dderbyn cefnogaeth gan y cynllun a'r unigolion proffesiynol y sir. Mae staff y cylch yn deall anghenion plant unigol a gyda'r sgiliau angenrheidiol drwy hyfforddiant parhaol. Nid yw'r gwasanaeth hyn ar gael i'r ysgolion.

Yn y ddogfen asesiadau effaith statudol nodir: "Bydd darpariaeth Meithrin o fewn yr ysgol yn sicrhau bod disgyblion 3 oed yn medru mynychu'r ysgol yn rhan amser ac yn cynyddu nifer y disgyblion sydd yn mynychu'r ysgol."

Hoffwn ofyn sut mae cynyddu nifer y disgyblion yn yr ysgol yn ffactor sydd angen ystyriaeth wrth benderfynu symud yr addysg gynnar o'r Cylch Meithrin i'r ysgol. Os symudir yr addysg plant 3 oed i'r ysgol nid oes unrhyw warant fydd y cylch yn medru parhau i gynnig gofal cofleidiol i'r plant fydd yn yr ysgol rhan amser. Byddai angen i'r Cylch Meithrin ystyried cynaliadwyedd y cylch, y gost o benodi staff ychwanegol a'r effaith o golli'r gyllideb arian 3 oed ar y cylch. Hefyd, oherwydd y pellter rhwng yr ysgol a'r cylch a'r ffaith bod y llwybr cerdded sy'n cysylltu lleoliad y Cylch gyda'r ysgol yn anaddas i hebrwng plant mewn grwpiau rhwng y ddau leoliad, fyddai angen ystyried sut byddai modd sicrhau diogelwch y plant cyn medru cynnig y gwasanaeth pwysig hwn.

Hefyd nodir: "Wrth newid cyfrwng iaith yr ysgol hyd at 7 oed a darparu addysg i ddisgyblion 3 oed yn yr ysgol mae'r cynlluniau sydd mewn lle i gefnogi'r cynnig yn rhoi'r cyfle i blant ddysgu a meithrin sgiliau Cymraeg o 3 oed ac yn sicrhau eu bod yn cael cymorth i wneud hynny drwy gydol eu taith addysg."
Mae Cylch Meithrin Cei Newydd yn trochi'r plant yn yr iaith Gymraeg o ddwy oed i fyny. Mae pob gweithgaredd a phrofiad a chynigir yn y cylch drwy'r iaith Gymraeg. Mae'r plant yn derbyn addysg a gofal gan staff sydd a'r sgiliau i drochi'r plant yn yr iaith Gymraeg o'r diwrnod cyntaf un yn y cylch. Mae'r cylch hefyd yn medru cynnig cefnogaeth i'r rhieni i ddysgu'r Gymraeg drwy nifer o gynlluniau Mudiad Meithrin: Sesiynau Clwb Cwtsh a Chamau. Maent hefyd yn darparu gwersi Cymraeg eraill i rieni.

Mae'r Ddogfen Ymgynghorol - Gwybodaeth Atodol yn nodi ac yn cadarnhau'r uchod, sef: bod y Cylch Meithrin yn cynnig gwasanaeth cynhwysfawr ac o safon i'r teuluoedd yn y gymuned, hefyd yn nodi'r golled i'r teuluoedd os fydd y sir yn gweithredu ar y cynnig i ddiwygio cyfrwng iaith addysg cyfnod Sylfaen a derbyn disgyblion 3 oed yn rhan-amser yn ysgol Gynradd Cei Newydd. Mae gwir angen rhoi sylw, ac ystyried yr effaith fydd y cynnig hwn ar wasanaeth y Cylch Meithrin a'r teuluoedd sydd angen gwasanaeth cynhwysfawr sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd gan y cylch, sy'n cynnwys gofal cofleidiol.

Yn y ddogfen gwybodaeth atodol o dan y pennawd "I ba raddau y bydd y cynnig yn integreiddio addysg blynyddoedd cynnar â gwasanaethau gofal plant.........
Dywedir – "Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, mi fydd gan rieni ddewis, sef bod eu plentyn yn aros yn y lleoliad nas cynhelir, neu'n mynychu'r ddarpariaeth feithrin yn yr ysgol yn rhan-amser."
Ydy hyn yn golygu byddai' gan y rhieni dewis ble i anfon eu plant ar gyfer derbyn gwasanaeth addysg gynnar? Byddai'r ysgol a'r Cylch Meithrin yn cynnig y gwasanaeth hwn? Nid yw'n glir ac ychydig yn gamarweiniol oherwydd gall y darllenwr ei ddehongli mewn ffyrdd gwahanol ac felly ymateb i'r ymgynghoriad yn anymwybodol o'r ystyr cywir.

**Llofnod:** [redacted]

**Printiwch eich Enw:** [redacted]

**E-bost:** [redacted]

**Cyfeiriad:** [redacted]

**Dyddiad:** 16/11/2023

Nodwch os hoffech chi gael gwybod pan fydd yr adroddiad ymgynghori'n cael ei gyhoeddi:□v

[redacted]

**From:** [redacted]
**Sent:** 26 September 2023 21:31
**To:** Ceredigion language provision New Quay
**Subject:** Ysgol Cei Newydd

You don't often get email fr[redacted]arn why this is important

Noswaith dda,

New Quay Town Council has concerns
that the provision of 3-11 school in New Quay would significantly impact on the pupils numbers in the Ysgol Feithrin and Ysgol Cei Newydd was already at capacity.

Diolch
[redacted]

# PRIMARY SCHOOL

The following feedback form allows stakeholders to comment on the proposal i.e amend language medium of the Foundation Learning and to admit 3-year-old pupils on a part-time basis.

**COMMENT:**

i think teaching welsh in the foundation phase is good. but 3 year olds are still babies and just another excuse to cut nursery and parent funding and put extra pressure on schools with all the funding cuts

| | |
|---|---|
| **Signature:** | [redacted] |
| **Print your Name:** | [redacted] |
| **E-mail:** | |
| **Address:** | |
| **Date:** | |

Please indicate if you would like to be notified when the consultation report is published: ☐

Please note, unless you state otherwise, that your comments will be available to the public as part of the formal records of the consultation.

Return by 30 October 2023 at the latest to:

WESP Consultation, Ceredigion County Council, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, SY23 3UE

Or e-mail: cysgaceinewydd@ceredigion.llyw.cymru or wespnewquay@ceredigion.gov.uk

Ymateb e-bost i'r ymgynghoriad

[redacted]ysgol:

Sefydlwyd Cylch Meithrin Cei Newydd dros hanner can mlynedd yn ôl, ac mae'n aelod Mudiad Meithrin. Ar hyn o bryd rydym ar agor 5 diwrnod yr wythnos, o 9yb tan 3yp, ac rydym yn darparu gofal plant ac addysg i blant o ddwy oed hyd at oed addysg llawn amser. Rydym yn lleoliad anstatudol a ariannir, sy'n darparu addysg gynnar i blant 3 oed yn dilyn y Cwricwlwm I Gymru, yn ogystal â gweithredu fel lleoliad Dechrau'n Deg, yn darparu gofal cynnar a chyfleoedd dysgu i blant o fod yn 2 oed. Yn ddiweddar, daethom yn ddarparwyr y Cynnig Gofal Plant, gan alluogi rhieni i gael mynediad at 30 awr o ofal plant a ariannir. Darperir hyn oll drwy'r Gymraeg. Rydym wedi'n cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac Estyn, sy'n arolygu'r Cylch Meithrin yn rheolaidd. Yn ogystal, ehangwyd y gwasanaeth yn ddiweddar i ddarparu gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol. Rydym yn cyflogi 4 aelod staff llawn amser, yn ogystal â staff achlysurol. Rydym yn cadw at reoliadau AGC a'r gymhareb o 1 aelod staff:8 plentyn 3 oed, a 1 aelod staff:4 plentyn 2 oed.

Fel Cylch Meithrin a lleolir yng Nghei Newydd, rydym eisoes yn cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg o safon. Ni allwn ddeall y rheswm tu ôl i ddiddymu oriau addysg y cylch – nid ydym yn deall pam wnaed y penderfyniad hwn?!!!

Mae deilliant 1 y cynnig, bod "Rhagor o blant meithrin/3 oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg" yn ffeithiol anghywir am ein bod yn lleoliad sy'n siarad Cymraeg sy'n defnyddio'r dull trochi i ddarparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, dan arweiniad staff cymwys sy'n siarad Cymraeg. Câi'r plant eu trochi yn y Gymraeg o fod yn 2 flwydd o oed.

Fel cylch, rydym EISOES YN CYNNIG y rhan fwyaf o'r hwn y byddai'r cynnig yn ei ddarparu i blant!!!!!

Nid ydym wedi cael ein cynnwys yn y trafodaethau a arweiniodd at yr ymgynghoriad hwn; ni roddwyd ystyriaeth i'n safbwyntiau na'n ddarpariaeth, nac ychwaith fu unrhyw ystyriaeth o effaith y cynnig ar ein lleoliad. Ni ystyriwyd dyfodol y Cylch Meithrin gan y datganiad effaith a pharatowyd gan Gyngor Sir Ceredigion.

Rydym yn lleoliad blynyddoedd cynnar sefydledig sy'n cynnig rhyddid i'r plant symud o'r tu mewn i'r tu allan yn rhwydd, gan gwrdd â'u hanghenion yn amser nhw eu hunain. Rydym yn cynnig mynediad rhwydd a digonedd o le, sydd yn aml yn helpu gydag ymddygiad gan fod plant yn rhydd i ryddhau egni fel y mynnent. Mae gan blant Cylch Meithrin Cei Newydd fynediad at gyrtiau tennis, cae pêl droed, y goedwig, y traeth, ac ati. Mae gennym ni ddigon o staff i ganiatáu hyn. Pe symudir y dosbarth meithrin i'r ysgol, a fydd y gymhareb o staff i blant yn effeithiol? A fydd y plant yn colli'r cyfloedd hyn ac yn cael llai o brofiadau o ganlyniad?

Mae'r cylch yn darparu gofal plant llawn amser i'r gymuned leol, o ddydd Llun i ddydd Gwener, yn ogystal â'r oriau addysg, y cynnig plant 30 awr, Dechrau'n Deg a chlwb gwyliau. Mae'r cyfan o werth mawr i rieni sy'n gweithio. Rydym yn gweithio'n agos â'r gymuned leol a thîm blynyddoedd cynnar y cyngor a Mudiad Meithrin i sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg o'r ansawdd uchaf. Oherwydd ystod ein cynnig, mae gennym niferoedd da yn mynychu ac rydym yn gynaliadwy. Byddai colli'r cyllid addysg yn cael effaith andwyol ar y cylch. Nid yn unig y byddem yn colli cyllid y Cyfnod Sylfaen, ond hefyd mae yna bosibiliad y byddem yn colli'r cyfle i ddarparu'r Cynnig Gofal Plant 30 awr a ariannir.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae'r cyngor wedi rhoi dros £65,000 o gyllid i'r cylch, ac mae hwn wedi ein galluogi i ddarparu ystod o gyfleoedd, y tu mewn ac yn yr awyr agored. Mae'r Cylch Meithrin yn meddu ar ystod o adnoddau/gweithgareddau i'n galluogi i gwrdd â holl anghenion a diddordebau'r plant, a theimlwn fyddai bwrw ymlaen a'r cynnig yn arwain at arian ac adnoddau yn cael eu gwastraffu.

Rydym hefyd yn bryderus ynghylch ble fydd y dosbarth Meithrin yn yr ysgol. A fydd yr ysgol gynradd yn medru darparu gofod, adnoddau a chyfleoedd digonol i'r plant, ac a fydden nhw'n derbyn yr un lefel o gefnogaeth gan staff gymwys?

Rydym yn bryderus ynghylch gallu'r Cylch Meithrin i ddarparu gofal cofleidiol i'r plant fyddai'n mynychu'r ysgol yn rhan amser. Sut fyddai'r rheini/staff yn cludo'r plant yn ddiogel yn ôl i'r Cylch Meithrin? Nid oes palmentydd ar y daith yn ôl i'r caban, ac mae'r ffyrdd yn brysur ac yn gul. Eto, mae hyn yn codi pryderon ynghylch diogelwch. Efallai bydd y rhieni sy'n gweithio'n lleol yn medru codi eu plant o'r ysgol ar ddiwedd y sesiwn ysgol a'u cludo i'r caban; ond bydd y rhai sy'n dibynnu ar y gofal dydd llawn a darperir gan y Cylch Meithrin yn colli'r gwasanaeth hwn, a gall hynny arwain at broblemau iddynt wrth weithio, neu orfod defnyddio gwasanaeth gwahanol y tu allan i ardal Cei Newydd.

Pe bai'r cynnig yn cael ei roi ar waith mae'n bosib y bydd staff presennol Cylch Meithrin Cei Newydd yn colli'u swyddi neu bydd angen i'r cylch gau gan na fydd gennym nifer digonol o blant yn mynychu i gynnal y lefel angenrheidiol o incwm sydd ei angen ar y cylch.

Os na fydd y nifer o blant 2 oed yn mynychu'r cylch yn ddigonol i alluogi'r Cylch Meithrin i aros yn gynaliadwy gall hynny arwain at golled y gwasanaeth hwnnw hefyd, a bydd yn golygu na fydd yna ddarparwyr Dechrau'n Deg yn yr ardal. Mae hyn hefyd yn peri'r cwestiwn, beth ddigwyddith i'r Cylch Meithrin ei hun - y caban a'r ardal tu allan a'r holl adnoddau gwerthfawr sydd gennym?

Mae Cylch Meithrin Cei Newydd yn croesawu pob plentyn gwaeth be fo'i anghenion, a chyfeirir plant at y Cynllun Cyfeirio os oes angen cefnogaeth ychwanegol arnyn nhw. Rydym hefyd yn gweithio'n agos â'r Therapyddion Llefaredd ac Iaith, Ymwelwyr Iechyd, Dechrau'n Deg, Prif Swyddog ADY, a nifer o fudiadau eraill i sicrhau bod plant yn derbyn y gefnogaeth sydd angen arnyn nhw pan maen nhw ei angen.

Mae staff Cylch Meithrin Cei Newydd wedi eu cymhwyso'n llawn, i'r safonau uchaf. Dyma restr o'r hyfforddiant a chymwysterau a deilir gan staff Cylch Meithrin Cei Newydd:

Cymwysterau Staff

- Lefel 5 – Uwch Ymarferydd
- Lefel 3 – Diploma
- Lefel 3 – Trawsnewid i Waith Chwarae

Hyfforddiant ar y Cwricwlwm ac Addysg Gynnar

- Deall y Cwricwlwm I Gymru
- Cynllunio yn y Foment
- Hyfforddiant ar Sgemâu
- Dysgu trwy'r Dirwedd
- Dysgu Proffesiynol Cyfnod Sylfaen
- Jabadao
- Gwaith Coed

- Y Dull Trochi Iaith
- Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg
- Camau

Hyfforddiant Gorfodol Statudol

- Diogelu Lefel 2
- Diogelu Plant ac Oedolion Lefel 1
- Y Ddyletswydd Atal
- Cymorth Cyntaf
- Hylendid Bwyd Lefel 2
- Alergedd ac Anoddefedd Bwyd
- Trin â Llaw
- Iechyd a Diogelwch
- Rheoli Risg
- Gweithdrefnau Traws-heintio ac Addysg Iechyd Deintyddol

Cefnogi Plant ag ADY a Datblygiad Ieithyddol

- Elklan – hyfforddiant Llefaredd ac Iaith
- Anghenion Dysgu Ychwanegol (hyfforddiant ADY)
- Iaith a Chwarae
- Rhyngweithiad Dwys
- Hyfforddiant arwyddo 'Sign Along'
- Hyfforddiant Ymlyniad Wellcomm
- Hyfforddiant 'Incredible Years'
- Hyfforddiant craidd SEND i'r blynyddoedd cynnar
- Addysgu Tîm
- Deall Awtistiaeth
- Dysgu gydag Awtistiaeth – blynyddoedd cynnar
- Ymwybyddiaeth ASD
- Awtistiaeth - Deall Cyfathrebu Effeithiol
- Profiadau Plentyndod Cynnar Niweidiol
- Trawma yn y Blynyddoedd Cynnar
- Deall Syndrom Tourette

Hyfforddiant ar Ddiogelu Plant ac Oedolion sy'n Agored i Niwed

- Sut i hyrwyddo cymhwysedd cymdeithasol ac emosiynol plant
- CCUHP
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Diogelu oedolion rhag troseddau yn erbyn pobl sy'n agored i niwed

Fel y gallwch ddychmygu, rydym yn bryderus iawn ynghylch y cynnig hwn, a'r effaith gaiff ar y Cylch Meithrin a'r gymuned leol. Edrychwn ymlaen at eich ymateb i'n pryderon.

Cofion gorau,

[redacted]

Consultation Email Response

[redacted] school reorganization document:

We as a Cylch Meithrin based in Cei Newydd are already providing a high-quality Welsh speaking provision. We cannot understand why the need to remove educational hours from the Cylch has been made or understood?!!!!!

On the proposal outcome 1: "More nursery/ three-year-old children being educated through the medium of Welsh" is factually incorrect as we are a Welsh speaking setting, providing a Welsh education through the immersion method, carried out by highly qualified Welsh speaking staff. As we take children from 2 years old, the 2-year-olds also get immersed in the Welsh language. If the proposal was to go ahead, and we were to close, those 2-year-old children would likely be at home with parents or grandparents, which in our area are mainly English speaking. This means those children would not start hearing the Welsh language until they start school at 3, therefore, they would miss out on a whole year of the Welsh language.

Most of the proposal in what would be offered to the children, we as a Cylch ALREADY DO!!!!!!!!

We already provide a Welsh specialist nursery provision, resources, and opportunities.

We have not been part of the consultation, our views or the provision have not been considered, or the impact of the proposal on our setting. We are a well-established early year's setting offering free flow, where children decide whether they play inside/outside. Meeting their own needs in their own time. We have open access, plenty of space which often helps with behavior as the children can appropriately release energy. Children at CM Cei Newydd have access to the tennis courts, park, football pitch, the woods, the beach etc. We have sufficient staff to be able to allow this. If the Meithrin class is to be moved to the school, they will have much less staff, meaning these opportunities would not be as possible.

We as a Cylch provide the local community with full-time childcare, Monday to Friday, and are part of the educational hours, 30 hours offer, flying start and holiday club, all of which is a valuable asset to working parents. We work closely with the local community and recvice great support, as well as working with the local council early years team and Mudiad Meithrin, in order to provide a high-quality Welsh speaking provision. Due to all we offer we have good numbers and sustainability. If we were to lose educational funding this would have an adverse impact on the Cylch and would be looking at closure.

In the past two years the local council have provided the Cylch with over £65,000 of funding which has enabled us to offer a range of opportunities, both inside and outside. Both areas are already fully equipped with resources/activities to meet all children's needs and interests and feel this would be a great loss of money and resources if the proposal is to go ahead.

We also have concerns over where the Meithrin class will be in school. As the primary school has insufficient space, no room on the yard for a cabin, and only 4 classrooms currently in the school. The children wouldn't receive the same amount of care/attention as there would be less staff. The proposal also states potential wrap-around care given by us, this raises concerns over how would parents/staff transport the children safely back to Meithrin? As the walk back to the cabin has no pavements and busy, narrow roads. Again, raising concerns over safety.

If the proposal was to go ahead, we would be looking at closure and the loss of jobs for the current staff at CM Cei Newydd as we would not to able to continue without this major source of income. It also raises the question as to what would happen to the Cylch Meithrin? The cabin and outside area, and all the valuable resources we have.

Financially, the council will have to train all the "new" staff, whereas all the staff at CM Cei Newydd are already fully and highly trained. Here is a list of current training and qualifications held by staff at CM Cei Newydd:

- Level 5 – Advanced Practitioner
- Level 3 – Diploma
- Level 3 – Transition to Playwork
- Understanding the Curriculum for Wales
- Planning in the Moment
- Safeguarding Level 2
- Prevent Duty
- First Aid
- Level 2 Food Hygiene
- Elklan – Speech and Language training
- Additional Learning Needs (ALN training)
- FGM
- Early Years SEND core training
- Adverse Childhood Experiences
- Trauma in the Early Years
- How to promote Children's Social and Emotional Competence
- Language and Play
- Intensive Interaction
- Cross Infection Procedures and Dental Health Education
- UNCRC
- Health and Safety
- Manual Handling
- Equality and Diversity
- Risk Management
- Understanding Autism
- Learning with Autism Early Years
- ASD Aware
- Foundation Phase Professional Learning
- Camau
- Jabadao
- Food Allergy and Intolerance
- Safeguarding Children and Adults Level 1
- Welsh Language Awareness
- Autism – Understanding Effective Communication
- VAWDASV
- Ask and Act
- Understanding Tourette Syndrome
- SCaN

- Protecting Individuals at Risk of Vulnerability Crimes
- Wellcomm training
- Incredible Years training
- Language Immersion Method
- Learning through Landscapes
- Team Teach
- Woodworking training
- Sign Along training
- Attachment training
- Schema training

As you can imagine we are extremely concerned over this proposal and the impact it will have on the Cylch Meithrin and the local community. We await your response to our concerns.

Kind regards

[redacted]












PIZZA







[redacted]

**[redacted]iad ar ddiwygio cyfrwng iaith y dysgu sylfaen a derbyn yn Ysgol Gynradd Cei Newydd**

Mae [redacted] yn fudiad sy'n ymgyrchu'n ddi-drais dros y Gymraeg a holl gymunedau Cymru.

Mae [redacted] yn croesawu'r cynnig i newid cyfrwng iaith lefel 1 Ysgol Gynradd Cei Newydd i'r Gymraeg. Mae hyn yn bwysig iawn am y rhesymau canlynol:

- Addysg Gymraeg yw'r unig ffordd o greu siaradwyr Cymraeg hyderus. Ar hyn o bryd mae plant yn Ysgol Gynradd Cei Newydd yn colli cyfleoedd o beidio derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Mater o degwch yw hyn.
- Yn ogystal, yn ôl polisïau Llywodraeth Cymru mae angen newid darpariaeth addysg i fod yn gyfrwng Cymraeg fel rhan o gyfraniad y sir at sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

- Er bod Ceredigion ymhlith y siroedd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg mae'r tri Chyfrifiad diwethaf wedi dangos cwymp yn niferoedd a chanran siaradwyr y sir.
- Gan mai 9% o ddisgyblion Ysgol Gynradd Cei Newydd sy'n siarad Cymraeg gartref, yr ysgol fydd unig gyswllt nifer o blant yr ardal a'u rhieni â'r Gymraeg. Mae addysg Gymraeg yn hanfodol yn yr ardal er mwyn creu siaradwyr Cymraeg.
- Byddai newid iaith y ddarpariaeth hyd at flwyddyn 2 yn gam cychwynnol pwysig tuag at hyn gyrraedd polisïau Llywodraeth Cymru a rhoi'r Gymraeg i holl blant y sir.
- Er hynny, mae'n bwysig nodi mai cam cychwynnol ddylai hyn fod a'n bod yn disgwyl symud gweddill yr ysgol ar hyd y continwwm hefyd.
- Addysg cyfrwng Cymraeg yw'r unig ffordd o sicrhau bod ein bod ifanc yn gadael yr ysgol yn siarad y Gymraeg yn hyderus. Bydd addysg cyfrwng Gymraeg hyd at flwyddyn 2 yn sail dda i adeiladu arno felly, ond er mwyn datblygu eu sgiliau Cymraeg mae angen i blant barhau i dderbyn addysg Gymraeg.
- Mae angen newid cyfrwng addysg yr holl ysgol er mwyn galluogi disgyblion i barhau ag addysg cyfrwng Cymraeg.

- Ymhellach, mae ysgolion eraill dalgylch Ysgol Uwchradd Aberaeron yn dysgu trwy'r Gymraeg yn barod. Mae'r sefyllfa anarferol yn Ysgol Cei Newydd yn creu problemau yn Ysgol Uwchradd Aberaeron o ran iaith addysg ac o ran cynnal ethos Gymraeg yn yr ysgol.

- Dylid dechrau ar y gwaith o symud ysgol Aberaeron at fod yn ysgol Gymraeg hefyd. Petai'r cyngor yn penderfynu symud yr ysgol gynradd gyfan at fod yn ysgol Gymraeg byddai holl ysgolion y dalgylch yn ysgolion cyfrwng Cymraeg ymhen saith mlynedd.

- Mae angen dirfawr am siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion a Chymru yn gyffredinol er mwyn cynnal gwasanaethau cyhoeddus cyfrwng Cymraeg. Mae'r cyngor sir ei hun ac awdurdodau a sefydliadau eraill yn cael trafferth recriwtio siaradwyr Cymraeg, felly byddai cynhyrchu mwy o siaradwyr rhugl ac hyderus yn helpu'n fawr gyda hyn.

Mae'n glir i ni bod angen symud holl ysgolion y sir ar hyd y continwwm ieithyddol at fod yn gyfrwng Cymraeg.
Felly mae [redacted] yn cefnogi'r cynigion i newid iaith Dysgu Sylfaen Ysgol Gynradd Cei Newydd at fod yn Gymraeg yn gryf ac am weld polisïau'n cael eu llunio'n fuan i gefnogi dilyniant a sicrhau bod disgyblion yn hyderus i barhau a'u haddysg trwy'r Gymraeg hyd at 18 oed.
Yn benodol, dylid sicrhau bod blwyddyn 3-6 yn gyfrwng Cymraeg o fewn 3 blynedd o gyflwyno'r newidiadau a newid Ysgol Uwchradd Aberaeron yn gyfrwng Cymraeg llwyr o fewn 7 mlynedd o gyflwyno'r newidiadau gan y bydd pob ysgol sy'n ei fwydo'n ysgolion cyfrwng Cymraeg.

[redacted]
Tachwedd 2023

[redacted]

**ar y**

**Cynnig i ddiwygio cyfrwng Iaith Dysgu Sylfaen y 5 ysgol a ganlyn; Ysgol Gynradd Cei Newydd, Ysgol Gynradd Comins Coch, Ysgol Gynradd Plascrug, Ysgol Gynradd Llwyn yr Eos ac Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant a newid oed derbyn disgyblion i gynnwys disgyblion 3 oed rhan amser mewn 3 o'r ysgolion hynny, sef Ysgol Cei Newydd, Ysgol Comins Coch ac Ysgol Gatholig Padarn Sant.**

**15 Tachwedd 2023**

1. Dymuna [redacted]ddiolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn gan Gyngor Cyngor Sir Ceredigion.

   Y mae cyfundrefn gynllunio addysg Gymraeg trwy'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn addysg yn gorfod bod yn rhan graidd o gynllunio darpariaeth addysg pob Awdurdod Lleol. Ers Medi 2022, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi bod yn gweithredu cynllun newydd a gytunwyd gan Lywodraeth Cymru..

   Cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr fedru caffael y Gymraeg fel eu bod yn medru ei defnyddio'n rhwydd yw sail uchelgais Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr ac y mae dogfen gynllunio addysg Gymraeg y Llywodraeth ei hun yn nodi

   *"Mae Cymraeg 2050 yn glir mai trochi cyfrwng Cymraeg - sef lle mae cyfrwng yr addysgu a'r dysgu yn cael ei gyflwyno'n gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg - yw'r model mwyaf dibynadwy ar gyfer creu siaradwyr Cymraeg gyda'r sgiliau a'r hyder i ddefnyddio'r iaith yn gyfforddus yn eu bywydau bob dydd."*

   *(Tudalen3: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-02/canllawiau-gynlluniau-strategol-cymraeg-addysg.pdf)*

2. Sylweddolwn faint y gwaith a ddaw wrth aildrefnu ysgolion yn yr [illegible] ac yn wir y mae Sir fel Ceredigion yn cynnig her ychwanegol gyda'i natur ddaearyddol faith a gwledig. Y mae [redacted]wedi ein calonogi gan awydd y Sir i drawsnewid addysg yn y blynyddoedd cynnar i gael ei gyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg. Gyda gweithredu'r cynlluniau 10 mlynedd y mae cyfle gwirioneddol i wneud gwahaniaeth i hygyrchedd Addysg Gymraeg o fewn Sir Ceredigion i fwy o blant a da yw gweld bod y sir wedi cychwyn gweithredu yn

gynnar yn y cylch newydd er mwyn sicrhau gwireddu'r uchelgais hon cyn gynted ag y bo modd.

3. Yn hytrach nag ymateb i ymgynghoriad pob ysgol yn unigol, cyfeirir ein hymateb at bob ysgol sydd yn rhan o'r ymgynghoriad hwn, gan fod pob un wedi eu nodi fel ysgolion Categori Trosiannol 2, gyda'r bwriad i gyfrwng dysgu bob un symud y dysgu Sylfaen i'r Gymraeg yn raddol fesul blwyddyn.

4. Mae sicrhau profiad trochi ieithyddol gyflawn i ddisgyblion yn hanfodol wrth iddynt gaffael iaith sydd nid o reidrwydd yn iaith y cartref. Mae bod mewn amgylchedd lle mae'r Gymraeg yn brif gyfrwng yr addysgu a'r hamdden, yn cynyddu'r cyfleoedd hynny'n sylweddol i sicrhau profiad trochi llawn a dwy iaith o leiaf o oedran cynnar iawn. Mae'r cynnig hwn felly'n gam allweddol i sicrhau gwell cyfleoedd i fwy o blant y sir gaffael y Gymraeg a'r Saesneg o oed cynnar.

5. Yn yr ysgolion hynny lle cynigir ychwanegiad o ddosbarth meithrin, gallwn ond canmol y cam hwn. Gwyddwn o brofiad ar draws Cymru bod cychwyn ein plant yn gynnar yn yr ysgol yn rhoi'r sail ieithyddol orau iddynt ac y mae taith at ddwyieithrwydd, ac i nifer, amlieithrwydd, tipyn yn haws yn ifanc iawn. Y mae ychwanegu dosbarth meithrin hefyd yn cynorthwyo hyfywedd y dosbarth derbyn ac yn ei sgil yr ysgol gyfan, gan fod y dosbarth meithrin yn bwydo'r derbyn yn naturiol. Yn ieithyddol, dyma yw cryfder mwyaf cychwyn yn y dosbarth meithrin, mae'r dilyniant yn naturiol i'r plentyn ac yn wir o fantais i rieni/gofalwyr i ymgartrefu mewn cymuned ysgol yn gynharach. Tybed a oes angen ffactora cynorthwyydd dysgu i'r gyllideb ar gyfer yr ysgolion hyn ond ffactora hefyd yr un aelod o staff cynorthwyol i fuddion y cynlluniau hefyd?

6. Mae gan y weithred o ymgynghori'r cyfrifoldeb i fesur yr effaith ar nifer o wahanol agweddau yn cynnwys y Gymraeg a hyn ar gychwyn y broses o ymgynghori. Rhaid i Awdurdod Lleol ddangos eu bod yn llwyr ymwybodol o'r effeithiau o weithredu cynllun a fydd yn cael effaith ar gynlluniau addysg Gymraeg ac yn wir ar y gymuned ehangach. Yr ydym yn gweld bod y sir wedi creu astudiaethau effaith gofalus a thrwyadl. Tybed a fyddai cyfeiriad wedi gallu bod at fewnfudwyr a'r gefnogaeth ieithyddol ar eu cyfer hwy yn rhan o'r asesu effaith hwn fel bod cynllun clir ar sut y gellid cefnogi pawb a ddaw i fyw i'r cymunedau hyn yn y strwythurau newydd.

7. Rhaid i ni bwysleisio bod newid wedi bod yn ysbryd y CSCAu ers y weithdrefn newydd. Nid system o ymateb i'r galw am addysg Gymraeg dylai fod mwyach ond creu'r galw a symbylu twf. Rhaid i hyn ddigwydd mewn modd rhagweithiol gyda chynllunio bwriadus yn amlwg. Yn achos Ceredigion, rydych yn gwneud gosodiad cadarn am gyfrwng iaith addysg y sir yn yr ysgolion hyn ac ar y daith i wireddu'ch dyhead i bob plentyn gael y cyfle gorau i gaffael dwy iaith o leiaf. Mae hyn i'w ganmol yn fawr.

8. Byddai wedi bod o fudd i weld pa ddarpariaethau gofal plant neu gylchoedd meithrin a'u cyfrwng sydd yn nalgylch pob ysgol. Gwyddwn fod darpariaeth gofal cyn ysgol a'r gallu i deuluoedd dderbyn gofal cofleidiol yn hanfodol i ddewis rhieni. Mae hygyrchedd darpariaeth Gymraeg di-dor, a'r llwybr yr un mor glir i addysg Gymraeg yn hanfodol.

9. Byddai wedi bod yn dda hefyd i weld y cyfleoedd sydd ar gael i blant drosglwyddo i ysgolion cyfrwng Cymraeg petai rhieni'n dymuno hynny. Pa ddarpariaeth sydd ar gael ar gyfer trochwyr hwyr neu fewnfudwyr?

10. Pa gefnogaeth a roddir i ddisgyblion Cymraeg fel Iaith ychwanegol (WAL) sydd yn dod i'r gymuned heb y Gymraeg a'r Saesneg?

11. Nodir yn adran 2.1 Canllawiau ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru:

*Yr egwyddor o beidio a symud yn ôl*
*Un o'r egwyddorion craidd wrth gyflwyno'r trefniadau newydd yw na ddylai ysgolion gynnig llai o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol nag a wnaed yn y gorffennol. Rydym am sicrhau bod dysgwyr yn cael cymaint o gyfleoedd â phosibl i ddefnyddio eu Cymraeg mewn cymaint o gyd-destunau gwahanol â phosibl yn ystod y diwrnod ysgol. Bydd hyn yn golygu ein bod yn rhoi'r cyfle gorau i'n dysgwyr ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus, sy'n gallu defnyddio'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd.*

Pa gefnogaeth fydd ar gael i ysgolion i sicrhau hyn, i gynnal hyn ac yn fwy na hynny i gefnogi symud pellach ar hyn y continwwm i ysgolion petai corff llyworaethol yn dymuno hyn i'r ysgol? Wrth sefydlu sail ieithyddol gadarn i ysgol, y mae'r momentwm i ddysgu mwy yn debygol o ddatblygu'n naturiol. Pa gymorth ffurfiol fydd ar gael i'r ysgolion hyn fwrw ati felly?

**Cytunwn** felly gyda'r cynnig i'r newid hwn ym mhob un o'r ysgolion a ymgynghorir arnynt gan edrych ymlaen at sicrhau bod y daith drosiannol yn un sydd yn y pendraw yn sicrhau deilliannau ieithyddol cwbl ddwyieithog o leiaf i blant yr ysgolion hyn ac yn wir i holl blant Ceredigion yn y pendraw.

Byddwn yn barod i drafod ein hymateb gyda swyddogion a chynghorwyr Cyngor Sir Ceredigion ar unrhyw amser cyfleus fel arfer.

Yn ddiffuant,

[redacted]

Eitem Agenda 9

**CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL**

**Adroddiad i'r:** **Cabinet**

**Dyddiad y cyfarfod:** **19 Mawrth 2024**

**Teitl:** **Bwriad i werthu asedau**

**Pwrpas yr adroddiad:** **Cael cymeradwyaeth i werthu dau ased Cyngor Sir Ceredigion.**

**Am:** **Penderfyniad**

**Portffolio'r Cabinet ac Aelod Cabinet:**
**Y Cynghorydd Clive Davies, Aelod Cabinet ar gyfer yr Economi ac Adfywio**

**Cyflwyniad**

Mae nifer o asedau'r Cyngor wrthi'n cael eu hadolygu drwy'r Grŵp Datblygu, gyda chyngor oddi wrth y Panel Rheoli Asedau. Mae asedau nad oes ar y Cyngor mo'u hangen mwyach (e.e. asedau gwag neu asedau sydd wedi cyrraedd diwedd eu defnyddioldeb i wasanaethau'r Cyngor) yn cael eu hadolygu yn ôl cyfres o feini prawf, gan gynnwys potensial yr ased i fod o werth yn y ffyrdd canlynol:

- Cydweddu â'r Blaenoriaethau Corfforaethol.
- Cydweddu â'r Blaenoriaethau Economaidd (fel y'u nodir yn y Strategaeth Economaidd).
- Strategaeth Ariannol Tymor Canolig Cyngor Sir Ceredigion.
- Cyfleoedd - cyllid allanol, diddordeb yn y farchnad ac ati.
- Bod ystod o opsiynau posib yn hyfyw, gan gynnwys cael gwared ar yr ased.

Pan argymhellir bod ased yn cael ei werthu, mae'r canlynol yn cael eu hystyried:

- y gall unrhyw gyfle i Gyngor Sir Ceredigion ddatblygu fod yn gyfyngedig o ran ei enillion.
- a oes cyfleoedd/ diddordeb amlwg yn y farchnad.
- nad oes digon o adnoddau i gyflawni'r potensial i ddatblygu, hyd yn oed os oes cyfle ar gael.

**Asedau a argymhellir ar gyfer gwaredu**

Mae asesiadau'n mynd rhagddynt ar amrywiaeth o asedau. Mae'r asedau canlynol wedi cael eu hasesu gan y panel a chyflwynwyd adroddiad i'r Grŵp Datblygu yn argymell eu gwerthu, fel y nodir isod:

**i. Tir ac Adeiladau Gerddi Derwen, Adpar**

Cyfeirnod – Atodiad 1, sy'n nodi'r rhesymeg dros yr argymhelliad i waredu'r ased yn y farchnad agored fel pecyn cyflawn o lotiau.

Er y byddai cyfle i'r Cyngor ymgymryd â rhywfaint o'r gwaith datblygu safle, byddai'r enillion ariannol, yn ein barn ni, yn ymylol, a mae adnoddau'r tîm yn cael eu ffocysu ar asedau strategol eraill ar draws y Sir. Yn y cyfamser, mae'r ased hwn yn debygol o olygu'n gynyddol mwy o wariant refeniw i'r Cyngor mewn cynnal a chadw ac atgyweirio.

**Amcangyfrif gwerth - £525,000 - £700,000**

Cynigir bod yr ased yn cael ei werthu ar y farchnad agored, gan sicrhau bod pob ymdrech yn cael ei wneud i ehangu sylw i'r broses werthu i sicrhau'r gwerth mwyaf posibl.

**ii. Garej Glyndwr Road, Aberystwyth**

Cyfeirnod - Atodiad 2, sy'n nodi'r rhesymeg dros argymhelliad i werthu'r ased ar y farchnad agored.

Mae'r eiddo wedi bod yn destun trwydded flynyddol ers 2003 gyda 28 diwrnod o rybudd ar gyfer defnydd penodol ar gyfer garej domestig. Mae'r drwydded ar hyn o bryd gyda busnes milfeddygol cyfagos. Gwerth presennol y drwydded yw £800 / blwyddyn ar sail defnydd domestig. Mae'r ased hwn wedi'i gadw a'i ddiogelu oherwydd agosrwydd datblygiad Tesco cyfagos gan y gallai fod wedi bod yn bwynt mynediad posibl. Mae'r datblygiad cyfagos bellach wedi'i gwblhau, felly nid oes angen yr ased at y dibenion hyn bellach. Mae angen gwaith nawr er mwyn i'r elfennau allanol godi i'r safon (amcangyfrif cost tua £5,000-£10,000).

Mae'r milfeddygfa wedi cysylltu â'r Tîm Asedau i brynu'r garej. Ar sail y gwerth rhent posibl, mae'r ased wedi'i brisio **ar oddeutu £30,000**. Mae gwerth ychwanegol posibl o £5,000 oherwydd cyswllt uniongyrchol gydag eiddo arall.

Mi fydd y gwasanaeth yn sicrhau bod deiliaid y drwydded presennol yn cael gwybod am y bwriad o werthu o flaen llaw.

**<u>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:</u>**
**A oes asesiad effaith integredig wedi'i gwblhau? Os na, nodwch pam, os gwelwch yn dda.**

Mae'r gwerthiant a argymhellir o'r ased yn rhan o raglen ehangach i ddatblygu asedau, sy'n edrych yn gyffredinol ar y portffolio o asedau sydd gan Gyngor Sir Ceredigion a'u gwerth i'r Cyngor o ran eu defnydd presennol. Mae unrhyw asedau a argymhellir i'w gwaredu wedi cael eu hystyried yn rhai nad sydd eu hangen ar y Cyngor i gyflawni ei amcanion Corfforaethol.

O'r herwydd, nid yw'r weithred hon yn effeithio ar drigolion a busnesau yng Ngheredigion yn gyffredinol, ond bydd y camau gweithredu a argymhellir yn cynhyrchu derbyniadau cyfalaf a fydd yn cefnogi rhaglen gyfalaf Cyngor Sir Ceredigion.

**Crynodeb o Asesiad Effaith Integredig:**
**Hirdymor:** AMH
**Cydweithio:** AMH
**Cyfranogiad:** AMH

**Ataliad:** AMH
**Integreiddiad:** AMH

**Argymhelliad(au):**
**Bod y Cabinet yn cymeradwyo mewn egwyddor y penderfyniad i werthu'r asedau canlynol:**
1) **Tir ac Adeiladau Gerddi Derwen, Adpar**
2) **Garej Glyndwr Road, Aberystwyth**

**Rhesymau dros y penderfyniad:**
**Cynhyrchu derbyniadau cyfalaf o asedau dros ben.**

**Trosolwg a Chraffu:**
Nid yw'r penderfyniad i werthu'r asedau penodol hyn wedi cael ei drafod yn y Pwyllgor Craffu Adnoddau Corfforaethol, fodd bynnag, mae perfformiad y Cyngor wrth wneud y defnydd gorau o'i asedau yn cael ei graffu gan y Pwyllgor Craffu Adnoddau Corfforaethol ac yn cael ei oruchwylio gan y Grŵp Datblygu.

**Fframwaith Polisi:**
Strategaeth Gorfforaethol 2022-27

**Amcanion Llesiant Corfforaethol:**
Bydd y derbyniadau cyfalaf a gynhyrchir yn cyfrannu at gyflawni pob un o bedwar Amcan Llesiant y Cyngor. Yn enwedig, bydd yn helpu i gyflawni'r amcan o ddarparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi pobl o bob oed i ddysgu, gan y bydd y derbyniadau cyfalaf a gynhyrchir o werthu'r hen ysgolion yn cyfrannu at y rhaglen gwella ysgolion.

**Goblygiadau Cyllid a Chaffael:**
Cynhyrchu derbyniadau cyfalaf

**Goblygiadau cyfreithiol:**
Bydd y broses werthu yn dilyn y gweithdrefnau gofynnol trwy sicrhau bod y gwerthiant yn dilyn proses agored.

**Goblygiadau staffio:**
Bydd y tîm Asedau yn ymgymryd â'r gwerthiant. Nid oes rhagor o oblygiadau staffio Hirdymor

**Goblygiadau eiddo / asedau:**
Bydd y gwerthiannau yn arwain at dderbyn cyfalaf o'r asedau ac yn lleihau atebolrwydd y Cyngor i gynnal a chadw'r asedau

**Risg(au):**
Mae risgiau i'r Cyngor o fethu â gwireddu potensial llawn yr asedau ar y farchnad, ac felly o gynhyrchu derbyniadau cyfalaf is na'r disgwyl ar gyfer yr ased. Yn y tymor hir, byddai hyn yn arwain at y risg o fethu â lleihau rhwymedigaethau ariannol yr asedau segur.

**Pwerau Statudol:**
Mae gan y Cyngor bwerau statudol i werthu ei asedau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol

1972 ac i gael gwared ar dir ym mha bynnag ffordd y dymuna, ar yr amod nad yw'n gwaredu am bris sy’n llai na’i werth.

**Papurau Cefndir:**
Dim

**Atodiadau:**
Atodiad 1- Tir ac Adeiladau Gerddi Derwen, Adpar
Atodiad 2- Garej Glyndwr Road, Aberystwyth

*(Mae'r atodiad yn darparu gwybodaeth y gofrestrfa tir am yr asedau sy'n cael eu hargymell i'w gwerthu)*

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:**
Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio

**Swyddog Adrodd:**
Arwyn Davies, Rheolwr Corfforaethol: Twf a Menter

**Dyddiad:**
7/3/24

**Atodiad 1**

# Dichonoldeb Safle

## PAD 001 Tir ac Adeiladau Gerddi Derwen Adpar







**Y SAFLE / CYNLLUNIAU**






**Prif awdur: Graeme Lane**

**Dyddiad - Ionawr 2024**

# ARFARNIAD RISG BUSNES AR Y SAFLE

## MANYLION SAFLE

| | |
|---|---|
| **Enw'r safle:** | **Tir ac Adeiladau, Gerddi Derwen, Adpar,** |
| **Cymysgedd Eiddo:** | **Swyddfeydd a Siopau gyda thir 1000m$^2$ 0.25 erw a maes parcio 220m$^2$**<br>**Hen iard a siopau 700m$^2$ 0.2 erw**<br>**Tir 5,500m$^2$ 1.33 erw** |
| **Ystyriaethau cyllid** | **Ardrethi busnes £7222/blwyddyn**<br>**Ardrethi busnes £3424 y flwyddyn**<br>**Ardrethi Busnes £2141/blwyddyn Cyfanswm £12,793/flwyddyn**<br>**Cynnal a Chadw Blynyddol** |
| **Cefnogaeth polisi** | **Dyraniad Tai yn y CDLl** |

## ADRAN 1 – Asesiad Cynaliadwyedd y Cynllun

| | **Dangosydd Risg** | **Sgôr (1-5)** | **Sylw Rheolwr Datblygu** |
|---|---|---|---|
| 1.1 | Ardal leol ac addasrwydd ar gyfer datblygu | 5 | Mae Gerddi Derwen yn breswyl i raddau helaeth. Cynhaliwyd trafodaethau gyda datblygwyr a Chymdeithas Dai – y ddau mewn trafodaethau gyda thirfeddianwyr cyfagos ac wedi mynegi diddordeb mewn datblygu'r safle hwn hyn a'r safleoedd ehangach. |
| 1.2 | Datblygu / Banc Tir / Gwaredu | 5 | Gwaredu - Dibenion preswyl a chefnogi anghenion tai a sicrhau derbynebau cyfalaf ar gyfer yr Awdurdod Lleol. Nid oes gan yr Awdurdod Lleol yr adnoddau mewnol i ddatblygu'r safle. |
| 1.3 | Tai/ Masnachol Diwydiannol ysgafn | 4 | Tai yw'r prif ddefnydd tir yn yr ardal, sy'n bennaf cynnwys cyn-stoc tai cyngor sydd wedi elwa o welliannau perfformiad ynni gan gynnwys insiwleiddio waliau allanol. |
| 1.4 | Amgylchedd cyffredinol | 2 | Mae'r safle gyda swyddfeydd wedi dirywio dros y 10 mlynedd diwethaf ac wedi bod yn destun ymddygiad gwrthgymdeithasol ac wedi cael difrod mewnol ac allanol. |
| 1.5 | Amgylcheddol / Man gwyrdd / ystyriaethau carbon | 2 | Mae gan 2 o'r safleoedd fan gwyrdd, a mae un ohonynt yn gyfagos i ardal chwarae. Mae ffin goed rhwng yr hen iard a'r man gwyrdd, ac mae'r safle ar lethr ysgafn yn gan wynebu'r De / De-orllewin. |
| 1.6 | Lles cymunedol | 4 | Byddai'r safle hwn yn cynyddu cyfleoedd datblygu ar gyfer tai a datgloi safleoedd cyfagos gan greu cyflogaeth lleol a chyfleoedd hyfforddiant yn ystod gwaith adeiladu ac ar ôl cynnal a chadw wedi hynny. |
| | **Cyfanswm Sgôr** | **22** | |

## ADRAN 2 - Asesiad Risg Datblygu

| | **Dangosydd Risg** | **Sgôr (1-5)** | **Sylw** |
|---|---|---|---|
| 2.1 | Cefnogaeth gan Rhanddeiliaid | | **Tîm Datblygu Asedau** – argymell gwerthu safleoedd cyfun ar y farchnad agored i un prynwr. Byddai datblygwr preifat neu landlord cymdeithasol sydd â phrofiad i ddatblygu yn gallu datgloi'r potensial llawn y mae'r wefan hon yn ei gynnig.<br>**Panel Asedau –** Argymell gwerthu ar y farchnad agored<br>**Grŵp Datblygu -** Argymell gwerthu ar y farchnad agored, gan sicrhau fod y safle yn cael ei hysbysebu yn eang. |
| 2.2 | Technegol / Adeiladu | 3 | Gellir datgloi cyfle datblygu sylweddol gan y safle hwn, yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau cynllunio (e.e o gwmpas lefelau ffosffadau) |
| 2.3 | Cyfreithiol | 4 | Nodwyd perchnogaeth rhydd-ddaliad o'r safleoedd, a bydd unrhyw risgiau pellach yn cael eu trosglwyddo i berchnogion newydd |
| 2.4 | Blaenoriaethau Strategol ac Adfywio | 5 | Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth<br><br>Creu cymunedau gofalgar ac iach<br><br>Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi dysgu ar bob oedran<br><br>Creu Cymunedau Cynaliadwy, Gwyrdd a Chysylltiadau Da |
| | **Cyfanswm Sgôr** | **12** | |

## CRYNODEB

| | |
|---|---|
| **Asesiad Cynaliadwyedd y Cynllun** | **22 allan o 30** |
| **Asesiad Risg Datblygu** | **12 allan o 20** |
| **Sgôr Arfarnu Risg Busnes Yn Seiliedig ar y Safle** | **34 allan o 50** |

## ADRAN 3 – Arfarniad Ariannol

**Cefndir**
Ym mis Medi 2015 cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet yn argymell gwerthu tir oddi ar Erddi Derwen i berchennog tir cyfagos am bris o £200,000. Cytunodd y Cabinet i'r gwerthiant fel yr argymhellir. Yn dilyn y penderfyniadau cafodd trefniadau eu rhoi ar waith i werthu'r tir ond ni gwblhawyd y gwerthiant ar y pryd.

Mae cyflwr presennol yr adeiladau yn wael iawn gyda phydredd sych yn gyffredin yn hanner y prif adeilad. Mae cyflwr allanol yr adeiladau hefyd yn wael a mae rhannau yn cael difrodi i'r graddau fel bod angen byrddio neu gynnal a chadw adweithiol.

Mae'r eiddo wedi'u cyfuno i gynnig cyfle datblygu sylweddol i ddatblygwr ar raddfa fwy, fel bod modd creu cynllun drwy gael mynediad i dir cyfagos. Mae'r yswirwyr presennol wedi gofyn i'r Cyngor Ffensio yr adeilad yn llwyr am resymau diogelwch

Mae'r adeiladau wedi dioddef o ddifrod troseddol. Ystyrir bod yr adeilad mwyaf yn rhy beryglus i gael mynediad iddo oherwydd pydredd sych a byddai'r gost o atgyweirio yn ormod.

Byddai'r safle hwn hefyd yn cynnig potensial ar gyfer datblygu.

**Gwerth y Prosiect**
Amcangyfrif £125,000 - £150,000 ar gyfer adeiladau'r swyddfa a'r tir i'r de
Amcangyfrif £200,000 - £250,000 Tir I'r gogledd o'r Hen iard
Amcangyfrif £100,000 - £150,000 Hen safle iard
Amcangyfrif £100,000 - £150,000 Gwerth gobaith am fynediad i'r tir o'i gwmpas.
Amcangyfrif Gwerth **£525,000 - £700,000**

**Hyfywedd y Cynllun**
Bydd gwerthu'r safle cyfunol i un datblygwr yn sicrhau'r cyfle gorau posib i greu datblygiad sylweddol trwy ddarparu rheolaeth i un prynwr yn y dyfodol.

Mae'r cyfuniad o'r safleoedd hyn yn datgloi mwy o gyfle sy'n cefnogi gofynion y rhestr aros Tai. Mae cynnydd yn cael ei wneud ar Dalgylch Teifi o ran Ffosffadau ac mae'n cael ei ddefnyddio fel peilot i ddatblygu datrysiadau arfaethedig.

## ADRAN 4 - CRYNODEB AC ARGYMHELLION
## Sylwadau Rheolwr Gwasanaeth Datblygu Asedau

Argymhellir bod y Panel Asedau / Grŵp Datblygu a'r Cabinet yn penderfynu gwerthu buddiant rhydd-ddaliad y Cyngor o'r safleoedd cyfunol o dir ac adeiladau yng Ngerddi Derwen, Adpar.

Bydd y gwerthiant yn gwireddu derbyniad Cyfalaf i'r Cyngor ac yn galluogi datblygu safle datblygu tai dynodedig.

**Dyddiad:** **5/2/24**

## Sylwadau'r Panel Asedau

Hapus i gymeradwyo’r argymhelliad gan ei fod wedi ei ddyrannu ar gyfer tai yn y CDLl

Mi fydd angen cwblhau’r gwaith cyfreithiol manwl.

Adolygiad ymhen 12 mis os na fydd modd sicrhau gwerthiant

**Dyddiad: 5/2/24**

## Argymhelliad Grŵp Datblygu:


Cefnogi gwerthu'r eiddo fel yr argymhellir, gyda'r amod bod pob ymdrech yn cael ei wneud i ehangu gwelededd y broses werthu i sicrhau’r gwerth mwyaf posib.

**Dyddiad: 12/2/24 a 21/2/24**

## Penderfyniad y Cabinet:

**Llofnodi:** **Dyddiad:**

## Atodiad 1





# Dichonoldeb Safle

## Garej Ffordd Glyndwr, Aberystwyth.



**Y SAFLE / CYNLLUNIAU**



**Prif awdur: Graeme Lane**
**2024**

**Dyddiad - Ionawr**

# ARFARNIAD RISG BUSNES AR Y SAFLE

## MANYLION SAFLE

| | |
|---|---|
| **Enw'r safle:** | Garej Ffordd Glyndwr, Aberystwyth |
| **Disgrifiad o'r eiddo** | Garej |
| **Ystyriaethau ariannol presennol** | Dim NDR<br>Cynnal a Chadw Blynyddol – dim gwariant yn ddiweddar |
| **Cefnogaeth polisi** | Roedd y polisi presennol yn cefnogi penderfyniad blaenorol i beidio â gwerthu'r ased hwn oherwydd efallai y byddai ei angen ar gyfer datblygiad blaenorol |

## ADRAN 1 – Asesiad Cynaliadwyedd y Cynllun

| | Dangosydd Risg | Sgôr (1-5) | Sylw Rheolwr Datblygu |
|---|---|---|---|
| 1.1 | Ardal leol ac addasrwydd ar gyfer datblygu | 4 | Deallir fod deiliaid presennol y drwydded i ddefnyddio'r garej - milfeddygon lleol - yn defnyddio'r adeilad fel rhan o'u. Cyfle datblygu cyfyngedig yn unig sydd yma, ond byddai'n debygol o fod yn gyfle i'r deiliaid presennol wella'r gofod. |
| 1.2 | Datblygu / Banc Tir / Gwaredu | 4 | Gwaredu – er mwyn galluogi ehangu busnes. |
| 1.3 | Tai/ Masnachol Diwydiannol ysgafn | 4 | Defnydd masnachol |
| 1.4 | Amgylchedd cyffredinol | 4 | Mae angen mân atgyweiriadau a chynnal a chadw ar y safle |
| 1.5 | Amgylcheddol / Mannau gwyrdd | 5 | Mae'r ardal wedi'i datblygu'n gyfan gwbl, felly ychydig iawn o effaith |
| 1.6 | Lles cymunedol | 4 | Ychydig o effaith ac eithrio gwella cyfle busnes lleol |
| | **Cyfanswm Sgôr** | **25** | |

## ADRAN 2 - Asesiad Risg Datblygu

| | Dangosydd Risg | Sgôr (1-5) | Sylw |
|---|---|---|---|
| 2.1 | Argymhellion | | **Tîm Datblygu Asedau** – argymell gwerthu ar y farchnad agored.<br>**Panel Asedau –** cymeradwyo'r argymhelliad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | **Grŵp Datblygu –** cymeradwyo ar yr amod fod y deiliaid yn ymwybodol o’r penderfyniad yn y lle cyntaf. |
| 2.2 | Technegol / Adeiladu | 4 | Eisoes wedi datblygu |
| 2.3 | Cyfreithiol | 4 | Nodwyd perchnogaeth rhydd-ddaliad o'r safleoedd, a bydd unrhyw risgiau pellach yn cael eu trosglwyddo i berchnogion newydd |
| 2.4 | Blaenoriaethau Strategol ac Adfywio | 2 | **Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth** |
| | **Cyfanswm Sgôr** | **10** | |

## CRYNODEB

| | |
|---|---|
| **Asesiad Cynaliadwyedd y Cynllun** | **25 allan o 30** |
| **Asesiad Risg Datblygu** | **10 allan o 20** |
| **Sgôr Arfarnu Risg Busnes Seiliedig ar y Safle** | **35 allan o 50** |

## ADRAN 3 – Arfarniad Ariannol yn Seiliedig ar Gynllun.

**Cefndir**

Mae'r eiddo wedi bod yn destun trwydded flynyddol ers 2003 gyda 28 diwrnod o rybudd ar gyfer defnydd penodol ar gyfer garej domestig. Mae'r drwydded ar hyn o bryd gyda busnes milfeddygol cyfagos.

Gwerth presennol y drwydded yw £800 / blwyddyn ar sail defnydd domestig. Mae'r ased hwn wedi'i gadw a'i ddiogelu oherwydd agosrwydd datblygiad Tesco cyfagos gan y gallai fod wedi bod yn bwynt mynediad posibl.

Mae'r datblygiad cyfagos bellach wedi'i gwblhau, felly nid oes angen yr ased at y dibenion hyn bellach. Mae angen gwaith nawr er mwyn i'r elfennau allanol godi i'r safon (amcangyfrif cost tua £5,000-£10,000)

**Gwerth**

Mae'r milfeddygfa wedi cysylltu â'r Tîm Asedau i brynu'r garej. Ar sail y gwerth rhent posibl, mae'r ased wedi'i brisio **ar oddeutu £30,000**. Mae gwerth ychwanegol posibl o £5,000 oherwydd cyswllt uniongyrchol gydag eiddo arall.

Mi fydd y gwasanaeth yn sicrhau bod deiliaid y drwydded presennol yn cael gwybod am y bwriad o werthu o flaen llaw.

## ADRAN 4 - CRYNODEB AC ARGYMHELLION
## Sylwadau Rheolwr Gwasanaeth Datblygu Asedau

Argymhellir bod y Panel Asedau / Grŵp Datblygu yn argymell i'r Cabinet i werthu buddiant rhydd-ddaliad y Cyngor o'r safle hwn. Bydd y gwerthiant yn gwireddu derbyniad Cyfalaf i'r Cyngor.

**Llofnodi:** **Dyddiad:**

## Sylwadau'r Panel Asedau

.

**Llofnodi:** **Dyddiad:**

## Argymhelliad Grŵp Datblygu:

**Llofnodi:** **Dyddiad:**

## Penderfyniad y Cabinet:

**Llofnodi:** **Dyddiad:**

**CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **19 Mawrth 2024** |
| **Teitl:** | **Opsiynau yn y dyfodol ar gyfer Cartref Gofal Preswyl Tregerddan, Bow Street** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **I geisio arweiniad a chymeradwyaeth ar: Y gofyniad statudol i ymgynghori ar drosglwyddo'r gwasanaeth gofal preswyl o Gartref Tregerddan i Gartref Gofal Preswyl Hafan y Waun** |
| **Er:** | **Penderfyniad** |

**Portffolio'r Cabinet a'r Aelod Cabinet:**
**Y Cynghorydd Alun Williams, Dirprwy Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet ar gyfer Gydol Oes a Llesiant**

**Cyflwyniad**
Mae gan Gartref Gofal Preswyl Hafan y Waun, Aberystwyth, 90 o ystafelloedd gwely en-suite a chyfleusterau cymorth amrywiol ac mae wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) fel Cartref Gofal Preswyl i oedolion. Cafodd y cartref ei drosglwyddo i'r Cyngor gan y Gymdeithas Cartrefi Methodistaidd ym mis Tachwedd 2023 ac mae wedi darparu cyfle i'r Gwasanaethau Uniongyrchol ystyried ei ystâd cartrefi gofal preswyl a sut y gellid datblygu rhain ar gyfer y dyfodol. Yng Ngogledd y Sir, mae wedi cyflwyno cyfle penodol mewn perthynas â Chartref Tregerddan.

Mae cyfle i ddatblygu elfen o ailstrwythuro darpariaeth gofal preswyl ar draws ardal Aberystwyth, gan uno CGP Tregerddan a CGP Hafan y Waun. Nid yn unig y bydd hyn yn helpu i fynd i'r afael ag ystâd sy'n heneiddio, sydd ddim yn addas mewn sawl achos ac angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol i'w uwchraddio i'r safonau gofynnol, ond mae hefyd yn rhoi cyfle i gynnig gwell cyfleusterau (fel ystafelloedd gwely en-suite), gwell mynediad i deuluoedd gan fod parcio yng Nghanolfan Tregerddan yn brin ac mae mynediad ar gyfer cerbydau brys yn wael. Mae yna hefyd arbedion economi maint cyffredinol o ran cymorth staffio a mynediad at wasanaethau.

**Preswylwyr yng Nghartref Gofal Tregerddan**
Ar hyn o bryd mae 20 o breswylwyr yn Nhregerddan gydag amryw ddarpariaethau. Ochr yn ochr â hyn, mae chwe gwely Cam-i-fyny / Cam-i-lawr. Mae'r rhain yn gysylltiedig â phrosiect peilot a reolir ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda sy'n galluogi cleientiaid i gael eu rhyddhau o ysbytai yn effeithlon.

**Preswylwyr yng Nghartref Gofal Hafan y Waun**
Ar hyn o bryd mae 50 o drigolion wedi'u lleoli yn Hafan y Waun, yn nhair o'r pum aden yn y cartref, a chyfle i gynyddu hyn i 40 o drigolion eraill yn y ddwy adain sy'n weddill.

**Cynigion Ymgynghori**
Mae gofyniad statudol i ymgynghori â'r cleientiaid a'u teuluoedd ochr yn ochr â'n staff. Rydym yn gofyn am ganiatâd gan y Cabinet i barhau gyda'r ymgynghoriad mewn perthynas â:

1. Trosglwyddo'r lleoliadau parhaol, dros dro a thymor byr o Gartref Gofal Preswyl Tregerddan i adain yn Hafan y Waun sy'n cynnwys 20 ystafell wely.
2. Adolygiad o’r 6 preswylydd Cam-i-Fyny / Cam-i-Lawr i ddarganfod eu hanghenion gofal a chymorth (yn dilyn y cymorth chwe wythnos). Gall hyn gynnwys:
   a) trosglwyddo i ofal preswyl HyW lle mae'r capasiti yn caniatáu.
   b) dychwelyd adref - o bosibl maent yn aros am becyn gofal.
3. Bydd staff yn trosglwyddo gyda'r trigolion o Gartref Tregerddan i Hafan y Waun; gan ddarparu gofal parhaus. Bydd hyn yn cefnogi llesiant parhaus i’r preswylwyr, y teuluoedd a'r staff eu hunain, drwy gydol y broses.

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**
**A oes asesiad effaith integredig wedi'i gwblhau? Os na, nodwch pam.**

Mae'r AEI yn cael ei gynhyrchu ochr yn ochr â'r gwaith sy'n cael ei wneud ar gynlluniau Cyllid Cyfalaf ar draws yr ystâd.

**Crynodeb o Asesiad Effaith Integredig:**

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | Mae trosglwyddo'r ddarpariaeth o Dregerddan i Hafan y Waun yn cefnogi cynaliadwyedd tymor hirach darpariaeth gofal preswyl yng Ngogledd Ceredigion. |
| **Cydweithio:** | Mae grŵp prosiect yn cael ei greu gyda chydweithwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ynghyd â thrafodaethau gyda Phrifysgol Aberystwyth a phartneriaid eraill. |
| **Cynnwys:** | Mae ymgynghoriad 12 wythnos wedi'i gynllunio ar gyfer teuluoedd, preswylwyr, staff a rhanddeiliaid cyhoeddus ehangach. |
| **Atal:** | Bydd y cynnig yn cefnogi cynaliadwyedd darpariaeth gofal preswyl yng Ngogledd y Sir.<br>Bydd yn darparu cyfle i wella nifer y prentisiaethau a chynnig llwybr gyrfa yn lleol.<br>Bydd yn lleihau'r angen am Fuddsoddiad Cyfalaf sylweddol i gyfleuster sydd yn oedrannus.<br>Bydd yn lleihau'r risg bresennol o ran mynediad i gerbydau brys oherwydd problemau mynediad i’r cartref. |
| **Integreiddio:** | Yr angen i weithio ar y cyd gyda gwasanaethau iechyd i sicrhau bod mynediad at ddarpariaeth gofal sylfaenol yn amserol e.e., meddyg teulu.<br>Mae'r asesiad effaith hwn wedi ystyried yr effaith ar y pedair piler llesiant. Byddwn yn parhau i gydweithio â chyrff cyhoeddus eraill a meysydd gwasanaeth yn y Cyngor i liniaru unrhyw effaith bellach y gellir ei ddarganfod wrth i ni fwrw ymlaen â'r argymhelliad. |

**Argymhelliad(au):**
**Cymeradwyo parhau gyda'r gofyniad statudol i ymgynghori ar drosglwyddo'r gwasanaeth gofal preswyl o Gartref Tregerddan i Gartref Gofal Preswyl Hafan y Waun.**

**Rhesymau dros y penderfyniad:**
**Er mwyn parhau gyda'r argymhellion a'r arbedion posibl i'r gyllideb sydd ynghlwm wrth yr argymhelliad.**

**Trosolwg a Chraffu:**
Nid yw'r papur hwn wedi bod trwy Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach ond bydd canfyddiadau'r ymgynghoriad yn cael eu cyflwyno cyn y Cabinet.

**Fframwaith Polisi:**
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014), Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

**Amcanion Llesiant Corfforaethol:**
*Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth:*
Bydd Trosglwyddo Cartref i Hafan y Waun yn cynnal cyflogaeth yn Aberystwyth a'r cyffiniau.

*Creu cymunedau gofalgar ac iach:*
Trwy gael darpariaeth gofal preswyl fawr sy'n darparu ystod o ddarpariaeth arbenigol yn Aberystwyth. Bydd y cynnig yn sicrhau bod gwasanaethau gofal preswyl yn gynaliadwy, yn addas i'r diben ac yn gallu diwallu anghenion pobl Ceredigion yn awr ac yn y dyfodol.

*Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi pobl o bob oed i ddysgu:*
Darparu cyfleoedd dysgu i fyfyrwyr nyrsio ym Mhrifysgol Aberystwyth.
Datblygu cyfleoedd prentisiaeth i bobl ifanc 16+mewn lleoliad sy’n agos at ysgolion uwchradd mawr.

*Creu cymunedau cynaliadwy a gwyrdd sydd wedi’u cysylltu’n dda â’i gilydd:*
Drwy ail-leoli Cartref Tregerddan i Aberystwyth darperir gwell rhwydweithiau bysiau i staff deithio i'r gwaith.
Lleihau'r defnydd o adeiladau niferus a thrydan ac ati.
Gwell mynediad i staff, teuluoedd a cherbydau brys.

**Goblygiadau Cyllid a Chaffael:**
Mae goblygiadau cyllidebol mewn perthynas â'r cynigion gyda arbedion effeithlonrwydd arfaethedig

**Goblygiadau cyfreithiol:**
AMH

**Goblygiadau staffio:**
Bydd pob aelod o staff yn Nhregerddan yn cael eu cefnogi drwy'r broses rheoli newid a byddant yn cael cynnig rolau cyfatebol ar draws holl ystâd y Cartref Gofal Preswyl

**Goblygiadau eiddo / asedau:**
Ystyriaethau ail-bwrpasu’r ystâd (Cartref Tregerddan)

**Risg(au):**
Nad yw canlyniad yr ymgynghoriad i symud preswylwyr yn gadarnhaol

**Pwerau Statudol:**

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru
- Deddf Rheoleiddio Gofal Cymdeithasol Cymru

**Papurau Cefndir:**
AMH

**Atodiadau:**
Atodiad 1- Asesiad Effaith Integredig

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:**
Donna Pritchard, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal

**Swyddog Adrodd:**
Nerys Lewis, Rheolwr Corfforaethol: Gwasanaethau Uniongyrchol

**Dyddiad:**
22.02.2024

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# TECLYN ASESU EFFAITH INTEGREDIG (AEI)

## Manylion y Cynnig

| **Teitl y Polisi / Cynnig / Menter** | |
|---|---|
| Trosglwyddo preswylwyr a staff o Gartref Gofal Preswyl Tregerddan, Bow Street i ran o Gartref Gofal Preswyl Hafan y Waun, Aberystwyth. | |
| **Maes Gwasanaeth** | **Enw'r swyddog sy'n cwblhau'r AEI** |
| Porth Gofal | Donna Pritchard |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol** | **Cyfarwyddwr Strategol** |
| Donna Pritchard | James Starbuck |
| **Rhowch ddisgrifiad cryno o bwrpas y cynnig** | |
| Yn dilyn caffaeliad Cartref Gofal Preswyl Hafan y Waun, Aberystwyth, mae'r argymhelliad hwn yn ffocysu ar adolygu opsiynau ar ddyfodol Cartref Gofal Preswyl Tregerddan yn Bow Street a chyfle i drosglwyddo preswylwyr i Gartref Gofal Hafan y Waun yn ogystal ag argymhelliad i ymgynghori â staff a phreswylwyr Cartref Tregerddan ynghylch yr argymhelliad i drosglwyddo. | |
| **Ar bwy fydd y cynnig hwn yn effeithio'n uniongyrchol?** AWGRYM | |
| • Preswylwyr sydd wedi'u gosod yng Nghartref Tregerddan<br>• Teuluoedd y preswylwyr<br>• Staff Cartref Tregerddan | |
| **A yw'r rhai y bydd y cynnig yn effeithio arnynt wedi cael cyfle i wneud sylwadau arno?** | |
| • Cam cyntaf yr argymhelliad fydd ymgynghori â phreswylwyr, teuluoedd a staff Cartref Tregerddan (argymhelliad i ymgynghori yn barod ar gyfer ystyriaethau gan y Cabinet (19eg Mawrth 2024) | |

## Rheoli Fersiynau

Dylid defnyddio'r AEI yn ystod camau cyntaf y broses benderfynu, ac yna dylid ei fireinio drwy gydol y broses benderfynu. Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses hon fel y gallwn ddangos sut yr ydym wedi ystyried a chynnwys ystyriaethau o ran datblygu cynaliadwy, y Gymraeg a chydraddoldeb lle bynnag y bo modd.

| **Rhif y Fersiwn** | **Awdur** | **Cam yn y broses benderfynu** | **Dyddiad yr Ystyriwyd** | **Disgrifiad o unrhyw newidiadau a wnaed** AWGRYM |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **AWGRYM** | | |
| F1.0 | Nerys Lewis | Cyn ymgynghori / Gosod y Gyllideb | Ionawr 2024 | AMH |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

## Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor

Pa un o Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor y mae'r cynnig hwn yn mynd i'r afael ag ef a sut? Cliciwch yma i ddarllen crynodeb o'n Strategaeth Gorfforaethol 2022-27

| | |
|---|---|
| **Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth** | Bydd trosglwyddo i Hafan y Waun yn diogelu cyflogaeth yn Aberystwyth a'r ardal o'i gwmpas. |
| **Creu cymunedau gofalgar ac iach** | Trwy gael darpariaeth cartref gofal preswyl sy'n darparu ystod o ddarpariaeth arbenigol yn Aberystwyth.<br>Bydd yr argymhelliad yn sicrhau fod gwasanaethau gofal cymdeithasol preswylwyr yn gynaliadwy, yn bwrpasol ac yn gallu cwrdd â gofynion presennol pobl Ceredigion a'r rhai yn y dyfodol. |
| **Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi i bobl o bob oed ddysgu** | Darparu cyfleoedd dysgu ar gyfer myfyrwyr nyrsio ym Mhrifysgol Aberystwyth.<br>Datblygu cyfleoedd prentisiaethau gerllaw ysgolion uwchradd mawr ar gyfer pobl ifanc 16+ |
| **Creu cymunedau cynaliadwy sy'n fwy gwyrdd ac sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd** | Trwy ad-leoli Cartref Tregerddan i Aberystwyth fe fydd gwell rhwydwaith bysus i staff deithio i'r gwaith.<br>Cwtogi nifer yr adeiladau luosog a thrydan ayb.<br>Gwell mynediad i staff, teuluoedd a cherbydau argyfwng. |

## Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru Lewyrchus

**Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel lle mae gan bawb waith addas a lle nad oes tlodi.**

Cliciwch yma am wybodaeth am Gymru lewyrchus.

| |
|---|
| **Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol**. (Cliciwch yma am wybodaeth) |
| Pobl – Bydd yr argymelliadau yn cefnogi unigolion i fyw a gweithio yn eu cymuned leol, gan ddarparu gwell cyfleoedd i hyrwyddo cydnerthedd unigolyn a chymuned. Bydd gan pobl hŷn gyfle i gael gofal yn eu cymuned leol gyda chysylltiadau cryf i'r gymuned.<br>Lle – cefnogi pobl i gael mynediad at adnoddau cymunedol lleol<br>Entrepreneuriaeth – creu cyfleoedd ar gyfer 'entrepreneuriaeth gymdeithasol; yn ogystal â hyrwyddo busnesau lleol i gwrdd a gofynion. Gwneud y mwyaf o gyfleoedd mae'r ddarpariaeth (HYW) yn eu cynnig.<br>Cysylltedd – cysylltu unigolion a theuluoedd gyda datrysiadau lleol o fewn eu cymunedau. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** |
| Mae arolygiadau cenedlaethol ac enghreifftiau o ymarfer da yn dangos fod datrysiadau lleol yn fwy effeithiol a chynaliadwy, a byd trosglwyddo preswylwyr i well amgylchedd ofewn eu hardal leol yn gam cadarnhaol a fydd yn darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer cynhwysiant lleol. Bydd gwell amgylchedd yn galluogi cwrdd ag anghenion Rheolaethau ac Arolygiaethau Gofal Cymdeithasol Cymru. |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at y Nod Llesiant Cenedlaethol hwn?** |
| Sicrhau fod ystyriaeth o enghreifftiau o ymarfer da yn cael eu dilyn a'u haddasu i gwrdd â chyfleoedd unigryw yng Ngheredigion. |

## Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru Gydnerth

**Cymdeithas lle mae bioamrywiaeth yn cael ei chynnal a'i gwella a lle mae ecosystemau yn iach ac yn gweithredu.**

Cliciwch yma am wybodaeth am Gymru gydnerth.

| |
|---|
| **Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol**. (Cliciwch yma am wybodaeth) |
| Bydd darparu datrysiadau lleol i gwrdd ag anghenion defnyddwyr y gwasanaeth yn cyfrannu ar leihau allyriadau/ôl-troed carbon. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** |
| Mae arolygiadau cenedlaethol ac enghreifftiau o ymarfer da yn dangos fod datrysiadau lleol yn fwy effeithiol a chynaliadwy |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at y Nod Llesiant Cenedlaethol hwn?** |
| Sicrhau fod ystyriaeth o enghreifftiau o ymarfer da yn cael eu dilyn a'u haddasu i gwrdd â chyfleoedd unigryw yng Ngheredigion. |

## Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru Iachach

**Cymdeithas lle mae pobl yn gwneud dewisiadau iach ac yn mwynhau iechyd corfforol a meddyliol da.**

Cliciwch yma am wybodaeth am Gymru Iachach.

| |
|---|
| **Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol.** (Cliciwch yma am wybodaeth) |
| Bydd yr argymhellion yn gwella mynediad at wasanaethau, lleihau'r angen am ddatrysiadau y tu allan i'r sir i gwrdd ag anghenion pobl hŷn.<br>Lleihau'r angen i osod pobl mewn cyfleusterau dementia o tu allan i'r sir. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** |
| Mae arolygiadau cenedlaethol ac enghreifftiau o ymarfer da yn dangos fod datrysiadau lleol yn fwy effeithiol a chynaliadwy |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at y Nod Llesiant Cenedlaethol hwn?** |
| Sicrhau fod ystyriaeth o enghreifftiau o ymarfer da yn cael eu dilyn a'u haddasu i gwrdd â chyfleoedd unigryw yng Ngheredigion. |

## Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru sy'n Fwy Cyfartal

**Cymdeithas lle mae gan bawb gyfle cyfartal beth bynnag fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau**.

Mae'r adran hon yn hirach oherwydd gofynnir i chi asesu effaith eich cynnig ar bob grŵp sydd wedi'i ddiogelu gan **Ddeddf Cydraddoldeb 2010**.

Cliciwch yma am wybodaeth am gydraddoldeb yng Nghymru.

| **Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hoedran?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
|---|---|
| **Plant a Phobl Ifanc hyd at 18 oed** | Dim/Fawr Ddim |
| **Pobl 18-50** | Cadarnhaol |
| **Pobl hŷn 50+** | Cadarnhaol |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol.** | |
| Cadarnhaol<br>• Gwell amgylchedd ar gyfer plant sy'n ymweld â pherthnasau hŷn a/neu aelodau'r teulu<br>• Gwell amgylchedd ar gyfer preswylwyr i fyw a chadw eu hannibyniaeth am gyfnod hirach e.e. *en-suite*, mynediad i gegin ar gyfer paratoi eu lluniaeth eu hunain | |

- Parhau darpariaeth yng Ngogledd Ceredigion gan leihau'r angen i deithio allan o'r Sir
- Dim angen i unigolion gyda Dementia symud yn e blaen gan fod darpariaeth yn y cartref.

**Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi hyn?**

- Gofynion Rheoliadau ac Arolygiaethau Gofal Cymdeithasol Cymru (RISCA) am ddarpariaethau newydd e.e. *en-suite* i bob ystafell wely.
- Arolygiadau cenedlaethol ac enghreifftiau o ymarfer da yn dangos fod datrysiadau lleol yn fwy effeithiol a chynaliadwy

**Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?**

Mae'r argymhellion yn darparu cyfleoedd i ddarparu tegwch ad draws y gwasanaethau y gyflwynir.

**Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hanabledd?** (Cliciwch yma am wybodaeth)

| | |
|---|---|
| **Amhariad ar y clyw** | Cadarnhaol |
| **Amhariad corfforol** | Cadarnhaol |
| **Amhariad ar y golwg** | Cadarnhaol |
| **Anabledd Dysgu** | Cadarnhaol |
| **Salwch hirdymor** | Cadarnhaol |
| **Iechyd Meddwl** | Cadarnhaol |
| **Arall** | |

**Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol**

Gwasanaethau lleol yn agosach i adre, ffocws ar ofal dementia gyda gwell mynediad, gwell cyfleoedd mewn perthynas ag ysgol o gyfleoedd ar gael. Mae'r amgylchedd o fewn Hafan y Waun yn fwriadol ddementia gyfeillgar, sy'n cael effaith gadarnhaol ar bobl gyda nam ar eu golwg a'u clyw yn ogystal a iechyd meddwl a salwch cronig.

**Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?**

| |
|---|
| Mae arolygiadau cenedlaethol ac enghreifftiau o ymarfer da yn dangos fod datrysiadau lleol yn fwy effeithiol a chynaliadwy |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** |
| Mae'r argymhellion yn darparu cyfleoedd i ddarparu tegwch ad draws y gwasanaethau y gyflwynir. |

| **Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl sy'n drawsryweddol?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
|---|---|
| **Menywod Traws** | Dim/Fawr Ddim |
| **Dynion Traws** | Dim/Fawr Ddim |
| **Pobl Anneuaidd** | Dim/Fawr Ddim |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Ni ragwelir effaith. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Argaeledd gwasanaethau i bawb lle aseswyd angen. | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** | |
| AMH | |

| **Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â gwahanol gyfeiriadedd rhywiol?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
|---|---|
| **Pobl Ddeurywiol** | Dim/Fawr Ddim |
| **Dynion hoyw** | Dim/Fawr Ddim |
| **Menywod hoyw / lesbiaid** | Dim/Fawr Ddim |
| **Pobl Heterorywiol** | Dim/Fawr Ddim |

| |
|---|
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** |
| Ni ragwelir effaith. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** |
| Argaeledd gwasanaethau i bawb lle aseswyd angen. |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** |
| AMH |

| | |
|---|---|
| **Ydych chi'n meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
| **Pobl sy'n briod** | Dim/Fawr Ddim |
| **Pobl mewn partneriaeth sifil** | Dim/Fawr Ddim |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Ni ragwelir effaith. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Argaeledd gwasanaethau i'r rhai lle aseswyd angen. | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** | |
| AMH | |

| | |
|---|---|
| **A ydych chi'n meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl sy'n feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
| **Beichiogrwydd** | Dim/Fawr Ddim |
| **Mamolaeth** | Dim/Fawr Ddim |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |

| |
|---|
| Ni ragwelir effaith. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** |
| Argaeledd gwasanaethau i'r rhai lle aseswyd angen. |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?** |
| AMH |

| **A ydych yn meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu tarddiad ethnig?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
|---|---|
| **Asiaidd / Asiaidd Prydeinig** | Dim/Fawr Ddim |
| **Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig** | Dim/Fawr Ddim |
| **Grwpiau Ethnig Cymysg/ Aml-ethnig** | Dim/Fawr Ddim |
| **Gwyn** | Dim/Fawr Ddim |
| **Grwpiau ethnig eraill** | Dim/Fawr Ddim |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Ni ragwelir effaith. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Argaeledd gwasanaethau i'r rhai lle aseswyd angen. | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** | |
| AMH | |

| **Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â gwahanol grefyddau, credoau neu ddim cred?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
|---|---|
| **Bwdhaidd** | Dim/Fawr Ddim |
| **Cristion** | Dim/Fawr Ddim |

| | |
|---|---|
| **Hindŵaidd** | Dim/Fawr Ddim |
| **Dyneiddiwr** | Dim/Fawr Ddim |
| **Iddewig** | Dim/Fawr Ddim |
| **Mwslim** | Dim/Fawr Ddim |
| **Sikh** | Dim/Fawr Ddim |
| **Pobl heb gred** | Dim/Fawr Ddim |
| **Eraill** | Dim/Fawr Ddim |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Ni ragwelir effaith. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Argaeledd gwasanaethau i'r rhai lle aseswyd angen. | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** | |
| AMH | |

| | |
|---|---|
| **Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar ddynion neu fenywod?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
| **Dynion** | Dim/Fawr Ddim |
| **Menywod** | Dim/Fawr Ddim |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Ni ragwelir effaith. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Argaeledd gwasanaethau i'r rhai lle aseswyd angen. | |

| |
|---|
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** |
| AMH |

| | |
|---|---|
| **A ydych yn credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl o Gymuned y Lluoedd Arfog?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
| **Aelodau o'r Lluoedd Arfog** | Dim/Fawr Ddim |
| **Cyn-filwyr** | Dim/Fawr Ddim |
| **Gwŷr/gwragedd** | Dim/Fawr Ddim |
| **Plant** | Dim/Fawr Ddim |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Ni ragwelir effaith. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Argaeledd gwasanaethau i'r rhai lle aseswyd angen. | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?** | |
| AMH | |

## Dyletswydd economaidd-gymdeithasol

Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn golygu byw ar incwm isel o'i gymharu ag eraill yng Nghymru, gydag ychydig neu ddim cyfoeth cronedig, sy'n ei gwneud hi'n anoddach cael gafael ar nwyddau a gwasanaethau sylfaenol.

Mae cefndir teuluol neu lle mae person yn cael ei eni yn dal i effeithio ar ei fywyd. Er enghraifft, mae plentyn o deulu cyfoethog yn aml yn gwneud yn well yn yr ysgol na phlentyn o deulu tlawd, hyd yn oed os yw'r plentyn tlotach yn fwy naturiol academaidd. Gelwir hyn weithiau yn anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol.

| | |
|---|---|
| **Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol?** | Cadarnhaol |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Dylai darparu gwasanaethau fwy lleol leihau teithio, a chostau i ffrindiau a pherthnasau'r unigolion sy'n derbyn y gwasanaeth. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'r farn hon?** | |
| AMH | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?** **A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** | |
| AMH | |

## Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru o Gymunedau Cydlynus

**Cymdeithas gyda chymunedau deniadol, hyfyw, diogel, sydd â chysylltiadau da**

Cliciwch yma i weld gwybodaeth am gymunedau cydlynus.

| |
|---|
| **Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol. AWGRYM** |
| Bydd yr argymelliadau yn rhoi cyfle pellach ar gyfer gwirfoddoli yn yr ardal leol. Bydd cyfleoedd i ddatblygu ac ehangu adnoddau cymunedol lleol yn dod a manteisio i'r boblogaeth. Bydd cynnydd i ddarpariaeth leol yn cynorthwyo unigolion i gadw eu cysylltiadau cymunedol. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** |
| Strategaeth Llesiant Gydol Oes 2022 - 2027 |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at y nod?** |
| Sicrhau fod cyfathrebu effeithiol ac ymgysylltu ar lefel leol/cymunedol. |

# Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

**Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn amddiffyn diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden**.

Cliciwch yma i ddarllen gwybodaeth am ddiwylliant a'r iaith Gymraeg

| | |
|---|---|
| **Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol.** | |
| Bydd cyflwyno gwasanaethau'n lleol a chadw pobl yn eu cymunedau yn ehangu cyfleoedd i gadw cysylltiadau lleol, hyrwyddo'r iaith Gymraeg a chael mynediad ar wasanaethau sy'n golygu rhywbeth iddyn nhw. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Mae adolygiadau cenedlaethol a enghreifftiau o ymarfer da yn dangos fod datrysiadau lleol yn fwy effeithiol a chynaliadwy ac yn awgrymu fod yr arddull yn gwaredu dulliau seilo o gyflwyno gwasanaethau sy'n ymylu grwpiau penodol fel pobl sydd ag anghenion gofal a dementia | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?** | |
| Sicrhau fod 'Cynnig Gweithredol' yn cael ei ddarparu a theilwra gwasanaethau i gwrdd ag anghenion ieithyddol a diwylliannol yr unigolyn. | |
| **Gan gyfeirio at y canlynol, a ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y Gymraeg?**<br><br>Cliciwch yma am wybodaeth | |
| **Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg** | Cadarnhaol |
| **Trin y Gymraeg, dim llai ffafriol na'r Saesneg** | Cadarnhaol |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'r safbwynt hwn?** | |
| Fel yr uchod | |
| **Pa gamau y gallwch eu cymryd i gynyddu'r effaith gadarnhaol neu liniaru unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg?** | |
| Fel yr uchod | |

## Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

**Cymdeithas sy'n ystyried sut y gallai ein gweithredoedd effeithio ar wledydd a phobl eraill ledled y byd.**

Cliciwch yma i ddarllen am gyfrifoldeb byd-eang.

| |
|---|
| **Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol. AWGRYM** |
| Disgwylir effeithiau cadarnhaol oherwydd gofal a chefnogaeth i bobl yn lleol, dim cynnydd i siwrneiau'r teulu oherwydd ei fod yn agos i'r cartref presennol. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** |
| Darpariaeth leol. |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at y nod?** |
| AMH |

## Cryfhau'r Cynnig

Os ydych wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol yn yr adrannau uchod, rhowch fanylion am unrhyw newidiadau a chamau gweithredu ymarferol a allai helpu i ddileu neu leihau'r effeithiau negyddol.

| Beth fyddwch chi'n ei wneud? | Pryd? | Pwy sy'n gyfrifol? | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| Argymhelliad y Cabinet i ymgynghori | Mawrth 2024 | Gwasanaethau Llesiant Gydol Oes | |
| Byddwn yn sicrhau fod y 'Cynnig Gweithredol' yn cael ei ddarparu, uwch-sgilio staff a theilwra gwasanaethau i gwrdd â gofynion ieithyddol a diwylliannol yr unigolyn. | Parhau | Gwasanaethau Llesiant Gydol Oes | |
| Byddwn yn sicrhau cyfathrebu effeithiol ac ymgysylltu ar lefel leol/gymunedol | Mawrth 2024 – Medi 2024 | Gwasanaethau Llesiant Gydol Oes | |

| |
|---|
| **Os na chymerir camau i ddileu neu liniaru effeithiau negyddol, a fyddech cystal â chyfiawnhau pam.** *(Os ydych wedi nodi unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon yna mae'n rhaid newid neu ddiwygio'r cynnig.)* |
| |
| **Sut fyddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y cynnig?** |
| Llywodraethiant Rhaglen Llesiant Gydol Oes |

## Egwyddor Datblygu Cynaliadwy: 5 Ffordd o Weithio

Disgrifiwch isod sut rydych wedi gweithredu'r pum ffordd o weithio yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

| | |
|---|---|
| **Hirdymor**<br>Sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr ac anghenion tymor hir a'r angen i gynllunio ar gyfer y dyfodol<br><br>AWGRYM | • Trosglwyddo darpariaeth o Dregerddan i Hafan y Waun yn cefnogi cynaliadwyedd tymor hir darpariaeth gofal preswyl yng Ngogledd Ceredigion |
| **Cydweithio**<br>Cydweithio â phartneriaid eraill i gyflawni canlyniadau<br><br>AWGRYM | • Creu grŵp prosiect gyda chydweithwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ynghyd â thrafodaethau gyda Phrifysgol Aberystwyth a phartneriaid eraill. |
| **Cynnwys**<br>Cynnwys pobl sydd â buddiant a gofyn am eu barn<br><br>AWGRYM | • Ymgynghoriad 12 wythnos wedi'u gynllunio gyda theuluoedd, preswylwyr, staff a rhanddeiliaid ehangach o'r cyhoedd |
| **Atal**<br>Darparu adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu<br><br>AWGRYM | • Bydd yr argymhelliad yn cefnogi cynaliadwyedd darpariaeth gofal preswyl yng Ngogledd y Sir<br>• Darparu cyfle i ehangu nifer y prentisiaethau a chynnig llwybr gyrfa yn lleol<br>• Lleihau'r angen am Fuddsoddiad Cyfalaf sylweddol i adnodd hen<br>• Lleihau'r risg bresennol o gerbydau argyfwng yn methu cael mynediad i'r cartref oherwydd problemau mynediad |
| **Integreiddio**<br>Ystyried effaith eich cynnig ar bedwar piler llesiant (cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a'r amgylchedd), amcanion cyrff cyhoeddus eraill ac ar draws meysydd gwasanaeth yn y Cyngor.<br><br>AWGRYM | • Angen gweithio mewn cydweithrediad â iechyd i sicrhau fod mynediad amserol i ddarpariaeth gofal cychwynnol e.e. Meddyg Teulu<br>• Mae'r asesiad effaith wedi ystyried yr effaith ar y 4 piler o lesiant.  Byddwn yn parhau i gydweithio gyda chyrff cyhoeddus a gwasanaethau eraill yn y Cyngor i liniaru unrhyw effaith y gall gael eu nodi wrth i ni symud ymlaen â'r argymhelliad. |


## Risg

Crynhowch y risg sy'n gysylltiedig â'r cynnig.

| | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** |
|---|---|---|---|---|---|
| Meini prawf asesu effaith | Isel iawn | Isel | Canolig | Uchel | Uchel iawn |
| Meini prawf asesu tebygolrwydd | Annhebygol o ddigwydd | Llai tebygol o ddigwydd | Yr un mor debygol o ddigwydd ag o beidio digwydd | Mwy tebygol o ddigwydd | Tebygol o ddigwydd |

| **Disgrifiad o'r risg** | **Effaith** (difrifoldeb) | **Tebygolrwydd** (y gallu i gyflawni) | **Sgôr** (Effaith x Tebygolrwydd) |
|---|---|---|---|
| Methu parhau â'r argymhellion yn effeithio ar y gyllideb | 4 | 2 | 8 |
| | | | |
| | | | |

## Cymeradwyo

| **Swydd** | **Enw** | **Llofnod** | **Dyddiad** |
|---|---|---|---|
| **Rheolwr Corfforaethol** | Nerys Lewis |  | 21/02/2024 |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol** | Donna Pritchard |  | 21/02/2024 |
| **Cyfarwyddwr Corfforaethol** | James Starbuck |  | 21/02/2024 |
| **Deiliad y Portffolio** | Cyng Alun Williams |  | 21/02/2024 |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

## CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **19 Mawrth 2024** |
| **Teitl:** | **Pwll Nofio a Neuadd Goffa Aberteifi** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **I ystyried trosglwyddo asedau Pwll Nofio a Neuadd Goffa Aberteifi** |
| **Er:** | **Penderfyniad** |

**Portffolio'r Cabinet ac Aelod Cabinet:**
**Y Cynghorydd Catrin M S Davies, Aelod Cabinet ar gyfer Diwylliant, Hamdden a Gwasanaethau Cwsmeriaid**

### 1. Cefndir a Chyd-destun

Mae Pwll Nofio a Neuadd Goffa Aberteifi yn cael ei weinyddu gan ymddiriedolaeth elusennol ac mae'n gyfleuster sy'n cynnwys pwll nofio 25m o hyd, pwll dysgwyr, gofod neuadd ac ystafelloedd ffitrwydd. Mae wedi'i leoli yng nghanol yn y dref ar Stryd Napier, ger Maes Parcio Cae'r Ffair ac Ysgol Gynradd Aberteifi / Canolfan Gofal Plant Integredig Aberteifi.

Mae Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr wedi cysylltu gydag uwch swyddogion yr awdurdod lleol i dynnu sylw at fater yn ymwneud â llif arian y mae'r Pwll Nofio a'r Neuadd Goffa yn eu wynebu ac, er gwaethaf ymdrechion gorau'r ymddiriedolwyr a 'Chyfeillion y Pwll' i godi arian, nid yw bellach yn hyfyw yn ariannol i'r ymddiriedolaeth i gynnal y cyfleuster. Oherwydd hyn, mae'r Ymddiriedolwyr wedi gwneud penderfyniad anodd i gau'r cyfleuster ar ddiwedd y mis.

Mae'r anawsterau a brofir gan yr ymddiriedolaeth bellach yn ddigwyddiad cyffredin ymhlith cyfleusterau hamdden ledled y Deyrnas Unedig, yn enwedig yn dilyn pandemig y coronafeirws. Ymhlith yr heriau penodol sy'n wynebu Pwll Nofio a Neuadd Goffa Aberteifi mae:

- Cynnydd o 472% mewn costau nwy yn dilyn diwedd contract pris sefydlog ar 31.12.2023 o £20,000 y flwyddyn i amcangyfrif o £115,000 y flwyddyn
- Lefelau incwm eto i gyrraedd y lefelau cyn y pandemig
- Methiannau mecanyddol mynych sy'n arwain at gau'r pyllau nofio dros dro a phroblemau cynnal tymheredd dŵr amgylchynol
- Mae arolwg cyflwr diweddar, ar gyfleuster a adeiladwyd yn 1976/77 wedi nodi fod angen gwneud gwaith adnewyddu gwerth dros £900,000 dros y 5 mlynedd nesaf. (Cynhaliwyd yr arolwg cyflwr fel rhan o astudiaeth ddichonoldeb y cyngor ar gyfer Canolfan Les yn Aberteifi).

Mewn cydnabyddiaeth o'r cyfraniad y mae'r cyfleuster yn ei wneud at iechyd a llesiant yn Aberteifi a'r cymunedau cyfagos, ac i ddiogelu ei ddefnydd i'r diben hwnnw, mae ymddiriedolwyr Pwll Nofio a Neuadd Goffa Aberteifi wedi cysylltu â'r Cyngor i ofyn a

fyddem yn ystyried trosglwyddo ased y cyfleuster, ar ôl i'r Ymddiriedolaeth gau yn ffurfiol i berchnogaeth y Cyngor.

Bydd yn ofynnol i'r ymddiriedolaeth sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'i rhwymedigaethau yn unol â Ddeddf Elusennau 2011 cyn trosglwyddo.

**2. Cydymffurfiaeth Strategol**

Mae cysylltiad amlwg o drosglwyddo asedau Pwll Nofio a Neuadd Goffa Aberteifi i berchnogaeth y Cyngor gyda'r amcan corfforaethol *Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach* ac yn arbennig yr ymrwymiadau canlynol yn y Cynllun Corfforaethol:

- Symud ymlaen gyda'r cynlluniau i ddatblygu Hybiau Lles a wasanaethir gan Ganolfan Lles yng Ngogledd a De'r sir
- Mae pobl o bob oed yn gwybod ble a sut i gael gafael ar wasanaethau cyffredinol â ffocws yn bersonol ac ar-lein i gynnal eu llesiant a'u hannibyniaeth eu hunain
- Cyfleoedd cymysg i gael gafael ar wasanaethau:
- Annog a galluogi pobl i fod yn gorfforol egnïol fel y gallant elwa ar iechyd a lles cadarnhaol
- Cynorthwyo ein poblogaeth sy'n heneiddio i fod yn gorfforol ac yn gymdeithasol egnïol, gan gefnogi eu hannibyniaeth

Yng nghyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 06.12.2022 penderfynwyd datblygu ail Ganolfan Lles y sir yn Aberteifi. Mae safle'r Pwll Nofio a'r Neuadd Goffa yn un o'r lleoliadau sy'n cael eu hystyried ar gyfer y Ganolfan Lles fel rhan o'r astudiaeth ddichonoldeb sy'n cael ei chynnal ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rhaid cydnabod bod creu'r Ganolfan Lles yn ddibynnol ar sicrhau cyllid.

Mae mwy o wybodaeth ar gael yn yr adroddiad Eithriedig ynghlwm (Atodiad 1).

**3. Cynnig:**

**Cynigir bod y safle lle mae Pwll Nofio a Neuadd Goffa Aberteifi wedi'i leoli arno, a'r adeilad cysylltiedig yn cael ei drosglwyddo i'r Cyngor trwy drosglwyddiad ased.**

**4. Ystyriaethau Cyfreithiol**

Mae adrannau 24(1) a (2)(c) Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn darparu pŵer cymhwysedd cyffredinol i awdurdodau lleol a fyddai'n galluogi'r awdurdod lleol i drosglwyddo'r cyfleuster i berchnogaeth yr awdurdod lleol:

**Adran 24 Pŵer cymhwysedd cyffredinol yr awdurdod lleol**

(1) Mae gan awdurdod lleol cymhwysol bŵer i wneud unrhyw beth y caiff unigolion yn gyffredinol ei wneud, hyd yn oed os yw'r peth hwnnw, o ran ei natur neu ei raddfa neu fel arall –

(a) yn wahanol i unrhyw beth y caiff awdurdod lleol cymhwysol ei wneud ar wahân i'r adran hon;

(b) yn wahanol i unrhyw beth y caiff cyrff cyhoeddus eraill ei wneud.

(2) Pan fo is-adran (1) yn rhoi pŵer i awdurdod wneud rhywbeth, mae’n rhoi pŵer iddo ei wneud mewn unrhyw fodd o gwbl, gan gynnwys—

(a) pŵer i’w wneud yn unrhyw le yng Nghymru neu yn rhywle arall;

(b) pŵer i’w wneud at ddiben masnachol neu fel arall am ffi, neu heb fod am ffi;

(c) pŵer i’w wneud er budd yr awdurdod, ei ardal neu bersonau sy’n preswylio neu’n bresennol yn ei ardal, neu fel arall.

Mae hwn yn bŵer o ddewis cyntaf.

Pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo gan y Cabinet, byddai'r Cyngor ac ymddiriedolwyr Pwll Nofio a Neuadd Goffa Aberteifi yn gweithio gyda'i gilydd i effeithio’r trosglwyddiad ased cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl. Byddai hyn yn amodol ar gytundeb cyfreithiol ffurfiol i rwymo'r ddau barti.

## 5. Ystyriaethau Ariannol

Mae costau un-tro a chostau parhaus i'w hystyried:

i) Cost Trosglwyddo Un Tro

Byddai cost unwaith ac am byth yn gysylltiedig â'r trosglwyddiad ased i'r Cyngor. Byddai'r union ffigur yn crisialu ar adeg trosglwyddo’r ased ac felly bydd yn cael ei gadarnhau fel rhan o'r broses gyfreithiol.

Darperir mwy o wybodaeth yn yr adroddiad Eithriedig sydd ynghlwm yn Atodiad 1

ii) Costau refeniw parhaus

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cau cyfleuster Pwll Nofio a Neuadd Goffa Aberteifi ddiwedd mis Mawrth 2024, cyn trosglwyddo unrhyw asedau. O ystyried sefyllfa ariannol ehangach y Cyngor, nid oes cyllid craidd ar gael i redeg y cyfleuster fel gweinyddiaeth barhaus gan y gallai hynny ond ddigwydd trwy osod baich hyd yn oed yn uwch ar drigolion Ceredigion drwy Dreth y Cyngor.

Felly, nid yw'r Cyngor yn bwriadu ailagor a gweinyddu’r cyfleuster. Wrth etifeddu cyfleuster fydd wedi cau, bydd angen i'r Cyngor amddiffyn cadernid y safle tra'n disgwyl canlyniad astudiaeth ddichonoldeb y Ganolfan Les.

Darperir mwy o wybodaeth yn yr adroddiad Eithriedig sydd ynghlwm yn Atodiad 1.

## 6. Ystyriaethau Eraill

**Effaith ar Wersi Nofio Ysgol**: Ar hyn o bryd mae 3 o ysgolion cynradd y sir yn derbyn gwersi nofio ym Mhwll Nofio Aberteifi. Mae'r ddarpariaeth agosaf a all fod yn opsiwn posibl arall y tu allan i'r sir yn sylweddol agosach na'r ddarpariaeth sirol agosaf. Nid

oes trafodaethau wedi eu cynnal eto gyda'r ysgolion neu'r darparwyr ynghylch darpariaeth amgen.

**Chwaraeon Cymru:** Darperir mwy o wybodaeth yn yr adroddiad sydd wedi'i eithrio sydd ynghlwm yn Atodiad 1

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**
**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam**

Na, mae'r adroddiad yn ymwneud ag ased nad yw'n eiddo i'r Cyngor na chaiff ei weinyddu ganddo.

**Crynodeb o Asesiad Effaith Integredig:**

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | Amherthnasol |
| **Cydweithio:** | Amherthnasol |
| **Cynnwys:** | Amherthnasol |
| **Atal:** | Amherthnasol |
| **Integreiddio:** | Amherthnasol |

**Argymhelliad / Argymhellion:**
**I'r Cabinet gytuno:**

1. **Mewn egwyddor i'r ased a elwir yn Bwll Nofio a Neuadd Goffa Aberteifi gael ei drosglwyddo i berchnogaeth y Cyngor yn unol ag Adrannau 24(1) a (2)(c) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.**

2. **Bod y trosglwyddiad ased yn cael ei wneud i alluogi'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau o safon sy'n cyfrannu at lesiant trigolion yn Ne'r sir.**

3. **I gydnabod a nodi'r Materion Ariannol sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad Eithriedig.**

4. **I awdurdodi Swyddogion i weithio gydag Ymddiriedolwyr Pwll Nofio a Neuadd Goffa Aberteifi i fwrw ymlaen i drosglwyddo ased Pwll Nofio a Neuadd Goffa Aberteifi i berchnogaeth y Cyngor cyn gynted ag y bo modd, gan sicrhau bod yr holl gytundebau cyfreithiol angenrheidiol yn cael eu cwblhau er mwyn cyflawni hyn.**

**Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:**
**Diogelu lleoliad a chyfleuster sy'n strategol bwysig i ddarparu gwasanaethau iechyd a lles yn Ne'r sir.**

**Trosolwg a Chraffu:**
Dim

**Fframwaith Polisi:**
Amherthnasol

**Amcanion Llesiant Corfforaethol:**
Creu cymunedau gofalgar ac iach
Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi pobl o bob oed i ddysgu

**Goblygiadau Cyllid a Chaffael:**
Byddai cost yn gysylltiedig â throsglwyddo ased Pwll Nofio a Neuadd Goffa Aberteifi i berchnogaeth y Cyngor a byddai goblygiadau refeniw blynyddol i'r awdurdod wrth amddiffyn cadernid yr ased.

**Goblygiadau cyfreithiol:**
Pe bai'r mater yn mynd yn ei flaen, bydd y Gwasanaethau Cyfreithiol yn cynnal diwydrwydd ddyladwy pellach i gynnwys ymholiadau a chwiliadau cyn contract fel sy'n arferol mewn trafodion trosglwyddo.

Bydd angen i'r ymddiriedolaeth gydymffurfio â'i rhwymedigaethau yn unol â Deddf Elusennau 2011 cyn trosglwyddo'r ased.

**Goblygiadau staffio:**
Amherthnasol

**Goblygiadau eiddo / asedau:**
Ychwanegu Pwll Nofio a Neuadd Goffa Aberteifi i bortffolio eiddo a chofrestr asedau y Cyngor a fyddai hefyd yn cynnwys materion yswiriant ac arolygu.

**Risg(au):**
Bod y safle a'r eiddo yn cael eu colli at ddibenion iechyd a lles.
Nid yw'r astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer Canolfan Lles Aberteifi wedi dod i ben eto.
Bydd datblygiad y Ganolfan Lles yn Aberteifi yn ddibynnol ar ddenu digon o arian cyfalaf i ddwyn ffrwyth y prosiect.

**Pwerau Statudol:**
Adrannau 24(1) a (2)(c) o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**Papurau Cefndir:**
Amherthnasol

**Atodiadau:**
Atodiad 1 – Adroddiad wedi'i eithrio

**Swyddogion Arweiniol Corfforaethol:**
Greg Jones - Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cymorth Cynnar (Dros dro)
Duncan Hall - Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael
Elin Prysor - Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Y Gyfraith a Llywodraethu

**Swyddogion Adrodd:**
Greg Jones - Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cymorth Cynnar (Dros dro)
Carwyn Young - Rheolwr Corfforaethol: Canolfannau Lles

**Dyddiad:**
01/03/2024

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

By virtue of paragraph(s) 14 of Part 1 of Schedule 12A
of the Local Government Act 1972.

Document is Restricted

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

## CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

**Adroddiad i'r:** **Cabinet**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **19 Mawrth 2024**

**Teitl:** **Adroddiad ar Ail-ddynodi'r Cynllun Trwyddedu Ychwanegol ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth yng Ngheredigion**

**Pwrpas yr adroddiad:** **I Aelodau Etholedig ystyried a chadarnhau ail-ddynodi'r Cynllun Trwyddedu Ychwanegol ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth yng Ngheredigion (2024 - 2029)**

**Er:** **Penderfyniad**

**Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:**
**Y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet ar gyfer Partneriaethau, Gwasanaethau Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd**

**Cyflwyniad**
Mae Rhan 2 o Ddeddf Tai 2004 yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i drwyddedu Tai Amlfeddiannaeth o dri llawr neu fwy, o bum person neu fwy, sy'n ffurfio dwy aelwyd neu fwy.

- Nod y ddeddfwriaeth yw sicrhau bod y canlynol yn ddigonol:
  - Safonau rheoli, amwynder a diogelwch
  - Rheoli ymddygiad gwrthgymdeithasol, sŵn a gwastraff mewn Tai Amlfeddiannaeth
  - Cyfleusterau cegin ac ymolchi
  - Sicrhau eu bod yn cael eu rheoli gan 'bobl gymwys a phriodol'
  - Nodi uchafswm o bobl gan osgoi amodau gorlawn
  - Amodau gorfodol a dewisol y drwydded parthed:
    - Gwresogi: dulliau digonol o wresogi mannau
    - Cyfleusterau golchi / cegin - dŵr poeth ac oer; cyfleusterau addas i goginio, storio a pharatoi bwyd; cyfleusterau addas i waredu sbwriel
    - Tystysgrif foddhaol o ran:
      - Cyfleusterau, offer a gosodiadau atal tân
      - Offer a gosodiadau nwy
      - Datganiadau diogelwch yr offer trydanol a'r celfi

Yn ogystal â Thrwyddedu'n orfodol Dai Amlfeddiannaeth, **gall** yr Awdurdod Lleol drwyddedu'n ychwanegol, mewn rhan neu'r cyfan o ardal yr awdurdod, yn seiliedig ar nifer y meddianwyr/cartrefi a lloriau).

- Rhaid i'r Awdurdod Lleol ystyried:
  - os bydd cyfran sylweddol o'r Tai Amlfeddiannaeth yn cael eu rheoli yn wael gan arwain at broblemau sy'n effeithio ar y tenantiaid, neu'r cyhoedd a'r gymuned yn ehangach.

- a oes unrhyw gamau gweithredu eraill ar gael iddynt.
- a fydd dynodi fel hyn yn eu cynorthwyo'n fawr i ymdrin â'r problemau.

**Y Sefyllfa Bresennol**

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi gweithredu cynllun Trwyddedu Ychwanegol ers 2009. Daeth y Cynllun Trwyddedu Ychwanegol cyntaf i rym ar 1 Ebrill 2009 ac roedd ar waith tan 31 Mawrth 2014 gan gwmpasu Ceredigion gyfan.

Daeth yr ail Gynllun Trwyddedu Ychwanegol i rym ar 14 Ebrill 2014 ac roedd ar waith tan 13 Ebrill 2019, ac roedd yn berthnasol i'r canlynol:

- Tai Amlfeddiannaeth a oedd yn gartref i dri neu fwy o bobl, gan ffurfio dwy aelwyd neu fwy: Aberystwyth, Llanbadarn Fawr, y Borth, Llanfarian, Llanbedr Pont Steffan.
- Tai Amlfeddiannaeth Adran 257 (Deddf Tai 2004)

Daeth y trydydd Cynllun Trwyddedu Ychwanegol i rym ar 14 Ebrill 2019 ac mae ar waith hyd 14 Ebrill 2024, ac mae'n berthnasol i'r canlynol:

- Tai Amlfeddiannaeth sy'n gartref i dri neu fwy o bobl, gan ffurfio tair aelwyd ar wahân neu fwy, beth bynnag yw nifer y lloriau, yn y wardiau penodol hyn yn unig:
  i. Aberystwyth Bronglais
  ii. Canol Aberystwyth
  iii. Gogledd Aberystwyth
  iv. Aberystwyth Penparcau
  v. Aberystwyth Rheidol
  vi. Faenor
  vii. Llanbadarn Fawr Padarn
  viii. Llanbadarn Fawr Sulien

- Ceredigion gyfan yn achos:
  - Tai Amlfeddiannaeth sy'n gartref i bump neu fwy o bobl, gan ffurfio dwy aelwyd ar wahân neu fwy, beth bynnag yw nifer y lloriau;
  - Tai Amlfeddiannaeth Adran 257 (Deddf Tai 2004)

**Adolygiad o'r Dynodiad Trwyddedu Ychwanegol**

Mae Adran 60 o Ddeddf Tai 2004 yn nodi bod yn rhaid i ddynodiad gael ei adolygu o bryd i'w gilydd ac os penderfynir y bydd yn parhau mae'n rhaid iddo gael ei ailddatgan ar ddiwedd cyfnod o 5 mlynedd (ym mis Ebrill 2024). Cynhaliwyd adolygiad a gwerthusiad trylwyr o'r cynllun trwyddedu ychwanegol i bennu effeithiolrwydd y cynllun presennol ac i ystyried yr opsiynau ynghylch â ddylai Cynllun Trwyddedu Ychwanegol barhau am 5 mlynedd arall o 2024-2029. Fel rhan o'r adolygiad a'r gwerthusiad hwn, cynhaliwyd Ymgynghoriad Cyhoeddus 10 wythnos rhwng 15 Rhagfyr 2023 a 23 Chwefror 2024.

**Proses ddeddfwriaethol**

Mae'n ofynnol dilyn gweithdrefn ddeddfwriaethol wrth ddatgan Cynllun Trwyddedu Ychwanegol, fel y'i cynhwysir yn adrannau 56-60 o Ddeddf Tai 2004. Ym mis Ebrill 2007, rhoddodd Llywodraeth Cymru gymeradwyaeth i awdurdodau lleol (Cymeradwyaeth Gyffredinol, Deddf Tai 2004 (Trwyddedu Ychwanegol) (Cymru) 2007) a oedd yn nodi y gallai cynghorau gyflwyno Cynllun Trwyddedu Ychwanegol

heb gael cymeradwyaeth y Cynulliad, ar yr amod bod rhai gofynion yn cael eu bodloni. Yn benodol, rhaid i'r Cyngor:

i. ystyried bod cyfran sylweddol o'r tai amlfeddiannaeth o'r disgrifiad hwnnw yn cael eu rheoli'n ddigon aneffeithiol i arwain at, neu fod yn debygol o arwain at, un broblem neu fwy sy'n effeithio ar y rheini sy'n byw yn y tai amlfeddiannaeth neu aelodau o'r cyhoedd
ii. ystyried a oes unrhyw ddulliau gweithredu eraill ar gael iddynt a allai ddarparu dull effeithiol o ymdrin â'r broblem neu'r problemau dan sylw.
iii. ystyried y byddai gwneud y dynodiad yn eu cynorthwyo'n sylweddol i ymdrin â'r problemau,
iv. ymgynghori â'r bobl y mae'r dynodiad yn debygol o effeithio arnynt.
v. Sicrhau bod arfer y pŵer yn gyson â strategaeth dai gyffredinol yr awdurdod.
vi. Ceisio mabwysiadu dull gweithredu cydlynol mewn cysylltiad â delio â digartrefedd, eiddo gwag ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n effeithio ar y sector rhentu preifat:

    (a) o ran cyfuno trwyddedu o dan y Rhan hon â chamau eraill sydd ar gael iddynt, ac
    (b) o ran cyfuno trwyddedu o'r fath â mesurau a gymerir gan bobl eraill.

Ar ôl ymgynghori, os ystyrir y dylid ailgyflwyno Cynllun Trwyddedu Ychwanegol, gall yr Awdurdod Lleol gymeradwyo'r cynllun o dan drefn cydsyniad cyffredinol, fel y nodir yn y canllawiau a ddarperir gan Gydgysylltwyr Gwasanaethau Rheoliadol yr Awdurdodau Lleol a darparu Hysbysiad Cyhoeddus o'r Dynodiad, o leiaf **3 mis** cyn i'r Cynllun ddod yn weithredol.

Nod yr adroddiad hwn a'r atodiadau cysylltiedig yw dangos cydymffurfiaeth â'r adrannau hyn o'r Ddeddf Tai drwy ddarparu'r dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi'r cynnig, gan gynnwys manylion llawn yr ymarfer ymgynghori a wnaed.

**Ymgynghoriad Cyhoeddus**
Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 15 Rhagfyr 2023 a 23 Chwefror 2024. Dosbarthwyd holiaduron â llaw yn nhref Aberystwyth a Llanbedr Pont Steffan i gymysgedd o eiddo sy'n berchen i'r sawl sy'n byw yno, Tai Amlfeddiannaeth ac eiddo eraill ar rhent. Roedd yr holiadur hefyd ar gael ar-lein ac yn llyfrgelloedd y sir.

Ymgynghorwyd hefyd â Chynghorwyr Sir, aelodau Grŵp Llywio Landlordiaid, Y Brifysgol, Heddlu Dyfed-Powys, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth Cymru a phob adran berthnasol arall o'r Cyngor sydd â diddordeb.

Gosodwyd y dogfennau ymgynghori ar wefan gorfforaethol Cyngor Sir Ceredigion, gan ddefnyddio'r cyfleuster Ymgysylltu ac Ymgynghori. Yn yr un modd, defnyddiwyd amryw o gyfryngau cymdeithasol fel Facebook, X / Trydar.

**Crynodeb o'r Canfyddiadau**
Dim ond 17 ymateb a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad. Mae manylion llawn yr holiadur a'r atebion i'w gweld yn Atodiad 2. O'r rhai a ymatebodd roedd 65% o blaid ail-ddynodi'r Cynllun Trwyddedu Ychwanegol.

Er bod yr ymateb i'r ymgynghoriad yn isel, gallai hyn fod yn arwydd o effeithiolrwydd y cynllun dros y 15 mlynedd diwethaf a'r gostyngiad dilynol mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol, sŵn a rheoli gwastraff sy'n gysylltiedig â'r math hwn o eiddo.

Mae dadansoddiad o ddata sy'n ymwneud â thrwyddedu'r safleoedd hyn yn ystod y pum mlynedd diwethaf wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.

Yn ystod y pandemig dychwelodd myfyrwyr i'w cartrefi gan astudio ar-lein. Yn ogystal, ataliwyd pob archwiliad ffisegol o eiddo preswyl gan gynnwys TA am gyfnodau hir. Roedd hyn yn cynnwys arolygiadau trwyddedu wedi'u cynllunio a gwiriadau cais am drwydded. Cafodd atal arolygiadau yn ystod y cyfnod hwn y sgil-effaith o ohirio trwyddedau ac amharu ar raglen arolygu arferol y drwydded gan greu ôl-gwaith mawr o eiddo yr oedd angen eu harchwilio. Mae hyn yn ei dro wedi effeithio ar y safonau atgyweirio a welwyd mewn eiddo TA sydd wedi'u harchwilio yn ystod y 18 mis diwethaf wrth i ni ddod allan o'r Pandemig. Adlewyrchir hyn yn y data a gofnodwyd mewn perthynas â nifer y Trwyddedau a gyhoeddwyd yn 22/23 gydag amodau ynghlwm fel y gwelir yn y tabl isod.

| Blwyddyn | Nifer y trwyddedau llawn a roddwyd | Nifer y trwyddedau amodol a roddwyd |
|---|---|---|
| 2019/20 | 89 % | 11% |
| 2020/21 | 92 % | 8 % |
| 2021/22 | 84 % | 16 % |
| 2022/23 | 78 % | 22 % |
| 2023/24 | 68 % (Ebrill – Tachwedd) | 32 % (Ebrill - Tachwedd) |

Mae'r gymhareb o drwyddedau a gyhoeddwyd gydag amodau wedi cynyddu ar ôl Covid-19 gan awgrymu fod safonau wedi llithro yn gyffredinol yn ystod y cyfnod hwn.

**Manteision ail-ddynodi Cynllun Trwyddedu Ychwanegol**

Mae'r cynllun Trwyddedu Ychwanegol TA wedi bod yn ei le ers bron i 15 mlynedd ac mae gan y Cyngor brofiad sylweddol o'r maes rheoleiddio hwn a chredir y bydd parhad y cynllun yng Ngheredigion yn sicrhau'r buddion canlynol:

- Gall Tai Amlfeddiannaeth newydd wneud cyfraniad gwerthfawr i stoc tai. Mae TA yn darparu llety ar gyfer ystod eang o grwpiau, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol ifanc, myfyrwyr, ffoaduriaid a phobl ar incwm isel. Fodd bynnag, rhaid cwblhau addasiadau o'r fath yn briodol, ac mae trwyddedu'n darparu mecanwaith i reoleiddio eiddo o'r fath.
- Mae trwyddedu yn sicrhau bod eiddo'n cael ei gynnal i safon briodol i ddiogelu iechyd a diogelwch tenantiaid a'u bod yn cael eu rheoli'n briodol.
- Sicrhau bod safonau llety yn darparu amgylchedd diogel ac iach drwy archwilio peryglon megis lleithder, oerfel, gwres, peryglon o gwympo, tân, diogelwch trydanol, diogelwch nwy, maint ystafelloedd addas, ceginau / ystafelloedd ymolchi digonol ar gyfer nifer y tenantiaid, diogelwch bwyd, bioladdiadau, plwm, asbestos ac ati.
- Yn lleihau lefelau ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu. Mae amodau'r drwydded yn ei gwneud yn ofynnol i'r landlord ddelio â hyn o fewn ffiniau'r eiddo trwyddedig. Byddem yn disgwyl i'r landlord hysbysu tenantiaid bod eu hymddygiad yn annerbyniol yn y lle cyntaf ac os bydd yr ymddygiad yn parhau, i geisio meddiant o'r eiddo.

- Amgylchedd byw mwy diogel a sefydlog i denantiaid a chymdogion. Lleihau cwynion am amodau tai gwael, sŵn, sbwriel, gerddi’n gordyfu, cnofilod a phlâu.
- Ardal fwy deniadol i fusnesau a phreswylwyr. Parhau â'r gwaith gyda thîm Rheoli Gwastraff y Cyngor drwy gynnwys gofynion storio gwastraff fel amodau'r drwydded i wella cydymffurfiaeth gwastraff ac ailgylchu.
- Mae manteision uniongyrchol i denantiaid yn cynnwys archwiliadau rheolaidd o eiddo gan Swyddogion y Cyngor sy'n arwain at lesiant a hyder yn y landlord oherwydd cydymffurfiaeth â'r safonau a osodir gan drwyddedu.
- Buddion i'r gymuned gyfan, gan gynnwys llai o broblemau amgylcheddol, amddiffyn pobl fregus a allai fel arall fyw mewn eiddo cyflwr gwael a chynnwys yr eiddo ar y Gofrestr Gyhoeddus.

Ers cyflwyno 3ydd cynllun Trwyddedu Ychwanegol y Cyngor yn 2019, mae nifer sylweddol o eiddo wedi'u gwella, y byddai llawer ohonynt wedi bod y tu hwnt i gwmpas trwyddedu gorfodol ac felly mae'n debygol, heb gynllun trwyddedu Ychwanegol y Cyngor, y byddai llawer llai wedi cael eu gwella.

Mae tystiolaeth yn dangos bod problemau yn ymwneud a chyflwr tai ac i'r gymuned yn gyffredinol i'w gweld mewn tai amlfeddiannaeth bach yn ogystal â mawr.

Heb ddynodi cynllun Trwyddedu Ychwanegol yn y sir, ni fydd gan y Cyngor fecanwaith rhagweithiol effeithiol, i sicrhau bod yr eiddo llai hyn yn cael eu rheoleiddio a'u gwella i safon foddhaol ac yn cael eu cynnal a'u cynnal yn briodol ar y safon honno.

Er gwaethaf y gwaith da a wnaed i wella eiddo drwy'r cynllun Trwyddedu Ychwanegol presennol, mae'n amlwg bod angen gwella llawer o eiddo o hyd, ac nad yw rhai tenantiaid yn cael eu diogelu'n ddigonol. Mae angen gwneud mwy o waith.

**Dewisiadau**

Yr opsiynau i'w hystyried yw:

**Opsiwn 1 - Parhau â'r Cynllun Trwyddedu Ychwanegol yn ei ffurf bresennol, lle mae trwyddedu yn berthnasol i:**

- Tai Amlfeddiannaeth a feddiannir gan dri neu fwy o bobl, gan ffurfio tri neu fwy o aelwydydd ar wahân, waeth beth yw nifer y lloriau yn y wardiau penodedig canlynol yn unig:

  **Aberystwyth Bronglais, Canol Aberystwyth, Gogledd Aberystwyth, Aberystwyth Penparcau, Aberystwyth Rheidol, Faenor, Llanbadarn Fawr Padarn, Llanbadarn Fawr Sulien.**

- Sir Ceredigion gyfan ar gyfer:
  - Tai Amlfeddiannaeth a feddiannir gan 5 neu fwy o bobl, gan ffurfio dwy aelwyd neu fwy ar wahân, waeth beth yw nifer y lloriau, a
  - Tai Amlfeddiannaeth Adran 257 (Deddf Tai 2004)

**Opsiwn 2 - Trwyddedu pob eiddo sy'n bodloni'r meini prawf canlynol ar sail sirol gyfan:**

- yr eiddo hynny y mae 5 person neu fwy yn byw ynddynt, gan ffurfio dwy aelwyd neu fwy ar wahân, waeth beth yw nifer y lloriau, AC
- Tai Amlfeddiannaeth Adran 257 (Deddf Tai 2004) a grëwyd drwy newid adeiladau yn fflatiau lle nad oedd y trawsnewidiadau yn bodloni safonau Rheoliadau Adeiladu 1991 ac nad ydynt wedi cael eu gwella i'r safonau perthnasol wedi hynny.

**Dewis 3 - Caniatáu i'r Cynllun Trwyddedu Ychwanegol presennol ddod i ben ar 14 Ebrill 2024 a pheidio â chyhoeddi/dynodi cynllun ychwanegol yn ei le.**

**Argymhelliad**
Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a manteision cael Cynllun Trwyddedu Ychwanegol ynghyd â'r ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus, argymhellir ystyried Opsiwn 1 ar gyfer ail-ddynodi'r Cynllun Trwyddedu Ychwanegol am 5 mlynedd arall rhwng 2024 a 2029. Mae niferoedd y Tai Amlfeddiannaeth yn ardal Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi yn isel. Nid yw'r data am y 5 mlynedd diwethaf yn cefnogi cyflwyno Cynllun Trwyddedu Ychwanegol yn yr ardaloedd hyn.

**<u>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:</u>**
**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam.** Oes

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**

**Hirdymor:** Mae'r cynnig am gyfnod o 5 mlynedd pryd y bydd y cynllun Trwyddedu yn cael ei adolygu a'i werthuso i benderfynu a ddylai barhau. Mae'r cynllun yn hunan-ariannu.

**Cydweithio:** Ar hyn o bryd rydym yn cysylltu â chydweithwyr gwasanaethau Priffyrdd a Diogelu'r Cyhoedd, ynghyd â phartneriaid allanol fel yr Heddlu, yr Awdurdod Tân a'r Brifysgol, Asiantau a Landlordiaid wrth gyflawni'r cynllun.

**Cynnwys:** Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus am gyfnod o 10 wythnos. Mae hyn wedi cynnwys gwybodaeth a holiaduron oedd ar gael ar y wefan ac ar gyfryngau cymdeithasol. Ymgynghori'n uniongyrchol â landlordiaid ac asiantau lle roedd y wybodaeth yn hysbys. Llythyrau, gwybodaeth a holiaduron wedi'u targedu at ddetholiad o eiddo yn ardal dynodi presennol Aberystwyth a Llanbedr Pont Steffan.

**Atal:** Mae'r cynnig yn mynd i'r afael ag eiddo penodol sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y cynllun Trwyddedu Ychwanegol a'i nod yw gwella amodau ar gyfer y rhai sy'n byw yn yr eiddo a phreswylwyr eraill sy'n byw yng nghyffiniau'r eiddo trwyddedig.

**Integreiddio:** Mae'r cynnig yn ceisio cynorthwyo gwasanaethau Priffyrdd a Diogelu'r Cyhoedd mewn perthynas â rheoli gwastraff a materion ymddygiad gwrthgymdeithasol a sŵn.

**Argymhelliad / Argymhellion:**
**OPSIWN 1: Ail-ddynodi'r Cynllun Trwyddedu Ychwanegol i gynnwys:**

a. **Yr eiddo hynny lle mae 3 neu fwy o bobl yn byw ynddynt, gan ffurfio tair aelwyd unigol neu fwy yn y wardiau penodedig canlynol yn unig: Aberystwyth - Gogledd, Canolog, Penparcau, Rheidol a Bronglais; Llanbadarn Fawr – Padarn a Sulien, Y Faenor**

**A**

b. **Trwyddedu pob eiddo sy'n bodloni'r meini prawf canlynol ar sail sirol gyfan:**

- **yr eiddo hynny lle mae 5 person neu fwy yn byw ynddynt, gan ffurfio dwy aelwyd unigol neu fwy, waeth beth yw nifer y lloriau, AC**
- **Tai Amlfeddiannaeth Adran 257 (Deddf Tai 2004) a grëwyd drwy newid adeiladau yn fflatiau lle nad oedd y trawsnewidiadau yn bodloni safonau Rheoliadau Adeiladu 1991 ac nad ydynt wedi cael eu gwella i'r safonau perthnasol wedi hynny.**

**Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:**
**I gydymffurfio â gofynion deddfwriaethol.**

**Trosolwg a Chraffu:**
Cyflwynwyd i’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachachu ar 11 Mawrth 2024

**Fframwaith Polisi:**
Strategaeth Dai 2023-2028

**Amcanion Llesiant Corfforaethol:**
Creu cymunedau cynaliadwy a gwyrdd sydd wedi’u cysylltu’n dda â’i gilydd

**Goblygiadau Cyllid a Chaffael:**
Amherthnasol

**Goblygiadau cyfreithiol:**
Amherthnasol

**Goblygiadau staffio:**
Amherthnasol

**Goblygiadau eiddo / asedau:**
Amherthnasol

**Risg(iau):**
Bydd y Cynllun Trwyddedu Ychwanegol presennol yn dod i ben ar 14 Ebrill 2024. Bydd Trwyddedau Ychwanegol a gyhoeddwyd eisoes yn parhau i redeg nes eu bod naill ai'n dod i ben neu'n cael eu dirymu gan yr Awdurdod Lleol. Ni fydd unrhyw drwyddedau newydd neu adnewyddu yn digwydd. Lle ni ystyrir ei bod yn briodol datgan cynllun newydd, bydd yn arwain at golli incwm. Fodd bynnag, dylid nodi na ddylid defnyddio colli incwm fel rheswm i ddatgan Cynllun Trwyddedu Ychwanegol.

**Pwerau Statudol:**
Deddf Tai 2004

**Papurau Cefndir:**
Amherthnasol

**Atodiadau:**
Atodiad 1- Adolygiad a Gwerthusiad o'r Cynllun Trwyddedu Ychwanegol 2018-2024
Atodiad 2- Ymateb Ymgynghoriad Cyhoeddus
Atodiad 3- Asesiad Effaith Integredig

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:**
Greg Jones, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cymorth Cynnar

**Swyddog Adrodd:**
Llyr Hughes, Rheolwr Corfforaethol: Gwasanaethau Tai

**Dyddiad:**
27/02/2024

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

# Adolygiad o'r Cynllun Trwyddedu Ychwanegol ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth yng Ngheredigion

# 2018 - 2024








## Cynnwys


1. Cyflwyniad a Chefndir Cyffredinol yng Nghymru a'r DU. .... 3
   1.1 Trwyddedu TA Gorfodol (Tŷ Amlfeddiannaeth) .... 3
   1.2 Cynllun Trwyddedu Ychwanegol TA (Tŷ Amlfeddiannaeth) .... 3
2 Cefndir Cyffredinol a Hanes yng Ngheredigion .... 4
3. Ffeithiau a Ffigurau Trwyddedu TA .... 5
   3.1 Trwyddedau Gweithredol .... 5
   3.2 Dadansoddiad System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (SMIDT): Ceredigion (2018 i 2023) .... 7
   3.3 Nodwyd peryglon System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai SMIDT .... 8
   3.4 Cwynion/ceisiadau am wasanaethau tai, amgylcheddol a niwsans yn y sector rhentu preifat. .... 9
   3.5 Effeithiau'r pandemig Covid19 .... 13
   3.6 Crynodeb Canfyddiadau .... 13
4. Rhentu Doeth Cymru .... 13
   4.1 Crynodeb Canfyddiadau .... 14
5. Cyswllt i bolisïau, cynlluniau a strategaethau .... 14
   5.1 Strategaeth Tai Lleol 2023 – 2028 – 'Tai i bawb' .... 14
   5.2 Strategaeth Gorfforaethol 2022 – 27 .... 14
   5.3 Strategaeth Llesiant Gydol Oes 2022 – 2027 .... 15
   5.4 Canfyddiadau Cryno – Strategaethau Tai .... 15
6. Gweithredu Cynllun Trwyddedu Ychwanegol .... 15
7. Ymgynghoriad Cyhoeddus .... 17
8. Cwestiynau ac ymatebion allweddol sy'n ymwneud â pharhad y Cynllun Trwyddedu Ychwanegol .... 18
   8.1 Crynodeb o'r Canfyddiadau .... 20
9. Manteision cael cynllun Trwyddedu Ychwanegol .... 21
10. Cynigion ar gyfer dyfodol y Cynllun Trwyddedu Ychwanegol yng Ngheredigion 22
11. Argymhelliad .... 23
12. Atodiad 1 .... 24
   11.1 Map yn dangos maint y Cynllun Trwyddedu Ychwanegol cyfredol yn Aberystwyth .... 24

## 1. Cyflwyniad a Chefndir Cyffredinol yng Nghymru a'r DU.

### 1.1 Trwyddedu TA Gorfodol (Tŷ Amlfeddiannaeth)

Cynllun o dan Ddeddf Tai 2004, a ddaeth i rym yng Nghymru ym mis Mehefin 2006. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid gael trwydded ar gyfer rhai mathau o Dai Amlfeddiannaeth (TA). Mae Tai Amlfeddiannaeth yn eiddo sy'n cael eu rhentu i dri neu fwy o bobl nad ydynt yn perthyn iddynt sy'n rhannu cyfleusterau fel cegin ac ystafell ymolchi.

Mae'r Cynllun Trwyddedu Gorfodol yn berthnasol i TA sy'n bodloni'r meini prawf canlynol:

- Mae ganddynt dri llawr neu fwy a phump neu fwy o bobl sydd ddim yn rhan o un aelwyd.
- Maent yn adeiladau sydd wedi'u trawsnewid yn fflatiau neu fflatiau ystafell wely, hyd yn oed os oes ganddynt lai na thri llawr a phump o breswylwyr.
- Maent yn fflatiau pwrpasol sy'n cael eu gosod i dri neu fwy o bobl nad ydynt yn gysylltiedig sy'n rhannu cyfleusterau.

Rhaid i landlordiaid Tai Amlfeddiannaeth sy'n atebol i'r Cynllun Trwyddedu Gorfodol, wneud cais am drwydded gan eu cyngor lleol. Mae proses ymgeisio am drwydded fel arfer yn cynnwys rhoi gwybodaeth i'r cyngor am yr eiddo, gan gynnwys ei gyflwr, ei amwynderau a'i drefniadau rheoli. Yna bydd y cyngor yn archwilio'r eiddo i sicrhau ei fod yn bodloni safonau gofynnol penodol.

Os yw'r cyngor yn fodlon bod yr eiddo yn bodloni'r safonau, bydd yn rhoi trwydded. Bydd y drwydded yn nodi'r amodau y mae'n rhaid i'r landlord gydymffurfio â hwy, megis gofynion ar gyfer diogelwch tân, diogelwch trydanol a diogelwch nwy.

Gall landlordiaid sy'n methu â chydymffurfio â'r Cynllun Trwyddedu Gorfodol, gael dirwy o hyd at £20,000. Efallai y bydd eu trwyddedau hefyd yn cael eu tynnu'n ôl a chael eu cyflwyno â Hysbysiad Gwahardd, gan eu hatal rhag rhentu eu heiddo.

**Ym mis Ebrill 2007, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ganllawiau i awdurdodau lleol, (Deddf Tai 2004 (Trwyddedu Dewisol) (Cymru) 2007) yn** nodi y gall cynghorau gyflwyno **Cynllun Trwyddedu Ychwanegol** heb gael cymeradwyaeth y Cynulliad, ar yr amod bod gofynion penodol y ddeddfwriaeth o ran tystiolaeth, ymgynghori â phartïon â buddiant a chyflawni'r gweithrediad.

### 1.2 Cynllun Trwyddedu Ychwanegol TA (Tŷ Amlfeddiannaeth)

Mae Cynllun Trwyddedu Ychwanegol TA yn gynllun sydd wedi'i drwyddedu gan gyngor lleol o dan Ran 2 o Ddeddf Tai 2004. Mae Cynlluniau Trwyddedu Ychwanegol yn cael eu cyflwyno mewn ardaloedd lle mae'r cyngor yn credu bod problemau gyda tai amlfeddiannaeth llai ac y byddai eu rheoli yn elwa o gael eu cynnwys mewn cynllun rheoli a thrwyddedu yn ogystal.

Gall cwmpas Cynlluniau Trwyddedu Ychwanegol amrywio o un cyngor i'r llall, ond maent fel arfer yn cynnwys y rhan fwyaf o eiddo rhent gyda 3 neu fwy o bobl sy'n ffurfio 2 neu fwy o aelwydydd. Mae hyn yn golygu, hyd yn oed os nad yw eiddo'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y Cynllun Trwyddedu Gorfodol, gall fod yn destun Cynllun Trwyddedu Ychwanegol.

Mae Cynlluniau Trwyddedu Ychwanegol yn rhedeg am gyfnod o 5 mlynedd, ac ar ôl hynny mae'n rhaid i'r cyngor ailddynodi’r cynllun. Os bydd y cyngor yn penderfynu peidio ailddynodi’r cynllun, yna bydd y trwyddedau sydd wedi eu cyhoeddi yn dod i ben.

Mae'r mathau canlynol o eiddo **yn cael eu** hystyried yn TA o dan y Cynllun Trwyddedu Ychwanegol:

- Tŷ cyfan neu fflat sy'n cael ei osod i 3 neu fwy o denantiaid sy'n ffurfio 2 neu fwy o aelwydydd ac sy'n rhannu cegin, ystafell ymolchi neu ystafell ymolchi.
- Tŷ sydd wedi'i drawsnewid yn gyfan gwbl yn fflatiau neu lety arall nad yw'n hunangynhwysol ac sy'n cael ei osod i 3 neu fwy o denantiaid sy'n ffurfio dau neu fwy o aelwydydd ac sy'n rhannu cegin, ystafell ymolchi neu gyfleusterau ymolchi.
- Tŷ wedi'i drawsnewid sy'n cynnwys un neu fwy o fflatiau nad ydynt yn gwbl hunangynhwysol (h.y., nid yw'r fflat yn cynnwys cegin, ystafell ymolchi a chyfleusterau ymolchi ynddo) ac sy'n cael ei feddiannu gan 3 neu fwy o denantiaid sy'n ffurfio dau neu fwy o aelwydydd.
- Adeilad sydd wedi’i drawsnewid yn gyfan gwbl yn fflatiau hunangynhwysol os nad oedd y trawsnewid yn bodloni safonau Rheoliadau Adeiladu 1991 a bod mwy na thraean o'r fflatiau yn cael eu gosod ar denantiaethau tymor byr. (Deddf Tai 2004 a257)

## 2 Cefndir a Hanes Cyffredinol yng Ngheredigion

Yng Ngheredigion, cyflwynodd Cyngor Sir Ceredigion Gynllun Trwyddedu Ychwanegol sy'n cwmpasu'r categorïau canlynol o dai amlfeddiannaeth ar 1 Ebrill 2009:

- Wedi'i feddiannu gan dri neu fwy o bobl, gan ffurfio dau neu fwy o aelwydydd.
- Adran 257 TA (Deddf Tai 2004), a grëwyd drwy drosi adeiladau yn fflatiau lle nad oedd y trawsnewidiadau yn bodloni safonau Rheoliadau Adeiladu 1991 ac nad ydynt wedi cael eu gwella i'r safonau perthnasol wedi hynny.

Dewisodd y Cyngor amrywio'r cynllun fel bod rheolau gwahanol yn berthnasol i wahanol ardaloedd neu wardiau yn y Sir. Mae'r dull hwn wedi'i fabwysiadu mewn gwahanol fannau gan gynghorau eraill - yn aml mewn ardaloedd o ddinasoedd mawr sydd wedi’u dominyddu gan lety ar gyfer myfyrwyr er enghraifft. Roedd y dull hwn yn seiliedig ar dystiolaeth o amrywiaethau sylweddol yng nghymeriad ardal ac yn hanesyddol. yn y gofynion am wasanaethau'r Cyngor

I'r perwyl hwn penderfynwyd yn wreiddiol fod y wardiau canlynol wedi'u cynnwys: **Gogledd Aberystwyth, De, Gorllewin, y Dwyrain; Llanbadarn Fawr, Y Faenor, Borth, Tirymynach, Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan.**

Ers mis Ebrill 2009 fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth, mae'r Cynllun Trwyddedu Ychwanegol wedi'i adolygu ac yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, ail-ddynodwyd yn dilyn dau gyfnod o bum mlynedd yn 2014 a 2019. Felly, ar hyn o bryd, mae angen cynnal ymarfer i ailystyried ac ymgynghori i benderfynu effeithiolrwydd y cynllun presennol ac ystyried yr opsiynau ar gyfer a ddylai’r Cynllun Trwyddedu Ychwanegol barhau am 5 mlynedd arall o 2024-2029 (oni bai ei fod yn cael ei derfynu’n gynt).


## 3. Ffeithiau a Ffigurau Trwyddedu HMO

Cynhaliwyd gwerthusiad o'r Cynllun Trwyddedu Ychwanegol i ddangos tystiolaeth o'r hyn a gyflawnwyd yn ystod y cynllun ac i roi cefndir i'r sefyllfa yn yr ardaloedd dan sylw.

- Mae 20.6% o'r boblogaeth yng Ngheredigion yn byw mewn eiddo rhent preifat (sy'n cyfateb i 6,371 o aelwydydd) yn ôl Arolwg ONS 2021 (mae hyn yn cymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 14%).
- O gyfanswm y sector rhentu preifat, roedd 519 o TA trwyddedig (31 Mawrth 2023) a 149 arall yn y broses o wneud cais ar gyfer adnewyddu trwyddedau. O'r rhai sydd â thrwydded, roedd 234 yn eiddo trwyddedig yn unol â pharamedrau'r Cynllun Trwyddedu Ychwanegol presennol.
- O'r rhai sydd wedi'u trwyddedu ar hyn o bryd, mae 56% yn Orfodol, 40% yn Dai a Rennir Ychwanegol a 4% yn Fflatiau wedi'u Trosi Ychwanegol.


### 3.1 Trwyddedau Gweithredol

***Ffig. 1 TA Trwyddedig Gweithredol yn ôl Categori 2019 i 2023***




Mae'r Graff uchod yn tynnu sylw at nifer y Trwyddedau HMO gweithredol (Gorfodol ac Ychwanegol) o gyflwyno'r Dynodi Trwyddedu Ychwanegol cychwynnol ar 19 Ebrill 2019 hyd at 31 Mawrth 2023. Dylid nodi ei bod yn debygol fod y gostyngiad mewn safleoedd trwyddedig rhwng 2021 a 2022 oherwydd effaith pandemig Covid 19 pan nad oedd yn bosibl cynnal archwiliadau trwyddedau. Arweiniodd hyn at oedi wrth adnewyddu trwyddedau oedd wedi dod i ben ac na ellid rhoi trwyddedau i safleoedd newydd. Fel y gwelir o'r ffigurau, mae nifer yr eiddo trwyddedig wedi cynyddu yn ystod y 12 mis diwethaf.

***Ffig. 2 Nifer y Trwyddedau Llawn ac Amodol 2019 i 2023***




Mae'r graff uchod yn dangos y rhaniad yn nifer y trwyddedau gorfodol ac ychwanegol a gyhoeddwyd heb amodau ers cyflwyno'r Dynodiad Trwyddedu Ychwanegol cyfredol ar 19 Ebrill 2019 hyd at 31 Mawrth 2023.

Mae'r tabl isod yn dangos canran y trwyddedau a roddir gydag ac heb amodau.


***Ffig. 3 Trwyddedu TA: Cyfanswm Trwyddedau Llawn / Amodol 2019 i 2023***

| Blwyddyn | Nifer y trwyddedau llawn a roddwyd | Nifer y trwyddedau amodol a roddwyd |
|---|---|---|
| 2019/20 | 89 % | 11% |
| 2020/21 | 92 % | 8 % |
| 2021/22 | 84 % | 16 % |
| 2022/23 | 78 % | 22 % |
| 2023/24 | 68% (Ebrill – Tachwedd) | 32% (Ebrill i Dachwedd) |

Cafodd arolygiadau a amserlenwyd eu gohirio yn ystod y cyfnod clo. Effeithiodd hyn ar nifer y trwyddedau adnewyddu a thrwyddedau newydd a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod hwn. Gellir gweld hefyd bod cymhareb y trwyddedau a gyhoeddwyd gydag amodau wedi cynyddu ar ôl Covid-19 gan awgrymu fod y safonau wedi llithro'n gyffredinol yn ystod y cyfnod hwn.

Mae dadansoddiad o sampl o 25% o gofnodion arolygu ar gyfer eiddo â thrwyddedau ychwanegol yn dangos bod 37% mewn cyflwr gwaeth ar ôl Covid na'u harolygiad diwethaf cyn y Pandemig.

*ffig. 4 Gwahaniaeth canran mewn cyflwr cyn ac ar ôl pandemig Covid 19*




## 3.2 Dadansoddiad SMIDT: Ceredigion (2018 i 2023)


Mae'r wybodaeth a gyflwynir yma yn ymdrin â chyflwr eiddo preswyl, gan gynnwys Tai Amlfeddiannaeth (TA), a aseswyd yn unol â'r y System Mesur Iechyd a Diogelwch Tai (SMIDT).

Isod mae dadansoddiad o Beryglon Categori 1 a 2 sylweddol a nodwyd yng Ngheredigion dros y cyfnod rhwng Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2023.

***Ffig. 5 Categorïau 1 a 2 Peryglon wedi'u nodi yng Ngheredigion 2019 i 2023***

| Blwyddyn | Cyfanswm Asesiadau SMIDT nad ydynt yn Dai Amlfeddiannaeth | Cyfanswm Categorïau 1 a 2 Peryglon wedi'u nodi | Cyfanswm Asesiadau SMIDT Tai Amlfeddiannaeth | Cyfanswm Categorïau 1 a 2 Peryglon wedi'u nodi |
|---|---|---|---|---|
| 2018/19 | 77 | 104 | 23 | 9 |
| 2019/20 | 189 | 53 | 33 | 10 |
| 2020/21 | 27 | 37 | 30 | 3 |
| 2021/22 | 62 | 77 | 4 | 3 |
| 2022/23 | 45 | 59 | 12 | 16 |

***Ffig. 6 Categorïau 1 a 2 Peryglon wedi'u nodi yng Ngheredigion 2018 i 2023***





Defnyddir y SMIDT i benderfynu os ydi eiddo preswyl yn ddiogel i fyw ynddo. Disodlwyd y Safon Ffitrwydd ym mis Gorffennaf 2006. Mae awdurdodau lleol yn defnyddio'r System i benderfynu a oes perygl yn bodoli a allai achosi niwed i iechyd a diogelwch darpar deiliad. Rhennir peryglon yn ddau gategori. Gelwir y rhai sy'n sgorio'n uchel ar y raddfa (ac felly'r risg fwyaf) yn beryglon Categori 1. Gelwir y rhai sy'n gostwng yn is i lawr y raddfa ac sy'n peri risg lai yn beryglon Categori 2. Pan fo amod yn cael ei chategorio fel perygl Categori 1, mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i gymryd y camau gorfodi priodol. Gall yr awdurdod lleol gymryd camau gorfodi mewn perthynas â pheryglon Categori 2.

## 3.3 Nodwyd peryglon SMIDT

Nodir ystod o Beryglon yn ystod asesiadau SMIDT – lleithder a llwydni a gor oerni sydd amlaf fel y nodir yn Fig.7 isod.

Yng Ngheredigion mae nifer fawr o ddiffygion lleithder a thyfiant llwydni wedi'u nodi mewn Tai Amlfeddiannaeth y gellir eu priodoli i systemau gwresogi aneffeithlon, diffyg insiwleiddio a chynnal a chadw. Mae diffygion diogelwch tân mewn TA hefyd yn sylweddol. Mae peryglon gor-oeri yn dystiolaeth o ddigonolrwydd mesurau gwresogi, inswleiddio ac awyru yn yr eiddo. Mae data SAP / EPC hefyd yn cael ei ystyried. Mae trwyddedu TA yn y sir wedi helpu i sicrhau bod digon o wresogi ac inswleiddio yn cael eu darparu mewn eiddo trwyddedig.

***Ffig. 7 Categorïau 1 a 2 Peryglon wedi'u nodi yng Ngheredigion 2019 i 2023***




## 3.4 Cwynion/ceisiadau am wasanaethau tai, amgylcheddol a niwsans yn y sector rhentu preifat

Isod, rydym yn ystyried y galw ar wasanaethau mewn perthynas ag ymweliadau trwyddedu, arolygiadau tai ac yn dilyn cwynion mewn perthynas â safonau tai, rheolaeth, tenantiaeth a chwynion sy'n gysylltiedig â Chartrefi Amlfeddiannaeth. Mae'r rhain yn cael eu categoreiddio fel a ganlyn.


- **Trwyddedu ac Arolygiadau wedi'u Hamserlennu:** Mae hwn yn ymwneud ag arolygiadau TA trwyddedig ac yn cynnwys y rhai a gychwynnwyd ar ôl derbyn cais TA ac unrhyw arolygiadau wedi'u amserlennu yn seiliedig ar risg sy'n ofynnol yn ystod cyfnod y drwydded ar sail maint yr eiddo, safon a rheolaeth tai.

- **SMIDT ac Amodau Eiddo:** Mae'r rhain yn ymwneud â chwynion sy'n gysylltiedig â safonau tai a rheolaeth a allai gyflwyno naill ai peryglon Categori 1 neu 2 SMIDT neu bryderon cynnal a rheolaeth. Mae'r rhain fel arfer mewn ymateb i gwynion a wneir gan y preswylwyr neu eu cynrychiolwyr.
- **Materion yn ymwneud â Dadfeddiannu a Thenantiaeth:** Mae'r rhain yn cynnwys cwynion am achosion o aflonyddu honedig, dadfeddiannu anghyfreithlon, ac anghydfodau cytundeb tenantiaeth fel enghreifftiau.
- **Cwynion Eiddo Gwag:** Tai Amlfeddiannaeth a drwyddedwyd yn flaenorol sy'n wag ac sy'n cael effaith negyddol ar y gymuned leol.
- **TA heb drwydded:** Yn cynnwys ymchwiliadau a wnaed gan yr awdurdod i TA heb drwydded yn ragweithiol ac yn dilyn cwynion.
- **Cwynion Sŵn:** Cwynion y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'r preswylwyr a/neu eu hymwelwyr mewn Tai Amlfeddiannaeth.
- **Niwsans – Gwastraff:** Cwynion a wnaed i'r awdurdod ynghylch gwastraff, sbwriel yn cronni, tipio anghyfreithlon a chyflwyno gwastraff domestig yn anghywir y gellir ei briodoli yn uniongyrchol i TA.
- **Niwsans – Arall:** Yn ymwneud â materion sy'n achosi niwsans i breswylwyr neu breswylwyr lleol a gall gynnwys draeniau a chwynion am arogl fel enghreifftiau.


Yn ystod y 5 mlynedd diwethaf gwelwyd gostyngiad mewn cwynion sy'n gysylltiedig â niwsans a gwastraff sy'n gysylltiedig â TA trwyddedig. Gall hyn fod oherwydd bodolaeth y gyfundrefn drwyddedu ond mae hefyd yn debygol o fod wedi'i effeithio gan Bandemig Covid 19 gyda llai o eiddo yn cael eu meddiannu yn ystod y gwahanol gyfnodau cloi.

Mae'r graff isod yn dangos nifer y cwynion sŵn a dderbyniwyd oedd yn gysylltiedig ag eiddo TA yn ardal Aberystwyth. Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ymwneud â TA yn nhrefi Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi yn ystod y cyfnod hwn.


*Ffig. 8 Niwsans a chwynion sy'n gysylltiedig â sbwriel sy'n gysylltiedig ag eiddo TA.*




*Ffig. 9 Cwynion sŵn a dderbyniwyd rhwng 2019 a 2023 sy'n gysylltiedig â TA Trwyddedig*




***Ffig. 10 cais am wasanaethau sy'n gysylltiedig â thai a dderbyniwyd 2018 – 2023.***




Mae'r graff uchod yn dangos ystod a nifer y ceisiadau am wasanaethau a dderbyniwyd gan y Gwasanaeth Tai yn ystod y 5 mlynedd diwethaf.

Mae ffig. 11 ar y dudalen nesaf yn nodi ystod a nifer y ceisiadau am wasanaeth sy'n ymwneud ag eiddo TA rhwng 2018 a 2023.

***Ffig. 11 Ystod y Ceisiadau Gwasanaeth â dderbyniwyd 2018 – 2023.***



### 3.5 Effeithiau'r pandemig Covid19

Cafodd Pandemig Covid 19 effaith sylweddol ar y cynlluniau trwyddedu gorfodol ac ychwanegol. Mae gan y Sir 2 Brifysgol ac mae nifer sylweddol o dai amlfeddiannaeth yn arbennig yn Aberystwyth yn cael eu meddiannu gan fyfyrwyr. Yn ystod y pandemig dychwelodd myfyrwyr i'w cartrefi gan astudio ar-lein. Yn ogystal, ataliwyd pob archwiliad ffisegol o eiddo preswyl gan gynnwys TA am gyfnodau hir. Roedd hyn yn cynnwys arolygiadau trwyddedu wedi'u amserlennu a gwiriadau cais am drwydded.

O ganlyniad i atal arolygiadau cafodd trwyddedau eu gohirio gan dorri ar draws yr amserlen drwyddedu arferol gan greu ôl-restr sylweddol o eiddo yr oedd angen eu harchwilio. Mae hyn yn ei dro wedi effeithio ar y safonau atgyweirio a brofwyd mewn eiddo TA sydd wedi'u harchwilio yn ystod y 18 mis diwethaf wrth i ni ddod allan o'r Pandemig. Adlewyrchir hyn yn y data a gofnodir yn FIG.3 mewn perthynas â nifer y Trwyddedau a gyhoeddwyd yn 22/23 gydag amodau ynghlwm.

Yn ystod y Pandemig, gwelodd Ceredigion dwf sylweddol ym mhrisiau eiddo gyda'r galw'n uwch na'r cyflenwad. Dechreuodd prisiau gynyddu cyn gynted ag y cyrhaeddodd y pandemig Gymru ym mis Mawrth 2020 a thyfodd yn sylweddol trwy gydol 2021.

O ganlyniad, yn genedlaethol, Ceredigion sydd â'r 4ydd Cymhareb Fforddiadwyedd Tai uchaf yn dilyn i Sir Fynwy, Bro Morgannwg a Chaerdydd. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anoddach i bobl leol a phrynwyr tro cyntaf brynu yn eu cymunedau dewisol, yn enwedig wrth ystyried bod cyflogau yng Ngheredigion yn is na'r cyfartaledd. Y cyflog blynyddol canolrifol, yn ôl man preswylio, yng Ngheredigion oedd £23,576 yn 2021.

Mae hyn yn ei dro yn cynyddu'r galw am lety yn y Sir. Mae nifer o Landlordiaid wedi manteisio ar y cyfle i adael y farchnad rhentu ac wedi gwerthu eu heiddo. Mae hyn yn ei dro wedi arwain at ostyngiad yn nifer y TA yn y Sir.

### 3.6 Crynodeb Canfyddiadau

Er bod llawer o gynnydd wedi'i wneud wrth adfer o'r pandemig, bydd parhad y Cynllun Trwyddedu Ychwanegol yn cynorthwyo'r Awdurdod i barhau i wella safonau tai mewn Tai Amlfeddiannaeth.

Mae'r gostyngiad yn nifer y cwynion sy'n codi i faterion ymddygiad gwrthgymdeithasol, sŵn a rheoli gwastraff yn dangos effeithiolrwydd y Cynllun Trwyddedu Ychwanegol ar waith.

## 4. Rhentu Doeth Cymru

Mae trwyddedu gan Rhentu Doeth Cymru a Thrwyddedu Tai Amlfeddiannaeth Gorfodol ac Ychwanegol yn parhau i weithio'n dda ochr yn ochr.

Ymdrinnir â thrwyddedu TA o dan Ddeddf Tai 2004 ac fe'i gorfodir yn llwyr gan awdurdodau tai lleol. Cyflwynwyd gofynion cofrestru a thrwyddedu Rhentu Doeth Cymru gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Cyngor Caerdydd, sy'n gweithredu fel Rhentu Doeth Cymru, yw awdurdod trwyddedu sengl Cymru. Rhennir elfennau gorfodi rhwng yr awdurdod trwyddedu sengl ac awdurdodau tai lleol drwy gytundeb a dirprwyo awdurdod.

Mae trwydded TA Gorfodol neu Ychwanegol yn ymwneud â deiliad trwydded benodol ynghylch TA penodol. Mae angen trwydded TA ar wahân ar bob eiddo. Mae unrhyw un sy'n gosod neu'n rheoli eiddo preswyl yng Nghymru sy'n cael ei osod o dan denantiaeth ddomestig yn gofyn am drwydded gan Rhentu Doeth Cymru. Mae hyn yn berthnasol i eiddo sy'n cael ei osod i aelwydydd sengl yn ogystal â'r rhai sy'n cael eu gosod mewn tai amlfeddiannaeth. Nid oes angen trwydded ar wahân ar gyfer pob eiddo y maent yn ei osod neu'n ei reoli.

### 4.1 Crynodeb Canfyddiadau

Ni all trwydded TA ddisodli trwydded Rhentu Doeth Cymru nac i'r gwrthwyneb. Mae trwyddedu gan Rhentu Doeth Cymru a Thrwyddedu Tai Amlfeddiannaeth Gorfodol ac Ychwanegol yn parhau i weithio'n dda ochr yn ochr ac maent yn cyfuno i wella amodau tai a safonau tenantiaeth.

## 5. Cysylltiadau â pholisïau, cynlluniau a strategaethau

### 5.1 Strategaeth Tai Lleol 2023 – 2028 – 'Tai i bawb'

Mae'r Strategaeth Tai Ceredigion wedi cael ei hadolygu a datblygwyd Strategaeth newydd ar gyfer 2023-2028 mewn Partneriaeth â gweithrediad y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) yn y Sir. Mae'r Strategaeth yn nodi gweledigaeth a chynlluniau Ceredigion ar gyfer Tai yn y Sir am y 5 mlynedd nesaf gan ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer ymdrin â'r blaenoriaethau sy'n wynebu gwasanaethau tai a thai yng Ngheredigion.

Mae'r blaenoriaethau a nodwyd gan y strategaeth fel a ganlyn:

- Cynyddu'r cyflenwad a gwella amodau tai
- Cefnogi pobl yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain

Mae trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth yn helpu i gyflawni mewn meysydd allweddol o fewn y strategaeth. Mae'r meysydd allweddol hynny'n cynnwys darparu llety fforddiadwy o ansawdd da yng Ngheredigion gyda gwella safonau tai wrth wraidd y strategaeth, yn gryno mae hyn yn cynnwys:

- Gwella safonau tai drwy gael gwared ar beryglon Categori 1 sy'n effeithio ar iechyd a diogelwch ym mhob deiliadaeth
- Sicrhau bod cartrefi yn ddiogel rhag tân
- Gweithio i wella effeithlonrwydd thermol a lleihau tlodi tanwydd
- Cefnogi cyflawni a gorfodi gofynion Rhentu Doeth Cymru
- Sicrhau'r defnydd o gontractau enghreifftiol, a gyflwynwyd gan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016
- Sicrhau bod yr holl Dai cymwys mewn Amlfeddiannaeth yn y sir yn cael eu trwyddedu

### 5.2 Strategaeth Gorfforaethol 2022 – 27

Mae'r Strategaeth Gorfforaethol yn nodi ein blaenoriaethau o'r enw Amcanion Llesiant Corfforaethol, ynghyd â'n huchelgeisiau a'r camau i gyflawni'r rhain dros y pum

mlynedd nesaf. Mae'r strategaeth yn llywio popeth y mae'r Cyngor yn ei wneud. Mae'n seiliedig ar adolygiad eang o dystiolaeth ac asesiadau anghenion.

Mae'r strategaeth yn amlinellu pedwar amcan llesiant, sy'n cynnwys:

- Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth
- Creu cymunedau gofalgar ac iach
- Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi pobl o bob oed i ddysgu
- Creu cymunedau cynaliadwy, gwyrdd sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd

Mae'r Amcanion hefyd wedi'u nodi drwy lens Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Roedd hyn yn cynnwys nodi sut y gallem wneud y mwyaf o'n cyfraniad at y nodau llesiant cenedlaethol a sicrhau ein bod yn defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy i sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

### 5.3 Strategaeth Llesiant Gydol Oes 2022 – 2027

Mae'r strategaeth hon yn rhan allweddol o Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Ceredigion sy'n amlinellu prif flaenoriaethau'r Cyngor. Nod y blaenoriaethau yw galluogi darparu gwasanaethau a fydd yn gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl Ceredigion.

Mae'r argyfyngau economaidd presennol ynghyd ag incwm isel wedi achosi anawsterau cynyddol ar allu pobl i gael mynediad i dai diogel, fforddiadwy.

Un o'r blaenoriaethau allweddol o fewn y strategaeth gorfforaethol yw galluogi gwytnwch unigolion a theuluoedd. Mae mynediad at well dewis ac ansawdd tai fforddiadwy diogel yn ffactor allweddol wrth gyflawni hyn.

### 5.4 Canfyddiadau Cryno – Strategaethau Tai

1. Mae Strategaeth Tai Ceredigion wedi cael ei hadolygu a datblygwyd Strategaeth newydd ar gyfer 2023-2028 mewn Partneriaeth â gweithrediad yr LCC yn y Sir. Mae'r Strategaeth yn nodi gweledigaeth a chynlluniau Ceredigion ar gyfer Tai yn y Sir am y 5 mlynedd nesaf. Mae trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth yn helpu i gyflawni sawl maes allweddol o fewn y strategaeth.

2. Mae'r Strategaeth Gorfforaethol (2022-2027) yn tynnu sylw at y prif feysydd blaenoriaeth ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion dros gyfnod y 5 mlynedd nesaf. Mae'r Dynodiad Trwyddedu Ychwanegol a'r Adolygiad cysylltiedig yn ystyried nodau'r Strategaeth Gorfforaethol ac mae ganddo rôl benodol o ran gwella safonau llety a chyflwr tai ar draws y Sir.

3. Mae'r Strategaeth Llesiant Gydol Oes yn canolbwyntio ar wasanaethau ataliol sy'n helpu pobl i aros yn annibynnol neu adennill yr annibyniaeth y maent ei heisiau ac yn ei gwerthfawrogi. Mae Trwyddedu TA Ychwanegol yn helpu i gyflawni'r elfen hon o'r Strategaeth.

## 6. Gweithredu Cynllun Trwyddedu Ychwanegol

Diben cyffredinol Cynllun Trwyddedu Ychwanegol yw gwella safon yr eiddo rhent yn y sir.  Mae hyn yn cynnwys yr holl eiddo sy'n cael eu hystyried yn TA o fewn diffiniad y

cynllun. Bydd yr adran yn parhau i weithio'n agos gydag aelodau'r cyhoedd a sefydliadau a nodir isod i sicrhau y bydd y Cynllun Trwyddedu Ychwanegol yn sicrhau manteision gwirioneddol i denantiaid a'r cymunedau cyfagos yn gyffredinol yn ogystal â gwasanaethau eraill y Cyngor a sefydliadau ac asiantaethau allanol. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy:

- Parhau i ymgysylltu â landlordiaid ac asiantau gosod, er mwyn sicrhau llety fod TA wedi'u rheoli'n dda ac yn ddiogel gan ddefnyddio darpariaethau rheoleiddio trwyddedu.
- Gwella cyflwr TA sy'n ymwneud ag amwynderau ac atgyweirio trwy Drwyddedu a rheolaethau deddfwriaethol cysylltiedig a sicrhau bod amodau gorlenwi yn cael eu hosgoi.
- Parhau i ymgysylltu â'r cymunedau lleol a'u cynrychiolwyr i wella arferion rheoli o amgylch pryderon gwastraff, sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn cymunedau cyfagos.
- Parhau i weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol, Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru, cynrychiolwyr Prifysgolion ac Urdd y Myfyrwyr a Rhentu Doeth Cymru fel enghreifftiau. Mae hyn er mwyn sicrhau gorfodaeth wedi'i dargedu ac ar sail gwybodaeth o'r rhai nad ydynt yn cydymffurfio â safonau trwyddedu a thai a diogelwch priodol.

Wrth ystyried gweithredu'r Cynllun Trwyddedu Ychwanegol, mae'r Cyngor yn credu'n gryf mai dim ond drwy ddull partneriaeth cadarn y gellir sicrhau gwelliannau parhaus i stoc y sector preifat yng Ngheredigion drwy ddull partneriaeth cadarn sy'n cynnwys tenantiaid, landlordiaid, prifysgolion, cymunedau lleol a'r sectorau gwirfoddol a phreifat gan gynnwys cydweithio gyda gwasanaethau amrywiol y cyngor. Mae'r adran yn parhau i gyflawni gwelliannau i wasanaethau mewn perthynas â Thrwyddedu Tai Amlfeddiannaeth, ac mae'r meysydd y cyfeiriwyd atynt hyd yma yn cynnwys:

- Newidiadau i'r Ffurflen Gais TA gan wneud y broses o gyflwyno cais am drwydded yn haws trwy symleiddio'r ffurflen gais trwyddedu a chyflwyno Ffurflen Gais am Drwydded Adnewyddu.
- Cyflwyno ffi drwyddedu is i landlordiaid ar adnewyddu Trwydded TA mewn amgylchiadau lle:
  a) Derbynnir ceisiadau cyn i'r drwydded bresennol ddod i ben a
  b) Mae Cais Adnewyddu Trwydded yn gyflawn gan gynnwys yr holl ardystio, dogfennaeth a thaliad priodol a
  c) Mae deiliad y drwydded, am gyfnod y drwydded flaenorol wedi cydymffurfio â holl amodau'r drwydded (gan gynnwys cyflwyno'r Dystysgrif Ddiogel Nwy flynyddol os yw'n berthnasol) a
  d) Mae deiliad y drwydded a/neu'r rheolwr enwebedig wedi'u cofrestru'n briodol a'u trwyddedu gyda Rhentu Doeth Cymru, a
  e) Ni chafwyd Hysbysiad Rhan 1 Deddf Tai 2004 ar ddeiliad y drwydded/person sy'n rheoli o fewn y cyfnod trwyddedu blaenorol.
- Parhau i adolygu a diweddaru gwybodaeth ar Dudalennau Gwe Ceredigion gan ddarparu gwybodaeth am TA trwyddedig trwy Gofrestr Gyhoeddus a alluogwyd

gan GIS a darparu cyngor ac arweiniad i landlordiaid ar ystod o safonau tai a materion Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth.

- Cyflwyno system gronfa ddata newydd ar y we sydd wedi symleiddio'r broses ymgeisio ar gyfer swyddogion awdurdodau lleol sy'n cyflwyno newidiadau cyfanwerthol i'r ffordd y caiff gwybodaeth Trwyddedu, gorfodi ac arolygu tai eu cofnodi gan yr awdurdod.

## 7. Ymgynghoriad Cyhoeddus

Fel rhan o'r adolygiad o'r Cynllun Trwyddedu Ychwanegol TA, bob pum mlynedd, mae'n ofyniad gorfodol cynnal Ymgynghoriad Cyhoeddus. Mae'n ofynnol i'r awdurdod sicrhau bod ymarfer ymgynghori trylwyr yn cael ei gynnal gyda phawb sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y dynodiad trwyddedu. Mae canllaw i ymarferwyr o Reoliad Llywodraeth Leol yn argymell isafswm cyfnod ymgynghori o 10 wythnos a chynhaliwyd hyn yng Ngheredigion rhwng 15 Rhagfyr 2023 a 23 Chwefror 2024.

Dosbarthwyd holiaduron â llaw yn nhref Aberystwyth a Llanbedr Pont Steffan i gymysgedd o eiddo perchen-feddiannaeth, Tai Amlfeddiannaeth ac eiddo rhent eraill. Roedd yr holiadur hefyd ar-lein ac ar gael yn llyfrgelloedd y sir.

Ymgynghorwyd hefyd â Chynghorwyr Sir, aelodau Grŵp Llywio Landlordiaid, Y Brifysgol, Heddlu Dyfed-Powys, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth Cymru a phob adran berthnasol arall o'r Cyngor sydd â diddordeb.


Yn ogystal, rhoddwyd yr Ymgynghoriad ar wefan gorfforaethol Cyngor Sir Ceredigion, gan ddefnyddio'r cyfleuster Ymgysylltu ac Ymgynghori. Yn yr un modd, defnyddiwyd amryw o gyfryngau cymdeithasol fel Facebook, X / Trydar.

Mae copi cyflawn o ganfyddiadau'r Ymgynghoriad Cyhoeddus wedi'i gynnwys yn Atodiad 2

## 8. Cwestiynau ac ymatebion allweddol sy'n ymwneud â pharhad y Cynllun Trwyddedu Ychwanegol


Cafwyd cyfanswm o 17 ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r graffiau isod yn dangos bod 65% o'r rhai a ymatebodd i'r holiadur yn gyffredinol yn cefnogi ailddynodi'r Cynllun Trwyddedu Ychwanegol a dim ond 6% oedd yn gwrthwynebu'r ailddynodi gyda 29% yn ansicr.

**C. Ydych chi'n credu bod landlordiaid ac asiantau yn rheoli eiddo yn eich ardal chi i safon dderbyniol?**





**A: Mae'r canlyniadau'n dangos bod barn gyffredinol y cyhoedd ynglŷn â rheolaeth dda bresennol Tai Amlfeddiannaeth wedi'i rannu'n agos i 50:50. Mae dros 50% yn teimlo bod angen mwy o waith i godi'r safon yn gyffredinol a bydd parhad y cynllun yn cynorthwyo gyda'r ddarpariaeth hon.**

**C. Ydych chi'n credu bod trwyddedu landlordiaid Rhentu Doeth Cymru yn ddigonol i sicrhau rheolaeth briodol ar eich eiddo?**





**A: Mae'r canlyniadau'n dangos taw'r farn gyffredinol yw, nad yw Rhentu Doeth Cymru ar ei phen ei hun yn ddigonol i sicrhau rheolaeth effeithiol ar eiddo rhent preifat a bod cyfuniad o'r ddau gynllun yn ddymunol i godi safonau.**

**C. Ydych chi'n credu bod Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth o fudd i'r gymuned gyfan?**




**A: Mae'r siart hon yn dangos cefnogaeth gryf i drwyddedu TA yn gyffredinol a'i fod o fudd i'r gymuned.**


**C: A ydych chi'n credu bod y Cynllun Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth o fudd i denantiaid tai amlfeddiannaeth?**




.


**A: Mae'r dystiolaeth yn y siart hon yn cefnogi'n gryf bod trwyddedu TA o fudd i denantiaid o ran amodau tai, diogelwch a thenantiaeth.**

**C. Ydych chi'n cefnogi parhau / cyflwyno Cynllun Trwyddedu Ychwanegol?**




**A: Dim ond lleiafrif bach iawn o'r ymatebion sy'n gwrthwynebu parhad y cynllun trwyddedu ychwanegol yn ardal Aberystwyth. Mae'r mwyafrif yn cydnabod buddion y cynllun.**

**C: A ydych chi'n credu y dylid ystyried nifer y lloriau fel rhan o'r Cynllun Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth?**




**A: Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn dangos bod y rhan fwyaf o ymatebwyr yn teimlo na ddylid ystyried nifer y lloriau mewn eiddo o ran trwyddedu TA a'u bod yn cydnabod manteision trwyddedu pob TA.**

### 8.1 Crynodeb o'r Canfyddiadau

O'r cwestiynau a'r atebion a dderbyniwyd, gellir dod i gasgliad rhesymol bod dealltwriaeth dda a chefnogaeth eang i barhad y Cynllun Trwyddedu gan denantiaid a'r cyhoedd ehangach.

## 9. Manteision cael cynllun Trwyddedu Ychwanegol

Mae'r cynllun Trwyddedu Ychwanegol TA wedi bod yn rhedeg ers bron i 15 mlynedd ac mae gan y Cyngor brofiad sylweddol o'r maes rheoleiddio hwn ac mae'n credu y bydd parhad y cynllun yng Ngheredigion yn sicrhau'r buddion canlynol:

- Gall Tai Amlfeddiannaeth newydd wneud cyfraniad gwerthfawr i stoc tai. Mae TA yn darparu llety ar gyfer ystod eang o grwpiau, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol ifanc, myfyrwyr, ffoaduriaid a phobl ar incwm isel. Fodd bynnag, rhaid cwblhau addasiadau o'r fath yn briodol, ac mae trwyddedu'n darparu mecanwaith i reoleiddio eiddo o'r fath.
- Sicrhau bod eiddo'n cael ei gynnal i safon briodol i ddiogelu iechyd a diogelwch tenantiaid, a'u bod yn cael eu rheoli'n briodol.
- Sicrhau bod safonau llety yn darparu amgylchedd diogel ac iach drwy archwilio peryglon megis lleithder, oerfel, gwres, peryglon o gwympo, tân, diogelwch trydanol, diogelwch nwy, maint ystafelloedd addas, ceginau / ystafelloedd ymolchi digonol ar gyfer nifer y tenantiaid, diogelwch bwyd, bioladdiadau, plwm, asbestos ac ati.
- Lefelau is o ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu. Mae amodau'r drwydded yn ei gwneud yn ofynnol i'r landlord ddelio â hyn o fewn ffiniau’r eiddo trwyddedig. Byddem yn disgwyl i'r landlord hysbysu tenantiaid bod eu hymddygiad yn annerbyniol yn y lle cyntaf ac os bydd yr ymddygiad yn parhau, i geisio meddiant o'r eiddo.
- Amgylchedd byw mwy diogel a sefydlog i denantiaid a chymdogion. Lleihau cwynion am amodau tai gwael, sŵn, sbwriel, gerddi sydd wedi mynd yn wyllt, cnofilod a phlâu.
- Ardal fwy deniadol i fusnesau a phreswylwyr. Parhau â'r gwaith gyda thîm Rheoli Gwastraff y Cyngor drwy gynnwys gofynion storio gwastraff fel amodau'r drwydded i wella cydymffurfiaeth gwastraff ac ailgylchu.
- Mae manteision uniongyrchol i denantiaid yn cynnwys archwiliadau rheolaidd o eiddo gan Swyddogion y Cyngor sy'n arwain at well lles a hyder yn y landlord oherwydd cydymffurfiaeth â'r safonau a osodir gan drwyddedu.
- Buddion i'r gymuned gyfan, gan gynnwys llai o broblemau amgylcheddol, amddiffyn pobl fregus a allai fel arall fyw mewn eiddo o gyflwr gwael a chynnwys yr eiddo ar y Gofrestr Gyhoeddus.

Ers cyflwyno 3ydd cynllun Trwyddedu Ychwanegol y Cyngor yn 2019, mae nifer sylweddol o eiddo wedi'u gwella, y byddai llawer ohonynt wedi disgyn y tu allan i gwmpas trwyddedu gorfodol ac felly mae'n debygol, heb gynllun trwyddedu Ychwanegol y Cyngor, y byddai llawer llai wedi cael eu gwella.

**Mae tystiolaeth yn dangos bod problemau gydag amodau tai ac yn fwy cyffredinol i'r gymuned i'w gweld mewn tai amlfeddiannaeth bach yn ogystal â mawr.**

**Heb ddynodi cynllun Trwyddedu Ychwanegol yn y sir, ni fydd gan y Cyngor fecanwaith mor effeithiol, a rhagweithiol i sicrhau bod yr eiddo llai hyn yn cael eu rheoleiddio a'u codi i safon foddhaol ac yn cael eu cynnal yn briodol ar y safon honno.**

**Er gwaethaf y gwaith da a wnaed i wella eiddo drwy'r cynllun Trwyddedu Ychwanegol presennol, mae'n amlwg bod angen gwella llawer o eiddo o hyd, ac nad yw rhai tenantiaid yn cael eu diogelu'n ddigonol. Mae angen gwneud mwy o waith.**

## 10. Cynigion ar gyfer dyfodol y Cynllun Trwyddedu Ychwanegol yng Ngheredigion

Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr adolygiad a'r gwerthusiad o'r Cynllun Trwyddedu Ychwanegol 2018 – 24, mae'r opsiynau isod yn cael eu cynnig i'w hystyried i benderfynu a ddylid adnewyddu Dynodiad Trwyddedu Ychwanegol Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer y cyfnod 2024 - 2029. Mae'r cynigion i'w hystyried yn cynnwys:

**Opsiwn 1 -** Parhau â'r Cynllun Trwyddedu Ychwanegol yn ei ffurf bresennol, lle mae trwyddedu yn berthnasol i:

- Tai Amlfeddiannaeth a feddiannir gan dri neu fwy o bobl, gan ffurfio tri neu fwy o aelwydydd ar wahân, waeth beth yw nifer y lloriau yn y wardiau penodedig canlynol yn unig:

**Aberystwyth Bronglais, Canol Aberystwyth, Gogledd Aberystwyth, Penparcau Aberystwyth, Rheidol Aberystwyth, Y Faenor, Llanbadarn Fawr Padarn, Llanbadarn Fawr Sulien.**

- Sir Ceredigion gyfan ar gyfer:
    - Tai Amlfeddiannaeth a feddiannir gan 5 neu fwy o bobl, gan ffurfio dwy aelwyd neu fwy ar wahân, waeth beth yw nifer y lloriau, a
    - Adran 257 TA (Deddf Tai 2004)

**Opsiwn 2 –** Sir Ceredigion yn ei gyfanrwydd:

- yr eiddo hynny y mae 5 person neu fwy yn byw ynddynt, gan ffurfio dwy aelwyd neu fwy ar wahân, waeth beth yw nifer y lloriau, ac
- Adran 257 TA (Deddf Tai 2004) a grëwyd drwy newid adeiladau yn fflatiau lle nad oedd y trawsnewidiadau yn bodloni safonau Rheoliadau Adeiladu 1991 ac nad ydynt wedi cael eu gwella i'r safonau perthnasol wedi hynny.


**Opsiwn 3** - Caniatáu i'r Cynllun Trwyddedu Ychwanegol presennol ddod i ben ar 19 Ebrill 2023 a pheidio â chyhoeddi/dynodi cynllun ychwanegol yn ei le.

## 11. Argymhelliad

Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a manteision cael Cynllun Trwyddedu Ychwanegol ynghyd â'r ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus, argymhellir ystyried Opsiwn 1 ar gyfer ailddynodi'r Cynllun Trwyddedu Ychwanegol am 5 mlynedd arall rhwng 2024 a 2029. Mae niferoedd TA yn ardal Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi yn isel. Nid yw'r data am y 5 mlynedd diwethaf yn cefnogi cyflwyno Cynllun Trwyddedu Ychwanegol yn yr ardaloedd hyn.

# 12. Atodiad 1

## 11.1 Map yn dangos maint y Cynllun Trwyddedu Ychwanegol cyfredol yn Aberystwyth



# HOLIADUR PRESWYLWYR

## Adolygiad Tai sy’n rhan o Gynllun Ychwanegol Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth (HMOs) yng Ngheredigion

Cyflwynodd Deddf Tai 2004 ofyniad i rai Tai Amlfeddiannaeth (HMO's) gael eu trwyddedu. Mae hyn yn galluogi Awdurdodau Lleol i sicrhau fod y Tai Amlfeddiannaeth yn cynnwys chyfarpar addas gyda mwynderau a chyfleusterau ar gyfer y nifer o breswylwyr sydd yn byw ynddynt, ac yn cael eu rheoli yn effeithiol gan 'bersonau addas a phriodol'.

Mae Tai Amlfeddiannaeth yn dai rhent caiff eu rhannu gan fwy nag un uned e.e. tai myfyrwyr sy’n cael eu rhannu, tai sydd wedi eu trosi i fflatiau / ystafelloedd gwely i’w rhentu .

Bydd y Cynllun Trwyddedu **Gorfodol** yn briodol i Dai Amlfeddiannaeth mwy o faint, sef 5 preswylydd neu fwy dros 3 llawr neu fwy.

Cynllun trwyddedu dewisol yw'r Cynllun Trwyddedu **Ychwanegol.** Ers mis Ebrill 2019 mae Cyngor Sir Ceredigion wedi rhedeg cynllun Trwyddedu Ychwanegol sydd wedi ymgorffori'r canlynol;

- Tai Amlfeddiannaeth a feddiannir gan dri neu fwy o bobl, gan ffurfio tri neu fwy o aelwydydd ar wahân, waeth beth yw nifer y lloriau yn y wardiau penodedig canlynol yn unig:

  i. Aberystwyth Bronglais
  ii. Aberystwyth Canolog
  iii. Gogledd Aberystwyth
  iv. Aberystwyth Penparcau
  v. Rheidol Aberystwyth
  vi. Faenor
  vii. Padarn Llanbadarn Fawr
  viii. Llanbadarn Fawr Sulien

- Sir Ceredigion gyfan ar gyfer:
  - Tai Amlfeddiannaeth 5 neu fwy o bobl, gan ffurfio dau neu fwy o aelwydydd ar wahân, waeth faint o loriau, a
  - Adran 257 Tai Amlbreswyliaeth (Deddf Tai 2004)

Disgwylir i'r cynllun ychwanegol hwn ddod i ben ym mis Ebrill 2024 ac mae'r Cyngor yn adolygu a ddylid parhau â'r cynllun hwn yn ei ffurf bresennol, ei ymestyn, ei leihau neu ei newid fel arall.

Bydd canlyniadau'r holiadur hwn yn galluogi Cyngor Sir Ceredigion i sicrhau bod y Cynlluniau Trwyddedu Gorfodol ac Ychwanegol HMO sy'n gweithredu yn y Sir yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir, a byddant yn cael eu defnyddio i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon mewn cynlluniau yn y dyfodol y gallwn eu cyflwyno.

**Bydd yr ymgynghoriad yn cau ar Dydd Gwener 23ain Chwefror 2024**

**Gellir cwblhau'r holiadur ar-lein hefyd trwy tudalen we Ymgysylltu ac Ymgynghori Cyngor Sir Ceredigion neu defnyddiwch y cod QR hwn.**

1. Beth yw cod post eich cyfeiriad cartref?

2. Ydych chi yn denant neu'n berchennog / preswylydd?

☐ Tenant Preifat ☐ Tenant Tai Cymdeithasol

☐ Perchennog Preswylydd ☐ Landlord ☐ Asiant Gosod

3. Pa fath o eiddo ydych chi'n bwy ynddo? (Perchnogion a thenantiaid yn unig) *(ticiwch y bocs):*

☐ Fflat meddiannaeth un teulu

☐ Tŷ meddiannaeth un teulu

☐ Tŷ wedi ei rannu gydag eraill (nid un teulu)

☐ Fflat wedi ei rannu gydag eraill (nid un teulu)

Os yw'n fflat, sawl fflat sydd yn y bloc?

Os yw'n dŷ wedi ei rannu, faint o bobl sy'n byw yno?

Sawl llawr sydd yn y tŷ/ fflat 'rydych chi yn byw ynddo?

4. Pa mor hir ydych chi wedi byw yn yr eiddo?

**Mae cwestiynau 5 - 10 ar gyfer tenantiaid yn unig.**

5. Os ydych yn denant, rhowch fanylion yr hyn a ddarparwyd gan eich landlord pan wnaethoch chi symud i mewn? *Ticiwch bob un sy'n briodol*

☐ Cytundeb Tenantiaeth Ysgrifenedig

☐ Gwybodaeth am y diwrnodau casglu sbwriel

☐ Manylion ar sut y caiff y blaen-dâl ei ddiogelu

☐ Eich cyfrifoldebau fel tenant

☐ Copi o dystysgrif diogelwch nwy

☐ Copi o dystysgrif perfformiad egni

☐ Rhestr Eiddo

☐ Lleoliad y metrau nwy, trydan a dŵr

☐ Sut i ddiffodd y larwm tân

☐ Llyfr rhent

6. Os ydych yn denant, ydych chi yn pryderu am unrhyw un o'r canlynol o ran eich cartref?

   ☐ Nid oes digon o fwynderau (h.y. toiled, cyfleusterau'r gegin)

   ☐ Gwastraff, ysbwriel & storio

   ☐ Diogelwch tân

   ☐ Dim digon o le/ gormod o bobl

   ☐ Diogelwch

   ☐ System wresogi effeithiol/digon o insiwleiddio (Effeithlonrwydd Ynni)

   ☐ Eiddo mewn cyflwr gwael

   ☐ Lleithder a llwydni

   ☐ Diogelwch eich tenantiaeth (cael eich troi allan)

   ☐ Arall, nodwch os gwelwch yn dda

7. Os ydych yn denant, a ydych chi yn ymwybodol o'r gofyniad i landlordiaid gael eu trwyddedu o dan Rhentu Doeth Cymru?

   ☐Ydw ☐ Nac ydw

8. Ydych chi yn meddwl bod Cynllun Rhentu Doeth Cymru wedi gwella ansawdd eich cartref neu eich perthynas â'ch landlord?

   ☐ Ydw ☐ Nac ydw

   Gwnewch sylwadau pellach fel y bo'r angen:

9. Ydych chi yn meddwl fod landlordiaid ac asiantau yn rheoli eich eiddo neu eiddo eraill yn eich ardal i safon dderbyniol?

   ☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim yn gwybod

   Gwnewch sylwadau pellach fel y bo'r angen:

10. Ydych chi yn meddwl bod trwyddedu landlordiaid drwy Cynllun Rhentu Doeth Cymru yn ddigon i sicrhau bod eich eiddo yn cael ei reoli'n iawn?

☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim yn gwybod

Gwnewch sylwadau pellach fel y bo’r angen:

**Mae'r cwestiynau hyn ar gyfer PAWB**

11. Ydych chi yn pryderu am unrhyw un o’r canlynol yn eich ardal chi?

☐ Sŵn, poendod

☐ Sbwriel a gwastraff

☐ Gerddi / blaengyrtiau anniben a gordyfiant

☐ Eiddo sy'n niweidiol i amwynder yr ardal (eiddo anghyfreithlon)

☐ Byrgleriaeth

☐ Ymddygiad gwrthgymdeithasol

☐ Trwydded arall

☐ Arall, nodwch os gwelwch yn dda

12. Oes gennych chi unrhyw syniadau ynghylch sut y gellir mynd i'r afael â rhain?

13. Ydych chi yn credu bod y Cynllun Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth presennol wedi bod o fudd i’r gymuned?

☐Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim yn gwybod

Rhowch sylwadau pellach os oes angen

14. Ydych chi yn credu bod y Cynllun Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth I wedi bod o fudd i denantiaid Tai Amlfeddiannaeth?

☐Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim yn gwybod

Rhowch sylwadau pellach os oes angen

15. Ydych chi'n cefnogi parhad / cyflwyno cynllun trwyddedu Ychwanegol?

☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim yn gwybod ☐ Yn dibynnu ar y cynllun / yn rhannol

Eglurwch eich ateb:

16. Nodwch pa un o'r mathau canlynol o eiddo yr hoffech chi eu gweld yn drwyddedig?

☐ Tŷ a rennir gan 5 person neu fwy a 3 llawr neu fwy - *Mae hyn yn orfodol, bydd yn parhau*

☐ Annedd a feddiannir gan un teulu

☐ Annedd a rennir gan 2 neu fwy o deuluoedd / aelwydydd

☐ Annedd a rennir gan deulu / aelwydydd a lletywr nad yw'n gysylltiedig

☐ Annedd a rennir gan deulu / aelwydydd a dau neu fwy o letywyr

☐ Tŷ a rennir gan dri person sengl, nad ydynt yn gysylltiedig

☐ Tŷ a rennir gan bedwar person sengl, nad ydynt yn gysylltiedig

☐ Tŷ a rennir gan bump person neu fwy, nad ydynt yn gysylltiedig

17. Ydych chi yn meddwl y dylid ystyried nifer o loriau fel rhan o'r cynllun trwyddedu?

☐Ydw ☐ Nac ydw

Os ie, pa nifer o loriau ddylai gael eu trwyddedu? Nifer o loriau? .......

Os gwelwch yn dda, dychwelwch yr arolwg hyn i'r cyfeiriad canlynol:

Cyngor Sir Ceredigion, Lles y Gymuned
Canolfan Rheidol
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UE
Cyf: Adolygiad Trwyddedu Ychwanegol 2023

E-bost: Housing@ceredigion.gov.uk

**Bydd yr ymgynghoriad yn cau ar Dydd Gwener 23ain Chwefror 2024**

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# Ffurflen Monitro Cydraddoldeb

Mae'r cwestiynau hyn yn ddewisol, fodd bynnag mae'n ofynnol i'r Cyngor ddeall a yw'r ymgynghoriad wedi cyrraedd y bobl iawn (yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010) ac i ddeall sut y gallai'r cynnig effeithio ar wahanol grwpiau, gan ein galluogi i fynd i'r afael â hyn os gallwn ni.

Yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data, cedwir unrhyw wybodaeth y gofynnir amdani yn y cwestiynau canlynol yn gyfrinachol at ddibenion dadansoddi data yn unig.

**1. Oedran:** Beth yw eich grŵp oedran?

| | | | |
|---|---|---|---|
| O dan 16 | ☐ | 45 – 64 | ☐ |
| 16 – 24 | ☐ | 65+ | ☐ |
| 25 – 44 | ☐ | Gwell gennyf beidio â dweud | ☐ |

**2. Rhyw:** Beth yw eich rhyw?

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwryw | ☐ | Benyw | ☐ |
| Arall | ☐ | Gwell gennyf beidio â dweud | ☐ |

**3. Trawsrywiol:** Ydy'ch rhyw yn awr yr un fath â'r un a ddyrannwyd i chi ar eich genedigaeth?

Ydy ☐ Na ☐ Gwell gennyf beidio â dweud ☐

**4. Cyfeiriadedd Rhywiol:** Pa un o'r opsiynau canlynol sy'n disgrifio orau'r ffordd rydych yn meddwl amdanoch chi eich hun?

| | | | |
|---|---|---|---|
| Heterorywiol / Strêt | ☐ | Deurywiol | ☐ |
| Dyn Hoyw | ☐ | Gwell gennyf beidio â dweud | ☐ |
| Merch Hoyw / Lesbiad | ☐ | Arall (nodwch os dymunwch) | |

**5. Partneriaeth:** Beth yw eich statws partneriaeth?

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sengl | ☐ | Gweddw | ☐ |
| Priod | ☐ | Partner Sifil | ☐ |
| Byw gyda Phartner | ☐ | Wedi Gwahanu | ☐ |
| Wedi Ysgaru | ☐ | Arall | ☐ |
| Gwell gennyf beidio â dweud | ☐ | | |

**6.Hunaniaeth Genedlaethol:** Sut fyddech chi'n disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol?

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cymro / Cymraes | ☐ | Prydeiniwr / Prydeinwraig | ☐ |
| Sais / Saesnes | ☐ | Gwyddel / Gwyddeles | ☐ |
| Albanwr / Albanes | ☐ | Gwell gennyf beidio â dweud | ☐ |
| Gwyddel / Gwyddeles o Ogledd Iwerddon | ☐ | Arall (disgrifiwch) ______________________ | |

**7. Grŵp Ethnig:** Beth yw eich grŵp ethnig? Dewiswch un opsiwn sy'n disgrifio eich grŵp neu gefndir ethnig orau.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwyn | ☐ | Teithwyr Sipsi | ☐ |
| Asiaidd | ☐ | Gwell gennyf beidio â dweud | ☐ |
| Du/Affricanaidd/Caribïaidd | ☐ | Unrhyw gefndir arall (nodwch) | |
| Cymysg | ☐ | ______________________ | |

**8. Iaith:** Beth yw eich dewis iaith?

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cymraeg | ☐ | Gwell gennyf beidio â dweud | ☐ |
| Saesneg | ☐ | Arall (yn cynnwys Iaith Arwyddion Prydain) ______________________ | |

**Ydych chi'n deall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Deall Cymraeg llafar | ☐ | Ysgrifennu Cymraeg | ☐ |
| Siarad Cymraeg | ☐ | Dim un o'r uchod | ☐ |
| Darllen Cymraeg | ☐ | Gwell gennyf beidio â dweud | ☐ |

**9. Anabledd:** A oes gennych gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol neu salwch tymor hir sy'n lleihau eich gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oes | ☐ | Nac Oes | ☐ |
| Gwell gennyf beidio â dweud | ☐ | | |

Os ydych wedi ateb 'oes', nodwch yr hyn sy'n berthnasol i chi:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nam ar y Clyw | ☐ | Materion Iechyd Meddwl | ☐ |
| Nam ar y Golwg | ☐ | Nam Corfforol / Symudedd | ☐ |
| Nam Lleferydd | ☐ | Gwell gennyf beidio â dweud | ☐ |
| Anableddau Dysgu | ☐ | Arall (nodwch) ________________ | |

**10. Cyfrifoldebau Gofalu:** Ydych chi'n gofalu am rywun neu'n darparu cymorth neu gefnogaeth i aelodau'r teulu, ffrindiau, cymdogion neu eraill oherwydd cyflwr iechyd, anabledd corfforol neu feddyliol hirdymor neu problemau yn ymwneud â henaint.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | ☐ | Nac ydw | ☐ |
| Gwell gennyf beidio â dweud | ☐ | | |

**11. Crefydd neu Gred:** Beth yw eich crefydd?

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cristion (pob enwad) | ☐ | Iddew | ☐ |
| Bwdhydd | ☐ | Anffyddiwr | ☐ |
| Hindŵ | ☐ | Dim crefydd | ☐ |
| Mwslim | ☐ | Gwell gennyf beidio â dweud | ☐ |
| Sikh | ☐ | Arall | ☐ |

Diolch am lenwi'r ffurflen hon.

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# TECLYN ASESU EFFAITH INTEGREDIG (AEI)

## Manylion y Cynnig

| **Teitl y Polisi / Cynnig / Menter** | |
|---|---|
| Ail-ddynodi Cynllun Trwyddedi Ychwanegol ar gyfer Tai Aml-Feddiannol | |
| **Maes Gwasanaeth** | **Enw'r swyddog sy'n cwblhau'r AEI** |
| Tai | Tracy Evans |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol** | **Cyfarwyddwr Strategol** |
| Greg Jones | James Starbuck |
| **Rhowch ddisgrifiad cryno o bwrpas y cynnig** | |
| Ystyried Adolygiad a Gwerthusiad o'r Cynllun Trwyddedu Ychwanegol ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth 2018 – 24 ac ystyried a ddylid ail-ddynodi'r Cynllun am gyfnod pellach o 5 mlynedd | |
| **Ar bwy fydd y cynnig hwn yn effeithio'n uniongyrchol?** AWGRYM | |
| Landlordiaid, asiantau, aelodau'r cyhoedd | |
| **A yw'r rhai y bydd y cynnig yn effeithio arnynt wedi cael cyfle i wneud sylwadau arno?** | |
| Cynhaliwyd Ymgynghoriad Cyhoeddus rhwng 15 Rhagfyr a 23 Chwefror 2024 | |

## Rheoli Fersiynau

Dylid defnyddio'r AEI yn ystod camau cyntaf y broses benderfynu, ac yna dylid ei fireinio drwy gydol y broses benderfynu. Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses hon fel y gallwn ddangos sut yr ydym wedi ystyried a chynnwys ystyriaethau o ran datblygu cynaliadwy, y Gymraeg a chydraddoldeb lle bynnag y bo modd.

| Rhif y Fersiwn | Awdur | Cam yn y broses benderfynu AWGRYM | Dyddiad yr Ystyriwyd | Disgrifiad o unrhyw newidiadau a wnaed AWGRYM |
|---|---|---|---|---|
| 0.1 | Tracy Evans | Yn dilyn ymgynghoriad | 23/02/2024 | AMH |

## Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor

Pa un o Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor y mae'r cynnig hwn yn mynd i'r afael ag ef a sut? Cliciwch yma i ddarllen crynodeb o'n Strategaeth Gorfforaethol 2022-27

| | |
|---|---|
| **Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth** | |
| **Creu cymunedau gofalgar ac iach** | |
| **Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi i bobl o bob oed ddysgu** | |
| **Creu cymunedau cynaliadwy sy'n fwy gwyrdd ac sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd** | Mae'r argymhelliad yn ceisio rheoleiddio tai amlfeddiannaeth llai er mwyn sicrhau bod trigolion y Sir yn gallu byw mewn tai fforddiadwy diogel sy'n bodloni safonau tai perthnasol. |

## Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru Lewyrchus

**Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel lle mae gan bawb waith addas a lle nad oes tlodi**.

Cliciwch yma am wybodaeth am Gymru lewyrchus.

| |
|---|
| **Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol**. (Cliciwch yma am wybodaeth) |
| Mae trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth yn sicrhau bod trigolion y Sir yn byw mewn llety **fforddiadwy diogel** y gellir ei fonitro a'i reoleiddio mewn modd cyson i fodloni safonau tai presennol. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** |
| Mae tystiolaeth yn dangos pan na wneir gwaith monitro ac arolygu rhagweithiol ar y math hwn o dai bod safonau tai yn llithro. Mae'n arwain at bobl yn byw mewn amgylcheddau sydd ddim yn iach, sy'n gostus i'w cynnal a sy'n effeithio ar iechyd a thlodi. Roedd hyn yn amlwg yn ystod Pandemig Covid pan gafodd archwiliadau rheolaidd o'r math yma o adeiladau eu hatal am gyfnodau hir. |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at y Nod Llesiant Cenedlaethol hwn?** |
| Effaith negyddol y cynllun trwyddedu yw'r gost i'r landlord o gael trwydded. Mae hyn yn cael ei liniaru gan y manteision i'r tenantiaid o fyw mewn llety sy'n bodloni'r safonau tai presennol. |

## Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru Gydnerth

**Cymdeithas lle mae bioamrywiaeth yn cael ei chynnal a'i gwella a lle mae ecosystemau yn iach ac yn gweithredu.**

Cliciwch yma am wybodaeth am Gymru gydnerth.

| |
|---|
| **Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol**. (Cliciwch yma am wybodaeth) |
| Nid yw'r argymhelliad yn cyfrannu'n uniongyrchol at y nod hwn. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** |
| |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at y Nod Llesiant Cenedlaethol hwn?** |
| |

## Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru Iachach

**Cymdeithas lle mae pobl yn gwneud dewisiadau iach ac yn mwynhau iechyd corfforol a meddyliol da.**

Cliciwch yma am wybodaeth am Gymru Iachach.

| |
|---|
| **Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol.** (Cliciwch yma am wybodaeth) |
| Mae byw mewn tai fforddiadwy diogel yn ffactor allweddol sy'n dylanwadu ar iechyd meddwl a lles pobl, yn ogystal â chreu amgylchedd iach iddynt fyw ynddo sydd heb gyflyrau fel lleithder a llwydni. O'r herwydd, bydd parhad y Cynllun Trwyddedu Ychwanegol yn cael effaith gadarnhaol ar breswylwyr. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** |
| Mae cyfoeth o dystiolaeth ar gael sy'n dangos bod tai yn ffactor pwysig o ran iechyd a lles e.e. mae tai diogel wedi'u cynnwys yn Benderfynyddion Iechyd fel y'u diffinnir gan Sefydliad Iechyd y Byd. |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at y Nod Llesiant Cenedlaethol hwn?** |
| Dim effeithiau negyddol wedi'u nodi. |

## Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru sy’n Fwy Cyfartal

**Cymdeithas lle mae gan bawb gyfle cyfartal beth bynnag fo’u cefndir neu eu hamgylchiadau.**

Mae'r adran hon yn hirach oherwydd gofynnir i chi asesu effaith eich cynnig ar bob grŵp sydd wedi'i ddiogelu gan **Ddeddf Cydraddoldeb 2010**.

Cliciwch yma am wybodaeth am gydraddoldeb yng Nghymru.

| **Ydych chi’n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hoedran?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
|---|---|
| **Plant a Phobl Ifanc hyd at 18 oed** | Cadarnhaol |
| **Pobl 18-50** | Cadarnhaol |
| **Pobl hŷn 50+** | Cadarnhaol |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol.** | |
| Mae byw mewn tai fforddiadwy diogel yn ffactor allweddol sy'n dylanwadu ar iechyd meddwl a lles pobl, yn ogystal â chreu amgylchedd iach iddynt fyw ynddo sydd heb gyflyrau fel lleithder a llwydni. O'r herwydd, bydd parhad y Cynllun Trwyddedu Ychwanegol yn cael effaith gadarnhaol ar breswylwyr. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi hyn?** | |
| Mae cyfoeth o dystiolaeth ar gael sy'n dangos bod tai yn ffactor pwysig o ran iechyd a lles e.e. mae tai diogel wedi'u cynnwys yn Benderfynyddion Iechyd fel y'u diffinnir gan Sefydliad Iechyd y Byd. | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>Ni ddylid cael unrhyw effaith negyddol oherwydd yr argymhelliad hwn ar y boblogaeth gyffredinol.<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** | |
| Dim wedi’u nodi. | |

| **Ydych chi’n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hanabledd?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
|---|---|
| **Amhariad ar y clyw** | Cadarnhaol |
| **Amhariad corfforol** | Cadarnhaol |

| | |
|---|---|
| **Amhariad ar y golwg** | Cadarnhaol |
| **Anabledd Dysgu** | Cadarnhaol |
| **Salwch hirdymor** | Cadarnhaol |
| **Iechyd Meddwl** | Cadarnhaol |
| **Arall** | |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Mae byw mewn tai fforddiadwy diogel yn ffactor allweddol sy'n dylanwadu ar iechyd meddwl a lles pobl, yn ogystal â chreu amgylchedd iach iddynt fyw ynddo sydd heb gyflyrau fel lleithder a llwydni. O'r herwydd, bydd parhad y Cynllun Trwyddedu Ychwanegol yn cael effaith gadarnhaol ar breswylwyr. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Mae cyfoeth o dystiolaeth ar gael sy'n dangos bod tai yn ffactor pwysig o ran iechyd a lles e.e. mae tai diogel wedi'u cynnwys yn Benderfynyddion Iechyd fel y'u diffinnir gan Sefydliad Iechyd y Byd. | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br>Ni ddylid cael unrhyw effaith negyddol oherwydd yr argymhelliad hwn ar y boblogaeth gyffredinol.<br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** | |
| | |

| | |
|---|---|
| **Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl sy'n drawsryweddol?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
| **Menywod Traws** | Cadarnhaol |
| **Dynion Traws** | Cadarnhaol |
| **Pobl Anneuaidd** | Cadarnhaol |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Mae byw mewn tai fforddiadwy diogel yn ffactor allweddol sy'n dylanwadu ar iechyd meddwl a lles pobl, yn ogystal â chreu amgylchedd iach iddynt fyw ynddo sydd heb gyflyrau fel lleithder a llwydni. O'r herwydd, bydd parhad y Cynllun Trwyddedu Ychwanegol yn cael effaith gadarnhaol ar bawb. | |

| |
|---|
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** |
| Mae cyfoeth o dystiolaeth ar gael sy'n dangos bod tai yn ffactor pwysig o ran iechyd a lles e.e. mae tai diogel wedi'u cynnwys yn Benderfynyddion Iechyd fel y'u diffinnir gan Sefydliad Iechyd y Byd. |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?** Ni ddylid cael unrhyw effaith negyddol oherwydd yr argymhelliad hwn ar y boblogaeth gyffredinol. **A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** |
| |

| **Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â gwahanol gyfeiriadedd rhywiol?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
|---|---|
| **Pobl Ddeurywiol** | Cadarnhaol |
| **Dynion hoyw** | Cadarnhaol |
| **Menywod hoyw / lesbiaid** | Cadarnhaol |
| **Pobl Heterorywiol** | Cadarnhaol |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Mae byw mewn tai fforddiadwy diogel yn ffactor allweddol sy'n dylanwadu ar iechyd meddwl a lles pobl, yn ogystal â chreu amgylchedd iach iddynt fyw ynddo sydd heb gyflyrau fel lleithder a llwydni. O'r herwydd, bydd parhad y Cynllun Trwyddedu Ychwanegol yn cael effaith gadarnhaol ar bawb. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Mae cyfoeth o dystiolaeth ar gael sy'n dangos bod tai yn ffactor pwysig o ran iechyd a lles e.e. mae tai diogel wedi'u cynnwys yn Benderfynyddion Iechyd fel y'u diffinnir gan Sefydliad Iechyd y Byd. | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?** Ni ddylid cael unrhyw effaith negyddol oherwydd yr argymhelliad hwn ar y boblogaeth gyffredinol. **A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** | |
| | |

| | |
|---|---|
| **Ydych chi'n meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
| **Pobl sy'n briod** | Cadarnhaol |
| **Pobl mewn partneriaeth sifil** | Cadarnhaol |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Mae byw mewn tai fforddiadwy diogel yn ffactor allweddol sy'n dylanwadu ar iechyd meddwl a lles pobl, yn ogystal â chreu amgylchedd iach iddynt fyw ynddo sydd heb gyflyrau fel lleithder a llwydni. O'r herwydd, bydd parhad y Cynllun Trwyddedu Ychwanegol yn cael effaith gadarnhaol ar bawb. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Mae cyfoeth o dystiolaeth ar gael sy'n dangos bod tai yn ffactor pwysig o ran iechyd a lles e.e. mae tai diogel wedi'u cynnwys yn Benderfynyddion Iechyd fel y'u diffinnir gan Sefydliad Iechyd y Byd. | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>Ni ddylid cael unrhyw effaith negyddol oherwydd yr argymhelliad hwn ar y boblogaeth gyffredinol.<br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** | |
| | |

| | |
|---|---|
| **A ydych chi'n meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl sy'n feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
| **Beichiogrwydd** | Cadarnhaol |
| **Mamolaeth** | Dim/Fawr Ddim |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Mae byw mewn tai fforddiadwy diogel yn ffactor allweddol sy'n dylanwadu ar iechyd meddwl a lles pobl, yn ogystal â chreu amgylchedd iach iddynt fyw ynddo sydd heb gyflyrau fel lleithder a llwydni. O'r herwydd, bydd parhad y Cynllun Trwyddedu Ychwanegol yn cael effaith gadarnhaol ar bawb. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Mae cyfoeth o dystiolaeth ar gael sy'n dangos bod tai yn ffactor pwysig o ran iechyd a lles e.e. mae tai diogel wedi'u cynnwys yn Benderfynyddion Iechyd fel y'u diffinnir gan Sefydliad Iechyd y Byd. | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?** | |
| Dim effeithiau negyddol wedi'u nodi | |

| A ydych yn meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu tarddiad ethnig? (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
|---|---|
| **Asiaidd / Asiaidd Prydeinig** | Cadarnhaol |
| **Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig** | Cadarnhaol |
| **Grwpiau Ethnig Cymysg/ Aml-ethnig** | Cadarnhaol |
| **Gwyn** | Cadarnhaol |
| **Grwpiau ethnig eraill** | Cadarnhaol |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Mae byw mewn tai fforddiadwy diogel yn ffactor allweddol sy'n dylanwadu ar iechyd meddwl a lles pobl, yn ogystal â chreu amgylchedd iach iddynt fyw ynddo sydd heb gyflyrau fel lleithder a llwydni. O'r herwydd, bydd parhad y Cynllun Trwyddedu Ychwanegol yn cael effaith gadarnhaol ar bawb. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Mae cyfoeth o dystiolaeth ar gael sy'n dangos bod tai yn ffactor pwysig o ran iechyd a lles e.e. mae tai diogel wedi'u cynnwys yn Benderfynyddion Iechyd fel y'u diffinnir gan Sefydliad Iechyd y Byd. | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?** Dim effeithiau negyddol wedi'u nodi **A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** | |
| | |

| Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â gwahanol grefyddau, credoau neu ddim cred? (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
|---|---|
| **Bwdhaidd** | Cadarnhaol |
| **Cristion** | Cadarnhaol |
| **Hindŵaidd** | Cadarnhaol |
| **Dyneiddiwr** | Cadarnhaol |
| **Iddewig** | Cadarnhaol |

| | |
|---|---|
| **Mwslim** | Cadarnhaol |
| **Sikh** | Cadarnhaol |
| **Pobl heb gred** | Cadarnhaol |
| **Eraill** | Cadarnhaol |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Mae byw mewn tai fforddiadwy diogel yn ffactor allweddol sy'n dylanwadu ar iechyd meddwl a lles pobl, yn ogystal â chreu amgylchedd iach iddynt fyw ynddo sydd heb gyflyrau fel lleithder a llwydni. O'r herwydd, bydd parhad y Cynllun Trwyddedu Ychwanegol yn cael effaith gadarnhaol ar bawb. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Mae cyfoeth o dystiolaeth ar gael sy'n dangos bod tai yn ffactor pwysig o ran iechyd a lles e.e. mae tai diogel wedi'u cynnwys yn Benderfynyddion Iechyd fel y'u diffinnir gan Sefydliad Iechyd y Byd. | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br>Dim effeithiau negyddol wedi'u nodi<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** | |
| | |

| | |
|---|---|
| **Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar ddynion neu fenywod?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
| **Dynion** | Cadarnhaol |
| **Menywod** | Cadarnhaol |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Mae byw mewn tai fforddiadwy diogel yn ffactor allweddol sy'n dylanwadu ar iechyd meddwl a lles pobl, yn ogystal â chreu amgylchedd iach iddynt fyw ynddo sydd heb gyflyrau fel lleithder a llwydni. O'r herwydd, bydd parhad y Cynllun Trwyddedu Ychwanegol yn cael effaith gadarnhaol ar bawb. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Mae cyfoeth o dystiolaeth ar gael sy'n dangos bod tai yn ffactor pwysig o ran iechyd a lles e.e. mae tai diogel wedi'u cynnwys yn Benderfynyddion Iechyd fel y'u diffinnir gan Sefydliad Iechyd y Byd. | |

| |
|---|
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br>Dim effeithiau negyddol wedi'u nodi<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** |
| |

| | |
|---|---|
| **A ydych yn credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl o Gymuned y Lluoedd Arfog?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
| **Aelodau o'r Lluoedd Arfog** | Cadarnhaol |
| **Cyn-filwyr** | Cadarnhaol |
| **Gwŷr/gwragedd** | Cadarnhaol |
| **Plant** | Cadarnhaol |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Mae byw mewn tai fforddiadwy diogel yn ffactor allweddol sy'n dylanwadu ar iechyd meddwl a lles pobl, yn ogystal â chreu amgylchedd iach iddynt fyw ynddo sydd heb gyflyrau fel lleithder a llwydni. O'r herwydd, bydd parhad y Cynllun Trwyddedu Ychwanegol yn cael effaith gadarnhaol ar breswylwyr. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Mae cyfoeth o dystiolaeth ar gael sy'n dangos bod tai yn ffactor pwysig o ran iechyd a lles e.e. mae tai diogel wedi'u cynnwys yn Benderfynyddion Iechyd fel y'u diffinnir gan Sefydliad Iechyd y Byd. | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?** | |
| Dim effeithiau negyddol wedi'u nodi | |

## Dyletswydd economaidd-gymdeithasol

Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn golygu byw ar incwm isel o'i gymharu ag eraill yng Nghymru, gydag ychydig neu ddim cyfoeth cronedig, sy'n ei gwneud hi'n anoddach cael gafael ar nwyddau a gwasanaethau sylfaenol.

Mae cefndir teuluol neu lle mae person yn cael ei eni yn dal i effeithio ar ei fywyd. Er enghraifft, mae plentyn o deulu cyfoethog yn aml yn gwneud yn well yn yr ysgol na phlentyn o deulu tlawd, hyd yn oed os yw'r plentyn tlotach yn fwy naturiol academaidd. Gelwir hyn weithiau yn anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol.

| | |
|---|---|
| **Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol?** | Cadarnhaol |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Mae byw mewn tai fforddiadwy diogel yn ffactor allweddol sy'n dylanwadu ar iechyd meddwl a lles pobl, yn ogystal â chreu amgylchedd iach iddynt fyw ynddo sydd heb gyflyrau fel lleithder a llwydni. O'r herwydd, bydd parhad y Cynllun Trwyddedu Ychwanegol yn cael effaith gadarnhaol ar breswylwyr. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'r farn hon?** | |
| Mae cyfoeth o dystiolaeth ar gael sy'n dangos bod tai yn ffactor pwysig o ran iechyd a lles e.e. mae tai diogel wedi'u cynnwys yn Benderfynyddion Iechyd fel y'u diffinnir gan Sefydliad Iechyd y Byd. | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br>Dim effeithiau negyddol wedi'u nodi<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** | |
| | |

## Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru o Gymunedau Cydlynus

**Cymdeithas gyda chymunedau deniadol, hyfyw, diogel, sydd â chysylltiadau da**

Cliciwch yma i weld gwybodaeth am gymunedau cydlynus.

| |
|---|
| **Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol. AWGRYM** |
| Mae byw mewn tai fforddiadwy diogel yn ffactor allweddol sy'n dylanwadu ar iechyd meddwl a lles pobl, yn ogystal â chreu amgylchedd iach iddynt fyw ynddo sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu iechyd corfforol. Lle mae pobl yn hapusach yn eu cartref a'u hiechyd cyffredinol, mae hyn yn cael effeithiau cadarnhaol ar eu lles cymdeithasol a'u cyfranogiad cymunedol. Mae'r cynllun wedi gweithredu ar ryw ffurf neu'i gilydd ers 2009. Mae hyn wedi dangos effaith gadarnhaol dros y blynyddoedd mewn perthynas â rheoli gwastraff a chwynion ymddygiad gwrthgymdeithasol a chwynion niwsans a all gael effaith negyddol ar gymunedau. O'r herwydd, bydd parhad y Cynllun Trwyddedu Ychwanegol yn cael effaith gadarnhaol ar bawb. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** |
| Mae cyfoeth o dystiolaeth ar gael sy'n dangos bod tai yn ffactor pwysig o ran iechyd a lles e.e. mae tai diogel wedi'u cynnwys yn Benderfynyddion Iechyd fel y'u |

| |
|---|
| diffinnir gan Sefydliad Iechyd y Byd.  Mae cyflwyno Cynllun Trwyddedu Ychwanegol dros y 15 mlynedd diwethaf wedi dangos gostyngiad cyffredinol yn nifer y cwynion a adroddwyd gan y gymuned mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, sŵn a materion rheoli gwastraff. |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at y nod?** |
| Dim effeithiau negyddol wedi'u nodi |

## Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

**Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn amddiffyn diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden**.

Cliciwch yma i ddarllen gwybodaeth am ddiwylliant a'r iaith Gymraeg

| | |
|---|---|
| **Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol.** | |
| Ystyrir fod yr effaith ar y nod hwn yn niwtral | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn  hon?** | |
| Mae'r Gwasanaeth Tai ar gael i siaradwyr Cymraeg a Saesneg. Mae dros hanner y staff yn siarad Cymraeg. | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?** | |
| Dim wedi'u nodi | |
| **Gan gyfeirio at y canlynol, a ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y Gymraeg?**<br>Cliciwch yma am wybodaeth | |
| **Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg** | Dim/Fawr ddim |
| **Trin y Gymraeg, dim llai ffafriol na'r Saesneg** | Dim/Fawr ddim |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'r safbwynt hwn?** | |
| Mae'r Gwasanaeth Tai / Cynllun Trwyddedi Ychwanegol ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. | |
| **Pa gamau y gallwch eu cymryd i gynyddu'r effaith gadarnhaol neu liniaru unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg?** | |

| |
|---|
| Mae'r dogfennau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae dros hanner y staff yn siarad Cymraeg a Saesneg. |

## Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

**Cymdeithas sy'n ystyried sut y gallai ein gweithredoedd effeithio ar wledydd a phobl eraill ledled y byd.**

Cliciwch yma i ddarllen am gyfrifoldeb byd-eang.

| |
|---|
| **Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol.** AWGRYM |
| Ystyrir bod yr effaith ar y nod hwn yn gadarnhaol gan fod rheoleiddio'r safleoedd hyn yn caniatáu i eiddo gael ei wella i fodloni'r safonau presennol. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael ag effeithlonrwydd tanwydd sy'n effeithio ar newid hinsawdd. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** |
| Mae yna gyfoeth o dystiolaeth i gefnogi'r farn y bydd mynd i'r afael ag effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi yn helpu i leihau allyriadau carbon. |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at y nod?** |
| Dim effeithiau negyddol wedi'u nodi |

## Cryfhau'r Cynnig

Os ydych wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol yn yr adrannau uchod, rhowch fanylion am unrhyw newidiadau a chamau gweithredu ymarferol a allai helpu i ddileu neu leihau'r effeithiau negyddol.

| Beth fyddwch chi'n ei wneud? | Pryd? | Pwy sy'n gyfrifol? | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| AMH | | | |
| | | | |
| | | | |

| |
|---|
| **Os na chymerir camau i ddileu neu liniaru effeithiau negyddol, a fyddech cystal â chyfiawnhau pam.** *(Os ydych wedi nodi unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon yna mae'n rhaid newid neu ddiwygio'r cynnig.)* |
| Yr unig effaith negyddol o'r argymhelliad a nodwyd oedd y gost i landlordiaid o gael trwydded. Ystyrir bod y manteision i breswylwyr, cymunedau a newid yn yr hinsawdd yn goresgyn yr effaith hon. Cyfrifir y costau ar sail adennill costau yn unig ac maent yn seiliedig ar nifer yr ystafelloedd y gellir byw ynddynt yn yr eiddo. |
| **Sut fyddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y cynnig?** |
| Bydd effaith ac effeithiolrwydd y cynnig yn cael ei fonitro drwy'r Bartneriaeth Tai Strategol. |

## Egwyddor Datblygu Cynaliadwy: 5 Ffordd o Weithio

Disgrifiwch isod sut rydych wedi gweithredu'r pum ffordd o weithio yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

| | |
|---|---|
| **Hirdymor**<br>Sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr ac anghenion tymor hir a'r angen i gynllunio ar gyfer y dyfodol<br><br>AWGRYM | Mae'r cynnig am gyfnod o 5 mlynedd pryd y bydd y cynllun Trwyddedu yn cael ei adolygu a'i werthuso i benderfynu a ddylai barhau. Mae'r cynllun yn hunan-ariannu |
| **Cydweithio**<br>Cydweithio â phartneriaid eraill i gyflawni canlyniadau<br><br>AWGRYM | Ar hyn o bryd rydym yn cysylltu â chydweithwyr Priffyrdd a Gwarchod y Cyhoedd, ynghyd â phartneriaid allanol fel yr Heddlu, yr Awdurdod Tân a'r Brifysgol, Asiantau a Landlordiaid wrth gyflawni'r cynllun. |
| **Cynnwys**<br>Cynnwys pobl sydd â buddiant a gofyn am eu barn<br><br>AWGRYM | Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus am gyfnod o 10 wythnos. Mae hyn wedi cynnwys gwybodaeth a holiaduron sydd ar gael ar y wefan a thrwy gyfryngau cymdeithasol. Ymgynghori'n uniongyrchol â landlordiaid ac asiantau hysbys. Llythyrau, gwybodaeth a holiaduron wedi'u targedu i sampl o eiddo yn ardal benodol presennol Aberystwyth a Llanbedr Pont Steffan. |
| **Atal**<br>Darparu adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu<br><br>AWGRYM | Mae'r cynnig yn mynd i'r afael ag eiddo penodol sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y cynllun Trwyddedu Ychwanegol a'i nod yw gwella amodau ar gyfer y rhai sy'n byw yn yr eiddo a phreswylwyr eraill sy'n byw yng nghyffiniau'r eiddo trwyddedig. |

| | |
|---|---|
| **Integreiddio**<br>Ystyried effaith eich cynnig ar bedwar piler llesiant (cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a'r amgylchedd), amcanion cyrff cyhoeddus eraill ac ar draws meysydd gwasanaeth yn y Cyngor.<br><br>**AWGRYM** | Mae'r cynnig yn ceisio cynorthwyo gwasanaethau Priffyrdd a Gwarchod y Cyhoedd mewn perthynas â rheoli gwastraff ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. |



## Risg

Crynhowch y risg sy'n gysylltiedig â'r cynnig.

| | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** |
|---|---|---|---|---|---|
| Meini prawf asesu effaith | Isel iawn | Isel | Canolig | Uchel | Uchel iawn |
| Meini prawf asesu tebygolrwydd | Annhebygol o ddigwydd | Llai tebygol o ddigwydd | Yr un mor debygol o ddigwydd ag o beidio digwydd | Mwy tebygol o ddigwydd | Tebygol o ddigwydd |

| **Disgrifiad o'r risg** | **Effaith** (difrifoldeb**)** | **Tebygolrwydd** (y gallu i gyflawni) | **Sgôr** (Effaith x Tebygolrwydd) |
|---|---|---|---|
| Safonau Tai yn disgyn a risgiau tân | Uchel | Mwy tebygol o ddigwydd | 16 |
| Cynnydd mewn ymddygiad anghymdeithasol | Uchel | Mwy tebygol o ddigwydd | 16 |
| Cynnydd rheoli gwastraff a chynnydd plâ | Uchel | Mwy tebygol o ddigwydd | 16 |

## Cymeradwyo

| Swydd | Enw | Llofnod | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| **Rheolwr Corfforaethol** | Llyr Hughes |  | 28/02/2024 |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol** | Greg Jones |  | 27/02/2024 |
| **Cyfarwyddwr Corfforaethol** | James Starbuck |  | 27/02/2024 |
| **Deiliad y Portffolio** | Cyng Matthew Vaux |  | 28/02/2024 |

## CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **19.03.2024** |
| **Teitl:** | **Adroddiad ar Ail-ddynodi'r Cynllun Trwyddedu Ychwanegol ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth yng Ngheredigion** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Rhoi adborth yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach ar 11 Mawrth 2024** |

**Cefndir:**
Mae Deddf Tai 2004 Rhan 2 yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i drwyddedu Tai Amlfeddiannaeth (TA) o dri llawr neu fwy, pump neu fwy o bobl, sy'n ffurfio dau neu fwy o aelwydydd.

Gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr opsiynau canlynol ar gyfer Ail-ddynodi'r Cynllun Trwyddedu Ychwanegol ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth yng Ngheredigion (2024 – 2029).

**Dewisiadau**
Yr opsiynau i'w hystyried yw:

**Opsiwn 1 - Parhau â'r Cynllun Trwyddedu Ychwanegol yn ei ffurf bresennol, lle mae trwyddedu yn berthnasol i:**

- Tai Amlfeddiannaeth a feddiannir gan dri neu fwy o bobl, gan ffurfio tri neu fwy o aelwydydd ar wahân, waeth beth yw nifer y lloriau yn y wardiau penodedig canlynol yn unig:
  **Bronglais Aberystwyth, Canol Aberystwyth, Gogledd Aberystwyth, Penparcau Aberystwyth, Rheidol Aberystwyth, Y Faenor, Llanbadarn Fawr Padarn, Llanbadarn Fawr Sulien.**

- Sir Ceredigion gyfan ar gyfer:
  - Tai Amlfeddiannaeth a feddiannir gan 5 neu fwy o bobl, gan ffurfio dwy aelwyd neu fwy ar wahân, waeth beth yw nifer y lloriau, a
  - Adran 257 TA (Deddf Tai 2004)

**Opsiwn 2 - Trwyddedu pob eiddo sy'n bodloni'r meini prawf canlynol ar sail sirol gyfan:**
- yr eiddo hynny y mae 5 person neu fwy yn byw ynddynt, gan ffurfio dwy aelwyd neu fwy ar wahân, waeth beth yw nifer y lloriau, AC
- Adran 257 TA (Deddf Tai 2004) a grëwyd drwy newid adeiladau yn fflatiau lle nad oedd y trawsnewidiadau yn bodloni safonau Rheoliadau Adeiladu 1991 ac nad ydynt wedi cael eu gwella i'r safonau perthnasol wedi hynny.

**Opsiwn 3 - Caniatáu i'r Cynllun Trwyddedu Ychwanegol presennol ddod i ben ar 14 Ebrill 2024 a pheidio â chyhoeddi/dynodi cynllun ychwanegol yn ei le.**

Yn dilyn trafodaeth, ystyriodd Aelodau'r Pwyllgor yr argymhelliad canlynol:

**Argymhelliad:**
Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a manteision cael Cynllun Trwyddedu Ychwanegol ynghyd â'r ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus, argymhellir ystyried Opsiwn 1 ar gyfer ail-ddynodi'r Cynllun Trwyddedu Ychwanegol am 5 mlynedd arall rhwng 2024 a 2029. Mae niferoedd TA yn ardal Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi yn isel. Nid yw'r data am y 5 mlynedd diwethaf yn cefnogi cyflwyno Cynllun Trwyddedu Ychwanegol yn yr ardaloedd hyn.

Cytunodd Aelodau’r Pwyllgor i argymell y dylai’r Cabinet:

1. Cymeradwyo Opsiwn 1 fel yr amlinellir uchod.

**Y Cynghorydd Caryl Roberts**
***Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach***

## CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

**Adroddiad i'r:** **Cabinet**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **19 Mawrth 2024**

**Teitl:** **Asesiad o'r Farchnad Dai Leol**

**Pwrpas yr adroddiad:** **Er mwyn hysbysu'r Cabinet am gynnwys Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yng Ngheredigion (2023)**

**Er:** **Penderfyniad**

**Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:**
**Y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet ar gyfer Partneriaethau, Gwasanaethau Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd**

**Cyflwyniad**

Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn ofyniad statudol ar bob awdurdod lleol, o dan Ddeddf Tai 1985, sy'n gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i asesu lefel yr angen am dai yn y Sir o dro i dro. Ystyrir Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol, Cynlluniau Datblygu Strategol a Strategaethau Tai Lleol. Disgwylir i awdurdodau lleol ailysgrifennu Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol bob pum mlynedd ac adnewyddu'r Asesiad hwnnw o'r Farchnad Dai Leol unwaith yn ystod y cyfnod hwnnw o bum mlynedd (rhwng blynyddoedd dau a thri). Ar hyn o bryd mae Ceredigion yn y cyfnod adnewyddu. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno yw 29ain Mawrth 2024.

**Methodoleg**

Ers ein Hasesiad diwethaf o'r Farchnad Dai Leol, a gyhoeddwyd yn 2020, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Teclyn i gynnal yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol i sicrhau bod pob awdurdod lleol yn defnyddio methodoleg gyson a ffynonellau data cenedlaethol ac i sicrhau bod Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol i gyd ar amserlen gyson, mae timau Ymchwil, Tai a Pholisi Chynllunio o fewn Cyngor Sir Ceredigion wedi defnyddio'r teclyn a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i wneud y gwaith adnewyddu hwn. Fodd bynnag, i Geredigion, mae'r Teclyn wedi bod yn broblemus ac wedi achosi oedi sylweddol i ni wrth gynhyrchu'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol. Yn wyneb hyn, gwnaed cais am estyniad i'r dyddiad cau, er i'r cais hwn gael ei wrthod.

Nid oedd fersiynau o'r teclyn yn gweithio i Geredigion o ganlyniad i wallau technegol gyda'r teclyn a'r amcanestyniadau sy'n gostwng o ran aelwydydd ar gyfer Ceredigion. Mae hyn wedi gohirio ein gwaith o gynhyrchu'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol wedi hynny. Fodd bynnag, gwnaeth Llywodraeth Cymru ddiwygiadau i'r teclyn, ac rydym bellach yn gweithio gyda fersiwn 3.2, sydd wedi rhoi'r prif allbynnau canlynol:

**Prif ganlyniadau'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol**

- Mae'r teclyn yn amcangyfrif y bydd angen 278 o dai bob blwyddyn rhwng 2022 a 2027 *(angen gros)*. O'r rhain, bydd 92% (256) yn dai fforddiadwy, a bydd 8% (22) yn dai'r farchnad.
- Mae'r allbynnau pum mlynedd gyntaf wedi'u gwyrdroi'n drwm tuag at dai fforddiadwy ac nid ydynt yn cyd-fynd â'n disgwyliadau. Mae data a dealltwriaeth

leol, ochr yn ochr â thueddiadau'r gorffennol, yn amlygu bod yr angen am dai'r farchnad a amcangyfrifir gan y teclyn yn sylweddol is na'r disgwyl, tra bod yr angen am dai fforddiadwy yn uwch. Mae'r allbynnau 10 mlynedd sy'n weddill yn llawer is, fodd bynnag, mae'r rhaniad rhwng tai fforddiadwy a thai'r farchnad yn fwy credadwy.

- Mae'r teclyn yn amcangyfrif mai'r angen mwyaf o fewn y sector rhentu cymdeithasol yw eiddo 1 ystafell wely. Mae hyn yn unol â'n disgwyliadau ac fe'i cefnogir gan dystiolaeth.
- Ers yr Asesiad blaenorol o'r Farchnad Dai Leol (2019), mae'r angen net ychwanegol blynyddol am dai a amcangyfrifir ar gyfer Ceredigion wedi gostwng 35, o 202 yn 2019 i 167 yn 2022. Mae hyn yn gredadwy o ystyried y gostyngiad yn ein poblogaeth. Fodd bynnag, nid yw'r newid yn nosbarthiad yr angen ymhlith deiliadaethau yn ymddangos yn realistig. Yn 2019, roedd tai'r farchnad yn cynnwys 60% o'r gofyniad blynyddol, o'i gymharu â chyn lleied â 13% ar gyfer 5 mlynedd gyntaf cyfnod yr Asesiad hwn o'r Farchnad Dai Leol.

O ran gofynion tai penodol, nodwyd:

- Byddai angen i tua 1,893 o aelwydydd symud i gartref hygyrch/wedi'i addasu erbyn 2037.
- Dylai nifer yr aelwydydd aml-genhedlaeth ddisgyn dros gyfnod yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, a allai leihau nifer yr aelwydydd gorlawn.
- Mae diffyg sylweddol mewn llety dros dro yng Ngheredigion y bydd angen ei fodloni.
- Mae poblogaeth Ceredigion yn parhau i heneiddio, sy'n golygu y bydd mwy o angen am lety arbenigol erbyn 2037, megis Gofal Ychwanegol (+75), Tai Gwarchod (+550), Preswyl (+71) a Chartrefi Gofal Nyrsio (+271).
- Rhagwelir y bydd nifer y myfyrwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth a Champws Llanbedr Pont Steffan (Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant) yn cynyddu dros gyfnod yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol. Mae angen a nodwyd am fwy o lety rhentu preifat yn Asesiad Aberystwyth o'r Farchnad Dai.

*Mae'n bwysig nodi: mae'r ffigurau uchod yn amcangyfrifon lefel uchel o ofynion y dyfodol, yn seiliedig ar gyfraddau a modelau cyffredinrwydd tybiedig, ac felly dim ond fel canllaw y dylid eu defnyddio.*

**<u>I grynhoi</u>**

Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn nodi y dylem ddarparu 145 o unedau tai fforddiadwy a 22 o unedau tai'r farchnad y flwyddyn am y 5 mlynedd gyntaf (angen net). Byddai hyn i bob pwrpas yn delio â'n holl ôl-groniad o angen am dai h.y. y rheini sy'n gymwys ar y gofrestr dai. A 22 o dai ychwanegol y farchnad ynghyd ag 11 o dai fforddiadwy'r flwyddyn, am y 10 mlynedd ganlynol. Sy'n rheoli anghenion parhaus unwaith y bydd yr ôl-groniad wedi'i glirio.

Fodd bynnag, rhaid cydnabod y byddai hon yn her sylweddol ac mewn gwirionedd, mae cyfraddau adeiladu'r gorffennol yn dweud wrthym fod y ddarpariaeth i'r gwrthwyneb yn wir, lle mae llawer llai o eiddo fforddiadwy yn cael eu darparu a rhagor o dai'r farchnad. Bydd yn her i reoli sefyllfa o'r fath wrth symud ymlaen.

Mae'r amcangyfrif o'r angen blynyddol isel am dai'r farchnad i'w briodoli'n bennaf i dueddiadau amcanestynedig Ceredigion o ran demograffeg ac aelwydydd dros y cyfnod o 15 mlynedd, yn ogystal ag enillion is na'r cyfartaledd yn y Sir a phrisiau tai a

rhenti uwch na’r cyfartaledd. Mae’n bwysig nodi mai’r prif amcanestyniad (yr amcanestyniad a ffefrir gan Lywodraeth Cymru) a ddefnyddiwyd i ddechrau. Mae'r prif amcanestyniad yn amcangyfrif y bydd poblogaeth Ceredigion a nifer yr aelwydydd yn gostwng rhwng 2022-2037 (gostyngiad o 1,607 o drigolion a 128 o aelwydydd), a arweiniodd at ddim angen am dai’r farchnad. Felly, gwnaethom benderfynu defnyddio amcanestyniad yr aelwydydd ar sail amrywiolyn uwch, sy’n seiliedig ar ragdybiaethau poblogaeth uchel. Er bod yr amrywiolyn hwn yn rhagdybio darlun mwy cadarnhaol, mae twf aelwydydd dros y cyfnod 15 mlynedd yn dal yn gymharol fach (+500 o aelwydydd).

Mae'r angen blynyddol uchel am dai fforddiadwy yn bennaf oherwydd y nifer fawr o ymgeiswyr ar y gofrestr dai (1,700), sy'n achosi ôl-groniad o ran angen. Yn ogystal, mae'r teclyn yn rhagdybio y bydd yr ôl-groniad hwn yn cael ei fodloni o fewn pum mlynedd gyntaf cyfnod yr Asesiad o’r Farchnad Dai Leol, sy'n adlewyrchu'r angen uwch am dai fforddiadwy (145) rhwng 2022-2027 a'r angen is (11) am y 10 mlynedd sy'n weddill.

Fodd bynnag, mae'n werth nodi, oherwydd bod ein Cynllun Datblygu Lleol newydd wedi'i oedi, cyfyngedig fydd gwerth yr Asesiad hwn o'r Farchnad Dai Leol i dimau tai a pholisi cynllunio Ceredigion ar hyn o bryd. Bydd y Cynllun Datblygu Lleol neu'r Cynllun Datblygu Strategol newydd yn gofyn am fersiwn ailysgrifennu llawn o Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, a bydd angen ei ailysgrifennu’n llawn erbyn mis Mawrth 2025.

Ar gyfer yr Asesiad nesaf o’r Farchnad Dai Leol, ein bwriad yw comisiynu demograffydd/ymgynghorydd cynllunio i gynhyrchu amrywiaeth o senarios twf poblogaeth a thwf tai ar gyfer Ceredigion. Bydd hyn yn rhoi eglurder pellach o ran opsiynau’r twf tai sydd ar gael i ni, a all fwydo i declyn Llywodraeth Cymru o ran Asesiad o’r Farchnad Dai Leol. Y gobaith yw y bydd yr amcanestyniad a ddewiswyd yn arwain at ofyniad mwy cywir o ran tai ar draws cyfnod yr Asesiad o’r Farchnad Dai Leol (h.y. mwy o angen am dai’r farchnad). Rhoddir ystyriaeth bellach i hyn a'r costiadau dilynol maes o law a rhan o'r comisiynu fydd rhoi dull methodolegol o weithredu i'r Cyngor ei ddefnyddio'n fewnol yn y tymor hwy, ar gyfer cynnal yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn y blynyddoedd i ddod.

Cyflwynwyd yr Asesiad Drafft o’r Farchnad Dai Leol i'r Grŵp Arweiniol ar Ragfyr y 6ed 2023. Cafwyd trafodaethau a oedd yn awgrymu y dylid cryfhau'r ddadl ynghylch yr angen annisgwyl o isel yn y farchnad yn yr Asesiad. Er enghraifft, er mwyn cefnogi hyn, dylid cynnwys ffigurau'r Fargen Twf (creu swyddi ac incwm) gan y gallai'r rhain o bosibl arwain at gynnydd yn yr angen am gartrefi’r farchnad.

Yn ogystal, gofynnwyd i lythyr gael ei anfon at Weinidog Cymru dros Dai, oddi wrth Arweinydd Cyngor Ceredigion, i dynnu sylw at ein pryderon am fethodoleg ac allbynnau'r Teclyn. Cafwyd ateb ysgrifenedig ffurfiol gan Weinidog Cymru dros Dai ddechrau Chwefror.

**<u>Ymgynghoriad</u>**

Yn dilyn cytundeb yn y Grŵp Arweiniol, dechreuodd ymgynghoriad ar yr Asesiad Drafft o'r Farchnad Dai Leol ar 14eg Rhagfyr gyda chyflwyniad i'r Bartneriaeth Tai Strategol, rhedodd yr Ymgynghoriad tan 19eg Ionawr 2024 (5 wythnos). Daeth nifer o ymatebion i'r Ymgynghoriad yn dilyn trafodaethau personol yn y Bartneriaeth Tai Strategol ac yn dilyn hynny cafwyd 2 ymateb ysgrifenedig ffurfiol. Ni ofynnwyd dim cwestiynau

uniongyrchol i ymatebwyr, dim ond i roi adborth a sylwadau ar yr Asesiad ei hun. Mae'r ymatebion wedi eu rhannu gydag ymateb cyfatebol gan Weithgor Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, o fewn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol. Mae gwallau teipio a gramadeg o fewn yr ymatebion ysgrifenedig wedi'u diwygio er hwylustod i'r darllenydd, fodd bynnag, mae'r cynnwys a'r cyd-destun yn aros fel y cawsant eu cyflwyno.

**Canfyddiadau'r ymgynghoriad**

Fel yn achos trafodaethau blaenorol yn y Grŵp Arweiniol, nodwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad mai themâu allweddol yr ymgynghoriad oedd:

- Diffyg hyder ym methodoleg y Teclyn i gyfrifo'r angen am dai
- Diffyg hyder yn amcangyfrifon y Teclyn o ran yr angen am dai (yn enwedig yr angen am dai'r farchnad)
- Cyfyngiadau defnyddio'r amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2018 fel mewnbwn allweddol (mae'r rhain wedi dyddio ac nid ydynt yn ystyried cynlluniau economaidd ar gyfer y Sir)

**Ychwanegiadau at yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol**

O ganlyniad i'r ymgynghoriad, a'r adolygiad mewnol, mae'r ychwanegiadau canlynol wedi'u gwneud i'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol:

- Tudalen 5 (Crynodeb) – gwnaed dau ychwanegiad, i amlygu'r amcangyfrifon annisgwyl o isel o'r angen am dai'r farchnad ac i sicrhau bod y darllenydd yn ymwybodol o gyfyngiadau'r Teclyn.
- Tudalen 8-10 – Cryfhawyd y ddadl i dynnu sylw at anghywirdeb amcangyfrifon y teclyn ac amlinellu cyfyngiadau'r fethodoleg, gan gynnwys y ffigurau sy'n ymwneud â Bargen Twf Tyfu Canolbarth Cymru.
- Tudalen 32-34 – Map wedi'i ddiwygio i adlewyrchu'r data diweddaraf sydd ar gael (Prisiau Tai Canolrifol) a ffigwr newydd wedi'i gynnwys i amlinellu fforddiadwyedd aelwydydd yng Ngheredigion a Chymru. Gwnaed ychwanegiad o fewn y testun i dynnu sylw at y gwahanol ddata a ddefnyddiwyd o ran canolrif aelwydydd, sy'n arwain at gymarebau gwahanol o ran fforddiadwyedd aelwydydd.
- Tudalen 38-39 – Gwnaed ychwanegiad i amlinellu cyfyngiadau defnyddio amcanestyniadau yn seiliedig ar 2018.
- Tudalen 60 – Gwnaed ychwanegiad i amlinellu'r potensial ar gyfer dyblygu ar draws adran gofynion yr angen penodol am dai yn y dyfodol, oherwydd bod modelau gwahanol yn cael eu defnyddio.

Gyda'r ychwanegiadau hyn yn cryfhau'r Asesiad ystyrir, gyda chytundeb, mai hon fydd y ddogfen derfynol a gaiff ei mabwysiadu a'i chyhoeddi, gydag ailysgrifennu'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol i ddilyn maes o law.

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**

**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam**

Nid yw Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau y tro hwn. Asesiad o'r angen am dai yw'r Asesiad, a bydd unrhyw bolisïau neu gamau gweithredu angenrheidiol a all ddilyn yn rhan o'r Strategaeth Dai a/neu'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae gan y ddau ohonynt eu Hasesiadau Effaith Integredig eu hunain ar waith. Bydd unrhyw bolisïau neu gamau gweithredu yn y dyfodol yn cael Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau, fel y bo'n briodol.

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | Amherthnasol |
| **Cydweithio:** | Amherthnasol |
| **Cynnwys:** | Amherthnasol |
| **Atal:** | Amherthnasol |
| **Integreiddio:** | Amherthnasol |

**Argymhelliad / Argymhellion:**
**Cymeradwyo'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn dilyn diwedd y cyfnod ymgynghori a'i fabwysiadu.**

**Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:**
**Bodloni'r gofyniad statudol a'r dyddiad cau a bennwyd.**

**Trosolwg a Chraffu:**
Adeg ysgrifennwyd yr Adroddiad nid oedd y Strategaeth wedi'i thrafod gyda throsolwg a Chraffu. Cyflwynwyd y Strategaeth i'r Pwyllgor Trosolwg a chraffu ar 11 Mawrth 2024.

**Fframwaith Polisi:**
Amherthnasol

**Amcanion Llesiant Corfforaethol:**
- Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth
- Creu cymunedau gofalgar ac iach
- Creu cymunedau cynaliadwy a gwyrdd sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd

**Goblygiadau Cyllid a Chaffael:**
Ar hyn o bryd nid oes goblygiadau cyllid a chaffael cysylltiedig, ond bydd goblygiadau cyllid a chaffael cysylltiedig wrth gynnal yr adolygiad llawn o'r AFDLl erbyn 2025 gan fod yr ALl yn dymuno penodi demograffydd cymwys addas i ddatblygu amcanestyniad poblogaeth Ceredigion pwrpasol i'w ddefnyddio gyda'r offeryn.

**Goblygiadau cyfreithiol:**
Amherthnasol

**Goblygiadau staffio:**
Amherthnasol

**Goblygiadau eiddo / asedau:**
Amherthnasol

**Risg(iau):**
Nid yw'r AFDLl fel y'i cyhoeddir yn cydsynio â'n disgwyliadau a graddfeydd cyflawni yn y gorffennol, felly mae risg gynhenid i'r awdurdod o ddefnyddio'r dystiolaeth hyn yn sail i'r twf a ragwelir yn y dyfodol. Er mwyn lleddfu'r risg hon o orfod ailysgrifennu'r AFDLl yn llawn yn 2025 bydd amcanestyniadau poblogaeth penodol Ceredigion yn cael eu datblygu gan ddefnyddio'r holl dystiolaeth sydd ar gael i gefnogi wybodaeth am anghenion pellach y farchnad dai.

**Pwerau Statudol:**
Deddf Tai 1985

**Papurau Cefndir:**
Amherthnasol

**Atodiadau:**
Atodiad 1- Asesiad o'r Farchnad Dai Leol

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:**
Greg Jones, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cymorth Cynnar

**Swyddog Adrodd:**
Llyr Hughes, Rheolwr Corfforaethol- Gwasanaethau Tai

**Dyddiad:**
06/02/2024

**Atodiad 1**

# AFDL Ceredigion

## Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2023 – Adnewyddu

(Drafft – Ionawr 2024)















Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

# Tabl Cynnwys

## Cynnwys


1. Cefndir ..... 7
1.1. Amcangyfrifon o’r angen am dai ychwanegol ..... 7
1.2. Yr amcangyfrifon diweddaraf o'r angen am dai ychwanegol ..... 8
1.2.1. Amcanestyniadau Aelwydydd ..... 8
1.2.2. Allbynnau amrywiad uwch ..... 8
1.2.3. Allbynnau prif amcanestyniadau ..... 15
1.3. Marchnad Dai a Thueddiadau Economaidd-gymdeithasol a Demograffig ..... 18
1.3.1. Maint Daearyddol ..... 18
1.3.2. Demograffeg ..... 19
1.3.3. Ethnigrwydd ..... 23
1.3.4. Anabledd ..... 27
1.3.5. Cyflogaeth ..... 28
1.3.6. Patrymau Cymudo ..... 29
1.3.7. Enillion ac Incymau ..... 31
1.3.8. Fforddiadwyedd Tai ..... 33
1.3.9. Nifer yr Aelwydydd ..... 37
1.3.10. Cyfansoddiad Aelwydydd ..... 40
1.3.11. Gradd Deiliadaeth ..... 42
1.3.12. Aelwydydd yn ôl deiliadaeth ..... 43
1.3.13. Anheddau a gwblhawyd fesul daliadaeth ..... 46
1.3.14. Y Sector Perchen-feddianwyr ..... 47
1.3.15. Y Sector Rhentu Preifat ..... 51
1.3.16. Y Sector Rhentu Cymdeithasol ..... 55
1.3.17. Ail Gartrefi ..... 57
1.3.18. Cartrefi Gwag ..... 60
1.4. Gofynion o ran Anghenion Tai Penodol ..... 62
1.4.1. Tai Hygyrch ac Wedi’u Haddasu ..... 63
1.4.2. Aelwydydd Aml-genhedlaeth ..... 72
1.4.3. Tai nad ydynt yn barhaol ..... 74
1.4.4. Anghenion Tai, Gofal a Chymorth ..... 77

1.4.5. Anghenion Lleoliadol ar gyfer Llety Myfyrwyr ........ 81
2. Dadansoddiad o Newid ........ 84
2.1. Gwahanol Methodoleg ........ 85
2.2. Amcanestyniadau Amrywiad Uwch ........ 87
3. Crynodeb ........ 88
3.1. Amcangyfrifon cyffredinol o’r angen am dai ychwanegol ........ 88
3.2. Amcangyfrifon o’r angen am dai marchnad ychwanegol ........ 88
3.3. Amcangyfrifon o’r angen am dai fforddiadwy ychwanegol ........ 89
4. Datganiad sicrwydd ansawdd ........ 89
1. Atodiadau ........ 90
Atodiad 1: Ardaloedd Marchnad Dai (AMD) Newidiadau i’r Ffiniau ........ 90
Atodiad 2: Anghenion Tai Penodol – Ymgysylltu ac Ymgynghori â Rhanddeiliaid . 93
Atodiad 3: Anghenion Tai Penodol – materion allweddol a nodwyd ........ 95
Atodiad 4: Cynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori - Adnewyddu Asesiad Marchnad Dai Leol 2023 ........ 97
Atodiad 5: Ymatebion i’r Ymgynghoriad ........ 102
2. Rhestr o Ffigurau ........ 113
3. Rhestr o Dablau ........ 116
4. Rhestr o Gyfeirnodau ........ 118

# Prif Canlyniadau

**167**

Amcangyfrif o'r angen *net* am dai ychwanegol blynyddol ar gyfer Ceredigion.



**35**

Ers yr AFDL blaenorol (2019) mae'r amcangyfirf o'r angen am dai ychwanegol ar gyfer Ceredigion wedi gostwng gan 35 (-17%) *

**145**

Yr angen *(net)* am tai fforddiadwy yn flynyddol rhwng 2022 a 2027.

(87% o'r angen tai cyffredinol)






**22**


Tai farchnad sydd angen yn flynyddol rhwng 2022 a 2037. **


(13% o'r angen tai cyffredinol)

## AMT Aberystwyth

Gyda'r angen blynyddol *(net)* mwyaf am dai fforddiadwy (65) rhwng 2022 a 2027.

*(45% o'r angen net cyffredinol am dai fforddiadwy ar draws y 4 HMA).*





## AMT Teifi Valley

Gyda'r angen blynyddol mwyaf *(net)* am dai marchnad (7) rhwng 2022 a 2037)

*(31% o angen tai farchnad cyffredinol ar draws y 4 HMA).*

## Llety Arbenigol

Rhagwelir y bydd angen cynyddol am Ofal Ychwanegol (+75), Tai Gwarchod (+550), Gofal Preswyl (+71) a Chartrefi Gofal Nyrsio (+271) erbyn 2037.





## Diffyg llety dros dro

Mae yna ddiffyg sylweddol mewn llety dros dro yng Ngheredigion a bydd angen cwrdd â hyn.

## Aelwydydd aml-genhedlaeth

Dylai nifer yr aelwydydd aml-genhedlaeth yng Ngheredigion ostwng dros gyfnod yr AFDL, a allai leihau nifer yr aelwydydd gorlawn.





## Tai Hygyrch ac Wedi'u Haddasu

Bydd angen rhwng 1,893 (min) a 5,179 (uchafswm) o aelwydydd, tai wedi'i haddasu rhwng 2022 a 2037.




***Dylid bod yn ofalus wrth gymharu ffigurau gan y defnyddiwyd methodolegau gwahanol.**

****Mae'r amcangyfrif o'r angen am anheddau marchnad yn llawer is na'r disgwyl ac nid yw'n adlewyrchu'r sefyllfa yng Ngheredigion.**

# Crynodeb

## Ceredigion



- **Asesiad o'r Farchnad Dai Leol Ceredigion** (**adnewyddu**), sy'n diweddaru'r AFDL blaenorol yn 2019, i roi darlun cyfoes o'r farchnad, anghenion tai fforddiadwy ac anghenion tai penodol ar draws y Sir.

- Mae **offeryn yr AFDL, a gynhyrchwyd gan Llywodraeth Cymru** wedi'i defnyddio i ddarganfod yr **anghenion tai** yng Ngheredigion yn ôl **Ardaloedd Marchnad Dai** (**AMD**) (2022-2037).

- O fewn offeryn yr AFDL roedd yn bosib i ddewis rhwng defnyddio prif amcanestyniadau aelwydydd, amcanestyniadau uwch neu amcanestyniadau is (yn seiliedig ar amcanestyniadau 2018) fel sail ar gyfer y cyfrifiadau. Yr amcanestyniad **amrywiad uwch** yw'r amcanestyniad a ffefrir, a gefnogir gan dystiolaeth leol.

- Mae data a mewnwelediad lleol yngyd a tueddiadau'r gorffenol, yn amlygu bod yr **angen am dai farchnad** sydd wedi'i rhagamcanu gan yr offeryn yn **sylweddol is na'r disgwyl**, tra bod yr **angen fforddiadwy yn uwch**. Dydy hyn ddim yn adlewyrchu'r sefyllfa yng Ngheredigion.

- **Dylid cymryd gofal** wrth ddefnyddio'r angen marchnad amcangyfrif, sydd yn anghywir oherwydd **cyfyngiad methodolegol yr offeryn** (sy'n tybio bydd yr angen presennol yn cael ei diwallu trwy dai fforddiadwy yn unig), ac mae defnydd yr **amcanestyniadau amrywiad uwch**, **ddim yn ystyried** unrhyw anghenion tai o gynlluniau **tyfiant economaidd**.

- Dros gyfnod 15 mlynedd yr AFDL (2022-2037) mae'r offeryn yn amcangyfrif angen am **1,164 annedd**, dylai **28%** (**330**) fod yn **dai marchnad** a dylai **72%** (**834**) fod yn **dai fforddiadwy**.

- Dros y pum mlynedd gyntaf (2022-2027), mae'r offeryn yn amcangyfrif *angen net* am **167 annedd** y flwyddyn. O'r anheddau sydd angen, dylai 13% (**22**) fod yn **dai farchnad** a Dyma dylai 87% (**145**) fod yn **dai fforddiadwy**.

- O rhan anghenion ystafelloedd, mae'r offeryn yn amcangyfrif yr angen mwyaf o rhan **tai fforddiadwy** ydy anneddau gydag **1 ystafell wely**, sy'n unol â'n disgwyliadau ac fe'i cefnogir gan dystiolaeth leol.

- O rhan anghenion tai penodol:
  - dylai nifer yr **aelwydydd aml-genhedlaeth** yng Ngheredigion **ostwng**.
  - mae **diffyg sylweddol mewn llety dros dro** yng Ngheredigion y bydd angen ei ddiwallu.
  - bydd mwy o angen am **Ofal Ychwanegol** (+75), **Tai Gwarchod** (+550), **Chartrefi Preswyl** (+71) a **Chartrefi Gofal Nyrsio** (+271) erbyn 2037.
  - disgwylir i nifer y **myfyrwyr** ym Mhrifysgol Aberystwyth a Champws Llambed (PCYDDS) **gynyddu**. Mae angen wedi'i nodi yn y dyfodol am fwy o lety rhent preifat yn AMD Aberystwyth.

## AMD Aberystwyth



- AMD Aberystwyth ydy'r **AMD lleiaf (118km²)** ac mae'n cynnwys tref Aberystwyth a'i chymdogion agos.
- Am y pum mlynedd gyntaf yng nghyfnod yr AFDL, mae yna angen *net* am **71 annedd y flwyddyn** (43% o'r holl angen), hyn ydy'r amcangyfrif **uchaf** ar draws y pedwar AMD.
- Mae gan AMD Aberystwyth yr angen ail uchaf am **dai farchnad (6 neu 27%)** a'r angen net mwyaf am **dai fforddiadwy (65 neu 45%)** dros y pum mlynedd gyntaf yng nghyfnod yr AFDL.

## AMD Arall



- Yr AMD Arall ydy'r **ardal fwyaf (1,063km²)** ond gyda'r nifer lleiaf o aelwydydd, Mae'n cynnwys gogledd ddwyrain Ceredigion.
- Am y pum mlynedd gyntaf yng nghyfnod yr AFDL, mae angen *net* am **12 annedd y flwyddyn**, sef yr angen isaf allan o'r pedwar AMD sy'n cyfateb i 7% o cyfanswm yr angen.
- Mae gan yr AMD Arall yr **angen amcangyfrif isaf** am **dai marchnad (4/18%)** a **thai fforddiadwy (8/6%)**.

## AMD Arfordirol



- Yr AMD Arfordirol ydy'r **ail ardal fwyaf (332km²)** ac mae'n cynnwys arfordir de dwyrain Ceredigion.
- Am y pum mlynedd gyntaf yng nghyfnod yr AFDL, mae angen *net* am **33 annedd y flwyddyn,** sef yr ail angen isaf allan o'r pedwar AMD sy'n cyfateb i 20% o cyfanswm yr angen.
- Yr angen amcangyfrif am **dai farchnad** ydy **5 (23%)** a'r angen am **dai fforddiadwy** ydy **28 (19%).**

## AMD Dyffryn Teifi



- Yr AMD Dyffryn Teifi ydy'r ardal **ail leiaf (294km²)** ac yn cynnwys de ddwyrain Ceredigion.
- Am y pum mlynedd gyntaf yng nghyfnod yr AFDL, mae angen net am **50 annedd y flwyddyn**, sef yr ail angen uchaf allan o'r pedwar AMD sy'n cyfateb i 30% o cyfanswm yr angen.
- Mae gan AMD Dyffryn Teifi'r **angen uchaf am dai farchnad (7 neu 32%),** a'r angen **ail uchaf am dai fforddiadwy (43 neu 30%)**.

# 1. Cefndir

O dan Ddeddf Tai 1985 mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am gynnal adolygiad rheolaidd o'r angen am dai yn eu hardal. Mae'n hanfodol bod gan awdurdodau lleol ddealltwriaeth gynhwysfawr o'u marchnadoedd tai lleol ac yn darparu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer gwasanaethau tai strategol a chynllunio effeithiol. Er mwyn cyflawni'r gofyniad hwn, rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru ddatblygu Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol (AFDL).

## 1.1. Amcangyfrifon o'r angen am dai ychwanegol

Mae'r Asesiad hwn o'r Farchnad Dai Leol (AFDL) yn amcangyfrif yr angen am dai ychwanegol y mae'n debygol o fod yn ofynnol yng Ngheredigion wedi'i rannu yn ôl ardaloedd marchnad dai a deiliadaeth. Paratowyd yr ailwampiad o'r AFDL gan Opinion Research Services (ORS) ar ran Cyngor Sir Ceredigion yn 2019, a chafodd ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn 2020. Gan ddefnyddio Adran 87 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, disgwylir i awdurdodau lleol ailwampio eu AFDL bob pum mlynedd a diwygio'r AFDL hwnnw unwaith yn ystod y cyfnod hwnnw o bum mlynedd (rhwng blynyddoedd dau a thri). Felly mae'r AFDL hwn yn diwygio AFDL 2019 Ceredigion.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yr offeryn AFDL a'r canllawiau cysylltiedig yn 2022. Mae'r offeryn i'w ddefnyddio gan bob awdurdod lleol yng Nghymru fel unig sail tystiolaeth ar gyfer cyfrifo'r angen am dai. Mae'r templed 'diweddaru' a nodir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru wedi cael ei ddefnyddio i strwythuro'r Asesiad. Yn ogystal, mae'r AFDL blaenorol wedi cael ei adolygu er mwyn darparu'r asesiad diweddaraf hwn o anghenion tai cyffredinol, fforddiadwy ac arbennig.

Mae'n bwysig nodi bod y fethodoleg (offeryn AFDL Llywodraeth Cymru) a ddefnyddir ar gyfer yr AFDL hwn yn wahanol i'r fethodoleg a fabwysiadwyd yn yr ailwampiad o AFDL 2019 (model ORS). Felly, dylid bod yn ofalus wrth gymharu'r ddau Asesiad a'r ffigyrau ar gyfer yr angen am dai. Mae Adran 2.1 yn dangos y gwahaniaeth rhwng y ddau ddull.

## 1.2. Yr amcangyfrifon diweddaraf o'r angen am dai ychwanegol

Mae'r adran hon yn edrych ar yr allbynnau o'r offeryn AFDL. Fel y gofynnwyd yng nghanllawiau AFDL Llywodraeth Cymru (Atodiad A), mae'r sgrîn luniau canlynol o'r offeryn wedi cael eu darparu. O fewn yr offeryn AFDL roedd yn bosibl dewis rhwng defnyddio prif amcanestyniadau aelwydydd, amcanestyniadau uwch neu amcanestyniadau is (yn seiliedig ar amcanestyniadau 2018) fel sail ar gyfer y cyfrifiadau.

### 1.2.1. Amcanestyniadau Aelwydydd


Mae amcanestyniadau aelwydydd yn fewnbwn data allweddol yr offeryn AFDL gan bennu'r angen newydd sy'n codi dros gyfnod yr AFDL. Mae Adran 1.3.9. yn amlinellu'r amcanestyniadau gwahanol yn ôl amcanestyniadau seiliedig ar 2018 Llywodraeth Cymru. O edrych ar gyfraddau adeiladu yn y gorffennol a ffynonellau eraill (e.e. Arolwg o Feddiannaeth Tai Lleol), mae'n amlwg bod angen am anheddau ychwanegol ar hyn o bryd, yn enwedig tai marchnad yng Ngheredigion, ac mae tueddiadau'r gorffennol yn dangos y bydd yr angen hwn yn parhau (cyfeiriwch at Adran 1.3.13. am fanylion pellach). Felly, cytunodd Cyngor Sir Ceredigion mai'r amcanestyniad amrywiad uwch yw'r amcanestyniad a ffafrir. Er y cydnabyddir bod y nifer amcanestynedig o aelwydydd (gan ddefnyddio'r amrywiad uwch) yn gymharol isel, o'i gyfuno ag enillion is na'r cyfartaledd a phrisiau tai uwch na'r cyfartaledd, mae hyn yn arwain at angen is na'r disgwyl am dai marchnad dros gyfnod yr AFDL.

Mae'r prif amcanestyniadau ac amcanestyniadau amrywiad uwch wedi cael eu rhedeg ac mae'r adran isod yn rhoi dadansoddiad o'r allbynnau.

### 1.2.2. Allbynnau amrywiad uwch

Yn gyntaf, mae'r allbynnau o'r offeryn gan ddefnyddio'r *amrywiad uwch* yn cael eu hystyried. Fel yr adlewyrchir yn Ffigur 1 isod, amcangyfrifir mai 278 yw'r angen *gros* am dai ychwanegol blynyddol (cyn y cyflenwad arfaethedig a throsiant y stoc bresennol) ar gyfer pum mlynedd gyntaf cyfnod yr AFDL (2022-2027) ar gyfer Ceredigion. O'r rhain, mae'r offeryn yn amcangyfrif y byddai 256 (92%) yn dai fforddiadwy, a 22 (8%) yn dai marchnad.

**Ffigur 1: Amcangyfrifon anghenion tai ychwanegol blynyddol gan ddefnyddio'r amcanestyniad amrywiad uwch.**




**Efallai na fydd y ffigurau'n adio oherwydd talgrynnu o fewn yr offeryn*
*(Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion – Llywodraeth Cymru Offeryn Asesiad o'r Farchnad Dai Leol F 3.2, 2023)*

Mae'r ffigurau angen ar gyfer y 5 mlynedd gyntaf yn gamarweiniol a ddim yn unol â'n disgwyliadau, yn enwedig yr anghenion tai farchnad amcangyfrifedig. Mae data a mewnwelediad lleol ynghyd a thueddiadau'r gorffennol, yn amlygu bod yr angen am dai farchnad amcangyfrifedig gan yr offeryn yn arwyddocaol isel na'r disgwyl, tra bod yr angen fforddiadwy yn uwch.

Mae'r angen amcangyfrifedig am dai marchnad gan yr offeryn yn achos i bryderu. Mae'r offeryn yn amcangyfrif bod angen cyn lleied â 22 eiddo marchnad agored y flwyddyn rhwng 2022 a 2037, sydd cryn lawer yn is a ddim yn amcangyfrif cywir o anghenion tai marchnad ddyfodol Ceredigion.

Mae yna tri ffactor allweddol sydd yn awgrymu bod amcangyfrif tai marchnad yr offeryn yn anghywir, rhain ydy:

- Cyfyngiad methodolegol o offeryn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (AFDL) Llywodraeth Cymru
- Yr amcanestyniadau sydd wedi seilio ar 2018 a defnyddiwyd i darganfod yr angen newydd sy'n codi
- Tystiolaeth meintiol ac ansoddol lleol

**Offeryn yr AFDL – Cyfyngiad methodolegol**

Mae gan yr offeryn cyfyngiad methodolegol gwaelodol sydd yn amharu ar gywirdeb yr anghenion tai marchnad amcangyfrifedig i Geredigion. Mae'r offeryn yn cyfuno'r angen presennol heb ei ateb (ar gyfer tai fforddiadwy yn unig) gyda'r angen sy'n codi o'r newydd (sy'n cynnwys tai fforddiadwy a thai marchnad). O'r herwydd, mae'r ffigurau cyfanswm angen wedi'u hystumio'n sylweddol tuag at y sector fforddiadwy, yn enwedig o fewn pum mlynedd gyntaf cyfnod yr AFDL (gan mai dyma pryd mae'r offeryn yn rhagdybio y dylid ateb yr holl angen sy'n bodoli). Mae'r cyfyngiad yma yn gwaethygu mwy mewn awdurdodau lleol gwledig sydd efo poblogaeth sy'n lleihau (fel Ceredigion), gan fod yr angen am dai farchnad wedi'i seilio yn unig ar ragamcaniadau poblogaeth a thai.

**Amcanestyniadau Tai – yr angen newydd sy'n codi**

Yn ychwanegol, mae'r angen am dai farchnad wedi seilio yn unig ar amcanestyniadau aelwydydd Llywodraeth Cymru sydd wedi seilio ar 2018, yn amcangyfrif tyfiant is o aelwydydd na'r disgwyl. Rydym ni yn adnabod mae'r amcanestyniadau seiliedig ar 2018 ydy'r rhai mwyaf diweddaraf wrth ysgrifennu, cynhyrchwyd y rhain pum mlynedd yn ôl a gall

ystyried bod y rhain yn oroedol. Fel yr adlewyrchir yn Adran 1.3.8 Nifer yr Aelwydydd, mae'r amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2018 ddim yn ystyried y gostyngiad diweddar yn faint cyfartalog aelwydydd (fel y cofnodwyd gan Gyfrifiad 2021). Gall y newid yma golygu tyfiant yn y nifer o aelwydydd am amser, hyd yn oed ar ôl i'r boblogaeth cychwyn gostwng.

Mae'r amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2018 yn amcangyfrif bod y nifer o aelwydydd yng Ngheredigion, os bod y set yma o dybiaethau yn parhau yn y dyfodol, ond nid ydynt yn rhagfynegi'r effaith o bolisïau'r dyfodol neu amgylchiadau economaidd newidiol. Felly, mae'r mewnbwn yma ddim yn ystyried unrhyw angen sy'n codi o'r cyfeiriad corfforaethol, sydd i hybu'r economi lleol, hefyd, nid yw'n ystyried unrhyw angen sy'n codi o fuddsoddiadau cyfredol i mewn i'r ardal, megis, Tyfu Canolbarth Cymru, y Gronfa Codi'r Gwastad, neu'r Gronfa Ffyniant Cyffredin.

Rhagwelir bydd Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor a buddsoddiadau cyfredol economaidd yn yr ardal yn cynyddu'r nifer o swyddi ar draws y Sir, sydd efo'r potensial i drawsfudo mewn i dyfiant aelwydydd uwch. Er enghraifft, mae'r Fargen Dwf Tyfu Canolbarth Cymru yn cael ei ragamcanu i greu 500-600 swyddi net cyfwerth llawn amser yng Ngheredigion, sydd yn amcangyfrif gwerth ychwanegol crynswth (GVA) rhwng £215,000,000 a £262,500,000 erbyn 2032.[1] Mae hyn nid yn unig yn herio elfen daliadaeth fforddiadwy'r offeryn, ond hefyd y tyfiant aelwydydd amcangyfrifedig gan amcanestyniadau aelwydydd Llywodraeth Cymru.

Rydym yn cydnabod yr opsiwn i ddefnyddio 'amcanestyniadau defnyddiwr' ein hunan o fewn yr offeryn, ond, yn ystod yr AFDL roedd ein cwmpas i gynhyrchu amcanestyniadau amgen a cadarn yn brin iawn, a bydd angen cyfiawnhau unrhyw wyriad o'r amcanestyniadau rhagosodedig. Bydd ailysgrifennu'r AFDL llawn nesaf yn ceisio mynd i'r afael a'r problemau yma trwy ystyried amrediad o senarios tyfiant gwahanol e.e., Amcanestyniadau a arweinir gan gyflogaeth ac anheddau.

**Tystiolaeth lleol – meintiol ac ansoddol**

Ymhellach, wrth ddefnyddio tystiolaeth o gyfraddau adeiladu ynghyd ag ymatebion i'r Arolwg o Feddiannaeth Tai (cyfeiriwch at Adran 1.3.15), yn dweud wrthym fod y dosraniad cyferbyniol o ddaliadaeth a danfoniad yn wir. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod mwy o angen am dai marchnad a llai o angen am dai fforddiadwy o'i gymharu ag amcangyfrifon yr offeryn. Dros y pum mlynedd diwethaf, ar gyfartaledd, mae 144 o dai marchnad wedi adeiladau'r flwyddyn, sy'n llawer uwch na'r angen amcangyfrifedig am 22 o dai marchnad bob blwyddyn. Fel y adlewyrchir yn ymatebion i'r Arolwg o Feddiannaeth Tai, mae nifer o rain wedi meddiannu gan breswylwyr. Er mwyn cefnogi'r anghysondeb yn bellach, roedd tystiolaeth ansoddol gynradd o'r ymgynghoriad ar ddrafft yr AFDL yn amlygu bod angen cryf am dai farchnad yng Ngheredigion (cyfeiriwch ar Atodiad 5).

Cydnabyddir bod gan y Cyngor poblogaeth sy'n gostwng, mae prisiau tai uwch na'r cyfartaledd yn y sir ac incwm is na'r cyfartaledd (cyfeiriwch at Adran 1.3.10) sy'n golygu bod cyfran is o'r aelwydydd ychwanegol hyn yn gallu fforddio prisiau marchnad agored. Serch hynny, byddwn ni ddim yn disgwyl i'r nodweddion yma golygu bod angen mor isel a 22 tai marchnad y flwyddyn. Yn enwedig wrth ystyried mae'r gyfradd adeiladau o dai farchnad y flwyddyn yw 144 ac mae tystiolaeth leol yn dweud wrthym fod y rhain wedi'i feddiannu.

O rhan yr angen am dai fforddiadwy, mae'r angen fforddiadwy *net* a'r angen fforddiadwy gros dros y pum mlynedd cyntaf,[2] yn uwch na'r disgwyl. Ar gyfartaledd, mae 43 tŷ

[1] Cyngor Sir Ceredigion (2023) – Gwasanaeth Datblygiad Economaidd a Cymdeithasol.

[2] Angen fforddiadwy net: yn ystyried y cyflenwad arfaethedig a'r stoc bresennol - casglwyd y data hwn gan ein Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a Chyngor Sir Ceredigion.

fforddiadwy yn cael ei adeiladu y flwyddyn (2018-2023), sydd llawer yn is na'r angen gros a'r angen net am dai fforddiadwy amcangyfrifiedig (256 a 145 tŷ yn ôl ei trefn). Er hynny, pan mae'r angen fforddiadwy blynyddol yn cael ei cyfartaleddau dros y cyfnod 15 mlynedd (cyfeiriwch at Ffigur 5), mae'r angen fforddiadwy blynyddol yn lleihau i 56 y flwyddyn, sydd yn credadwy. Dylid nodi mai dim ond cynlluniau 3 blynedd o stoc fforddiadwy y mae'r offeryn yn eu hystyried, ac nid y 5 mlynedd a nodir yn y canllawiau (gan fod Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn gweithredu yn ôl cynlluniau 3 blynedd). Felly mae hyn wedi arwain at angen fforddiadwy *net* uwch. Cydnabyddir bod y cyllid ar gyfer y Grant Tai Cymdeithasol yn cynyddu, a allai wneud ateb yr angen am dai fforddiadwy net yn fwy tebygol.

Mae Ffigur 2 isod yn rhoi dadansoddiad manwl o'r amcangyfrif o'r angen am dai fforddiadwy ychwanegol blynyddol fesul AMD a deiliadaeth. Mae'r canlyniadau hyn yn rhoi'r angen *net* sy'n ystyried trosiant y stoc bresennol a'r cyflenwad arfaethedig.

**Ffigur 2: Dadansoddiad manwl o'r amcangyfrifon o'r angen net am dai ychwanegol dros 5 mlynedd gyntaf cyfnod yr AFDL.**

Sail yr amcanestyniadau aelwydydd: Amrywiolyn Uwch

**Dadansoddiad manwl o'r amcangyfrifon o'r angen am dai ychwanegol dros 5 mlynedd gyntaf cyfnod yr LHMA**

**Tabl 1 Adroddiad yr LHMA: Amcangyfrif o'r angen blynyddol am dai fforddiadwy ychwanegol yn ôl HMA a deiliadaeth (angen net, ar ôl ystyried trosiant y stoc gyfredol a'r cyflenwad arfaethedig)**

Mae'r tabl cyntaf yn darparu'r amcangyfrifon o'r angen am dai fforddiadwy ychwanegol ar y sail ganlynol:
*ar lefel HMA
*yn ôl deiliadaeth (perchentyaeth cost isel, tai rhent canolradd a thai rhent cymdeithasol)
*amcangyfrif blynyddol ar gyfer 5 mlynedd gyntaf cyfnod yr LHMA
*mae'r amcangyfrifon wedi cael eu lleihau er mwyn ystyried trosiant y stoc fforddiadwy gyfredol a'r cyflenwad arfaethedig.

| | (a) | (b) | ( c) | (d) | ( e) | (f) | (g) | (h) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **HMA** | **un ystafell wely** | **dwy ystafell wely** | **tair ystafell wely** | **pedair+ ystafell wely** | **Tai Cymdeithasol (a) + (b) + (c )+ (d) = (e )** | **Rhent canolradd** | **Perchentyaeth Cost Isel (LCHO)** | **Tai Fforddiadwy (h) = (e) + (f) + (g)** |
| **Amcangyfrifon o'r angen ychwanegol am dai yn ôl deiliadaeth** | **71** | **8** | **8** | **11** | **99** | **7** | **39** | **145** |
| Aberystwyth | 34 | 0 | 5 | 5 | 44 | 3 | 19 | 65 |
| Arall | 5 | 0 | - | 1 | 6 | 1 | 2 | 9 |
| Arfordirol | 12 | 5 | 3 | 2 | 23 | 1 | 4 | 28 |
| Dyffryn Teifi | 20 | 2 | - | 4 | 26 | 2 | 15 | 43 |

**Efallai na fydd y ffigurau'n adio oherwydd talgrynnu o fewn yr offeryn*
*(Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion – Llywodraeth Cymru Offeryn Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, F 3.2, 2023)*

Mae'r ffigurau ystafelloedd gwely a'r dosbarthiad ar draws yr AMD yn unol â'n disgwyliadau. Mae'r canlyniadau'n dangos bod mwy o angen am eiddo 1 ystafell wely o'i gymharu ag eiddo 2, 3 a 4+ ystafell wely yng Ngheredigion. Mae'r angen mwyaf am dai fforddiadwy o fewn AMD Aberystwyth sy'n cael ei ddyrannu i 45% (65) o gyfanswm yr angen am dai fforddiadwy. Ategir y ffigurau hyn gan dystiolaeth yn y Strategaeth Dai,[3] y Gofrestr Tai a'r Prosbectws[4].

Mae Ffigur 3 isod yn nodi cyfanswm yr angen *gros* ychwanegol am dai fesul AMD ar gyfer 5 mlynedd gyntaf cyfnod yr AFDL.[5] Mae'r data hwn yn dangos bod y gofynion mwyaf am dai blynyddol (fforddiadwy a marchnad) yn AMD Aberystwyth (122), ac yna AMD Dyffryn Teifi (83), AMD Arfordirol (55) ac yn olaf AMD Arall (19).[6]

---

[3]Cyngor Sir Ceredigion (2023). Tai i Bawb 2023-2028. Ar gael yn: [Tai i Bawb (ceredigion.gov.uk)](Tai i Bawb (ceredigion.gov.uk))
[4]Cyngor Sir Ceredigion (2022). Prosbectws ALl (PDP) – Ceredigion
[5]Mae'r amcangyfrifon anheddau hyn yn angen *gros* oherwydd nid yw'r cyfrifiadau'n ystyried y cyflenwad arfaethedig a'r trosiant stoc presennol.
[6]Efallai na fydd y ffigurau'n adio oherwydd talgrynnu yn yr offeryn.

**Ffigur 3: Amcangyfrif o gyfanswm yr angen ychwanegol am dai fesul AMT a deiliadaeth (angen gros).**

**Tabl 2 Adroddiad yr LHMA: Amcangyfrifon blynyddol o gyfanswm yr angen dam dai ychwanegol yn ôl HMA a deiliadaeth (cyn ystyried yr angen, cyn ystyried trosiant a chyflenwad)**

Mae'r ail dabl yn darparu'r amcangyfrifon o gyfanswm yr angen am dai ychwanegol ar y sail ganlynol:
*yn cynnwys tai'r farchnad a thai fforddiadwy
*ar lefel HMA
*yn ôl deiliadaeth (perchen-feddiannydd, sector rhentu preifat, perchentyaeth cost isel, tai rhent canolradd a thai rhent cymdeithasol)
*amcangyfrif blynyddol ar gyfer 5 mlynedd gyntaf cyfnod yr LHMA

| HMA | (a) Tai Cymdeithasol | (b) Rhent canolradd and Perchentyaeth Cost Isel (LCHO) | (c) Tai Fforddiadwy (c )= (a) + (b) | (d) Perchen-feddiannydd | (e ) Sector rhent preifat | (f) Tai ar y Farchnad (f) = (d) + (e ) | (g) Angen am dai ychwanegol (g ) = (c )+ (f) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcangyfrifon o'r angen ychwanegol am dai yn ôl deiliadaeth** | **189** | **67** | **256** | **9** | **14** | **22** | **278** |
| Aberystwyth | 88 | 27 | 115 | 3 | 4 | 6 | 122 |
| Arall | 10 | 5 | 15 | 1 | 2 | 4 | 19 |
| Arfordirol | 38 | 12 | 50 | 2 | 3 | 5 | 55 |
| Dyffryn Teifi | 53 | 22 | 75 | 3 | 5 | 7 | 83 |

**Efallai na fydd y ffigurau'n adio oherwydd talgrynnu o fewn yr offeryn*
*(Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion – Llywodraeth Cymru Offeryn Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, F 3.2, 2023)*

O ran tai fforddiadwy, mae mwy o angen am eiddo rhent cymdeithasol y flwyddyn (189) o'i gymharu ag eiddo rhent canolradd neu berchentyaeth cost isel (67), gydag amcangyfrif o 74% a 26% o gyfanswm yr angen am dai fforddiadwy. O fewn y sector marchnad mae mwy o angen am dai yn y sector rhentu preifat, o'i gymharu â'r sector perchen-feddianwyr.

Mae'r ffigurau angen ar gyfer y 10 mlynedd sy'n weddill yn isel (gweler Ffigur 4 isod), fodd bynnag, mae'r rhaniad rhwng tai marchnad a thai fforddiadwy yn fwy realistig. Amcangyfrifir y bydd 67% o gyfanswm yr angen am dai yn dai marchnad (gofyniad o 22 annedd y flwyddyn) a bydd 33% yn dai fforddiadwy (gofyniad o 11 annedd y flwyddyn) rhwng 2027 a 2037. Mae'r dosbarthiad hwn ymhlith y deiliadaethau yn cyd-fynd yn agosach â data lleol a thueddiadau blaenorol. Disgwylir y newid yn y dosbarthiad oherwydd rhagdybiaeth yr offeryn bod yr holl angen presennol heb ei ateb yn cael ei ddiwallu o fewn y 5 mlynedd gyntaf.

**Ffigur 4: Dadansoddiad manwl o'r amcangyfrifon o gyfanswm yr angen ychwanegol dros y 10 mlynedd sy'n weddill o'r cyfnod AFDL.**

**Dadansoddiad manwl o'r amcangyfrifon o gyfanswm yr angen am dai ychwanegol dros y 10 mlynedd sy'n weddill o gyfnod yr LHMA**

**Tabl 3 Adroddiad yr LHMA: Amcangyfrifon blynyddol o'r angen am dai ychwanegol yn ôl HMA a deiliadaeth ar gyfer y 10 mlynedd sy'n weddill o gyfnod yr LHMA**

Mae'r trydydd tabl yn darparu'r amcangyfrifon o'r angen am dai ychwanegol ar y sail ganlynol:
*ar lefel HMA
*yn ôl deiliadaeth (perchen-feddiannydd, sector rhentu preifat, perchentyaeth cost isel, tai rhent canolradd a thai rhent cymdeithasol)
*amcangyfrif blynyddol ar gyfer y 10 mlynedd sy'n weddill o gyfnod yr LHMA
*mae'r amcangyfrifon yn seiliedig ar angen newydd yn unig (tybir y caiff unrhyw angen cyfredol nas diwallwyd ei ddiwallu yn ystod y 5 mlynedd gyntaf)
*dylid cyfuno'r amcangyfrifon o'r angen am dai fforddiadwy â'r angen am dai fforddiadwy yn Nhabl 1 er mwyn cynhyrchu amcangyfrif 15 mlynedd o dai fforddiadwy.
Ni roddwyd unrhyw ystyriaeth bellach i'r cyflenwad ar gyfer y cyfnod hwn gan nad oes modd rhagfynegi'r cyflenwad yr ymrwymwyd iddo na'r trosiant cystal ar ôl blwyddyn 5.

| HMA | (a) Tai Cymdeithasol | (b) Rhent canolradd and Perchentyaeth Cost Isel (LCHO) | (c ) Tai Fforddiadwy (c) = (a) + (b) | (d) Perchen-feddiannydd | (e ) Sector rhent preifat | (f) Tai ar y Farchnad (f) = (d) + (e) | (g) Angen am dai ychwanegol (g) = (c)+ (f) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcangyfrifon o'r angen ychwanegol am dai yn ôl deiliadaeth** | **8** | **3** | **11** | **9** | **14** | **22** | **33** |
| Aberystwyth | 3 | 1 | 4 | 3 | 4 | 6 | 11 |
| Arall | 1 | 0 | 2 | 1 | 2 | 4 | 5 |
| Arfordirol | 1 | 1 | 2 | 2 | 3 | 5 | 7 |
| Dyffryn Teifi | 2 | 1 | 3 | 3 | 5 | 7 | 10 |

**Efallai na fydd y ffigurau'n adio oherwydd talgrynnu o fewn yr offeryn*
*(Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion – Llywodraeth Cymru Offeryn Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, F 3.2, 2023)*

Mae'r offeryn hefyd yn darparu'r angen tai ychwanegol *net* cyffredinol fesul AMD a deiliadaeth dros 15 mlynedd lawn cyfnod yr AFDL (gweler Ffigur 5). Rhwng 2022 a 2037 mae'r offeryn yn awgrymu mai cyfanswm yr angen *net* am dai fforddiadwy fyddai 834 (56 y flwyddyn). O'r rhain, byddai angen i 68% (569) fod yn eiddo rhent cymdeithasol, a dylai 32% (265) gynnwys eiddo rhent canolradd ac eiddo perchentyaeth cost isel. Er nad yw wedi'i

gynnwys yn y tabl isod, amcangyfrifir mai'r gofyniad tai marchnad agored dros 15 mlynedd lawn cyfnod yr AFDL yw 330 o anheddau.

**Ffigur 5: Amcangyfrif o'r angen cyffredinol blynyddol am dai fforddiadwy ychwanegol fesul AMT (angen net) dros 15 mlynedd yr AFDL.**

**Prif Amcangyfrif o'r Angen am Dai Fforddiadwy dros 15 mlynedd**

**Tabl 4: Amcangyfrif o'r angen cyffredinol blynyddol am dai fforddiadwy ychwanegol yn ôl HMA a deiliadaeth (angen net) dros gyfnod 15 mlynedd yr LHMA**

Mae Tabl 4 yn darparu'r amcangyfrifon o'r angen am dai fforddiadwy ychwanegol ar y sail ganlynol:
*ar lefel HMA
*yn ôl deiliadaeth (tai canolradd a thai rhent cymdeithasol)
*amcangyfrif blynyddol ar gyfer cyfnod 15 mlynedd yr LHMA
*mae'r amcangyfrifon o'r angen am dai fforddiadwy yn gyfuniad o'r amcangyfrifon ychwanegol o dabl 1 (amcangyfrifon net) a thabl 3.
(ni roddwyd unrhyw ystyriaeth bellach i'r cyflenwad na throsiant y stoc gyfredol gan nad oes modd rhagfynegi cystal ar ôl blwyddyn 5)

| | Cyfartaledd amcangyfrifon blynyddol | | | amcangyfrifon 15 mlynedd | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (a) | (b) | ( c) | | | |
| **HMA** | **Tai Cymdeithasol** | **Rhent canolradd and Perchentyaeth Cost Isel (LCHO)** | **Tai Fforddiadwy (c) = (a) + (b)** | **Tai Cymdeithasol** | **Rhent canolradd and Perchentyaeth Cost Isel (LCHO)** | **Tai Fforddiadwy (c) = (a) + (b)** |
| **Amcangyfrifon o'r angen ychwanegol am dai yn ôl deiliadaeth** | **38** | **18** | **56** | **569** | **265** | **834** |
| Aberystwyth | 17 | 8 | 25 | 248 | 120 | 369 |
| Arall | 3 | 1 | 4 | 41 | 17 | 58 |
| Arfordirol | 8 | 2 | 11 | 126 | 32 | 159 |
| Dyffryn Teifi | 10 | 6 | 17 | 153 | 96 | 249 |

**Efallai na fydd y ffigurau'n adio oherwydd talgrynnu o fewn yr offeryn*
*(Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion – Llywodraeth Cymru Offeryn Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, F 3.2, 2023)*

Mae dadansoddiad o'r eitemau data a'r rhagdybiaethau allweddol a ddefnyddiwyd yn yr offeryn AFDL i'w weld yn Ffigur 6 isod.

**Ffigur 6: Eitemau data, tybiaethau allweddol a thybiaethau AMT a ddefnyddir yn yr offeryn AFDL.**

**Eitemau data / Tybiaethau allweddol**

| | **Basis** | **2022/23** | **2023/24** | **2024/25** | **2025/26** | **2026/27** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Newid mewn twf incwm** | Diofyn | 2.33% | 2.76% | 2.84% | 2.77% | 3.58% |
| **Newid mewn prisiau tai** | Diofyn | -1.12% | -5.67% | 1.14% | 3.43% | 3.59% |
| **Newid mewn prisiau rhenti preifat** | Diofyn | 5.04% | 1.77% | 1.67% | 1.86% | 2.49% |
| **Newid mewn twf dosbarthiad incwm** | Mwy o Anghydrad | 1.00% | 1.00% | 1.00% | 1.00% | 1.00% |

| | |
|---|---|
| Number of years to clear existing unmet need | 5 mlynedd |
| Meini prawf fforddiadwyedd tai'r farchnad | 30% |
| Meini prawf fforddiadwyedd tai rhent cymdeithasol | 35% |

| **Data item** | **Ffynonellau Data** | **Sail y data** |
|---|---|---|
| Data incwm yn ôl HMA | Paycheck | 2022 |
| Data prisiau a dalwyd am dai yn ôl HMA | Data'r Gofrestrfa Tir | Blwyddyn galendr |
| Prisiau rhenti | Swyddogion Rhenti Cymru | Blwyddyn galendr |
| Sail yr amcanestyniadau aelwydydd | Amrywiolyn Uwch | |

| | |
|---|---|
| **Canran yr aelwydydd a gaiff eu hystyried ar gyfer deiliadaeth perchen-feddiannydd sy'n mynd yn eu blaen i brynu** | 60% |

**HMA assumptions**

| **HMA** | **Prisiau eiddo prynwyr tro cyntaf** | **Cymhareb gwerth eiddo i incwm prynwyr tro cyntaf** | **Isafswm incwm ar gyfer tai rhent canolradd** | **Uchafswm incwm ar gyfer tai rhent canolradd** |
|---|---|---|---|---|
| Aberystwyth | £ 180,956 | 4.5 | £ 21,245 | £ 24,159 |
| Arall | £ 177,990 | 4.5 | £ 18,051 | £ 21,007 |
| Arfordirol | £ 222,487 | 4.5 | £ 18,035 | £ 21,007 |
| Dyffryn Teifi | £ 174,005 | 4.5 | £ 16,922 | £ 19,957 |

*(Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion – Llywodraeth Cymru Offeryn Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, F3.2, 2023)*

Fel yr adlewyrchir uchod, defnyddiwyd yr holl ragdybiaethau diofyn a ddarparwyd yn yr offeryn. Defnyddiwyd y gyfran uchaf o aelwydydd a gafodd ei hystyried ar gyfer deiliadaeth perchen-feddianwyr sy'n mynd ymlaen i brynu (o'r amrediad a ystyrir yn briodol gan

Lywodraeth Cymru) (60%). Dewiswyd hwn gan fod cyfran gymharol uchel o berchen-feddianwyr yng Ngheredigion, yn ogystal â phobl sydd wedi ymddeol, ac mae ymchwil yn dangos bod pobl hŷn yn fwy tebygol o fod yn berchen ar eu cartref yn llwyr.[7]

Cydnabyddir bod y prisiau eiddo prynwyr am y tro cyntaf a nodir uchod yn isel iawn ar gyfer Ceredigion. Yn ôl yr offeryn, roedd y pris uchaf am eiddo prynwr am y tro cyntaf yn AMD Arfordirol (£222,487), tra bod yr isaf yn AMD Dyffryn Teifi (£174,005). Mae rhagor o wybodaeth am hyn i'w gweld yn Adran 1.3.8.

Mae'r tablau canlynol wedi'u cynnwys i grynhoi'r trosolwg uchod o'r allbynnau a rhoi mwy o fanylion am y materion a'r heriau sydd wedi codi trwy ddefnyddio'r offeryn. Cydnabyddir bod cynnwys y tabl hwn yn ofyniad ar gyfer ailwampio'r AFDL (ac nid ei ddiwygio), fodd bynnag, bydd y wybodaeth yn ychwanegu gwerth at yr asesiad, yn enwedig gan mai dyma'r tro cyntaf i'r offeryn gael ei ddefnyddio.

Mae Tabl 1 isod yn amlinellu'r materion allweddol a nodwyd gyda'r cyfrifiadau a'r allbynnau, sy'n grynodeb o'r adran uchod, ac mae Tabl 2 yn dangos y mewnbynnau data a ddefnyddiwyd ac unrhyw faterion sydd wedi codi.

**Tabl 1: Materion a nodwyd gyda chyfrifiadau ac allbynnau o'r offeryn AFDL (amrywiad uwch).**

| Mewnbynnau data allweddol | Materion allweddol wedi'u nodi gyda chyfrifiadau / allbynnau |
|---|---|
| 1. Yr angen tai marchnad sy'n cynnwys perchen-feddianwyr a'r sector rhentu preifat | 1. Mae'r angen am dai marchnad yn sylweddol is na'r disgwyl.<br>2. Mae angen y sector rhentu preifat ychydig yn fwy na'r angen am dai perchen-feddianwyr, sy'n wahanol i'r disgwyl. |
| 2. Yr angen tai fforddiadwy sy'n cynnwys rhent cymdeithasol a thai uniongyrchol | 1. Mae'r angen am dai fforddiadwy yn uwch na'r disgwyl.<br>2. Mae'r dosbarthiad rhwng deiliadaethau rhent cymdeithasol a chanolradd yn rhesymegol, gyda mwy o angen am rent cymdeithasol o'i gymharu â pherchentyaeth cost isel.<br>3. Mae'r gofyniad maint ystafelloedd gwely yn y sector rhent cymdeithasol yn cyd-fynd â'n disgwyliadau ac fe'i ategir gan dystiolaeth leol. |
| 3. Tablau profi senario | 1. Amh. |
| 4. Allbynnau pum mlynedd / allbynnau deng mlynedd | 1. Mae'r allbynnau pum mlynedd cyntaf yn gyfran rhy fawr; mae'n ymddangos yn afrealistig y bydd yr holl angen presennol heb ei ateb yn cael ei ddiwallu o fewn y 5 mlynedd gyntaf.<br>2. Mae allbynnau'r pum mlynedd cyntaf wedi'u hystumio'n sylweddol tuag at dai fforddiadwy ac nid ydynt yn cyd-fynd â'n disgwyliadau. Yn ogystal, nid yw'r dosbarthiad yn cyd-fynd â pholisi lleol. Mae polisi CDLl Ceredigion yn nodi bod 20% o'r holl anheddau o fewn datblygiad yn fforddiadwy ac yn seiliedig ar dystiolaeth hyfywedd fanwl.[8]<br>3. Mae'r ffigurau angen ar gyfer y 10 mlynedd sy'n weddill yn isel iawn, fodd bynnag, mae'r rhaniad rhwng tai fforddiadwy a thai marchnad yn fwy rhesymegol. |

[7] SYG (2023). Living longer: changes in housing tenure over time. Available at: Living longer – Office for National Statistics (ons.gov.uk)

[8] Cyngor Sir Ceredigion (2007). Cynllun Datblygu Lleol – Cyfrol 1 Strategaeth a Chynlluniau.

Tabl 2: Materion allweddol a nodwyd o fewn mewnbynnau data'r offeryn.

| Mewnbynnau data allweddol | Materion allweddol a nodwyd gyda'r mewnbynnau data |
|---|---|
| 1. Ardaloedd Marchnad Dai (AMD) | 1. Mae gwahaniaeth rhwng yr AMD a ddefnyddir yn yr asesiad hwn ac AFDL 2019 gan eu bod yn seiliedig ar ffiniau wardiau gwahanol. Felly, dylid bod yn ofalus wrth gymharu AMD Dyffryn Teifi ac Arfordirol ar draws cyfnodau (gwybodaeth bellach yn Atodiad 1). |
| 2. Data aelwydydd | 1. Arweiniodd yr holl amcanestyniadau aelwydydd (prif, uwch ac is) a fewnbynnwyd yn yr offeryn at nifer is na'r disgwyl o anheddau marchnad dai dros gyfnod yr AFDL. Cydnabyddir bod yr amcanestyniadau seiliedig ar 2018 yn seiliedig ar dueddiadau 5 mlynedd blaenorol ac felly maent wedi dyddio a dylid eu defnyddio gyda gofal. Nid ydynt yn ystyried tueddiadau mwy diweddar, megis y gostyngiad ym maint aelwydydd Ceredigion a adlewyrchwyd yn y Cyfrifiad diweddaraf (2021). |
| 3. Data rhent | 1. Darparwyd y data rhent fesul blwyddyn galendr gan Swyddogion Rhenti Cymru. Dyma'r data rhent diofyn, felly mae hwn wedi'i ddefnyddio. |
| 4. Data incwm | 1. Defnyddiwyd data Incwm CACI Paycheck. Defnyddiwyd data 2023; fodd bynnag, nid yw'r offeryn yn caniatáu i ddefnyddwyr newid o 2022 (dyma pam mae'n ymddangos fel 2022 yn Ffigur 6). |
| 5. Data pris tai a dalwyd | 1. Defnyddiwyd data'r Gofrestrfa Tir – 2020, 2021 a 2022 (a gafodd ei awtomeiddio o fewn yr offeryn). |
| 6. Angen presennol heb ei ateb | 1. Defnyddiwyd data yn seiliedig ar Gofrestr Tai Gyffredin y Cyngor a'r Gofrestr Tai Fforddiadwy, yn ogystal â gwybodaeth am aelwydydd cudd ac aelwydydd digartref mewn llety dros dro (o Gyfrifiad 2021 ac Ystadegau Cymru).<br>2. Roedd neilltuo aelwydydd i'r deiliadaethau priodol (cymdeithasol, canolradd a pherchentyaeth cost isel) yn heriol gan fod gorgyffwrdd rhwng y trothwyon incwm yn ein polisi lleol, yn ogystal â maen prawf ehangach a ddefnyddir i neilltuo angen.<br>3. Un o gyfyngiadau allweddol yr offeryn yw bod yr holl angen presennol heb ei ateb yn cael ei neilltuo i dai fforddiadwy, sy'n gorddatgan yn sylweddol yr angen am dai fforddiadwy ac yn tanddatgan yr angen am dai marchnad yng Ngheredigion. Efallai bod aelwydydd o fewn yr angen hwnnw sydd heb ei ateb a all fforddio tai marchnad. |
| 7. Stoc bresennol a chyflenwad arfaethedig | 1. Mae'r offeryn yn gofyn am gynlluniau 5 mlynedd ar gyfer cyflenwad arfaethedig, fodd bynnag, mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig Ceredigion yn gweithredu yn ôl cynlluniau 3 blynedd. Felly, mae'n bosib bod hyn wedi chwyddo'r ffigurau angen blynyddol fforddiadwy net ychydig. |

### 1.2.3. Allbynnau prif amcanestyniadau

Mae'r allbynnau o'r offeryn sy'n defnyddio'r prif amcanestyniadau aelwydydd wedi'u cynnwys yn y tablau drosodd. Rhoddir trosolwg o'r canlyniadau ar ddiwedd yr adran.

**Templed ar gyfer yr amcangyfrifon blynyddol o'r angen am dai ychwanegol gan ddefnyddio gwahanol amcanestyniadau aelwydydd**

**PUM MLYNEDD GYNTAF CYFNOD YR LHMA**

Amcangyfrif o'r angen blynyddol cyfartalog am dai ychwanegol (angen gros cyn ystyried y cyflenwad arfaethedig a throsiant stoc gyfredol)

Tai fforddiadwy: 245 + Tai'r farchnad (angen newydd yn unig): 0 = Cyfanswm: 245

Angen newydd am dai: 0 | Angen cyfredol am dai sydd heb ei ddiwallu: 245

**Llai'r cyflenwad arfaethedig a throsiant stoc gyfredol**

Amcangyfrif o'r angen cyfartalog blynyddol am dai fforddiadwy ychwanegol, ar ôl ystyried y cyflenwad arfaethedig a throsiant stoc gyfredol

Tai fforddiadwy net: 134 o'r rhain Tai rhent canolradd a LCHO: 43 + Tai Cymdeithasol: 91

Sail yr amcanestyniadau aelwydydd: Prif Amcanestyniad

**Dadansoddiad manwl o'r amcangyfrifon o'r angen am dai ychwanegol dros 5 mlynedd gyntaf cyfnod yr LHMA**

**Tabl 1 Adroddiad yr LHMA: Amcangyfrif o'r angen blynyddol am dai fforddiadwy ychwanegol yn ôl HMA a deiliadaeth (angen net, ar ôl ystyried trosiant y stoc gyfredol a'r cyflenwad arfaethedig)**

Mae'r tabl cyntaf yn darparu'r amcangyfrifon o'r angen am dai fforddiadwy ychwanegol ar y sail ganlynol:
*ar lefel HMA
*yn ôl deiliadaeth (perchentyaeth cost isel, tai rhent canolradd a thai rhent cymdeithasol)
*amcangyfrif blynyddol ar gyfer 5 mlynedd gyntaf cyfnod yr LHMA
*mae'r amcangyfrifon wedi cael eu lleihau er mwyn ystyried trosiant y stoc fforddiadwy gyfredol a'r cyflenwad arfaethedig.

| | (a) | (b) | ( c) | (d) | ( e) | (f) | (g) | (h) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **HMA** | **un ystafell wely** | **dwy ystafell wely** | **tair ystafell wely** | **pedair+ ystafell wely** | **Tai Cymdeithasol** (a) + (b) + (c )+ (d) = (e ) | **Rhent canolradd** | **Perchentyaeth Cost Isel (LCHO)** | **Tai Fforddiadwy** (h) = (e) + (f) + (g) |
| **Amcangyfrifon o'r angen ychwanegol am dai yn ôl deiliadaeth** | **66** | **6** | **8** | **11** | **91** | **5** | **38** | **134** |
| Aberystwyth | 32 | - | 5 | 5 | 41 | 2 | 18 | 61 |
| Arall | 4 | - | - | 1 | 5 | 0 | 2 | 7 |
| Arfordirol | 11 | 5 | 3 | 2 | 21 | 1 | 4 | 26 |
| Dyffryn Teifi | 19 | 1 | - | 4 | 24 | 2 | 15 | 40 |

**Tabl 2 Adroddiad yr LHMA: Amcangyfrifon blynyddol o gyfanswm yr angen dam dai ychwanegol yn ôl HMA a deiliadaeth (cyn ystyried yr angen, cyn ystyried trosiant a chyflenwad)**

Mae'r ail dabl yn darparu'r amcangyfrifon o gyfanswm yr angen am dai ychwanegol ar y sail ganlynol:
*yn cynnwys tai'r farchnad a thai fforddiadwy
*ar lefel HMA
*yn ôl deiliadaeth (perchen-feddiannydd, sector rhentu preifat, perchentyaeth cost isel, tai rhent canolradd a thai rhent cymdeithasol)
*amcangyfrif blynyddol ar gyfer 5 mlynedd gyntaf cyfnod yr LHMA

| | (a) | (b) | (c ) | (d) | (e ) | (f) | (g) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **HMA** | **Tai Cymdeithasol** | **Rhent canolradd and Perchentyaeth Cost Isel (LCHO)** | **Tai Fforddiadwy** (c )= (a) + (b) | **Perchen-feddiannydd** | **Sector rhent preifat** | **Tai ar y Farchnad** (f) = (d) + (e ) | **Angen am dai ychwanegol** (g ) = (c )+ (f) |
| **Amcangyfrifon o'r angen ychwanegol am dai yn ôl deiliadaeth** | **182** | **63** | **245** | - | - | - | **245** |
| Aberystwyth | 85 | 26 | 111 | - | - | - | 111 |
| Arall | 9 | 5 | 14 | - | - | - | 14 |
| Arfordirol | 37 | 12 | 48 | - | - | - | 48 |
| Dyffryn Teifi | 51 | 21 | 72 | - | - | - | 72 |

**Dadansoddiad manwl o'r amcangyfrifon o gyfanswm yr angen am dai ychwanegol dros y 10 mlynedd sy'n weddill o gyfnod yr LHMA**

**Tabl 3 Adroddiad yr LHMA: Amcangyfrifon blynyddol o'r angen am dai ychwanegol yn ôl HMA a deiliadaeth ar gyfer y 10 mlynedd sy'n weddill o gyfnod yr LHMA**

Mae'r trydydd tabl yn darparu'r amcangyfrifon o'r angen am dai ychwanegol ar y sail ganlynol:
*ar lefel HMA
*yn ôl deiliadaeth (perchen-feddiannydd, sector rhentu preifat, perchentyaeth cost isel, tai rhent canolradd a thai rhent cymdeithasol)
*amcangyfrif blynyddol ar gyfer y 10 mlynedd sy'n weddill o gyfnod yr LHMA
*mae'r amcangyfrifon yn seiliedig ar angen newydd yn unig (tybir y caiff unrhyw angen cyfredol nas diwallwyd ei ddiwallu yn ystod y 5 mlynedd gyntaf)
*dylid cyfuno'r amcangyfrifon o'r angen am dai fforddiadwy â'r angen am dai fforddiadwy yn Nhabl 1 er mwyn cynhyrchu amcangyfrif 15 mlynedd o dai fforddiadwy.
Ni roddwyd unrhyw ystyriaeth bellach i'r cyflenwad ar gyfer y cyfnod hwn gan nad oes modd rhagfynegi'r cyflenwad yr ymrwymwyd iddo na'r trosiant cystal ar ôl blwyddyn 5.

| | (a) | (b) | (c ) | (d) | (e ) | (f) | (g) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **HMA** | **Tai Cymdeithasol** | **Rhent canolradd and Perchentyaeth Cost Isel (LCHO)** | **Tai Fforddiadwy** (c) = (a) + (b) | **Perchen-feddiannydd** | **Sector rhent preifat** | **Tai ar y Farchnad** (f) = (d) + (e) | **Angen am dai ychwanegol** (g ) = (c)+ (f) |
| **Amcangyfrifon o'r angen ychwanegol am dai yn ôl deiliadaeth** | - | - | - | - | - | - | - |
| Aberystwyth | - | - | - | | | | |
| Arall | - | - | - | | | | |
| Arfordirol | - | - | - | | | | |
| Dyffryn Teifi | - | - | - | | | | |

**Prif Amcangyfrif o'r Angen am Dai Fforddiadwy dros 15 mlynedd**

**Tabl 4: Amcangyfrif o'r angen cyffredinol blynyddol am dai fforddiadwy ychwanegol yn ôl HMA a deiliadaeth (angen net) dros gyfnod 15 mlynedd yr LHMA**

Mae Tabl 4 yn darparu'r amcangyfrifon o'r angen am dai fforddiadwy ychwanegol ar y sail ganlynol:
*ar lefel HMA
*yn ôl deiliadaeth (tai canolradd a thai rhent cymdeithasol)
*amcangyfrif blynyddol ar gyfer cyfnod 15 mlynedd yr LHMA
*mae'r amcangyfrifon o'r angen am dai fforddiadwy yn gyfuniad o'r amcangyfrifon ychwanegol o dabl 1 (amcangyfrifon net) a thabl 3.
(ni roddwyd unrhyw ystyriaeth bellach i'r cyflenwad na throsiant y stoc gyfredol gan nad oes modd rhagfynegi cystal ar ôl blwyddyn 5)

| | Cyfartaledd amcangyfrifon blynyddol | | | amcangyfrifon 15 mlynedd | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (a) | (b) | (c) | | | |
| **HMA** | **Tai Cymdeithasol** | **Rhent canolradd and Perchentyaeth Cost Isel (LCHO)** | **Tai Fforddiadwy (c) = (a) + (b)** | **Tai Cymdeithasol** | **Rhent canolradd and Perchentyaeth Cost Isel (LCHO)** | **Tai Fforddiadwy (c) = (a) + (b)** |
| **Amcangyfrifon o'r angen ychwanegol am dai yn ôl deiliadaeth** | **30** | **14** | **45** | **456** | **215** | **671** |
| Aberystwyth | 14 | 7 | 20 | 206 | 100 | 306 |
| Arall | 2 | 1 | 2 | 25 | 10 | 35 |
| Arfordirol | 7 | 1 | 9 | 106 | 22 | 128 |
| Dyffryn Teifi | 8 | 6 | 13 | 119 | 83 | 202 |

**Eitemau data / Tybiaethau allweddol**

| | **Basis** | **2022/23** | **2023/24** | **2024/25** | **2025/26** | **2026/27** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Newid mewn twf incwm** | Diofyn | 2.33% | 2.76% | 2.84% | 2.77% | 3.58% |
| **Newid mewn prisiau tai** | Diofyn | -1.12% | -5.67% | 1.14% | 3.43% | 3.59% |
| **Newid mewn prisiau rhenti preifat** | Diofyn | 5.04% | 1.77% | 1.67% | 1.86% | 2.49% |
| **Newid mewn twf dosbarthiad incwm** | Mwy o Anghydrad | 1.00% | 1.00% | 1.00% | 1.00% | 1.00% |

| | |
|---|---|
| Number of years to clear existing unmet need | 5 mlynedd |
| Meini prawf fforddiadwyedd tai'r farchnad | 30% |
| Meini prawf fforddiadwyedd tai rhent cymdeithasol | 35% |

| **Data item** | **Ffynonellau Data** | **Sail y data** |
|---|---|---|
| Data incwm yn ôl HMA | Paycheck | 2022 |
| Data prisiau a dalwyd am dai yn ôl HMA | Data'r Gofrestrfa Tir | Blwyddyn galendr |
| Prisiau rhenti | Swyddogion Rhenti Cymru | Blwyddyn galendr |
| Sail yr amcanestyniadau aelwydydd | Prif Amcanestyniad | |

| | |
|---|---|
| **Canran yr aelwydydd a gaiff eu hystyried ar gyfer deiliadaeth perchen-feddiannydd sy'n mynd yn eu blaen i brynu** | 60% |

**HMA assumptions**

| **HMA** | **Prisiau eiddo prynwyr tro cyntaf** | **Cymhareb gwerth eiddo i incwm prynwyr tro cyntaf** | **Isafswm incwm ar gyfer tai rhent canolradd** | **Uchafswm incwm ar gyfer tai rhent canolradd** |
|---|---|---|---|---|
| Aberystwyth | £ 180,956 | 4.5 | £ 21,245 | £ 24,159 |
| Arall | £ 177,990 | 4.5 | £ 18,051 | £ 21,007 |
| Arfordirol | £ 222,487 | 4.5 | £ 18,035 | £ 21,007 |
| Dyffryn Teifi | £ 174,005 | 4.5 | £ 16,922 | £ 19,957 |

*(Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion – Llywodraeth Cymru Offeryn Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, F3.2 2023)*

Nid yw allbynnau'r offeryn sy'n defnyddio'r prif amcanestyniadau aelwydydd yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol yng Ngheredigion. Fel yr adlewyrchir yn Adran 1.3.9, mae'r prif amcanestyniadau aelwydydd yn amcangyfrif gostyngiad o 0.4% mewn aelwydydd dros gyfnod yr AFDL, sy'n cyfateb i 128 yn llai o aelwydydd yn 2037. Mae'r mewnbwn hwn yn cael effaith sylweddol ar yr angen am dai ychwanegol ar gyfer Ceredigion, yn enwedig ffigurau tai marchnad.

Yr amcangyfrifiad o'r angen blynyddol cyfartalog am dai ychwanegol (*angen gros*) ar gyfartaledd ar gyfer Ceredigion dros 5 mlynedd gyntaf cyfnod yr AFDL yw 245. O'r rhain, neilltuir 100% i dai fforddiadwy a 0% i dai marchnad. O ystyried bod 144 o dai marchnad yn cael eu cwblhau'n flynyddol ar gyfartaledd, amcangyfrifwyd bod dim angen am y sir sy'n afrealistig ac yn groes i'n disgwyliadau (fel yr adlewyrchir yn yr adran uchod). Unwaith eto,

mae rhagdybiaeth yr offeryn bod yr holl angen presennol heb ei ateb yn cael ei neilltuo i dai fforddiadwy yn effeithio'n sylweddol ar y ffigurau amcangyfrifedig o'r angen am dai marchnad.

Ar gyfer y 10 mlynedd sy'n weddill o'r cyfnod AFDL, mae'r offeryn yn amcangyfrif bod dim angen. Mae hyn oherwydd bod yr holl angen am dai ychwanegol yn deillio o'r angen presennol heb ei ateb, a chan fod yr offeryn yn rhagdybio bod hyn yn cael ei ateb o fewn y 5 mlynedd gyntaf nid oes unrhyw ofyniad ar gyfer y 10 mlynedd sy'n weddill. Unwaith eto, nid yw hyn yn cyd-fynd â'n disgwyliadau ac mae'n cyfyngu ar ragdybiaethau'r offeryn.

## 1.3. Marchnad Dai a Thueddiadau Economaidd-gymdeithasol a Demograffig


Bydd yr adran hon yn amlinellu unrhyw newidiadau yr ystyrir eu bod yn werth eu nodi yn y farchnad dai, gan gynnwys unrhyw newidiadau mewn tueddiadau economaidd-gymdeithasol a demograffig ers cynnal yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (AFDL) blaenorol yn 2019. Mae cyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn ddiweddar wedi cynnig modd i ni adolygu'r rhan fwyaf o setiau data ers i'r AFDL gael ei ailysgrifennu, gan arwain at broffil wedi'i ddiweddaru o Ardaloedd Marchnad Dai (AMD) Ceredigion. Gan fod ffiniau'r AMD wedi newid ers yr AFDL blaenorol (oherwydd newidiadau i ffiniau'r wardiau etholiadol, y mae'r AMD yn seiliedig arnynt), mae angen cymryd gofal wrth wneud cymariaethau rhwng yr AMD Arfordirol ac yr AMD Dyffryn Teifi.

### 1.3.1. Maint Daearyddol

Mae'r diweddariad hwn yn ystyried data ac anghenion tai ar draws pedair Ardal Marchnad Dai (AMD) yng Ngheredigion. Y pedair AMD yw: Aberystwyth (118 Km²), Arfordirol (332 Km²), Dyffryn Teifi (294 Km²) ac Arall (1,063 Km²), a ddiffiniwyd ar sail eu nodweddion economaidd-gymdeithasol a demograffig unigryw (gweler Ffigur 7). Mae'r AMD hyn yn cael eu ffurfio trwy agregu wardiau, ac felly maent yn seiliedig ar ffiniau wardiau.

Mae ychydig o wahaniaeth rhwng AMD Arfordirol a Dyffryn Teifi a ddefnyddiwyd yn yr asesiad hwn o'i gymharu ag AFDL 2019 oherwydd y newidiadau a wnaed i ffiniau wardiau etholiadol yn 2022. Mae AMD Arfordirol wedi ennill 29 Km2 o AMD Dyffryn Teifi ac yn golygu bod AMD Arfordirol bellach yn cwmpasu holl arfordir de-orllewin Ceredigion. Cyfeiriwch at Atodiad 1 i gael rhagor o wybodaeth am y newidiadau i'r AMD.

**Ffigur 7: Ardaloedd Marchnad Dai (AMD) yng Ngheredigion.**




*(Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion 2023)*

### 1.3.2. Demograffeg

Bydd yr adran hon yn rhoi trosolwg o'r boblogaeth (gan gynnwys dadansoddiad o nodweddion y boblogaeth) fesul ardal marchnad dai, ac unrhyw dueddiadau demograffig pwysig sydd wedi digwydd yng Ngheredigion ers yr AFDL blaenorol.


Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae poblogaeth Ceredigion yn 71,500, sy'n ostyngiad o 5.9% ers y cyfrifiad blaenorol yn 2011.[9] Mae hyn yn sylweddol is na'r twf o 1.4% a gofnodwyd ar gyfer Cymru. Yn yr un modd, mae'r gyfres Amcangyfrifon Canol Blwyddyn (ACB) diweddaraf yn dangos gostyngiad cyffredinol yn y boblogaeth yng Ngheredigion o'i brig o 76,000 yn 2012 i 70,660 yn 2021.[10]

---

[9]StatsCymru (2022). Y boblogaeth breswyl arferol yn ôl oedran ac awdurdod lleol [Ar-lein]. Ar gael yn [Y boblogaeth breswyl arferol yn ôl oedran ac awdurdod lleol](Cyrchwyd: 19.06.23).

[10]Mae'r gwahaniaeth amlwg rhwng amcangyfrifon poblogaeth Cyfrifiad 2021 ac amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2021 (-810 o drigolion/1.1%) i raddau yn ddisgwyliedig. Mae hyn oherwydd natur anarferol y cyfnod dan sylw (rhwng Mawrth a Mehefin 2021). Cynyddodd natur dymhorol y patrymau mudo ac amgylchiadau unigryw'r pandemig ochr yn ochr â chyflwyno'r rhaglen frechu sensitifrwydd yr elfen fudo. Gallai'r hyn sy'n edrych fel newid mawr ym mhoblogaeth Ceredigion dros y cyfnod o dri mis gael ei ddehongli fel ychydig o dystiolaeth o fawr dim newid, neu ddim newid i bob pwrpas, yn y boblogaeth.

**Ffigur 8: Ceredigion: Amcanestyniadau Poblogaeth Seiliedig ar 2018 gyda'r Chyfrifiad a'r ACB.**




*(Ffynhonnell: SYG, Cyfrifiad 2001, 2011 a 2021; Amcanestyniadau Poblogaeth Llywodraeth Cymru)*


Yn ôl amcanestyniadau diweddaraf Llywodraeth Cymru (seiliedig ar 2018), mae'r tuedd yma o ddirywiad poblogaeth yn debygol o barhau (cyfeiriwch ar Ffigur 8), gostyngiad o 2.3% (1,610 o drigolion) dros gyfnod 15 mlynedd yr AFDL.

Mae'r senarios gwahanol yn Ffigur 8 yn dangos yn glir yr effaith y gall tybiaethau o ran mudo, ffrwythlondeb a marwolaethau amgen ei chael ar amcanestyniadau yn y dyfodol. Mae amcanestyniadau poblogaeth seiliedig ar 2018 yn awgrymu cynnydd bach o 27 o drigolion (amrywiad uwch) a gostyngiad o 3,674 o drigolion (amrywiad is) yng Ngheredigion dros yr un cyfnod (2022-2037). Mae amcanestyniadau amrywiadol yn dangos ansicrwydd cynhenid ymddygiad demograffig, yn enwedig ar gyfer amcanestyniadau hirdymor.

Mae Ffigur 9 isod yn dangos yr amcangyfrifon poblogaeth cyffredinol ar gyfer pob AMD o 2011-2021. O'r pedair AMD, Aberystwyth sydd â'r boblogaeth fwyaf (23,660) yn 2021, ac yna Dyffryn Teifi (17,060), Arall (15,590), ac Arfordirol (15,160).[11] Ar draws pob un o'r pedair AMD mae patrwm cyffredinol o ddirywiad graddol dros y ddegawd, sy'n dilyn tueddiad y sir gyfan (cyfeiriwch at Ffigur 9). Mae AMD Aberystwyth yn dangos y gostyngiad mwyaf arwyddocaol yn y boblogaeth, gyda gostyngiad o 8.7% (2,261) dros y ddegawd o 25,923 yn 2011 i 23,660 yn 2021. Gostyngiad bach yn unig oedd yn y boblogaeth ar draws y tair AMD arall (Arfordirol, Arall a Dyffryn Teifi) dros yr un cyfnod.

[11]SYG (2022) – Cyfrifiad: TS007 – Oedran yn ôl blwyddyn sengl. [Ar-lein]. Ar gael yn: TS007 – Age by single year – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk) (Cyrchwyd: 19.06.23).

**Ffigur 9: Cyfanswm amcangyfrifon poblogaeth 2011-2021 fesul AMD.**




*(Ffynhonnell: SYG, Amcangyfrifon Canol Blwyddyn (2011-2020)[12]; SYG, Cyfrifiad 2021 Amcangyfrifon Poblogaeth.[13] )*
** Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli tuedd poblogaeth 2020-2021, gan fod data 2021 yn defnyddio'r ffiniau AMD diwygiedig sy'n seiliedig ar ffiniau wardiau etholiadol newydd (2022).*

Yn ôl data diweddar (gweler Tabl 3 isod) mae poblogaeth Ceredigion yn hŷn na'r darlun cenedlaethol. Mae tua 47.0% o drigolion y sir yn 50 oed a throsodd, ac mae 11.8% ohonynt yn 75 oed a throsodd. Mae hyn yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru o 41.8% a 9.8%. Mae cyfrannau poblogaeth y plant a'r grwpiau oedran gweithio yn llai yng Ngheredigion o'i gymharu â'r ffigurau cyfatebol cenedlaethol. Yn 2021 roedd 13.1% o blant y sir o dan 15 oed (o'i gymharu ag 16.6% yn genedlaethol), tra bod 61.0% rhwng 15-64 oed o'i gymharu â 62.2% yn genedlaethol.

**Tabl 3: Proffil Oedran Ceredigion a Chymru yn ôl grwpiau oedran 5-mlynedd – Cyfrifiad 2021.**

| | Ceredigion | | Cymru | |
|---|---|---|---|---|
| | nifer | % | nifer | % |
| Holl drigolion arferol | 71,475 | 100.0 | 3,107,493 | 100.0 |
| 4 mlwydd oed ac is | 2,709 | 3.8 | 155,086 | 5.0 |
| 5 i 9 mlwydd oed | 3,288 | 4.6 | 175,925 | 5.7 |
| 10 i 14 mlwydd oed | 3,424 | 4.8 | 182,702 | 5.9 |
| 15 i 19 mlwydd oed | 4,792 | 6.7 | 175,770 | 5.7 |
| 20 i 24 mlwydd oed | 6,366 | 8.9 | 187,675 | 6.0 |
| 25 i 29 mlwydd oed | 3,652 | 5.1 | 186,460 | 6.0 |
| 30 i 34 mlwydd oed | 3,455 | 4.8 | 196,215 | 6.3 |

[12] NOMIS (2011-2020). Amcangyfrifon poblogaeth – ardal fechan yn ôl blwyddyn sengl. Ar gael yn: Nomis - Official Census and Labour Market Statistics - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk) (Cyrchwyd: 19.06.23).
[13] SYG (2022). Poblogaeth breswyl arferol yn ôl oedran ac awdurdod lleol. Ar gael yn: Age by single year - Office for National Statistics (ons.gov.uk)


| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 35 i 39 mlwydd oed | 3,268 | 4.6 | 186,231 | 6.0 |
| 40 i 44 mlwydd oed | 3,170 | 4.4 | 175,351 | 5.6 |
| 45 i 49 mlwydd oed | 3,707 | 5.2 | 186,077 | 6.0 |
| 50 i 54 mlwydd oed | 4,752 | 6.6 | 215,680 | 6.9 |
| 55 i 59 mlwydd oed | 5,364 | 7.5 | 222,672 | 7.2 |
| 60 i 64 mlwydd oed | 5,140 | 7.2 | 199,606 | 6.4 |
| 65 i 69 mlwydd oed | 4,930 | 6.9 | 177,641 | 5.7 |
| 70 i 74 mlwydd oed | 5,012 | 7.0 | 181,337 | 5.8 |
| 75 i 79 mlwydd oed | 3,718 | 5.2 | 131,497 | 4.2 |
| 80 i 84 mlwydd oed | 2,379 | 3.3 | 88,994 | 2.9 |
| 85 mlwydd oed a drosodd | 2,349 | 3.3 | 82,574 | 2.7 |

*(Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021)*

Mae Ffigur 10 yn dangos yr amrywiad mewn proffiliau oedran yng Ngheredigion. Yn AMD Aberystwyth ceir y gyfran uchaf o drigolion oedran gweithio (16-64 oed) a'r gyfran isaf o drigolion 65 oed a throsodd. AMD Arfordirol sydd â'r gyfran fwyaf o drigolion dros 65 oed a'r gyfran isaf o drigolion oedran gweithio. O ran cyfran y plant, mae AMD Arall a Dyffryn Teifi ychydig yn uwch na chyfartaledd y sir (14.1%), ond yn is na chyfartaledd Cymru (16.5%). Mae AMD Aberystwyth ac Arfordirol yn cynnwys canran is o blant o'i gymharu â chyfartaledd Ceredigion a chyfartaledd Cymru.

Nid yw'r cyfansoddiad oedran hwn yn syndod oherwydd bod Prifysgol Aberystwyth yn denu tua 7,845 i 8,000 o fyfyrwyr i'r ardal bob blwyddyn ac yn draddodiadol mae'r ardaloedd arfordirol wedi bod yn lleoedd poblogaidd iawn i bobl ymddeol iddynt.

**Ffigur 10: Proffil Oedran Amcangyfrifedig - Ardal Marchnad Dai, Ceredigion a Chymru 2021.**





*(Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021)*

Mae poblogaeth Ceredigion yn heneiddio. Yn ystod y cyfnod rhwng Cyfrifiad 2011 a 2021, cynyddodd maint y grŵp oedran 65 a throsodd gan 17.1%, sy'n debyg i'r cynnydd cenedlaethol (17.7%). Mewn cyferbyniad, bu gostyngiad amlwg yn y boblogaeth o dan 64

oed, gostyngiad o 9.9% ar gyfer plant o dan 15 oed a gostyngiad o 12.2% ar gyfer oedolion 15-64 oed. Gellir priodoli'r tueddiadau demograffig hyn yn y Sir i'r gostyngiad mewn cyfraddau ffrwythlondeb, pobl iau yn allfudo, cynnydd mewn disgwyliad oes a 'chenhedlaeth y cynnydd' y 1960au yn cyrraedd oedran ymddeol. Mae'r duedd o heneiddio yn cael ei hailadrodd yn genedlaethol, fodd bynnag, nid yw'r patrymau yn y grwpiau oedran is ar draws Cymru mor amlwg. Mae Ffigur 11 isod yn dangos y newid yn y proffil oedran yng Ngheredigion ac ar draws Cymru rhwng 2011 a 2021 yn ôl y Cyfrifiad.

**Ffigur 11: Newid i'r nifer o drigolion yn bob grŵp oedran rhwng 2011 a 2021.**




*(Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 & Cyfrifiad 2021)*

Yn ôl amcanestyniadau Llywodraeth Cymru seiliedig ar 2018, disgwylir i'r duedd hon o boblogaeth sy'n heneiddio barhau i'r dyfodol. Erbyn 2037 mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd un o bob tri yng Ngheredigion yn 65 oed a throsodd, cynnydd o tua un o bob pedwar yn 2021.[14] Ond erbyn 2037, disgwylir i nifer y plant (15 oed ac iau) a'r boblogaeth oedran gweithio (16 -64 oed) ostwng 6.2 pwynt canran a 0.7 pwynt canran yr un.

Fel yr adlewyrchir yn Strategaeth Tai i Bawb Cyngor Sir Ceredigion (2023-2028)[15], bydd y boblogaeth sy'n heneiddio yn cael effaith ar y math o dai y bydd ei angen yn y dyfodol. Bydd angen cynyddol am dai y gellir eu haddasu, a all gefnogi pobl ar wahanol gyfnodau yn eu bywydau.


### 1.3.3. Ethnigrwydd

Yn ôl data Cyfrifiad 2021, mae poblogaeth Ceredigion wedi'i ffurfio'n bennaf o bobl sy'n nodi eu hethnigrwydd fel 'Gwyn' (96.2%). Mae gweddill y boblogaeth yn cynnwys y rhai sy'n nodi

[14]SYG (2022) – Cyfrifiad: TS007 – Oedran yn ôl blwyddyn sengl. [Ar-lein]. Ar gael yn: TS007 – Age by single year – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk) (Cyrchwyd: 19.06.23).
[15]Cyngor Sir Ceredigion (2023). Tai i Bawb 2023-2028. [Ar-lein]. Ar gael yn: 20a9485dcf070e3d73006dcace32d11c_Housing_Strategy_2023-2028.pdf (amazonaws.com) (Cyrchwyd: 20.06.2023).

eu bod yn Asiaidd/Asiaidd Prydeinig (1.5%), grwpiau ethnig cymysg/amlethnig(1.2%), grwpiau ethnig Arall (0.5%) a Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig (0.5%).[16]

**Ffigur 12: Canran o grwpiau ethnig yng Ngheredigion (2021).**




*(Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021)*

Mae Ffigur 13 isod yn dangos sut mae canran y grwpiau ethnig gwahanol wedi newid rhwng 2011 a 2021. Yng Ngheredigion, gwelwyd y cynnydd mwyaf yn y grŵp ethnig Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd (+37.6%), a'r grŵp ethnig Gwyn welodd y gostyngiad mwyaf (-6.4%). Wrth gymharu data Ceredigion â'r data cenedlaethol, gallwn weld tueddiadau tebyg ar gyfer y rhan fwyaf o grwpiau ethnig, fodd bynnag, maent yn wahanol pan edrychwn ar y grŵp ethnig Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig a'r grŵp ethnig Arall. Gwelodd Ceredigion ostyngiad o -0.3% o fewn y grŵp hwn, tra gwelodd Cymru gynnydd o 27.0%. Yn ogystal, gwelodd y grŵp ethnig Arall ostyngiad o -2.6% yng Ngheredigion, ond ar draws Cymru bu cynnydd sylweddol o 73.2%.[17] [18]


---

[16] SYG (2022) – Cyfrifiad: TS021 – Grŵp Ethnig. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis – Official Census and Labour Market Statistics – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

[17] SYG (2022) – Cyfrifiad: TS021 – Grŵp Ethnig. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis – Official Census and Labour Market Statistics – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

[18] SYG S (2011) – Cyfrifiad: QS201EW – Grŵp Ethnig. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis – Official Census and Labour Market Statistics – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

Ffigur 13: Canran o'r newid i grwpiau ethnig rhwng 2011 a 2021.




*(Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 & Cyfrifiad 2021)*

Mae tabl 4 isod yn dangos canran y bobl sy'n nodi fesul grŵp ethnig ym mhob un o'r 4 AMD yng Ngheredigion.

Allan o'r pedair AMD, AMD Aberystwyth yw'r ardal fwyaf amrywiol o ran ethnigrwydd[19]. AMD Aberystwyth oedd â'r gyfran uchaf o drigolion oedd yn nodi grwpiau ethnig Asiaidd, Du neu Gymysg (5.5%), fodd bynnag, y ganran isaf o'r rhai a nododd eu bod yn Wyn (93.6%) neu grwpiau ethnig 'Arall' (0.0%). Mae ethnigrwydd y tair AMD arall (Arfordirol, Arall, Dyffryn Teifi) yn weddol debyg. AMD Arfordirol sydd â'r gyfran fwyaf o bobl yn nodi eu bod yn Wyn (98.5%).[20] [21]

[19] *Mae 'ethnig amrywiol' yma yn cyfeirio at y ganran o'r boblogaeth nad yw o'r grŵp ethnig gwyn.*
[20] SYG (2022) – Cyfrifiad: TS021 – Grŵp Ethnig. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis – Official Census and Labour Market Statistics – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)
[21] Ibid.

Tabl 4: Canran o'r newid i grwpiau ethnig yn ôl AMD (2021).

| Grŵp Ethnig | Aberystwyth | Arfordirol | Arall | Dyffryn Teifi |
|---|---|---|---|---|
| Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymraeg | 2.8% | 0.5% | 0.3% | 1.2% |
| Du, Du Prydeinig, Du Cymraeg, Caribïaidd neu Affricanaidd | 1.0% | 0.1% | 0.3% | 0.2% |
| Grwpiau ethnig cymysg, lluosog | 1.7% | 0.7% | 0.8% | 1.1% |
| Gwyn | 93.6% | 98.5% | 98.4% | 97.1% |
| Grŵp ethnig arall | 0.0% | 0.2% | 0.1% | 0.5% |


*(Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021)*

Gellir priodoli'r amrywiaeth ehangach yn HMA Aberystwyth i dref Aberystwyth ei hun, cyfeirir ati fel canolfan fusnes y sir, ac yn gartref i brifysgol ac i ysbyty rhanbarthol. Mae'r dref yn denu ystod amrywiol o bobl i'r ardal o bob rhan o'r DU a thramor i weithio, byw ac astudio.

Mae Ffigur 14 isod yn dangos y newid canrannol yn nifer y bobl sy'n nodi eu bod yn grwpiau ethnig gwahanol amrywiol fesul AMD yng Ngheredigion, rhwng Cyfrifiad 2011 a Chyfrifiad 2021. Ar yr olwg gyntaf, mae cynnydd nodedig ar gyfer rhai grwpiau ethnig yng Ngheredigion, fodd bynnag, roedd nifer y trigolion o fewn y grwpiau hyn yn isel iawn yn 2011 ac felly mae'r siart yn ystumio arwyddocâd y newid. Gwelwyd y cynnydd mwyaf yn AMD Aberystwyth lle bu cynnydd o 95.7% (+132) yn nifer y bobl a nododd eu bod yn Ddu, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd a gwelwyd y gostyngiad mwyaf arwyddocaol yn AMD Arall, lle bu gostyngiad o -61.4% (-35) yn nifer y rhai a nododd eu bod yn y grŵp ethnig 'Arall'.[22] [23]

[22] SYG (2022) – Cyfrifiad: TS021 – Grŵp Ethnig. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis – Official Census and Labour Market Statistics – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)
[23] SYG (2011) – Cyfrifiad: QS201EW – Grŵp Ethnig. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis – Official Census and Labour Market Statistics – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

**Ffigur 14: Canran y newid yn nifer y gwahanol grwpiau ethnig rhwng 2011 a 2021, fesul AMD.**




*(Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 & Cyfrifiad 2021)*

**Sylwch ar y newidiadau i ffiniau'r AMD. Mae AMD 2023 bellach yn cynnwys ffiniau wardiau mwyaf newydd 2022, tra bod AMD 2019 yn cynnwys ffiniau wardiau 2011. Mae newidiadau wedi'u gwneud i AMD Arfordirol a Dyffryn Teifi ac felly nid oes modd eu cymharu rhwng blynyddoedd.*

### 1.3.4. Anabledd

Mae darparu tai priodol yn hynod bwysig i sicrhau bod y rhai sydd â phroblem iechyd hirdymor neu anabledd yn cael y cyfle i fyw'n annibynnol ac yn ffurfio rhan allweddol o agenda atal y Cyngor. Os yw rhywun yn dioddef o broblem iechyd hirdymor neu anabledd, gallai olygu na fydd yn gallu defnyddio'n llawn y grisiau neu'r cyfleusterau cyffredin yn ei gartref. Yn ôl y Ddeddf Cydraddoldeb (2010), mae unigolyn yn anabl os oes ganddo nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith negyddol sylweddol a hirdymor ar ei allu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. *Dylid bod yn ofalus wrth gymharu data anabledd rhwng y ddau gyfrifiad, gan fod anabledd yn cael ei asesu mewn ffordd wahanol ac felly dim ond yn fras y gellir ei gymharu.*


Yn ôl data diweddaraf y Cyfrifiad (2021), mae 21.9% o boblogaeth Ceredigion yn cynnwys pobl sydd â phroblem iechyd hirdymor neu anabledd, sy'n debyg iawn i'r cyfartaledd cenedlaethol (21.6%).[24] Ers Cyfrifiad 2011, gallwn weld bod canran y bobl â phroblem iechyd hirdymor neu anabledd wedi cynyddu ychydig gan 0.3 pwynt canran.[25]

Yng Ngheredigion, mae cyfran y bobl sydd â phroblem iechyd neu anabledd yn amrywio. Fel yr adlewyrchir yn Ffigur 15, mae gan ychydig llai na chwarter AMD Dyffryn Teifi (AMD)

[24] SYG (2022) – Cyfrifiad: TS038 – Anabledd. [Ar-lein]. Ar gael yn: [Nomis – Official Census and Labour Market Statistics – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)](nomisweb.co.uk).
[25] Ibid.

(24.2%) broblem iechyd hirdymor neu anabledd, y ganran uchaf o'r pedair AMD. AMD Aberystwyth sydd â'r ganran isaf o bobl â phroblem iechyd hirdymor neu anabledd (20.9%). Gellid priodoli hyn i broffil oedran iau AMT Aberystwyth, a yrrir yn bennaf gan y gyfran uchel o fyfyrwyr sy'n byw yn yr ardal. Yn ogystal, efallai nad oes gan dref Aberystwyth y tai mwyaf priodol ar gyfer y rhai â phroblemau symudedd gan fod llawer o fflatiau â grisiau a thai teras a all fod yn anodd eu haddasu, gan olygu y byddai llai o bobl â phroblem iechyd hirdymor neu anabledd yn penderfynu byw yma.

**Ffigur 15: Canran y rhai â phroblem iechyd hirdymor neu anabledd fesul AMD.**




*(Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021)*

Mae disgwyl i'r nifer o bobl hŷn yng Ngheredigion gynyddu yn y dyfodol. Tueddir i weld lefelau uwch o anabledd, iechyd a phroblemau symudedd ymhlith pobl hŷn, sy'n golygu y bydd mwy o alw am opsiynau tai arbenigol.


### 1.3.5. Cyflogaeth

Mae data nifer y bobl sy'n hawlio budd-dal diweithdra yn rhoi gwybodaeth i ni am y gyfran o'r boblogaeth oedran gweithio sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith ac yn y rhan fwyaf o achosion mae hawlio'r lwfans hwn yn golygu eu bod yn ddi-waith. Mae Ffigur 16 isod yn dangos cyfran y boblogaeth oedran gweithio (16-64 oed) oedd yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith rhwng 2018 a 2023 yng Nghymru ac yng Ngheredigion. Mae'r data yn dangos bod nifer y bobl sy'n hawlio budd-dal diweithdra wedi bod yn cynyddu ers 2018 cyn cyrraedd brig yn 2020. Gallwn briodoli'r cynnydd yn 2020 i bandemig COVID-19 pan gollodd llawer o bobl eu

swyddi o ganlyniad i'r cyfnodau clo a chyfyngiadau masnachu.[26] Ers hynny mae canran y bobl sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith wedi gostwng, fodd bynnag, mae'n parhau i fod yn uwch na lefelau 2019.

Mae nifer y bobl sy'n hawlio budd-dal diweithdra yng Ngheredigion bob amser wedi bod ychydig yn is na chyfartaledd Cymru. Ym mis Awst 2023 roedd cyfran y bobl oedd yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith yng Ngheredigion yn 2.2%, ond roedd y cyfartaledd cenedlaethol 1 pwynt canran yn uwch (3.2%).[27] *Nid yw ystadegau nifer y bobl sy'n hawlio budd-dal diweithdra ar gael fesul ward ac felly ni ellir eu dadansoddi ar lefel AMD.*

**Ffigur 16: Canran y bobl sy'n hawlio budd-dal diweithdra (2018 – 2023).**





*(Ffynhonnell: SYG 2018-2023)*

### 1.3.6. Patrymau Cymudo

Mae patrymau cymudo i'r gwaith yn cael ei ystyried fel ffactor allweddol wrth adnabod ardaloedd marchnad dai. Fel y adlewyrchir yn Ffigur 17 isod, mae o dan un traen o'r gweithlu yn gweithio o gartref yn bennaf (31.6%),[28] mae hyn wedi cynyddu o 20.9% ers y Cyfrifiad yn 2021.[29] Ar gyfartaledd, mae'r pellter a deithiwyd i'r gwaith wedi lleihau i drigolion Ceredigion. Gallwn briodoli'r newid yma yn bennaf i'r ymateb i pandemig COVID-19, sydd wedi gweld cynnydd yn y nifer o'r gweithlu sydd yn gweithio o gartref. Er hynny, mae'n cael ei gydnabod bod y boblogaeth yn parhau i newid ac felly ac erbyn hyn mae'r ffigwr yma yn debygol o fod yn is gan fod rhai wedi dychwelyd i'r swyddfa/man gwaith. Teithiodd cerbydau 467 miliwn o filltiroedd ar ffyrdd yng Ngheredigion yn 2022, sydd, er ei fod wedi cynyddu ers y Pandemig, yn dal yn is na'r uchafbwynt o 507 miliwn yn 2019, neu 92% o'r lefel cyn-bandemig.

[26]SYG – Nifer y bobl sy'n hawlio budd-dal diweithdra (2018, 2019, 2020, 2021, 2022 a 2023). [Ar-lein]. Ar gael yn: Claimant Count – Data Sources – home – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)
[27]Ibid.
[28] SYG (2022) Cyfrifiad – TS058 – Pellter Teithio i'r Gwaith. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis - Official Census and Labour Market Statistics - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)
[29] SYG (2011) Cyfrifiad – QS702EW – Pellter Teithio i'r Gwaith. [ Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis - Official Census and Labour Market Statistics - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

**Ffigur 17: Pellter a deithiwyd i'r gwaith.**





*(Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021)*

Ar draws yr AMD, mae patrymau cymudo yn weddol debyg. Yr eithriad ydy o fewn AMD Aberystwyth, sydd o bell ffordd efo'r cyfrannedd mwyaf o drigolion sydd yn teithio'r pellter byrraf (llai na 2km). Mae hyn yn ddisgwyliedig gan fod AMD Aberystwyth yn cynnwys y brif dref o Aberystwyth, sydd yn ganolfan cyflogaeth yng Ngheredigion.

Mae data llif gweithle cyrchfan tarddiad 2021 yn amlinellu patrymau lleoliadau cymudo i Geredigion. Mae mwyafrif y gweithlu yng Ngheredigion yn gweithio o fewn y Sir (88.5%). Y pum prif leoliad cymudo o Geredigion ydy Sir Caerfyrddin (5.5%/1,665), Sir Benfro (1.6%/409), Gwynedd (0.7%/208), Powys (0.6%/197) ac Abertawe (0.3/106), mae'r mwyafrif o rain yn awdurdodau lleol cyfagos.[30] Mae'r patrymau cymudo yma ychydig yn wahanol i 2011, ble roedd llai o bobl wedi nodi bod ei gweithle yng Ngheredigion (eto, gall hyn fod oherwydd ymateb pandemig COVID-19). Fe ddangoswyd Ynys Môn fel un o'r pum prif leoliadau cymudo yn 2011, ond cafodd hyn yw amnewid gydag Abertawe yn 2021. Fodd bynnag, dylid bod yn ofalus wrth gymharu'r ddwy set ddata. Nid yw'n glir pa mor gynrychioliadol yw ystadegau'r cyfrifiad o batrymau teithio i'r gwaith ar Ddiwrnod y Cyfrifiad ei hun. Mae'r map isod yn dangos y pum prif leoliad cymudo o blith gweithlu Ceredigion.

[30] SYG (2023). ODWP01EW – Lleoliad preswylfa arferol a gweithle. Ar gael yn: [Origin-destination data, England and Wales: Census 2021 - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)]

**Ffigur 18: Y 5 prif lleoliad gwaith yng Ngweithlu Ceredigion (2021).**




*(Ffynhonnell: SYG 2023)*

### 1.3.7. Enillion ac Incymau


Mae lefelau incwm yn tueddu i effeithio ar y math o lety y mae aelwydydd yn byw ynddo. Mae ffynonellau lluosog o ddata incwm ar gael. (Mae incwm yn cynnwys pensiynau a buddsoddiadau eraill nid dim ond cyflogau).

Mae'r ffigurau canlynol o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn asesu incwm unigol yn hytrach nag incwm aelwydydd. Yn ôl yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion Swyddfa Ystadegau Gwladol 2022, mae gan weithwyr amser llawn Ceredigion incwm gros canolrifol a enillir o £29,119, sy'n is na'r ffigur cenedlaethol o £30,846, ac yn is na ffigur y DU gyfan, sef £33,279.[31]

[31]SYG (2022). Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion. [Ar-lein]. Ar gael yn: Annual Survey of Hours and Earnings (ASHE) – Office for National Statistics

Trwy ddefnyddio data a ddarparwyd gan CACI Paycheck, mae modd edrych yn benodol ar incwm aelwydydd yng Ngheredigion. Mae Ffigur 19 isod yn dangos lefelau incwm canolrifol aelwydydd rhwng 2018 a 2022. Yn 2018 a 2019 roedd incwm canolrifol yng Ngheredigion yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar draws Cymru. Ers 2020, mae incwm blynyddol canolrifol Ceredigion wedi bod yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, gyda'r gwahaniaeth mwyaf yn 2021, lle'r oedd incwm canolrifol Ceredigion £1,249 yn llai na'r cyfartaledd cenedlaethol.

**Ffigur 19: Incwm canolrif yng Nghymru a Ceredigion (2018 – 2022).**





*(Ffynhonnell: CACI Paycheck 2018 – 2022)*

Mae data gan CACI Paycheck hefyd yn ein galluogi i edrych ar incwm aelwydydd fesul AMD (cyfeiriwch at ffigur 20). Mae incwm aelwydydd yn amrywio ychydig ar draws y pedair AMD. AMD Arfordirol (£33,550) sydd â'r incwm aelwyd canolrifol uchaf, ac mae roedd tua £2,388 yn uwch na chyfartaledd Ceredigion yn 2022. Yn Nyffryn Teifi (£29,016) roedd yr incwm canolrifol isaf yn 2022 – £2,146 yn is na chyfartaledd y sir,[32] ac roedd incwm canolrifol aelwydydd Aberystwyth ac AMD Arall yn weddol debyg, sef £29,839 a £30,119 yr un.

[32]CACI Paycheck (2022).

**Ffigur 20: Incwm canolrif aelwydydd yng Ngheredigion ac yn ôl AMD (2022).**




*(Ffynhonnell: CACI Paycheck 2022)*

Gyda phrisiau tai uchel ac incwm isel mae Ceredigion yn anfforddiadwy i lawer, sy'n ei gwneud yn heriol i brynwyr am y tro cyntaf gael eu troed ar yr ysgol eiddo, i bobl gael mynediad at dai diogel a fforddiadwy, ac i breswylwyr aros yn eu cymunedau. Mae Strategaeth Dai Cyngor Sir Ceredigion 2023-2028 yn amlinellu'r heriau hyn a'r camau gweithredu i'w cymryd er mwyn rhoi sylw i'r materion hyn.

### 1.3.8. Fforddiadwyedd Tai

Mae'r broblem o fforddiadwyedd tai yn parhau i fod yn un o'r heriau allweddol yn lleol ac yn genedlaethol. Mae Ceredigion yn adnabyddus am fod ag incwm is na'r cyfartaledd ond prisiau tai uwch na'r cyfartaledd. Un ffordd o ddeall arwyddocâd yr effaith hon ar aelwydydd yw trwy edrych ar y gymhareb fforddiadwyedd. Mae'r adran hon yn edrych yn benodol ar y gymhareb fforddiadwyedd yng Nghymru, Ceredigion ac yn ôl AMD ar hyn o bryd, ac a fu newid ers yr AFDL blaenorol.


Er mwyn cyfrifo fforddiadwyedd tai ar draws yr ardaloedd daearyddol gwahanol, mae gwahanol brisiau tai canolrifol wedi'i defnyddio.[33] I gyfrifo'r gymhareb fforddiadwyedd i Gymru a Ceredigion, mae rhyddhad Prisiau Tai Ystadegol i ardaloedd bach (HPSSAs) yr SYG wedi'i defnyddio,[34] tra bod dadansoddiad ar lefel AMD yn defnyddio data crai o'r Cofrestra Tir ar lefel ward, sydd wedi cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru (sy'n cael ei defnyddio o fewn yr offeryn).[35] [36] Mae'r incwm canolrifol a defnyddiwyd i'r ddau gyfrifiad yn dod o CACI Paycheck. Felly, does dim modd cymharu'r data AMD fforddiadwyedd tai gyda'r ffigurau lefel Ceredigion neu Gymru yn uniongyrchol, gan fod ffynonellau gwahanol wedi'i defnyddio.

---

[33] *Nodyn: mae hyn oherwydd nad oedd modd lawrlwytho'r ffeil ddata lawn ar gyfer data pris a dalwyd y Gofrestrfa Tir.*
[34]SYG (2023). Ystadegau prisiau tai ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru a Lloegr. Ar gael yn: House price statistics for small areas in England and Wales - Office for National Statistics (ons.gov.uk)
[35] Llywodraeth Cymru (2023). AFDL: dogfennau – Data Cofrestrfa Tir Cymru 2022. Ar gael yn: Asesiad o'r farchnad dai leol (LHMA): canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol | LLYW.CYMRU

Mae Ffigur 21 yn dangos y prisiau tai canolrifol a chyfraddau twf Ceredigion a'i awdurdodau lleol cyfagos ers y flwyddyn diwedd Medi 2019 i 2022. Yn ôl yr SYG, cynyddodd prisiau tai ar draws Cymru gan 18.8% i £190,000 rhwng mis Medi 2019 a mis Medi 2022. Perfformiodd y rhanbarth yn well na Lloegr a welodd y pris cartref canolrifol yn cynyddu gan 13.6% i £275,000. Ers 2019, mae prisiau tai wedi cynyddu ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Er gwaetha'r cyfraddau llog uwch diweddaraf, y codiad mawr mewn rhenti ynghyd â chyfraddau chwyddiant uwch, mae prisiau tai yn parhau i godi.

**Ffigur 21: Prisiau Tai Canolrifol ar draws Cymru a'r newid % mewn prisiau yn Ganolbarth Cymru rhwng 2019 a 2022.**




*(Ffynhonnell: SYG, 2023)*[37]

Gwelodd Ceredigion yr wythfed cynnydd canolrifol mwyaf mewn prisiau tai o blith awdurdodau lleol Cymru ers 2019, gyda phrisiau tai yn codi 23.9% (+£45,000) o £190,000 ym mis Medi 2019 i £235,500 ym mis Medi 2022. Fodd bynnag, ar lefel ranbarthol, allan o'r awdurdodau lleol cyfagos, mae gan Ceredigion y prisiau tai canolrifol trydydd mwyaf ac mae'r sir wedi gweld y trydydd cynnydd canolrifol mwyaf mewn prisiau tai, tu ôl i Powys (27.8%) a Sir Benfro (25.0%). I ryw raddau gellir priodoli hyn i effeithiau sy'n gysylltiedig â'r


[37] SYG (2023). Pris tai i enillion yn y gweithle – prisiau tai canolrif yn ôl awdurdod lleol a chenedl. Ar gael yn: House price to workplace-based earnings ratio - Office for National Statistics (ons.gov.uk)

pandemig, megis yr awydd i symud i leoliadau gwledig, y galw uwch am eiddo mwy, a'r galw cronedig gan brynwyr oherwydd y cyfnodau clo, yn ogystal ag ymestyn y gwyliau treth stamp.

Yn ogystal â phrisiau tai uwch na'r cyfartaledd, mae incwm trigolion Ceredigion yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (fel yr adlewyrchir yn Adran 1.3.7 uchod). Er bod incwm canolrifol wedi gweld cynnydd yn y blynyddoedd diwethaf o £27,750 yn 2019 i £31,160 yn 2020, mae'n parhau i fod ychydig yn is na chyfartaledd Cymru (£31,350).

Mae Ffigur 22 isod yn amlinellu’r newid yn y gymhareb o brisiau tai canolrifol gydag incymau aelwydydd canolrifol ers 2018. Yn 2022, roedd y prisiau tai canolrifol 7.56 yn uwch na’r enillion canolrifol yng Ngheredigion. Y cyfwerth i Gymru oedd 6.06. Mae’r siart yn amlygu bod y gymhareb wedi cynyddu ychydig dros y pum mlynedd diwethaf, ac yn parhau i fod yn uwch na’r canolrif cenedlaethol.

**Ffigur 22: Fforddiadwyedd aelwydydd 2018-2022, Ceredigion a Chymru.**




*(Ffynhonnell: SYG (2023) a CACI Paycheck 2018-2022).*

Mae Tabl 5 isod yn amlinellu'r gymhareb fforddiadwyedd aelwydydd yn ôl AMD.

Yn 2022, AMD Arfordirol oedd â'r gymhareb fforddiadwyedd uchaf o 8.4, sy'n golygu y byddai disgwyl i aelwydydd dalu 8.4 gwaith yn fwy na'u hincwm am eiddo. Aberystwyth oedd â'r gymhareb fforddiadwyedd isaf o 7.5, ac ydy’r ardal mwyaf fforddiadwy yng Ngheredigion i brynu cartref.[38] [39]

[38] CACI Paycheck (2022).
[39] Cofrestrfa Tir EF (2023). Data Agored. [Ar-lein]. Ar gael yn: HM Land Registry Open Data


**Tabl 5: Cymhareb Fforddiadwyedd Aelwydydd yn ôl AMD (2022).**

| AMD | Pris Tai Canolig (2022) | Incwm Cartref Canolig | Cymhareb Fforddiadwyedd |
|---|---|---|---|
| **Aberystwyth** | £225,000 | £29,840 | 7.5 |
| **Arfordirol** | £283,250 | £33,550 | 8.4 |
| **Arall** | £250,000 | £30,120 | 8.3 |
| **Dyffryn Teifi** | £240,000 | £29,020 | 8.3 |

*(Ffynhonnell: CACI Paycheck 2022 a Data'r Gofrestrfa Tir)*[40][41]

Mae Ffigur 23 isod yn dangos y gymhareb fforddiadwyedd yn ôl AMD rhwng 2018 a 2022. Mae'r tueddiadau hyn yn dangos bod y gymhareb fforddiadwyedd wedi cynyddu ym mhob ardal ers 2018.

**Ffigur 23: Cymhareb Fforddiadwyedd Aelwydydd yn ôl AMD rhwng 2018-2022.**




** Sylwch ar y newidiadau i ffiniau'r AMD. Mae AMD 2023 bellach yn cynnwys ffiniau wardiau mwyaf newydd 2022, tra bod AMD 2019 yn cynnwys ffiniau wardiau 2011. Mae newidiadau wedi'u gwneud i AMD Arfordirol a Dyffryn Teifi ac felly nid oes modd eu cymharu rhwng blynyddoedd.*
*(Ffynhonnell: CACI Paycheck 2018,2019,2020,2021,2022 & Data'r Gofrestrfa Tir)*

Cyrhaeddodd y gymhareb fforddiadwyedd ym mron pob maes ei chyfnod brig yn 2021, ond nid yw hyn yn syndod o ystyried y cynnydd sylweddol mewn prisiau tai yn ystod y cyfnod

[40] SYG (2023). Prisiau tai canolrifol fesul ward: HPSAA setdata 37. Ar gael yn: Median house prices by ward: HPSSA dataset 37 - Office for National Statistics (ons.gov.uk)
[41] SYG (2023). Canolrif prisiau tai ar gyfer daearyddiaeth weinyddol: HPSSA setdata 9. Ar gael yn: Median house prices for administrative geographies: HPSSA dataset 9 - Office for National Statistics (ons.gov.uk)

hwn. Gwelwyd y gymhareb fforddiadwyedd uchaf yn AMD Arfordirol yn 2021, lle roedd angen i aelwydydd dalu hyd at 8.9 gwaith yn fwy na'u cyflog am eiddo. [42] [43]


Mae'r dirywiad yn fforddiadwyedd y farchnad dai yng Ngheredigion wedi bod yn broblem sylweddol yn hanesyddol, a ddaeth hyd yn oed yn fwy cyffredin yn ystod yr argyfwng costau byw ar ôl y pandemig a'r argyfwng tai. Mae data o'n Cofrestr Tai yn dangos pa mor ddifrifol yw'r sefyllfa yng Ngheredigion; erbyn diwedd Ionawr 2023 roedd 1,750 o geisiadau ar y Gofrestr Tai am dai fforddiadwy yng Ngheredigion, i fyny o 1,400 yn 2018.

### 1.3.9. Nifer yr Aelwydydd

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae gan Geredigion tua 30,893 o aelwydydd. Pan edrychwn ar y ffigurau cenedlaethol, mae cyfanswm aelwydydd Ceredigion yn cyfateb i tua 2.3% o holl aelwydydd Cymru (1,347,114).[44]

Fel yr adlewyrchir yn Ffigur 24, mae dosbarthiad aelwydydd ar draws pob HMA yn weddol gyfartal. Mae gan AMD Aberystwyth y nifer uchaf o aelwydydd ar draws y pedair AMD, gyda chyfanswm o 9,272 o aelwydydd. Mae hyn yn cyfateb i ychydig o dan draean (30.0%) o holl aelwydydd Ceredigion. Yr ardal gyda'r nifer isaf o aelwydydd yw AMD Arall, sy'n cynnwys 6,844 o aelwydydd, a thua 22.2% o holl aelwydydd Ceredigion.

**Ffigur 24: Nifer o aelwydydd yn ôl Ardal Marchnad Dai (2021).**




*(Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021)*

[42] CACI Paycheck (2018, 2019, 2020, 2021, 2022).
[43] Cofrestrfa Tir EF (2023). Data Agored. [Ar-lein]. Ar gael yn: HM Land Registry Open Data
[44] SYG (2022) – Cyfrifiad: TS041 – Nifer yr Aelwydydd. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis – Official Census and Labour Market Statistics – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)


Dangosodd Cyfrifiad 2021 fod nifer yr aelwydydd yng Ngheredigion wedi gostwng 2.2% ers 2011 o tua 31,600 yn 2011 i 30,900 yn 2021. Mewn cymhariaeth, cynyddodd nifer yr aelwydydd yng Nghymru gan 3% yn yr un cyfnod.[45] Ar gyfartaledd, mae nifer yr aelwydydd wedi gostwng, ond ar gyfradd llawer arafach na'r gostyngiad yn y boblogaeth (5.9%)[46], mae hyn yn awgrymu bod maint cyfartalog aelwydydd[47] yn gostwng ychydig ar draws Ceredigion.

Ers 2011, fod maint cyfartalog aelwydydd yng Ngheredigion wedi gostwng o 2.3 yn 2011 i 2.2 yn 2021. Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd diweddar mewn aelwydydd un person yn y sir. Mewn cymhariaeth, nid yw maint cyfartalog aelwydydd yng Nghymru wedi newid ers 2011 (2.3 o breswylwyr fesul aelwyd). [48]

Mae Ffigur 25 isod yn dangos maint aelwydydd yng Ngheredigion o'i gymharu â chyfartaledd y sir a'r cyfartaledd cenedlaethol. Yn 2021, roedd traean o gartrefi Ceredigion (33.0%) yn cynnwys un person yn unig, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 31.9%.

Mae dadansoddi'r data fesul AMD yn dangos bod rhywfaint o amrywiaeth rhwng ardaloedd. Yn AMD Aberystwyth a AMD Dyffryn Teifi mae dros draean o aelwydydd yn cynnwys un person yn unig (33.6% a 35.3%), tra bod AMD Arfordirol a AMD Arall yn cynnwys cyfran is o aelwydydd 1 person (30.7% a 30.9 %). AMD Aberystwyth sydd â'r gyfran uchaf o aelwydydd mwy (gyda 4+ o bobl), tua 16.7%. Mae hyn i'w ddisgwyl o ystyried y gyfran uchel o fyfyrwyr yn yr ardal sy'n byw mewn tai amlfeddiannaeth.

**Ffigur 25: Maint y cartref - AMD, Ceredigion a Chymru (2021).**




*(Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021)*

Mae amcanestyniadau aelwydydd yn rhoi syniad o nifer yr aelwydydd yn y dyfodol a'u cyfansoddiad. Maent yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth a dybiaethau ynghylch


---

[45]Ibid.
[46]SYG (2022). Sut mae bywyd wedi newid yng Ngheredigion: Cyfrifiad 2021. [Ar-lein]. Ar gael yn: [How life has changed in Ceredigion: Census 2021 (ons.gov.uk)].
[47] Maint cartref ar gyfartaledd yw nifer cyfartalog y bobl fesul cartref. Fe'i cyfrifir trwy rannu nifer cyffredinol y preswylwyr arferol mewn cartrefi â nifer cyffredinol yr aelwydydd.
[48]SYG (2022). Sut mae bywyd wedi newid yng Ngheredigion: Cyfrifiad 2021. [Ar-lein]. Ar gael yn: [How life has changed in Ceredigion: Census 2021 (ons.gov.uk)].

aelwydydd o Gyfrifiadau 2001 a 2011. Mae'r amcanestyniadau yn phrif fewnbwn data o'r offeryn AFDL ac maent yn cael ei defnyddio i gyfrifo'r angen newydd sy'n codi dros gyfnod yr AFDL.

Yn ôl y prif amcanestyniadau aelwydydd diweddaraf (seiliedig ar 2018), yng Ngheredigion amcangyfrifir y bydd nifer yr aelwydydd yn gostwng gan 0.4% (-129) o 30,704 i 30,575 dros gyfnod 15 mlynedd yr AFDL (gweler Ffigur 26 isod). Mewn cymhariaeth, rhagwelir y bydd cyfanswm yr aelwydydd ar lefel Cymru yn cynyddu gan 5.6% rhwng 2022 a 2037.[49]

**Ffigur 26: Amcanestyniadau aelwydydd Llywodraeth Cymru ar sail 2018 a 2014 – Ceredigion (2018 i 2037).**




*(Ffynhonnell: StatsCymru 2020)*

Mae'r ddau amcanestyniad arall (amcanestyniadau amrywiad) yn seiliedig ar senarios amgen o ffrwythlondeb, marwoldeb a mudo o'i gymharu â'r prif amcanestyniad. Mae'r amrywiad uwch yn seiliedig ar ragdybiaethau ffrwythlondeb, disgwyliad oes a mudo uchel, tra bod yr amrywiad isel yn seiliedig ar ragdybiaethau ffrwythlondeb, disgwyliad oes a mudo isel.

Yr amrywiad uwch yw'r unig amcanestyniad sy'n amcangyfrif twf yn nifer yr aelwydydd yng Ngheredigion dros gyfnod y cynllun AFDL gan 1.6%, er ei fod yn gymharol isel (+500 o aelwydydd). Mae'r prif amcanestyniad a'r amcanestyniadau amrywiad is yn amcangyfrif gostyngiad mewn aelwydydd o 128 ac 897 (rhwng 2022-2037).

Er bod yr amrywiad uwch wedi'i defnyddio fel yr 'amcanestyniad gorau', mae'r amcanestyniadau aelwydydd seiliedig ar 2018 yn bellach wedi dyddio, ac felly dylent gael ei defnyddio gyda gofal. Mae amcanestyniadau aelwydydd fel arfer yn tueddu i ddod yn fwy

[49] StatsCymru(2020). Amcanestyniadau aelwydydd yn ôl amrywiad a blwyddyn. Ar gael yn: [Amcanestyniadau aelwydydd yn ôl amrywiad a blwyddyn]

ansicr y bellaf maent yn cael eu parhau. Dydy'r amcanestyniadau seiliedig ar 2018 ddim yn ystyried y gostyngiad mwyaf diweddar yn faint aelwyd ar gyfartaledd, gostyngiad o 2.3 yn 2011 i 2.2 yn 2021. Mae hyn yn adlewyrchu'r gostyngiad mewn graddau ffrwythlondeb a chynnydd yn y nifer o bobl sy'n byw ar ben eu hun. Bydd poblogaeth sy'n gostwng yn y diwedd yn arwain at alwad is am dai, ond, nid yw hyn yn wir yn awtomatig. Mae'r galw am dai yn cael i'w pennu gan nifer yr aelwydydd, a dim y nifer o bobl. Gall gostyngiad yn faint cyfartalog aelwydydd golygu bod nifer yr aelwydydd wedi bod yn tyfu am amser, hyd yn oed ar ôl i'r boblogaeth cychwyn gostwng.

Defnyddiodd yr AFDL blaenorol amcanestyniadau aelwydydd seiliedig ar 2014 a oedd yn amcangyfrif twf cyffredinol mewn aelwydydd gan 6.9% (+2,215 o aelwydydd) rhwng 2018 a 2033. Fel yr adlewyrchir uchod, mae hyn yn wahanol iawn i'r amcanestyniadau diweddaraf seiliedig ar 2018. Mae'r gwahaniaethau rhwng ffigurau seiliedig ar 2014 a 2018 yn adlewyrchu'r newid mewn tueddiadau demograffig a welwyd yn ystod y cyfnod hwn. Yn ogystal, mae'r gwahaniaethau'n adlewyrchu newid a wnaed i'r fethodoleg rhwng y ddwy set o amcanestyniadau a'r newid ym mlwyddyn sylfaen yr amcanestyniadau.[50] Felly, disgwylir i nifer amcangyfrifedig yr angen am dai marchnad, sy'n deillio o'r *angen newydd sy'n codi,* fod yn sylweddol is nag amcangyfrifon AFDL 2019.

### 1.3.10. Cyfansoddiad Aelwydydd

Mae'r mwyafrif o'r aelwydydd yng Ngheredigion yn aelwydydd un teulu (60.4%) sydd ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 63.1%. O fewn y cyfansoddiad aelwydydd un teulu yng Ngheredigion, mae 10.9% yn deuluoedd pâr sy'n cyd-fyw, 8.7% yn deuluoedd un rhiant, a 0.5% yn cael eu dosbarthu fel aelwyd un teulu arall.[51]


Mae gan Geredigion ganran ychydig yn uwch o aelwydydd un person (33.0%) o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 31.9%. Mae data cyfansoddiad aelwydydd wedi newid ychydig dros y 10 mlynedd diwethaf. Bu cynnydd o 2.9 pwynt canran mewn aelwydydd un teulu ers 2011 (57.5%). Bu gostyngiad o 2.8 pwynt canran yng nghanran y mathau eraill o aelwydydd yng Ngheredigion ers 2011 (9.4%), tra bod y ganran o aelwydydd un person ers 2011 yn parhau heb ei newid (gostyngiad o 0.1 pwynt canran).[52]

[50] Llywodraeth Cymru (2020). Amcanestyniadau aelwydydd awdurdodau lleol Cymru: seiliedig ar 2018 (diwygiedig). Ar gael yn: Amcanestyniadau aelwydydd awdurdodau lleol Cymru: seiliedig ar 2018 (diwygiedig) (gov.wales)

[51] SYG (2022) – Cyfrifiad: TS003 – Cyfansoddiad Aelwydydd. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis – Official Census and Labour Market Statistics – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

[52] SYG (2011) – Cyfrifiad: KS105EW – Cyfansoddiad Aelwydydd. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis – Official Census and Labour Market Statistics – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

Ffigur 27: Cyfansoddiad Aelwydydd Ceredigion (2011 & 2021).




*(Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 & Cyfrifiad 2021)*

Mae Tabl 6 isod yn dangos y ganran o gyfansoddiadau aelwydydd amrywiol yn ôl AMD, Ceredigion a Chymru. Yn AMD Arfordirol y mae'r ganran uchaf o aelwydydd pobl sengl dros 65 oed (18.3%); mae hyn yn uwch na chyfartaledd Ceredigion (16.5%) a'r cyfartaledd cenedlaethol (14.6%).[53] Mae gan AMD Arfordirol hefyd y ganran uchaf o gartrefi sy'n cynnwys cyplau dros 65 oed (16.5%), tra bod gan AMD Aberystwyth y ganran isaf (9.5%). Nid yw hyn yn syndod pan fyddwn yn ystyried y Brifysgol yn AMD Aberystwyth sy'n tueddu i ddenu pobl iau rhwng 18-25 oed.[54] Mae gan bob un o'r pedair AMD yng Ngheredigion ganran is o aelwydydd sy'n cynnwys cyplau â phlant o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol, ac yn AMD Dyffryn Teifi y mae'r ganran isaf (19.1%).[55]

53 SYG (2022) – Cyfrifiad: TS003 – Cyfansoddiad Aelwydydd. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis – Official Census and Labour Market Statistics – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)
54 Ibid.
55 Ibid.

**Tabl 6: Canran cyfansoddiad aelwydydd fesul Ardal Farchnad Dai.**

| AMT | Person Sengl dros 65 | Person sengl arall | Cwpwl dros 65 | Cyplau arall heb blant | Cwpwl gyda phlant | Rhiant sengl | Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | 14.6% | 17.3% | 10.2% | 16.5% | 23.8% | 12.0% | 5.6% |
| Ceredigion | 16.5% | 16.5% | 12.8% | 18.2% | 20.2% | 8.7% | 7.1% |
| Aberystwyth | 14.7% | 20.4% | 9.5% | 16.6% | 19.2% | 8.7% | 10.9% |
| Arfordirol | 18.3% | 13.1% | 16.5% | 19.5% | 19.4% | 7.4% | 5.7% |
| Arall | 15.1% | 13.8% | 13.4% | 20.8% | 23.0% | 8.2% | 5.5% |
| Dyffryn Teifi | 18.3% | 17.3% | 12.9% | 16.9% | 19.1% | 10.0% | 10.7% |

*(Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021)*

### 1.3.11. Gradd Deiliadaeth

Mae'r Tabl isod yn dangos y sgôr gyfanheddu ar gyfer ystafelloedd gwely yn ôl Cyfrifiad 2021 yng Ngheredigion a Chymru. Yn ogystal, mae'r Tabl yn cynnwys y newid yn nifer y bobl yn y grwpiau gwahanol hyn ers y Cyfrifiad blaenorol yn 2011.

Yng Ngheredigion, mae'n fwy cyffredin i gael tŷ wedi'i danfeddiannu nag eiddo sy'n cael ei orfeddiannu. Yn 2021, roedd 80.3% o aelwydydd yng Ngheredigion wedi'i danfeddiannu, i gymharu a 76.4% yn genedlaethol. Roedd dim ond 1.4% o aelwydydd yng Ngheredigion yn orlawn (430 aelwyd), i gymharu a 2.2% yn genedlaethol.[56]

**Tabl 7: Gradd daliadaeth Ceredigion a Chymru – 2011 a 2021.**

| Gradd Daliadaeth | Ceredigion | Cymru | Newid yn y nifer yng Ngheredigion ers 2011 | Newid yn y nifer yng Nghymru ers 2011 |
|---|---|---|---|---|
| 2 neu fwy o ystafelloedd gwely sbâr | 47.3% | 41.7% | 3.1% | 8.3% |
| 1 ystafell wely sbâr | 33.0% | 34.7% | -1.6% | 0.9% |
| Dim ystafelloedd gwely sbâr | 18.3% | 21.4% | -8.6% | 2.0% |
| 1 ystafell wely yn brin | 1.2% | 1.9% | -49.8% | -22.6% |
| 2 neu fwy o ystafelloedd gwely yn brin | 0.2% | 0.3% | -43.5% | -18.5% |
| Cyfanswm | 100.0% | 100.0% | - | - |

*(Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 & Cyfrifiad 2021)*

Mae nifer y tai sydd wedi'u gorfeddiannu yng Ngheredigion wedi gostwng rhwng 2011 a 2021, ac mae hyn yr un peth ar draws pob AMD. Mae gostyngiad amlwg o 392 yng nghyfran yr aelwydydd gorlawn dros y degawd (47.8%) o 820 yn 2011 i 428 yn 2021. Mae'r

[56] SYG (2022) – Cyfrifiad TS052 - Graddfa Deiliadaeth ar gyfer ystafelloedd gwely. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis - Official Census and Labour Market Statistics - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

gwahaniaethau hyn yn llawer mwy na'r rhai a welwyd yn genedlaethol rhwng 2011 a 2021.[57] [58]

Tabl 8: Gradd daliadaeth yn ôl AMD (2021).

| | Aberystwyth | Arfordirol | Arall | Dyffryn Teifi |
|---|---|---|---|---|
| 2 neu fwy o ystafelloedd gwely sbâr | 40.5% | 53.7% | 51.6% | 46.0% |
| 1 ystafell wely sbâr | 33.1% | 31.8% | 33.9% | 33.3% |
| Dim ystafelloedd gwely sbâr | 24.7% | 13.4% | 13.2% | 19.5% |
| 1 ystafell wely yn brin | 1.5% | 1.0% | 1.1% | 1.1% |
| 2 neu fwy o ystafelloedd gwely yn brin | 0.3% | 0.1% | 0.2% | 0.2% |

*(Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021)*

Ymhlith yr AMD, mae cartrefi gorlawn yn fwy cyffredin yn AMD Aberystwyth (136/ 1.8% o bob cartref), a lleiaf cyffredin yn yr AMD Arfordirol (79/ 1.1% o bob cartref).

### 1.3.12. Aelwydydd yn ôl deiliadaeth


Mae Ffigur 28 isod yn cymharu deiliadaeth aelwydydd yng Ngheredigion yn 2021 â'r hyn a gofnodwyd ar gyfer Cymru. Roedd y mwyafrif o'r aelwydydd yng Ngheredigion yn berchen ar eu cartref yn llwyr neu gyda morgais neu fenthyciad (neu ranberchnogaeth) yn 2021 (68.9%), sy'n uwch na chyfartaledd Cymru (66.4%). O'r rheini, roedd 47.9% mewn perchnogaeth lwyr a 21.0% mewn perchnogaeth gyda morgais neu fenthyciad (neu ranberchnogaeth) o'i gymharu â 38.0% a 28.4% ar lefel genedlaethol. Roedd llai na chwarter o'r aelwydydd yn rhentu'n breifat neu'n byw yn ddi-rent (20.7%) yng Ngheredigion, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 17.1%. Roedd canran yr aelwydydd yn y sector rhentu cymdeithasol yng Ngheredigion yn 2021 (10.5%) yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 16.5%.[59]

Ceredigion yw'r awdurdod lleol yng Nghymru sydd â'r sector tai cymdeithasol lleiaf (10.5%).[60] O ganlyniad, nid yw llawer o'r aelwydydd sy'n gymwys ar gyfer tai cymdeithasol yn gallu cael mynediad ato oherwydd cyflenwad cyfyngedig o fewn y sir, gan eu gwthio i'r sector preifat lle mae rhenti yn llawer uwch.[61]

---

[57] SYG (2022) – Cyfrifiad TS052 - Graddfa Deiliadaeth ar gyfer ystafelloedd gwely. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis - Official Census and Labour Market Statistics - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)
[58] SYG (2011) – Cyfrifiad QS412EW – Graddfa Deiliadaeth (ystafelloedd gwely). [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis - Official Census and Labour Market Statistics - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)
[59] SYG (2022) – Cyfrifiad TS054 – Deiliadaeth. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis – Official Census and Labour Market Statistics – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)
[60] Ibid.
[61] Cyngor Sir Ceredigion (2022) Cofrestr Tai Cymdeithasol.

**Ffigur 28: Daliadaeth yng Ngheredigion a ledled Cymru – 2021.**




*(Ffynhonnell: SYG, Cyfrifiad 2021)*

Mae dadansoddi hyn fesul AMD yn dangos bod amrywiad amlwg ym mhroffil deiliadaeth Ceredigion. Mae gan AMD Aberystwyth y gyfran fwyaf o bell ffordd o aelwydydd yn y sector rhentu preifat neu'n byw yn ddi-rent (30.2%). Mae gan y tair AMD arall (Dyffryn Teifi, Arall ac Arfordirol) gyfrannau gweddol debyg o aelwydydd sy'n byw yn y sector rhentu preifat neu'n byw yn ddi-rent.[62] Mae dros dri chwarter o'r aelwydydd sy'n byw yn AMD Arfordirol a AMD Arall yn berchen ar eu tai, ac o'r rhain, mae dros hanner yn berchen ar eu tai yn llwyr. Ar y llaw arall, mae gan AMD Aberystwyth y gyfran isaf o aelwydydd yn y sector perchen-feddianwyr (57.1%), sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol (66.4%).[63]

Mae'r gyfran fwyaf o aelwydydd sy'n byw yn y sector rhentu cymdeithasol yn byw yn AMD Dyffryn Teifi (14.9%), fodd bynnag, mae'r ganran hon yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (16.5%). Mae'r sector rhentu cymdeithasol lleiaf yn AMD Arall (6.0%) sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd ar draws Cymru (16.5%).[64]

Ers 2001, mae newidiadau i gyfansoddiad deiliadaeth wedi digwydd yng Ngheredigion, yn enwedig o ran y cydbwysedd rhwng perchen-feddianwyr a'r rhai sy'n rhentu'n breifat (gweler Ffigur 28 a Thabl 9 isod).


[62]SYG (2022) – Cyfrifiad TS054 – Deiliadaeth. [Ar-lein]. Ar gael yn: [Nomis – Official Census and Labour Market Statistics – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)]
[63]Ibid.
[64]Ibid.

**Tabl 9: Aelwydydd yn ôl daliadaeth: Ceredigion (2001-2011).**

| Daliadaeth Aelwydydd | Cyfanswm aelwydydd | | | Newid net | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2001 | 2011 | 2021 | 2001-2011 | 2011-2021 |
| Perchennog preswyl | 21,590 | 21,320 | 21,180 | -260 | -150 |
| Rhentu Cymdeithasol | 3,720 | 3,200 | 3,240 | -520 | +40 |
| Rhentu Preifat | 4,170 | 6,280 | 6,370 | +2,110 | +100 |
| Rhanberchenogaeth | 90 | 110 | 100 | +20 | -10 |
| Byw yn ddi-rent/arall | 1,410 | 660 | 10 | -760 | -650 |
| **CYFANSWM** | 30,970 | 31,560 | 30,890 | +590 | -670 |
| Perchennog preswyl | 69.7% | 67.6% | 68.6% | -2.1% | +1.0% |
| Rhentu Cymdeithasol | 12.0% | 10.1% | 10.5% | -1.9% | +0.4% |
| Rhentu Preifat | 13.5% | 19.9% | 20.6% | +6.4% | +0.7% |
| Rhanberchenogaeth | 0.3% | 0.3% | 0.3% | 0.0% | 0.0% |
| Byw yn ddi-rent/arall | 4.6% | 2.1% | 0.0% | -2.5% | -2.1% |

*(Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001, Cyfrifiad 2011 & Cyfrifiad 2021)*
**Efallai na fydd y ffigurau'n adio oherwydd talgrynnu*

**Ffigur 29: Canran yr aelwydydd yn ôl deiliadaeth yng Ngheredigion (2001-2021).**




*(Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001, Cyfrifiad 2011 & Cyfrifiad 2021)*

Mae'r newidiadau deiliadaeth a nodwyd yn Nhabl 10 a Ffigur 29 yn dangos:

- **O 2001-2011:** gostyngodd nifer a chanran y perchen-feddianwyr ychydig o 21,590 (69.7%) i 21,320 (67.6%) (gostyngiad o 260 o aelwydydd/ -2.1 pwynt canran), ond cynyddodd nifer yr aelwydydd rhentu preifat o 4,170 (13.5%) i 6,280 (19.9%), cynnydd o 2,110 o aelwydydd neu 6.4 pwynt canran. Bu gostyngiad o 520 yn nifer y

tenantiaid cymdeithasol, sef gostyngiad o 1.9 pwynt canran. Cafodd yr hawl i brynu ei ddiddymu trwy Gymru gyfan yn 2019, a gallai hyn arwain at gynnydd yn y sector rhentu cymdeithasol yn y dyfodol.[65] [66]

- **O 2011-2021:** cynyddodd canran y tai perchen-feddianwyr yng Ngheredigion ychydig o 67.6% (21,320) yn 2011 i 68.6% (21,180), fodd bynnag, mae'n parhau i fod yn is na lefel 2001 sef 69.7%. Er, yn gymharol, fod mwy o aelwydydd yn berchen ar eu cartrefi yn 2021, mae'r nifer wirioneddol 150 yn llai oherwydd gostyngiad yn y boblogaeth dros y cyfnod hwn. Mae amodau'r farchnad (e.e. prisiau eiddo yn codi, argyfwng costau byw, cyfraddau llog cynyddol) wedi rhwystro aelwydydd rhag symud i fyny'r ysgol yn y blynyddoedd diwethaf. Wedi dweud hynny, Ceredigion oedd yr unig awdurdod lleol yng Nghymru i weld cynnydd yng nghyfran y perchen-feddianwyr rhwng Cyfrifiad 2011 a 2021. Ar yr un pryd, cynyddodd cyfradd y cartrefi rhentu preifat a chymdeithasol ychydig hefyd (0.7 a 0.4 pwynt canran), ond gostyngodd aelwydydd di-rent o 660 yn 2011 i 10 yn 2021 (colled o 650 o aelwydydd/gostyngiad o 2.1 pwynt canran). [67] [68] [69]

### 1.3.13. Anheddau a gwblhawyd fesul daliadaeth

Gellir defnyddio anheddau a gwblhawyd ynghyd â gwybodaeth arall (fel yr Arolygon Deiliadaeth Tai lleol) i asesu lefelau cyflenwad tai a'r galw am dai yn y sir. Er nad oes angen cael adran ar anheddau a gwblhawyd o dan ganllawiau Llywodraeth Cymru, mae'r wybodaeth hon yn chwarae rôl allweddol wrth gefnogi'r dadansoddiad o'r anghenion tai ychwanegol a amcangyfrifwyd gan yr offeryn AFDL (gweler Adran 1.2) a'r cyfiawnhad dros ddefnyddio amrywiad uwch aelwydydd.

Fel yr adlewyrchir yn Ffigur 30 isod, mae nifer yr anheddau newydd a gwblhawyd dros y degawd wedi amrywio, fodd bynnag, bu ychydig o dwf yn nifer yr anheddau a gwblhawyd dros y tair blynedd diwethaf (2021-2023). Mae nifer y tai marchnad a gwblhawyd wedi parhau'n uwch na 100 y flwyddyn i raddau helaeth (ac eithrio 2020, sy'n bennaf oherwydd cyfyngiadau COVID-19) dros y degawd diwethaf. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae 144 o dai marchnad y flwyddyn wedi cael eu hadeiladu ar gyfartaledd o'i gymharu â 64 o dai fforddiadwy.[70] Mae nifer y tai marchnad a gwblhawyd bob blwyddyn wedi bod yn sylweddol fwy na nifer y tai fforddiadwy a gwblhawyd.

---

[65] SYG Cyfrifiad (2001) – Deiliadaeth KS018. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis – Official Census and Labour Market Statistics – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

[66] SYG Cyfrifiad (2011) – Deiliadaeth WD403EW. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis – Official Census and Labour Market Statistics – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)


[67] SYG Cyfrifiad (2001) – Deiliadaeth KS018. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis – Official Census and Labour Market Statistics – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

[68] SYG Cyfrifiad (2011) – Deiliadaeth WD403EW. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis – Official Census and Labour Market Statistics – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

[69] SYG (2022) – Cyfrifiad TS054 – Deiliadaeth. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis – Official Census and Labour Market Statistics – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

[70] Mae cartrefi fforddiadwy yn cynnwys Rhent Cymdeithasol, Rhent Canolradd a Pherchentyaeth Cost Isel (Gostyngedig ar Werth).

**Ffigur 30: Cyfraddau adeiladu tai fforddiadwy a thai marchnad agored yn y gorffennol - Ceredigion (2013-2023).**




*(Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion 2023)*

Ers yr AFDL blaenorol yn 2019, mae cyfanswm o 601 o dai marchnad a 212 o dai fforddiadwy wedi cael eu cwblhau. Cynyddodd nifer y tai marchnad a gwblhawyd gan 90% i 228 rhwng 2019-2023, ac roeddent yn cyfrif am bron i dri chwarter (74%) o'r holl anheddau a gwblhawyd. Mae nifer y tai fforddiadwy a gwblhawyd wedi parhau'n weddol debyg (ac eithrio yn ystod 2021 a welodd y lefel uchaf o anheddau a gwblhawyd dros y degawd) ac yn cyfrif am 26% o'r holl anheddau a gwblhawyd rhwng 2019 a 2023.


Mae ein Harolwg o Feddiannaeth Tai (2018, 2019 a 2020) yn dangos bod y mwyafrif helaeth o'r anheddau hyn a gwblhawyd yn cael eu meddiannu gan drigolion lleol, fodd bynnag, dylid cydnabod bod cyfradd ymateb yr arolwg yn y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn eithaf gwael.

### 1.3.14. Y Sector Perchen-feddianwyr

Mae dros hanner (64.6%) o aelwydydd perchen-feddianwyr Ceredigion yn byw mewn tai sengl neu fyngalos. Mae hyn yn llawer uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru (38.1%). Dim ond 2.2% o aelwydydd sy'n byw mewn fflat, fflat deulawr neu randy a dim ond 0.4% mewn carafán neu gartref symudol dros dro arall yng Ngheredigion.[71] Mae Ffigur 31 isod yn dangos y canrannau o fathau o lety ar gyfer perchen-feddianwyr yng Nghymru, Ceredigion a fesul AMD yng Ngheredigion.

[71] SYG (2022) – Cyfrifiad RM0003 – Deiliadaeth yn ôl Math o Lety. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis – Official Census and Labour Market Statistics – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

**Ffigur 31: Daliadaeth yn ôl Math o Lety – Sector perchen-feddianwyr.**





*(Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021)*
**Efallai na fydd y ffigurau'n adio oherwydd talgrynnu*

Yr unig AMD lle nad tŷ ar wahân yw'r math mwyaf cyffredin o lety ar gyfer perchen-feddianwyr yw AMD Dyffryn Teifi a thai pâr sydd fwyaf cyffredin yma (34.5%). Ardal Dyffryn Teifi hefyd yw'r AMD sydd â'r ganran uchaf o berchen-feddianwyr yn byw mewn fflat, fflat deulawr neu randy (27.0%). AMD Arall ac Arfordirol yw'r ardaloedd sydd â'r ganran uchaf o berchen-feddianwyr yn byw mewn tŷ pâr neu fyngalo, sef 37.7% a 36.8%.[72]

Mae ychydig llai na hanner (46.9%) o berchen-feddianwyr Ceredigion yn byw mewn cartref gyda 3 ystafell wely, gyda 32.9% yn byw mewn cartref gyda 4 neu fwy o ystafelloedd gwely. Mae 18.3% o berchen-feddianwyr yn byw mewn cartref 2 ystafell wely, ond dim ond 2.0% sy'n byw mewn cartref 1 ystafell wely, er y dylid nodi bod hyn ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 1.8%.[73] Mae Ffigur 32 isod yn cynrychioli maint y llety y mae aelwydydd perchen-feddianwyr yn byw ynddo yng Nghymru, Ceredigion a fesul AMD yng Ngheredigion.

[72]SYG (2022) – Cyfrifiad RM0003 – Deiliadaeth yn ôl Math o Lety. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis – Official Census and Labour Market Statistics – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)
[73]SYG (2022) – Cyfrifiad RM136 – Deiliadaeth yn ôl Nifer yr Ystafelloedd Gwely. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis – Official Census and Labour Market Statistics – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

**Ffigur 32: Nifer o Ystafelloedd yn ôl Math Llety – Sector perchen-feddianwyr.**




*(Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021)*

Nid yw proffil maint perchen-feddianwyr yn amrywio'n fawr ar draws yr holl AMD yng Ngheredigion. Ym mhob un o'r pedair ardal, cartrefi 3 ystafell wely sydd fwyaf cyffredin, ac yna cartrefi 4 ystafell wely, 2 ystafell wely, ac yn olaf cartrefi 1 ystafell wely.[74]

Mae Tabl 10 isod yn dangos pris eiddo cyfartalog yn ôl math o annedd yn 2022 yng Ngheredigion a Chymru, yn ôl y Gofrestrfa Tir. Yn gyffredinol, mae pris eiddo cyfartalog yng Ngheredigion 14.7% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae tai ar wahân a thai pâr yng Ngheredigion yn is na'r pris cyfartalog cenedlaethol, ac mae tai teras 19.0% yn uwch na chyfartaledd Cymru, a fflatiau 3.5% yn uwch.[75]

**Tabl 10: Pris tai cyfartalog a nifer y gwerthiannau yn ôl math o annedd (2022).**

| Math o Annedd | Ceredigion | | Math o Annedd | |
|---|---|---|---|---|
| | Pris Cyfartalog | Nifer y Gwerthiannau | Pris Cyfartalog | Nifer y Gwerthiannau |
| Ar Wahân | £339,765 | 441 | £360,622 | 11,695 |
| Tŷ Pâr | £214,969 | 195 | £218,721 | 12,270 |
| Tŷ Teras | £204,272 | 213 | £171,572 | 14,721 |
| Fflatiau | £158,565 | 45 | £153,214 | 3,395 |
| Cyfanswm | £271,142 | **894** | £236,379 | **42,081** |


*(Ffynhonnell: Cofrestr Tir)*

Mae nifer y gwerthiannau fesul math o annedd yn amrywio yng Ngheredigion a Chymru. Er enghraifft, ar draws Cymru, tai teras welodd y nifer uchaf o werthiannau yn 2022 (14,721), ond yng Ngheredigion, tai sengl welodd y nifer fwyaf o werthiannau (441). Fflatiau oedd y lleiaf poblogaidd yng Ngheredigion (45) ac ar draws Cymru (3395) yn 2022, ac nid yw hyn yn syndod o ystyried bod fflatiau yn fwy cyffredin yn y sector rhentu.[76]

[74]SYG (2022) – Cyfrifiad RM136 – Deiliadaeth yn ôl Nifer yr Ystafelloedd Gwely. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis – Official Census and Labour Market Statistics – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)
[75]Cofrestrfa Tir EM (2023). Data Agored. [Ar-lein]. Ar gael yn: HM Land Registry Open Data
[76]Ibid.

Fel y dangosir yn Ffigurau 33 a Tabl 11 isod, AMD Arfordirol sydd â'r pris tai canolrifol uchaf yn barhaus o'i gymharu â'r holl AMD eraill, tra bod prisiau tai canolrifol yn AMD Dyffryn Teifi wedi parhau'r isaf dros y cyfnod hwn (2017-2022). O 2022, pris tai canolrifol AMD Arfordirol oedd £283,250, sydd ychydig dros £12,000 yn fwy na phris tŷ cyfartalog Ceredigion (£271,142) yn 2022, a bron i £44,000 yn uwch na phris tŷ canolrifol Dyffryn Teifi (£240,000).[77]

**Ffigur 33: Pris Tai Cyfartalog yn ôl AMD rhwng 2017 a 2022.**




*(Ffynhonnell: Cofrestr Tir)*

**Tabl 11: Gwahaniaeth yn y Pris Tai Cyfartalog rhwng 2017 a 2022.**

| AMD | Pris Cyfartalog Tai 2017 | Pris Cyfartalog Tai 2022 | Gwahaniaeth % |
|---|---|---|---|
| Aberystwyth | £182,500 | £225,000 | +23.3% |
| Arfordirol | £200,000 | £283,250 | +41.6% |
| Arall | £186,094 | £250,000 | +34.3% |
| Dyffryn Teifi | £170,000 | £240,000 | +41.2% |

*(Ffynhonnell: Cofrestr Tir)*


Nid yw'n syndod mai'r ardal Arfordirol sydd â'r prisiau tai canolrifol uchaf yng Ngheredigion o ystyried bod yr ardal yn gartref i Aberporth, Ceinewydd ac Aberaeron, sy'n lleoedd hynod ddymunol i fyw oherwydd eu lleoliad ger yr arfordir. Yn ogystal, mae gan AMD Arfordirol y ganran uchaf o ail gartrefi 41.1% yng Ngheredigion, fel y nodir yn Adran 1.3.17 ar ail gartrefi, a cheir cysylltiad yn aml rhwng ail gartrefi a phrisiau tai uwch.

Yn ogystal, mae AMD Arfordirol wedi gweld y cynnydd canrannol uchaf mewn prisiau tai canolrifol ers 2017 (+41.6%), wedi'i dilyn yn agos gan ardal Dyffryn Teifi lle gwelwyd cynnydd o +41.2% rhwng 2017 a 2022. Mae AMD Arall ac Aberystwyth wedi gweld cynnydd canrannol is, +34.3% a +23.3%, ond mae'r rhain yn dal i fod yn gynnydd sylweddol.[78]

[77]Cofrestrfa Tir EM (2023). Data Agored. [Ar-lein]. Ar gael yn: HM Land Registry Open Data
[78] Ibid.

Mae nifer y gwerthiannau eiddo ym mhob Ardal Marchnad Dai wedi dilyn yr un tueddiadau yn fras â Cheredigion, fel y dangosir yn Ffigur 34 isod.

**Ffigur 34: Nifer y Gwerthiannau yn ôl Ardal Farchnad Tai 2012-2022.**




*(Ffynhonnell: Cofrestrfa Tir EM)*

Mae gan AMD Arall y nifer isaf o werthiannau eiddo yn barhaus o'i gymharu ag unrhyw AMD arall, ac eithrio yn 2018 lle gostyngodd nifer y gwerthiannau eiddo yn yr AMD Arfordirol o dan lefel AMD Arall. O'r holl AMD, mae'r nifer uchaf o werthiannau eiddo yng Ngheredigion bob amser yn AMD Aberystwyth. Yn yr un modd â thueddiadau cyffredinol Ceredigion, profodd pob AMD frig yn nifer y gwerthiannau eiddo yn 2021, yna gostyngiad mawr yn 2022.[79] Gellir priodoli'r brig hwn i ymestyn gwyliau Treth Dir y Dreth Stamp i fis Gorffennaf 2021 wrth i brynwyr ruthro i gwblhau eu trafodion prynu tŷ cyn y dyddiad cau.

### 1.3.15. Y Sector Rhentu Preifat


Mae Ffigur 35 isod yn dangos y math o lety y mae aelwydydd rhentu preifat yn byw ynddo yng Nghymru, Ceredigion a fesul AMD. Yng Ngheredigion, mae rhaniad gweddol gyfartal o'r rhai sy'n byw mewn annedd ar wahân (27.4%), y rhai sy'n byw mewn tŷ pâr (22.0%), tŷ teras (19.1%) a'r rhai sy'n byw mewn fflat, fflat deulawr neu randy (30.9%). Mae hyn yn wahanol ar gyfer y rhai sy'n byw mewn carafán neu gartref symudol neu dros dro arall, lle mae 0.6% o rentwyr preifat yn byw.[80]

---

[79]Ibid.

[80]SYG (2022) – Cyfrifiad RM0003 – Deiliadaeth yn ôl Math o Lety. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis – Official Census and Labour Market Statistics – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

**Ffigur 35: Daliadaeth yn ôl math Llety – Sector Rhentu Preifat.**




*(Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021)*

Mae nodweddion y math o lety yn y sector rhentu preifat ar draws yr AMD yn amrywio. Mae ardal Aberystwyth yn gweld canran isel iawn o rentwyr preifat yn byw mewn tŷ ar wahân neu dŷ pâr (11.6%) tra bod bron i hanner (47.2%) y rhentwyr preifat yn byw mewn fflat, fflat deulawr neu randy. Mae gan yr AMD Arall gyfansoddiad gwahanol iawn gyda dros hanner 51.4% yn byw mewn annedd ar wahân, a dim ond 9.4% yn byw mewn fflat, fflat deulawr neu randy. Nid yw hyn yn syndod o ystyried bod AMD Arall yn fwy gwledig ac yn llawer llai poblog na AMD Aberystwyth.


Yng Ngheredigion, mae'r mwyafrif o aelwydydd rhentu preifat yn byw mewn anheddau 2 neu 3 ystafell wely. Yn groes i aelwydydd perchen-feddianwyr (fel y dangosir uchod) mae mwy o aelwydydd yn byw mewn anheddau rhentu preifat 1 ystafell wely (18.4%) nag mewn aelwydydd gyda 4 neu fwy o ystafelloedd gwely (16.5%).[81]

Pan fyddwn yn treiddio i lawr i AMD, ar gyfer pob AMD ac eithrio Aberystwyth y maint mwyaf cyffredin ar gyfer aelwydydd sy'n cael eu rhentu'n breifat yw 3 ystafell wely. AMD Aberystwyth yw'r unig ardal lle mae'r mwyafrif o aelwydydd rhentu preifat yn byw mewn aelwydydd 2 ystafell wely (30.9%). Mae gan ardal Aberystwyth ganran sylweddol uchel o aelwydydd yn y sector rhentu preifat sy'n byw mewn anheddau 1 ystafell wely (25.1%). Mae'r ardal hon hefyd yn gweld y ganran uchaf o anheddau gyda 4 neu fwy o ystafelloedd gwely yn y sector rhentu preifat (20.4%) o bob un o'r pedair AMD. Nid yw'r nodwedd hon yn

[81] SYG (2022) – Cyfrifiad RM136 – Deiliadaeth yn ôl Nifer yr Ystafelloedd Gwely. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis – Official Census and Labour Market Statistics – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

syndod o ystyried bod cryn dipyn o'r rhai sy'n rhentu o fewn y sector preifat yn fyfyrwyr prifysgol sy'n tueddu i rentu eiddo mwy/tai amlfeddiannaeth.[82]

**Ffigur 36: Nifer o Ystafelloedd yn ôl Math Llety – Sector Rhentu Preifat.**





*(Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021)*

Darparwyd data rhentu AMD yn ôl maint ystafelloedd gwely gan Swyddog Rhenti Cymru at ddiben cynnal yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol. Defnyddir y data hwn yn yr offeryn AFDL ac mae'n defnyddio'r flwyddyn galendr ar gyfer 2022. Mae'r data'n dangos nifer y rhenti ar y 30ain safle canradd. Ardal Aberystwyth sydd â'r costau rhentu misol uchaf, gyda rhent canolrifol o £637.50 y mis, ac mae hyn bron i £125 yn fwy na'r rhent canolrifol ar draws Ceredigion. Mae'r rhent canolrifol isaf i'w weld yn ardal Dyffryn Teifi (£479.17) sy'n is na'r rhent canolrifol cyfartalog ar gyfer Ceredigion.[83]

[82] SYG (2022) – Cyfrifiad RM136 – Deiliadaeth yn ôl Nifer yr Ystafelloedd Gwely. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis – Official Census and Labour Market Statistics – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)
[83] Llywodraeth Cymru (2023) Swyddogion Rhenti Cymru – Rhenti Preifat.

**Ffigur 37: Cost canolrifol rhenti misol– Sector Rhentu Preifat.**




*(Ffynhonnell: Swyddogion Rhenti Cymru, Llywodraeth Cymru)*

Darparodd Llywodraeth Cymru hefyd wybodaeth am nifer yr eiddo ar osod a gofnodwyd ym mhob AMD yn 2022, a defnyddir hyn hefyd yn yr offeryn AFDL. Fel yr adlewyrchir yn Nhabl 12 isod, mae'r nifer fwyaf o eiddo rhentu preifat yng Ngheredigion yn AMD Aberystwyth a Dyffryn Teifi gyda 479 a 429. Wedyn mae AMD Arfordirol gyda 227 o eiddo rhentu preifat, ac yn olaf yr AMD Arall (113 rhentu). Nid yw'r ffigurau hyn yn syndod o ystyried deiliadaeth gyffredinol pob AMD fel y dangosir uchod.[84]

**Tabl 12: Nifer y cyfanswm o Rhenti – Sector Rhentu Preifat (2022).**

| Ardal | Rhentu Cyfartalog |
|---|---|
| Aberystwyth | 479 |
| Arfordirol | 227 |
| Arall | 113 |
| Dyffryn Teifi | 429 |
| Ceredigion | 1,248 |

*(Ffynhonnell: Swyddogion Rhenti Cymru, Llywodraeth Cymru)*


[84] Llywodraeth Cymru (2023) Swyddogion Rhenti Cymru – Rhenti Preifat.

### 1.3.16. Y Sector Rhentu Cymdeithasol

Fel y dangosir yn Ffigur 38 isod, mae'r mwyafrif o aelwydydd sector rhentu cymdeithasol Ceredigion yn byw mewn anheddau pâr (43.9%), gyda'r lleiafrif yn byw mewn carafán, cartref symudol neu gartref dros dro arall (0.0%), ac yna anheddau ar wahân (0.0%). 5.2%).[85]

Wrth edrych ar y math o lety ar gyfer aelwydydd rhentu cymdeithasol fesul AMD gallwn weld mai'r ardal Arall sydd â'r ganran uchaf o'r rhai sy'n byw mewn tŷ pâr (70.2%), a'r ardal hon hefyd sydd â'r ganran isaf o'r rhai sy'n byw mewn fflat, fflat deulawr neu randy (6.5%). Mae cyfansoddiad ardal Aberystwyth yn wahanol iawn i hyn; mae hanner (50.0%) yr aelwydydd rhentu cymdeithasol yn ardal Aberystwyth yn byw mewn fflat, fflat deulawr neu randy. [86]

**Ffigur 38: Daliadaeth yn ôl math Llety – Sector Rhentu Cymdeithasol.**




*(Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021)*

Mae Ffigur 39 isod yn dangos maint y llety ar gyfer aelwydydd yn y sector rhentu cymdeithasol yng Nghymru, Ceredigion a fesul AMD. Mae'r mwyafrif o aelwydydd yn y sector rhentu cymdeithasol yng Ngheredigion yn byw mewn anheddau 2 ystafell wely (41.7%) ac yna anheddau 3 ystafell wely (32.9%), yna anheddau 1 ystafell wely (21.4%), ac yn olaf anheddau 4 ystafell wely neu fwy (3.8%).[87]


Yn yr un modd, mae'r mwyafrif o aelwydydd yn y sector rhentu cymdeithasol ar draws y pedair AMD yn byw mewn cartrefi 2 neu 3 ystafell wely, fodd bynnag, mae canran uwch o

---

[85]SYG (2022) – Cyfrifiad RM0003 – Deiliadaeth yn ôl Math o Lety. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis – Official Census and Labour Market Statistics – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)
[86]Ibid.
[87]SYG (2022) – Cyfrifiad RM136 – Deiliadaeth yn ôl Nifer yr Ystafelloedd Gwely. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis – Official Census and Labour Market Statistics – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

aelwydydd yn byw mewn anheddau 1 ystafell wely yn AMD Aberystwyth, Arfordirol a Dyffryn Teifi o'i gymharu â'r ardal Arall.[88]

**Ffigur 39: Nifer o Ystafelloedd yn ôl Math Llety – Sector Rhentu Cymdeithasol.**




*(Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021)*

Mae Tabl 13 isod yn dangos yr eiddo rhentu cymdeithasol wythnosol yn ôl maint ystafelloedd gwely yng Ngheredigion mewn fflatiau a thai.

**Tabl 13: Rhenti Cymdeithasol Wythnosol yn ôl maint ystafelloedd gwely yng Ngheredigion (2023).**

| Maint yr Eiddo | Ffigwr Rhentu - Fflat | Ffigwr Rhentu - Tŷ |
|---|---|---|
| **1 ystafell** | £86.80 | £90.25 |
| **2 ystafell** | £113.40 | £119.25 |
| **3 ystafell** | £138.50 | £148.00 |
| **4 ystafell** | N/A | £174.50 |


*(Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion 2023)*

[88]SYG (2022) – Cyfrifiad RM136 – Deiliadaeth yn ôl Nifer yr Ystafelloedd Gwely. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis – Official Census and Labour Market Statistics – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

### 1.3.17. Ail Gartrefi

Ceredigion sydd â'r bedwaredd gyfradd uchaf o berchnogaeth llety gwyliau ac ail gartrefi (5.9%) o'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru.[89] Mae gan y sir gyfraddau is o berchnogaeth ail gartrefi a llety gwyliau na'r awdurdodau arfordirol cyfagos Gwynedd (10.8%) a Sir Benfro (9.2%), ond cyfraddau uwch o'i gymharu ag awdurdodau nad ydynt yn rhai arfordirol.

**Ffigur 40: Canran o Ail Dai yn ôl Awdurdod Lleol.**




*(Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru)*

Mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm yr ail gartrefi y gwyddys amdanynt yng Ngheredigion ers 2018. Yn gyffredinol, mae nifer yr ail gartrefi wedi aros yn weddol gyson ers 2018, gan gyrraedd brig yn ystod 2022 ar 1,846, gan ostwng yn ôl i 1,750 yn 2023.[90]

**Tabl 14: Nifer yr Ail Gartrefi yng Ngheredigion yn ôl Ardal Farchnad Dai 2018-2023.**


| AMD | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Aberystwyth** | 368 | 385 | 382 | 370 | 453 | 447 |
| **Arall** | 456 | 427 | 322 | 392 | 394 | 332 |
| **Arfordirol** | 696 | 723 | 717 | 683 | 734 | 719 |
| **Dyffryn Teifi** | 225 | 224 | 233 | 216 | 265 | 252 |
| **Ceredigion** | **1,745** | **1,759** | **1,654** | **1,661** | **1,846** | **1,750** |

*(Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion – Adran Treth Cyngor)*

Mae'r map a ganlyn yn dangos canran yr ail gartrefi fesul Ardal Farchnad Dai yn 2023. Mae'r data hwn yn dangos mai AMD Arfordirol sydd â'r ganran uchaf o ail gartrefi (41.1%) a Dyffryn Teifi sydd â'r ganran isaf (14.4%).[91]

[89] Cyngor Sir Ceredigion (2021) *Data am Ail Gartrefi a Llety Gwyliau Ceredigion*. [C. Data am ail gartrefi a llety gwyliau Ceredigion.pdf]
[90] Cyngor Sir Ceredigion (2018-2023) Data Treth y Cyngor.
[91] Ibid.

**Ffigur 41: Canran yr Ail Gartrefi yn ôl Ardal Farchnad Dai 2023.**




*(Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion – Adran Treth Cyngor)*

Mae AMD Arfordirol wedi gweld y nifer uchaf o ail gartrefi yn gyson, ac nid yw hynny'n syndod o ystyried y ffaith bod pobl yn cael eu denu mwy i'r lleoliadau arfordirol dymunol (fel Aberaeron, Ceinewydd a Gwbert, sydd wedi'u lleoli o fewn AMD Arfordirol). Mae ail gartrefi yn dueddol o fod mewn ardaloedd sy'n dibynnu ar dwristiaeth yn draddodiadol, sydd wrth gwrs â gwerth tai uwch o ystyried eu lleoliad.[92]

Mae ail gartrefi yn dod â nifer o fanteision i Geredigion; fodd bynnag, maent hefyd yn gysylltiedig ag anfanteision. Maent yn rhan o'r farchnad llety di-wasanaeth sydd bob blwyddyn rhwng 2007 a 2018 wedi cyfrif am rhwng 70% a 73% o'r effaith economaidd twristiaeth yng Ngheredigion (£233.83 miliwn yn ôl STEAM 2018). [93] Ar y llaw arall, mae ail gartrefi yn gysylltiedig â rhai problemau, megis diffyg cyflenwad tai i gwrdd â galw lleol, llai o dai preswyl ar gael gydag effeithiau negyddol posibl ar fforddiadwyedd, effeithiau ar wasanaethau ac amwynderau cymunedau lleol, diffyg poblogaeth barhaol i gefnogi cyfleusterau lleol, cyfleoedd cyflogaeth tymhorol yn unig, ac effeithiau lleol ar gyfraddau'r iaith Gymraeg.[94] Po fwyaf o ail gartrefi sydd yn y sir, y mwyaf yw'r effeithiau hyn.

Nid oedd Adroddiad Llywodraeth Cymru – Ail Gartrefi a Chartrefi Gwyliau a'r System Cynllunio Defnydd Tir, [95] wedi canfod unrhyw gydberthynas rhwng lleoliad cartrefi gwyliau a phrisiau tai. Yn lle hynny, awgryma'r casgliadau mai'r mudo trefol-gwledig ar sail barhaol yw'r sbardun allweddol o ran y galw am dai, ac o ganlyniad prisiau tai anfforddiadwy. Fodd

[92] Cyngor Sir Ceredigion (2021) *Data am Ail Gartrefi a Llety Gwyliau Ceredigion*. C. Data am ail gartrefi a llety gwyliau Ceredigion.pdf
[93] Ibid.
[94] Llywodraeth Cymru (2021) Gwaith ymchwil ar ail gartrefi: crynodeb o'r adolygiad o'r dystiolaeth. Gwaith ymchwil ar ail gartrefi: crynodeb o'r adolygiad o'r dystiolaeth | LLYW.CYMRU
[95] Ibid.

bynnag, mae dadansoddi'r cymarebau fforddiadwyedd aelwydydd fesul AMD yn dangos y gallai fod cysylltiad.

**Tabl 15: Cymhareb Fforddiadwyedd ar gyfer Ceredigion a phob AMD (2022).**

| AMD | Pris Tai Canolig (2022) | Incwm Cartref Canolig | Cymhareb Fforddiadwyedd |
|---|---|---|---|
| Aberystwyth | £225,000 | £29,839 | 7.5 |
| Arfordirol | £283,250 | £33,550 | 8.4 |
| Arall | £250,000 | £30,119 | 8.3 |
| Dyffryn Teifi | £240,000 | £29,016 | 8.2 |
| Ceredigion | £235,000 | £31,162 | 7.5 |

**Efallai na fydd y ffigurau'n adio oherwydd talgrynnu.*
*(Ffynhonnell: Cofrestr Tai, SYG & CACI Paycheck)*

Mae Tabl 15 uchod yn amlinellu'r gymhareb fforddiadwyedd ar gyfer Ceredigion a phob AMD. Gall fod cydberthynas rhwng lleoliad cartrefi gwyliau a phrisiau tai yn yr AMD Arfordirol, fodd bynnag, mae'n anodd bod yn sicr (gan fod newidynnau eraill megis incwm aelwydydd hefyd yn chwarae rôl allweddol).

Yr AMD Arfordirol sydd â'r gymhareb fforddiadwyedd uchaf, sy'n golygu y byddai angen i drigolion lleol dalu 8.4 gwaith yn fwy o'u hincwm blynyddol am dŷ a'r AMD Arfordirol. Mae gan AMD Arfordirol hefyd y ganran uchaf o ail gartrefi (41.1%). Wedi dweud hyn, wrth edrych ar AMD Aberystwyth, yr ardal hon sydd â'r gymhareb fforddiadwyedd isaf o 7.5, ond yr ail ganran uchaf o ail gartrefi yn y sir (25.5%).

Gyda niferoedd cynyddol o ail gartrefi / cartrefi gwyliau a phobl yn symud i Geredigion, gallai'r Gymraeg fod mewn perygl. Yn ogystal, gan fod ail gartrefi yn effeithio ar fforddiadwyedd tai, gallai hyn olygu bod yn rhaid i drigolion Cymraeg eu hiaith symud allan o'r sir i ddod o hyd i gartref. Mae Ceredigion yn un o gadarnleoedd yr iaith Gymraeg ac mae ganddi'r drydedd gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru (yn ôl Cyfrifiad 2021)[96], felly mae'r rhagolygon ar gyfer niferoedd cynyddol o ail gartrefi yn creu pryderon am y Gymraeg a'i dyfodol yn y sir.

Mae mynd i'r afael â materion ail gartrefi, perchnogaeth cartrefi gwyliau a throi eiddo preswyl yn llety gwyliau, yn ogystal â chynyddu'r cyflenwad a'r ystod o dai fforddiadwy yn flaenoriaethau yn Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor 2022-2027. O ganlyniad i Adroddiad Ail Gartrefi a Llety Gwyliau Ceredigion, [97] ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn ymgynghori â'r cyhoedd ar gynnydd posibl ym mhremiymau Treth y Cyngor ar gyfer ail gartrefi ac eiddo gwag. Mae'r ymgynghoriad yn gofyn i drigolion am eu barn ar lefelau premiymau treth y cyngor yn y dyfodol, gan gynnwys pa effeithiau y gallai unrhyw newid ei gael ar gymunedau lleol, yr iaith Gymraeg, twristiaeth, a'r economi.

[96] SYG (2022) – Cyfrifiad TS033 – Sgiliau Cymraeg (siarad). [Ar-lein] Ar gael yn: Nomis – Official Census and Labour Market Statistics – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk).
[97] Cyngor Sir Ceredigion (2021) *Data Ail Gartrefi a Gosodiadau Gwyliau Ceredigion*. C. Data am ail gartrefi a llety gwyliau Ceredigion.pdf

### 1.3.18. Cartrefi Gwag

Mae Cartref Gwag yn annedd sydd wedi bod yn wag am gyfnod o 6 mis neu fwy ac sy'n rhaid talu Treth y Cyngor[98], ac mae Eiddo Gwag Hirdymor yn annedd sy'n wag ac heb ei ddodrefnu'n sylweddol am gyfnod parhaus o 1 flwyddyn o leiaf. Codir Premiwm Treth y Cyngor o 25% yn ychwanegol ar gyfer yr eiddo hyn.

Mewn rhai achosion mae eiddo gwag yn dychwelyd i feddiannaeth ar ôl cyfnod byr. Gall yr eiddo sy'n cael ei adael yn wag am gyfnodau hir gael effaith andwyol ar drigolion a chymunedau lleol. Maent yn denu ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn achosi problemau iechyd yr amgylchedd, ac yn cyfrannu at ddirywiad cyffredinol mewn cymunedau. Yn bwysicaf oll, maent yn ased cymunedol sy'n cael ei danddefnyddio pan mae prinder tai ar draws y sir a gallent gael eu meddiannu gan rywun sydd mewn angen.[99] Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cydnabod bod dod ag eiddo gwag yn ôl i'r gymuned yn chwarae rôl allweddol wrth helpu i gynyddu'r tai fforddiadwy y mae mawr eu hangen ar drigolion ar draws y sir.


Mae data Treth y Cyngor yn dangos bod 2.7% o gyfanswm yr anheddau trethadwy (33,856) yng Ngheredigion yn wag ym mis Awst 2023, sy'n cyfateb i 905 o anheddau. O'r rhain, codwyd y Premiwm Gwag Hirdymor ar dros hanner yr aelwydydd (68.7% neu 622), sy'n golygu eu bod wedi bod yn wag am fwy na chwe mis. Mae'r gyfran o gartrefi gwag sydd yn y Sir ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Yn 2023 roedd 1.6% o gyfanswm yr anheddau trethadwy (1,411,082)[100] ar draws Cymru yn wag, sef cyfanswm o 22,457 annedd.[101]

Ers yr AFDL diwethaf (2019), bu cynnydd graddol yn nifer y cartrefi gwag (gan gynnwys Premiwm Eiddo Gwag Hirdymor, Eiddo Gwag Hirdymor Dosbarth C ac Eiddo Gwag Safonol 50%). Fel mae Ffigur 42 isod yn dangos, roedd nifer y cartrefi gwag yn gostwng ac wedi cyrraedd isafbwynt yn 2021 (781), fodd bynnag, ers hynny maent wedi cynyddu, yn enwedig dros y flwyddyn ddiwethaf. Rhwng 2022 a 2023 bu cynnydd o 108 o gartrefi gwag, sef cynnydd o 13.6%.[102]

---

[98]CLlLC a CLlLC (2020). Mesur perfformiad awdurdodau lleol 2019-2020. Ar gael yn: Mesur perfformiad awdurdodau lleol 2019-20 – Data Cymru
[99]Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) *Canllaw Arferion Da Ar Gartrefi Gwag*. canllaw-arferion-da-ar-gartrefi-gwag_0.pdf (llyw.cymru)
[100] Stats Cymru (2023). Anheddau sy'n destun treth gyngor, yn ôl awdurdod lleol (nifer yr anheddau). Ar gael yn: Anheddau sy'n destun treth gyngor, yn ôl awdurdod lleol (nifer yr anheddau) (llyw.cymru)
[101] Stats Cymru (2023). Cartrefi gwag ac ail gartrefi sy'n daladwy, yn ôl awdurdod lleol (nifer yr anheddau) Ar gael yn: Cartrefi gwag ac ail gartrefi sy'n daladwy, yn ôl awdurdod lleol, yn ôl blwyddyn (nifer yr anheddau) (llyw.cymru)
[102]Cyngor Sir Ceredigion (2018-2023). Data Treth y Cyngor.

**Ffigur 42: Nifer y Tai Gwag yng Ngheredigion 2018-2023.**




*(Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion (2018-2023) – Adran Treth Cyngor)*

Fel yr adlewyrchir yn Nhabl 16 isod, mae'r cynnydd mewn eiddo gwag rhwng 2022 a 2023 i'w briodoli'n bennaf i gynnydd yn Eiddo Gwag Hirdymor Dosbarth C (h.y. eiddo sy'n wag a heb ei ddodrefnu'n sylweddol am gyfnod o lai na 6 mis ac sydd wedi'i eithrio o dalu Treth y Cyngor) sy'n cyfateb i 87% (+94) o gyfanswm y cynnydd.

**Tabl 16: Newid yn Nifer y Tai Gwag 2022 a 2023.**

| Math | 2022 | 2023 | Gwahaniaeth (nifer) | Cynnydd cymesur (%) |
|---|---|---|---|---|
| Dosbarth C Gwag Hirdymor | 132 | 226 | +94 | 87% |
| Premiwm Gwag Hirdymor | 619 | 622 | +3 | 3% |
| Safon 50% Gwag | 46 | 57 | +11 | 10% |
| Cyfanswm | 797 | 905 | +108 | 100% |


*(Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion – Adran Treth Cyngor (2023))*

Mae eiddo preswyl yn dod yn wag am amrywiaeth eang o resymau, fodd bynnag, mae'r rhesymau mwyaf cyffredin yn cynnwys perchnogaeth heb ei datrys, eiddo gadawedig, dadfeiliad, etifeddiaeth, daliad eiddo, daliad gofal a/neu ddiffyg gwybodaeth/opsiynau.[103]

Mae'r Ffigur isod yn dangos lledaeniad eiddo gwag ar draws AMD Ceredigion. Mae eiddo gwag wedi'u gwasgaru'n weddol gyfartal ar draws AMD y sir, fodd bynnag, maent wedi'u lleoli'n fwy cyffredin yn AMD Arfordirol (251 neu 27.7%).

[103]Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2019). Eiddo gwag. Ar gael yn: [Empty properties (senedd.cymru)]

**Ffigur 43: Canran yr Eiddo Gwag fesul AMD (2023).**




*(Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion (2023) – Adran Treth Cyngor)*

Mae cartrefi gwag yn parhau i fod yn broblem heriol yng Ngheredigion. Mae nifer o gynlluniau a mentrau sy'n mynd i'r afael â'r broblem, megis cymorth ariannol (er enghraifft, Cynllun Grantiau Cartrefi Gwag Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, Troi Tai'n Gartrefi, Cynllun Prydlesu Cymru, a TAW is/cyfradd sero) a Phremiymau Treth y Cyngor (pan fo'r eiddo wedi bod yn wag am 12 mis mae tâl ychwanegol o 25% yn ychwanegol at y lefel arferol o Dreth y Cyngor). Mae Cynllun Gweithredu Eiddo Gwag ar waith i ymdrin ag eiddo gwag â blaenoriaeth.

Yn debyg i nifer o awdurdodau lleol ar draws Cymru, mae Ceredigion wrthi'n ymgynghori â'r cyhoedd ar lefel y Premiymau Treth Cyngor hyn yn y dyfodol, gan gynnwys pa effaith y gallai unrhyw newid ei chael ar y cymunedau lleol, yr iaith Gymraeg, twristiaeth a'r economi. Mae hyn o ganlyniad i newid mewn deddfwriaeth[104] i fynd i'r afael a'r materion cenedlaethol, sydd yn golygu o Ebrill 2023, gall awdurdodau lleol osod premiymau treth gyngor hyd at 300% (cyn hyn roedd hyd at 100%).

## 1.4. Gofynion o ran Anghenion Tai Penodol

Mae offeryn yr AFDL yn darparu amcanestyniad o'r angen am dai cyffredinol. Er mwyn deall yr anghenion tai penodol o fewn y amcanestyniadau cyffredinol, cafodd ymarfer arall i'w wneud tu allan i'r offeryn.

---

[104] Llywodraeth Cymru (2023). Treth y Cyngor a chartrefi gwag ac ail gartrefi: Canllawiau. Ar gael yn: [Treth Gyngor ar dai gwag ac ail gartrefi [HTML] | LLYW.CYMRU]

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar yr AFDL, mae nifer o wahanol ffynonellau data wedi'i defnyddio (data cynradd ac eilaidd). Cafodd yr ymarfer yma i'w wneud trwy ddull cydweithredol gyda rhanddeiliaid allweddol a staff y Cyngor, gyda set amrywiol o arbenigedd mewn tai, cynllunio, cydraddoldeb, gofal cymdeithasol, yr economi ac ystadegau.

Casglwyd data cynradd yn gyntaf trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid (Partneriaeth Tai Strategol) a Gwasanaethau'r Cyngor i gasglu data a gwybodaeth ar anghenion tai penodol ac yna ymgynghori ar y darganfyddiadau er mwyn llenwi unrhyw fylchau data neu wybodaeth. Ymgysylltwyd a rhanddeiliaid trwy gydol cynhyrchiad yr AFDL ac roedd ei mewnbwn i mewn i'r adran yma yn allweddol. Yn ogystal, defnyddiwyd data eilaidd, roedd hyn yn cynnwys data ffynhonnell agored leol a chenedlaethol oddi wrth StatsCymru, Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), yr Adran i Waith a Phensiynau (DWP) a Data Porth Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol Gymru.

Mae'r adran isod yn darparu trosolwg o'r anghenion tai penodol canlynol:

- Darpariaeth Tai Hygyrch ac Wedi'i Haddasu
- Teuluoedd Aml-genhedlaeth a/neu mawr sydd angen aelwydydd mwy mewn maint
- Tai nad ydynt yn barhaol
- Anghenion Tai, Gofal a Chymorth
- Anghenion Lleoliadol ar gyfer Llety Myfyrwyr

Dydy'r anghenion lleoliadol i bobl gydag anghenion ffisegol neu ddiwylliannol heb ei asesu gan nad oes unrhyw ddata ar y testunau yma. Ond, yn nodedig, mae'r anghenion yma wedi ystyried fel rhan o'r proses gwneud penderfyniadau ehangach pan yn gartrefi tenantiaid rhenti cymdeithasol.

Ystyriwyd bod setiau data yn brin mewn rhai mannau, oherwydd anghyfiawnder neu oherwydd nad ydynt yn bodoli. Bydd y bylchau data yma yn cael i'w adrodd yn ôl i gydweithwyr, ein rhanddeiliaid allweddol ac i Lywodraeth Cymru i'w ystyried yn y dyfodol. Mae hefyd y potensial am ddyblygiad o anghenion tai penodol y dyfodol oherwydd bod gwahanol fodelau wedi'i defnyddio.

Mae'r bennod yn darparu ciplun meintiol ac ansoddol o'r farchnad dai cyfredol a marchnad dai'r dyfodol, mae'n adnabod anghenion tai preswylwyr ac yn rhoi syniad o anghenion y dyfodol i ddarparu orau i'r boblogaeth. Mae'r allbynnau wedi'i darparu ar lefel AMD ble yn bosib, ond, mewn mannau ble mae yna fylchau yn y data neu ble nad oedd yn synhwyrol i ddarparu data ar y lefel daearyddol yma, mae'r allbynnau wedi'i darparu ar lefel awdurdod lleol.

### 1.4.1. Tai Hygyrch ac Wedi'u Haddasu

Bydd yr adran hon yn nodi eiddo sy'n ateb anghenion pobl â symudedd a/neu ddeheurwydd cyfyngedig sydd angen gofal lefel isel, a defnyddwyr cadeiriau olwyn. Gall y math hygyrch ac wedi'i addasu gynnwys:

- offer lefel isel
- hygyrch i gadeiriau olwyn yn llwyr (eiddo wedi'i addasu'n llwyr)
- hygyrch i gadeiriau olwyn yn rhannol (bodloni rhai safonau cadeiriau olwyn)
- cartrefi gydol oes
- dim grisiau

- uchafswm o dri gris

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn datgan:

> *'Dylai awdurdodau cynllunio hyrwyddo cymunedau deiliadaeth gymysg preswyl cynaliadwy gyda thai 'dirwystr', er enghraifft, tai sydd wedi'u hadeiladu'n unol â safonau Cartrefi Gydol Oes i alluogi pobl i fyw'n annibynnol ac yn ddiogel yn eu cartref eu hunain am hirach.'*

(Llywodraeth Cymru, Polisi Cynllunio Cymru, 2021, td. 56).[105]

Nod Amcan 1.2 yn Strategaeth Dai Cyngor Sir Ceredigion 2023-2028[106] yw: '*sicrhau bod trigolion yn byw mewn llety o ansawdd da, addas a chynaliadwy'* (t.15). Mae rhai o'r camau gweithredu sy'n ofynnol er mwyn gwireddu'r amcan hwn yn cynnwys y Cyngor yn gweithio gyda'i bartneriaid i gyflwyno ystod o addasiadau i gefnogi byw'n annibynnol a rhyddhau cleifion o'r ysbyty, ac ehangu Cynllun Prydlesu Cymru i wella'r ddarpariaeth o lety rhent fforddiadwy.

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig ar gyfer Ceredigion (2013) hefyd yn cynnwys polisi LU02 sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob datblygiad preswyl gael ei adeiladu yn unol â safonau Cartrefi Gydol Oes cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol. Mae hyn er mwyn sicrhau bod eiddo a adeiladwyd ers 2013 yn gallu cael eu haddasu yn ôl gofynion heneiddio ac anabledd.

## Pobl ag anableddau

Yn ôl Cyfrifiad 2021 mae 21.9% o drigolion Ceredigion wedi'u dosbarthu'n anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb (yn amrywio o gyfyngu ychydig ar weithgareddau bob dydd i gyfyngu llawer arnynt), sef tua 15,637 o bobl yn y sir (cyfeiriwch at Adran 1.3.4 am fwy o fanylion). Cofnododd Ceredigion gyfran ychydig yn uwch o drigolion anabl na chyfartaledd cenedlaethol Cymru (21.6%). Dylid cydnabod na fydd angen cartrefi hygyrch neu gartrefi wedi'u haddasu ar bawb yn y grŵp hwn. Mae'n debygol y bydd y 6,686 o drigolion (9%) a ddywedodd fod eu gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi'u cyfyngu llawer yn cynnwys y mwyafrif o unigolion sydd angen darpariaeth hygyrch ac wedi'i haddasu.

### Math a lefel bresennol o anghenion a darpariaeth

Gall fod gan bobl sy'n byw gydag anableddau gwahanol anghenion tai gwahanol iawn. Mae llawer o bobl yn byw yn y sector preifat a pherchen-feddianwyr; fodd bynnag, mae gwybodaeth am yr angen am dai o fewn y deiliadaethau hyn yn gyfyngedig.

Mae Cofrestr Tai Hygyrch y Cyngor yn rhoi gwybodaeth am nifer y trigolion sydd angen eiddo hygyrch o fewn y sector fforddiadwy. Cafwyd y wybodaeth ganlynol o ddadansoddiad o'r Gofrestr Tai Hygyrch ym mis Gorffennaf 2023, gan amlinellu lefel yr angen presennol fesul AMD ar draws y sector hwn.

---

[105] Llywodraeth Cymru (2021). Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 11. [Ar-lein]. Ar gael yn: Polisi Cynllunio Cymru – Rhifyn 11 (llyw.cymru) .

[106] Cyngor Sir Ceredigion (2023). Tai i Bawb 2023-2028. [Ar-lein]. Ar gael yn: 20a9485dcf070e3d73006dcace32d11c_Housing_Strategy_2023-2028.pdf (amazonaws.com) .

**Tabl 17: Aelwydydd sydd angen eiddo hygyrch fesul AMD a nifer yr ystafelloedd gwely, yn ôl y Gofrestr Tai Hygyrch.**


| AMD | Nifer yr ystafelloedd | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | 3 | 4 | Cyfanswm |
| **Aberystwyth** | 127 | 39 | 14 | 7 | **187** |
| **Arall** | 10 | 3 | 1 | 0 | **14** |
| **Arfordirol** | 30 | 17 | 5 | 2 | **54** |
| **Dyffryn Teifi** | 86 | 29 | 13 | 6 | **134** |
| Cyfanswm | 253 | 88 | 33 | 15 | 389 |

*(Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion – Cofrestr Tai Hygyrch 2023)*


Fel y dangosir yn Nhabl 17, mae 389 o bobl angen cartrefi hygyrch yn y sector rhentu cymdeithasol sy'n cyfateb i 2% o'r boblogaeth anabl (yn ôl data Cyfrifiad 2021). Mae'r angen mwyaf yn AMD Aberystwyth (187 o bobl/48%), ac yna AMD Dyffryn Teifi (134 o bobl/34%), AMD Arfordirol (54 o bobl/14%), ac yn olaf yr AMD Arall (14 o bobl/4%). Yr angen mwyaf ar draws pob un o'r pedair AMD yw am eiddo hygyrch/wedi'i addasu 1 ystafell wely, sy'n cyfrif am tua 65% o'r angen cyffredinol.

Mae dadansoddi'r Gofrestr Tai Hygyrch yn dangos ymhellach y mathau o angen (h.y., gofynion hygyrchedd) o fewn y sector rhentu cymdeithasol fesul Ardal Marchnad Dai (AMD).


Ffigur 44: Anghenion Hygyrchedd – AMD Aberystwyth





Ffigur 45: Anghenion Hygyrchedd – AMD Arfordirol




Ffigur 46: Anghenion Hygyrchedd – AMD Arall




Ffigur 47: Anghenion Hygyrchedd – AMD Dyffryn Teifi





*(Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion – Cofrestr Tai Hygyrch 2023)*

Ar draws y pedair AMD mae'r math o angen hygyrchedd yn debyg. Mae'r angen mwyaf am eiddo llawr gwaelod (sy'n cyfrif am 46% o gyfanswm yr angen), ac yna eiddo dim grisiau (27%). Mae'r angen lleiaf am uchafswm grisiau (9%) a chartrefi gydol oes (2%). Mae'r uchod yn dangos bod diffyg cyflenwad o gartrefi hygyrch ar hyn o bryd (yn enwedig eiddo llawr gwaelod) ar draws sector tai cymdeithasol Ceredigion.

Mae Grantiau Addasiadau Ffisegol yn grantiau a ddarperir gan yr awdurdod lleol i denantiaid cymdeithasau tai ag anabledd i helpu gyda chostau addasu eiddo. Rhwng 2018 a 2023 cwblhawyd 117 o addasiadau ac roedd y mwyafrif yn cynnwys addasiadau i ystafelloedd ymolchi (44 o addasiadau/38%), yna addasiadau mynediad (40 o addasiadau/34%).[107] Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod nifer y Grantiau Addasiadau Ffisegol yn dibynnu ar gyllid, ac felly ni fyddai'n brocsi addas er mwyn pennu angen.

Er bod data o'r Gofrestr Tai Hygyrch a Grantiau Addasiadau Ffisegol yn helpu i amcangyfrif yr angen presennol am gartrefi hygyrch ac wedi'u haddasu ar draws y sector tai cymdeithasol, mae data Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn nodi'r angen presennol a fynegwyd am dai wedi'u haddasu ar draws *pob* deiliadaeth. Mae Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn grantiau ar gyfer perchen-feddianwyr a thenantiaid (preifat neu gymdeithasol) sy'n anabl i helpu tuag at y gost o wneud eu cartref yn hygyrch. Maent yn tueddu i amrywio o waith adeiladu mawr i fân addasiadau i'r eiddo. Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y ceisiadau Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a dderbyniwyd gan y Cyngor dros y deng mlynedd diwethaf ochr yn ochr â'r rhai sydd wedi'u cwblhau.

**Ffigur 48: Ceisiadau Grant Cyfleusterau i'r Anabl a'r rhai a gwblhawyd yng Ngheredigion (2017/18-2021/22).**




**Sylwch na chafodd y data ei gasglu yn 2019/20 oherwydd y pandemig COVID-19*
*(Ffynhonnell: Stats Cymru, 2023)*[108]

[107] Data a dderbyniwyd gan Gymdeithasau Tai (Barcud, Cymdeithas Tai Wales and West a Caredig), 2023.
[108] Stats Cymru (2023). Grantiau ar gyfer cyfleusterau i bobl anabl yn ôl ardal awdurdod lleol a'r math o grant. [Ar-lein]. Ar gael yn: Grantiau ar gyfer cyfleusterau i bobl anabl yn ôl ardal awdurdod lleol a'r math o grant (llyw.cymru)

Mae Ffigur 48 yn dangos, cyn pandemig COVID-19 yn 2020, fod y bwlch rhwng nifer y ceisiadau a lefel cwblhau wedi cynyddu'n raddol. Ers hynny mae'r bwlch wedi lleihau ac mae nifer y ceisiadau a'r anheddau a gwblhawyd wedi lleihau'n sylweddol. Fodd bynnag, nid yw'r gostyngiad yn nifer yr anheddau a gwblhawyd yn trosi'n uniongyrchol i lai o angen am addasiadau. Ym mis Medi 2023 mae 360 o drigolion ar restr aros yr awdurdod lleol am addasiadau[109]. Yn rhannol mae hwn yn groniad o'r gwaith addasu roedd angen ei wneud yn ystod y blynyddoedd cyn 2021/22 pan na chyrhaeddwyd y targed cwblhau.

Er y gall fod aelwydydd ychwanegol nad ydynt wedi gwneud cais am Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ond a fyddai am neu byddai angen iddynt gael eu haddasu, mae'r ffigurau hyn yn rhoi syniad o'r angen a fynegwyd. Byddai darparu cartrefi hygyrch yn helpu i leihau'r angen am yr addasiadau hyn, ac yn helpu i ddiogelu cartrefi newydd ar gyfer cenedlaethau olynol yn y dyfodol.

Gan ddefnyddio model Opinion Research Services (ORS), gellir modelu nifer yr aelwydydd presennol (yn 2022) â salwch hirdymor neu anabledd sy'n effeithio ar eu hanghenion tai (Tabl 21). Mae'r model yn defnyddio data nifer yr achosion o'r cyfrifiad ochr yn ochr â'r wybodaeth ddiweddaraf gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.[110] Defnyddir yr amcanestyniad aelwydydd a ffafrir, sef yr amrywiad uwch seiliedig ar 2018. Mae'n bwysig deall cafeatau a chyfyngiadau'r model hwn a chydnabod y dylid trin y ffigurau ar gyfer Ceredigion fel *canllaw*. Lle bo'n berthnasol, lluniwyd cymariaethau rhwng allbynnau'r model a'n data mewnol i dynnu sylw at rai gwahaniaethau yn y ffigurau. Mae Adran 2.1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am y model Excel a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adran hon.

**Tabl 18: Aelwydydd â salwch hirdymor neu anabledd sy’n effeithio ar eu hanghenion tai (2022).**

| | | |
|---|---|---|
| Pob Aelwyd 2022 | 30,759 | - |
| **Aelwydydd ag un neu fwy o bobl â salwch neu anabledd cyfyngu hirdymor** | 11,535 | 38% |
| Nid yw'n effeithio ar eu hangen am dai | 7,896 | 26% |
| Cartref presennol sy'n addas ar gyfer anghenion | 3,048 | 10% |
| Mae angen addasu'r cartref presennol | 306 | 1% |
| Angen symud i gartref mwy addas | 285 | 1% |
| **Cyfanswm yr aelwydydd lle mae salwch neu anabledd cyfyngu hirdymor yn effeithio ar eu hanghenion tai yn 2022:** | **3,639** | **12%** |

** Efallai na fydd y ffigurau'n adio oherwydd talgrynnu*
*(Ffynhonnell: Model Tai ORS, Cyfrifiad 2021, AGP).*

[109] Cyngor Sir Ceredigion (2023) – Adran Gofal Cymdeithasol.
[110] Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2023). Ar gael yn: https://stat-xplore.dwp.gov.uk/webapi/jsf/dataCatalogueExplorer.xhtml data sets: Attendance Allowance (AA), Disability Living Allowance (DLA) and Personal Independence Payments (PIP).

Mae Tabl 18 yn nodi bod tua 11,535 o aelwydydd yn byw yng Ngheredigion lle roedd un neu ragor o bobl â salwch neu anabledd cyfyngu hirdymor. Roedd hyn yn cynnwys tua 3,693 o aelwydydd â phroblemau iechyd oedd yn effeithio ar eu hanghenion tai[111], fodd bynnag, roedd y mwyafrif o'r aelwydydd hyn (83.7%/ 3,048) eisoes yn byw mewn cartref addas. Nododd y model fod angen addasiadau ar tua 306 o aelwydydd ar ddechrau'r cyfnod yn 2022.[112] Mae angen i tua 285 symud i gartref mwy addas oherwydd anabledd neu broblem iechyd hirdymor arall. Felly, byddai'r grŵp hwn o aelwydydd yn cynrychioli *angen sy'n bodoli* am dai safonol Cartrefi Gydol Oes, a byddai angen tai wedi'u haddasu'n llwyr ar gyfer cadeiriau olwyn ar rai ohonynt.

O ran y ddarpariaeth bresennol, nid oes asesiad lleol o gyfanswm y stoc tai ar draws *yr holl* ddeiliadaethau sydd wedi'u haddasu neu sy'n hygyrch, nac o'r gwaith hygyrchedd sydd wedi cael ei wneud fel rhan o ddatblygu anheddau newydd. Fodd bynnag, mae data ar gael sy'n rhoi syniad o'r ddarpariaeth o stoc tai cymdeithasol hygyrch ac wedi'u haddasu.[113] (*Sylwer: cydnabyddir mai amcangyfrif bras yw hwn oherwydd anghyflawnder y data, ac mae'r ffigurau a ddarparwyd yn debygol o danamcangyfrif cyfanswm y stoc hygyrch ac wedi'i addasu).*[114]

Fel y dangosir yn Nhabl 19 isod, mae tua 192 o unedau hygyrch a 1,137 o unedau wedi'u haddasu o fewn y sector rhentu cymdeithasol yng Ngheredigion. Gan ddefnyddio'r amcangyfrifon stoc anheddau diweddaraf (2022)[115], amcangyfrifir bod tua 5.5% o'r stoc rhentu cymdeithasol yn anheddau wedi'u haddasu a bod 32.5% o'r stoc rhentu cymdeithasol wedi'i haddasu (er ei bod yn debygol bod y gyfran yn uwch). Mae nifer yr eiddo gwag yn weddol isel sy'n dangos y galw presennol am y math hwn o lety, yn enwedig tai hygyrch. Mae'n anodd meincnodi'r ffigurau hyn gan nad yw'r data hwn ar gael ar lefel genedlaethol.

**Tabl 19: Cyfanswm stoc hygyrch LCC yng Ngheredigion yn ôl statws eiddo.**

| Stoc Rhentu Cymdeithasol | Wedi'i feddiannu | Gwag | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Hygyrch | 191 | 1 | 192 |
| Wedi'i Addasu | 1,119 | 18 | 1,137 |

*(Ffynhonnell: Grŵp Tai Wales and West (WWH) a Barcud 2023)*

[111] *Sylwer: mae cyfanswm nifer yr aelwydydd lle mae salwch neu anabledd cyfyngus hirdymor yn effeithio ar eu hangen am dai a bennir gan fodel ORS yn debyg iawn i nifer yr aelwydydd sy'n derbyn Taliad Annibyniaeth Personol a Lwfans Gweini yng Ngheredigion (3,583) yn ystod 2023.*

[112] *Sylwer: mae'r ffigur hwn ychydig yn is na nifer yr ymgeiswyr sydd ar y rhestr aros am addasiadau Gofal Cymdeithasol ar hyn o bryd (360).*

[113] Dadansoddiad stoc wedi'i wneud gan Gymdeithas Tai Wales & West a Barcud (2023).

[114] Mae unedau hygyrch wedi cael eu hadnabod fel eiddo heb risiau at y drws ffrynt, eiddo ar y llawr gwaelod neu sydd â mynediad i lifft. Mae unedau wedi'u haddasu yn cynnwys eiddo lle mae atgyweiriad wedi'i gofnodi yn y system fel un sydd wedi'i gwblhau neu wedi'i labelu fel un sydd wedi'i addasu (e.e. drysau wedi'u lledu).

[115] StatsCymru(2023). Amcangyfrifon o'r stoc anheddau yn ôl awdurdod lleol a deiliadaeth. [Ar-lein]. Ar gael yn: Amcangyfrifon o'r stoc anheddau yn ôl awdurdod lleol a deiliadaeth

### *Math a lefel yr anghenion a'r ddarpariaeth yn y dyfodol*

Mae'r data uchod sy'n deillio o fodel ORS yn dangos yr angen a nodwyd am tua 285 o gartrefi wedi'u haddasu ar ddechrau'r cyfnod (2022) sy'n seiliedig ar anghenion presennol aelwydydd. Fodd bynnag, rhaid hefyd ystyried anghenion newidiol aelwydydd dros amser. Bydd nifer yr aelwydydd gydag un neu ragor o bobl sydd â salwch neu anabledd cyfyngu hirdymor yn cynyddu wrth i bobl heneiddio.

Mae Tabl 20 isod yn dangos y gellir disgwyl i 1,543 o aelwydydd ychwanegol gynnwys trigolion sy'n datblygu problemau iechyd sy'n effeithio ar eu hangen am dai o fewn 10 mlynedd. Byddai'r aelwydydd hyn hefyd angen addasiadau i'w cartref presennol neu symud i gartref hygyrch addas.

**Tabl 20: Aelwydydd â salwch hirdymor neu anabledd gydag amcanestyniadau 2022 i 2037.**

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm yr aelwydydd lle mae salwch neu anabledd cyfyngu hirdymor yn effeithio ar eu hangen am dai yn 2022** | 3,639 |
| Aelwydydd presennol yn 2018 yn debygol o ddatblygu problemau iechyd sy'n effeithio ar eu hangen am dai o fewn 10 mlynedd | 1,543 |
| Rhagwelir y bydd aelwydydd ychwanegol yn 2033 yn profi problemau neu'n debygol o ddatblygu problemau o fewn 10 mlynedd | 3,351 |
| **Cyfanswm yr aelwydydd yn 2033 lle mae salwch neu anabledd yn effeithio ar eu hangen am dai neu a fydd yn datblygu o fewn 10 mlynedd** | 4,894 |

**Efallai na fydd y ffigurau'n adio oherwydd talgrynnu.*
*(Ffynhonnell: Model Tai ORS, Cyfrifiad 2021, AGP).*

Mae model ORS yn awgrymu, erbyn 2033, y bydd 4,894 o aelwydydd ychwanegol naill ai eisoes yn profi problemau iechyd neu'n debygol o ddatblygu problemau iechyd o fewn 10 mlynedd. Bydd y rhan fwyaf o'r rhain yn aelwydydd sy'n bodoli yn 2022 ac yn cynnwys aelodau y mae eu hiechyd wedi gwaethygu dros y cyfnod hyd at 2037.

O ystyried anghenion aelwydydd yn 2022 ynghyd â'r twf a ragwelir mewn aelwydydd a demograffeg newidiol (yn enwedig y boblogaeth sy'n heneiddio), mae model ORS yn rhagweld y bydd angen gwneud addasiadau i'w cartrefi presennol ar tua 4,894 o aelwydydd neu bydd angen iddynt symud i eiddo hygyrch. Mae hyn yn ychwanegol at y 285 o aelwydydd sy'n bodoli sydd angen symud, a'r 306 sydd angen addasiadau yn seiliedig ar eu hiechyd presennol yn 2022.

| Tabl 21: Aelwydydd â salwch neu anabledd hirdymor gydag amcanestyniad 2022-2037 a chartrefi y gellir eu haddasu. | Ceredigion |
|---|---|
| **Angen presennol yn 2022** | |
| Aelwydydd lle mae salwch neu anabledd presennol yn effeithio ar eu hangen am dai ac angen symud yn 2022 | 285 |
| **Amcanestyniad o angen y dyfodol 2022-37** | |
| Aelwydydd ychwanegol yn 2033 lle mae salwch neu anabledd yn effeithio ar eu hangen am dai neu a fydd yn datblygu o fewn 10 mlynedd | 4,894 |
| **Yr Angen Mwyaf am dai wedi'u haddasu 2022-37 (aelwydydd)** | **5,179** |
| Llai o aelwydydd mewn anheddau y gellir eu haddasu i safon y gellir ymweld â hwy mewn cadeiriau olwyn | 3,286 |
| **Isafswm Angen am Dai wedi'u Haddasu 2022-37 (aelwydydd)** | **1,893** |

**Efallai na fydd y ffigurau'n adio oherwydd talgrynnu.*
*(Ffynhonnell: Model Tai ORS, Cyfrifiad 2021, AGP).*

Ni fydd pob aelwyd am symud i dai newydd; bydd rhai yn addasu eu cartrefi presennol a bydd eraill yn symud i eiddo arall yn y stoc sy'n bodoli. Trwy beidio â chynnwys aelwydydd sy'n addas i'w haddasu (gan ddefnyddio aelwydydd sy'n byw mewn cartrefi y gellir eu haddasu i safonau y gellir ymweld â nhw mewn cadair olwyn fel procsi) bydd angen i tua 1,893 o aelwydydd symud i eiddo arall.

Yn ddealladwy, mae ansicrwydd ynghylch faint o aelwydydd fydd yn gallu ateb eu hanghenion tai heb symud a faint fydd yn symud i gartrefi sy'n bodoli yn hytrach na chartrefi newydd, felly, mae'r ffigurau a adlewyrchir yn Nhabl 21 uchod (1,893 i 5,179) yn cael eu hystyried yn amrediad. Mae amrediad yr angen am dai hygyrch ac wedi'u haddasu ychydig yn llai na'r hyn a nodwyd yn AFDL 2019 (2,072 i 5,969). Gellir priodoli'r gwahaniaeth hwn i'r amcanestyniadau aelwydydd a ddefnyddiwyd yn yr AFDL blaenorol (seiliedig ar 2014) a ragwelodd dwf aelwydydd llawer mwy o'i gymharu â'r amrywiad uwch seiliedig ar 2018 a ddefnyddiwyd yma.

Mae Grŵp Tai Wales & West (WWH) yn bwriadu adeiladu 72 o unedau hygyrch dros y tair blynedd nesaf a fydd yn bodloni rhywfaint o'r angen hwn, ond nid y cyfan. Dangosodd ymgysylltiad â'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yr her o gartrefu tenantiaid tai yn eu heiddo wedi'u haddasu i'r anabl oherwydd yn aml bydd tenantiaid am i'w cartref presennol gael ei addasu yn hytrach na symud i eiddo newydd. Mae hyn yn awgrymu y dylai darpariaeth yn y dyfodol ganolbwyntio ar addasu eiddo sy'n bodoli (lle bo modd) yn y lle cyntaf.

Ar y llaw arall, nid yw llawer o eiddo sy'n bodoli yn addas ar gyfer eu haddasu neu byddai angen gwneud tipyn o waith iddynt. Felly, mae canolbwyntio'n unig ar addasu'r stoc sy'n bodoli yng Ngheredigion yn annhebygol o ateb anghenion poblogaeth sy'n heneiddio ac sydd ag anghenion symudedd uwch. Bydd sicrhau bod adeiladau newydd yn cyrraedd safon Cartrefi Gydol Oes felly yn ffactor arwyddocaol wrth geisio bodloni gofynion tai pobl ag anabledd yn y sir yn y dyfodol, ac mae polisi wedi bod yn ei le ar gyfer hyn ers 2013.

### 1.4.2. Aelwydydd Aml-genhedlaeth

Mae canllawiau'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn nodi bod angen ystyried anghenion eiddo aelwydydd aml-genhedlaeth a/neu deuluoedd mwy er mwyn darparu ar gyfer yr anghenion diwylliannol sy'n gysylltiedig â rhai achosion o fyw aml-genhedlaeth.

At ddiben yr asesiad hwn, diffinnir teulu mwy fel aelwyd sy'n cynnwys pedwar neu fwy o bobl (neu 4+ ystafell wely). O ran aelwydydd aml-genhedlaeth, defnyddir diffiniad y Swyddfa Ystadegau Gwladol:

> *"lle mae pobl ar draws mwy na dwy genhedlaeth o'r un teulu yn byw gyda'i gilydd. Mae hyn yn cynnwys aelwydydd gyda neiniau a theidiau ac wyrion a wyresau p'un a oedd y genhedlaeth rhyngddynt hefyd yn byw yn yr aelwyd neu beidio."*[116]

Mae'n bwysig nodi nad yw 'teuluoedd cudd' yr un peth ag aelwydydd aml-genhedlaeth. Mae teuluoedd cudd yn cynnwys aelwydydd lle mae teuluoedd nad ydynt yn perthyn â'i gilydd yn byw gyda'i gilydd, ond nad ydynt byth yn cyfrif person sengl fel teulu.

#### *Math a lefel bresennol o anghenion a darpariaeth*

Yn 2021 roedd 15.5% o aelwydydd Ceredigion yn cynnwys 4 neu fwy o bobl, sy'n is na'r ffigur ar gyfer Cymru (17.2%). Mae hyn yn cyfateb i tua 4,800 o aelwydydd gyda phedwar neu fwy o bobl yn y sir.


Yn ôl Cyfrifiad 2021 mae 1.6% o aelwydydd Ceredigion yn rhai aml-genhedlaeth sy'n cyfateb i 500 o aelwydydd.[117] Mae hyn ychydig yn is na chyfartaledd Cymru o 2.0%. Mae Ffigur 49 a 50 isod yn rhoi trosolwg o gyfradd deiliadaeth a meddiannaeth aelwydydd aml-genhedlaeth o'i gymharu ag aelwydydd nad ydynt yn rhai aml-genhedlaeth yng Ngheredigion.

Mae Ffigur 49 isod yn dangos bod ychydig o wahaniaeth yn y proffil deiliadaeth rhwng aelwydydd aml-genhedlaeth ac aelwydydd nad ydynt yn aml-genhedlaeth (aelwydydd eraill). Mae aelwydydd aml-genhedlaeth yn fwy tebygol o fod yn berchen-feddianwyr (81%) tra bod cyfran uwch o aelwydydd nad ydynt yn rhai aml-genhedlaeth yn rhentu eu cartrefi (rhentu preifat neu gymdeithasol) (32%).

[116] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023). Amrywiad aml-genedlaethau yn yr aelwyd: Cyfrifiad 2021. [Ar-lein]. Ar gael yn: Amrywiad aml-genedlaethau yn yr aelwyd: Cyfrifiad 2021.

[117] SYG (2023). Cyfrifiad 2021: Tabl RM197 – Nifer yr aelwydydd aml-genhedlaeth yn ôl deiliadaeth aelwydydd


**Ffigur 49: Aelwydydd Aml-genhedlaeth yn ôl deiliadaeth yng Ngheredigion (2021).**




*(Ffynhonnell: SYG (2023). RM197 – Nifer yr aelwydydd aml-genhedlaeth yn ôl deiliadaeth.)*[118]

O ran lefel meddiannaeth (cyfeiriwch at Ffigur 50 drosodd), mae aelwydydd aml-genhedlaeth yn fwy tebygol o fod yn orlawn (14% o aelwydydd aml-genhedlaeth o'i gymharu ag 1% o'r aelwydydd eraill). Mae hyn yn cyfateb i 72 o aelwydydd aml-genhedlaeth yng Ngheredigion yn 2021 oedd yn orlawn, sydd ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (19%). Mae gan Geredigion gyfran fawr o eiddo gyda phedair ystafell wely neu fwy (75% o'r holl stoc). At hynny, roedd 40% o aelwydydd aml-genhedlaeth yn 2021 wedi'u tanfeddiannu. Felly, mae'n annhebygol mai diffyg stoc i ateb anghenion yr aelwydydd hyn sy'n gyfrifol am y gorlenwi, ond yn hytrach diffyg cyfatebiaeth rhwng yr aelwydydd hyn a lle maent yn byw ar hyn o bryd.

**Ffigur 50: Aelwydydd aml-genhedlaeth yn ôl graddfa deiliadaeth ystafell wely yng Ngheredigion (2021).**




*(Ffynhonnell: SYG (2023). RM197 – Nifer yr aelwydydd aml-genhedlaeth yn ôl deiliadaeth)*[119]

---

[118] SYG (2023). RM197 – Nifer yr aelwydydd aml-genhedlaeth yn ôl deiliadaeth. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis - Official Census and Labour Market Statistics - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

[119] SYG (2023). RM197 – Nifer yr aelwydydd aml-genhedlaeth yn ôl deiliadaeth. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis - Official Census and Labour Market Statistics - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

### *Math a lefel o anghenion a darpariaeth yn y dyfodol*

Cyfrifiad 2021 yw'r cyfrifiad cyntaf i gasglu gwybodaeth am aelwydydd aml-genhedlaeth, felly mae'n anodd rhagweld tueddiadau yn y dyfodol. Fodd bynnag, gellir defnyddio amrywiad uwch amcanestyniad aelwydydd seiliedig ar 2018 (sef yr amcanestyniad a ffafrir a ddefnyddir yn yr offeryn AFDL i amcangyfrif yr angen am dai yn y dyfodol) i roi syniad o dwf aelwydydd aml-genhedlaeth yng Ngheredigion yn y dyfodol.

Mae'r amcanestyniadau aelwydydd yn rhoi dadansoddiad yn ôl math o aelwyd. O dan y diffiniad o aelwydydd aml-genhedlaeth, gellid cynnwys dau fath o aelwyd yn y categori hwn, sef:

- aelwydydd pedwar person yn cynnwys dau oedolyn neu fwy ac un plentyn neu fwy.
- aelwydydd pum person yn cynnwys dau oedolyn neu fwy ac un plentyn neu fwy.

Gan nad oes unrhyw ddata tueddiadau blaenorol ar aelwydydd aml-genhedlaeth, rhagdybir bod cyfradd nifer yr achosion aelwydydd aml-genhedlaeth yr un fath o fewn y mathau hyn o aelwydydd â'r hyn a gofnodwyd gan Gyfrifiad 2021 (13.7%).[120] [121] Gan ddefnyddio'r rhagdybiaeth hon, mae'n bosibl rhagamcan nifer yr aelwydydd hyn a fydd yn bodoli yng Ngheredigion ar ddiwedd cyfnod y cynllun AFDL (2037).

Yn ôl y dull hwn, rhagwelir y bydd nifer yr aelwydydd aml-genhedlaeth yng Ngheredigion yn gostwng i 462 erbyn 2037 (lleihad o 38 o aelwydydd aml-genhedlaeth). Mae hyn yn adlewyrchu'r gostyngiad amcanestynedig mewn aelwydydd mwy yng Ngheredigion erbyn 2037 (yn ôl yr amcanestyniadau aelwydydd amrywiad uwch seiliedig ar 2018).[122] Mae hyn yn wahanol i'r duedd genedlaethol, lle ceir awgrymiadau bod tai aml-genhedlaeth ar gynnydd, wedi'i ysgogi gan y nifer uwch o blant sy'n oedolion (25 oed neu hŷn) sy'n dal i fyw gartref gyda'u rhieni.

## 1.4.3. Tai nad ydynt yn barhaol

Mae canllawiau'r AFDL yn nodi bod angen dadansoddiad o anghenion llety dros dro ac mewn argyfwng, a'r ddarpariaeth. Yn ôl y canllawiau, mae'r math hwn o lety yn addas ar gyfer ceiswyr lloches, ffoaduriaid, aelwydydd digartref (gan gynnwys pobl sy'n cysgu ar y stryd a syrffwyr soffa) a myfyrwyr. Cydnabyddir mai tai parhaol yw'r dewis a ffafrir, fodd bynnag, mae llety dros dro/argyfwng yn cael ei ystyried lle nad oes digon o dai parhaol ar hyn o bryd i ateb anghenion.

### *Math a lefel bresennol o anghenion a darpariaeth*

Mae cyfanswm o 50 eiddo llety dros dro (a rennir a hunangynhwysol) yng Ngheredigion ac mae pob un ohonynt wedi'i feddiannu ar hyn o bryd. O'r rhain, mae 45 yn eiddo llety

---

[120] StatsCymru (2021). Amcanestyniadau aelwydydd yn ôl awdurdod lleol, math o aelwyd a blwyddyn– amrywiad uwch. Ar gael yn: Amcanestyniadau aelwydydd yn ôl awdurdod lleol, math o aelwyd a blwyddyn (gov.wales)
[121] NOMIS (2023). Nifer yr aelwydydd aml-genhedlaeth yn ôl deiliadaeth aelwydydd. Ar gael yn: RM197 – Number of multi-generational households by household tenure – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)
[122] StatsCymru(2021). Amcanestyniadau aelwydydd yn ôl math o aelwyd a'r flwyddyn. [Ar-lein]. Ar gael yn: Amcanestyniadau aelwydydd yn ôl math o aelwyd a'r flwyddyn.

hunangynhwysol dros dro (72 ystafell wely/uned) ac wedi'u lleoli ar draws y pedair AMD. Mae'r 5 sy'n weddill yn eiddo a rennir (34 ystafell wely/uned), ac maent i gyd wedi'u lleoli yn AMD Aberystwyth.

Mae'r 45 eiddo llety brys hunangynhwysol (cyfanswm o 72 gwely) wedi'u lleoli ar draws y pedair AMD ac yn amrywio o eiddo 1 ystafell wely, 2 ystafell wely a 3 ystafell wely. Mae'r rhain wedi'u lleoli fel a ganlyn:

**Tabl 22: Llety brys/dros dro (hunangynhwysol) gan AMD a nifer yr ystafelloedd gwely yng Ngheredigion.**


| AMD | 1-ystafell | 2- ystafell | 3- ystafell | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Aberystwyth | 19 | 10 | 5 | 33 |
| Arfordirol | 1 | 0 | 0 | 1 |
| Arall | 0 | 1 | 0 | 1 |
| Dyffryn Teifi | 4 | 4 | 1 | 10 |
| Cyfanswm | 24 | 15 | 6 | 45 |

*(Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion, Tîm Digartrefedd 2023).*

Fel yr adlewyrchir yn y Tabl uchod, mae'r mwyafrif o'r llety brys wedi'i leoli yn AMD Aberystwyth (33 eiddo), ac yna AMD Dyffryn Teifi (10 eiddo), ac yna AMD Arfordirol a'r AMD Arall gydag 1 eiddo ym mhob un. Mae pob un o'r 5 eiddo llety brys a rennir (34 uned) wedi'u lleoli yn AMD Aberystwyth. Maent yn amrywio o eiddo 4 ystafell wely i 8 ystafell wely, ac fe'i defnyddir ar gyfer pobl sydd wedi cyflwyno eu hunain yn ddigartref am wahanol resymau, gan gynnwys pobl sy'n cysgu allan neu'n syrffwyr soffa.

Fel yr amlinellir yn Ffigur 51, roedd 81 o aelwydydd (140 o bobl) mewn llety dros dro ar ddiwedd mis Mai 2023. Roedd hyn yn gynnydd o 5% o'i gymharu â'r nifer y flwyddyn ynghynt, ac mae'n rhan o duedd gynyddol o aelwydydd mewn llety dros dro ers 2020.

**Ffigur 51: Aelwydydd mewn Llety Dros Dro yng Ngheredigion (2018-2023).**




*(Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion, Tîm Digartrefedd 2023).*

Ers dechrau pandemig COVID-19 mae nifer yr aelwydydd mewn llety dros dro wedi cynyddu'n fawr gyda'r nifer ym Mehefin 2021 77% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Mae'r cynnydd mawr yn nifer yr aelwydydd i'w briodoli'n bennaf i Lywodraeth Cymru yn cyflwyno'r cynllun 'Neb Heb Help'. Roedd hyn yn golygu bod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu llety dros dro i unrhyw un a oedd yn ddigartref, ni waeth beth oedd ei statws angen blaenoriaethol o dan y ddeddfwriaeth ddigartrefedd. Ffactor ychwanegol yw'r opsiynau tai annigonol ar gyfer pobl yn y sir. Arweiniodd newidiadau yn y ddeddfwriaeth budd-daliadau yn y gorffennol at angen a nodwyd am un ystafell wely fforddiadwy a llety a rennir ar gyfer y rhai o dan 35 oed. Mae hyn yn arbennig o wir am drigolion mewn llety dros dro, gan bwysleisio'r angen sylweddol am eiddo llai.

Mae tystiolaeth yn dangos bod diffyg sylweddol yn y ddarpariaeth bresennol o lety dros dro/brys yng Ngheredigion:

- Mae Gwasanaeth Tai'r Awdurdod Lleol yn rhoi defnyddwyr gwasanaeth mewn gwely a brecwast/gwestai a lleoliadau lloches. Mae lleoliadau gwely a brecwast wedi bod yn cynyddu'n raddol ers dechrau'r pandemig. Cydnabyddir bod y defnydd o lety gwely a brecwast yn ddrud, yn annigonol ac yn cael effeithiau negyddol hirdymor ar bobl ddigartref.
- Mae stoc arall yn cael ei ddefnyddio fel llety dros dro oherwydd y galw uchel. Mae 10 uned o dan Brosiect Troseddwyr a Lleihau Niwed Awdurdodau Lleol (llety a rennir â chymorth) yn cael eu defnyddio fel llety dros dro, ond nid ydynt wedi'u neilltuo at y diben hwn. Ymhellach, bwriedir i eiddo 6 ystafell wely yn AMD Aberystwyth fod yn llety cam-i-lawr/symud ymlaen, fodd bynnag, mae'n cael ei ddefnyddio fel llety dros dro.
- Mae'r Gwasanaeth Tai wedi bod yn cynnal rhestr aros ar gyfer llety dros dro ers pandemig COVID-19 gan nad yw'n gallu darparu ar gyfer pawb.

### *Math a lefel o anghenion a darpariaeth yn y dyfodol*

Mae'n anodd modelu'r gofynion ar gyfer y math hwn o lety yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd yr angen yn lleihau yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, mae diffyg sylweddol mewn llety dros dro yng Ngheredigion y bydd angen ei ateb. At hynny, efallai y bydd yr adolygiad o'r ddeddfwriaeth ddigartrefedd gan Lywodraeth Cymru yn cael effaith ar angen yn y dyfodol oherwydd gallai hyn olygu cael gwared ar angen blaenoriaethol/bwriadoldeb a fyddai'n gwreiddio 'Neb Heb Help' yn y ddeddfwriaeth.

Yn ogystal â'r uchod, bydd angen a darpariaeth yn y dyfodol hefyd yn cael ei bennu gan y ddarpariaeth o stoc tai addas a nifer y ffoaduriaid sy'n symud i'r ardal. Er bod y rhan fwyaf o deuluoedd ffoaduriaid yn cael eu cartrefu yn y sector rhentu preifat a chymdeithasol neu'n byw gyda theuluoedd lletyol, efallai y bydd angen llety dros dro arnynt yn y dyfodol, yn enwedig os yw'r stoc tai yn anaddas/anfforddiadwy.

Ar ddiwedd mis Mehefin 2023 roedd 15 o deuluoedd ffoaduriaid yn byw mewn llety rhent preifat ac roedd 24 o deuluoedd yn byw gyda lletywyr yn y cynllun Cartrefi i Wcráin.[123] Ar hyn o bryd, mae 2 o'r teuluoedd sydd mewn llety rhent preifat yn wynebu digartrefedd oherwydd bod eu landlord yn gwerthu'r eiddo (mae angen tai 3-4 ystafell wely ar y ddau deulu hyn). At hynny, bydd angen i deuluoedd sy'n byw gyda lletywyr ddod o hyd i lety arall neu symud i rywle arall yn y dyfodol. Gan fod yr awdurdod lleol wedi ymrwymo i dderbyn nifer o deuluoedd ffoaduriaid o fewn cyfnod yr AFDL, gallai'r broblem hon waethygu yn y dyfodol.

[123] Tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant Cygnor Sir Ceredigion (2023).

Fel rhan o'r Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym, mae Ceredigion yn gweithio tuag at weithredu'r dull 'Ailgartrefu Cyflym', a bydd y portffolio o lety dros dro yn cael ei adolygu'n barhaus ac yn cael ei addasu yn ôl yr angen. Ar hyn o bryd mae opsiynau ar gyfer unedau llety a rennir ar gyfer pobl sengl yn Aberteifi, sydd o fewn AMD Dyffryn Teifi, yn cael eu harchwilio.

### 1.4.4. Anghenion Tai, Gofal a Chymorth

Mae canllawiau'r AFDL yn nodi y dylai'r asesiad ystyried anghenion gofal a chymorth trigolion. Mae hyn yn cynnwys gofal ychwanegol, byw â chymorth i bobl ag anabledd dysgu a/neu anhwylder ar y sbectrwm awtistiaeth, llety gwarchod, gofal nyrsio a gofal preswyl. Un o'r uchelgeisiau a nodir yn Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru yw *"mae pobl hŷn yn cael gafael ar dai a gwasanaethau sy'n cefnogi eu hanghenion ac yn hyrwyddo annibyniaeth"*.[124]

#### *Math a lefel bresennol o anghenion a darpariaeth*

Mae Tabl 23 isod yn dangos y ddarpariaeth bresennol o stoc byw â chymorth, llety gwarchod a gofal ychwanegol ar draws y sir yn 2023. Ar hyn o bryd mae 406 o unedau tai gwarchod ar gyfer pobl hŷn, 18 o unedau byw â chymorth i breswylwyr ag anableddau dysgu, a 104 o unedau gofal ychwanegol yng Ngheredigion.

**Tabl 23: Llety arbenigol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth yn ôl Ardaloedd Marchnad Dai Ceredigion (2023).**

| Ardal Marchnad Dai | Math o Lety | | |
|---|---|---|---|
| | Tai gwarchod | Byw â chymorth | Cynlluniau Gofal Ychwanegol |
| Aberystwyth | 172 | 11 | 48 |
| Arall | 0 | 4 | 0 |
| Arfordirol | 56 | 0 | 0 |
| Dyffryn Teifi | 178 | 3 | 56 |
| **Ceredigion** | **406** | **18** | **104** |

*(Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion, Gwasanaeth Tai a Gwasanaeth Oedolion (2023); Cymdeithas Tai Wales and West (2023); Caredig (2023))*

Fel yr adlewyrchir yn Nhabl 23 uchod, mae'r mwyafrif o'r llety arbenigol wedi'i leoli o fewn AMD Aberystwyth a Dyffryn Teifi. Mae 406 o dai gwarchod ar draws y sir (303 yn 1 ystafell wely a 102 yn 2+ ystafell wely). Yn ogystal, mae dau Gynllun Gofal Ychwanegol gyda chyfanswm o 104 o unedau. Mae hyn yn cynnwys Maes Mwldan yn AMD Dyffryn Teifi (mae hyn yn cynnwys 48 o fflatiau 1 a 2 ystafell wely), a Maes y Môr yn AMD Aberystwyth (mae hyn yn cynnwys 56 o fflatiau 1 a 2 ystafell wely). Mae 18 eiddo yn cael eu defnyddio ar gyfer

[124] Llywodraeth Cymru (2013) Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru. Ar gael yn: the-strategy-for-older-people-in-wales-2013-2023.pdf (gov.wales)

byw â chymorth ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yng Ngheredigion a all ddarparu lle ar gyfer hyd at 47 o bobl.

Ar hyn o bryd, mae angen heb ei ateb ar gyfer pob un o'r tri math o lety arbenigol ar draws Ceredigion (tai gwarchod, gofal ychwanegol a byw â chymorth). Mae pob un o'r unedau llety gwarchod a gofal ychwanegol yn cael eu meddiannu, tra bod chwech o'r unedau byw â chymorth yn wag. Fodd bynnag, mae trafodaeth â'r Adran Gofal Cymdeithasol yn dangos nad yw'r unedau gwag yn adlewyrchiad cywir o'r diffyg angen am y math hwn o lety. Er enghraifft, efallai y bydd preswylydd angen llety byw â chymorth ond efallai na fydd yn addas ar gyfer y bobl eraill sy'n byw yn y llety. Yn gyffredinol, mae'r angen mwyaf am lety gwarchod, ac yna gofal ychwanegol a byw â chymorth.

Fel yr adlewyrchir yn Nhabl 24 isod, ym mis Mehefin 2023 roedd angen llety gwarchod ar 144 o bobl ar y Gofrestr Tai Cyffredin. Mae'r data hwn yn dangos bod yr angen mwyaf am lety gwarchod yn AMD Aberystwyth, sef dros hanner cyfanswm yr angen (57%/82 o ymgeiswyr). O ran gofal ychwanegol, mae 82 o bobl ar Gofrestr Tai Cyffredin Ceredigion (Mehefin 2023) yn aros am eiddo gofal ychwanegol yng Ngheredigion. Eto, mae'r mwyafrif helaeth o'r angen hwn o fewn AMD Aberystwyth, sef ychydig o dan dri chwarter (73%) o gyfanswm yr angen.

**Tabl 24: Nifer yr ymgeiswyr ar y Gofrestr Tai Cyffredin sy'n aros am lety Tai Gwarchod a Gofal Ychwanegol (Mehefin 2023).**

| Ardal Marchnad Dai | Math o Lety | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Tai gwarchod (ymgeiswyr yn aros) | | Gofal Ychwanegol (ymgeiswyr yn aros) | |
| | Nifer. | % * | Nifer. | % * |
| Aberystwyth | 82 | 57% | 60 | 73% |
| Arall | 5 | 3% | 2 | 2% |
| Arfordirol | 14 | 10% | 1 | 1% |
| Dyffryn Teifi | 43 | 30% | 19 | 23% |
| Ceredigion | 144 | 100% | 82 | 100% |

*Efallai na fydd y ffigurau'n adio oherwydd talgrynnu.
*(Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion, Gwasanaeth Tai 2023).*

O ran eiddo byw â chymorth ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, mae trafodaeth â'r Adran Gofal Cymdeithasol yn dangos bod angen mwy o ddarpariaeth, yn enwedig o fewn AMD Dyffryn Teifi. Ategir hyn ymhellach gan yr asesiad o anghenion tai a llety ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yng Ngorllewin Cymru hyd at 2037.[125]

Mae dewisiadau tai ar gyfer pobl 18+ oed ag anabledd dysgu yn gyfyngedig yng Ngheredigion, ac mae'r mwyafrif yn byw gyda'u teulu neu ofalwyr anffurfiol. Yr opsiynau sydd ar gael i oedolion 18+ oed ag anabledd dysgu yw naill ai cartref preswyl neu fyw â chymorth ar ffurf ystafell mewn tŷ a rennir. Mae tua 129 o'r 395 o oedolion 18+ oed ag anableddau dysgu yn cael eu cartrefu mewn eiddo byw â chymorth sy'n gyfwerth â 33%.

[125] LIN Tai (2018) Asesiad o anghenion tai a llety ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yng Ngorllewin Cymru. Ar gael yn: Need and demand assessment: supported and specialised housing – Our services – Consultancy – Housing LIN

(*Mae rhai trigolion yn cael eu cefnogi gan Gyngor Sir Ceredigion ond yn byw y tu allan i'r sir*).

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw leoliadau ar gyfer pobl agored i niwed sy'n dioddef o gyflwr iechyd meddwl yng Ngheredigion. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn ystyried sut i lenwi'r bwlch hwn yn y ddarpariaeth. Ymhellach, nodwyd bod angen adnewyddu rhai eiddo byw â chymorth i'w wneud yn fwy addas i drigolion sy'n byw yno.

### *Math a lefel o anghenion a darpariaeth yn y dyfodol*

Mae poblogaeth Ceredigion yn heneiddio. Yn ôl yr amcanestyniad poblogaeth a ffafrir a ddefnyddir yn yr offeryn AFDL (amrywiad uwch), rhagwelir y bydd poblogaeth 65+ Ceredigion yn tyfu i 22,858 erbyn 2037, ac o 19,031 i 22,858 erbyn 2037 ar gyfer y rhai 75+ oed.[126]

Un mater strategol allweddol i'w ystyried yw sut mae'r nifer amcanestynedig o bobl hŷn yn trosi i'r angen am dai/llety arbenigol, megis gofal ychwanegol, llety gwarchod, gofal preswyl a chartrefi gofal nyrsio, a beth allai effaith goblygiadau unrhyw gyflenwad newydd ei chael ar y ddarpariaeth bresennol.

Er mwyn deall y mathau a lefel yr anghenion a'r ddarpariaeth sydd eu hangen yn y dyfodol ar gyfer llety arbenigol, defnyddir model nifer yr achosion Tai Strategol i Bobl Hŷn y Rhwydwaith Tai, Dysgu a Gwella (LIN). Mae'r dull hwn yn nodi'r angen tebygol am gynhyrchion arbenigol fesul 1,000 o'r boblogaeth a ragwelir yn y dyfodol ac mae'n fethodoleg a dderbynnir ac a gymeradwyir gan Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn pennu cyfraddau nifer yr achosion lleol ar gyfer gwahanol fathau o dai arbenigol yng Ngheredigion (i'w weld yn Nhabl 25 isod). Mae'r rhain wedi'u diweddaru trwy ddefnyddio Amcanestyniadau Canol Blwyddyn 2021 a phroffil stoc i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol yng Ngheredigion.

Tabl 25: Ffigurau meincnod ar gyfer Tai Arbenigol Pobl Hŷn ar gyfer Ceredigion – model LIN/SHOP Tai. (Cyffredinolrwydd fesul 1,000).

| Math o Lety Arbenigol | Unedau/gwelyau presennol | Cyfradd mynychder presennol (fesul 1,000 o bobl 75+ oed) | Cyfradd mynychder Cymru | Cyfradd mynychder amcangyfrifedig 2037 |
|---|---|---|---|---|
| **Tai i bobl hŷn** [127] | 406 | 48 | 106 | 80 |
| **Tai â Gofal** [128] | 104 | 7 | 10 | 15 |
| **Gofal Preswyl** [129] | 288 | 34 | 38 | 30 |
| **Gofal Nyrsio**[130] | 207 | 24 | 36 | 40 |

[126] StatsCymru (2020) Amcanestyniadau o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn. Ar gael yn: Amcanestyniadau o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn (llyw.cymru)
[127] **Tai i bobl hŷn**: tai gwarchod cyfoes a thai wedi'u dynodi yn ôl oedran ar gyfer rhent cymdeithasol a thai ymddeol ar werth. Bydd hyn yn cynnwys cynlluniau gyda chymorth staff ar y safle, y rhai â gwasanaethau cymorth lleol a chynlluniau heb unrhyw wasanaethau cymorth cysylltiedig.
[128] **Tai â Gofal:** yn cynnwys tai gofal ychwanegol ar gyfer rhent cymdeithasol a thai gofal ychwanegol ar werth (a elwir yn aml yn byw gyda chymorth yn y sector preifat), gyda gofal 24/7 ar gael ar y safle.
[129] **Gofal Preswyl**: llety preswyl ynghyd â gofal personol.
[130] **Gofal Nyrsio:** llety preswyl ynghyd â gofal nyrsio.

**Cytunwyd ar y cyfraddau mynychder amcangyfrifedig gyda Chyngor Sir Ceredigion gan y LIN Tai yn 2018.[131] (Ffynhonnell: LIN Tai (2020). [132], SYG – 2021 Amcangyfrifon Canol Blwyddyn[133], Arolygiaeth Gofal Cymru (2023) [134] Cyngor Sir Ceredigion 2023).*

Cytunwyd ar y cyfraddau nifer yr achosion amcangyfrifedig (gweler uchod) gyda Chyngor Sir Ceredigion gan Housing LIN yn 2018, ac felly maent wedi dyddio ychydig.[135] Gan ddefnyddio'r cyfraddau nifer yr achosion awgrymedig hyn (cyfeiriwch at Dabl 25 uchod), cynhyrchir amcangyfrifon o'r galw yn y dyfodol am dai a llety arbenigol yn seiliedig ar nifer yr achosion tebygol ar gyfer pob math o dai/llety wedi'i luosi â'r newid yn y boblogaeth 75+ a ragwelir hyd at 2037 (gan ddefnyddio'r amcanestyniadau amrywiad uwch seiliedig ar 2018). Yna caiff y galw sy'n deillio ohono ei gymharu â'r stoc bresennol er mwyn sefydlu'r gofyniad amcanestynedig (cyfeiriwch at Dabl 26 isod).

**Tabl 26: Rhagamcan o'r gofyniad am lety arbenigol ar gyfer aelwydydd pobl hŷn yng Ngheredigion dros gyfnod yr AFDL.**

| | Proffil Sylfaen (2021) | Proffil Rhagamcan (2037) | Unedau ychwanegol sydd eu hangen erbyn 2037 |
|---|---|---|---|
| **Tai Gwarchod / Tai i bobl hŷn** | 406 | 956 | +550 |
| **Gofal Ychwanegol** | 104 | 179 | +75 |
| **Gofal Preswyl** | 288 | 359 | +71 |
| **Gofal Nyrsio** | 207 | 478 | +271 |

I grynhoi, mae hyn yn dangos mai'r gofynion net amcangyfrifedig ar gyfer Ceredigion dros gyfnod y cynllun AFDL (2022-2037) yw 550 o unedau gwarchod ychwanegol, 75 o unedau gofal ychwanegol, 71 o welyau gofal preswyl a 271 o welyau gofal nyrsio. Bydd rhywfaint o'r gofyniad ychwanegol am ofal ychwanegol yn cael ei ddarparu ar ei gyfer gan Gynllun Adnoddau a Gofal Ychwanegol Integredig Cylch Caron sy'n cynnwys 34 o fflatiau hunangynhwysol a 6 Uned Iechyd gysylltiedig y cynllunnir ar eu cyfer ar hyn o bryd.

Mae'n bwysig nodi mai amcangyfrifon lefel uchel yw'r rhain o'r gofynion yn y dyfodol am dai a llety arbenigol i bobl hŷn yn seiliedig ar gyfraddau nifer yr achosion tybiedig ac amcanestyniadau poblogaeth. Felly, dim ond fel *canllaw* y dylid eu defnyddio. Mae'n bosibl y bydd y rhaniad yn y dyfodol rhwng llety gwarchod a gofal ychwanegol yn wahanol i'r hyn a adlewyrchir uchod, gyda mwy o angen am unedau gofal ychwanegol a llai o angen am lety gwarchod, oherwydd twf disgwyliedig mewn comisiynu ar gyfer gofal ychwanegol a'r diddordeb diweddar yn y math hwn o lety (fel yr adlewyrchir yn y Gofrestr Tai Cyffredin). Mae'r gofyniad am 550 o dai i bobl hŷn (gwarchod) yn anomaledd ac yn llawer uwch na'r disgwyl, a chaiff hyn ei ail-ymchwilio wrth ailysgrifennu'r AFDL.

---

[131] LIN Tai (2018). Asesiad o'r Galw Arbenigol am Dai a Llety ar gyfer Pobl Hŷn yng Ngorllewin Cymru ar gyfer Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru.

[132] LIN Tai (2020). Asesiad o’r galw am dai a llety arbenigol i bobl hŷn yng Nghymru. Ar gael yn: [Independent report on accommodation for older people (gov.wales)]

[133] StatsCymru (2022). Amcangyfrifon o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol ac oedran. Ar gael yn: [Population estimates by local authority and age (gov.wales)].

[134] Arolygiaeth Gofal Cymru (2023). Gwasanaethau Cartref Gofal. Ar gael yn: [Microsoft Power BI].

[135] LIN Tai (2018). Asesiad o'r Galw Arbenigol am Dai a Llety ar gyfer Pobl Hŷn yng Ngorllewin Cymru ar gyfer Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru.


### 1.4.5. Anghenion Lleoliadol ar gyfer Llety Myfyrwyr

Fel yr adlewyrchir yng nghanllawiau AFDL Llywodraeth Cymru, rhaid ystyried anghenion lleoliadol trigolion, megis lleoliadau ar gyfer llety myfyrwyr yn agos at y brifysgol. Mae gan Geredigion ddwy brifysgol, sef Prifysgol Aberystwyth sydd wedi'i lleoli o fewn AMD Aberystwyth a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (Campws Llanbedr Pont Steffan) sydd wedi'i lleoli o fewn AMD Dyffryn Teifi. Er mwyn deall yn llawn yr anghenion lleoliadol ar gyfer llety myfyrwyr ar draws y sir, ymgysylltwyd â'r ddwy brifysgol, a chafwyd gwybodaeth werthfawr am anghenion a darpariaeth nawr ac yn y dyfodol.

#### *Prifysgol Aberystwyth*

Yn ôl yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA), mae nifer y myfyrwyr sydd wedi cofrestru ym Mhrifysgol Aberystwyth wedi bod yn gostwng yn raddol ers cyrraedd cyfnod brig yn 2011/12. Ers y flwyddyn academaidd 2011/12, mae nifer y myfyrwyr wedi gostwng 33% (3,860 o fyfyrwyr). Fodd bynnag, ers yr AFDL blaenorol yn 2019, mae'r boblogaeth myfyrwyr wedi parhau'n weddol sefydlog, gyda thua 7,000-8,000 o gofrestriadau bob blwyddyn (gweler Ffigur 52 isod).

**Ffigur 52: Nifer y myfyrwyr sydd wedi cofrestru ym Mhrifysgol Aberystwyth (2008/09-2021/22).**




*(Ffynhonnell: HESA 2023)*

Mae HESA hefyd yn darparu data ar lety yn ystod y tymor i fyfyrwyr sydd wedi cofrestru yn y brifysgol. Mae data o Brifysgol Aberystwyth yn dangos bod 2,055 o fyfyrwyr yn cael eu cartrefu mewn eiddo a gynhelir gan ddarparwyr tra bod 1,190 mewn neuaddau sector preifat a 1,665 mewn llety rhent 'arall'. Mae'r gweddill yn cael eu cartrefu gartref gyda

rhieni/gwarcheidwaid (145), yn eu cartref eu hunain (430), ddim yn mynychu gyda'r darparwr (130), arall, neu ddim yn hysbys (330).[136]

Er y bu gostyngiad bach yn nifer y myfyrwyr ers blwyddyn academaidd 2017/18 (-340 o fyfyrwyr), yn 2021/22 gwelwyd y nifer uchaf o'r rhai a gartrefwyd mewn eiddo a gynhelir gan ddarparwyr yn y 5 mlynedd diwethaf sy'n awgrymu bod yr angen yn cynyddu am y math hwn o lety.

### *Twf amcanestynedig*

Rhagwelir y bydd nifer y myfyrwyr sy'n astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth yn cynyddu yn y dyfodol. Yn ôl y Rhagolygon Cynllunio Myfyrwyr (a gynhyrchwyd gan Brifysgol Aberystwyth), mae disgwyl i nifer y myfyrwyr gynyddu gan oddeutu 1,000 o fyfyrwyr dros y pum mlynedd nesaf.[137] Mae'n debygol bod hyn i'w briodoli i'r cynnydd diweddar yn nifer y myfyrwyr sy'n cofrestru a ffactorau ychwanegol megis ehangu'r amrywiaeth o bynciau a gynigir gan y Brifysgol (e.e. Ysgol Gwyddor Filfeddygol ac Arloesi Aber), a chynnal safle cryf ar gyfer boddhad myfyrwyr prifysgolion (safle 1[af] yng Nghymru a Lloegr am y 6 blynedd diwethaf).[138]

Bydd y twf amcanestynedig hwn yn nifer y myfyrwyr yn debygol o arwain at fwy o angen am lety myfyrwyr o fewn AMD Aberystwyth. Mae'r Brifysgol yn disgwyl i hanner y cynnydd a ragwelir (tua 500 o fyfyrwyr) gael ei gartrefu yn y sector rhentu preifat. Fodd bynnag, mae prinder difrifol o lety myfyrwyr addas yn y sector rhentu preifat. Yn ôl y Brifysgol, mae llawer o landlordiaid preifat yn gwerthu eu heiddo ac yn rhoi'r gorau i rentu i fyfyrwyr, ac mae hyn yn arwain at ddiffyg llety preifat yng Ngheredigion. Eglurir hyn yn rhannol gan y newidiadau deddfwriaethol diweddar a gafodd ei chyflwyno gan Lywodraeth y DU[139] sy'n gorfodi llawer o landlordiaid preifat i werthu ac felly'n lleihau'r cyflenwad o gartrefi yn y sector rhentu preifat.

Yn wyneb yr uchod, gall y twf amcanestynedig yn nifer y myfyrwyr greu heriau llety, yn enwedig os disgwylir y bydd 500 o fyfyrwyr angen llety o fewn y sector rhentu preifat erbyn 2027.

### ***Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant – Campws Llanbedr Pont Steffan***

Mae campws Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan hefyd wedi gweld gostyngiad yn ei boblogaeth myfyrwyr. Er nad yw data HESA ar gyfer campws Llambed ar gael yn uniongyrchol, mae tystiolaeth yn awgrymu bod y niferoedd wedi gostwng o dros 2,000 yn 2009/10 (cyn sefydlu Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant) i ddim ond 154 yn 2022/23.[140]

Mae'r holl lety ar gyfer Campws Llanbedr Pont Steffan Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn cael ei ddarparu ar y campws ac felly wedi'i leoli yn nhref Llanbedr Pont Steffan ei hun (o fewn AMD Dyffryn Teifi). Mae cyfanswm o 236 o ystafelloedd ar gael, sy'n cynnwys 156 o

---

[136] HESA (2023). Full-time and sandwich HE student enrolments by HE provider and term-time accommodation. Ar gael yn: Where do HE students study? | HESA

[137] Prifysgol Aberystwyth – Rhagolygon Cynllunio Myfyrwyr.

[138] Prifysgol Aberystwyth (2023) – Gwobrau a Safleoedd. Ar gael yn: Gwobrau ac Acolâdau: Amdanom Ni, Prifysgol Aberystwyth


[139] UK Gov (2023). Tenancy reform: Renters (Reform) Bill. Ar gael yn: Tenancy reform: Renters (Reform) Bill – GOV.UK (www.gov.uk)

[140] Prifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant (2023) – Data cyfrif pennau'r Swyddfa Llety.

ystafelloedd ensuite ac 84 o ystafelloedd safonol gyda chyfleusterau a rennir. Yn ôl y Brifysgol, mae galw uwch am yr ystafelloedd ensuite o'i gymharu â'r ystafelloedd safonol.

Mae Ffigur 53 isod yn dangos canran y llety ar y campws a feddiannwyd rhwng y blynyddoedd academaidd 2018/19 a 2022/23. Yn y flwyddyn academaidd 2021/22 gwelwyd y ganran isaf o feddiannaeth gyda dim ond 44% o'r llety myfyrwyr yn cael ei feddiannu. Cynyddodd hyn yn 2022/23 i 53%, ond ni chyrhaeddodd y ffigurau hyn lefelau meddiannaeth 2018/19 a 2019/20, sef 75% a 73%.

**Ffigur 53: Canran y llety ar Gampws Llambed a feddiannwyd rhwng blynyddoedd academaidd (2018/19 i 2022/23).**





*(Ffynhonnell: Swyddfa Llety Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant 2023)*

Nododd y Swyddfa Llety fod digon o ystafelloedd ar gyfer yr holl fyfyrwyr sydd wedi gwneud cais am y flwyddyn academaidd 2023/24.

***Twf amcanestynedig***

Yn ôl amcanestyniadau Myfyrwyr Llanbedr Pont Steffan Tir Glas, mae disgwyl i nifer y myfyrwyr sy'n astudio ar Gampws Llanbedr Pont Steffan gynyddu dros y pum mlynedd nesaf, cyn cyrraedd brig o 349 o fyfyrwyr yn y flwyddyn academaidd 2028/29. Mae Ffigur 54 isod yn dangos nifer amcanestynedig y myfyrwyr rhwng 2024/25 a 2028/29. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys myfyrwyr israddedig, ôl-raddedig a'r rhai sy'n astudio dramor.

**Ffigur 54: Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant – amcanestyniadau myfyrwyr Campws Llambed (2024/25 i 2028/29).**




*(Ffynhonnell: Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant – Amcanestyniadau Myfyrwyr Tir Glas 2023).*

Er bod cynnydd amcanestynedig yn nifer y myfyrwyr dros y blynyddoedd academaidd nesaf, rhagdybir y bydd y llety presennol yn ateb yr angen ychwanegol yn ddigonol. Tynnodd y Brifysgol sylw at y ffaith y gellid adnewyddu'r llety diangen pe bai angen.

Amcangyfrifir y bydd cynnydd yn nifer y bobl broffesiynol sy'n dilyn cyrsiau. Yn y pen draw, gallai hyn olygu y gallai fod cynnydd yn y llety dros dro sydd ar gael i fyfyrwyr aros yn rhan-amser yn ystod yr wythnos, tra eu bod nhw'n byw yn eu cartrefi eu hunain am weddill yr wythnos. Mae'r Brifysgol yn nodi bod ganddi ddigon o leoedd i addasu eiddo ar gyfer y rhai a fyddai am fyw ar y campws yn rhan-amser.

I gychwyn, nododd y rhagolygon bod angen llety i deuluoedd ar Gampws Llanbedr Pont Steffan. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd hyn yn ofynnol oherwydd newid Llywodraeth y DU i ddeddfwriaeth fisa yn 2023 sy'n golygu na all myfyrwyr rhyngwladol ddod ag aelodau o'u teuluoedd gyda nhw ar fisas dibynyddion.

## 2. Dadansoddiad o Newid

Mae'r adran hon yn nodi'r allbynnau ar gyfer yr angen am dai o'r offeryn AFDL gan ddefnyddio'r amrywiad amcanestyniad a ffafrir gennym (amrywiad uwch) ac yn ei gymharu â'r allbynnau o'r AFDL blaenorol yn 2019. Gan mai dyma'r tro cyntaf i'r AFDL gael ei baratoi trwy ddefnyddio'r offeryn AFDL newydd, bu'n anodd cymharu ag amcangyfrifon blaenorol yr AFDL o'r angen am dai ychwanegol, ac roedd ffynonellau data a thybiaethau yn anodd mewn rhai ardaloedd. Yn gyntaf, bydd y gwahaniaeth rhwng y ddwy fethodoleg yn cael ei amlygu, cyn symud ymlaen i ddadansoddi'r newidiadau rhwng y ddwy set o allbynnau.

## 2.1. Gwahanol Methodoleg

Yn ystod yr AFDL blaenorol, roedd canllawiau 2014 yn berthnasol,[141] ers hynny mae'r canllawiau,[142] y fethodoleg a'r offeryn AFDL diweddaraf wedi cael eu cyhoeddi sy'n disodli'r holl ganllawiau blaenorol. Roedd hyn yn golygu bod y dull blaenorol o nodi'r angen am dai ledled Ceredigion yn wahanol. Cafodd AFDL 2019 ei gynnal gan Opinion Research Services (ORS) ac fe'i comisiynwyd fel rhan o gydweithrediad rhanbarthol i baratoi sylfaen dystiolaeth gyson ar anghenion tai wyth awdurdod lleol yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru. Defnyddiwyd model ORS i bennu gofynion tai dros gyfnod yr AFDL (2018-2033).

Mae model ORS yn wahanol i'r offeryn AFDL gan ei fod yn defnyddio data ffynhonnell agored eilaidd yn unig, tra bod yr offeryn AFDL yn defnyddio tystiolaeth leol (e.e. ymgeiswyr Cofrestr Tai a chynlluniau ar gyfer y dyfodol ar gyfer stoc tai fforddiadwy gan Gymdeithasau Tai) yn ogystal â data eilaidd. Roedd y mewnbwn data a'r opsiynau tybiaeth hefyd yn amrywio, ac mae crynodeb o'r hyn a ddefnyddiwyd yn yr AFDL blaenorol wedi'i gynnwys isod.

Mae'r mewnbwn data a'r ffynonellau a ddefnyddiwyd o fewn y model ORS fel a ganlyn:

- Amcanestyniadau aelwydydd seiliedig ar 2014 (Llywodraeth Cymru).
- AMD yn seiliedig ar ffiniau wardiau 2011.
- Y ganran o aelwydydd yn y sector rhentu preifat sy'n derbyn budd-dal tai yn ôl maint aelwydydd (yr Adran Gwaith a Phensiynau).
- Neilltuo aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau tai yn y sector rhentu preifat yn ôl maint ystafelloedd gwely a maint y cartref (yr Adran Gwaith a Phensiynau).
- Newid net ôl-groniad yn ôl deiliadaeth ac is-ardal – aelwydydd cudd a digartref (Ystadegau Cymru a Chyfrifiad 2011) a gorlenwi mewn tai marchnad (Cyfrifiad 2011).

Mae'r tybiaethau a ddefnyddiwyd fel a ganlyn:

- Cyfradd tai gwag – (9.0%)
- Cyfnod ôl-groniad – (5 mlynedd)
- Rhent canolradd:
    - Canran a berchnogir gan drydydd parti – (30%)
    - Rhent a dalwyd ar ranberchnogaeth – (1.75%)
    - Blaendal – (5%)
    - Tymor y morgais – (30 mlynedd)
    - Cyfradd llog y morgais (4.0%)

Un gwahaniaeth allweddol rhwng model ORS a'r offeryn AFDL yw bod model ORS yn ystyried y gall aelwydydd ddringo allan o angen fforddiadwy yn ogystal â disgyn i mewn iddo[143] tra bod yr offeryn AFDL yn rhagdybio bod angen llety fforddiadwy ar *bob* aelwyd yn ôl yr angen presennol heb ei ateb (sy'n deillio o'r gofrestr dai). Dyma un o'r rhesymau pam fod yr angen am dai fforddiadwy yn ystod pum mlynedd gyntaf cyfnod yr AFDL yn sylweddol uwch yn yr AFDL presennol o'i gymharu â'r AFDL blaenorol (2019).

[141] Llywodraeth Cymru (2014). Cychwyn llunio eich asesiadau marchnad dai leol – Canllaw cam wrth gam. Ar gael yn: [Asesiad o'r farchnad dai leol: canllawiau i awdurdodau lleol (llyw.cymru)]
[142] Llywodraeth Cymru (2022). Cynnal Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol. Ar gael yn: [WG43846 (llyw.cymru)]
[143] *Gwneir hyn trwy archwilio data yr Adran Gwaith a Phensiynau (hawlwyr budd-dal tai) yn ôl oedran a chymhwyso'r cyfraddau hyn i'r amcanestyniadau poblogaeth.*

Gwahaniaeth ychwanegol rhwng y ddau yw bod model ORS yn darparu allbynnau tai fforddiadwy ar lefel gros, ond mae offeryn AFDL yn darparu gofynion gros a net. Mae hyn oherwydd nad yw model ORS yn ystyried yr ailosodiadau tebygol yn y sector fforddiadwy presennol a'r cyflenwad yr ymrwymwyd iddo, rhywbeth roedd yr offeryn AFDL wedi'i wneud yn ystod y cyfnod stoc presennol a chyflenwad arfaethedig.

Defnyddiwyd amcanestyniadau aelwydydd gwahanol hefyd i gyfrifo angen newydd. Defnyddiodd yr AFDL blaenorol y prif amcanestyniadau aelwydydd seiliedig ar 2014, tra bod yr Asesiad hwn yn defnyddio amrywiad uwch aelwydydd seiliedig ar 2018. Mae'r gwahaniaethau mewn tueddiadau twf aelwydydd disgwyliedig yn yr amcanestyniadau yn sbardun pwysig ar gyfer y gwahaniaethau rhwng gofynion tai marchnad rhwng y ddau Asesiad gan fod y prif amcanestyniad seiliedig ar 2014 yn disgwyl twf sylweddol uwch na'r amrywiad uwch seiliedig ar 2018 (fel yr adlewyrchir yn adran 1.3.9.).

## 2.2. Amcanestyniadau Amrywiad Uwch

Mae Tabl 27 isod yn cymharu'r amcangyfrifon blynyddol ar gyfer yr angen am dai ychwanegol ar gyfer pum mlynedd gyntaf cyfnod yr AFDL yn yr AFDL blaenorol a'r AFDL presennol.

**Tabl 27: Amcangyfrifon blynyddol o'r angen am dai ychwanegol ar gyfer pum mlynedd gyntaf y cyfnod AFDL, net o gyflenwad cynlluniedig a throsiant y stoc bresennol.**

| Math o Ddeiliadaeth | | Ceredigion | AMD Aberystwyth | AMD Arall | AMD Arfordirol | AMD Dyffryn Teifi |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** yr angen amcangyfrifedig blynyddol am **dai** ychwanegol | Yr Asesiad Cyfredol | 167 | 71 | 12 | 33 | 50 |
| | Yr Asesiad Blaenorol | 202 | 39 | 32 | 43 | 87 |
| Yr angen amcangyfrifedig blynyddol am **dai ychwanegol ar y farchnad** | Yr Asesiad Cyfredol | 22 | 6 | 4 | 5 | 7 |
| | Yr Asesiad Blaenorol | 122 | 14 | 21 | 32 | 56 |
| Yr angen amcangyfrifedig blynyddol cyfartalog am **dai fforddiadwy** ychwanegol | Yr Asesiad Cyfredol | 145 | 65 | 8 | 28 | 43 |
| | Yr Asesiad Blaenorol | 80 | 26 | 12 | 12 | 31 |
| Yr angen amcangyfrifedig blynyddol am **dai canolradd** ychwanegol | Yr Asesiad Cyfredol | 46 | 22 | 3 | 5 | 17 |
| | Yr Asesiad Blaenorol | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A |
| Yr angen amcangyfrifedig blynyddol am dai **rhent cymdeithasol** ychwanegol | Yr Asesiad Cyfredol | 98 | 44 | 6 | 23 | 26 |
| | Yr Asesiad Blaenorol | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A |

Mae Tabl 27 uchod yn cymharu'r amcangyfrifon blynyddol ar gyfer yr angen am dai ychwanegol ar gyfer pum mlynedd gyntaf cyfnod yr AFDL yn yr AFDL blaenorol a'r AFDL presennol. Mae angen ystyried y gwahaniaeth methodolegol a adlewyrchir uchod wrth gymharu'r allbynnau. Yn ogystal, mae'r gofynion tai fforddiadwy sy'n defnyddio model ORS ar *lefel gros* ac nid *lefel net* sy'n wahanol i'r hyn a nodir yn y tabl.

Cyfanswm y gofyniad tai ar gyfer Ceredigion yn 2019 oedd 202 o'i gymharu â 167 yn 2023. Ar yr olwg gyntaf mae'r gostyngiad hwn (-35 o anheddau) i'w weld yn gredadwy gan fod y twf aelwydydd amcanestynedig a ddefnyddir yn yr offeryn AFDL (amrywiad uwch seiliedig ar 2018) yn sylweddol is na'r prif amcanestyniadau seiliedig ar 2014 a ddefnyddiwyd yn yr AFDL blaenorol. Fodd bynnag, mae'r rhaniad rhwng yr amcangyfrifon tai fforddiadwy a thai marchnad yn wahanol iawn rhwng y ddau. Yn 2019, y gofyniad am dai marchnad dros bum mlynedd gyntaf y cyfnod AFDL oedd 122, a'r gofyniad am dai fforddiadwy oedd 80, gan arwain at raniad o 60/40 ar gyfer tai marchnad a thai fforddiadwy. Mae'r AFDL presennol yn amcangyfrif y gwrthwyneb, gyda gofyniad net ar gyfer 87% (145) o gartrefi fforddiadwy a 13% (22) o dai marchnad o fewn y pum mlynedd gyntaf. Gellir priodoli rhywfaint o hyn i'r gwahaniaeth yn y dull o gyfrifo'r angen am dai.

O ran cyfanswm yr angen am dai ar draws yr AMD, mae rhai gwahaniaethau rhwng cyfanswm y gofynion cyffredinol, dosbarthiad yr angen cyffredinol, a dosbarthiad yr angen yn ôl deiliadaeth. Ym mhob AMD, ac eithrio Aberystwyth, mae cyfanswm yr angen am dai yn llai yn yr AFDL presennol na'r AFDL blaenorol. At hynny, mae trefn yr angen ar draws yr AMD wedi newid ychydig. AMD Dyffryn Teifi oedd â'r angen mwyaf am dai yn 2019 o'i gymharu ag AMD Aberystwyth yn yr AFDL presennol.

Yn ôl y disgwyl, mae'r gymhareb rhwng yr angen am dai fforddiadwy a thai marchnad yn wahanol. Ar draws yr holl AMD mae'r angen amcangyfrifedig am dai marchnad yn is yn yr AFDL presennol o'i gymharu â'r AFDL blaenorol, rhywbeth sydd i'w ddisgwyl o ystyried bod yr angen amcangyfrifedig cyffredinol am dai marchnad Ceredigion yn isel iawn (22). Mae'r gwahaniaeth mwyaf i'w weld yn AMT Dyffryn Teifi lle mae'r angen amcangyfrifedig am dai marchnad yn 7 o'i gymharu â 56 yn yr AFDL blaenorol (2019).

# 3. Crynodeb

## 3.1. Amcangyfrifon cyffredinol o’r angen am dai ychwanegol

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio ar draws pob adran i fynd i'r afael â'r angen cyffredinol am dai yn unol â chynlluniau a strategaethau'r Cyngor yn ogystal â'r Strategaeth Dai a gyhoeddwyd yn ddiweddar (2023-2028).

## 3.2. Amcangyfrifon o’r angen am dai marchnad ychwanegol

Mae'n siomedig nodi'r lefel isel o ofynion tai marchnad, yn enwedig yn sgil ein monitro a'n tystiolaeth ein hunain. Bydd y Cyngor yn ystyried hyn mewn unrhyw adolygiad o'i Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd. Ar hyn o bryd, mae'n

annhebygol o effeithio ar unrhyw benderfyniadau cynllunio unigol y gellir eu cyfiawnhau.

### 3.3. Amcangyfrifon o’r angen am dai fforddiadwy ychwanegol

O ystyried yr amcangyfrifon o'r angen am dai fforddiadwy, byddwn yn defnyddio'r cynnydd yng nghyllideb grant tai cymdeithasol ac yn gweithio ochr yn ochr â'n partneriaid Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i ddatblygu tai cymdeithasol gan ddefnyddio'r data i ganolbwyntio ar ardaloedd penodol ac anghenion tai. Bydd y Cyngor yn parhau i weithio ar draws pob adran i gael y nifer mwyaf o dai fforddiadwy.

## 4. Datganiad sicrwydd ansawdd

Gellir cadarnhau'r canlynol:


- Mae'r ffigurau yn y naratif yn cyfateb â'r rhai yn y tablau.
- Mae'r holl ffigurau yn gywir yn rhifyddol.
- Mae'r ffigurau wedi cael eu talgrynnu'n gyson.
- Mae'r data wedi'i gyrchu'n llawn gyda chyfeiriadau â throednodiadau, ac mae'r holl ffigurau/tablau yn cynnwys enw ffynhonnell isod; mae rhestr o gyfeiriadau i'w gweld ar dudalennau 95-98.
- Mae'r holl ffigurau/tablau wedi'u labelu ac mae rhestr lawn o'r rhain i'w gweld ar dudalennau 92-95.
- Mae'r holl gafeatau wedi cael eu nodi trwy gydol y ddogfen ac mae'r rhain yn cynnwys:
    - Lle gwnaed cymariaethau rhwng data 2019 a 2023 defnyddiwyd ffiniau AMD gwahanol. Ceir esboniad llawn am hyn yn Atodiad 1.
    - Lle gwnaed cymariaethau rhwng yr angen am dai yn 2019 a 2023, defnyddiwyd methodoleg gwahanol. Cyfeiriwch at Adran XX am fanylion pellach.
    - Wrth ddefnyddio'r model Housing LIN, defnyddiwyd data cyfradd nifer yr achosion disgwyliedig y cytunwyd arno gan Gyngor Sir Ceredigion, er y gellid ei ystyried bellach fel data sydd wedi dyddio. Fodd bynnag, nid yw'n effeithio ar gadernid y fethodoleg.
    - Lle defnyddiwyd model ORS yn Adran 1.4.4, ceir dadansoddiad llawn yn Adran 2.1. Defnyddiwyd data'r Adran Gwaith a Phensiynau o 2020, ac er y gellid ystyried bod hwn wedi dyddio bellach, nid yw'n effeithio ar gadernid y fethodoleg.
    - Lle mae'n bosibl na fydd y ffigurau'n adio oherwydd talgrynnu; mae hyn yn cynnwys dadansoddiad ar allbynnau'r offeryn AFDL.
    - Lle mae data ar goll (e.e. data heb ei gasglu yn ystod pandemig COVID-19).

# 1. Atodiadau

## Atodiad 1: Ardaloedd Marchnad Dai (AMD) Newidiadau i'r Ffiniau

Defnyddiodd yr AFDL blaenorol, a gynhyrchwyd yn 2019, ffiniau wardiau etholiadol 2011 i agregu AMD. Yr AMD oedd Aberystwyth, Arall, Arfordirol a Dyffryn Teifi. Roedd Ceredigion yn cynnwys 40 o wardiau a gellir gweld y rhaniad rhwng AMD isod:


**Ffigur 1: Ffiniau AMD 2019 a'r 40 Ffiniau Etholiadol.**




*(Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion 2023)*

Ar ôl i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gyhoeddi nifer o newidiadau i ffiniau wardiau etholiadol, rhoddwyd set newydd o 34 o wardiau etholiadol i Geredigion yn 2021. Roedd y newid i'r Wardiau Etholiadol yn golygu bod angen diwygio'r AMD i adlewyrchu'r newid, gan fod un ardal lle nad oedd y ffiniau yn alinio bellach. Mae Ffigur 2 isod yn dangos ffiniau AMD newydd ynghyd â wardiau etholiadol 2022. Dylid nodi bod AMD Aberystwyth ac Arall wedi parhau'r un fath ers yr AFDL blaenorol (2019). Mae AMD Arfordirol wedi ennill 29 Km² o AMD Dyffryn Teifi.


**Ffigur 2: Ffiniau AMD 2023 a'r 34 Ffiniau Etholiadol.**




(*Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion 2023*)

Mae Ffigur 3 isod yn dangos lle roedd rhan o ward Pen-parc (ward flaenorol) wedi cyfuno â ward Aber-porth (ward flaenorol) ac wedi creu ward newydd o'r enw Aber-porth a'r Ferwig (mae ffiniau'r hen wardiau wedi'u cynrychioli gan y llinellau du a'r ward newydd gan y llinellau coch). Penderfynodd gweithgor AFDL Cyngor Sir Ceredigion mai ward newydd Aber-porth a'r Ferwig oedd yn y lle gorau o fewn AMD Arfordirol. Mae hyn oherwydd bod gan yr ardaloedd i'r de-orllewin nodweddion tebyg i'r AMD Arfordirol e.e., mae Aber-porth yn lleoliad poblogaidd i dwristiaid arfordirol, mae Ceinewydd ac Aberaeron (y ddau wedi'u lleoli o fewn AMD Arfordirol) hefyd yn lleoliadau poblogaidd i dwristiaid arfordirol.

**Ffigur 3: Map yn amlygu'r newid yn ffiniau'r wardiau etholiadol sydd wedi newid ffiniau AMD Dyffryn Teifi a ffiniau AMD Arfordirol.**




*(Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion 2023)*

## Atodiad 2: Anghenion Tai Penodol – Ymgysylltu ac Ymgynghori â Rhanddeiliaid

Ymgymerwyd ag ymgysylltiad cychwynnol i gasglu data yn rhithwir (e-bost, galwad ffôn a galwad fideo) gyda rhanddeiliaid allweddol (Partneriaeth Tai Strategol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig) a gwasanaethau'r Cyngor rhwng mis Mai a mis Medi 2023. Datblygwyd arolwg a'i rannu â'r sefydliadau perthnasol i gipio'r gofynion data.

Cafodd y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig eu diweddaru'n rheolaidd ar y broses o gasglu data a'r cynnydd o ran ysgrifennu'r AFDL. Rhoddwyd cyflwyniad i'r Bartneriaeth Tai Strategol ar 2 Hydref 2023 yn diweddaru rhanddeiliaid ar ein cynnydd ac yn amlinellu'r offeryn a'r fethodoleg AFDL newydd a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru. *Mae rhestr lawn o aelodau a sefydliadau'r Bartneriaeth Tai Strategol wedi'i chynnwys isod.*

Mae'r ymgynghoriad ar yr AFDL Drafft wedi'i drefnu ar gyfer 14 Rhagfyr gyda'r Bartneriaeth Tai Strategol sy'n cynnwys cyflwyniad ar prif gasgliadau'r asesiad, ac yn gofyn am adborth i'w ystyried. Mae'r tabl canlynol yn nodi gyda phwy yr ymgysylltwyd ac yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer pob adran yn ymwneud ag anghenion tai penodol.

### a) Darpariaeth tai hygyrch ac addasedig

Ymgysylltwyd â'r rhanddeiliaid a ganlyn:

- Cyngor Sir Ceredigion, Tîm Comisiynau
- Cyngor Sir Ceredigion, Tîm Tai
- Cyngor Sir Ceredigion, Tîm Cynhwysiant a Chydraddoldeb
- Cyngor Sir Ceredigion, Tîm Adrodd Gofal Cymdeithasol
- Cyngor Sir Ceredigion, Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol
- LCC (Barcud, Cymdeithas Tai Wales and West, Caredig)
- Partneriaeth Tai Strategol:
  - Barcud
  - Cymdeithas Gofal
  - Caredig
  - Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO)
  - Cyngor Sir Ceredigion, yr Economi ac Adfywio (gan gynnwys y Tîm Cynllunio)
  - Cyngor Sir Ceredigion, Porth Cymorth Cynnar (gan gynnwys y Tîm Tai)
  - Aelodau Etholedig
  - Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
  - Cynrychiolydd Datblygwyr Preifat
  - Grŵp Tai Wales and West (WWH)
  - Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru (WWDAS)

Ymgymerwyd ag ymgysylltiad cychwynnol trwy e-bost, galwadau ffôn a galwadau fideo i gasglu data. Ar ôl i'r data gael ei goladu, fe wnaethom ymgynghori â rhanddeiliaid ar y drafft i gael adborth ac i lenwi unrhyw bylchau.

### b) Teuluoedd aml-genhedlaeth a/neu deuluoedd mwy sydd angen eiddo mwy

Ymgysylltwyd â'r rhanddeiliaid a ganlyn:

- LCC (Barcud, Cymdeithas Tai Wales and West)
- Partneriaeth Tai Strategol

Ymgymerwyd ag ymgysylltiad cychwynnol trwy e-bost, galwadau ffôn a galwadau fideo i gasglu data. Ar ôl i'r data gael ei goladu, fe wnaethom ymgynghori â rhanddeiliaid ar y drafft i gael adborth ac i lenwi unrhyw bylchau.

### c) Tai nad ydynt yn barhaol

- Cyngor Sir Ceredigion, Tîm Cynhwysiant a Chydraddoldeb
- Cyngor Sir Ceredigion, Tai, Porth Cymorth Cynnar
- LCC (Barcud, Cymdeithas Tai Wales and West, Caredig)
- Partneriaeth Tai Strategol

Ymgymerwyd ag ymgysylltiad cychwynnol trwy e-bost, galwadau ffôn a galwadau fideo i gasglu data. Ar ôl i'r data gael ei goladu, fe wnaethom ymgynghori â rhanddeiliaid ar y drafft i gael adborth ac i lenwi unrhyw bylchau.

### d) Anghenion tai, gofal a chymorth

- Cyngor Sir Ceredigion, Tîm Comisiynau
- Cyngor Sir Ceredigion, Tîm Tai
- Cyngor Sir Ceredigion, Porth Ceredigion
- LCC (Barcud, Cymdeithas Tai Wales and West, Caredig)
- Partneriaeth Tai Strategol

### e) Anghenion Lleoliadol ar gyfer Llety Myfyrwyr

- Prifysgol Aberystwyth
- Partneriaeth Tai Strategol
- Prifysgol y Drindod Dewi Sant (Campws Llanbedr Pont Steffan) – Swyddfa Llety

## Atodiad 3: Anghenion Tai Penodol – materion allweddol a nodwyd

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu'r materion allweddol a nodwyd ym mhob un o'r adrannau sy'n ymwneud ag anghenion tai penodol.

| a) Darpariaeth tai hygyrch ac wedi'u haddasu |
|---|
| Mae'r data sydd ar gael ar gartrefi hygyrch ac wedi'u haddasu yng Ngheredigion yn amrywio. Er bod y data a gadwir ar hygyrchedd tai fforddiadwy (rhent cymdeithasol a rhent canolradd) yn bendant, mae diffyg data ar hygyrchedd tai marchnad yng Ngheredigion (h.y. tai perchen-feddianwyr neu dai rhent). Mae'r grantiau cyfleusterau i bobl anabl, grantiau addasiadau ffisegol a'r Rhaglen Addasiadau Brys yn rhoi rhyw syniad o'r hygyrchedd a'r gwaith addasu sy'n cael ei wneud, fodd bynnag, nid ydynt yn darparu ffigurau ar gyfer y ddarpariaeth bresennol o gartrefi wedi'u haddasu/hygyrch ar draws pob deiliadaeth.<br><br>Mae'r model ORS a ddefnyddiwyd wedi cynnig modd amcangyfrif yr angen presennol am gartrefi hygyrch ac wedi'u haddasu, fodd bynnag, cydnabyddir mai dim ond fel canllaw y dylid ei ddefnyddio gan fod y data ar y ddarpariaeth bresennol ar draws *pob deiliadaeth* yn amhendant.<br><br>Ar hyn o bryd, mae'r awdurdod lleol yn dibynnu ar sylfaen dystiolaeth wan wrth asesu'r ddarpariaeth o dai yng Ngheredigion sydd ar gael i ateb anghenion pobl anabl. Dylai Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol yn y dyfodol ystyried cynnal arolwg tai manwl er mwyn nodi nifer y cartrefi hygyrch ac wedi'u haddasu yng Ngheredigion. |

## b) Teuluoedd aml-genhedlaeth a/neu deuluoedd mwy sydd angen eiddo mwy

Mae diffyg data hirdymor ar aelwydydd aml-genhedlaeth, felly roedd pennu tueddiadau yn y dyfodol a deall y math a lefel posibl o anghenion yn y dyfodol yn heriol. Defnyddiwyd y gyfradd nifer yr achosion a gofnodwyd yn y cyfrifiad diweddaraf (2021) ochr yn ochr ag amcanestyniadau seiliedig ar 2018 i roi amcangyfrif. Fodd bynnag, cydnabyddir nad yw hyn yn ystyried y posibilrwydd ar gyfer newidiadau i'r gyfradd nifer yr achosion.

## c) Tai nad ydynt yn barhaol

Mae data ar lety dros dro a digartrefedd yn newid yn gyflym, felly mae'n bosibl y bydd y ffigurau yn yr Asesiad yn dyddio yn fuan. Penderfynwyd nad oedd modelu anghenion a darpariaethau'r dyfodol ar gyfer y llety penodol hwn yn briodol oherwydd y niferoedd cymharol fach ac effaith bosibl y newidiadau deddfwriaethol sydd i gyd yn gwneud y ffigurau'n anwadal iawn.

## ch) Anghenion tai, gofal a chymorth

Mae data ar y ddarpariaeth bresennol o lety ac angen arbenigol yn weddol bendant. Roedd data a gwybodaeth gan wasanaethau'r Cyngor a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wedi cynnig modd cael dadansoddiad ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o lety fesul AMD, ac eithrio gofal preswyl a gofal nyrsio.

Er bod methodoleg Housing LIN yn fodel sydd wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, cytunwyd ar y cyfraddau nifer yr achosion disgwyliedig rhwng Housing LIN a Chyngor Sir Ceredigion yn 2018, ac felly maent wedi dyddio ychydig. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu yn ystod ailwampiad llawn yr AFDL. At hynny, nid yw'r model yn ystyried y ddarpariaeth o lety arbenigol yn y dyfodol (megis Adnodd Integredig Cylch Caron). Mae angen ystyried hyn, a dim ond fel canllaw y dylid defnyddio'r ffigurau a ddarperir.

## d) Anghenion lleoliadol ar gyfer llety myfyrwyr

Dim materion data na materion methodolegol wedi'u nodi.

## Atodiad 4: Cynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori - Adnewyddu Asesiad Marchnad Dai Leol 2023

### 1. Cyflwyniad

Mae'r Cynllun ymgysylltu ac ymgynghori yma yn fwriadau darparu dull o gynnal gweithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori ar gyfer adfywio Asesiad o Farchnad Dai Lleol 2023. Mae AFDL 2023 Ceredigion (adfywiad) yn diweddaru AFDL 2019 Ceredigion, a chafodd ei gynhyrchu gan Opinion Research Services (ORS), ar ran Cyngor Sir Ceredigion. Bydd cynhyrchiant yr AFDL yn cael ei ymgymryd trwy ddull cydweithredol gyda chyd-weithwyr addas a rhanddeiliaid allweddol. Yn benodol, rhoddwyd ystyriaeth ofalus i gynnwys yr holl rhanddeiliaid ag anghenion tai penodol neu'r sefydliadau hynny sy'n cynrychioli'r anghenion yng Ngheredigion, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ystyrlon yn cael ei chasglu, a bod unrhyw bylchau yn y dystiolaeth yn cael sylw.

### 2. Cefndir

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol ymgymryd ag Asesiad o Farchnad Dai Lleol (AFDL) er mwyn darganfod lefel yr angen a'r galw am dai yn ein marchnadoedd tai lleol, a chyflawni dyletswyddau statudol y Cyngor, fel y nodwyd o dan Adran 8 o'r Ddeddf Tai 1985.

Mae'r AFDL yn rhan hanfodol o'r sail dystiolaeth o baratoi ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol a Strategaethau Tai Lleol awdurdodau lleol. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu offeryn AFDL i gefnogi awdurdodau lleol gyda'r AFDL i leihau costau a sicrhau cysondeb.

Mae offeryn yr AFDL yn cyfrifo'r angen ychwanegol am dai ar gyfer tai marchnad (yn y sector perchen feddianwyr a'r sector rhentu breifat), ac am dai fforddiadwy yn ôl AMD (sydd yn cynnwys rhent cymdeithasol, rhentu canolog, a pherchentyaeth cost isel) yn ôl Ardaloedd Marchnad Dai (AMD). Mae'r data a defnyddiwyd o fewn yr offeryn yn gyfuniad o ddata ffynhonnell agored a data caeedig (ffynonellau mewnol ac allanol). Bydd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid, megis ein Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig er mwyn poblogi'r offeryn, megis yr adran stoc bresennol a'r cyflenwad arfaethedig.

Mae'r darpariaeth anghenion tai penodol, sydd yn cyfarwyddo'r darpariaeth a'r defnydd o tai hygyrch, tai addas a gwasanaethau yn ymwneud â thai, ddim yn cael ei cyfrifo o fewn yr offeryn oherwydd natur y data. Bydd amcangyfrif anghenion tai penodol yn cael ei ymgymryd â thu allan i'r offeryn a fydd yn cynnwys dulliau ansoddol a meintiol, yn ymdrin â thri chategori allweddol o angen tai, gyda chwe math o ddarpariaeth yn ymwneud â thai (am fwy o fanylion ewch i Adran 3, Tabl 1).

Bydd yn angenrheidiol i ymgysylltu ac ymgynghori gyda rhanddeiliaid allweddol er mwyn deall y ddarpariaeth o anghenion tai penodol orau ar gyfer y Sir a'i chymunedau ac ymdrin ag unrhyw bylchau yn y dystiolaeth neu ddiffygion.

*Cafodd nifer o wallau ei adnabod o fewn yr offeryn a gwnaed adolygiadau annisgwyl dilynol (Fersiwn 3 a 3.1). Roedd yn rhaid i bob awdurdod lleol ailboblogi fersiynau newydd yr offeryn. Roedd hyn a'r gwallau yn declyn Ceredigion wedi oedi'r proses gan 1-2 mis. Mae'r*

*amserlen a darparwyd isod felly yn cynnwys yr amserlenni cynlluniedig cychwynnol, ond nid yr amserlenni terfynol a ddefnyddiwyd.*

## 3. Y Dull i Ymgysylltu ac Ymgynghori

Mae ymgysylltu ac ymgynghori yn gyrrwr allweddol yn ystod yr asesiad yma a fydd yn cael ei chynnal mewn dau cam:

1. **Ymgysylltu Cychwynnol** - i gasglu data i'r offeryn (e.e., stoc bresennol a'r cyflenwad arfaethedig) a data ar ddarpariaeth anghenion tai penodol.
2. **Ymgynghoriad –** gyda rhanddeiliaid allweddol ar Asesiad o Lesiant Lleol drafft Ceredigion 2023 (adfywiad).

Bydd ymgysylltu cychwynnol gyda chydweithwyr a rhanddeiliaid yn cael ei wneud rhwng Hydref 2022 - Ebrill 2023, tra bod data ar gyfer y ddarpariaeth o anghenion tai penodol yn cael ei wneud rhwng Mai-Gorffennaf 2023. Ar ôl hynny, bydd angen dadansoddi darganfyddiadau'r anghenion tai penodol, gyda'r bwriad o gwblhau drafft cyntaf adfywiad AFDL Ceredigion 2023 erbyn mis Medi 2023.

Mar Ffigur 1 yn arddangos y gweithgareddau a'r amserlen i ymwneud a'r ymgysylltu ac ymgynghori ar gyfer yr AFDL. Mae amserlen fwy manwl sydd yn amlinellu prif nodau'r Asesiad i fyny at gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru yn Chwefror 2024 wedi'i chynnwys yn Atodiad 1.

**Ffigur 1: Amserlen ymgysylltu ac ymgynghori ar gyfer AFDL Ceredigion 2023 (adfywiad)**

| Amserlen | Gweithgaredd |
|---|---|
| Hydref 2022- Ebrill 2023 | Ymgysylltu gyda rhanddeiliaid allweddol (RSLs) a gwasanaethau'r Cyngor ar yr adrannau'r angen presennol, y stoc bresennol a'r cyflenwad arfaethedig o'r offeryn AFDL. |
| Mai-Gorffennaf 2023 | Ymgysylltu gyda rhanddeiliaid a chyd-weithwyr mewnol i gasglu data ar y ddarpariaeth o anghenion tai penodol. |
| Hydref 2023 | Ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid allweddol ar yr Asesiad drafft o'r Farchnad Dai. |

Bydd swm arwyddocaol o ymgysylltu'r Asesiad yn cysylltu i'r anghenion tai penodol. Mae'r tabl isod yn amlinellu'r 3 chategori o angen tai a'r mathau cysylltiedig o ddata darpariaeth sy'n ymwneud â thai sydd eu hangen.

**Tabl 1: Gofynion Data Anghenion Tai Penodol ar gyfer yr Asesiad o’r Farchnad Dai Leol (AFDL)**

| Angen Tai | Darpariaethau cysylltiedig â thai |
|---|---|
| **Anghenion anheddau** | - Darpariaeth tai hygyrch a thai sydd wedi addasu<br>- Aelwydydd Amlgenhedlaeth a/neu aelwydydd teuluoedd mwy sydd angen anheddau mawr<br>- Tai dros dro, e.e. llety myfyrwyr |
| **Anghenion tai, gofal a chymorth** | - Llety â chymorth - Gofal ychwanegol, tai gwarchod cyfoes, byw â chymorth i bobl ag anabledd dysgu a/neu ADS, tai â chymorth dros dro (e.e., tai i bobl ifanc sydd yn dod allan o ofal, pobl gydag anableddau dysgu sydd yn dysgu byw yn annibynnol), ffoaduriaid a.y.b. |
| **Anghenion Lleoliadol** | - Lleoliadau ar gyfer llety myfyrwyr yn agos at brifysgol<br>- Annedd sydd yn gyfagos at siopau, mannau addoli a gwasanaethau, a.y.b. i gwrdd ag anghenion ffisegol neu ddiwylliannol |

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2022) – Cyfarwyddyd yr AFDL*

Mae Llywodraeth Cymru yn argymell cymryd y dull dilynol i boblogi’r templed anghenion tai penodol o fewn Templed Adroddiad yr AFDL:

- Cam 1 - Deall y dystiolaeth (ystadegau, ymchwil, polisi cenedlaethol a lleol ac ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid) a pa ddaearyddiaeth sydd angen.
- Cam 2 - Casglu’r dystiolaeth i boblogi’r templedi safonol.
- Cam 3 - Ymgynghori gyda rhanddeiliaid allweddol neu gael data pwrpasol i fynd i’r afael ag unrhyw bylchau yn y dystiolaeth yn yr anghenion penodol am dai.
- Cam 4 – Dadansoddi’r data a’r allbynnau o’r ymgynghoriad i boblogi’r templedi.
- Cam 5 – Adlewyrchu unrhyw adborth o rhanddeiliaid yn y templedi.

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2022) – Cyfarwyddyd yr AFDL*

## 4. Safonau

Mae cynnal Asesiadau o’r Farchnad Dai Leol i bennu’r angen am dai yn cyfrannu at hyrwyddo datblygu cynaliadwy a chyflawni saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 (WBFGA 2015). Bydd angen cynnal yr AFDL mewn ffordd sy'n mabwysiadu'r pum ffordd o weithio. Ymhellach, ystyriaethau i ddarpariaethau’r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) a’r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig yn y Ddeddf, a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, gan gynnwys yr angen i gynnwys pobl, casglu data, a chynnal Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA).

## 5. Ymgysylltu ac Ymgynghori â Rhanddeiliaid

Mae modd casglu peth gwybodaeth wrth ddefnyddio polisïau presennol sydd ar gael neu ddata gweinyddol, megis anghenion penodol pobl hŷn, neu bobl gyda phroblemau symudedd, gan fod y rhain yn grwpiau mawr o fewn y gymdeithas. Serch hynny, bydd ymgysylltu a chydweithwyr a rhanddeiliaid yn angenrheidiol er mwyn casglu gwybodaeth bwrpasol, megis y stoc bresennol, y cyflenwad arfaethedig a data anghenion penodol (megis, tai hygyrch, tai wedi’i addasu ac anghenion lleoliadol i fyfyrwyr). Yn benodol, bydd

angen gwneud ymdrech i sicrhau bod aelwydydd sydd yn cael ei ystyried fel rhai na chlywir yn aml (e.e. aelwydydd mewn llety sydd wedi rhannu, megis neuaddau preswyl myfyrwyr a.y.b.) ac asesu anghenion grwpiau lleiafrif.

Unwaith mae'r AFDL drafft wedi'i chynhyrchu, bydd angen ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol er mwyn darparu'r cyfle am adborth ar yr AFDL a mynd i'r afael ac unrhyw bylchau yn y dystiolaeth. Ar ôl hynny, bydd yr asesiad yn cael ei ddiwygio yn ôl yr adborth, a fydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr AFDL terfynol.

Mae dadansoddiad rhanddeiliaid cynhwysfawr wedi'i gynnal i nodi'r set gyffredin o grwpiau i ymgysylltu ac ymgynghori â, gan gynnwys y canlynol:

| **Ymgysylltwyd ac ymgynghorwyd â'r sefydliadau / thimau canlynol:** |
|---|
| Prifysgol Aberystwyth |
| Fforwm Cyn-filwyr y Lluoedd Arfog |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog |
| Barcud |
| Cymdeithas Gofal |
| Caredig |
| Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO) |
| Cyngor Sir Ceredigion, Tîm Comisiynau |
| Cyngor Sir Ceredigion, yr Economi ac Adfywiad (gan gynnwys y Tîm Cynllunio) |
| Cyngor Sir Ceredigion, Tîm Cynhwysiant a Chydraddoldeb |
| Cyngor Sir Ceredigion, Porth Cymorth Cynnar (gan gynnwys y Tîm Tai) |
| Cyngor Sir Ceredigion, Tîm Adroddi Gofal Cymdeithasol |
| Cyngor Sir Ceredigion, Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol |
| Aelodau Etholedig |
| Fforwm Digartrefedd |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Cyngor Sir Powys |
| Datblygwr Preifat |
| Partneriaeth Tai Strategol |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (Campws Llanbedr Pont Steffan) |
| Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru |
| Grŵp Tai West Wales (WWH) |

## 6. Polisïau, dogfennau ac ymgynghoriadau perthnasol

Mae ffynonellau allweddol ar gael i hysbysu'r AFDL, a dangosir rhestr sampl ar gyfer Ceredigion isod:

- Housing LIN (2022), Asesiad o anghenion tai a llety ar gyfer pobl ag anableddau dysgu a phobl ag anghenion iechyd meddwl yng Ngorllewin Cymru
- Cyngor Sir Ceredigion (2023), Strategaeth Tai 2023- 2028 – Tai i Bawb
- Cyngor Sir Ceredigion (2013), Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion (LDP 1) 2007-2022
- Cyngor Sir Ceredigion (2022), Rhaglen Cymorth Tai 2022-2026
- Cyngor Sir Ceredigion (2021), Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion
- Cyngor Sir Ceredigion (2022), Rhaglen Cymorth Tai: Datganiad o Angen
- Cyngor Sir Ceredigion (2022), Asesiad Anghenion Grant Cynnal Tai
- Cyngor Sir Ceredigion (2020), Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru (2022), Asesiad Anghenion Poblogaeth

- Llywodraeth Cymru (2019) Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru
- SYG (2021), data Cyfrifiad
- Anabledd Cymru
- Stats Cymru – Myfyrwyr yng Nghymru
- HESA – cofrestriad myfyrwyr
- Adborth o Rhanddeiliaid
- Ystadegau digartrefedd
- Cofrestr Tai (Cofrestr Tai Cymdeithasol a Chofrestr Tai Fforddiadwy)

## 7. Opsiynau Ymgysylltu ac Ymgynghori

| Techneg | Disgrifiad | Ystyriaethau | Amserlen |
|---|---|---|---|
| **Arolwg (gan defnyddio Excel)** | Casglu data meintiol (stoc bresennol a'r cyflenwad arfaethedig) o RSLs (WWH a Barcud) trwy arolwg sydd wedi'i chreu ar Excel.<br><br>Cyfarfodydd dilynol gyda RSLs i esbonio'r arolwg a'r anghenion data. | ▪ Amser - i bob RSL i gasglu data a phoblogi'r arolwg.<br>▪ Sicrhau bod diffiniadau yn cael i'w cynnwys a bod RSLs yn deall y fformat i ddychwelyd data. | i) Gwaith paratoi (dylunio'r arolwg ac ymgysylltu â RSLs) - Medi 2022<br>ii) Trosglwyddo (amser ymateb a mewnbwn data) - Hydref 22 - Ebrill 2023<br>iii) Gwirio data a phoblogi'r offeryn - Ebrill 2023. |
| **Cyfarfodydd / grwpiau ffocws gyda rhanddeiliaid allweddol/cydweithwyr** | Casglu data ansoddol a meintiol ar ddarpariaeth anghenion tai penodol oddi wrth rhanddeiliaid allweddol. E-bostio gyda thablau gofynion data a chyfarfod dilynol i gasglu gwybodaeth a ffynonellau data. | ▪ Amser - i bob rhanddeiliaid i gasglu data a threfnu cyfarfodydd.<br><br>▪ Sicrhau bod diffiniadau yn cael i'w cynnwys a bod y rhanddeiliaid yn deall y fformat i ddychwelyd data. | i) Gwaith paratoi (ymgysylltu â rhanddeiliaid i drefnu cyfarfod) - Mai i Fehefin 2023.<br>ii) Trosglwyddo (amser ymateb ac ymgymryd â chyfarfod i gasglu data/ymateb i unrhyw bylchau) Mehefin - Gorffennaf 2023<br>iii) Dadansoddi data a chynnwys y tablau o fewn yr Asesiad - Gorffennaf - Awst 2023 |
| **Digwyddiadau Rhanddeiliaid** | Gwahodd rhanddeiliaid allweddol (Partneriaeth Tai Strategol) i gyflwyniadau gwyned i wyneb - i gyflwyno ac ymgysylltu ar yr AFDL drafft. Defnyddio cyflwyniadau, pleidleisiau cyflym a chwestiynau allweddol y drafodaeth. | ▪ Cynulleidfa targed<br>▪ Presenoldeb<br>▪ Mynedfa i'r rhai heb fynediad digidol | i) Amser paratoi o 4 wythnos (cyhoeddusrwydd, gosod agenda)<br>ii) Ymgynghoriad i redeg rhwng Hydref a Tachwedd 2023 |

## Atodiad 5: Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Cychwynnodd yr Ymgynghoriad ar ddrafft Asesiad o Farchnad Dai Lleol Ceredigion 2023 ar y 14eg o Ragfyr 2023 gyda chyflwyniad i'r Bartneriaeth Tai Strategol, rhedodd yr ymgynghoriad nes 19eg Ionawr 2024 (5 wythnos). Mae detholiad perthnasol o gofnodion y cyfarfod i gael ar gais. Daeth nifer o ymatebion i'r ymgynghoriad yn dilyn trafodaeth mewn person yn y Bartneriaeth Tai Strategol ac ar ôl hynny 2 ymateb ffurfiol ysgrifenedig.

Doedd dim cwestiynau uniongyrchol wedi'i ofyn o'r atebwyr, ond yn syml gofynnwyd i roi adborth ac unrhyw sylwadau am yr Asesiad ei hunan. Mae'r ymatebion wedi'i chynnwys isod gyda'r ymatebion cyfatebol o Grŵp Gweithiol yr AFDL. Mae unrhyw wallau gramadeg neu deipio wedi'i gwirio er hwylustod i'r darllenydd, ond mae'r cynnwys ar gyd-destun wedi aros fel y cyflwynwyd.

| Ymateb oddi wrth | Sylwad | Ymateb o CSC |
|---|---|---|
| Partneriaeth Tai Strategol – ymateb i'r cyflwyniad ar ddrafft yr AFDL | Mae anghenion tai amcangyfrif y teclyn yn "arisel" - mae'r galw am eiddo yn uchel, ac oes nad oedd angen am dai, bydd datblygwyr yn stopio adeiladu. Yn lle, roedd y prinder contractwyr lleol yng Ngheredigion i adeiladu eiddo a chwrdd â'r galw am dai marchnad wedi'i amlygu fel problem. | Rydym yn rhannu eich pryderon gydag amcangyfrif anghenion tai marchnad isel y teclyn, sydd ddim yn adlewyrchu'r sefyllfa yng Ngheredigion. Tynnir sylw at hyn drwy'r AFDL ac mae ein pryderon gyda'r allbynnau a'r teclyn wedi'i chodi gyda Llywodraeth Cymru. |
| | Holwyd ynghylch amcangyfrif o angen uchel y teclyn am eiddo 1 ystafell wely yn y sector rhentu cymdeithasol. Ni ellir cymryd yn ganiataol na fyddai gan bawb sydd â chartref 1 ystafell wely byth unrhyw un i aros. Mae eiddo 2 ystafell wely dal yn bwysig iawn ac yn angenrheidiol yng Ngheredigion. Mae angen ffordd o symud y rhai sy'n byw mewn cartrefi teuluol mwy, sydd ddim angen nhw nawr, i symud i gartrefi llai | Mae'r tystiolaeth am eiddo 1 ystafell wely yn y sector cymdeithasol wedi'i dogfennu'n dda. Mae'r dystiolaeth o'r gofrestr tai, ynghyd â'n defnydd o ddigartrefedd a llety dros dro wedi llywio cyfeiriad ein Strategaeth Dai, ein Prosbectws presennol, a'n Cynllun Ailgartrefu Cyflym. Er ein bod yn cydnabod mai'r awydd i lawer fyddai eiddo gyda 2 ystafell wely, nid yw hyn yn ystyriaeth wrth edrych ar ddatblygiad, sy'n cael ei yrru gan angen ac nid eisiau. Dylid nodi hefyd na fyddai'r system budd-daliadau yn cynnal ystafelloedd gwely ychwanegol ar y sail honno. Cydnabyddir bod eiddo 2 ystafell wely yn dal i fod â lle o fewn ein galw a datblygiadau yn y dyfodol, lle bo'n briodol, ond yn seiliedig ar angen yn unig. |

| | | |
|---|---|---|
| | Roedd y gostyngiad yn faint cyfartalog tai a sut fydd hyn yn effeithio ar yr angen am dai, waeth beth fo'r boblogaeth yn lleihau, wedi codi. | Sylw wedi ei nodi. Rydym yn cydnabod nad yw'r data diweddaraf ar faint cyfartalog aelwydydd wedi'i adlewyrchu yn rhagamcanion aelwydydd 2018 (y mae'r offeryn AFDL yn eu defnyddio), fodd bynnag, yr amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2018 yw'r rhagamcanion mwyaf diweddar sydd ar gael i'w defnyddio ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Mae cyfyngiadau defnyddio rhagamcanion seiliedig ar 2018 i gyfrifo'r angen am dai wedi'u hadlewyrchu yn yr AFDL. |
| | Heriwyd fforddiadwyedd tai sy'n gyrru allfudo – mae pobl ifanc yn symud o Geredigion i ardaloedd â chymarebau fforddiadwyedd tai gwaeth, e.e., Caerdydd. Ymhelaethodd trafodaeth bellach fod ymadawiad pobl ifanc o Geredigion yn broses naturiol ac yn rhywbeth a fydd yn digwydd bob amser. Dylid canolbwyntio ar wneud Ceredigion yn lle mwy deniadol a dymunol i bobl ddychwelyd iddo. Nodwyd bod angen i'r AFDL ddal y bobl hynny sy'n symud yn ôl i'r ardal i ddechrau teulu neu ymddeol iddi, fodd bynnag, cydnabuwyd y gallai hyn fod yn anodd ei fesur. | Nodwyd y sylwadau. Mae nifer o resymau pam y mae pobl yn symud allan o Geredigion, ac mae'r AFDL yn tynnu sylw at fforddiadwyedd tai fel un ohonynt o bosibl, sydd wedi'i nodi fel mater gan drigolion mewn nifer o'n hymgynghoriadau cyhoeddus. Er enghraifft, Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion, a gyhoeddir ar wefan Cyngor Sir Ceredigion.<br><br>Rydym yn nodi'r ffocws yr ydych yn ei awgrymu, ac adlewyrchir hyn yn ein Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027, a'r flaenoriaeth allweddol yw buddsoddi yng Ngheredigion drwy hybu'r economi, cefnogi busnesau, a galluogi cyflogaeth.<br><br>Mewn perthynas â chasglu'r trigolion sy'n dychwelyd i Geredigion, yn anffodus nid oes data meintiol ar gael i ddangos bod pobl yn dychwelyd i Geredigion i ddechrau teulu neu ymddeol, dim ond tystiolaeth anecdotaidd. |

| | | |
|---|---|---|
| | Amlygwyd cyfyngiad ar yr offeryn sef nad yw'n ystyried yr ôl-groniad o anheddau marchnad.<br><br>Mae'r ffigurau'n anghywir, a bydd yn anodd ymgynghori ar ffigurau nad ydynt yn adlewyrchu sefyllfa Ceredigion. Bydd yr adborth ffurfiol gan Grŵp Tai Wales and West (WWH) ar yr AFDL Drafft 2023 yn adlewyrchu hyn. | Rydym yn rhannu eich pryderon gyda'r offeryn a'i amcangyfrifon. Adlewyrchir y cyfyngiad methodolegol hwn yn yr AFDL, a chodwyd ein pryderon cyffredinol gyda Llywodraeth Cymru. |
| | Holwyd a oedd unrhyw ddyblygu o fewn y gofynion tai penodol. Ymatebwyd bod yna ddyblygu, fodd bynnag, mae hyn yn anodd ei fesur gan fod methodoleg gwahanol yn cael eu defnyddio. | Fel yr amlygwyd yn ystod y cyflwyniad, mae potensial ar gyfer dyblygu o fewn y ffigyrau anghenion tai penodol oherwydd y gwahanol fethodoleg a ddefnyddiwyd. Byddwn yn archwilio methodoleg amgen yn ystod yr ailysgrifennu i geisio datrys y mater a cheisio cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru ar hyn. |
| | Nid yw'r offeryn yn ystyried y cyfeiriad corfforaethol y mae Cyngor Sir Ceredigion (CSC) yn ei gymryd, i hybu'r economi. Mae sawl buddsoddiad nad ydynt yn cael eu hystyried, megis Tyfu Canolbarth Cymru, a fydd yn creu swyddi ac yn ôl eu natur a fydd yn cael eu talu'n well. Mae hyn yn herio'r rhagamcanion poblogaeth ac elfen fforddiadwyedd yr offeryn. | Rydym yn cytuno â'r pwynt a wnaed; nid yw'r amcanestyniad ar sail amrywiad 2018-uwch a ddefnyddir gan yr offeryn AFDL yn ystyried y ffactorau hyn. Mae effaith bosibl y Strategaeth Gorfforaethol a chynlluniau economaidd ar yr angen am dai yn y dyfodol bellach wedi'u hadlewyrchu yn yr AFDL. Bydd ail ysgrifeniad yr AFDL nesaf yn ceisio mynd i'r afael â'r mater hwn drwy gynhyrchu gwahanol senarios twf (e.e., rhagamcanion a arweinir gan swyddi a chyflogaeth). |
| Datblygwr Tai o Geredigion – ymateb i'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol | 1. Rydych chi wedi gofyn am sylwadau ar drafft yr AFDL uchod. Yr AFDL yma ydy'r diweddaraf mewn llinell hir o AFDL rydw i wedi gweld neu gwneud sylwadau ar, yr un cyntaf oedd yr Arolwg o Anghenion Tai Lleol 2004 a cynhyrchwyd gan yr ORS. Mae pob un o'r AFDL wedi bod yn hollol anghywir yn ei rhagfynegiadau ac wedi bod yn gwastraff amser ac arian. Mae drafft diweddaraf yr AFDL sydd wedi seilio ac yn defnyddio 'teclyn' Llywodraeth Cymru i'w cwblhau yn afresymol. Dylai'r 'teclyn' wedi'i adael yn y bocs. | Diolch i chi am gymryd yr amser i ddarllen yr adroddiad yn fanwl ac am ddarparu adborth mor fanwl. Mae eich sylwadau wedi nodi. Isod, mae ymatebion Cyngor Sir Ceredigion i'ch sylwadau. |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| | 2. Maint cyfartalog tai yng Ngheredigion ydy 2.3 person. Maint cyfartalog tai yng Ngogledd ddwyrain Lloegr ydy 2.23. Yn yr Alban maint cyfartalog tai ydy 2.13. Yn 2021, poblogaeth Ceredigion oedd 71,500. Os oedd poblogaeth Ceredigion yn statig a maint cyfartalog tai yn lleihau i 2.13 bydd angen am 2675 mwy o dai (Nodyn: Os bydd cyfradd y gostyngiad yn y boblogaeth 1-64 oed rhwng 2011 a 2021 yn parhau, yna mae maint cyfartalog aelwydydd yn debygol o ostwng yn sylweddol) | Rydym yn cydnabod eich pwynt, ac mae hyn wedi'i adlewyrchu yn yr Asesiad. Maint cyfartalog aelwydydd Ceredigion yn ôl Cyfrifiad 2011 oedd 2.3. Y ffigur diweddaraf a gyfrifwyd gan ddefnyddio data Cyfrifiad 2021 yw 2.2. Gwneir hyn drwy rannu nifer cyffredinol y preswylwyr arferol mewn cartrefi (67,845) â nifer cyffredinol yr aelwydydd (30,900).<br><br>Rydym yn cydnabod nad yw'r data diweddaraf ar faint cyfartalog aelwydydd wedi'i adlewyrchu yn rhagamcanion aelwydydd 2018 (y mae teclyn yr AFDL yn eu defnyddio), fodd bynnag, mae'r rhagamcanion seiliedig ar 2018 wedi'u defnyddio yn yr teclyn LHMA, yn unol ag arfer gorau ac oherwydd dyma'r rhagamcanion mwyaf diweddar ar adeg ysgrifennu. Mae cyfyngiadau defnyddio rhagamcanion seiliedig ar 2018 i gyfrifo'r angen am dai wedi'u hadlewyrchu yn yr AFDL. |
| | 3. Mae'n werth nodi rhagfynegwyd yr ORS yn ei AFDL a hysbysodd y CDLI presennol y byddai poblogaeth Ceredigion yn cynyddu dros gyfnod y CDLI, fel yr oedd wedi bod yn ei wneud hyd at gyflwyno'r CDLI. Ai cyd-ddigwyddiad yw bod y boblogaeth wedi lleihau ers cyflwyno'r CDLI yn 2013? (Gweler ffigur 8, tudalen 19). | Sylw wedi ei nodi. Rydym yn ddiolchgar am bob cyfraniad i ymgynghoriadau a bydd y CDLI Newydd yn ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael ar adeg ysgrifennu hwn. |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyn cyflwyno'r CDLI, gofynnodd Ceredigion i Brisiwr Dosbarth archwilio hyfywedd economaidd adeiladwyr lleol sy'n darparu tai fforddiadwy. Daeth i'r casgliad nad oedd yn ymarferol. Er hyn mae'r awdurdod lleol wedi mynnu darpariaeth o 20%. Mewn egwyddor, gellir herio'r ddarpariaeth hon, ond mae'r amserlenni hir a gymerwyd i ddatrys y mater hyfywedd, ynghyd â chostau darparu asesiadau hyfywedd wedi golygu bod llawer o adeiladwyr bach wedi gorfod rhoi'r gorau i adeiladu, gyda cholli swyddi yn y fasnach yn gysylltiedig â hynny.<br><br>Tynnais sylw yn ystod ymgynghoriadau'r CDLI fod y polisïau'n mynd i achosi colled mawr mewn masnach (ynghyd â swyddi cysylltiedig eraill) pobl a'u teuluoedd ac y byddai hyn yn effeithio ar ddemograffeg y boblogaeth. Mae Ffig 11, tudalen 22 yn tueddu i gefnogi fy rhagfynegiadau. | |
| | 4. Dylai'r tai Fforddiadwy (yn hytrach na fforddiadwy) gael eu darparu gan y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig gyda chyllid gan y llywodraeth. | Sylw wedi nodi. |
| | 5. Mae'r teclyn yn amcangyfrif bod angen marchnad agored Ceredigion o 22 uned y flwyddyn. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd y ddarpariaeth flynyddol dros y pum mlynedd diwethaf o 144 o unedau (gweler Ffigur 29, Tudalen 45). Pam y byddai cymaint o ostyngiad yn y galw? Nid yw'r offeryn yn addas at y diben.<br><br>Mae dros 95% o'r cartrefi marchnad agored y mae ein cwmni wedi'u gwerthu yn y blynyddoedd diwethaf wedi bod i bobl leol sy'n symud llai na deng milltir. Felly, yn ôl union ddiffiniad y gair fforddiadwy, mae'r cartrefi hyn wedi bod yn fforddiadwy i bobl leol. | Mae CSC yn ymwneud ag amcangyfrif o angen isel yr offeryn am dai marchnad yng Ngheredigion ac adlewyrchir hyn drwy'r Asesiad. Nodir cyfyngiadau'r offeryn gan nad yw'n dal y gofyniad tai marchnad yn gywir, yn enwedig gan nad oes darpariaeth ar gyfer ôl-groniad/angen presennol heb ei ddiwallu o gartrefi'r farchnad agored. Cefnogir hyn yn wleidyddol, ac rydym wedi codi ein pryderon gyda gweinidogion Llywodraeth Cymru. |

| | | |
|---|---|---|
| | Ni allaf ond cymryd yn ganiataol nad yw'r 'teclyn' yn gallu ystyried y galw am gartrefi marchnad agored, felly oni bai yr ymgynghorir â datblygwyr lleol a gwerthwyr tai, nid oes unrhyw ffordd y gellir cyfrifo'r galw hwn.<br><br>Yn olaf, hoffwn nodi pan na fydd angen tai marchnad agored, bydd y datblygwyr/adeiladwyr lleol yn rhoi'r gorau i adeiladu oni bai eu bod am golli arian/mynd yn fethdalwr/colli eu cartrefi ac ati. | |
| | 6. Cyflogaeth - Nid yw'r data cyflogaeth yn ystyried y lefel uchel o hunangyflogaeth yng Ngheredigion. | Nid yw'n ofynnol o dan ganllawiau AFDL LIC i ddarparu adran ar gyflogaeth, fodd bynnag, rydym wedi edrych ar y nifer o hawlwyr oherwydd ei fod yn brocsi defnyddiol o dueddiadau diweithdra. |
| | 7. Enillion ac incwm - Mae lefel uchel hunangyflogaeth yn ystumio'r ffigurau hyn | Cydnabyddir y pwynt, fodd bynnag, nid oes tystiolaeth feintiol ar gael i gefnogi hyn. Mae data CACI Paycheck yn darparu data dibynadwy a chynhwysfawr ar incwm aelwydydd crynswth fesul ardaloedd daearyddol bach, ac mae hyn wedi cael ei ddefnyddio o fewn yr offeryn. Nid yw data CACI Paycheck yn darparu dadansoddiad o incwm y cartref yn ôl math o gyflogaeth. |
| | 8. Fforddiadwyedd - Tabl 5, Tudalen 34 ddim yn cytuno gyda'r tabl a chyflwynwyd yn cyfarfod y Bartneriaeth Tai Strategol ar 15fed Rhagfyr 2023. Yn y cyfarfod y prisiadau tai cyfartalog yng Nghymru yn 2023 ydy £237,025.00 ond y drafft yr AFDL y ffigwr a defnyddiwyd ydy £187,750.00. Os ydy'r ffigurau a defnyddiwyd yn y cyflwyniad yn gywir, yna mae'r fforddiadwyedd yng Ngheredigion yn debyg iawn i ffigwr Cymru. Mae'r ffigurau a defnyddiwyd gyda defnydd cyfyngedig. Mae marchnad Aberystwyth yn hollol wahanol i'r marchnadoedd arall, yn benodol y farchnad arfordirol. | Sylwadau wedi nodi. Mae'r gwahaniaethau rhwng y prisiau tai o fewn y cyflwyniad a'r prisiau tai yn yr AFDL oherwydd setiau data gwahanol yn cael ei defnyddio. Mae'r cyflwyniad yn defnyddio Data Pris a Dalwyd y Gofrestrfa Tir, ble mae'r AFDL yn defnyddio set data HSPSSA yr SYG, sydd wedi seilio ar y Data Pris a Dalwyd. Mae'r gwahaniaethau rhwng y ddau set data oherwydd bod gwahanol gyfnodau amser yn cael ei defnyddio ac oherwydd y posibilrwydd o oedi cofrestru. Eglurir hyn yn llawn yn ystadegau prisiau tai SYG (2019) ar gyfer ardaloedd bach QMI. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Gan fod gwahanol ffynonellau o brisiau tai cyfartalog wedi defnyddio i gyfrifo'r fforddiadwyedd tai ar draws y tair ardal ddaearyddol (AMD, Awdurdod Lleol a Cenedlaethol), does dim modd i ni gymharu fforddiadwyedd yr AMD gyda ffigurau Ceredigion a ffigurau Cymru yn uniongyrchol.<br><br>Er mwyn osgoi unrhyw ddryswch, rydym nawr wedi adlewyrchu'r gwahaniaeth o fewn yr Asesiad ac wedi nodi bod defnyddio gwahanol ddata ar gyfartaledd prisiau tai yn arwain at gymarebau fforddiadwyedd gwahanol. |
| | 9. Nifer yr aelwydydd - Ffigur 25, Tudalen 38 yn dangos anghysondeb mawr rhwng prif amcanestyniad LLC sy'n seiliedig ar 2014 a prif amcanestyniad LLC sy'n seiliedig ar 2018. Mae'r rhain dim ond pedwar blynedd ar wahân felly sut maent yn gallu fod mor wahanol? Rydw i'n amau bod y ddau yn hollol anghywir. | Sylwadau wedi nodi. Mae'r amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd sydd wedi cyflwyno i Geredigion ddim yn cael i'w cynhyrchu gan y Cyngor, maen nhw yn dod o Lywodraeth Cymru. Mae'r gwahaniaeth rhwng yr amcanestyniadau sydd yn seiliedig ar 2014 a'r rhai sydd yn seiliedig ar 2018 oherwydd tueddiadau demograffeg a welwyd yn ystod y cyfnod amser yma ond hefyd y newid i'r fethodoleg rhwng y ddau set o amcanestyniadau, yn ogystal â'r newid i flwyddyn sylfaen yr amcanestyniadau.<br><br>Bu rhai newidiadau demograffig sylfaenol i'w nodi yn y pedair blynedd ers hynny. Yng Ngheredigion, mae'r gyfradd genedigaethau wedi parhau i ostwng (gyda chyfanswm y gyfradd ffrwythlondeb yn disgyn o 1.59 yn 2014 i 1.48 yn 2018), ac mae gwelliannau mewn disgwyliad oes wedi arafu, tra bod patrymau mudo wedi bod yn amrywio.<br><br>Yn anffodus, mae'n anodd deall gwir effaith y tueddiadau demograffig ar y rhagamcanion oherwydd y newidiadau methodolegol rhwng y ddau amcanestyniad. Rydym yn cydnabod bod y rhagamcanion sy'n seiliedig ar 2018 ychydig yn hen ffasiwn erbyn hyn, fodd bynnag, dyma'r rhagamcanion diweddaraf sydd ar gael ar adeg ysgrifennu'r |

| | | |
|---|---|---|
| | | adroddiad hwn. Rydym wedi codi ein pryderon ynghylch y twf isel mewn aelwydydd a adlewyrchir yn rhagamcanion Llywodraeth Cymru ar sail 2018, gweler adran 1.3.9 Nifer yr aelwydydd. |
| | 10. Ail gartrefi - Nid oes unrhyw brawf bod ail gartrefi yn achosi i bobl leol gael eu prisio allan o'r farchnad dai. Tystiolaeth anecdotaidd yn unig sydd. Mae perchnogion 2il gartrefi yn darparu llawer o waith i fasnachwyr lleol a hefyd yn cyfrannu at y diwydiant lletygarwch. Mae'r syniad y dylid eu gyrru allan o'r farchnad dai leol yn seiliedig ar honiadau sydd heb eu profi.<br><br>Bydd y polisi o godi premiwm treth gyngor sylweddol ar 2il gartrefi ond yn arwain at lai o gyflogaeth i bobl leol ac yn cynyddu symudiad pobl ifanc i ardaloedd lle mae cyflogaeth.<br><br>Nid yw'r honiad bod pobl ifanc yn gadael oherwydd na allant fforddio tŷ yn lleol yn destun craffu. Mae gan yr ardaloedd y maent yn symud i fod â chymarebau prisiau tai i enillion hyd yn oed yn uwch. Er enghraifft, Caerdydd a Bro Morgannwg, Llundain a De-ddwyrain Lloegr, Bryste, Cheltenham ac ati. Maent yn symud i'r lleoedd hyn oherwydd dyna lle gallent gael y gwaith y maent yn gymwys i'w wneud.<br><br>Bydd premiwm y dreth gyngor ond yn niweidio'r economi leol hyd yn oed ymhellach. Ateb gwell fyddai i'r ALI fynnu bod cyfran sylweddol o unrhyw ddatblygiad newydd ar gael i brynwyr lleol yn unig. Dylid cael dyraniad mawr o dir at y diben hwn fel bod prisiau tir yn cael eu cadw'n isel at y diben hwn. | Nodwyd y sylwadau. Mae effaith ail gartrefi yn amlochrog. Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn nodi'r manteision a ddaw yn sgil ail gartrefi i Geredigion, megis y diwydiant twristiaeth a'r manteision i'r economi leol, ond hefyd yr anfanteision, gyda fforddiadwyedd tai yn un ohonynt o bosibl. Nid yw'r AFDL yn datgan bod ail gartrefi yn prisio pobl leol yn uniongyrchol allan o'r farchnad dai, fodd bynnag, mae'n awgrymu cydberthynas bosibl rhwng ardaloedd â niferoedd uchel o ail gartrefi a chymarebau fforddiadwyedd aelwydydd uchel (e.e., yr AMD Arfordirol). Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn amlygu bod ail gartrefi yn tueddu i fod mewn ardaloedd mwy prydferth sydd â gwerth tai uwch yn ôl eu natur.<br><br>Nid yw'r sylw sy'n ymwneud â phremiwm y dreth gyngor o fewn cylch gorchwyl yr ymgynghoriad AFDL. Ymgynghorodd CSC â phreswylwyr a rhanddeiliaid ar bremiymau treth gyngor eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi yn 2023. Cyfeiriwch at Ymgynghoriad Cyhoeddus CSC ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor - Adroddiad Adborth Ymgynghori, am ragor o wybodaeth am hyn. |
| | 11. Eiddo Gwag Hirdymor - Mae llawer o'r tai gwag hir dymor yn wag oherwydd nad oes neb eisiau eu prynu na byw | Nodwyd y sylwadau. Mae yna fentrau i fynd i'r afael â'r mater yn y Cynllun Gweithredu Eiddo Gwag Hirdymor. Nid yw |

Tudalen 273

| | | |
|---|---|---|
| | ynddynt. Mae cartrefi gwag ledled y DU ac Ewrop. Maent yn wag oherwydd nad ydynt yn agos at gyflogaeth a/neu amwynderau. Mae'n debyg bod y perchnogion yn talu Treth y Cyngor a hoffent beidio â gwneud hynny. | sylw'r dreth gyngor o fewn cylch gwaith yr AFDL. Ymgynghorodd CSC â phreswylwyr a rhanddeiliaid ar ba lefel o bremiymau treth y cyngor y dylid ei godi ar Eiddo Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi yn 2023. Cyfeiriwch at Ymgynghoriad Cyhoeddus CSC ar Bremiymau Treth y Cyngor Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor - Adroddiad Adborth ar gyfer mwy o wybodaeth am hyn. |
| | 12. Tai Amherthnasol - Dylai'r ALI ystyried prynu a gosod llety parod fel dewis amgen i'r ddarpariaeth ddrud bresennol o lety brys.<br><br>Mae cost cabanau a charafanau 2il law yn llai na chost 100 diwrnod mewn gwesty/llety Gwely a Brecwast. Mae canran yr adenillon ar gyfalaf pe bai'r buddsoddiad hwn yn cael ei wneud yn enfawr a gallai ansawdd y llety fod yn well. | Nodwyd y sylwadau. Mae'r Strategaeth Dai yn cymryd llety dros dro i ystyriaeth a bydd yn cael ei hadolygu yn unol â hynny. |
| | 13. Llety Myfyrwyr - Mae'r Brifysgol yn Aberystwyth yn rhagweld cynnydd o 1000 o fyfyrwyr. Maent yn disgwyl cael lle i 500 o'r myfyrwyr hyn. Mae'n debyg y bydd y 500 arall yn cael eu cynnal gan y sector preifat? Pa fath o dai y mae'r AFDL yn rhagdybio y bydd eu hangen?<br><br>Os yw maint y cartref yn 2 yna mae angen 250 dau wely. Os yw'r cartref yn 4, yna mae angen 125 o unedau pedwar gwely. | Rydym yn cydnabod anghysondeb rhwng ffigurau'r offeryn a rhagamcanion y Brifysgol. Felly, mae angen dealltwriaeth bellach o hyn a cheisir gwybodaeth. |
| | 14. Amcanestyniadau amrywiad uwch - Nid yw'r amcanestyniadau amrywiad uwch yn ddigon uchel. Gweler fy sylwadau blaenorol. | Nid yw'r amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd a gyflwynir ar gyfer Ceredigion yn cael eu cynhyrchu gan y Cyngor, gan Lywodraeth Cymru y maent. Yn unol ag arfer gorau, yr amcanestyniad sy'n seiliedig ar 2018 yw'r mwyaf diweddar ar adeg ysgrifennu hwn ac fe'i defnyddiwyd yn yr AFDL cyfredol.<br><br>Rydym yn cytuno â'ch pwynt nad yw'r amcanestyniadau ar sail amrywiad uwch ar gyfer aelwydydd ar sail 2018 yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | ddigon uchel. Fodd bynnag, yr amrywiad uwch yw ein 'rhagamcaniad a ffafrir', oherwydd yn seiliedig ar yr opsiynau (is, uwch a diofyn yn seiliedig ar 2018), darparodd yr allbwn mwyaf priodol ar gyfer Ceredigion. Adlewyrchir hyn yn yr AFDL o dan Adran '1.3.9 Nifer yr Aelwydydd'.<br><br>Mae'r Asesiad yn amlygu ansicrwydd cynyddol y rhagamcanion y pellaf oddi wrth Gyfrifiad a chymerodd air o rybudd ynghylch eu defnydd. Bydd y Cyngor yn ceisio mynd i'r afael â'r mater hwn o fewn y broses AFDL nesaf (ailysgrifennu), drwy edrych ar senarios twf amgen ar gyfer Ceredigion. |
| | 15. Rhannaf siom y Cyngor gyda chanlyniadau defnyddio'r 'offeryn' AFDL. Nid yw'r offeryn yn addas i'w ddefnyddio yng nghyd-destun sir fel Ceredigion. Gallwn roi sylwadau mwy manwl, ond mae cyfyngiadau amser yn golygu y bydd yn rhaid i'r uchod wneud. Pan ddeuthum yn ôl i Aberystwyth ym 1985 nid oedd contract adeiladu na ellid ei gyflawni gan adeiladwr lleol gan ddefnyddio ymgynghorwyr pensaernïol, sifil, strwythurol, mesur meintiau lleol. Ers hynny bu gostyngiad enfawr yn yr holl alluoedd hyn. Mae'r gostyngiad hwn i'w briodoli'n llwyr i fethiant llywodraeth genedlaethol a lleol i fynd i'r afael â'r materion sy'n wynebu Ceredigion (a llawer o siroedd gwledig/arfordirol eraill).<br><br>Mae'r systemau caffael a chynllunio a fabwysiadwyd wedi dinistrio busnesau lleol ac felly cyflogaeth ar raddfa enfawr. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad yn y boblogaeth oedran gweithio leol ac wedi niweidio pob rhan o'r economi. Mae hefyd wedi niweidio'r Gymraeg.<br><br>Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw un yn y sector preifat, ac eithrio fi fy hun, yr ymgynghorwyd â hwy ar yr AFDL hwn. Does bosib nad oes yna adeiladwyr eraill, yn ogystal â | Nodir eich sylwadau, a byddwn yn eu hystyried yn ystod y broses o lunio'r Asesiad nesaf o'r Farchnad Dai Leol. Gwerthfawrogwn yr amser yr ydych wedi ei gymryd i ddarllen yr adroddiad a darparu adborth manwl.<br><br>Nid yw'r sylw hwn o fewn cylch gwaith yr AFDL.<br><br>Penderfynwyd ei fod yn cael ei rannu gyda'r Bartneriaeth Tai Strategol yn unig. Mae'r Tîm bob amser yn croesawu |

| | | |
|---|---|---|
| | phenseiri, peirianwyr, syrfewyr meintiau a gwerthwyr tai y dylid bod wedi ymgynghori â nhw.<br><br>Mae'r AFDL hwn yn rhagdybio y bydd methiannau blaenorol y llywodraeth a arweiniodd at ostyngiad yn y boblogaeth yn parhau. Derbyniad o fethiant yw'r dybiaeth hon a dylid ei thrin â'r dirmyg y mae'n ei haeddu. | trafodaeth ar gynyddu aelodaeth, a byddwn yn archwilio hyn eto yn ystod cynhyrchu'r LHMA nesaf. |
| Grŵp Tai Wales and West (WWH) | Mae'n amlwg bod defnyddio templed LIC wedi sicrhau rhai canlyniadau annisgwyl nad ydynt yn adlewyrchu'r realiti a brofwn. Ar y sail honno felly mae'n anodd darparu unrhyw adborth ystyrlon. Os oes cyfle i adolygu'r fethodoleg byddwn yn hapus i gynorthwyo gyda hynny. | Diolch am eich adborth, mae eich sylw wedi'i nodi a byddwn mewn cysylltiad os bydd cyfle i adolygu'r fethodoleg. |

## 2. Rhestr o Ffigurau

Ffigur 1: Amcangyfrifon anghenion tai ychwanegol blynyddol gan ddefnyddio'r amcanestyniad amrywiad uwch.

Ffigur 2: Dadansoddiad manwl o'r amcangyfrifon o'r angen net am dai ychwanegol dros 5 mlynedd gyntaf cyfnod yr AFDL.

Ffigur 3: Amcangyfrif o gyfanswm yr angen ychwanegol am dai fesul AMT a deiliadaeth (angen gros).

Ffigur 4: Dadansoddiad manwl o'r amcangyfrifon o gyfanswm yr angen ychwanegol dros y 10 mlynedd sy'n weddill o'r cyfnod AFDL.

Ffigur 5: Amcangyfrif o'r angen cyffredinol blynyddol am dai fforddiadwy ychwanegol fesul AMT (angen net) dros 15 mlynedd yr AFDL.

Ffigur 6: Eitemau data, tybiaethau allweddol a thybiaethau AMT a ddefnyddir yn yr offeryn AFDL.

Ffigur 7: Ardaloedd Marchnad Dai (AMD) yng Ngheredigion.

Ffigur 8: Ceredigion: Amcanestyniadau Poblogaeth Seiliedig ar 2018 gyda'r Chyfrifiad a'r ACB.

Ffigur 9: Cyfanswm amcangyfrifon poblogaeth 2011-2021 fesul AMD.

Ffigur 10: Proffil Oedran Amcangyfrifedig - Ardal Marchnad Dai, Ceredigion a Chymru 2021.

Ffigur 11: Newid i'r nifer o drigolion yn bob grŵp oedran rhwng 2011 a 2021.

Ffigur 12: Canran o grwpiau ethnig yng Ngheredigion (2021).

Ffigur 13: Canran o'r newid i grwpiau ethnig rhwng 2011 a 2021.

Ffigur 14: Canran y newid yn nifer y gwahanol grwpiau ethnig rhwng 2011 a 2021, fesul AMD.

Ffigur 15: Canran y rhai â phroblem iechyd hirdymor neu anabledd fesul AMD.

Ffigur 16: Canran y bobl sy'n hawlio budd-dal diweithdra (2018 – 2023).

Ffigur 17: Pellter a deithiwyd i'r gwaith.

Ffigur 18: Y 5 prif lleoliad gwaith yng Ngweithlu Ceredigion (2021).

Ffigur 19: Incwm canolrif yng Nghymru a Ceredigion (2018 – 2022).

Ffigur 20: Incwm canolrif aelwydydd yng Ngheredigion ac yn ôl AMD (2022).

Ffigur 21: Prisiau Tai Canolrifol ar draws Cymru a'r newid % mewn prisiau yn Ganolbarth Cymru rhwng 2019 a 2022.

Ffigur 22: Fforddiadwyedd aelwydydd 2018-2022, Ceredigion a Chymru.

Ffigur 23: Cymhareb Fforddiadwyedd Aelwydydd yn ôl AMD rhwng 2018-2022.

Ffigur 24: Nifer o aelwydydd yn ôl Ardal Marchnad Dai (2021).

Ffigur 25: Maint y cartref - AMD, Ceredigion a Chymru (2021).

Ffigur 26: Amcanestyniadau aelwydydd Llywodraeth Cymru ar sail 2018 a 2014 – Ceredigion (2018 i 2037).

Ffigur 27: Cyfansoddiad Aelwydydd Ceredigion (2011 & 2021).

Ffigur 28: Daliadaeth yng Ngheredigion a ledled Cymru – 2021.

Ffigur 29: Canran yr aelwydydd yn ôl deiliadaeth yng Ngheredigion (2001-2021).

Ffigur 30: Cyfraddau adeiladu tai fforddiadwy a thai marchnad agored yn y gorffennol - Ceredigion (2013-2023).

Ffigur 31: Daliadaeth yn ôl Math o Lety – Sector perchen-feddianwyr.

Ffigur 32: Nifer o Ystafelloedd yn ôl Math Llety – Sector perchen-feddianwyr.

Ffigur 33: Pris Tai Cyfartalog yn ôl AMD rhwng 2017 a 2022.

Ffigur 34: Nifer y Gwerthiannau yn ôl Ardal Farchnad Tai 2012-2022.

Ffigur 35: Daliadaeth yn ôl math Llety – Sector Rhentu Preifat.

Ffigur 36: Nifer o Ystafelloedd yn ôl Math Llety – Sector Rhentu Preifat.

Ffigur 37: Cost canolrifol rhenti misol– Sector Rhentu Preifat.

Ffigur 38: Daliadaeth yn ôl math Llety – Sector Rhentu Cymdeithasol.

Ffigur 39: Nifer o Ystafelloedd yn ôl Math Llety – Sector Rhentu Cymdeithasol.

Ffigur 40: Canran o Ail Dai yn ôl Awdurdod Lleol.

Ffigur 41: Canran yr Ail Gartrefi yn ôl Ardal Farchnad Dai 2023.

Ffigur 42: Nifer y Tai Gwag yng Ngheredigion 2018-2023.

Ffigur 43: Canran yr Eiddo Gwag fesul AMD (2023).

Ffigur 44: Anghenion Hygyrchedd – AMD Aberystwyth

Ffigur 45: Anghenion Hygyrchedd – AMD Arfordirol

Ffigur 46: Anghenion Hygyrchedd – AMD Arall

Ffigur 47: Anghenion Hygyrchedd – AMD Dyffryn Teifi

Ffigur 48: Ceisiadau Grant Cyfleusterau i'r Anabl a'r rhai a gwblhawyd yng Ngheredigion (2017/18-2021/22).

Ffigur 49: Aelwydydd Aml-genhedlaeth yn ôl deiliadaeth yng Ngheredigion (2021).

Ffigur 50: Aelwydydd aml-genhedlaeth yn ôl graddfa deiliadaeth ystafell wely yng Ngheredigion (2021).

Ffigur 51: Aelwydydd mewn Llety Dros Dro yng Ngheredigion (2018-2023).

Ffigur 52: Nifer y myfyrwyr sydd wedi cofrestru ym Mhrifysgol Aberystwyth (2008/09-2021/22).

Ffigur 53: Canran y llety ar Gampws Llambed a feddiannwyd rhwng blynyddoedd academaidd (2018/19 i 2022/23).

Ffigur 54: Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant – amcanestyniadau myfyrwyr Campws Llambed (2024/25 i 2028/29).

# 3. Rhestr o Dablau

Tabl 1: Materion a nodwyd gyda chyfrifiadau ac allbynnau o'r offeryn AFDL (amrywiad uwch).

Tabl 2: Materion allweddol a nodwyd o fewn mewnbynnau data'r offeryn.

Tabl 3: Proffil Oedran Ceredigion a Chymru yn ôl grwpiau oedran 5-mlynedd – Cyfrifiad 2021.

Tabl 4: Canran o'r newid i grwpiau ethnig yn ôl AMD (2021).

Tabl 5: Cymhareb Fforddiadwyedd Aelwydydd yn ôl AMD (2022).

Tabl 6: Canran cyfansoddiad aelwydydd fesul Ardal Farchnad Dai.

Tabl 7: Gradd daliadaeth Ceredigion a Chymru – 2011 a 2021.

Tabl 8: Gradd daliadaeth yn ôl AMD (2021).

Tabl 9: Aelwydydd yn ôl daliadaeth: Ceredigion (2001-2011).

Tabl 10: Pris tai cyfartalog a nifer y gwerthiannau yn ôl math o annedd (2022).

Tabl 11: Gwahaniaeth yn y Pris Tai Cyfartalog rhwng 2017 a 2022.

Tabl 12: Nifer y cyfanswm o Rhenti – Sector Rhentu Preifat (2022).

Tabl 13: Rhenti Cymdeithasol Wythnosol yn ôl maint ystafelloedd gwely yng Ngheredigion (2023).

Tabl 14: Nifer yr Ail Gartrefi yng Ngheredigion yn ôl Ardal Farchnad Dai 2018-2023.

Tabl 15: Cymhareb Fforddiadwyedd ar gyfer Ceredigion a phob AMD (2022).

Tabl 16: Newid yn Nifer y Tai Gwag 2022 a 2023.

Tabl 17: Aelwydydd sydd angen eiddo hygyrch fesul AMD a nifer yr ystafelloedd gwely, yn ôl y Gofrestr Tai Hygyrch.

Tabl 18: Aelwydydd â salwch hirdymor neu anabledd sy'n effeithio ar eu hanghenion tai (2022).

Tabl 19: Cyfanswm stoc hygyrch LCC yng Ngheredigion yn ôl statws eiddo.

Tabl 20: Aelwydydd â salwch hirdymor neu anabledd gydag amcanestyniadau 2022 i 2037.

Tabl 21: Aelwydydd â salwch neu anabledd hirdymor gydag amcanestyniad 2022-2037 a chartrefi y gellir eu haddasu.

Tabl 22: Llety brys/dros dro (hunangynhwysol) gan AMD a nifer yr ystafelloedd gwely yng Ngheredigion.

Tabl 23: Llety arbenigol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth yn ôl Ardaloedd Marchnad Dai Ceredigion (2023).

Tabl 24: Nifer yr ymgeiswyr ar y Gofrestr Tai Cyffredin sy'n aros am lety Tai Gwarchod a Gofal Ychwanegol (Mehefin 2023).

Tabl 25: Ffigurau meincnod ar gyfer Tai Arbenigol Pobl Hŷn ar gyfer Ceredigion – model LIN/SHOP Tai. (Cyffredinolrwydd fesul 1,000).

Tabl 26: Rhagamcan o'r gofyniad am lety arbenigol ar gyfer aelwydydd pobl hŷn yng Ngheredigion dros gyfnod yr AFDL.

Tabl 27: Amcangyfrifon blynyddol o'r angen am dai ychwanegol ar gyfer pum mlynedd gyntaf y cyfnod AFDL, net o gyflenwad cynlluniedig a throsiant y stoc bresennol.

# 4. Rhestr o Gyfeirnodau

Arolygiaeth Gofal Cymru (2023). Gwasanaethau Cartref Gofal. Ar gael yn: Microsoft Power BI.

CACI Paycheck (2018, 2019, 2020, 2021, 2022).

CACI Paycheck (2022).

CLILC a CLlLC (2020). Mesur perfformiad awdurdodau lleol 2019-2020. Ar gael yn: Mesur perfformiad awdurdodau lleol 2019-20 – Data Cymru

Cofrestrfa Tir EF (2023). Data Agored. [Ar-lein]. Ar gael yn: HM Land Registry Open Data

Cyngor Sir Ceredigion (2007). Cynllun Datblygu Lleol – Cyfrol 1 Strategaeth a Chynlluniau.

Cyngor Sir Ceredigion (2018-2023) Data Treth y Cyngor.

Cyngor Sir Ceredigion (2021) *Data Ail Gartrefi a Gosodiadau Gwyliau Ceredigion*. C. Ceredigion second homes and holiday lets data.pdf

Cyngor Sir Ceredigion (2021) *Data am Ail Gartrefi a Llety Gwyliau Ceredigion*. C. Data am ail gartrefi a llety gwyliau Ceredigion.pdf

Cyngor Sir Ceredigion (2022) Cofrestr Tai Cymdeithasol.

Cyngor Sir Ceredigion (2022). Prosbectws ALl (PDP) – Ceredigion

Cyngor Sir Ceredigion (2023) – Adran Gofal Cymdeithasol.

Cyngor Sir Ceredigion (2023). Tai i Bawb 2023-2028. [Ar-lein]. Ar gael yn: 20a9485dcf070e3d73006dcace32d11c_Housing_Strategy_2023-2028.pdf (amazonaws.com) (Cyrchwyd: 20.06.2023).

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2019). Eiddo gwag. Ar gael yn: Empty properties (senedd.cymru)

HESA (2023). Full-time and sandwich HE student enrolments by HE provider and term-time accommodation. Ar gael yn: Where do HE students study? | HESA

LIN Tai (2018) Asesiad o anghenion tai a llety ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yng Ngorllewin Cymru. Ar gael yn: Need and demand assessment: supported and specialised housing – Our services – Consultancy – Housing LIN

LIN Tai (2018). Asesiad o'r Galw Arbenigol am Dai a Llety ar gyfer Pobl Hŷn yng Ngorllewin Cymru ar gyfer Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru.

LIN Tai (2020). Asesiad o'r galw am dai a llety arbenigol i bobl hŷn yng Nghymru. Ar gael yn: Independent report on accommodation for older people (gov.wales)

Llywodraeth Cymru (2013) Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru. Ar gael yn: the-strategy-for-older-people-in-wales-2013-2023.pdf (gov.wales)

Llywodraeth Cymru (2014). Cychwyn llunio eich asesiadau marchnad dai leol – Canllaw cam wrth gam. Ar gael yn: Asesiad o'r farchnad dai leol: canllawiau i awdurdodau lleol (llyw.cymru)

Llywodraeth Cymru (2020). Amcanestyniadau aelwydydd awdurdodau lleol Cymru: seiliedig ar 2018 (diwygiedig). Ar gael yn: Amcanestyniadau aelwydydd awdurdodau lleol Cymru: seiliedig ar 2018 (diwygiedig) (gov.wales)

Llywodraeth Cymru (2021) Gwaith ymchwil ar ail gartrefi: crynodeb o'r adolygiad o'r dystiolaeth. Gwaith ymchwil ar ail gartrefi: crynodeb o'r adolygiad o'r dystiolaeth | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru (2021). Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 11. [Ar-lein]. Ar gael yn: Polisi Cynllunio Cymru – Rhifyn 11 (llyw.cymru) .

Llywodraeth Cymru (2022). Cynnal Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol. Ar gael yn: WG43846 (llyw.cymru)

Llywodraeth Cymru (2023) Swyddogion Rhenti Cymru – Rhenti Preifat.

Llywodraeth Cymru (2023). Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. [Ar-lein]. Ar gael yn: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – The Future Generations Commissioner for Wales (Cyrchwyd: 31.05.23).

Llywodraeth Cymru (2023). Treth Gyngor ar dai gwag ac ail gartrefi. Ar gael yn: Treth Gyngor ar dai gwag ac ail gartrefi [HTML] | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) *Canllaw Arferion Da Ar Gartrefi Gwag*. canllaw-arferion-da-ar-gartrefi-gwag_0.pdf (llyw.cymru)

NOMIS (2011-2020). Amcangyfrifon poblogaeth – ardal fechan yn ôl blwyddyn sengl. Ar gael yn: Nomis - Official Census and Labour Market Statistics - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk) (Cyrchwyd: 19.06.23).

NOMIS (2023). Nifer yr aelwydydd aml-genhedlaeth yn ôl deiliadaeth aelwydydd. Ar gael yn: RM197 – Number of multi-generational households by household tenure – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

Prifysgol Aberystwyth – Rhagolygon Cynllunio Myfyrwyr.

Prifysgol Aberystwyth (2023) – Gwobrau a Safleoedd. Ar gael yn: Gwobrau ac Acolâdau: Amdanom Ni, Prifysgol Aberystwyth

Prifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant (2023) – Data cyfrif pennau'r Swyddfa Llety.

Stats Cymru (2023). Cartrefi gwag ac ail gartrefi sy'n daladwy, yn ôl awdurdod lleol, yn ôl blwyddyn (nifer yr anheddau). Ar gael yn: Cartrefi gwag ac ail gartrefi sy'n daladwy, yn ôl awdurdod lleol, yn ôl blwyddyn (nifer yr anheddau) (llyw.cymru)

Stats Cymru (2023). Grantiau ar gyfer cyfleusterau i bobl anabl yn ôl ardal awdurdod lleol a'r math o grant. [Ar-lein]. Ar gael yn: Grantiau ar gyfer cyfleusterau i bobl anabl yn ôl ardal awdurdod lleol a'r math o grant (llyw.cymru)

Stats Cyrmu (2023). Anheddau sy'n destun treth gyngor, yn ôl awdurdod lleol (nifer yr anheddau). Ar gael yn: Anheddau sy'n destun treth gyngor, yn ôl awdurdod lleol (nifer yr anheddau) (llyw.cymru)

StatsCymru (2020) Amcanestyniadau o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn. Ar gael yn: Amcanestyniadau o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn (llyw.cymru)

StatsCymru (2021). Amcanestyniadau aelwydydd yn ôl awdurdod lleol, math o aelwyd a blwyddyn– amrywiad uwch. Ar gael yn: Amcanestyniadau aelwydydd yn ôl awdurdod lleol, math o aelwyd a blwyddyn (gov.wales)

StatsCymru (2022). Amcangyfrifon o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol ac oedran. Ar gael yn: Population estimates by local authority and age (gov.wales).

StatsCymru (2022). Y boblogaeth breswyl arferol yn ôl oedran ac awdurdod lleol [Ar-lein]. Ar gael yn Y boblogaeth breswyl arferol yn ôl oedran ac awdurdod lleol(Cyrchwyd: 19.06.23).

StatsCymru(2020). Amcanestyniadau aelwydydd yn ôl amrywiad a blwyddyn. Ar gael yn: Amcanestyniadau aelwydydd yn ôl amrywiad a blwyddyn

StatsCymru(2021). Amcanestyniadau aelwydydd yn ôl math o aelwyd a'r flwyddyn. [Ar-lein]. Ar gael yn: Amcanestyniadau aelwydydd yn ôl math o aelwyd a'r flwyddyn.

StatsCymru(2023). Amcangyfrifon o'r stoc anheddau yn ôl awdurdod lleol a deiliadaeth. [Ar-lein]. Ar gael yn: Amcangyfrifon o'r stoc anheddau yn ôl awdurdod lleol a deiliadaeth

SYG – Nifer y bobl sy'n hawlio budd-dal diweithdra (2018, 2019, 2020, 2021, 2022 a 2023). [Ar-lein]. Ar gael yn: Claimant Count – Data Sources – home – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

SYG (2011) – Cyfrifiad QS412EW – Graddfa Deiliadaeth (ystafelloedd gwely). [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis - Official Census and Labour Market Statistics - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

SYG (2011) – Cyfrifiad: KS105EW – Cyfansoddiad Aelwydydd. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis – Official Census and Labour Market Statistics – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

SYG (2011) – Cyfrifiad: QS201EW – Grŵp Ethnig. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis – Official Census and Labour Market Statistics – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

SYG (2011) – Cyfrifiad: QS201EW – Grŵp Ethnig. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis – Official Census and Labour Market Statistics – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

SYG (2011) Cyfrifiad – QS702EW – Pellter Teithio i'r Gwaith. [ Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis - Official Census and Labour Market Statistics - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

SYG (2020). Asesiad Tai Canolbarth a De-orllewin Cymru: Crynodeb o'r Farchnad Dai Leol ar gyfer Ceredigion 2019.

SYG (2022) – Cyfrifiad RM0003 – Deiliadaeth yn ôl Math o Lety. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis – Official Census and Labour Market Statistics – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

SYG (2022) – Cyfrifiad RM136 – Deiliadaeth yn ôl Nifer yr Ystafelloedd Gwely. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis – Official Census and Labour Market Statistics – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

SYG (2022) – Cyfrifiad TS033 – Sgiliau Cymraeg (siarad). [Ar-lein] Ar gael yn: Nomis – Official Census and Labour Market Statistics – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk).

SYG (2022) – Cyfrifiad TS052 - Graddfa Deiliadaeth (ystafelloedd gwely). [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis - Official Census and Labour Market Statistics - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

SYG (2022) – Cyfrifiad TS052 - Graddfa Deiliadaeth ar gyfer ystafelloedd gwely. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis - Official Census and Labour Market Statistics - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

SYG (2022) – Cyfrifiad TS054 – Deiliadaeth. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis – Official Census and Labour Market Statistics – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

SYG (2022) – Cyfrifiad TS054 – Deiliadaeth. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis – Official Census and Labour Market Statistics – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

SYG (2022) – Cyfrifiad: TS003 – Cyfansoddiad Aelwydydd. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis – Official Census and Labour Market Statistics – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

SYG (2022) – Cyfrifiad: TS007 – Oedran yn ôl blwyddyn sengl. [Ar-lein]. Ar gael yn: TS007 – Age by single year – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk) (Cyrchwyd: 19.06.23).

SYG (2022) – Cyfrifiad: TS021 – Grŵp Ethnig. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis – Official Census and Labour Market Statistics – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

SYG (2022) – Cyfrifiad: TS038 – Anabledd. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis – Official Census and Labour Market Statistics – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk).

SYG (2022) – Cyfrifiad: TS041 – Nifer yr Aelwydydd. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis – Official Census and Labour Market Statistics – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

SYG (2022) Cyfrifiad – TS058 – Pellter Teithio i'r Gwaith. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis - Official Census and Labour Market Statistics - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

SYG (2022). Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion. [Ar-lein]. Ar gael yn: Annual Survey of Hours and Earnings (ASHE) – Office for National Statistics

SYG (2022). Poblogaeth breswyl arferol yn ôl oedran ac awdurdod lleol. Ar gael yn: Age by single year - Office for National Statistics (ons.gov.uk)

SYG (2022). Sut mae bywyd wedi newid yng Ngheredigion: Cyfrifiad 2021. [Ar-lein]. Ar gael yn: How life has changed in Ceredigion: Census 2021 (ons.gov.uk).

SYG (2023). Amrywiad aml-genedlaethau yn yr aelwyd: Cyfrifiad 2021. [Ar-lein]. Ar gael yn: Amrywiad aml-genedlaethau yn yr aelwyd: Cyfrifiad 2021.

SYG (2023). Canolrif prisiau tai ar gyfer daearyddiaeth weinyddol: HPSSA setdata 9. Ar gael yn: Median house prices for administrative geographies: HPSSA dataset 9 - Office for National Statistics (ons.gov.uk)

SYG (2023). Cyfrifiad 2021: Tabl RM197 – Nifer yr aelwydydd aml-genhedlaeth yn ôl deiliadaeth aelwydydd

SYG (2023). Living longer: changes in housing tenure over time. Ar gael yn: Living longer – Office for National Statistics (ons.gov.uk)

SYG (2023). ODWP01EW – Lleoliad preswylfa arferol a gweithle. Ar gael yn: Origin-destination data, England and Wales: Census 2021 - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

SYG (2023). Prisiau tai canolrifol fesul ward: HPSAA setdata 37. Ar gael yn: Median house prices by ward: HPSSA dataset 37 - Office for National Statistics (ons.gov.uk)

SYG (2023). RM197 – Nifer yr aelwydydd aml-genhedlaeth yn ôl deiliadaeth. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis - Official Census and Labour Market Statistics - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

SYG Cyfrifiad (2001) – Deiliadaeth KS018. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis – Official Census and Labour Market Statistics – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

SYG Cyfrifiad (2011) – Deiliadaeth WD403EW. [Ar-lein]. Ar gael yn: Nomis – Official Census and Labour Market Statistics – Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

Tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant Cyngor Sir Ceredigion (2023).

UK Gov (2023). Tenancy reform: Renters (Reform) Bill. Ar gael yn: Tenancy reform: Renters (Reform) Bill – GOV.UK (www.gov.uk)

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2023). Ar gael yn: https://stat-xplore.dwp.gov.uk/webapi/jsf/dataCatalogueExplorer.xhtml data sets: Attendance Allowance (AA), Disability Living Allowance (DLA) and Personal Independence Payments (PIP).

# CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **19.03.2024** |
| **Teitl:** | **Asesiad o'r Farchnad Dai Leol** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Rhoi adborth yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach ar 11 Mawrth 2024** |

**Cefndir:**
Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn ofyniad statudol ar bob awdurdod lleol, o dan Ddeddf Tai 1985, sy'n gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i asesu lefel yr angen am dai yn y Sir o dro i dro.

Ystyrir Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol, Cynlluniau Datblygu Strategol a Strategaethau Tai Lleol. Disgwylir i awdurdodau lleol ailysgrifennu Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol bob pum mlynedd ac adnewyddu'r Asesiad hwnnw o'r Farchnad Dai Leol unwaith yn ystod y cyfnod hwnnw o bum mlynedd (rhwng blynyddoedd dau a thri). Ar hyn o bryd mae Ceredigion yn y cyfnod adnewyddu.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno yw 29ain Mawrth 2024.

**Argymhelliad:**
Yn dilyn trafodaeth, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i argymell y dylai'r Cabinet:

1. gymeradwyo'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn dilyn diwedd y cyfnod ymgynghori a'i fabwysiadu.

**Rheswm dros y penderfyniad:**
Bodloni'r gofyniad statudol a'r dyddiad cau a bennwyd.

**Y Cynghorydd Caryl Roberts**
***Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach***

## CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **19/03/2024** |
| **Teitl:** | **Cynllun Cydraddoldeb Strategol Ceredigion 2024-28** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **I gyflwyno Cynllun Cydraddoldeb Strategol Ceredigion 2024-28 i'w gymeradwyo** |
| **Er:** | **Penderfyniad** |

**Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:**
**Y Cynghorydd Catrin M S. Davies, Aelod Cabinet ar gyfer Diwylliant, Hamdden a Gwasanaethau Cwsmeriaid**

**Cyflwyniad**
Cyflwynwyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft Cyngor Sir Ceredigion 2024-28 i'r Cabinet ar 03/10/2023. Cymeradwyodd yr Aelodau y Cynllun drafft gan chymeradwyo ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod Gaeaf 2023.

**Y Sefyllfa ar hyn o bryd**
Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 25/10/23 a 31/12/23. Fe'i hyrwyddwyd yn eang ac fe'i cyflwynwyd hefyd i Gyngor Ieuenctid Ceredigion i gasglu barn pobl ifanc. Ymatebodd 43 o bobl i'r arolwg ar-lein, dychwelwyd 0 copi papur a rhoddodd 16 aelod o'r Cyngor Ieuenctid adborth.

Roedd ymatebwyr yn gyffredinol yn teimlo mai ein pum Amcan Cydraddoldeb oedd yr Amcanion Cydraddoldeb cywir ar gyfer y Cyngor - dywedodd cyfartaledd o 94% 'ie'. Roedd cyfartaledd o 83% o'r bobl a ymatebodd yn teimlo y byddai'r camau gweithredu yn y cynllun yn ein helpu i gyflawni ein hamcanion. Mae mwy o wybodaeth yn adroddiad yr Ymgynghoriad (Atodiad 2).

Cyhoeddwyd adroddiad monitro'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 'A yw Cymru'n Decach?' ym mis Tachwedd 2023. Mae'r adroddiad yn atgyfnerthu'r angen am y camau gweithredu a nodir yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft 2024-28. Mae camau gweithredu hefyd wedi'u cynnwys i gefnogi cynllun gweithredu Cymru Gwrth-hiliol Llywodraeth Cymru. Mae'r camau hyn wedi'u marcio â seren * yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28.

Caiff ein Gweithgor Cydraddoldeb ei gydlynu gan wasanaeth Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ac mae'n cael ei gadeirio gan y Cynghorydd Catrin MS Davies (Hyrwyddwr Cydraddoldeb). Mae'r grŵp yn gyfrifol am ddatblygu a monitro ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Gwnaeth y grŵp gyfarfod ym mis Ionawr 2024 i adolygu'r Cynllun Cydraddoldeb drafft yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus. Cytunodd y grŵp ar y diwygiadau canlynol i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol:

- Diwygio cam gweithredu 3.1 i gynnwys 'pobl ifanc' yn y mesur llwyddiant.

- Darganfod mwy am Orsensitifrwydd Trydanol.
- Annog staff i fynd â blwch adborth anhysbys i ymgynghoriadau wyneb yn wyneb.
- Diwygio ein pecyn cymorth Ymgysylltu mewnol i gynnig rhagor o ffyrdd i bobl ddweud wrthym beth yw eu barn pan fyddwn yn ymgynghori â nhw.
- Diwygio camau gweithredu penodol o dan Amcan 4 i gynnwys y term 'profiad bywyd'.
- Newid ein ffurflen fonitro cydraddoldeb fel ei bod yn gofyn am 'ryw' unigolyn, ac mewn cwestiwn pellach yn gofyn am eu 'hunaniaeth rhywedd'.
- Dileu'r cam gweithredu, "sefydlu model integredig o ofal cymunedol a thai cymunedol yn Nhregaron". Roedd y grŵp yn teimlo bod amrywiaeth o faterion yn cyfrannu at gyflawni'r canlyniad hwn, y mae'r rhan fwyaf ohonynt y tu allan i gylch gwaith y gweithgor Cydraddoldeb. Mae'r cam gweithredu wedi'i gynnwys yn Strategaeth Gorfforaethol 2022-27.

Mae'r Cynllun wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 ac yn dilyn cymeradwyaeth gan y Cabinet fe fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor erbyn 31/03/24.

**<u>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:</u>**
**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam**

Oes.

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**

**Hirdymor:** Mae hwn yn gynllun pedair blynedd sy'n adeiladu ar gynlluniau blaenorol. Gellir cario materion cydraddoldeb hirsefydlog o un cynllun pedair blynedd i'r nesaf. Mae hyn yn ein galluogi i fynd i'r afael ag anghenion tymor hwy a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

**Cydweithio:** Mae llawer o gyfleoedd i gydweithio ag eraill er mwyn cyflawni'r cynllun. Er enghraifft, bydd angen cydweithio ar y cynllun newydd i raddedigion gyda phrifysgolion; byddwn yn gweithio gyda Chymorth i Ddioddefwyr i weithredu'r 'Trustmark' Troseddau Casineb a byddwn yn gweithio gyda'r tîm Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol ar ystod o gamau gweithredu.

**Cynnwys:** Cynhaliwyd ymgyrch ymgysylltu ranbarthol i gasglu adborth cychwynnol ar gyflwr cydraddoldeb yn ardal Dyfed Powys. Aeth y Cynllun drafft allan i ymgynghoriad cyhoeddus yng ngaeaf 2023. Mae'r cynllun Cydraddoldeb ei hun yn cynnwys camau gweithredu i wneud mwy gyda grwpiau o randdeiliaid o grwpiau lleiafrifol penodedig ac i wella'r ffordd yr ydym yn rhoi adborth i'r rheini sydd wedi cymryd rhan yn ein hymgyrchoedd Ymgysylltu ac ymgynghori.

**Atal:** Mae'r cynllun wedi'i ddatblygu o ganlyniad i'n gwaith ymgysylltu a'n hymchwil i gyflwr presennol cydraddoldeb yng Ngheredigion. Nod y cynllun yw cydlynu ein hadnoddau i nodi a mynd i'r afael ag achosion sylfaenol anghydraddoldeb.

**Integreiddio:** Mae'r gweithgor Cydraddoldeb yn cynnwys cynrychiolwyr o ystod o Wasanaethau'r Cyngor. Mae hyn yn ein helpu i ystyried rhyngddibyniaethau a thensiynau posibl rhwng gwasanaethau a'r pedair colofn llesiant.

**Argymhelliad / Argymhellion:**
**Cymeradwyo Cynllun Cydraddoldeb Strategol Ceredigion 2024-28.**

**Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:**
**Bydd hyn yn datblygu nod y Cyngor i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rheini nad ydynt yng Ngheredigion.**

**Trosolwg a Chraffu:**
Cyflwynwyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar 04/03/2024.

**Fframwaith Polisi:**
Strategaeth Gorfforaethol 2023-28
Cynllun Cydraddoldeb Strategol

**Amcanion Llesiant Corfforaethol:**
- Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth
- Creu cymunedau gofalgar ac iach
- Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi pobl o bob oed i ddysgu
- Creu cymunedau cynaliadwy a gwyrdd sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd

**Goblygiadau Cyllid a Chaffael:**
Dim

**Goblygiadau cyfreithiol:**
Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb ac adolygu'r rhain o leiaf bob pedair blynedd. Rhaid cyhoeddi'r Amcanion Cydraddoldeb, a'r camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni pob amcan, erbyn 2 Ebrill fan bellaf.

**Goblygiadau staffio:**
Dim

**Goblygiadau eiddo / asedau:**
Dim

**Risg(iau):**
Mae perygl o niwed i enw da, cwyn a her gyfreithiol os nad ydym yn cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb a Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (Cymru).

**Pwerau Statudol:**
Deddf Cydraddoldeb 2010
Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

**Papurau Cefndir:**
Gwybodaeth a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 03/10/2023 - Adroddiad- Cynllun Cydraddoldeb Strategol Drafft Ceredigion 2024-28.pdf

**Atodiadau:**
Atodiad 1 - Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28
Atodiad 2 - Adroddiad yr Ymgynghoriad Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28
Atodiad 3 - Asesiad Effaith Integredig wedi'i ddiweddaru

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:**
Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

**Swyddog Adrodd:**
Cathryn Morgan, Rheolwr Cydraddoldeb a Chynhwysiant

**Dyddiad:**
26/02/2024

**Atodiad 1**

# Ceredigion Deg a Chyfartal 2024-28

## Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir Ceredigion

## Drafft 5



Cyngor Sir CEREDIGION County Council

**Awdur:** Partneriaethau a Pherfformiad CM

**Cymeradwywyd gan y Cabinet:** XX/XX/XXXX

**Dyddiad Cyhoeddi:** XX/XX/XXXX

**Sut i gysylltu â ni:**

Gellir cyflwyno sylwadau ac awgrymiadau i'n helpu i wella a pherfformio orau fel sefydliad cyfle cyfartal ar unrhyw adeg i'r:

**Tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant**

Cyngor Sir Ceredigion, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3UE

clic@ceredigion.gov.uk

**Fformatau hygyrch**

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni.

Mae pob cyhoeddiad hefyd ar gael i'w lawrlwytho a'i archebu mewn amrywiaeth o fformatau o'n gwefan.

DRAFT

# Cynnwys

**1. Rhagair** .... 4

**2. Cefndir** .... 4

**2.1 Y Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol** .... 4

**2.2 Ymrwymiad i'r Gymraeg** .... 5

**2.3 Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol** .... 5

**2.4 Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol y Sector Cyhoeddus (Cymru)** .... 6

**3. Proffil Ceredigion** .... 6

**3.1 Dinasyddion Ceredigion** .... 6

**3.2 Cyngor Sir Ceredigion** .... 7

**4. Ein Hamcanion Cydraddoldeb** .... 8

**4.1 Bod yn Gyflogwr Cyfle Cyfartal Enghreifftiol** .... 8

**4.2 Meithrin Perthynas Dda a Mynd i'r Afael â Rhagfarn** .... 10

**4.3 Sicrhau Ymgysylltu a Chyfranogi** .... 12

**4.4 Sicrhau Urddas, Parch a Mynediad at Wasanaethau** .... 14

**4.5 Darparu Addysg Deg a Chynhwysol** .... 17

**5. Monitro** .... 19

DRAFT

## 1. Rhagair

Dyma ein pedwerydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28. Mae'n disgrifio sut y byddwn yn parhau tuag at ein nod i gyflawni ein hymrwymiad i gydraddoldeb a sut y byddwn yn cyflawni ein rhwymedigaethau a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Yn ystod haf 2023 buom yn casglu barn pobl ar gydraddoldeb yn ein hardal leol. Rydym hefyd wedi defnyddio ffynhonnell dystiolaeth gyfoethog o ymgyrchoedd blaenorol a gynhaliwyd gan y cyngor a Llywodraeth Cymru. Gwnaethom ddrafftio ein Cynllun a'i roi allan ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod gaeaf 2023.

Ein casgliad yw bod ein Hamcanion Cydraddoldeb yn dal yn addas i'r diben ond, oherwydd natur newidiol cymdeithas a'r gwaith yr ydym wedi'i wneud hyd yma, mae angen i ni ddiwygio'r camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion. Ein Hamcanion Cydraddoldeb yw:

1. Bod yn Gyflogwr Cyfle Cyfartal Enghreifftiol
2. Meithrin Perthynas Dda a Mynd i'r Afael â Rhagfarn
3. Sicrhau Ymgysylltu a Chyfranogi
4. Sicrhau Urddas, Parch a Mynediad i Wasanaethau
5. Darparu Addysg Deg a Chynhwysol

## 2. Cefndir

### 2.1 Y Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol

Nod y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol yw sicrhau ein bod yn ystyried anghenion pob unigolyn wrth gyflawni ein gwaith o ddydd i ddydd, wrth ddatblygu polisi, wrth ddarparu gwasanaethau ac mewn perthynas â'r cyhoedd ac â'n gweithlu. Rhaid i gyrff cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen i:

1. Cael gwared â gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf.

2. Hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rheini nad ydynt.

3. Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rheini nad ydynt.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn amddiffyn pobl rhag gwahaniaethu, erledigaeth ac aflonyddu os ydynt yn rhannu un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig canlynol.

- Oed
- Anabledd
- Ailbennu Rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred (gan gynnwys diffyg cred)
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol

Mae rhai pobl yn rhannu mwy nag un o'r nodweddion hyn. Gelwir hyn yn 'croestoriadedd'. Gall effaith croestoriadedd amrywio, ac mae'n anodd ei fesur. Mae angen i ni fod yn ymwybodol o hyn pan fyddwn yn datblygu polisi, yn hybu cydraddoldeb ac yn mynd i'r afael â gwahaniaethu, erledigaeth ac aflonyddu.

**2.2 Ymrwymiad i'r Gymraeg**

Mae hybu a defnyddio'r Gymraeg yn dod o dan ofynion Mesur y Gymraeg 2011 yn hytrach na'r Ddeddf Cydraddoldeb. Fodd bynnag, yng Ngheredigion rydym yn ystyried gofynion y Gymraeg ochr yn ochr â nodweddion gwarchodedig y Ddeddf Cydraddoldeb er mwyn annog dull cydweithredol o weithredu o ran anghenion pob cymuned wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

Mae Mesur y Gymraeg 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i ni sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnwys wrth gynllunio a darparu gwasanaethau. Rhaid i ni gynnig gwasanaethau Cymraeg i siaradwyr Cymraeg heb iddynt orfod gofyn amdanynt. Gelwir hyn yn 'gynnig gweithredol'.

**2.3 Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol**

Daeth y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i rym yng Nghymru yn 2021. Ei nod yw gwella'r broses o wneud penderfyniadau a helpu'r rheini sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn golygu bod a chynilon isel neu incwm isel o gymharu ag eraill yng Nghymru, gan ei gwneud yn anodd cael gafael ar wasanaethau a chyfleoedd sylfaenol. Gall hyn arwain at anghydraddoldeb o ran canlyniadau, er enghraifft lefelau is o iechyd da, gwaith â chyflog is, cyrhaeddiad addysgol gwaeth a risg uwch o ddioddef trosedd.

Mae angen i ni ddeall sut y gall y penderfyniadau a wnawn gynyddu neu leihau cyfleoedd i bobl sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Gwnawn hyn gyda'n hasesiad o'r effaith ar gydraddoldeb sydd yn elfen allweddol o'n Teclyn Asesu Effaith Integredig.

### 2.4 Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol y Sector Cyhoeddus (Cymru)

Yn ogystal â chyflawni'r ddyletswydd gyffredinol, rhaid i gyrff cyhoeddus fel y cyngor gyflawni'r dyletswyddau penodol a ganlyn:

- Pennu Amcanion Cydraddoldeb a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
- Ymgysylltu â phobl mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig.
- Casglu a chyhoeddi gwybodaeth sy'n berthnasol i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gyffredinol.
- Cyhoeddi gwybodaeth monitro cyflogaeth bob blwyddyn.
- Sicrhau bod ein gweithlu yn gwybod ac yn deall ein dyletswydd o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.
- Cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb o bolisïau ac arferion perthnasol.
- Mynd i'r afael â gwahaniaethau annheg rhwng cyflogau.
- Sefydlu amodau perthnasol i fodloni'r ddyletswydd gyffredinol mewn prosesau caffael.
- Adolygu cynnydd ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'n Hamcanion Cydraddoldeb.

## 3. Proffil Ceredigion

### 3.1 Dinasyddion Ceredigion

Mae gan Geredigion boblogaeth o 71,475. Pe gallem gywasgu ein poblogaeth i bentref o tua 100 o bobl, byddai:



- 51 o fenywod a 49 o wrywod.
- 14 o blant 15 oed neu iau a 6 o bobl ifanc rhwng 16 a 19 oed.
- 54 o bobl rhwng 20 a 64 oed.
- 22 o bobl rhwng 65 ac 84 oed a 3 pherson 85 oed neu hŷn.
- 12 myfyriwr prifysgol (amcangyfrif yw hwn sy'n seiliedig ar Where do HE students study? | HESA)
- 1 person y mae ei rhywedd bellach yn wahanol i'r hyn ydoedd pan gawsant eu geni. Byddai'n well gan 8 person beidio â dweud wrthych beth yw eu hunaniaeth o ran rhywedd.
- 5 o bobl sy'n hoyw, lesbiaidd, deurywiol, panrywiol, arywiol neu gwiar. Byddai'n well gan 10 o bobl beidio â dweud wrthych beth yw eu cyfeiriadedd rhywiol.
- 4 o bobl o amrywiaeth o gefndiroedd ethnig heb fod yn wyn.

DRAFT

- 46 o bobl sy'n Gristnogion, 2 berson sydd â chrefydd arall, 43 o bobl heb ddim crefydd. Byddai'n well gan 8 o bobl beidio â dweud wrthych am eu credoau neu ddiffyg credoau.
- 45 o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg. Byddai 7 o'r rhain yn 65 oed neu'n hŷn.
- 22 o bobl sy'n cael eu hystyried yn anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Mae 9 o'r bobl hyn yn cael llawer o anawsterau gyda'u gweithgareddau o ddydd i ddydd.
- 11 o bobl sy'n darparu gofal di-dâl i aelod o'u teulu neu ffrind.

*Ffynhonnell: SYG Proffil Cyfrifiad 2021 ar gyfer ardaloedd yng Nghymru a Lloegr - Nomis (nomisweb.co.uk)*

Pan fyddwn yn ystyried y ddelwedd hon o bobl Ceredigion yn cyd-fyw, mae'n hawdd gwerthfawrogi amrywiaeth ein poblogaeth a'r angen i ni gydnabod a deall hoffterau ac anghenion pawb. Mae'n bwysig bod grwpiau o bobl sydd wedi'u hymyleiddio ac nas clywir yn aml yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau a'u bod yn gallu cael gafael ar wasanaethau.

### 3.2 Cyngor Sir Ceredigion

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn gwneud ein gwaith yn unol â'r gyfraith, a bod arian cyhoeddus yn cael ei gyfrifo'n briodol, ac yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon, ac yn effeithiol.

Rydym wedi ymrwymo i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y bobl sy'n byw, yn gweithio ac yn astudio yng Ngheredigion, ac sy'n ymweld â Cheredigion. Mae'r ymrwymiad hwn wedi'i nodi yn ein Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 sy'n disgrifio sut y bydd y cyngor yn mynd i'r afael â'r heriau sydd o'i flaen ac yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd. Ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol ar gyfer y cyfnod hwn yw:

1. Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth
2. Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach
3. Darparu'r Dechrau Gorau mewn Bywyd a Galluogi i Bobl o Bob oed Ddysgu
4. Creu Cymunedau Cynaliadwy, Gwyrdd sydd â Chysylltiadau Da

Etholir Cynghorwyr Lleol gan y gymuned i benderfynu sut y dylai'r cyngor gyflawni ei weithgareddau. Maent yn cynrychioli budd y cyhoedd yn ogystal â buddiannau unigolion sy'n byw yn y ward y maent wedi'u hethol ynddi. Mae 38 o Gynghorwyr yn cynrychioli'r 34 ward etholiadol yng Ngheredigion.

Mae'r cyngor yn gyfrifol am ystod eang o wasanaethau, megis casglu sbwriel, glanhau strydoedd, cynllunio, addysg, gofal cymdeithasol, cynnal a chadw ffyrdd, iechyd y cyhoedd, amddiffyn plant, unigolion a theuluoedd sy'n agored i niwed, tai, hamdden, amgueddfeydd a llyfrgelloedd. Mae'r cyngor yn cyflogi 2,037 o bobl i ddarparu ein gwasanaethau.

Mae angen i'n holl wasanaethau gydweithio i wneud yn siŵr ein bod yn cyflawni ein hamcanion cydraddoldeb. Mae ein Gweithgor Cydraddoldeb yn ein helpu i wneud hyn. Mae'r gweithgor yn cynnwys cynrychiolydd o ystod o wasanaethau perthnasol ac yn cyfarfod yn rheolaidd i fonitro cynnydd ein gwaith ar gydraddoldeb ac i rannu arferion da ar draws gwasanaethau.

Isod mae ein Hamcanion Cydraddoldeb ar gyfer 2024-28 a'r camau y byddwn yn eu cymryd i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, cael gwared â gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rheini nad ydynt yng Ngheredigion. Mae nifer o'r camau gweithredu wedi'u cynllunio i gefnogi cynllun gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru. Mae'r camau hyn wedi'u marcio â seren*.

## 4. Ein Hamcanion Cydraddoldeb

### 4.1 Bod yn Gyflogwr Cyfle Cyfartal Enghreifftiol

Fel y cyflogwr mwyaf yn y sir, mae'r Cyngor yn cydnabod ac yn croesawu ei gyfrifoldeb o hybu cydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth ar draws ein gweithlu ac arferion recriwtio.

Rydym yn cefnogi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i gyflogi gweithlu sy'n cynrychioli ein poblogaeth, a bod anghydraddoldebau o safbwynt cyflogaeth ar gyfer pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu lleihau.

Y pedwar grŵp uchaf a nododd ymatebwyr i'n harolwg rhanbarthol oedd â phrofiad gwaeth, neu waeth o lawer na'r boblogaeth gyfan o ran gwaith oedd pobl anabl, pobl o leiafrifoedd ethnig, pobl hŷn (65+ oed) a phobl sy'n feichiog neu sydd wedi rhoi genedigaeth yn ddiweddar.

Rydym yn hyderus bod dynion a menywod yn cael eu talu'n gyfartal am wneud swyddi cyfatebol ar draws y Cyngor. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae llai o fenywod mewn rolau uwch na dynion a chyfran uwch o fenywod o gymharu â dynion ar raddfeydd is.

Mae adroddiad monitro'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 'Ydy Cymru'n Decach?' *(Tachwedd 2023)* yn nodi bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn parhau, bod oedolion anabl yn llai tebygol o gael eu cyflogi nag oedolion nad ydynt yn anabl – er bod bylchau cyflogaeth yn gwella, mae bylchau enillion yn gwaethygu. Hefyd bod gweithwyr ethnig lleiafrifol yn fwy tebygol o fod mewn cyflogaeth ansicr ac o weithio mewn galwedigaeth gyflogedig isel. Mae pobl draws yn ofni wynebu gwahaniaethu yn y gweithle.

> "Mae cyfleoedd gwaith i bobl anabl yn symbolaidd ac nid yw cyrff cyhoeddus yn gwneud digon i ddyrchafu a recriwtio pobl anabl mewn cyflogaeth y tu hwnt i swyddi cyflog is. Mewn gwasanaethau cyhoeddus, mae rhwystrau ychwanegol, megis yr angen i siarad Cymraeg sy'n gwahaniaethu'n anuniongyrchol yn erbyn pobl fyddar gan nad oes cyrsiau Cymraeg hygyrch i bobl fyddar yng Nghymru gyfan."
>
> "I bob gwasanaeth cyhoeddus gael mwy o hyfforddiant gwrth-hiliol, cyflogi staff o gefndiroedd amrywiol, a gwybod y gall pobl dduon hefyd fod yn Gymry a pherthyn".
>
> "Nid yw pobl o liw hyd yn oed yn cael cyfle."
>
> *(Arolwg Cydraddoldeb Rhanbarthol, 2023)*

Mae’n dra hysbys ac yn fater sy’n cael ei drafod yn aml bod llawer o bobl ifanc yn gadael y sir i fynd ar drywydd cyfleoedd mewn mannau eraill yng Nghymru neu ymhellach ledled y DU. Rydym yn rhagweld y bydd ein cynllun graddedigion a’n cynlluniau prentisiaeth yn helpu i fynd i’r afael â hyn.

Rhaid i ni wneud yn siŵr bod ein gweithlu, yn enwedig staff sy’n delio’n uniongyrchol â’r cyhoedd a’r rheini sy’n gwneud penderfyniadau allweddol, yn deall anghenion amrywiol ein holl ddinasyddion ac yn cael digon o wybodaeth i allu ymateb i’r anghenion hyn.

**Camau i gyflawni'r Amcan Cydraddoldeb hwn**

**4.1.1 Byddwn yn cyhoeddi adroddiad bob blwyddyn o ran y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac yn cymryd camau i annog cymysgedd mwy cyfartal o ddynion a menywod mewn swyddi gradd is a gradd uwch.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**
Bod canran y bobl sy’n ymgeisio am swyddi, ac sy’n cael eu penodi, yn adlewyrchu demograffeg poblogaeth Ceredigion (Cyfrifiad 2021)

**4.1.2 *Byddwn yn cyhoeddi adroddiad blynyddol o ran cydraddoldeb y gweithlu ac yn cymryd camau i annog cynrychiolaeth gymesur yn ein gweithlu, yn enwedig yn y gweithlu gofal cymdeithasol ac mewn uwch reolwyr.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**
Bod canran y bobl sy’n ymgeisio am swyddi, ac sy’n cael eu penodi, yn adlewyrchu demograffeg poblogaeth Ceredigion (Cyfrifiad 2021)

**4.1.3 Byddwn yn adolygu polisïau adnoddau dynol a llenyddiaeth recriwtio fel eu bod yn adlewyrchu anghenion a hunaniaethau amrywiol y gymuned yr ydym yn byw ynddi.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**
Bod polisïau adnoddau dynol a llenyddiaeth recriwtio yn cael eu hadolygu a'u diweddaru lle bo'n briodol.

**4.1.4 *Byddwn yn parhau i ddatblygu a darparu ystod o hyfforddiant o safbwynt ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chydraddoldeb.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**
Nifer cynyddol o staff, rheolwyr ac aelodau etholedig yn cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chydraddoldeb.

**4.1.5 Byddwn yn hyrwyddo ein cynllun graddedigion ac yn datblygu dull cydgysylltiedig o weithredu o ran profiad gwaith a chyfleoedd prentisiaeth.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**
Nifer y cyfleoedd a gynigir o ran profiad gwaith, nifer y prentisiaid rydyn ni’n recriwtio, a nifer y graddedigion rydyn ni’n recriwtio i’r cynllun graddedigion.

**4.1.6 Byddwn yn adeiladu ar ein gweithgareddau ymgysylltu â'n gweithiwr ac yn parhau i sicrhau bod lleisiau ein gweithlu i gyd yn sail i wneud penderfyniadau.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**
Canran gweithlu'r Cyngor sy'n teimlo bod y Cyngor yn poeni am eu hiechyd a'u lles.

### 4.2 Meithrin Perthynas Dda a Mynd i'r Afael â Rhagfarn

Mae Cymorth i Ddioddefwyr wedi gweld cynnydd mawr yn y galw am ei wasanaethau cymorth troseddau casineb. Roedd y cynnydd hwn yn bennaf oherwydd digwyddiadau hiliol a homoffobig.

Tair prif thema'r 'gobeithion a dymuniadau' a fynegwyd yn nigwyddiad Balchder Aberystwyth ym mis Ebrill 2023 oedd 'cynhwysiant, derbyniad a diogelwch'.

Y pedwar grŵp uchaf a nododd ymatebwyr i'n harolwg rhanbarthol oedd â phrofiad gwaeth, neu waeth o lawer o gyd-dynnu yn y gymuned na'r boblogaeth gyfan oedd pobl anabl, pobl o leiafrifoedd ethnig, pobl sy'n lesbiaidd, yn hoyw neu'n ddeurywiol a phobl trawsryweddol.

Rydym yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddathlu a gwella cynrychiolaeth pobl LHDTC+ a phobl dduon, Asiaidd a phobl o leiafrifoedd ethnig yn nhreftadaeth a diwylliant Cymru.

Mae gwahaniaethu ar sail oedran yn sail i lawer o'r problemau y mae pobl hŷn yn eu hwynebu ar hyn o bryd, gan arwain at bobl hŷn yn cael eu trin yn annheg, yn teimlo eu bod wedi'u hallgau'n gymdeithasol ac nad yw eu hawliau'n cael eu parchu. Mae cymunedau oed-gyfeillgar yn herio gwahaniaethu ar sail oedran trwy ddod â phobl o wahanol oedran at ei gilydd a meithrin delweddau cadarnhaol o heneiddio.

"Mae hiliaeth a phroblemau casineb anabledd yn rhemp. Mae rhywiaeth yn rhemp ac mae'n anodd teimlo'n ddiogel".

*(Arolwg Cydraddoldeb Rhanbarthol, 2023)*

"Rhowch y gorau i ledaenu jôcs, beirniadaeth, gwahaniaethu, trais thrawsffobig ac ati a dewch i weld normalrwydd unigolion traws."

*Dymunaf…*"I bobl beidio â theimlo cywilydd neu ofn byw fel eu hunan go iawn."

*(Balchder Aberystwyth, 2023)*

Mae adroddiad monitro'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 'Ydy Cymru'n Decach?' *(Tachwedd 2023)* yn nodi cynnydd mewn troseddau oherwydd anoddefgarwch hil a chrefydd. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod grwpiau ethnig leiafrifol yng Nghymru yn fwy tebygol o adrodd am brofiadau o wahaniaethu a bwlio yn y gweithle. Mae pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol mewn mwy o berygl o droseddau casineb oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol.

Mae ein teclyn Asesu Effaith Integredig yn galluogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i ystyried effaith ein penderfyniadau ar bobl sy'n rhannu un neu ragor o'r nodweddion a warchodir gan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010). Mae hefyd yn ein helpu i nodi camau y gallwn eu cymryd i wella'r berthynas rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt.

**Camau i gyflawni'r Amcan Llesiant hwn**

**4.2.1 *Byddwn yn monitro'r defnydd a wneir o Asesiadau Effaith Integredig ac yn rhoi cyngor arnynt.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Nifer yr Asesiadau sy'n cyrraedd y safon ofynnol a gyflwynir gyda phapurau'r Cabinet / cyfanswm yr Asesiadau sydd eu hangen = % llwyddiant

**4.2.2 *Byddwn yn gweithredu ar ein hymrwymiad i 'Siarter Troseddau Casineb' Cymorth i Ddioddefwyr ac yn defnyddio marc y Siarter Troseddau Casineb lle bo'n briodol.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Ein bod wedi ein rhestru fel partner gweithredol ar wefan Cymorth i Ddioddefwyr ac yn defnyddio marc ymddiriedaeth Troseddau Casineb ar ein gwefan, mewn ymgyrchoedd recriwtio a mannau priodol eraill.

**4.2.3 *Byddwn yn sicrhau bod casgliadau perthnasol, yn enwedig rhai a ddefnyddir i gyflwyno'r cwricwlwm, yn dathlu amrywiaeth ac yn annog ymgysylltu gwrth-hiliol.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Canran y bobl sy'n cytuno bod eu hardal leol yn fan lle mae pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda *(Arolwg Cenedlaethol Cymru/Arolwg Blynyddol y Rhanddeiliaid)*

**4.2.4 Byddwn yn cefnogi'r tîm Cydlyniant Cymunedol rhanbarthol i fonitro tensiynau mewn cymunedau.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Cynhelir cyfarfodydd aml-asiantaethol bob wythnos i fonitro tensiynau, a rhoddir sylw priodol i bryderon.

**4.2.5 Byddwn yn cefnogi'r tîm Cydlyniant Cymunedol rhanbarthol i gyflwyno ymgyrch flynyddol yn y cyfryngau i hyrwyddo ymwybyddiaeth, dathlu amrywiaeth a choffáu digwyddiadau hanesyddol perthnasol.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Nifer yr ymgyrchoedd a hyrwyddir bob blwyddyn ar y cyfryngau.

**4.2.6 Byddwn yn ymuno â'r rhwydwaith o gymunedau Oed-gyfeillgar ac yn rhoi cynllun gweithredu ar waith sy'n adlewyrchu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Ein bod yn aelod o'r rhwydwaith o gymunedau Oed-gyfeillgar ac yn cyflawni amcanion y cynllun gweithredu.

### 4.3 Sicrhau Ymgysylltu a Chyfranogi

Rydym yn gwerthfawrogi'r cyfraniad y mae trigolion Ceredigion yn ei wneud i'n helpu i ddatblygu a gwerthuso ein gwasanaethau. Rydym eisiau ei gwneud hi'n haws i bawb yng Ngheredigion gael llais, yn enwedig pobl sy'n cael eu tangynrychioli.

Rydym yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weld mwy o bobl sy'n cael eu tangynrychioli yn cymryd rhan mewn democratiaeth, gan gynnwys sefyll am swyddi etholedig. Hefyd rydym yn cefnogi uchelgais y Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod o weld cyfartaledd dynion a menywod mewn gwleidyddiaeth.

Roedd y bobl a atebodd ein harolwg cydraddoldeb yn teimlo mai'r tri grŵp o bobl sy'n cael y profiad gwaethaf wrth ddylanwadu ar benderfyniadau yw pobl o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl ifanc. Roeddent o'r farn mai dynion, pobl hŷn, a siaradwyr Cymraeg sydd â'r profiad gorau o ddylanwadu ar benderfyniadau, ond nodwyd bod pobl hŷn sydd ddim yn defnyddio'r we yn cael eu gadael allan yn fynych hefyd.

Mae gennym fwy o waith i'w wneud i hysbysu rhanddeiliaid fel eu bod yn deall yn well yr hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud ac fel eu bod yn gallu cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch newid gwasanaethau. Mae angen i ni wneud hyn mewn ffyrdd amrywiol i wneud yn siŵr fod pawb yn cael cyfle i roi adborth a helpu i lunio gwasanaethau at y dyfodol.

"Mae pethau ar-lein fwyfwy ac mae yna raniad digidol sy'n effeithio'n wael, o bosib, ar bobl hŷn".

"Mae cyfarfodydd ymgynghori etc bron bob amser yn anghyfleus i bobl fyddar. Felly os na allwch chi fod yn bresennol, nid oes cyfle i gael dylanwad".

"Mae'r rhan fwyaf o systemau gwneud penderfyniadau yn cael eu rhedeg gan bobl hŷn a phobl hŷn sy'n cyfrannu atyn nhw, felly mae'n gallu bod yn fyd caeëdig".

"O fy mhrofiad i, mae menywod yn cael eu hanwybyddu yn aml pan fyddant yn mynegi barn".

*(Arolwg Cydraddoldeb Rhanbarthol, 2023)*

**Camau i gyflawni'r Amcan Llesiant hwn**

**4.3.1 *Byddwn yn cefnogi rhaglenni a chynlluniau i gynyddu cynrychiolaeth mewn gwleidyddiaeth leol a'r drefn leol o wneud penderfyniadau, yn enwedig ymhlith pobl ifanc, menywod, pobl anabl, pobl LHDTC+ a phobl o gefndiroedd du ac ethnig leiafrifol.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Bod y canran pobl ifanc, menywod, pobl anabl, pobl LHTDC+ a phobl o gefndiroedd du ac ethnig leiafrifol sy'n cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth leol a'r drefn leol o wneud penderfyniadau yn adlewyrchu demograffeg poblogaeth Ceredigion (Cyfrifiad 2021).

**4.3.2 Byddwn yn datblygu aelodaeth Fforwm Anabledd Ceredigion fel y gallwn ddeall yn well enghreifftiau o arfer da a brofiad byw pobl sy'n byw gydag anabledd.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Bod presenoldeb yng nghyfarfodydd y Fforwm yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn a bod yr aelodau'n teimlo eu bod yn rhan o'r drefn leol o wneud penderfyniadau (cyfartaledd presenoldeb 2023 = 6 o bobl).

**4.3.3 *Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sefydlu fforwm rhanddeiliaid Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol fel y gallwn ddeall yn well enghreifftiau o arfer da a phrofiad byw pobl o gefndiroedd ethnig amrywiol.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Sefydlir fforwm rhanddeiliaid Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a bod yr aelodau'n teimlo eu bod yn rhan o'r drefn leol o wneud penderfyniadau.

**4.3.4 Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sefydlu fforwm rhanddeiliaid LHDTC+ fel y gallwn ddeall yn well enghreifftiau o arfer da a brofiad byw pobl o'r gymuned LHDTC+.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Sefydlir fforwm rhanddeiliaid LHDTC+ a bod yr aelodau'n teimlo eu bod yn rhan o'r drefn leol o wneud penderfyniadau.

**4.3.5 Byddwn yn datblygu ac yn gwella ein defnydd o blatfformau ymgysylltu ar-lein a'n defnydd o ddulliau ymgysylltu sydd ddim yn ddigidol.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Bod ein pecyn ymgysylltu yn cael ei ddatblygu a'i hyrwyddo. Bod yr Adroddiad Blynyddol ar Ymgysylltu yn adlewyrchu'r dulliau ymgysylltu gwell ac yn cael ei gymeradwyo gan y Cabinet.

**4.3.6 Byddwn yn gwella'r ffordd rydym yn rhoi adborth i'r rheiny sydd wedi cymryd rhan yn ein hymgyrchoedd ymgysylltu ac ymgynghori.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Bod ein pecyn ymgysylltu yn cael ei ddatblygu a'i hyrwyddo. Bod yr Adroddiad Blynyddol ar Ymgysylltu yn adlewyrchu'r adborth ac yn cael ei gymeradwyo gan y Cabinet.

### 4.4 Sicrhau Urddas, Parch a Mynediad at Wasanaethau

Rydym yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod ein gwasanaethau'n cynnwys anghenion penodol pobl LGBTQ+ a phobl o gefndiroedd ethnig gwahanol, p'un a ydynt yn siarad Cymraeg, Saesneg neu ieithoedd eraill.

Mae ein Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant (Mehefin 2022) yn cydnabod bod gofal plant i blant anabl yng Ngheredigion yn gyfyngedig iawn a'i bod hi'n anodd dod o hyd i leoliadau gofal plant lle mae'r staff wedi'u hyfforddi'n drwyadl ac â phrofiad o weithio gyda phlant anabl.

Mae adroddiad monitro'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 'Ydy Cymru'n Decach?' *(Tachwedd 2023)* yn nodi bod y bwlch cyrhaeddiad addysg rhwng pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl yn parhau i ehangu yn y blynyddoedd cynnar. Rhwng 2020 a 2022 bu'r nifer y teuluoedd mewn llety dros dro bron a ddyblu.

Roedd ein Asesiad o Ddigonolrwydd Chwarae (Mehefin 2022) yn cydnabod bod yna angen am gyfleoedd chwarae yn y Gymraeg ac am weithgareddau ar gyfer un rhyw yn achos plant dros ddeg oed lle bo'u crefydd/diwylliant yn mynnu nad ydynt yn cymysgu.

Roedd ein Asesiad o Lesiant Lleol (Mehefin 2022) yn cydnabod bod angen mwy o ddarpariaeth tai ar gyfer pobl hŷn, a thai â gofal arferol a gofal nyrsio, er mwyn diwallu anghenion pobl hŷn a'u dyhead i aros yn annibynnol a byw yn eu cartref.

Y prif bwnc a drafodwyd yng nghyfarfodydd Fforwm Anabledd Ceredigion yn ystod 2022-23 oedd traffig a'r trefniadau parcio yn nhrefi Ceredigion. Roedd y bobl a atebodd ein harolwg cydraddoldeb yn teimlo bod pobl anabl yn cael profiad llawer gwaeth na gweddill y boblogaeth o ran defnyddio trafnidiaeth a chael mynediad i'r arfordir a'r cefn gwlad.

> "Dim gofal plant ar gael i blant a phobl ifanc anabl yng Ngheredigion naill ai yn ystod y tymor neu yn y gwyliau".
>
> *(Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant, 2022)*
>
> "Cydbwyso'r angen i gadw'r Gymraeg yn fyw gydag anghenion pobl sydd ddim yn siarad Cymraeg".
>
> "Nid yw hygyrchedd wedi'i wreiddio wastad mewn systemau ar-lein a gall hyn beri anhawster i bobl â gwahanol anableddau".
>
> "Rwy'n 'nabod pobl sydd heb y we o gwbl ac rwy'n gweld eu bod nhw wedi cael eu gadael allan dipyn o lawer o wybodaeth".
>
> "Fel menyw wen mewn perthynas â menyw ddu rwyf wedi profi aflonyddu ar drafnidiaeth gyhoeddus yn y gorffennol ac rwy'n ceisio peidio defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus nawr os oes modd".
>
> "Bydden i'n dwlu cael mynediad i'r cefn gwlad ond nid yw'r rhan fwyaf o hwnna chwaith yn hwylus i bobl anabl".
>
> *(Arolwg Cydraddoldeb, 2023)*

Roedd y sawl a atebodd ein harolwg cydraddoldeb o'r farn fod pobl anabl yn cael profiad gwaeth, neu lawer gwaeth, na gweddill y boblogaeth o ran defnyddio gwasanaethau. Y carfanau a oedd fwyaf o dan anfantais wedyn oedd pobl o leiafrifoedd ethnig a phobl hŷn.

Rydym eisiau cynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg ym mhob elfen o fywyd cyhoeddus Ceredigion er mwyn i bobl fedru byw, dysgu, perthyn a llwyddo drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Camau i gyflawni'r Amcan Llesiant hwn**

**4.4.1 Byddwn yn parhau i fwrw ati i hyrwyddo'r cyfleoedd i ddatblygu Cymraeg Gwaith i ddiwallu anghenion ein gwasanaethau a chefnogi ein diwylliant dwyieithog.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Nifer y gweithwyr sydd wedi gwella eu sgiliau Cymraeg (ar y continwwm).

**4.4.2 Byddwn yn parhau i gynnig cyfleoedd cynhwysol ac arbenigol i blant a phobl ifanc anabl gael chwarae a chymryd rhan yn gweithgareddau corfforol.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Nifer y cyfleoedd chwarae/gweithgareddau corfforol cynhwysol ac arbenigol a gynigir neu a ariennir gan y Cyngor a nifer y plant a phobl ifanc anabl sy'n mynychu.

**4.4.3 Byddwn yn parhau i gefnogi darparwyr gofal plant cofrestredig i gwrdd ag anghenion plant a phobl ifanc sy'n anabl neu sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Nifer y plant a'r bobl ifanc ag anabledd neu anghenion dysgu ychwanegol sy'n derbyn cefnogaeth er mwyn iddyn nhw gael mynychu gofal plant cofrestredig.

**4.4.4 Byddwn yn ystyried anghenion pobl anabl wrth gynnal a chadw neu wella palmentydd a ffyrdd (er enghraifft, cyrbau is a pharcio i'r anabl).**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Bod yr holl waith cynnal a chadw a gwelliannau i balmentydd a ffyrdd yn dilyn canllawiau'r Adran Drafnidiaeth parthed symudedd cynhwysol.

**4.4.5 Byddwn yn anelu at gyflawni sgôr o AAA ar gyfer ein gwefan.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Bod dogfennau pdf ddim yn cael eu defnyddio mwyach fel y prif ddull o ddiweddaru gwybodaeth ar ein gwefan.

**4.4.6 Byddwn yn parhau i ddatblygu ein ffyrdd o gyfathrebu â'r cyhoedd.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Bod ein pecyn Ymgysylltu yn cael ei ddiweddaru, yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd a rhoddir hyfforddiant ar sut i'w ddefnyddio.

**4.4.7 Byddwn yn darparu tai sy'n diwallu anghenion ein cymunedau.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Tystiolaeth o'r angen o ran tai a nifer y cleientiaid o grwpiau penodol a ailgartrefir mewn llety addas.

**4.4.8 Byddwn yn adolygu ein Strategaeth Toiledau fel ei bod yn adlewyrchu anghenion poblogaeth sy’n newid, lle bo hynny'n rhesymol ac yn ymarferol bosib.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Bod y Strategaeth Toiledau diwygiedig yn adlewyrchu anghenion pobl ag anableddau a phobl â hunaniaethau rhyw amrywiol.

**4.4.9 Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu atebion cynaliadwy a fforddiadwy o ran teithio.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Bod cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu a'i roi ar waith sy'n galluogi mynediad priodol i’n gwasanaethau.

**4.4.10 Byddwn yn sicrhau bod egwyddorion Safonau’r Gymraeg yn sail i’r ffordd y mae’r Cyngor yn darparu ei wasanaethau i’r cyhoedd, fel bod defnyddwyr gwasanaethau yn gallu defnyddio’r gwasanaethau hyn drwy’r Gymraeg yn naturiol, os mai dyna yw eu dewis.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Bod Comisiynydd y Gymraeg yn barnu bod ein Hadroddiad Cydymffurfio yn foddhaol.

DRAFT

## 4.5 Darparu Addysg Deg a Chynhwysol

Rhaid inni wneud yn siŵr fod plant, pobl ifanc, ac oedolion Ceredigion yn cael mynediad teg a chyfartal i addysg. Mae gan bawb yr hawl i beidio â dioddef gwahaniaethu, bwlio a chamdriniaeth mewn lleoliadau addysgol, gan gynnwys rhai dysgu gydol oes ac addysg bellach.

Mae adroddiad monitro'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 'Ydy Cymru'n Decach?' *(Tachwedd 2023)* yn nodi bod y bwlch cyrhaeddiad addysg ar lefel cyfnod sylfaen rhwng plant anabl a phlant nad ydynt yn anabl wedi ehangu. Mae myfyrwyr lesbiaidd, hoyw a deurywiol mewn perygl o brofi amrywiaeth o ymddygiad gwahaniaethol mewn addysg. Mae gwaharddiad digidol yn parhau i fod yn barhaus i bobl hŷn a phobl anabl.

Roedd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol diwethaf yn cynnwys cam gweithredu i roi Canllawiau Gwrth-fwlio 2020 Llywodraeth Cymru ar waith. Mae'r canllawiau wedi'u diweddaru i adlewyrchu dyheadau cynllun gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru. Dylai ysgolion fod yn ymwybodol o hyn ac alinio eu polisïau gwrth-fwlio gyda'r canllawiau wedi'u diweddaru.

> "Gwneud yr ysgol yn lle gwell a stopio bwlis".
> *Gŵyl Plant a Phobl Ifanc, 2023*
>
> "Mynnu bod ysgolion yn caniatáu clybiau Pride/ clybiau hunaniaethau eraill. Dim mynnu eu bod yn creu rhai, dim ond bod hawl ganddynt i'w cael nhw".
> *Pride Aberystwyth, 2023*
>
> "Er ei bod hi'n ysgol cyfrwng Cymraeg, mae'r plant yn siarad Saesneg gyda'u ffrindiau – mae'n dorcalonnus ein bod yn mynd â'n plant i ysgol Gymraeg a'u bod nhw wedyn yn siarad Saesneg."
>
> "Gyda'r cyllid yn fach, mae cael cymorth i ddisgyblion ag anabledd ym myd addysg yn gallu bod yn her".
> *Arolwg Cydraddoldeb, 2023*

Rydym yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi pobl ifanc LHDTC+ a mynd i'r afael â bwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig, ac i weithredu dull ysgol gyfan sy'n gwbl gynhwysol o LHDTC+.

Yn ôl yr ymatebwyr i'n harolwg rhanbarthol, y tri grŵp sy'n cael profiad o fyd addysg sy'n waeth, neu lawer gwaeth, na'r boblogaeth gyffredinol yw pobl anabl, pobl o leiafrifoedd ethnig, a phobl sy'n feichiog neu sydd newydd roi genedigaeth.

### Camau i gyflawni'r Amcan Llesiant hwn

**4.5.1 Byddwn yn mabwysiadu ac yn gweithredu canllawiau trawsryweddol cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Bod y Cabinet yn cymeradwyo mabwysiadu'r canllawiau trawsryweddol cenedlaethol a'u bod yn cael eu rhoi ar waith yn ysgolion Ceredigion.

**4.5.2 *Byddwn yn anelu at sicrhau bod Cyrff Llywodraethu Ysgolion yn cynrychioli rhychwant amrywiaeth y disgyblion a geir yn y lleoliad addysg.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Canran y cyrff llywodraethu ysgolion y mae eu haelodau yn adlewyrchu amrywiaeth y disgyblion a geir yn y lleoliad.

**4.5.3 *Byddwn yn sicrhau bod y polisïau gwrth-fwlio mewn ysgolion a lleoliadau addysg yn adlewyrchu fersiwn ddiweddar Llywodraeth Cymru o'r canllawiau gwrth-fwlio, 'Hawliau, Parch, Cydraddoldeb'.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Bod y Cabinet yn cymeradwyo mabwysiadu canllawiau gwrth-fwlio Llywodraeth Cymru a'u bod yn cael eu rhoi ar waith yn ysgolion Ceredigion.

**4.5.4 Byddwn yn gweithredu ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-32**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Bod y gwaith o weithredu'r cynllun yn mynd rhagddo fel y cynlluniwyd a bod adroddiadau monitro yn cael eu cymeradwyo gan y Cabinet.

**4.5.5 Byddwn yn gwella'r ddarpariaeth addysgol a'r canlyniadau i blant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac yn lleihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng plant heb ADY a'r rheiny gydag ADY.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Bod yr holl ddisgyblion sydd ag ADY yn gwneud cynnydd priodol a bod tystiolaeth o hyn drwy gyfrwng data ar gyrhaeddiad disgyblion ADY ym mhob cyfnod allweddol.

**4.5.6 Byddwn yn parhau i gefnogi pobl hŷn a phobl anabl i fanteisio ar dechnolegau digidol, ac i gydnabod manteision bod ar-lein.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Nifer y bobl dros 50 oed a nifer y bobl ag anabledd neu anghenion dysgu ychwanegol sy'n cofrestru gyda Dysgu Bro ar gyfer dosbarth/gweithdy ar lythrennedd digidol.

**5. Monitro**

Mae angen i'n holl wasanaethau gydweithio i sicrhau ein bod yn cyflawni ein hamcanion cydraddoldeb.

Mae ein Gweithgor Cydraddoldeb yn gyfrifol am ddatblygu, monitro ac adolygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn. Pwrpas y Grŵp yw ystyried sut y gall y Cyngor gyfrannu at gymdeithas decach drwy hyrwyddo cydraddoldeb a pherthynas dda mewn gweithgareddau o ddydd i ddydd.

Mae'r grŵp yn cyfarfod tair gwaith y flwyddyn ac yn darparu adroddiadau cynnydd blynyddol i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cyngor ac i'r Cabinet.

Bydd adroddiadau cynnydd blynyddol ar gael i'r cyhoedd drwy wefan y Cyngor. Gellir gofyn am gopïau papur os oes angen.

DRAFT

**Atodiad 2**

# Adroddiad yr Ymgynghoriad

## Cynllun Cydraddoldeb Strategol Drafft Cyngor Sir Ceredigion 2024-28

## Gaeaf 2023



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ...........................................................................................2

2. Ymatebion – cymhariaeth â demograffeg Ceredigion ...........................3

3. A fydd ein Cynllun Cydraddoldeb yn effeithiol? ....................................5

Amcan 1: Bod yn Gyflogwr Cyfle Cyfartal Enghreifftiol ..........................5

Amcan 2: Meithrin Perthynas Dda a Mynd i'r Afael â Rhagfarn ...........11

Amcan 3: Sicrhau Ymgysylltu a Chyfranogi .........................................15

Amcan 4: Sicrhau Urddas, Parch a Mynediad at Wasanaethau ............22

Amcan 5: Darparu Addysg Deg a Chynhwysol ......................................29

4. Effaith ar y Gymraeg ...................................................................36

5. Casgliad ..............................................................................................39

1. **Cyflwyniad**

Mae hwn yn adroddiad ar ein hymarfer ymgynghori cyhoeddus diweddar ar bedwerydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor. Mae'r cynllun yn disgrifio'r hyn y byddwn yn ei wneud i sicrhau Ceredigion decach a mwy cyfartal.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun drafft rhwng 25 Hydref 2023 a 31 Rhagfyr 2023.

Gwahoddwyd pobl i ymateb ar-lein neu ar bapur. Gellid casglu copïau papur o'n llyfrgelloedd a'n canolfannau hamdden neu wneud cais amdanynt drwy'r post drwy Clic. Roedd fersiynau Print Bras a Hawdd eu Deall ar gael hefyd. Hyrwyddwyd yr ymgyrch gyda phosteri, negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol a datganiad i'r wasg. Fe wnaethom hefyd anfon e-byst wedi'u targedu at y rhanddeiliaid a restrir isod.

- Cynghorwyr Sir Ceredigion
- Clercod Cynghorau Tref a Chymuned Ceredigion
- Grŵp Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion
- Is-grŵp Tlodi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- CAVO
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Tîm Allgymorth Cymunedol Bwrdd Iechyd Hywel Dda
- Lleisiau Mamolaeth Hywel Dda
- Prifysgol Aberystwyth
- Prifysgol y Drindod Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan
- Coleg Ceredigion
- Gweithgor Cydraddoldeb Cyngor Ceredigion
- Fforwm Cyn-filwyr y Lluoedd Arfog
- Tîm Gofalwyr a Chymorth Cymunedol Ceredigion
- Fforwm Darparwyr Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc
- Rhwydwaith Canolfannau Teuluoedd Ceredigion
- Grŵp darparwyr Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae
- Mudiad Meithrin
- DASH (Anableddau a Hunangymorth)
- RAY Ceredigion
- Staff Cyngor Ceredigion (trwy wefan Microsoft Teams)
- Fforwm Anabledd Ceredigion
- Rhwydwaith Tlodi Bwyd Ceredigion
- Clybiau Ffermwyr Ifanc
- Cyngor Ieuenctid Ceredigion
- Fforwm Mynediad Lleol
- Cymdeithasau Tai (Barcud a Chymdeithas Tai Wales & West)
- Darparwyr Cymorth Tai y 3ydd sector
- Age Cymru Dyfed

- Cyngor ar Bopeth
- Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed

## 2. Ymatebion – cymhariaeth gyda demograffeg Ceredigion

Cwblhaodd 43 o ymatebwyr yr arolwg ar-lein. Ni ddychwelwyd dim copïau papur. Roeddem yn gwybod y byddem yn cael ymateb isel, neu ddim ymateb o gwbl, gan bobl iau. Felly, gwnaethom ymgynghori â Chyngor Ieuenctid Cyngor Sir Ceredigion (16 o bobl ifanc) ym mis Hydref 2023. Rydym wedi cynnwys eu hadborth yn y sylwadau yn Adran 3.

Mae'r tablau isod yn ein helpu i wirio a yw ystod eang o bobl sy'n cyfateb i boblogaeth Ceredigion wedi dweud wrthym beth yw eu barn. Maent hefyd yn ein helpu i weld lle mae angen i ni wella'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu â'r gwahanol grwpiau.

Cawsom lefel dda o ymateb gan gyn-filwyr, gan bobl ag anabledd a chan bobl hoyw, lesbiaidd a chwiar. Mae angen i ni wella ymgysylltu â dynion, â phobl dduon neu Asiaidd, â phobl 25 oed neu iau a phobl 65+.

Ticiodd nifer uchel o bobl 'gwell gennyf beidio â dweud'. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anoddach cael darlun cywir o'r ystod o bobl a atebodd yr arolwg.

| **Oed** | **Ymatebion i'r arolwg ar-lein** | **Cyfrifiad 2021** |
|---|---|---|
| Dan 16 | 0% | 14% |
| 16-24 | 0% | 15% |
| 25- 44 | 33% | 19% |
| 45-64 | 52% | 26% |
| 65+ | 10% | 26% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 5% | 0% |
| **Rhyw** | | |
| Benyw | 65% | 51% |
| Gwryw | 28% | 49% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 7% | 0% |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | | |
| Heterorywiol/syth | 78% | 84% |
| Hoyw, Lesbiaidd neu Gwiar | 8% | 2% |
| Deurywiol | 2% | 3% |
| Cyfeiriadedd rhywiol arall | 0% | 1% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 12% | 10% |
| **Hunaniaeth Genedlaethol** | | |
| Prydeinig | 51% | 31% |
| Cernywig | 2% | 0% |
| Seisnig | 3% | 14% |
| Gogledd Iwerddon | 0% | 0% |
| Albanaidd | 0% | 1% |


| | | |
|---|---|---|
| Cymreig | 39% | 47% |
| Hunaniaeth Genedlaethol arall | 0% | 7% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 5% | 0% |
| **Grŵp Ethnig** | **Ymatebion i'r arolwg ar-lein** | **Cyfrifiad 2021** |
| Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig | 0% | 1% |
| Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd | 0% | 1% |
| Cymysg neu Aml-ethnig | 5% | 1% |
| Gwyn | 85% | 96% |
| Grŵp ethnig arall | 0% | 1% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 10% | 0% |
| **Crefydd neu Gred** | | |
| Cristnogol | 35% | 47% |
| Bwdhaidd | 0% | 1% |
| Hindŵaidd | 0% | 0% |
| Iddewig | 0% | 0% |
| Mwslimaidd | 0% | 1% |
| Sicaidd | 0% | 0% |
| Dim crefydd | 53% | 43% |
| Crefydd neu gred arall | 5% | 1% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 7% | 7% |
| **Cyn-filwyr (wedi gwasanaethu o'r blaen)** | | |
| Lluoedd Arfog Rheolaidd | 10% | 3% |
| Lluoedd Arfog Wrth Gefn | 0% | 1% |
| Na | 85% | 96% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 5% | 0% |
| **Anabledd** | | |
| Ydy, mae fy ngweithgareddau o ddydd i ddydd yn gyfyngedig iawn | 8% | 9% |
| Ydy, mae fy ngweithgareddau o ddydd i ddydd ychydig yn gyfyngedig | 20% | 13% |
| Na | 67% | 78% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 5% | 0% |
| **Iaith** | | |
| Deall Cymraeg llafar (yn unig) | 64% | 8% |
| Siarad Cymraeg | 54% | 45% |
| Darllen Cymraeg | 54% | 42% |
| Ysgrifennu Cymraeg | 37% | 38% |
| Dim un o'r uchod | 17% | 43% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 12% | 0% |

*Noder: Mae ffigurau sgiliau Cymraeg yn fwy na'r cyfanswm oherwydd y cyfuniadau amrywiol o sgiliau*

**3. A fydd ein Cynllun Cydraddoldeb yn effeithiol?**

## Amcan 1: Bod yn Gyflogwr Cyfle Cyfartal Enghreifftiol

Cytunodd 95% o'r bobl a atebodd yr arolwg ar-lein, ac 80% o'r Cyngor Ieuenctid y dylai hwn fod yn Amcan Cydraddoldeb i Gyngor Ceredigion. Cytunodd nifer uchel o bobl y byddai'r camau gweithredu yn y cynllun yn ein helpu i gyflawni'r amcan hwn. Gweler y graff isod.




Fe wnaethom ofyn i'r cyhoedd, **"A ydych yn meddwl y gallem wneud mwy, neu wneud pethau'n wahanol, i gyflawni'r amcan hwn yn well? "** Mae eu hatebion, gyda'n hymatebion ni, i'w gweld isod.

| | Sylw | Ymateb Cyngor Sir Ceredigion |
|---|---|---|
| **1** | Na, dylai'r prif ffocws fod ar gyflawni'r camau gweithredu yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. | Nodwyd. |
| **2** | Ffurflen Microsoft yw'r arolwg hwn - ac eto nid yw'r cyfleusterau y mae | Gwnaethom ddarparu dolen ar wahân i fersiwn Gymraeg o'r arolwg. |

| | Sylw | Ymateb Cyngor Sir Ceredigion |
|---|---|---|
| | hyn yn eu cynnig wedi'u defnyddio - opsiwn Cymraeg er enghraifft. | |
| **3** | Ie, ffurfiwch grŵp cynghori cyflogedig sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r cymunedau yr ydych yn gobeithio ymgysylltu â nhw/eu cefnogi i roi cyngor o ran polisi a chyflawni. Ni ddylai'r rhain fod yn staff presennol. | Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb yn y gymuned sy’n rhoi o’u hamser i gymryd rhan yn ein hymgynghoriadau. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, staff presennol. Yn anffodus nid ydym yn gallu talu pobl i wneud hyn. Gweler ein polisi Ymgysylltu a Chyfranogi am fwy o wybodaeth. |
| **4** | Peidiwch â gwneud cynrychiolaeth gyfrannol yn y gweithlu, mae'n wrthgynhyrchiol ac yn negyddu'r ymgeisydd gorau ar gyfer y swydd, waeth beth fo'i ryw, cyfeiriadedd rhywiol neu gefndir hiliol | Credwn y dylai gweithlu'r Cyngor gynrychioli'r boblogaeth leol y mae'n ei gwasanaethu ar bob lefel o'r sefydliad. |
| **5** | Mae'n iawn cyhoeddi geiriau gwych ond mewn gwirionedd byddai gwneud yr hyn a ddywedwch yn ddechrau. | Byddwn yn dechrau gweithio ar ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol diwygiedig ar 1af Ebrill 2024. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad cynnydd ar ein gwefan bob blwyddyn fel y gall pobl wirio ein cynnydd. |
| **6** | Mae’n ddrwg gennyf, ond nid oes gennyf lawer o ffydd yn ewyllys gwirioneddol y cynghorwyr i wneud i hyn ddigwydd. Mae yna ormod o hen ddynion ar y pwyllgorau sydd braidd yn geidwadol yn hytrach nag yn flaengar. | Gweler ymateb 5 uchod.<br><br>Mae gennym amrywiaeth o Aelodau sy’n Hyrwyddwyr. Mae'r rhain yn gynghorwyr sy'n hyrwyddo mater neu grŵp penodol. Y Cynghorydd Catrin MS Davies yw ein Hyrwyddwr Cydraddoldeb. Y Cynghorydd Paul Hinge yw ein Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog. Y Cynghorydd Alun Williams yw ein Hyrwyddwr Oed-gyfeillgar a'r Cynghorydd Wyn Thomas yw ein Hyrwyddwr Anableddau Dysgu. |
| **7** | Mae'r uchod yn swnio'n fiwrocrataidd iawn, nid yw'n gwneud llawer i annog cydraddoldeb yn y gweithle na newid arferion neu ymddygiadau sydd wedi dyddio. -Dim ond ychydig iawn y mae polisi’r llywodraeth ar les a chydraddoldeb yn ei gynnig i weithwyr mewn llawer o amgylchiadau, ni ddylem ddefnyddio | Nodwyd. Ein nod yw bod yn flaengar a gweithio i safon uchel. |

| | Sylw | Ymateb Cyngor Sir Ceredigion |
|---|---|---|
| | hwn fel meincnod, ond dylem anelu at fod yn fwy blaengar a gosod safon uwch na’r isafswm gofynnol. | |
| **8** | Ie. Mae’n hanfodol ystyried anghenion y bobl hynny sydd ag electrosensitifrwydd a gorsensitifrwydd trydanol oherwydd na allant oddef wi-fi a thechnoleg ddiwifr arall ac felly nid ydynt yn gallu cael mynediad i lawer o feysydd oherwydd yr effeithir yn andwyol ar eu hiechyd. Mae'n hanfodol darparu ardaloedd sy'n rhydd o dechnoleg ddiwifr fel bod y bobl hyn yn cael cyfle cyfartal. | Rydym yn deall bod y cymunedau gwyddonol a meddygol yn dal i ymchwilio i'r cyflyrau hyn.<br><br>Rydym yn gyflogwr Hyderus o ran Anabledd. Mae hyn yn golygu ein bod yn ceisio denu a recriwtio pobl anabl a chadw a datblygu gweithwyr anabl. Rydym yn amlygu ein hymrwymiad Hyderus o ran Anabledd a beth mae hyn yn ei olygu o ran recriwtio fel rhan o'n rhaglen hyfforddi ar gyfer rheolwyr. |
| **9** | Mae pobl â gorsensitifrwydd electromagnetig yng Ngheredigion (3-5% o'r boblogaeth) wedi'u heithrio rhag gweithio i'r Cyngor ar hyn o bryd, oni bai eu bod yn gallu gweithio gartref, oherwydd presenoldeb meysydd electromagnetig radio-amledd o Wi-Fi yn y rhan fwyaf o weithleoedd. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i athrawon a llyfrgellwyr, na allant weithio gartref. Dylai'r Cyngor fod yn gwneud ymdrech arbennig i ddarparu ar gyfer gweithwyr y presennol a gweithwyr (posibl) y dyfodol gyda'r anabledd hwn. | Gweler ymateb 8 uchod |
| **10** | Rydych yn sôn am rywedd a diwylliant ond ymddengys mai ychydig iawn o ymwybyddiaeth sydd o anabledd. | Mae hyfforddiant cydraddoldeb yn orfodol i holl staff y cyngor ac mae'n cynnwys ymwybyddiaeth anabledd.<br><br>Rydym yn gyflogwr Hyderus o ran Anabledd. Mae hyn yn golygu ein bod yn ceisio denu a recriwtio pobl anabl a chadw a datblygu gweithwyr anabl. Rydym yn amlygu ein hymrwymiad Hyderus o ran Anabledd a beth mae hyn yn ei olygu o ran |

| | Sylw | Ymateb Cyngor Sir Ceredigion |
|---|---|---|
| | | recriwtio fel rhan o'n rhaglen hyfforddi i reolwyr. |
| **11** | Ie. Rhowch y gorau i roi blaenoriaeth i siaradwyr Cymraeg. | Mae Safonau'r Gymraeg yn gosod dyletswydd gyfreithiol arnom i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Rhaid i ni gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg a'i gwneud yn haws i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd.<br>Fodd bynnag, byddwn yn awr yn mabwysiadu dull continwwm o gyflawni sgiliau iaith. Byddwn yn disgwyl i ymgeiswyr llwyddiannus ddangos gwelliant cyson yn eu sgiliau iaith. |
| **1<br>2** | Ystyried effaith ein harferion recriwtio o ran safonau'r Gymraeg o ran annog ymgeiswyr o blith y rheini â nodweddion gwarchodedig ac a ellid cynnig mwy o gymorth i gyrraedd y safonau angenrheidiol yn y Gymraeg yn dilyn penodiad yn hytrach nag fel rhagofyniad. | Gweler ymateb 11 uchod. |
| **13** | Mae gan Geredigion boblogaeth sy'n heneiddio - efallai cyflogwch ragor o bobl dros 55 oed? | Nodwyd. Ar 31ain Mawrth 2023, roedd 30.4% o'n gweithlu dros 55 oed. Mae ffigurau Cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod 40.3% o bobl Ceredigion dros 55 oed. |
| **14** | Gwnewch yn siŵr bod y PERSON GORAU AR GYFER Y SWYDD yn cael ei benodi a'i dalu'n gyfartal ag unrhyw berson arall a allai/a fyddai'n cael ei dalu pe bai'n gwneud y swydd honno. Peidiwch â gordalu'r uwch reolwyr. | Gwneir pob penodiad i waith cyflogedig gyda Chyngor Sir Ceredigion ar sail teilyngdod. Mae ein meini prawf dethol yn seiliedig ar allu'r person i wneud y swydd fel y'i diffinnir gan y disgrifiad o'r swydd a manyleb y person.<br><br>Rydym yn defnyddio cynllun Gwerthuso Swyddi cydnabyddedig i sefydlu strwythur cyflog teg a chyfartal. Mae hyn yn sicrhau bod cyfraddau cyflog pob swydd yn cael eu gwerthuso yn yr un modd. |
| **15** | Sicrhau bod y person gorau yn cael ei benodi waeth beth fo'i oedran, rhywedd ac ati | Gweler ymateb 14 uchod. |

| | Sylw | Ymateb Cyngor Sir Ceredigion |
|---|---|---|
| **16** | Ie mae angen i chi weithredu ar sail cryfderau pobl. | Nodwyd. |
| **17** | Mae angen canolbwyntio ar yr ymarferoldeb, argaeledd toiledau cyhoeddus ar gyfer plant bach teuluoedd ifanc ac, er mwyn i'r genhedlaeth hŷn deimlo'n hyderus o wybod bod ganddynt y cyfleusterau yn agos atynt. Bod yn hyderus bod palmentydd yn ddiogel i fynd â sgwteri symudedd, mae'r ffocws wedi bod ar geir trydan ond pa mor ymarferol yw hyn i'r genhedlaeth hŷn. Mae Ceredigion yn rhagweithiol iawn i adolygu unrhyw broblemau, teimlaf eu bod yn ceisio cynnwys pawb ag ymdrechion i addysgu unigolion yn y broses. Mae cost gofal plant yn cyfyngu ar botensial unigolion i symud ymlaen i ddychwelyd i'r gwaith. Bydd y toriad yn y ddarpariaeth gofal yn effeithio ar y GIG yn y tymor hwy yn unig, a bydd buddsoddi mewn gofal pobl hŷn ond yn arbed arian i'w cadw gartref yn ddiogel. | Mae adolygiad o Strategaeth Toiledau'r Cyngor wedi'i gynnwys yn ein Cynllun Cydraddoldeb drafft (cam gweithredu 4.9).<br><br>Mae Rheolau'r Ffordd Fawr yn nodi y dylai cadeiriau olwyn a sgwteri modur ddefnyddio palmentydd pan fyddant yn gallu. Ond ni ddylent deithio'n gyflymach na 4mya a rhaid i gerddwyr gael blaenoriaeth.<br><br>Mae ein Hasesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant wedi dangos i ni fod cost gofal plant yn rhwystr i gyflogaeth. Mae ein cynllun gweithredu Digonolrwydd Gofal Plant yn ceisio mynd i'r afael â hyn.<br><br>Rydym yn adolygu ein gwasanaethau gofal dydd, gwasanaethau seibiant a gwasanaethau dementia. Rydym eisiau darparu gwasanaethau gofal ar yr amser iawn ac yn y lle iawn ar gyfer y bobl sydd eu hangen. |
| **1**<br>**8** | Mae cyhoeddi adroddiad bwlch cyflog a chydraddoldeb yn wych, sut y byddwch yn ymateb iddynt os yw'n is na'r disgwyl? | Yr adroddiadau a gyhoeddwn yw ein ffordd o fonitro'r sefyllfa. Mae Adroddiad y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2023 yn disgrifio'r hyn y byddwn yn ei wneud i fynd i'r afael â'r bwlch cyflog ac i gynyddu amrywiaeth ein gweithlu. |

Fe wnaethom ofyn i aelodau Cyngor Ieuenctid Ceredigion beth y gallem ei wneud i wneud y Cyngor yn lle teg i weithio. Mae eu sylwadau, a'n hymatebion ni, isod.


| | Sylwadau | Ymateb Cyngor Sir Ceredigion |
|---|---|---|
| **19** | Cael cydraddoldeb gyda phawb boed hynny'n rhywedd neu'ch cefndir. Cyflog cyfartal i bawb | Rydym yn cytuno y dylai pawb gael eu talu'n gyfartal. Rydym yn defnyddio cynllun Gwerthuso Swyddi cydnabyddedig i sefydlu strwythur cyflog teg a chyfartal. Mae hyn yn sicrhau bod cyfraddau cyflog pob swydd yn cael eu gwerthuso yn yr un modd. |

| | Sylwadau | Ymateb Cyngor Sir Ceredigion |
|---|---|---|
| **20** | Cyflog cyfartal | Gweler ymateb 19 uchod. |
| **21** | Atal iaith wahaniaethol rhwng siaradwyr Cymraeg ac ar siaradwyr Cymraeg a chael hawl, cyflog, llais cyfartal a sicrhau bod gwahanol bobl o gefndiroedd gwahanol yn cael dweud eu dweud o fewn y gymuned. | Rydym wedi ymrwymo i Safonau'r Gymraeg. Mae'n rhaid i'r holl staff fynychu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg. Ein nod yw atal gwahaniaethu yn erbyn siaradwyr unrhyw iaith.<br><br>Byddwn yn parhau i weithio gyda Fforwm Anabledd Ceredigion a Chyngor Ieuenctid Ceredigion. Gobeithiwn y bydd pobl LHDTC+ a phobl o gymunedau ethnig amrywiol yn gweithio gyda ni hefyd. Rydym am i bobl o gefndiroedd gwahanol gael dweud eu dweud yng ngwaith y Cyngor. |
| **22** | Sicrhau amrywiaeth, sicrhau nad oes bwlch cyflog. | Gweler ymatebion 19 a 21 uchod. |
| **23** | Cyflog cyfartal a lleisiau cyfartal | Gweler ymatebion 19 a 21 uchod. |
| **2<br>4** | Cyflog cyfartal i ddynion a menywod, sicrhau amrywiaeth, dylai pob llais gael ei glywed. | Gweler ymatebion 19 a 21 uchod. |
| **25** | Rhoi mwy o lais i leiafrifoedd a sicrhau triniaeth deg. | Gweler ymateb 21 uchod. |
| **26** | Rhoi gwybod am unrhyw fwlio neu hiliaeth neu homoffobia. Rhowch gyfle teg i bawb sy'n dymuno ymuno â'r cyngor. Sicrhewch nad oes bwlch cyflog. | Cytunwyd. |
| **27** | Dim goddefgarwch ar gyfer gwahaniaethu. | Cytunwyd. |
| **28** | Ystyriwch anghenion pawb. | Mae'n bwysig i ni ystyried anghenion pawb. Ond ni allwn ddiwallu anghenion pawb, mae anghenion rhai pobl yn gwrthdaro'n uniongyrchol ag anghenion pobl eraill. |
| **29** | Bod yr holl anghenion yn cael eu bodloni. | Gweler yr ymateb uchod. |
| **30** | Gwneud yn siŵr bod pobl o wahanol gefndiroedd yn y gweithle. | Cytunwyd. Mae hyn wedi'i gynnwys yn ffurf ddrafft gyfredol ein Cynllun Cydraddoldeb. |
| **31** | Sicrhau nad oes gan swyddi ddwyieithog fel angen a mwy o ddewis, fel y'i gwelir yn gyffredin fel angen. | Rydym yn sefydliad dwyieithog; mae rhai swyddi yn gorfod cael eu gwneud gan siaradwr Cymraeg. Fodd bynnag, byddwn yn awr yn mabwysiadu dull continwwm o |

| | Sylwadau | Ymateb Cyngor Sir Ceredigion |
|---|---|---|
| | | gyflawni sgiliau iaith. Byddwn yn disgwyl i ymgeiswyr llwyddiannus ddangos gwelliant cyson yn eu sgiliau iaith. |
| **32** | Gwneud yn siŵr fod addysg yn hanfodol i addysg gweithwyr sut i drin pobl lleiafrifol yn hafal a theg. | Rhaid i holl staff y Cyngor gwblhau hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth bob 3 blynedd. |
| **33** | Sicrhau ei fod yn amgylchedd cyfforddus, sydd hefyd yn sicrhau bod pawb yn cael eu trin â pharch. | Cytunwyd. Nod ein polisi Urddas yn y Gweithle yw cyflawni hyn. |
| **34** | Cyflogi pobl y mae eu cefndir wedi'i wirio ar lefel sylfaenol e.e. nid oes dim gofynion ar gyfer swydd glanhäwr. Felly mae pawb yn gallu bod yn rhan o'r gweithlu. | Mae Cyngor Sir Ceredigion yn gofyn am wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd dim ond pan fydd yn berthnasol i'r swydd a phan fo'r gyfraith yn dweud bod yn rhaid i ni. Mae'n rhaid i ni hefyd wirio bod gan bawb rydym yn eu cyflogi hawl gyfreithiol i weithio yn y Deyrnas Unedig a gofynnwn am dystiolaeth o hyn. |

## Amcan 2: Meithrin Perthynas Dda a Mynd i'r Afael â Rhagfarn

Cytunodd 95% o'r bobl a atebodd yr arolwg ar-lein a 93% o'r Cyngor Ieuenctid y dylai hwn fod yn Amcan Cydraddoldeb i Gyngor Ceredigion. Roedd 86% o'r bobl a atebodd yr arolwg ar-lein yn cytuno y byddai'r camau gweithredu yn y cynllun yn ein helpu i gyflawni'r amcan hwn. Ond dim ond 63% o aelodau'r Cyngor Ieuenctid oedd yn cytuno. Gweler y graff isod.



Fe wnaethom ofyn i'r cyhoedd, **"A ydych yn meddwl y gallem wneud mwy, neu wneud pethau'n wahanol, i gyflawni'r amcan hwn yn well?"** Mae eu hatebion, gyda'n hymatebion ni, i'w gweld isod.

| | Sylw | Ymateb Cyngor Sir Ceredigion |
|---|---|---|
| 1 | Cynhwysiant Anabledd: Nid oes dim sôn am gamau gweithredu i gefnogi unigolion ag anableddau. Dylai hygyrchedd a chynwysoldeb i bawb fod yn rhan o unrhyw gynllun i feithrin perthynas dda a mynd i'r afael â rhagfarn. Cynhwysiant LHDTC+: Gallai mesurau penodol i gefnogi ac amddiffyn y gymuned LHDTC+ fod yn fuddiol. | Rydym yn gyflogwr Cynhwysol o ran Anabledd. Mae hyn yn golygu bod pob person anabl sy'n bodloni meini prawf hanfodol y swydd yn sicr o gael cyfweliad.<br><br>Rydym yn gweithio yn unol â'r model cymdeithasol o anabledd fel bod cymdeithas yn dod yn fwy cynhwysol. Mae ein cynllun yn cynnwys llawer o gamau gweithredu i gyflawni hyn. Er enghraifft, cynnwys rhagor o bobl anabl a phobl LHDTC+ mewn gwleidyddiaeth leol a gwneud penderfyniadau'n lleol. |
| 2 | Rydych chi wedi anghofio'r anabl eto. | Gweler ymateb 1 uchod. |
| 3 | Mae gwario adnoddau ariannol cyfyngedig ar ymgyrchoedd yn y cyfryngau i hybu ymwybyddiaeth o amrywiaeth a digwyddiadau hanesyddol perthnasol yn dangos diffyg dealltwriaeth llwyr o'r hyn y mae'r rhan fwyaf o bobl yn ei feddwl sy'n berthnasol mewn cymdeithas | Canran fechan iawn o gyllideb y Cyngor sy'n cael ei wario ar yr ymgyrchoedd hyn. Maent fel arfer ar ffurf negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol a bwletinau i staff. Rydym wedi ymdrin â phynciau fel Diwrnod y Lluoedd Arfog, wythnos ymwybyddiaeth Troseddau Casineb, diwrnod amlygrwydd Trawsryweddol a mis Hanes LHDT. Gall gwneud pobl yn fwy ymwybodol o fater fod yn gam cyntaf tuag at greu amgylchedd lle mae newid yn bosibl. |
| 4 | Cadwch chweched dosbarthiadau lle maen nhw - er yn anodd yn ariannol bydd yn arwain at ddiberfeddu'r sir - bydd teuluoedd sy'n gallu ei fforddio yn byw o fewn cyrraedd hawdd i Aberaeron. Bydd rhagor o dai gwledig yn cael eu gwerthu i fewnfudwyr hŷn cyfoethog. Bydd hyn yn creu Sir hyd yn oed yn fwy anghytbwys. | Mae hyn y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn. Trafodwyd y pwnc gan y Pwyllgor Craffu ar 28/09/23 a chan Gabinet Ceredigion ar 07/11/23. Cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth neu ewch i wefan y Cyngor: Manylion Pwyllgor Cyngor Sir Ceredigion - Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu |
| 5 | Osgoi gwyliadwriaeth ymwthiol a sensoriaeth sy'n atal rhyddid barn a | Ansicr sut y gallai hyn gyfrannu at yr amcan cydraddoldeb hwn. |

| | Sylw | Ymateb Cyngor Sir Ceredigion |
|---|---|---|
| | gallu pobl i ymgysylltu â'i gilydd a rhannu safbwyntiau ar gyfer cyd-ddealltwriaeth. | |
| **6** | Siaradwch â'ch cwsmeriaid. Gwrandewch ar eich cwsmeriaid. Stopiwch y ffugion a alwch yn ymgynghoriadau. Stopiwch roi gorchmynion. | Nodwyd. |
| **7** | Ymrwymo i ddod â rhan Ceredigion i ben yn y diwydiant arfau | Mae hyn y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn. |
| **8** | Amser i fynd i'r afael â'r rhagfarn yn erbyn y Gymraeg efallai? Yn ddiweddar wedi clywed rhagor o ddadleuon sy'n datgan na ddylai'r cyngor wario arian ar wasanaethau dwyieithog gan eu bod yn 'wastraff' ond bod angen gweithio ar agwedd a'r rhagfarn fel nad yw'n bodoli! | Mae Safonau'r Gymraeg yn gosod dyletswydd gyfreithiol arnom i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br><br>Rydym am gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd cyhoeddus Ceredigion fel bod pobl yn gallu byw, dysgu, perthyn a llwyddo drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| **9** | Eto, penodwch y PERSON GORAU AR GYFER Y SWYDD. | Credwn y dylai gweithlu'r Cyngor gynrychioli'r boblogaeth leol y mae'n ei gwasanaethu ar bob lefel o'r sefydliad.<br><br>Gwneir pob penodiad i waith cyflogedig gyda Chyngor Sir Ceredigion ar sail teilyngdod. Mae ein meini prawf dethol yn seiliedig ar allu'r person i wneud y swydd fel y'i diffinnir gan y disgrifiad o'r swydd a manyleb y person. |
| **10** | Mae angen i chi gael rhagor o bobl â phrofiad bywyd yn y swyddi gwneud penderfyniadau | Cytunwyd. Ein nod yw cyflawni hyn drwy gymryd camau i annog cynrychiolaeth gymesur yn ein gweithlu (cam gweithredu 1.2). Mae cam gweithredu 3.1 yn ein hymrwymo i raglenni a chynlluniau i gynyddu cynrychiolaeth mewn gwleidyddiaeth leol a gwneud penderfyniadau'n lleol (cam gweithredu 3.1) |
| **11** | Mae mor bwysig bod pobl yn cael eu trin yn gyfartal. | Cytunwyd. |
| **12** | Na - mae ymdrechion mawr yno'n barhaus i esblygu gyda'r oes. | Nodwyd. |

| | Sylw | Ymateb Cyngor Sir Ceredigion |
|---|---|---|
| **13** | Sicrhau bod hyfforddiant cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn mynd y tu hwnt i'r gyfraith ac yn ennill calonnau a meddyliau. | Cytunwyd. Rydym yn cynnig amrywiaeth o hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Rydym yn gweithio ar fformat newydd sy'n anelu at roi'r dysgwr yn esgidiau pobl â phrofiad bywyd. |
| **14** | Dylai'r Cyngor fod yn fwy tryloyw, agored a gonest yn ei adroddiadau, gan gynnwys lle nad yw pethau wedi gweithio. | Mae craffu yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod ein proses benderfynu yn atebol ac yn effeithiol.<br><br>Mae ein proses Trosolwg a Chraffu yn rhoi cyfle i Gynghorwyr archwilio swyddogaethau amrywiol y cyngor. Mae aelodau'r pwyllgorau craffu yn gofyn cwestiynau am sut y gwneir penderfyniadau. Maent yn ystyried a ellid gwella gwasanaethau, ac maent yn gwneud argymhellion. Mae’r cyfarfodydd yn agored i’r cyhoedd a chyhoeddir cofnodion ar ein gwefan. |


Fe wnaethom ofyn i aelodau Cyngor Ieuenctid Ceredigion beth allem ni ei wneud i wneud Ceredigion yn lle mwy parchus a chyfeillgar. Mae eu sylwadau a'n hymatebion ni isod.

| | Sylw | Ymatebion Cyngor Sir Ceredigion |
|---|---|---|
| **15** | Amgylchedd gwaith da, sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw aflonyddwch | Cytunwyd. Byddwn yn parhau i wrando ar ein gweithlu er mwyn llywio’r broses o wneud penderfyniadau (cam gweithredu 1.6). Byddwn yn mesur llwyddiant drwy ofyn i weithwyr a ydynt yn teimlo bod y Cyngor yn poeni am eu hiechyd a'u lles. |
| **16** | Atgyfnerthu ac addysgu am bwysigrwydd goddefgarwch a chydraddoldeb. | Cytunwyd. Rydym yn cynnig amrywiaeth o hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Rydym yn gweithio ar fformat newydd sy'n anelu at roi'r dysgwr yn esgidiau pobl â phrofiad bywyd. |
| **17** | Dadlau dros ac addysgu o ran derbyn ymddangosiad, hil, rhywedd, rhywioldeb ac anabledd. | Gweler ymateb 16 uchod. |
| **18** | Agor ardaloedd saff er mwyn trafod unrhyw annhegwch mae person wedi’i wynebu. A gwneud yn siŵr fod | Mae ein Pecyn Cymorth i Reolwyr yn darparu dull cam wrth gam o gefnogi lles staff. Mae ein polisi Urddas yn y Gweithle |

| | Sylw | Ymatebion Cyngor Sir Ceredigion |
|---|---|---|
| | pethau yn cael eu gwneud i'r troseddwyr. | yn nodi'r weithdrefn yn dilyn cwyn am urddas yn y gweithle. |
| **19** | Gosod posteri yn cefnogi hawliau LHDTC yn ogystal ag addysgu mewn ysgolion bod bwlio yn anghywir ac i beidio â gwahaniaethu yn erbyn ein cyfoedion. | Rydym yn tueddu i ddefnyddio polisïau gweithlu (fel uchod) a hyfforddiant yn hytrach na phosteri. Rhaid i holl staff y Cyngor gwblhau hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth bob 3 blynedd. |
| **20** | Ymddiriedaeth a chydraddoldeb. | Nodwyd a chytunwyd. |
| **21** | Llai o wahaniaethu yn erbyn y boblogaeth o Loegr o fewn y gweithle ac ysgolion. Yn enwedig gydag athrawon yn bod yn anghwrtais a gwahaniaethol tuag at fyfyrwyr o Loegr. | Mae gwahaniaethu yn erbyn unrhyw genedligrwydd yn erbyn y gyfraith a bydd yn cael ei drin felly yn unol â'n polisi Urddas yn y Gweithle, polisi Urddas yn y Gweithle i Ysgolion a pholisïau gwrth-fwlio ysgolion unigol. |
| **22** | Pawb yn cael eu trin yn gyfartal | Cytunwyd. Gobeithiwn y bydd ein Cynllun Cydraddoldeb yn helpu i gyflawni hyn. |
| **23** | Sicrhau bod pobl yn cael eu haddysgu o oedran ifanc bod gwahaniaethu yn anghywir. | Cytunwyd. Gobeithiwn y bydd diweddaru polisïau gwrth-fwlio mewn ysgolion (cam gweithredu 5.3), ein hymrwymiad i Siarter Troseddau Casineb Cymorth i Ddioddefwyr (cam gweithredu 2.2) ac ymgyrchoedd yn y cyfryngau i hybu ymwybyddiaeth a dathlu amrywiaeth (cam gweithredu 2.5) yn helpu i gyflawni hyn. |
| **24** | Mwy o addysg ar gydraddoldeb o oedran ifanc. | Gweler ymateb 23 uchod. |
| **25** | Addysgu mwy am beidio gwahaniaethu | Gweler ymateb 23 uchod. |
| **26** | Addysgu pobl, cosbi pobl am anghydraddoldeb | Gweler ymateb 23 uchod. |
| **27** | Parch. | Gweler ymateb 23 uchod. |
| **28** | Cydraddoldeb, dim barnu. | Gweler ymateb 23 uchod. |
| **29** | Rhagor o ysgolion amlddiwylliannol. | Mae ein hysgolion yn tueddu i adlewyrchu diwylliant staff, disgyblion a llywodraethwyr yr ysgol. Mae rhai ysgolion yn fwy amlddiwylliannol nag eraill. |

## Amcan 3: Sicrhau Ymgysylltu a Chyfranogi

Cytunodd 95% o'r ymatebion i'r arolwg ar-lein a 93% o'r Cyngor Ieuenctid y dylai hwn fod yn Amcan Cydraddoldeb i Gyngor Ceredigion. Roedd 88% o'r bobl a atebodd yr arolwg ar-lein yn cytuno y byddai'r camau gweithredu yn y cynllun yn ein helpu i gyflawni'r amcan hwn. Ond dim ond 69% o aelodau'r cyngor ieuenctid oedd yn cytuno. Gweler y graff isod.




Fe wnaethom ofyn i'r cyhoedd, **"A ydych yn meddwl y gallem wneud mwy, neu wneud pethau'n wahanol, i gyflawni'r amcan hwn yn well?"** Mae eu hatebion a'n hymatebion ni isod.

| | **Sylwadau** | **Ymatebion Cyngor Sir Ceredigion** |
|---|---|---|
| **1** | Mae'n amlwg bod angen rhoi adborth ar yr ymgynghoriadau yr ydych yn eu cynnal yn gynt ac yn gliriach fel bod pobl yn gwybod beth yw'r canlyniad a beth a benderfynwyd. Ar ôl gweld Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogi'r Cyngor, mae bwriad i wneud hyn, felly byddwn yn eich annog i gyflawni hynny, bydd yn helpu pawb. Mae rhai Cynghorau'n gwneud mwy ar "fe ddywedoch chi fe wnaethon ni", gallai'r Cyngor ystyried gwneud yr un peth a gwneud rhywbeth tebyg, dim byd mawr dim ond un ochr yn yr adroddiadau rydych chi'n eu | Cytuno. Gobeithiwn y byddwch yn cytuno bod y ddogfen hon yn enghraifft o'r dull "fe ddywedoch chi, fe wnaethon ni" o weithredu.<br><br>Byddwn yn defnyddio ein pecyn cymorth Ymgysylltu newydd i barhau i adeiladu ar y dull hwn o weithredu (cam gweithredu 3.6). Mae pwysigrwydd adborth prydlon a chlir wedi'i gynnwys yn y pecyn cymorth hwn.<br><br>Rydym hefyd angen i aelodau'r cyhoedd fod yn ymwybodol o'r amser y mae'n ei gymryd i'r Cyngor ddilyn y broses ddemocrataidd yn gywir. |

| | Sylwadau | Ymatebion Cyngor Sir Ceredigion |
|---|---|---|
| | cynhyrchu gan nodi'n glir beth wnaethoch chi o ganlyniad i'r adborth. | |
| **2** | Rhaid i chi sicrhau bod gennych luosogrwydd lleisiau mewn perthynas â materion 'LHDT'. Mae'n hanfodol eich bod yn gwrando ar sefydliadau heblaw Stonewall - ee LGB Alliance, gan nad oes un ateb sy’n addas i bawb. | Cytunwyd. Rydym yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau i ddysgu am faterion LHDT a byddwn yn parhau i gefnogi digwyddiadau Balchder lleol. |
| **3** | Gormod o amser ac ymdrech i ddangos yn union pa mor obsesiynol am "Me too" y mae sefydliadau'r DU wedi dod | Darllenwch ein hadroddiad ymgysylltu arolwg cydraddoldeb 2023. Mae Atodiad 3 yn dangos y sylwadau a'r enghreifftiau o brofiadau bywyd gan bobl sy'n byw neu'n gweithio yng Ngheredigion. |
| **4** | Datrys problemau sy'n bodoli mewn gwirionedd yn hytrach na dyfeisio rhai newydd. | Gweler yr ymateb uchod. |
| **5** | Ie. Cynhwyswch y nifer fawr o bobl sydd ag anabledd gweithredol oherwydd electrosensitifrwydd ac sydd felly'n cael eu hallgáu o sawl rhan o gymdeithas oherwydd y bygythiad i'w hiechyd a'u lles. Maent yn grŵp lleiafrifol y mae eu hangen brys am waith, llety a man diogel yn cael ei anwybyddu. | Mae hyn yn rhywbeth y mae angen i ni ei ddeall yn well. |
| **6** | Mae EHS yn anabledd, nam swyddogaethol oherwydd amgylchedd anhygyrch. Mae angen i'r Cyngor ystyried barn pobl ag EHS yng Ngheredigion pan fydd yn gwneud penderfyniadau ar ddarparu technolegau diwifr yn adeiladau'r cyngor a mannau cyhoeddus, megis gosod Wi-Fi yn ddiweddar yn Llanbedr Pont Steffan a threfi eraill yn y sir, rhywbeth sydd wedi effeithio’n fawr ar bobl ag EHS yn y sir, gan gynyddu eu salwch, eu poen, a’u dioddefaint a gwneud eu bywydau – sydd eisoes yn ddigon | Gweler ymateb 6 uchod |

| | Sylwadau | Ymatebion Cyngor Sir Ceredigion |
|---|---|---|
| | heriol – yn fwy anodd. Mae angen i chi weithio gyda phartneriaid addas i sefydlu fforwm rhanddeiliaid EHS fel y gallwch ddeall a gweithredu enghreifftiau o arfer da yn well. Bydd hyn nid yn unig er budd y rhai yr effeithir arnynt fwyaf, ond hefyd y rhai yr effeithir arnynt yn fwy cymedrol (ac yn aml ddim yn ymwybodol), h.y. y rheini sy'n dangos rhyw lefel o electrosensitifrwydd - fel sy'n amlwg mewn cwsg, blinder, problemau iechyd meddwl a/neu gorfforol cronig. | |
| **7** | Hwre! Rydyn ni *(pobl anabl)* yn bodoli. Nesaf, y digartref. Fodd bynnag, rwy'n rhy gyfarwydd â "Fe wnaethom ymgynghori â'r (e.e.) Fforwm Anabledd [ac yna symud ymlaen i anwybyddu eu holl argymhellion" i fod yn gwbl argyhoeddedig.<br>Awgrymaf eich bod hefyd yn cynnal digwyddiadau cymdeithasol, gwahoddiadau i ddinasyddion a ddewiswyd ar hap ond wedi'u haddasu i sicrhau amrywiaeth. Darparu bwyd, i gyflwyno pobl i ystod eang o fwydydd. Ond y prif beth fyddai hwyluso cyfarfod a sgwrsio gyda grwpiau Galluogi i wneud ffilmiau byr am eu bywyd yng Ngheredigion. Neu efallai pam y daethant yma os ydynt o rywle arall. | Rydym am ddatblygu'r Fforwm Anabledd (cam gweithredu 3.2) ac rydym yn ddiolchgar i'r aelodau sy'n rhoi o'u hamser i weithio gyda ni i helpu i wella ein gwasanaethau.<br><br>Rydym am sefydlu fforymau rhanddeiliaid pellach (camau gweithredu 3.3 a 3.4). Byddwn yn ystyried y dull a awgrymir o gyfarfod, sgwrsio a gwneud ffilmiau byr. |
| **8** | Rydych chi'n gwneud gormod ar-lein a rhy ychydig wyneb yn wyneb. | Rydym yn ymwybodol o’r angen am wasanaethau wyneb yn wyneb. Mae ein polisi gweithio hybrid yn nodi categorïau gwaith sy'n amrywio o 'yn y gweithle' 'yn rhannol gartref/yn rhannol yn y gweithle' a 'crwydro'. |

| | Sylwadau | Ymatebion Cyngor Sir Ceredigion |
|---|---|---|
| | | Mae ein tîm cyswllt cwsmeriaid yn cynnig gwasanaeth wyneb yn wyneb o'n pedair prif lyfrgell, Aberystwyth, Aberaeron, Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi.<br><br>Ein nod yw bod yn hyblyg o ran ble a phryd y gwneir gwaith a hefyd darparu gwasanaethau da. |
| **9** | Hysbysebu cyfleoedd i ymgysylltu'n ehangach. | Rydym yn hyrwyddo cyfleoedd ar y cyfryngau cymdeithasol, ar bosteri yn ein llyfrgelloedd a'n canolfannau hamdden, ar ein gwefan a thrwy e-byst wedi'u targedu at grwpiau penodol.<br><br>Rydym wedi lansio 'Fy Nghyfrif.' Mae hyn yn galluogi pobl i ddweud wrthym os ydynt eisiau gwybod am gyfleoedd ymgysylltu ac ymgynghori. Yna gallwn gysylltu â nhw'n uniongyrchol. |
| **10** | Nid yw aelodau etholedig yn cynrychioli'r amrywiaeth o fewn Ceredigion - mae yna brinder pobl sydd wedi symud i'r sir. | Rydym am annog rhagor o bobl ifanc, menywod, pobl anabl, pobl LHDTC+ a phobl o gefndiroedd ethnig amrywiol i wleidyddiaeth leol a gwneud penderfyniadau'n lleol (cam gweithredu 3.1).<br><br>Mae dinasyddion Ceredigion yn ethol cynghorwyr. Rydym yn hybu amrywiaeth yn unol â'r nodweddion gwarchodedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010. |
| **11** | Nid yw 'datblygu aelodaeth' y fforwm anabledd yn ddigon - mae hygyrchedd o gwmpas Ceredigion ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus yn wael - yn Llandysul mae 1 bws y dydd ac fe wrthododd hwnnw fy nghadair olwyn yn ddiweddar gan nad oedd y gyrrwr yn gwybod sut i weithredu lifft y gadair olwyn. Nid yw cyfranogiad yn bodoli os nad oes trafnidiaeth! | Mae darparu trafnidiaeth gyhoeddus sy'n fforddiadwy i'r teithiwr yn ogystal â darparwr y drafnidiaeth yn her enfawr.<br><br>Gweler cam gweithredu 4.10: Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu atebion teithio cynaliadwy a fforddiadwy.<br><br>Er nad yw'n ysbrydoledig, teimlwn fod y cam gweithredu hwn yn realistig yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. |

| | **Sylwadau** | **Ymatebion Cyngor Sir Ceredigion** |
|---|---|---|
| **12** | Meithrin mwy o wybodaeth a dealltwriaeth am niwroamrywiaeth - o fewn ein staff presennol ac ar gyfer cwsmeriaid / staff y dyfodol. | Gall staff y Cyngor neilltuo lle ar ein cwrs hyfforddi 'Niwroamrywiaeth yn y Gweithle ar gyfer Rheolwyr a Staff Adnoddau Dynol.' Mae yna hefyd 2 fodiwl e-ddysgu 'Deall Awtistiaeth'. |
| **13** | Ni ddylai fod gwahaniaeth beth yw lliw/oedran/rhyw/... person os yw'n briodol i wneud y swydd. Dim ond cael y PERSON GORAU yn y swydd. Mae'n ddibwrpas cael 1 gwryw/1 fenyw/1 du/1 gwyn.... person ar y gweithlu os na allant/na fydd yn gwneud y swydd yn iawn. | Credwn y dylai gweithlu'r sector cyhoeddus gynrychioli'r boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu ar bob lefel o'r sefydliad.<br><br>Gwneir pob penodiad i waith cyflogedig gyda Chyngor Sir Ceredigion ar sail teilyngdod. Mae ein meini prawf dethol yn seiliedig ar allu'r person i wneud y swydd fel y'i diffinnir gan y disgrifiad o'r swydd a manyleb y person. |
| **14** | Mae angen i chi wneud mwy gyda phobl, yn hytrach na thros bobl. Mae angen i ni gael ein harwain gan bobl sy'n profi'r holl bethau hyn yn hytrach na phobl nad oes ganddynt ddealltwriaeth wirioneddol o'r materion. | Cytunwyd. Mae ein gwasanaethau Gydol Oes a Llesiant yn cael eu darparu yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae hon yn gyfraith sy'n rhoi mwy o lais i bobl yn y gofal a'r cymorth a gawsant. Mae'n ymwneud â phobl yn gwneud penderfyniadau am eu gofal mewn partneriaeth â gweithwyr proffesiynol.<br><br>Yn ogystal â hyn, mae pob panel cyfweld ar gyfer swyddi ym maes gofal cymdeithasol yn cynnwys rhywun â phrofiad bywyd. |
| **15** | Os nad yw pobl yn cymryd rhan sut ydyn ni'n gwybod beth maen nhw ei eisiau. | Cytunwyd. |
| **16** | mae angen i ni addysgu unigolion mewn addysg ei bod yn werth mynd i weithio a pheidio ag aros gartref i fod ar fudd-daliadau yr ymgyrch i fod yn rhan o gymuned collodd ystyr sy'n golygu ei fod yn cael effaith aruthrol ar les meddyliol. Teimlo ar goll ac yn unig - dylai rhyng-genhedlaeth fod yn haws i'w gydlynu | Cytunwyd. Nid yw hwn yn gam gweithredu penodol yn ein Cynllun Cydraddoldeb, ond rydym yn olrhain nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau oherwydd eu bod yn ddi-waith. Rydym yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau i helpu pobl i gael addysg, gwaith neu hyfforddiant.<br><br>Ni all rhai pobl weithio oherwydd bod ganddynt gyfrifoldebau gofalu neu broblemau iechyd. Mae ein tîm Gofalwyr a |

| | Sylwadau | Ymatebion Cyngor Sir Ceredigion |
|---|---|---|
| | | Chymuned yn helpu pobl yn eu cymunedau i leihau teimladau o unigrwydd ac unigedd. |
| **17** | gofyn am wirfoddolwyr o blith aelodau grwpiau nodweddion gwarchodedig i rannu eu profiadau a'u disgwyliadau | Cytunwyd. Byddwn yn gwneud hyn gyda'r Fforwm Anabledd presennol a fforwm BAME a fforwm LHDTC+ yr ydym am eu datblygu (camau gweithredu 3.2, 3.3 a 3.4) |
| **18** | Mae angen fforwm rhanddeiliaid Menywod - mae menywod yn wynebu anghydraddoldeb o fewn grwpiau lleiafrifol. | Sylw wedi ei nodi. |


Fe wnaethom ofyn i aelodau Cyngor Ieuenctid Ceredigion sut y gallem ei gwneud yn haws i bobl o gefndiroedd gwahanol gymryd rhan mewn penderfyniadau. Mae eu sylwadau a'n hymatebion ni isod.

| | Sylwadau | Ymatebion Cyngor Sir Ceredigion |
|---|---|---|
| **19** | Arolygon dienw | Nodwyd, mae'r rhan fwyaf o arolygon y cyngor yn ddienw. |
| **20** | Mwy o hygyrchedd | Nodwyd. Gobeithiwn y bydd y camau gweithredu yn ein Cynllun Cydraddoldeb yn ein helpu i gyflawni hyn. |
| **21** | Sicrhau llefydd i bobl allu rhoi eu barn | Rydym bob amser yn chwilio am ragor o ffyrdd o hybu cyfleoedd i ymgysylltu â ni a gofyn am farn pobl.<br><br>Rydym yn hyrwyddo cyfleoedd ar y cyfryngau cymdeithasol, ar bosteri yn ein llyfrgelloedd a'n canolfannau hamdden, ar ein gwefan a thrwy e-byst wedi'u targedu at grwpiau penodol.<br><br>Rydym wedi lansio 'Fy Nghyfrif.' Mae hyn yn galluogi pobl i ddweud wrthym os ydynt eisiau gwybod am gyfleoedd ymgysylltu ac ymgynghori. Yna gallwn gysylltu â nhw'n uniongyrchol. |
| **22** | Ei hysbysebu'n fwy, gwneud rhagor o bobl yn ymwybodol. | Gweler ymateb 22 uchod. |
| **23** | Sicrhewch rhagor o gyfleoedd i bobl gynnig eu barn. | Gweler ymateb 22 uchod. |
| **24** | Gofynnwch am farn pobl | Gweler ymateb 22 uchod. |

| | Sylwadau | Ymatebion Cyngor Sir Ceredigion |
|---|---|---|
| 2<br>5 | Estynnwch allan i wahanol grwpiau a sefydliadau, ei hysbysebu. | Gweler ymateb 22 uchod. |
| 26 | Hawdd rhoi gwybod am wahaniaethu neu drosedd casineb | Byddwn yn parhau i weithio gyda Chymorth i Ddioddefwyr a'n Tîm Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol i godi ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb a sicrhau ei bod yn hawdd rhoi gwybod am achosion o Droseddau Casineb (cam gweithredu 2.2). |
| 27 | Gwneud yn siŵr fod lleisiau yn cael eu clywed. A ddim wedi'i anwybyddu. | Mae ymatebion i ymgyrchoedd ymgysylltu ac ymgynghori fel arfer yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau i Gynghorwyr Sir Ceredigion. Nhw sy'n gwneud y penderfyniad terfynol ar newidiadau i wasanaethau a pholisïau newydd.<br><br>Cyflwynir cofnodion holl gyfarfodydd y Cyngor Ieuenctid i Gabinet Ceredigion. |
| 28 | Sicrhau bod lleisiau yn cael eu clywed. | Gweler ymateb 28 uchod. |
| 29 | Gwnewch yn siŵr bod llais pawb yn cael ei ystyried, rhagor o gyfleoedd i godi llais. | Gweler ymateb 28 uchod.<br><br>Rydym bob amser yn chwilio am ragor o ffyrdd o hyrwyddo cyfleoedd i ymgysylltu â ni a gofyn am farn pobl. |
| 30 | Dim dyfarniad, gwnewch yn siŵr bod pethau'n hygyrch ac yn ddiogel. | Cytunwyd. Gobeithiwn y bydd ein Cynllun Cydraddoldeb yn helpu i gyflawni hyn. |
| 31 | Siarad yn ddienw, i greu amgylchedd diogel. | Mae'r rhan fwyaf o arolygon y cyngor yn ddienw. |
| 32 | Arolygon dienw | Gweler ymateb 33 uchod.<br><br>Byddwn yn annog staff y cyngor sy'n cynnal ymgynghoriadau wyneb yn wyneb i fynd â blwch dienw gyda nhw. |
| 33 | Bod â blwch dienw. | Gweler yr ymateb uchod. |
| 34 | Caniatáu i bobl ddweud eu barn mewn ffordd y maent yn hyderus ynddi, boed hynny trwy e-bost, traethawd, siarad, cynigion (nad ydynt yn ymosodol) ac ati. | Byddwn yn cynnwys eich awgrym yn ein pecyn cymorth Ymgysylltu newydd i staff. |

## Amcan 4: Sicrhau Urddas, Parch a Mynediad at Wasanaethau

Cytunodd 100% o'r ymatebion i'r arolwg ar-lein ac 88% o'r Cyngor Ieuenctid y dylai hwn fod yn Amcan Cydraddoldeb i Gyngor Ceredigion. Cytunodd 91% o'r ymatebwyr i'r arolwg ar-lein y byddai'r camau gweithredu yn y cynllun yn ein helpu i gyflawni'r amcan hwn. Ond dim ond 67% o aelodau'r cyngor ieuenctid oedd yn cytuno. Gweler y graff isod.




Fe wnaethom ofyn i'r cyhoedd, **"A ydych yn meddwl y gallem wneud mwy, neu wneud pethau'n wahanol, i gyflawni'r amcan hwn yn well?"** Mae eu hatebion a'n hymatebion ni isod.

| | Sylwadau | Ymatebion Cyngor Sir Ceredigion |
|---|---|---|
| 1 | Nac ydw, ond hoffwn bwysleisio pwysigrwydd gwneud gwefan y Cyngor yn fwy hygyrch. | Cytunwyd. Mae hyn wedi'i gynnwys yn y cynllun (cam gweithredu 4.6). |
| 2 | RHAID i'ch strategaeth 'Toiledau i Bawb' gynnwys cadw cyfleusterau toiledau un rhyw ym mhob achos. Gallwch ychwanegu trydydd opsiwn 'neillryw' ar gyfer y rheini sydd eu hangen, ond mae toiledau un rhyw yn ofynnol yn ôl y gyfraith - mewn | Byddwn yn cymryd hyn i ystyriaeth fel rhan o'r adolygiad o'n Strategaeth Toiledau (cam gweithredu 4.9) |

| | Sylwadau | Ymatebion Cyngor Sir Ceredigion |
|---|---|---|
| | ysgolion i blant dros 8 oed mae'n rhaid i doiledau gael eu gwahanu yn ôl rhyw yn ôl y gyfraith. Ar gyfer toiledau cyhoeddus, er diogelwch, rhaid darparu un rhyw oni bai bod y toiled yn un sengl gyda chyfleusterau ymolchi caeedig. | |
| **3** | Arian ychwanegol. Mae seilwaith cyfyngedig, mae'n anodd cael mynediad at rai gwasanaethau heb geir. Hefyd ceisiwch beidio â bod yn rhy ragnodol - mae'r cymunedau presennol yn y tymor hwy eisiau cael eu gadael ar eu pennau eu hunain ac maent yn mwynhau byw ar wahân - mae mewnfudwyr trefol i'w gweld eisiau bod mewn cymunedau ac i roi gwerth ariannol ar dyddynnod ac ati. I'r rheini sydd am gael eu gadael ar eu pennau eu hunain, urddas a pharch yw sylweddoli eu bod yn hoffi ac eisiau byw bywydau mwy ynysig. | Cytunwyd. Mae'n anodd datblygu'r seilwaith yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni. Mae staff y cyngor wedi'u lleoli ym mhob llyfrgell, canolfan hamdden a chanolfan les a redir gan y cyngor ond mae'r rhain wedi'u lleoli yn y trefi. Gwnawn ein gorau i ddod â gwasanaethau allan i bobl sydd eu hangen ac i ddarparu gwasanaethau ar-lein, lle bo hyn yn briodol. Rydym yn cydnabod y ffaith na all pawb ddefnyddio gwasanaethau ar-lein. |
| **4** | Gwnewch yn siŵr eich bod hefyd yn cynnwys effaith amgylcheddol a chadwraeth wrth adeiladu. Byddwch yn dweud "wrth gwrs" ond cymerwch y peth o ddifrif a pheidiwch â gadael i gyllid fod yn ffactor sy'n penderfynu. Ymdrechwch i ddod o hyd i ofod segur sydd eisoes yn bodoli yn y trefi. Ond hefyd penodwch swyddog a thîm cadwraeth i warchod ein treftadaeth adeiledig. Peidiwch â gadael i hynny gael ei ddifetha am byth oherwydd yr angen brys presennol. Darparwch gyllid fel y gall perchnogion adeiladau hanesyddol wneud atgyweiriadau mewn modd sympathetig (dim mwy o uPVC) - | Mae angen rhyw fath o arolwg ac asesiad ecolegol ar y rhan fwyaf o geisiadau cynllunio, yn dibynnu ar y safle a'r bwriad. Rhaid i bob cais cynllunio gynnwys gwelliannau bioamrywiaeth sy'n benodol i'r safle (yn ogystal ag iawndal a mesurau lliniaru).<br><br>Rydym yn dilyn egwyddorion Polisi Cynllunio Cymru sy'n datgan y dylem ystyried tir a ddatblygwyd o'r blaen a/neu safleoedd nas defnyddir ddigon o fewn aneddiadau presennol yn gyntaf a safleoedd ar gyrion aneddiadau yn y cam nesaf.<br><br>Mae ein Swyddog Rheoli Datblygu Arbenigol (Treftadaeth Adeiledig) yn drafftio nodyn cyfarwyddyd ar ffenestri mewn |

| | Sylwadau | Ymatebion Cyngor Sir Ceredigion |
|---|---|---|
| | adeiladwch gyda llygad tuag at y dyfodol ac at y gorffennol | ardaloedd cadwraeth ac adeiladau rhestredig. Nid oes gennym reolaeth dros y defnydd o uPVC mewn anheddau mewn llawer o ardaloedd cadwraeth. Gall hyn newid os cymhwysir Cyfarwyddyd Erthygl 4(2) i ragor o ardaloedd cadwraeth. |
| **5** | Stopiwch gyfarfodydd ar-lein a chwrddwch â'ch cwsmeriaid wyneb yn wyneb. | Rydym yn cydnabod rhai o ddiffygion cyfarfod ar-lein. Rydym yn diweddaru ein technoleg fel y gallwn wella'r profiad ar-lein. Rydym yn cynnig cyfarfodydd hybrid fel y gall pobl fynychu yn bersonol neu'n rhithwir. Rydym yn ymwybodol o'r angen am wasanaethau wyneb yn wyneb.<br><br>Mae ein polisi gweithio hybrid yn nodi categorïau gwaith sy'n amrywio o 'yn y gweithle' 'yn rhannol gartref/yn rhannol yn y gweithle' a 'crwydro.'<br><br>Mae ein tîm cyswllt cwsmeriaid yn cynnig gwasanaeth wyneb yn wyneb o'n pedair prif lyfrgell, Aberystwyth, Aberaeron, Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi. Mae ein tîm Gofalwyr a Chymorth Cymunedol allan yn cyfarfod cwsmeriaid wyneb yn wyneb yn rheolaidd. |
| **6** | Ydw, mynd i'r afael ar fyrder â'r angen am dai diogel i bobl ag anabledd gweithredol ac sydd ar hyn o bryd yn ddigartref ac yn ddi-waith oherwydd gorsensitifrwydd trydanol. | Mae gorsensitifrwydd trydanol yn rhywbeth y mae angen i ni ei ddeall yn well. |
| **7** | Ar hyn o bryd nid oes dim darpariaeth o ran tai ar gyfer pobl ag EHS yng Ngheredigion. Unwaith eto, mae angen i chi weithio ar fyrder gyda phartneriaid addas i sefydlu fforwm rhanddeiliaid EHS fel y gallwch ddeall enghreifftiau o arfer da yn well a rhoi atebion priodol, parhaol ar waith yn gyflym i'r sefyllfa dai ddifrifol afiach ac annynol y mae llawer o'r rheini sydd ag EHS yn ei | Gweler ymateb 6 uchod. |

| | Sylwadau | Ymatebion Cyngor Sir Ceredigion |
|---|---|---|
| | hwynebu heddiw. Gallai, a dylai, y Cyngor fod yn chwarae rhan flaenllaw wrth gydnabod y garfan hon a'u hawliau a'u hanghenion sylfaenol yn y maes hwn yn ddigonol, gan helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng tai EHS o fewn yr argyfwng tai/digartrefedd sy'n cydio yn y genedl ar hyn o bryd. Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn anhygyrch i bobl ag EHS oherwydd presenoldeb Wi-Fi a ffonau clyfar ar fysiau a threnau. Maent, ar y cyfan, yn cael eu gorfodi i gwtogi ar eu symudiadau/dibynnu'n fwy felly ar eraill nag yr hoffent (ystyriwch: ynysigrwydd, dibyniaeth ar eraill, diffyg annibyniaeth) a/neu ddefnyddio eu trafnidiaeth eu hunain, gyda'r holl gostau, risgiau, a chymhlethdod y mae'r pethau hyn yn ei olygu. | |
| **8** | Mae'r cyngor wedi sôn am wneud y pethau hyn dros yr 20 mlynedd+ diwethaf a bu mwy o oedi ac ymchwil na gwneud unrhyw beth mewn gwirionedd. Mae'r system o ethol cynghorwyr yn atgyfnerthu'r status quo. Prin fod angen unrhyw ysgogiad ystyrlon ar gyfer newid. | Mae adroddiadau monitro blynyddol ar ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyfredol yn dangos cynnydd cyson. Gellir gweld y rhain ar ein gwefan Cynllun ac Amcanion Cydraddoldeb Strategol - Cyngor Sir Ceredigion.<br>Gellir darparu copïau papur ar gais.<br><br>Gall ein rheolwr Cydraddoldeb a Chynhwysiant gwrdd ag unrhyw un a hoffai fynd drwy'r rhain yn fwy manwl.<br><br>Mae dinasyddion Ceredigion yn ethol ein Cynghorwyr yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. |
| **9** | Geiriau da ond mae eich hanes blaenorol yn awgrymu na fydd dim byd yn newid. | Gweler yr ymateb uchod. |

| | Sylwadau | Ymatebion Cyngor Sir Ceredigion |
|---|---|---|
| **10** | Rhowch y gorau i godi tâl am doiledau. Nid oes dim urddas yn y sefyllfa honno. | Dangosodd ein hymgynghoriad diwethaf ar doiledau cyhoeddus (2019) fod 66% o ymatebwyr yn fodlon talu i ddefnyddio Cyfleusterau Cyhoeddus. Gyda'r rhagolygon o doriadau i'r gyllideb yn y dyfodol mae'n bwysig codi refeniw er mwyn cynnal y cyfleusterau hyn.<br><br>Mae adolygiad o'n Strategaeth Toiledau wedi'i gynnwys yn ein Cynllun Cydraddoldeb (cam gweithredu 4.9) |
| **11** | Mae datblygu atebion teithio fforddiadwy yn allweddol i'r gymuned anabl er mwyn cael mynediad at wasanaethau. Fel arfer rwy'n gyrru (mewn car wedi'i addasu, rwy'n defnyddio cadair olwyn) a gallaf gael mynediad at wasanaethau ond yn ddiweddar torrais fy mhigwrn ac felly ni allaf yrru. O'r herwydd ni allaf gael mynediad at ddim byd o gwbl ac rwy'n sownd yn y tŷ gan fod allt serth i'r pentref, y ganolfan hamdden, y llyfrgell a'r safle bws. Byddai'r Bwca bws yn fy nghasglu ar ddiwedd y ffordd, ond nid yw'r gwasanaeth hwnnw ar gael mwyach. | Mae darparu trafnidiaeth gyhoeddus sy'n fforddiadwy i'r teithiwr yn ogystal â darparwr y drafnidiaeth yn her enfawr.<br><br>Gweler cam gweithredu 4.10: Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu atebion teithio cynaliadwy a fforddiadwy.<br><br>Er nad yw'n ysbrydoledig, teimlwn fod y cam hwn yn realistig yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. |
| **12** | Credaf y dylai unrhyw un sy'n dymuno siarad/ysgrifennu Cymraeg allu gwneud hynny os yn bosibl, fodd bynnag, os yw penodi person sy'n siarad Cymraeg uwchlaw siaradwr di-Gymraeg â chymwysterau gwell yn golygu bod y swydd yn cael ei gwneud i safon is, yna mae hynny'n ddisynnwyr. Credaf hefyd ei bod yn anghywir i orfodi siarad Cymraeg ar bobl nad ydynt yn dymuno ei siarad. Rwy'n deall, wrth fyw yng Nghymru, y byddaf yn gweld/clywed Cymraeg yn rheolaidd, ond ni ddylai hynny | Rydym yn sefydliad dwyieithog; mae rhai swyddi yn gorfod cael eu gwneud gan siaradwr Cymraeg. Fodd bynnag, byddwn yn awr yn mabwysiadu dull continwwm o gyflawni sgiliau iaith. Byddwn yn disgwyl i ymgeiswyr llwyddiannus ddangos gwelliant cyson yn eu sgiliau iaith.<br><br>Ein polisi yw gofyn i bobl beth yw eu dewis iaith a pharhau yn yr iaith honno. Os ydych wedi dweud wrthym mai Saesneg yw eich dewis iaith, dylid cofnodi hyn, a byddem yn parhau i ddarparu gwasanaeth trwy gyfrwng y Saesneg i chi. |

| | Sylwadau | Ymatebion Cyngor Sir Ceredigion |
|---|---|---|
| | olygu fy mod yn teimlo rheidrwydd i ddysgu Cymraeg. | |
| 13 | Byddwch yn agored | Ein nod yw bod yn dryloyw ac yn agored gyda holl fusnes y Cyngor. |
| 14 | Byddwch yn agored ac yn dryloyw ynghylch yr hyn yr ydych yn ei wneud, yn enwedig ym maes tai a thrafnidiaeth. | Gweler yr ymateb uchod. |
| 15 | Ni fydd gwneud toriadau mewn gwasanaethau gofal yn caniatáu hyn, os byddwch yn buddsoddi mewn darparu gofal mae'n cadw pobl yn ddiogel yn eu cartrefi. Gall Gofal Ychwanegol alluogi pobl i fyw gartref yn ddiogel gyda darpariaethau wedi'u sefydlu i agor y cyfathrebu rhwng nyrsys ardal, meddygon teulu ac ati gan arbed arian i'r GIG a'r cyngor yn y tymor hir. Mae gwasanaeth lles Delta yn gwneud gwahaniaeth enfawr ym mywydau'r boblogaeth sy'n heneiddio, gellir defnyddio technoleg ymhellach i gadw pobl yn ddiogel. | Y gyllideb ar gyfer 2023-24 ar gyfer ein gwasanaeth Gofal a Llesiant Gydol Oes yw £53m. Rydym yn rhagweld gorwariant o tua £3.5m.<br><br>Mae'r sefyllfa ariannol yn hynod heriol. Mae ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2024-25 yn nodi bwlch £8.5m yn y gyllideb a gofyniad £6.4m o ran arbedion. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod manteision dull 'buddsoddi i arbed' o weithredu.<br><br>Ariennir gwasanaeth Delta Connect gan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2022-2027 Llywodraeth Cymru drwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru. |
| 16 | Ychwanegwch 'pobl ifanc' at y mesur llwyddiant ar gyfer Cam Gweithredu 3.1. | Cam gweithredu 3.1 wedi'i ddiwygio. |

Fe wnaethom ofyn i aelodau Cyngor Ieuenctid Ceredigion sut y gallem ei gwneud yn haws i bobl gael mynediad at wasanaethau'r Cyngor. Mae eu sylwadau a'n hymatebion ni isod.


| | Sylwadau | Ymateb Cyngor Sir Ceredigion |
|---|---|---|
| 17 | Gwefannau | Mae ein gwefan Cyngor Sir Ceredigion County Council yn cael ei diweddaru'n barhaus. Rydym bob amser yn gweithio i'w gwella a'i gwneud yn haws i'w defnyddio. |
| 18 | Ar lein neu rif ffôn gall ffonio am fanylion | Gweler yr ymateb uchod.<br><br>Gall pobl hefyd ffonio'r Cyngor yn ystod ein horiau gwaith arferol. |

| | Sylwadau | Ymateb Cyngor Sir Ceredigion |
|---|---|---|
| **19** | Gwefan hawdd ei deall sy'n darparu ar gyfer pobl ag anableddau. | Mae dros 90% o'n gwefan wedi cyrraedd safon hygyrchedd AAA. Mae'r 10% sy'n weddill oherwydd y defnydd o ddogfennau pdf sydd bron yn amhosibl eu gwneud yn hygyrch. Byddwn yn parhau i wella hygyrchedd neu ein gwefan o dan ein Cynllun Cydraddoldeb newydd (cam gweithredu 4.6). |
| **20** | Bod ar gyfryngau cymdeithasol | Mae gan ein tudalen Facebook Cymraeg – Cyngor Sir Ceredigion – 2,000 o ddilynwyr.<br><br>Mae gan ein tudalen Facebook Saesneg – Ceredigion County Council – 16,800 o ddilynwyr.<br><br>Yn ogystal â phrif dudalen Facebook y Cyngor, mae 15 tudalen Facebook yn cael eu rhedeg gan wasanaethau unigol y Cyngor. Mae gan ysgolion Ceredigion eu tudalennau Facebook eu hunain hefyd.<br><br>Mae gennym ni 2,600 o ddilynwyr ein cyfrif Cymraeg ar X (Twitter gynt) ac 8,700 o ddilynwyr ein cyfrif Saesneg ar X.<br><br>Yn ogystal â'n prif gyfrif Cyngor ar X, mae 9 o gyfrifon X yn cael eu rhedeg gan wasanaethau unigol y Cyngor.<br><br>Mae gan ein cyfrif Instagram – caruceredigion 1,600 o ddilynwyr.<br><br>*(Ffigyrau yn gywir ar 05/01/24)* |
| **21** | Cyfryngau cymdeithasol, a hygyrchedd i bobl anabl. | Gweler ymateb 20 uchod.<br><br>Gobeithiwn y bydd ein Cynllun Cydraddoldeb yn gwella hygyrchedd i bobl anabl ymhellach. |
| **22** | Mwy o ymwybyddiaeth o wasanaethau sydd ar gael ar y cyfryngau cymdeithasol yn ddwyieithog | Mae holl wasanaethau a negeseuon Cyngor Sir Ceredigion ar y cyfryngau cymdeithasol yn ddwyieithog. |
| **23** | Mwy o wybodaeth yn yr ieithoedd. Pwyleg, Romani ac ati. | Gallwn ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd eraill ar gais. |
| **24** | Sicrhewch fod rampiau ar gael ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn | Mae holl adeiladau'r cyngor sydd ar agor i'r cyhoedd yn gwbl hygyrch. Mae hygyrchedd |

| | Sylwadau | Ymateb Cyngor Sir Ceredigion |
|---|---|---|
| | | yn ystyriaeth bwysig wrth ddylunio unrhyw ddatblygiad newydd. |
| **25** | Siaradwch Gymraeg a Saesneg | Mae holl wasanaethau Cyngor Sir Ceredigion yn ddwyieithog. |
| **26** | Siaradwch amdano mewn taflenni ysgol, hysbysebion. | Nodwyd. |
| **27** | Angen sicrhau fod accessibility yn dda. A ddim wedi neud yn wili nili. | Cytunwyd. Gobeithiwn y bydd ein Cynllun Cydraddoldeb yn ein helpu i gyflawni hyn. |
| **28** | Caniatewch yr opsiwn i gael ymweliad cartref ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl neu anableddau. | Mae ein tîm gofal cymdeithasol, sy'n rhan o'n gwasanaeth Gydol Oes a Llesiant, yn cynnig ymweliadau cartref. |
| **29** | Creu negeseuon neu erthyglau newyddion ar-lein sy'n cynnig cyfleoedd i bobl. | Rydym yn hyrwyddo ein gwasanaethau ar ein tudalennau ar y cyfryngau cymdeithasol ac mewn erthyglau newyddion a ryddhawyd i'r wasg leol. |
| **30** | Creu fforwm neu wefan lle gallai pobl gael mynediad at y gwasanaethau hyn ar-lein ac yn ddienw. Ei hysbysebu i bob oed, hil ac ati. I wneud yn siŵr ei fod yn hysbys i fod yn gyfartal ac amrywiol. | Mae llawer o'n gwasanaethau bellach ar gael ar-lein. Yn anffodus ni allwn ddarparu gwasanaethau i bobl sy'n aros yn ddienw. Mae cyfrinachedd yn bwysig iawn i ni ac mae gennym brosesau llym o ran diogelu data. |
| **31** | Gofynnwch i bobl anabl beth fyddai orau iddynt. | Mae Fforwm Anabledd Ceredigion yn cyfarfod bob 3 mis. Mae angen i ni ddenu rhagor o bobl i ymuno. Mae hyn wedi'i gynnwys yn ein Cynllun Cydraddoldeb (cam gweithredu 3.2). |

### Amcan 5: Darparu Addysg Deg a Chynhwysol

Cytunodd 95% o'r ymatebion i'r arolwg ar-lein ac 88% o'r Cyngor Ieuenctid y dylai hwn fod yn Amcan Cydraddoldeb i Gyngor Ceredigion. Fodd bynnag, dim ond 81% o'r ymatebwyr i'r arolwg ar-lein a gytunodd y byddai'r camau gweithredu yn y cynllun yn ein helpu i gyflawni'r amcan hwn. Dim ond 56% o aelodau'r cyngor ieuenctid oedd yn cytuno. Gweler y graff isod.




Fe wnaethom ofyn i'r cyhoedd, **"A ydych yn meddwl y gallem wneud mwy, neu wneud pethau'n wahanol, i gyflawni'r amcan hwn yn well?"** Mae eu hatebion a'n hymatebion ni isod.

| | Sylwadau | Ymateb Cyngor Sir Ceredigion |
|---|---|---|
| **1** | Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi 'canllawiau traws i ysgolion' eto felly byddai'n ffôl dweud y byddwch yn eu gweithredu heb weld eu cynnwys. Tynnwyd y pecyn cymorth traws presennol yng Ngheredigion yn ôl yn 2020 pan heriwyd pecynnau cymorth tebyg yn y Deyrnas Unedig yn y llys oherwydd canllawiau gwallus a oedd yn gwrth-ddweud cyfraith cydraddoldeb. Mae modd trin pobl ifanc sydd ag anghydweddiad hunaniaeth rhywedd â pharch ond ni ddylai fod ar draul y mwyafrif. Rhaid i doiledau a chyfleusterau newid aros yn un rhyw er diogelwch ac urddas POB disgybl. | Cytuno, mae'n anodd ateb yn llawn heb ganllawiau traws gan Lywodraeth Cymru. Mae llais y disgybl yn allweddol.<br><br>Byddwn yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru o ran darparu toiledau a chyfleusterau newid ysgolion. |
| **2** | Mae pwyntiau a & b yn anodd eu cyrraedd. Nid yw'r cyhoedd, rhieni ac ati wedi cael gwybod am ganllawiau | Gweler ymateb 1 uchod ynghylch canllawiau traws i ysgolion. |

| | Sylwadau | Ymateb Cyngor Sir Ceredigion |
|---|---|---|
| | traws Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion. Os oes gan ysgol 1 plentyn sy'n nodi ei fod yn wahanol i ryw ei eni, yna rhaid adlewyrchu hyn ar gorff llywodraethu'r ysgol? | Dylai cyrff llywodraethu ysgolion gynrychioli'r boblogaeth y mae'r ysgol yn darparu ar ei chyfer. Mae pob corff llywodraethu yn dilyn Canllawiau Llywodraeth Cymru wrth recriwtio llywodraethwyr. Caiff ceisiadau eu barnu yn ôl teilyngdod a set sgiliau. |
| 3 | Gormod o bwyslais ar y Gymraeg mewn addysg. Mae hyn yn creu rhwystrau i ddysgu ac nid yw'n gwneud i bobl deimlo'n gyfartal. Mae hyn yn golygu nad yw'r polisi yn gynhwysol ac yn deg. | Anelwn at addysgu disgyblion fel eu bod yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt adael yr ysgol gynradd. Mae hyn yn golygu y bydd disgyblion yn gallu cymryd rhan lawn yn y gymuned ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.<br><br>Mae hyn yn unol â Chwricwlwm i Gymru Llywodraeth Cymru ac mae'n cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| 4 | Dydw i ddim yn deall sut y gall gwneud i blant Saesneg eu hiaith ddysgu pynciau yn y Gymraeg fod mor gynhyrchiol o ran cyflawniad â dysgu yn eu hiaith gyntaf. Sut gallan nhw ddeall beth sydd yn bwnc estron iddyn nhw pan maen nhw efallai yn cael trafferth deall y geiriau sylfaenol yn y Gymraeg - heb sôn am eiriau technegol y pwnc. | Mae anfanteision i fod yn ddwyieithog, ond mae'r manteision yn drech o lawer.<br><br>Mae ymchwil rhyngwladol yn cadarnhau bod plant dwyieithog yn gallu meddwl yn fwy creadigol ac yn tueddu i sgorio'n uwch mewn profion IQ na phlant sy'n siarad un iaith yn unig.<br><br>Mae angen y gallu i siarad Cymraeg a Saesneg ar tua 40% o ddisgrifiadau swyddi yng Nghymru.<br><br>Ar gyfartaledd, mae pobl ddwyieithog yn ennill rhwng 8% a 10% yn rhagor o gyflog oherwydd eu gallu i weithio mewn dwy iaith (Dr Colin Baker, Prifysgol Bangor). |
| 5 | Treuliwch ragor o amser ar fwyafrifoedd nid lleiafrifoedd. | Mae grwpiau lleiafrifol yn tueddu i brofi mwy o anfantais na grwpiau mwyafrifol. Mae hyn yn creu anghydraddoldeb. Nod ein Cynllun Cydraddoldeb yw lleihau anghydraddoldeb. |

| | Sylwadau | Ymateb Cyngor Sir Ceredigion |
|---|---|---|
| **6** | Mae gormod o amser yn cael ei dreulio yn delio â lleiafrifoedd. Mae y tu hwnt i reswm. | Gweler ymateb 5 uchod. |
| **7** | Mae darpariaethau ADY mewn ysgolion yn wael. Nid yw Trandep ac ati yn gweithio! Rhieni yn gorfod talu am diwtoriaid preifat gan nad yw darpariaethau mewn ysgolion yn ddigon da. Nid yw'r system addysg wedi'i gwneud ar gyfer unrhyw blant nad ydynt yn 'gyffredin' | Mae darpariaeth ADY yn ysgolion Ceredigion wedi cael ei monitro gan yr Awdurdod Lleol ac Estyn a chanfuwyd ei bod yn effeithiol. Mae staff yn cael hyfforddiant parhaus ar gyfer cyflwyno darpariaeth ddysgu ychwanegol effeithiol a phrofedig a strategaethau cynhwysol. |
| **8** | Gwnes i ddarganfod yn 59 oed fy mod i, fel fy mab, ag ADHD. Rwyf wedi bod yn aros 2½ mlynedd am ddiagnosis ac nid yw'r ganolfan yng Nghaerfyrddin hyd yn oed yn ateb e-byst. Gwnewch rywbeth i gynorthwyo'r bwrdd iechyd i gyflymu.<br><br>Cyflogwch hyfforddwr i helpu pobl gyda'u hanawsterau TG. Mae cyrsiau'n dda, ond rhywbeth llai strwythuredig i ateb ymholiadau achlysurol | Mater i Fwrdd Iechyd Hywel Dda yw diagnosis o ADHD.<br><br>Mae ein tîm o Gysylltwyr Cymunedol yn cynnig sesiynau galw heibio rheolaidd ar draws y sir. Maent yn cyfeirio pobl at yr ystod o gyrsiau TG sydd ar gael a gallant hefyd helpu gydag ymholiadau achlysurol ar y pryd. Mae ein tîm Dysgu Oedolion - Dysgu Bro, hefyd yn cynnig sesiynau cyngor TG galw heibio. Cysylltwch â'r Cyngor i ofyn am y sesiwn galw heibio nesaf yn eich ardal. |
| **9** | Dylai fod gan ysgolion allu'r rhyngrwyd ar ffurf wifredig yn lle wi-fi fel nad yw plant a myfyrwyr electrosensitif yn cael eu heithrio o addysg a bod plant eraill yn cael eu hamddiffyn rhag unrhyw niwed i'w hiechyd. Gweler bioinitiative.org am dystiolaeth o niwed o dechnoleg ddiwifr, gan gynnwys wi-fi, ffonau, mastiau a mesuryddion clyfar. | Mae gorsensitifrwydd trydanol yn rhywbeth y mae angen i ni ei ddeall yn well. |
| **10** | Eto, mae plant ag EHS yn y sir yn cael eu heithrio o'r ysgol oherwydd presenoldeb Wi-Fi, ynghyd â dyfeisiau/systemau diwifr eraill. Ym mis Awst 2022 gwnaeth Uwch Dribiwnlys y Deyrnas Unedig gydnabod EHS plentyn fel nam a oedd yn bodloni'r profion yn y Ddeddf | Gweler yr ymateb uchod. |

| | Sylwadau | Ymateb Cyngor Sir Ceredigion |
|---|---|---|
| | Cydraddoldeb a dyfarnodd Gynllun Addysg, Iechyd a Gofal. Mae'r dyfarniad hwn yn gosod cynsail ac mae'n golygu bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y gwahaniaethu sy'n deillio o ddefnyddio Wi-Fi a thechnolegau diwifr eraill. Mae dyfyniad o'r gwrandawiad yn nodi: "The child's problem with electro-magnetic radiation affects her life generally and limits her day-to-day activities—the Equality Act test. It applies at school, at home, and when she is out in the world. When at school, her problems with communication and making use of the computers are a direct result of the use of Wi-Fi in schools. […] [The child's] symptoms were not unique to a school environment. But when they occurred in that environment, they arose from the school's choice of the medium for providing education. In those circumstances, some provision is required in order to render the education effective." (Dyfyniadau o Ddatganiad Canlyniad wedi'i Olygu Tachwedd 2021, Llys Tribiwnlys y Deyrnas Unedig.) | |
| **11** | Mae'n anodd ateb y cwestiwn hwn gan fy mod yn teimlo bod angen gwybodaeth fanylach am y cyfleoedd addysgol sydd ar gael i blant ac oedolion ifanc ag ADY. | Nodwyd. Mae'n anodd i bobl nad oes ganddynt brofiad bywyd i ateb y cwestiwn hwn<br><br>Gweler y wybodaeth ar ein gwefan [Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) - Cyngor Sir Ceredigion] |
| **12** | Mae'r system addysg yn rhy fewnblyg. A heb ganolbwyntio ar chwalfa'r hinsawdd a'r angen i addysgu ein hieuenctid yn onest fel y gallant fod yn barod ar gyfer y | Fel rhan o'r cwricwlwm newydd i Gymru, mae 4 diben. Ffocws un o'r rhain yw datblygu dinasyddion moesegol a gwybodus Cymru a'r byd. |

| | Sylwadau | Ymateb Cyngor Sir Ceredigion |
|---|---|---|
| | trychineb y bydd eu bywydau yn ei weld | |
| 13 | Dylai pawb gael mynediad i addysg. | Cytunwyd. |
| 14 | Angen cyfeirio at ddisgyblion difreintiedig fan hyn (PYD / RADY*) hefyd er mwyn sicrhau eu bod nhw yn gallu llwyddo yn yr un modd â phlant sydd ddim mewn sefyllfa difreintiedig | Mae ein Strategaeth Amddifadedd a Thegwch yn strategaeth newydd ar gyfer ysgolion i gefnogi pobl ifanc sy'n profi amddifadedd. Fe'i cymeradwywyd gan y Cabinet ar 14/02/2023. Bydd adroddiad ar ei chynnydd yn cael ei gyflwyno i'r Ysgolion ac i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu bob blwyddyn. |
| 15 | Nid ydych yn sôn am gefnogi plant o deuluoedd incwm isel neu o gartrefi gofal.<br><br>Dydw i wedi gweld dim byd am gefnogi pobl hŷn i fanteisio ar dechnoleg ddigidol felly dydw i ddim yn gwybod beth mae "parhau i gefnogi" yn ei olygu. | Gweler ymateb 14 uchod.<br><br>Mae ein timau Gydol Oes a Llesiant yn cefnogi pobl yn eu cartrefi i ddefnyddio i-pads i ailymweld ag atgofion plentyndod, chwarae gemau rhyngweithiol, gwirio eu dyddiadau casglu gwastraff, gwneud cais am gredyd pensiwn, ac ati.<br><br>Mae ein tîm Dysgu Oedolion - Dysgu Bro, hefyd yn cynnig sesiynau cyngor TG galw heibio a dosbarthiadau llythrennedd digidol. Mae'r rhain yn cael eu hysbysebu'n eang ond mae eich ymateb yn dangos bod angen i ni weithio ar hyrwyddo. Cysylltwch â'r Cyngor am fwy o wybodaeth. |
| 16 | Beth am 'greu amgylchedd diogel i'r rheini mewn addysg allu bod yn nhw eu hunain heb ofni gwawd'? | Cytunwyd. Mae gan bawb yr hawl i fod yn rhydd rhag gwahaniaethu, bwlio a chamdriniaeth mewn lleoliadau addysg. |
| 17 | Annog rhieni i addysgu eu plant a'u hunain i greu cymuned fwy cynhwysol a chefnogol o fewn y sefydliadau addysgol - annog plant i fod yn hyrwyddwyr / herio ymddygiad cas | Rydym yn cydweithio gyda rhieni mewn cyfarfodydd o ran ymddygiad heriol ac yn buddsoddi yn hyfforddiant Paul Dix, "When the Parents Change".<br>Mae ein mentoriaid Dysgu a Sgiliau yn gweithio gyda myfyrwyr sydd angen cymorth i feithrin perthnasoedd cadarnhaol. |

Gofynnwyd i aelodau Cyngor Ieuenctid Ceredigion sut y gallem wneud yn siŵr bod addysg yn deg ac yn ddiogel i bawb. Mae eu sylwadau a'n hymatebion ni isod.

| | **Sylwadau** | **Ymateb Cyngor Sir Ceredigion** |
|---|---|---|
| **18** | Mannau diogel | Bellach mae gan bob ysgol uwchradd 'Hafan', ystafell gartrefol yn yr ysgol y gall disgyblion gael mynediad iddi ar gyfer cymorth emosiynol ac ymarferol. |
| **19** | Ceisiwch gyfyngu ar stigma er mwyn osgoi bwlio, lle mwy diogel i roi gwybod am wahaniaethu | Mae'r Corff Llywodraethu yn cymeradwyo Polisi Gwrth-fwlio unigol yr ysgol sydd ar gael gan yr ysgol ar gais.<br><br>Mae'r Pennaeth yn rhoi adroddiad bob tymor i'r Corff Llywodraethu am unrhyw achosion o fwlio. |
| **20** | Bod â lleoedd i roi gwybod am droseddau casineb | Byddwn yn parhau i weithio gyda Chymorth i Ddioddefwyr i sicrhau bod rhoi gwybod am droseddau casineb mewn lleoliadau addysgol yn flaenoriaeth (cam gweithredu 4.2) |
| **21** | Gwasanaethau trydydd parti i helpu gyda throseddau casineb a bwlio. | Gweler yr ymateb uchod. |
| **22** | Peidiwch â gadael i'r athro/athrawes fwlio myfyrwyr na'u haflonyddu. | Cytunwyd. Mae gan bawb yr hawl i fod yn rhydd rhag gwahaniaethu, bwlio a chamdriniaeth mewn lleoliadau addysg. |
| **23** | Sicrhewch ddiogelwch myfyrwyr lleiafrifol ac addysgwch fyfyrwyr ac athrawon ar faterion pwysig. | Dylai gwerthoedd parch, goddefgarwch a charedigrwydd fod yn rhan o gymunedau a diwylliannau ein hysgolion. Mae penaethiaid yn rhoi adroddiad am achosion o fwlio bob tymor. Anfonir yr adroddiadau ymlaen at Swyddog Amddiffyn Plant y Cyngor.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cryfhau'r canllawiau ar fwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn. Byddant yn canolbwyntio'n arbennig ar ddigwyddiadau hiliol, Islamoffobaidd a gwrth-semitig. Mae cam gweithredu 5.3 yn ein cynllun yn ein hymrwymo i sicrhau bod canllawiau lleol yn adlewyrchu hyn. |

| | | |
|---|---|---|
| **24** | Creu amgylchedd derbyniol, i addysgu am amrywiaeth a throseddau casineb mewn amgylchedd diogel. | Gweler ymateb 23 uchod. |
| **25** | Addysgu plant am ymddygiad derbyniol | Mae polisïau ymddygiad yn eu lle ym mhob ysgol, a rhennir y rhain gyda rhieni a disgyblion. Mae ysgolion yn cymryd rhan mewn diwrnodau cenedlaethol, er enghraifft, wythnos Gwrth-fwlio. Mae swyddogion heddlu ysgolion yn helpu i atgyfnerthu negeseuon o ymddygiad derbyniol.<br><br>Mae'r cwricwlwm llesiant hefyd yn atgyfnerthu'r negeseuon hyn, gan addysgu disgyblion am berthnasoedd iach a gwneud penderfyniadau gwybodus. |
| **26** | Hyfforddi athrawon | Mae athrawon dan hyfforddiant yn defnyddio adnoddau Mike Gershon i'w helpu i gefnogi dysgwyr difreintiedig. Maent yn cyfarfod â'n swyddog Gwledig ac Amddifadedd Disgyblion i ddysgu mwy am gefnogi disgyblion sy'n profi amddifadedd. Maen nhw hefyd yn cael sesiwn gyda staff y GIG i drafod anghenion iechyd meddwl disgyblion mewn ysgolion. |
| **27** | Cosbi y rhai sy'n bwlio a hyfforddi athrawon | Gweler ymatebion 23 a 26 uchod.<br><br>Mabwysiadwn ddull adferol o fynd i'r afael ag ymddygiad amhriodol a rhoddwn gyfle i ddisgyblion drafod eu gweithredoedd a chanlyniadau eu gweithredoedd. |
| **28** | Dysgwch fyfyrwyr nad oes ganddynt ddim gwybodaeth am y pwnc hwn | Fel rhan o'r cwricwlwm newydd i Gymru, mae 4 diben. Ffocws un o'r rhain yw datblygu dinasyddion moesegol a gwybodus Cymru a'r byd. |
| **29** | Addysgwch blant am faterion cymdeithasol o oedran ifanc. | Gweler ymateb 28 uchod. |
| **30** | Addysgwch bobl yn ifanc | Gweler ymateb 28 uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| **31** | Cael toiledau unisex er mwyn fod ddim rhaid i pobl trawsrywiol ddefnyddio toiledau athrawon neu anabl. | Hyd nes y cyhoeddir canllawiau traws Llywodraeth Cymru byddwn yn diogelu ac yn parchu pob disgybl. Gall fod yn anodd darparu toiledau neillryw, yn enwedig mewn adeiladau hŷn. Trafodir pob achos yn unigol ac mae llais y disgybl yn hanfodol. |
| **32** | Ailstrwythurwch y ffordd y caiff gwersi eu haddysgu i fod yn fwy cynhwysol i bob myfyriwr. | Mae datblygu dysgwyr trwy'r cwricwlwm newydd yn ystyried cyfnod y disgybl ac nid ei oedran. Mae hyn yn golygu bod darpariaeth yn cael ei darparu ar lefel briodol i bob dysgwr, gan sicrhau bod gwaith yn cael ei wahaniaethu'n effeithiol. Mae hyn waeth beth fo'r pwnc. |
| **33** | Rhoi llai o flaenoriaeth i ddeallusrwydd academaidd | Gweler 32 ymateb uchod. |

## 4. Effaith ar y Gymraeg

Gofynnwyd i'r cyhoedd a oeddent yn teimlo y bydd ein Cynllun drafft 2024-28 yn cael effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar statws y Gymraeg yn y gymuned. Mae eu hatebion a'n hymatebion ni isod.

| | **Sylwadau** | **Ymateb Cyngor Sir Ceredigion** |
|---|---|---|
| **1** | Ar y cyfan, dwi'n meddwl bydd yr effaith yn gadarnhaol, bydd yn creu rhagor o gyfleoedd ac yn annog pobl sy'n siarad Cymraeg i'w defnyddio, ac mae'n debyg yn annog y rheini sydd ddim yn ystyried dysgu. | Nodwyd. |
| **2** | Yn unol â fy sylw gwreiddiol - i ddangos hyn. Defnyddiwch gymorth iaith amgen. | Gwnaethom ddarparu dolen ar wahân i fersiwn Gymraeg o'r arolwg. |
| **3** | Dylem fod yn annog y defnydd o'r Gymraeg nid ei gorfodi. | Mae Safonau'r Gymraeg yn gosod dyletswydd gyfreithiol arnom i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid i ni gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg a'i gwneud yn haws i bobl ddefnyddio'u Cymraeg yn eu bywydau bob dydd. |
| **4** | Bydd pobl yn siarad Cymraeg os ydyn nhw eisiau, nid oherwydd eich | Mae'n bwysig bod ein trigolion Cymraeg eu hiaith yn teimlo'n hyderus i |

| | Sylwadau | Ymateb Cyngor Sir Ceredigion |
|---|---|---|
| | bod chi eisiau iddyn nhw wneud hynny. | ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u bywyd bob dydd. Mae ganddynt hawl i wneud hynny ym mhob math o sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Felly, fel Cyngor mae'n rhaid i'n gwasanaethau Cymraeg fod yn hygyrch, o safon uchel ac yn hawdd i'w defnyddio. |
| **5** | Weithiau rhoddir gormod o bwyslais ar y Gymraeg. Fel person di-Gymraeg yn y sir, dwi'n teimlo mewn lleiafrif weithiau a ddim yn teimlo fy mod wedi fy nghynnwys gyda llawer o bobl yn siarad Cymraeg o'm cwmpas. Mae Cymru yn wlad ddwyieithog; Cymro/Cymraes ydw i ond dydw i ddim yn siarad yr iaith. Rwy'n teimlo bod y Polisi Iaith Gymraeg yn gwahaniaethu yn fy erbyn weithiau. | Ein polisi yw gweithio'n ddwyieithog, gofyn i bobl beth yw eu dewis iaith a pharhau yn yr iaith honno.<br><br>Os ydych wedi dweud wrthym mai Saesneg yw eich dewis iaith, dylid cofnodi hyn, a byddem yn parhau i ddarparu gwasanaeth trwy gyfrwng y Saesneg i chi. |
| **6** | Gormod o bwyslais ar y Gymraeg | Gweler yr ymatebion uchod. |
| **7** | Rwy'n hapus i unrhyw un sydd eisiau siarad Cymraeg i wneud hynny. Dydw i ddim yn hapus i bobl eraill gael eu gwneud i deimlo'n anghywir nad ydyn nhw'n siarad Cymraeg. | Nodwyd. Nid yw hyn yn rhywbeth y mae'r Cyngor yn ei gymeradwyo. |
| **8** | bydd yn sicrhau mynediad i aelodau yn eu dewis iaith | Cytunwyd. |
| **9** | Mae hwn yn her barhaus a bydd angen sicrhau fod popeth sy'n cael ei wneud yn ddwyieithog a bod y Gymraeg yn ymddangos yn gyntaf ar unrhyw ddull cyfathrebu | Cytunwyd. Nodir hyn yn Natganiad ein Polisi Iaith Gymraeg. |
| **10** | Mae angen i ni wneud y Gymraeg yn gyfle ac nid yn rhwystr - fel siaradwr Cymraeg fy hun rydym yn aml yn fwyaf beirniadol o lefel ein Cymraeg ein hunain ac yn ofni cael ein barnu gan eraill, fodd bynnag mae hyn yn rhwystro ymdrechion gwirioneddol i | Cytunwyd. |

| | Sylwadau | Ymateb Cyngor Sir Ceredigion |
|---|---|---|
| | wella neu hyd yn oed ymgysylltu yn y lle cyntaf. | |
| **11** | Nid yw'r ymateb hwn yn gysylltiedig â'r cwestiwn hwn. Ffurflen monitro cyfle cyfartal Rydych yn gofyn am wybodaeth am 'rywedd' - 'rhyw' yw'r nodwedd warchodedig - bydd y wybodaeth y byddwch yn ei chasglu o'r cwestiwn hwn yn ddiystyr. Gallwch ofyn am ryw person ac mewn cwestiwn pellach, gofyn a yw'n ystyried ei hun yn 'drawsryweddol'. Yn y cynllun drafft rydych chi'n dweud yn eich pentref chwedlonol o 100 : "1 person y mae ei rywedd bellach yn wahanol i'r hyn ydoedd pan gawsant eu geni. Byddai'n well gan 8 o bobl beidio â dweud wrthych beth yw hunaniaeth eu rhywedd." Nid oes neb yn cael ei eni â 'rhywedd'. Maent yn cael eu geni â rhyw - gwryw neu fenyw. Nid oes gan bawb 'hunaniaeth rhywedd' - nid oes gennyf un: benyw yw fy rhyw. Nid yw llawer yn deall y syniad o hunaniaeth rhywedd gan ei fod yn ffenomenon diweddar iawn ac nid yw llawer yn credu ynddo. Mae'r hawl i beidio â chredu mor ddilys â'r hawl i gredu mewn hunaniaeth rhywedd. Mae'n bosibl nad yw'r 8 person hynny a wrthododd ddweud wrthych beth yw hunaniaeth eu rhywedd ychwaith yn cyd-fynd â'r syniad o hunaniaeth rhywedd, felly yn hytrach na thybio eu bod yn rhy swil i ddatgelu hunaniaeth eu rhywedd a seilio elfennau o'ch Cynllun ar y rhagdybiaeth bod rhagor o unigolion trawsryweddol yn y sir nag a ddatganwyd yn swyddogol, gweithiwch ar y dybiaeth | Mae Adran 7 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn dweud na ddylid gwahaniaethu yn eich erbyn oherwydd ailbennu rhywedd. Mae ailbennu rhywedd yn golygu cynnig i fynd trwy, mynd trwy neu fod wedi mynd trwy broses i ailbennu eich rhyw.<br><br>Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio 'rhyw' fel un ai gwryw neu fenyw. O dan y Ddeddf, rhyw cyfreithlon person yw'r rhyw a gofnodwyd ar ei dystysgrif geni neu ei Dystysgrif Cydnabod Rhywedd.<br><br>Rydym yn cytuno bod yr hawl i beidio â chredu mewn hunaniaeth rhywedd mor ddilys â'r hawl i gredu ynddi, cyn belled nad yw hyn yn arwain at wahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth.<br><br>Byddwn yn newid ein ffurflen monitro cydraddoldeb fel ei bod yn gofyn am 'ryw' person, ac mewn cwestiwn pellach yn gofyn am ei 'hunaniaeth rhywedd'. |

| | Sylwadau | Ymateb Cyngor Sir Ceredigion |
|---|---|---|
| | nad yw llawer o bobl yn credu yn y cysyniad. | |

## 5. Casgliad

Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb a ymatebodd i'n hymgynghoriad cyhoeddus. O ganlyniad i'r adborth byddwn yn:

- Diwygio cam gweithredu 3.1 i gynnwys 'pobl ifanc' yn y mesur llwyddiant.
- Darganfod mwy am Orsensitifrwydd Trydanol.
- Annog staff i fynd â blwch adborth dienw i ymgynghoriadau wyneb yn wyneb.
- Newid ein pecyn cymorth Ymgysylltu mewnol i gynnig rhagor o ffyrdd i bobl ddweud wrthym beth yw eu barn pan fyddwn yn ymgynghori â nhw.
- Diwygio camau gweithredu penodol o dan Amcan 4 i gynnwys y term 'profiad bywyd'.
- Newid ein ffurflen monitro cydraddoldeb fel ei bod yn gofyn am 'ryw' person, ac mewn cwestiwn pellach yn gofyn am eu 'hunaniaeth rhywedd'.

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# TECLYN ASESU EFFAITH INTEGREDIG (AEI)

## Manylion y Cynnig

| **Teitl y Polisi / Cynnig / Menter** | |
|---|---|
| Cynllun Cydraddoldeb Strategol Ddrafft 2024-2028 | |
| **Maes Gwasanaeth** | **Enw'r swyddog sy'n cwblhau'r AEI** |
| Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd | Cathryn Morgan |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol** | **Cyfarwyddwr Strategol** |
| Alun Williams | Barry Rees |
| **Rhowch ddisgrifiad cryno o bwrpas y cynnig** | |
| Mae Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i ni nodi ein Hamcanion Cydraddoldeb a'i adolygu bob pedair blynedd. Dyma ein pedwerydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Rhaid cyhoeddi'r amcanion diwygiedig ar gyfer 2024-28 a'r cynllun gweithredu cysylltiedig erbyn 31 Mawrth 2024.<br><br>Rydym wedi adolygu ein Hamcanion Cydraddoldeb yng ngoleuni ymgysylltu ac ymchwil i'r sefyllfa bresennol o gydraddoldeb yng Ngheredigion. Ein casgliad yw bod ein hamcanion yn parhau i fod yn addas i'r diben ond, oherwydd natur newidiol cymdeithas a'r gwaith yr ydym wedi'i wneud hyd yn hyn, mae angen i ni ddiwygio'r camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion. Ein hamcanion cydraddoldeb diwygiedig yw:<br><br>1. Bod yn Gyflogwr Cyfle Cyfartal Enghreifftiol<br>2. Meithrin cysylltiadau da a mynd i'r afael â rhagfarn<br>3. Sicrhau Ymgysylltu a Chyfranogiad<br>4. Sicrhau Urddas, Parch a Mynediad at Wasanaethau<br>5. Darparu Addysg Deg a Chynhwysol | |
| **Ar bwy fydd y cynnig hwn yn effeithio'n uniongyrchol?** AWGRYM | |
| Pobl sy'n byw, yn gweithio, yn astudio ac yn ymweld â Cheredigion, gan gynnwys gweithlu'r Cyngor. Mae ffocws penodol ar bobl sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion a ddiogelir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | |
| **A yw'r rhai y bydd y cynnig yn effeithio arnynt wedi cael cyfle i wneud sylwadau arno?** | |

| |
|---|
| Ydynt. Ymgyrch ymgysylltu â'r cyhoedd, Haf 2023. Ymgyrch ymgynghori cyhoeddus, Gaeaf 2023. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd eang i'r ymgyrchoedd, a thargedwyd hyrwyddiad ychwanegol at grwpiau o bobl sy'n rhannu nodweddion a ddiogelir gan y Ddeddf Cydraddoldeb.<br><br>Adolygodd Gweithgor Cydraddoldeb Ceredigion ganfyddiadau'r ymgyrchoedd a chytunwyd ar ddrafft terfynol Cynllun Cydraddoldeb Strategol Ceredigion 2024-28 ym mis Ionawr 2024. |

## Rheoli Fersiynau

Dylid defnyddio'r AEI yn ystod camau cyntaf y broses benderfynu, ac yna dylid ei fireinio drwy gydol y broses benderfynu. Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses hon fel y gallwn ddangos sut yr ydym wedi ystyried a chynnwys ystyriaethau o ran datblygu cynaliadwy, y Gymraeg a chydraddoldeb lle bynnag y bo modd.

| **Rhif y Fersiwn** | **Awdur** | **Cam yn y broses benderfynu**<br><br>AWGRYM | **Dyddiad yr Ystyriwyd** | **Disgrifiad o unrhyw newidiadau a wnaed**<br><br>AWGRYM |
|---|---|---|---|---|
| 1.0 | Cathryn Morgan | Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a Chabinet (i gymeradwyo'r cynllun ddrafft cyn ymgynghoriad cyhoeddus) | 21/08/2023 | |
| | | Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a Chabinet yn dilyn ymgynghoriad ar y cynllun ddrafft | 12/02/2023 | Cynhaliwyd yr asesiad hwn ar dempled newydd. Mae hyn wedi arwain at rai mân newidiadau i'r asesiad. Nid yw lefel yr effaith wedi newid. |

## Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor

Pa un o Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor y mae'r cynnig hwn yn mynd i'r afael ag ef a sut? Cliciwch yma i ddarllen crynodeb o'n Strategaeth Gorfforaethol 2022-27

| | |
|---|---|
| **Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth** | Bydd y cynllun yn creu cyfleoedd swyddi newydd ar gyfer pobl ifanc fedrus, yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal mewn cyflogaeth ac yn datblygu prentisiaethau ymhellach yn y Sir. |

| | |
|---|---|
| **Creu cymunedau gofalgar ac iach** | Bydd y cynllun yn hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngheredigion, yn annog ac yn galluogi plant a phobl ifanc anabl i fod yn gorfforol egnïol, datblygu cyfleoedd cyfranogi ymhellach fel bod gan gymunedau lais, a datblygu nifer y rhaglenni allgyrsiol a gwyliau penodol, ac yn gyffredinol. |
| **Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi i bobl o bob oed ddysgu** | Mae'r cynllun yn cynnwys camau i gyflawni'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, i ddatblygu sgiliau arwain ein plant a'n pobl ifanc ac i wella darpariaeth addysgol a chanlyniadau i blant ag anghenion dysgu ychwanegol. |
| **Creu cymunedau cynaliadwy sy'n fwy gwyrdd ac sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd** | Mae'r cynllun yn adlewyrchu'r angen am fwy o dai fforddiadwy a phriodol a datrysiadau teithio cynaliadwy a fforddiadwy. |

## Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru Lewyrchus

**Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel lle mae gan bawb waith addas a lle nad oes tlodi**.

Cliciwch yma am wybodaeth am Gymru lewyrchus.

| |
|---|
| **Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol**. (Cliciwch yma am wybodaeth) |
| Bydd cyflawni'r cynllun hwn yn llwyddiannus yn cyfrannu'n gadarnhaol at y nod hwn. Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** |
| Bwriad Amcan Cydraddoldeb 1 yw bod yn gyflogwr cyfle cyfartal enghreifftiol. Bwriad Amcan Cydraddoldeb 5 yw darparu addysg deg a chynhwysol.<br>Mae Amcanion Cydraddoldeb 3 a 4 yn disgrifio'r camau y byddwn yn eu cymryd i ymgysylltu â phobl, a dysgu oddi wrthynt, ac i sicrhau y gall pobl gael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.<br>Os gwneir Amcanion 3 a 4 yn dda, y canlyniad fydd poblogaeth fedrus ac addysgedig sy'n gallu cyfrannu at Gymru lewyrchus. |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at y Nod Llesiant Cenedlaethol hwn?** |
| Byddwn yn cyflawni Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 ac yn monitro cynnydd y mesurau llwyddiant. |

## Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru Gydnerth

**Cymdeithas lle mae bioamrywiaeth yn cael ei chynnal a'i gwella a lle mae ecosystemau yn iach ac yn gweithredu.**

Cliciwch yma am wybodaeth am Gymru gydnerth.

| |
|---|
| **Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol**. (Cliciwch yma am wybodaeth) |
| Nid yw ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cyfrannu'n uniongyrchol at Gymru gydnerth. Nid oes unrhyw effeithiau negyddol na chadarnhaol bwriadol. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** |
| Nid yw'r cynllun yn cynnwys unrhyw gamau penodol i gefnogi Cymru gydnerth. Fodd bynnag, mae'n adlewyrchu'r angen am dai sy'n diwallu anghenion ein cymunedau ac am ddatrysiad teithio cynaliadwy a fforddiadwy (Amcan Cydraddoldeb 4). |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at y Nod Llesiant Cenedlaethol hwn?** |
| Byddwn yn cyflawni Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 ac yn monitro cynnydd y mesurau llwyddiant. |

## Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru Iachach

**Cymdeithas lle mae pobl yn gwneud dewisiadau iach ac yn mwynhau iechyd corfforol a meddyliol da.**

Cliciwch yma am wybodaeth am Gymru Iachach.

| |
|---|
| **Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol.** (Cliciwch yma am wybodaeth) |
| Bydd cyflawni'r cynllun hwn yn llwyddiannus yn cyfrannu'n gadarnhaol at iechyd corfforol a meddyliol gwell i drigolion Ceredigion, yn enwedig trigolion sy'n rhannu nodweddion a ddiogelir gan y Ddeddf Cydraddoldeb. Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** |
| Byddwn yn ymgysylltu â'n gweithlu; y mesur llwyddiant fydd canran ein gweithlu sy'n teimlo bod y Cyngor yn poeni am eu hiechyd a'u lles (Amcan Cydraddoldeb 1)<br>Byddwn yn ymuno â'r rhwydwaith Oed gyfeillgar ac yn diwallu anghenion ein poblogaeth sy'n heneiddio (Amcan Cydraddoldeb 2).<br>Byddwn yn cynnig cyfleoedd chwarae a gweithgaredd corfforol i blant a phobl ifanc anabl ac yn darparu tai sy'n diwallu anghenion ein cymunedau (Amcan Cydraddoldeb 4). |

| |
|---|
| Byddwn yn cefnogi ysgolion i ddiweddaru eu polisïau gwrth-fwlio (Amcan Cydraddoldeb 5). |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at y Nod Llesiant Cenedlaethol hwn?** |
| Byddwn yn cyflawni Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 ac yn monitro cynnydd y mesurau llwyddiant. |

## Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru sy'n Fwy Cyfartal

**Cymdeithas lle mae gan bawb gyfle cyfartal beth bynnag fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau**.

Mae'r adran hon yn hirach oherwydd gofynnir i chi asesu effaith eich cynnig ar bob grŵp sydd wedi'i ddiogelu gan **Ddeddf Cydraddoldeb 2010**.

Cliciwch yma am wybodaeth am gydraddoldeb yng Nghymru.

| **Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hoedran?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
|---|---|
| **Plant a Phobl Ifanc hyd at 18 oed** | Cadarnhaol |
| **Pobl 18-50** | Cadarnhaol |
| **Pobl hŷn 50+** | Cadarnhaol |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol.** | |
| Nod y cynllun yw mynd i'r afael ag anghydraddoldeb cyfleoedd i bobl iau a phobl hŷn. Bydd rhai o'r camau gweithredu yn cael effaith gadarnhaol ar rieni ac ar bobl sydd o oedran gweithio (sy'n tueddu i syrthio i'r categorïau 18-50 oed). Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi hyn?** | |
| Byddwn yn hyrwyddo ein cynllun graddedigion ac yn datblygu profiad gwaith a chyfleoedd prentisiaeth (Amcan Cydraddoldeb 1).<br><br>Byddwn yn ymuno â'r rhwydwaith Oed Gyfeillgar ac yn cefnogi anghenion ein poblogaeth sy'n heneiddio (Amcan Cydraddoldeb 2).<br><br>Byddwn yn cynyddu cynrychiolaeth pobl ifanc mewn gwleidyddiaeth leol a gwneud penderfyniadau (Amcan Cydraddoldeb 3).<br><br>Byddwn yn parhau i gefnogi pobl hŷn i fanteisio ar dechnolegau digidol (Amcan Cydraddoldeb 5). | |

| |
|---|
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** |
| Byddwn yn cyflawni Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 ac yn monitro cynnydd y mesurau llwyddiant. |

| | |
|---|---|
| **Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hanabledd?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
| **Amhariad ar y clyw** | Cadarnhaol |
| **Amhariad corfforol** | Cadarnhaol |
| **Amhariad ar y golwg** | Cadarnhaol |
| **Anabledd Dysgu** | Cadarnhaol |
| **Salwch hirdymor** | Cadarnhaol |
| **Iechyd Meddwl** | Cadarnhaol |
| **Arall** | |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Nod y cynllun yw mynd i'r afael ag anghydraddoldeb cyfle a mynediad at wasanaethau i bobl sy'n anabl. Bydd hefyd yn mynd i'r afael â bwlio a throseddau casineb yn erbyn pobl anabl. Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Byddwn yn cynyddu amrywiaeth yn y gweithle (Amcan Cydraddoldeb 1)<br><br>Byddwn yn cefnogi Siarter Troseddau Casineb Cymorth i Ddioddefwyr ac yn monitro tensiynau cymunedol (Amcan Cydraddoldeb 2)<br><br>Byddwn yn cynyddu cynrychiolaeth pobl anabl mewn gwleidyddiaeth leol a gwneud penderfyniadau (Amcan Cydraddoldeb 3).<br><br>Byddwn yn darparu cyfleoedd chwarae cynhwysol ac arbenigol, gweithgaredd corfforol a gofal plant i blant a phobl ifanc anabl. Byddwn yn ystyried anghenion pobl anabl wrth gynnal llwybrau troed a ymylon ffyrdd a phan fyddwn yn adolygu ein Strategaeth Toiledau. Byddwn yn gwella'r dulliau a ddefnyddiwn i gyfathrebu â'r cyhoedd, gan gynnwys darparu fersiynau print mawr, hawdd eu darllen a dogfennau testun plaen. Byddwn yn gwella hygyrchedd ein gwefan (Amcan Cydraddoldeb 4). | |

| |
|---|
| Byddwn yn gwella'r ddarpariaeth addysgol a'r canlyniadau i blant ag anghenion dysgu ychwanegol ac yn sicrhau bod polisïau gwrth-fwlio mewn ysgolion a lleoliadau addysg yn adlewyrchu fersiwn ddiweddaraf LIC o'r canllawiau gwrth-fwlio. Byddwn yn sicrhau bod cyrff llywodraethu ysgolion yn cynrychioli amrywiaeth y disgyblion yn y lleoliad addysgol. Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi pobl anabl i fanteisio ar dechnolegau digidol (Amcan Cydraddoldeb 5). |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** |
| Byddwn yn cyflawni Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 ac yn monitro cynnydd y mesurau llwyddiant. |

| | |
|---|---|
| **Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl sy'n drawsryweddol?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
| **Menywod Traws** | Cadarnhaol |
| **Dynion Traws** | Cadarnhaol |
| **Pobl Anneuaidd** | Cadarnhaol |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Mae'r cynllun yn ymateb i gynllun gweithredu LHDTC+ Llywodraeth Cymru a'r anghenion a fynegir gan ein cymuned draws leol. Byddwn yn codi ymwybyddiaeth o faterion sy'n wynebu pobl sy'n drawsryweddol ac yn mynd i'r afael â bwlio a throseddau casineb. Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Byddwn yn adolygu polisïau AD a deunyddiau recriwtio fel eu bod yn adlewyrchu hunaniaethau amrywiol y gymuned yr ydym yn byw ynddi. Byddwn yn parhau i ddatblygu a chyflwyno ystod o hyfforddiant cydraddoldeb (Amcan Cydraddoldeb 1).<br><br>Byddwn yn cefnogi Siarter Troseddau Casineb Cymorth i Ddioddefwyr ac yn monitro tensiynau cymunedol (Amcan Cydraddoldeb 2)<br><br>Byddwn yn cynyddu cynrychiolaeth pobl LHDTC+ mewn gwleidyddiaeth leol a gwneud penderfyniadau a byddwn yn sefydlu fforwm rhanddeiliaid LHDTC+ (Amcan Cydraddoldeb 3).<br><br>Byddwn yn adolygu ein Strategaeth Toiledau fel ei bod yn adlewyrchu anghenion ein poblogaeth newidiol (Amcan Cydraddoldeb 4).<br><br>Byddwn yn mabwysiadu ac yn gweithredu canllawiau traws cenedlaethol Llywodraeth Cymru ac yn sicrhau bod polisïau gwrth-fwlio mewn ysgolion a | |

| |
|---|
| lleoliadau addysg yn adlewyrchu fersiwn ddiweddaraf LIC o'r canllawiau gwrth-fwlio (Amcan Cydraddoldeb 5). |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** |
| Byddwn yn cyflawni Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 ac yn monitro cynnydd y mesurau llwyddiant. |

| **Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â gwahanol gyfeiriadedd rhywiol?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
|---|---|
| **Pobl Ddeurywiol** | Cadarnhaol |
| **Dynion hoyw** | Cadarnhaol |
| **Menywod hoyw / lesbiaid** | Cadarnhaol |
| **Pobl Heterorywiol** | Cadarnhaol |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Mae'r cynllun yn ymateb i gynllun gweithredu LHDTC+ Llywodraeth Cymru a'r anghenion a fynegwyd gan bobl LHDTC+ lleol. Byddwn yn codi ymwybyddiaeth o faterion sy'n wynebu pobl â chyfeiriadedd rhywiol gwahanol ac yn mynd i'r afael â bwlio a throseddau casineb. Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Byddwn yn cyhoeddi adroddiad cydraddoldeb y gweithlu blynyddol ac yn gweithredu i annog cynrychiolaeth gymesur yn ein gweithlu. Byddwn yn parhau i ddatblygu a chyflwyno ystod o hyfforddiant cydraddoldeb (Amcan Cydraddoldeb 1).<br><br>Byddwn yn cefnogi Siarter Troseddau Casineb Cymorth i Ddioddefwyr ac yn monitro tensiynau cymunedol (Amcan Cydraddoldeb 2)<br><br>Byddwn yn cynyddu cynrychiolaeth pobl LHDTC+ mewn gwleidyddiaeth leol a gwneud penderfyniadau a byddwn yn sefydlu fforwm rhanddeiliaid LHDTC+ (Amcan Cydraddoldeb 3).<br><br>Byddwn yn gweithio tuag at sicrhau bod cyrff llywodraethu ysgolion yn cynrychioli amrywiaeth y disgyblion yn y lleoliad addysg ac yn sicrhau bod polisïau gwrth-fwlio mewn ysgolion a lleoliadau addysg yn adlewyrchu fersiwn ddiweddaraf LIC o'r canllawiau gwrth-fwlio (Amcan Cydraddoldeb 5). | |

| |
|---|
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** |
| Byddwn yn cyflawni Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 ac yn monitro cynnydd y mesurau llwyddiant. |

| | |
|---|---|
| **Ydych chi'n meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
| **Pobl sy'n briod** | Dim/Fawr Ddim |
| **Pobl mewn partneriaeth sifil** | Dim/Fawr Ddim |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Ni fydd y cynllun yn arwain at effaith sylweddol ar y garfan hon. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Nid oes unrhyw gamau gweithredu yn y cynllun a fydd yn cael effaith negyddol neu gadarnhaol sylweddol ar y grŵp hwn o bobl. | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** | |
| Byddwn yn cyflawni Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 ac yn monitro cynnydd y mesurau llwyddiant. | |

| | |
|---|---|
| **A ydych chi'n meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl sy'n feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
| **Beichiogrwydd** | Dim/Fawr Ddim |
| **Mamolaeth** | Dim/Fawr Ddim |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Ni fydd y cynllun yn arwain at effaith sylweddol ar y garfan hon. | |

| Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon? |
|---|
| Nid oes unrhyw gamau gweithredu yn y cynllun a fydd yn cael effaith negyddol neu gadarnhaol sylweddol ar y grŵp hwn o bobl. |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?** |
| Byddwn yn cyflawni Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 ac yn monitro cynnydd y mesurau llwyddiant. |

| **A ydych yn meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu tarddiad ethnig?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
|---|---|
| **Asiaidd / Asiaidd Prydeinig** | Cadarnhaol |
| **Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig** | Cadarnhaol |
| **Grwpiau Ethnig Cymysg/ Aml-ethnig** | Cadarnhaol |
| **Gwyn** | Cadarnhaol |
| **Grwpiau ethnig eraill** | Cadarnhaol |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Mae'r cynllun yn ymateb i gynllun gweithredu Cymru Gwrth-hiliol Llywodraeth Cymru a'r anghenion a fynegwyd gan bobl leol sydd â chefndiroedd ethnig amrywiol. Ein nod yw codi ymwybyddiaeth ddiwylliannol, cynyddu amrywiaeth yn y gweithle a mynd i'r afael â bwlio a throseddau casineb.<br><br>Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Byddwn yn cymryd camau i annog cynrychiolaeth gymesur yn ein gweithlu. Byddwn yn parhau i ddatblygu a chyflwyno ystod o hyfforddiant ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chydraddoldeb (Amcan Cydraddoldeb 1)<br><br>Byddwn yn gweithredu ein hymrwymiad i Siarter Troseddau Casineb Cymorth i Ddioddefwyr. Byddwn yn sicrhau bod casgliadau perthnasol yn dathlu amrywiaeth ac yn annog ymgysylltu â gwrth-hiliol. Byddwn yn monitro tensiynau cymunedol. Byddwn yn cyflwyno ymgyrch cyfryngau blynyddol i hyrwyddo ymwybyddiaeth a dathlu amrywiaeth (Amcan Cydraddoldeb 2)<br><br>Byddwn yn cynyddu cynrychiolaeth pobl o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig mewn gwleidyddiaeth leol a gwneud penderfyniadau a byddwn yn sefydlu fforwm rhanddeiliaid BAME (Amcan Cydraddoldeb 3). | |

| |
|---|
| Byddwn yn sicrhau bod cyrff llywodraethu ysgolion yn cynrychioli amrywiaeth y disgyblion yn y lleoliad addysg. Byddwn yn sicrhau bod polisïau gwrth-fwlio mewn ysgolion a lleoliadau addysg yn adlewyrchu fersiwn ddiweddaraf LlC o'r canllawiau gwrth-fwlio, 'Hawliau, Parch, Cydraddoldeb.' (Amcan Cydraddoldeb 5). |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** |
| Byddwn yn cyflawni Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 ac yn monitro cynnydd y mesurau llwyddiant. |

| **Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â gwahanol grefyddau, credoau neu ddim cred?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
|---|---|
| **Bwdhaidd** | Cadarnhaol |
| **Cristion** | Cadarnhaol |
| **Hindŵaidd** | Cadarnhaol |
| **Dyneiddiwr** | Cadarnhaol |
| **Iddewig** | Cadarnhaol |
| **Mwslim** | Cadarnhaol |
| **Sikh** | Cadarnhaol |
| **Pobl heb gred** | Dim/Fawr Ddim |
| **Eraill** | |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Gall fod cysylltiadau cryf rhwng ethnigrwydd a chrefydd. Nod y cynllun yw mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, troseddau casineb a bwlio a wynebir gan bobl o wahanol grwpiau ethnig. Mae hyn yn debygol o gael effaith gadarnhaol anfwriadol ar rai pobl â gwahanol grefyddau. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Cynyddodd nifer y troseddau casineb a gofnodwyd gan yr heddlu yr adroddwyd eu bod wedi'u hysgogi gan grefydd 51% rhwng 2020-21 a 2021-22. | |

| |
|---|
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** |
| Byddwn yn cyflawni Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 ac yn monitro cynnydd y mesurau llwyddiant. |

| | |
|---|---|
| **Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar ddynion neu fenywod?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
| **Dynion** | Negyddol |
| **Menywod** | Cadarnhaol |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Ar hyn o bryd mae mwy o fenywod mewn swyddi ar gyflogau is a mwy o ddynion mewn swyddi â chyflogau uwch yn ein gweithlu. Rydym am sicrhau cymysgedd mwy cyfartal o ddynion a menywod mewn swyddi gradd is ac uwch. Bydd hyn yn cael effaith negyddol ar ddynion ac yn un cadarnhaol ar fenywod.<br><br>Rydym am gynyddu cynrychiolaeth menywod mewn gwleidyddiaeth leol, bydd hyn hefyd yn cael effaith negyddol ar ddynion. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Byddwn yn cymryd camau i annog cymysgedd mwy cyfartal o ddynion a menywod mewn swyddi gradd is a graddfa uwch (Amcan Cydraddoldeb 1).<br><br>Byddwn yn cynyddu cynrychiolaeth menywod mewn gwleidyddiaeth leol a gwneud penderfyniadau (Amcan Cydraddoldeb 3). | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** | |
| Rhaid derbyn yr effaith negyddol ar ddynion os ydym am sicrhau cydraddoldeb rhywiol. | |

| | |
|---|---|
| **A ydych yn credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl o Gymuned y Lluoedd Arfog?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
| **Aelodau o'r Lluoedd Arfog** | Dim/Fawr Ddim |

| | |
|---|---|
| **Cyn-filwyr** | Dim/Fawr Ddim |
| **Gwŷr/gwragedd** | Dim/Fawr Ddim |
| **Plant** | Dim/Fawr Ddim |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Nid yw'r cynllun yn cynnwys unrhyw gamau penodol a fydd yn cael effaith gadarnhaol neu'n negyddol ar y garfan hon. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr i'n hymgynghoriad cyhoeddus yn cynnwys canran fwy o bobl o gymuned y lluoedd arfog nag sydd wedi'u cynnwys yn y boblogaeth gyffredinol. Ar y cyfan roedd pobl a atebodd yr ymgynghoriad yn hapus gyda chynnwys y cynllun ac yn teimlo y bydd y camau gweithredu yn ein helpu i gyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu’r farn hon?** | |
| Cyn-filwyr a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar y cynllun = 10%<br>Cyn-filwyr sy'n byw yng Ngheredigion (Cyfrifiad 2021) = 3%<br><br>Pobl a gytunodd fod ein hamcanion cydraddoldeb yn rhai cywir = 94%<br>Pobl a gredai y byddai'r camau gweithredu yn cyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb = 83% | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?** | |
| Byddwn yn cyflawni Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 ac yn monitro cynnydd y mesurau llwyddiant. | |

## Dyletswydd economaidd-gymdeithasol

Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn golygu byw ar incwm isel o'i gymharu ag eraill yng Nghymru, gydag ychydig neu ddim cyfoeth cronedig, sy'n ei gwneud hi'n anoddach cael gafael ar nwyddau a gwasanaethau sylfaenol.

Mae cefndir teuluol neu lle mae person yn cael ei eni yn dal i effeithio ar ei fywyd. Er enghraifft, mae plentyn o deulu cyfoethog yn aml yn gwneud yn well yn yr ysgol na phlentyn o deulu tlawd, hyd yn oed os yw'r plentyn tlotach yn fwy naturiol academaidd. Gelwir hyn weithiau yn anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol.

| | |
|---|---|
| **Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol?** | Cadarnhaol |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Nod y cynllun yw mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldebau canlyniadau ar gyfer pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol, gan gynnwys menywod, pobl anabl, pobl LHDTC+, rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig a phlant. *The Equality and Human Rights Monitor: Is Wales Fairer? (2023)* | |

| **Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'r farn hon?** |
|---|
| Byddwn yn cymryd camau i annog cymysgedd mwy cyfartal o ddynion a menywod mewn swyddi gradd is a graddfa uwch ac i annog cynrychiolaeth gymesur yn ein gweithlu. Byddwn yn hyrwyddo ein cynllun i raddedigion ac yn datblygu dull cydgysylltiedig o gael profiad gwaith a chyfleoedd prentisiaeth (Amcan Cydraddoldeb 1)<br><br>Byddwn yn cynyddu cynrychiolaeth mewn gwleidyddiaeth leol a gwneud penderfyniadau, yn enwedig gan bobl ifanc, menywod, pobl anabl, pobl LHDTC+ a phobl o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig. Byddwn yn darparu tai sy'n diwallu anghenion ein cymunedau (Amcan Cydraddoldeb 4)<br><br>Byddwn yn sicrhau bod polisïau gwrth-fwlio mewn ysgolion a lleoliadau addysg yn adlewyrchu fersiwn ddiweddaraf LIC o'r canllawiau gwrth-fwlio, 'Hawliau, Parch, Cydraddoldeb. Byddwn yn gwella darpariaeth addysgol a chanlyniadau i blant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac yn lleihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng plant heb ADY a'r rhai ag ADY (Amcan Cydraddoldeb 5). |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** |
| Byddwn yn cyflawni Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 ac yn monitro cynnydd y mesurau llwyddiant. |

## Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru o Gymunedau Cydlynus

**Cymdeithas gyda chymunedau deniadol, hyfyw, diogel, sydd â chysylltiadau da**

Cliciwch yma i weld gwybodaeth am gymunedau cydlynus.

| **Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol. AWGRYM** |
|---|
| Bydd cyflawni'r cynllun hwn yn llwyddiannus yn cyfrannu'n gadarnhaol at y nod hwn. Y canlyniadau disgwyliedig yw bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn trin ei gilydd gyda pharch ac ystyriaeth, bod pobl yn ei chael hi'n haws cael mynediad at wasanaethau a bod mwy o bobl yn teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau lleol. Nod y cynllun yw lleihau teimladau o unigrwydd ac arwahanrwydd a chynyddu cynhwysiant digidol. Byddwn hefyd yn mynd i'r afael â digartrefedd.<br><br>Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** |
| Byddwn yn parhau i ddatblygu a chyflwyno ystod o hyfforddiant ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chydraddoldeb (Canlyniad Cydraddoldeb 1). |

| |
|---|
| Byddwn yn gweithredu ein hymrwymiad i Siarter Troseddau Casineb Cymorth i Ddioddefwyr. Byddwn yn monitro tensiynau cymunedol. Byddwn yn cyflwyno ymgyrch cyfryngau flynyddol i hyrwyddo ymwybyddiaeth, dathlu amrywiaeth, a choffáu digwyddiadau hanesyddol perthnasol (Canlyniad Cydraddoldeb 2).<br><br>Byddwn yn gweithio i gynyddu cynrychiolaeth mewn gwleidyddiaeth leol a gwneud penderfyniadau. Byddwn yn datblygu fforymau rhanddeiliaid i ddeall profiad byw pobl sy'n profi anghydraddoldebau yn well. Byddwn yn gwella'r ffordd yr ydym yn rhoi adborth i'r rhai sydd wedi cymryd rhan yn ein hymgyrchoedd ymgysylltu ac ymgynghori (Canlyniad Cydraddoldeb 3).<br><br>Byddwn yn gweithio tuag at gyflawni sgôr AAA ar gyfer ein gwefan. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r dulliau a ddefnyddiwn i gyfathrebu â'r cyhoedd. Byddwn yn darparu tai sy'n diwallu anghenion ein cymunedau. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu atebion teithio cynaliadwy a fforddiadwy. (Canlyniad Cydraddoldeb 4).<br><br>Byddwn yn sicrhau bod polisïau gwrth-fwlio mewn ysgolion a lleoliadau addysg yn adlewyrchu fersiwn ddiweddaraf LIC o'r canllawiau gwrth-fwlio, 'Hawliau, Parch, Cydraddoldeb. Byddwn yn parhau i gefnogi pobl hŷn a phobl anabl i fanteisio ar dechnolegau digidol (Canlyniad Cydraddoldeb 5). |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at y nod?** |
| Byddwn yn cyflawni Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 ac yn monitro cynnydd y mesurau llwyddiant. |

## Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

**Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn amddiffyn diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden**.

Cliciwch yma i ddarllen gwybodaeth am ddiwylliant a'r iaith Gymraeg

| |
|---|
| **Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol.** |
| Bydd cyflawni'r cynllun hwn yn llwyddiannus yn cyfrannu'n gadarnhaol at y nod hwn. Y canlyniadau a ragwelir yw y bydd mwy o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol, y bydd ein diwylliant a'n treftadaeth leol yn cael eu gwella drwy sicrhau bod casgliadau perthnasol yn dathlu amrywiaeth ac y bydd mwy o bobl yn teimlo eu bod yn cael eu hannog i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** |
| Byddwn yn sicrhau bod casgliadau perthnasol yn dathlu amrywiaeth (Amcan Cydraddoldeb 2). |

| |
|---|
| Byddwn yn parhau i hyrwyddo ein cyfleoedd gwaith yn weithredol i ddatblygu'r Gymraeg ac i gefnogi ein diwylliant dwyieithog. Byddwn yn parhau i gynnig cyfleoedd chwarae a gweithgaredd corfforol cynhwysol ac arbenigol i blant a phobl ifanc anabl. Byddwn yn sicrhau bod egwyddorion Safonau'r Gymraeg yn sail i'r ffordd y mae'r Cyngor yn darparu ei wasanaethau i'r cyhoedd, fel bod defnyddwyr gwasanaeth yn gallu cael mynediad at wasanaethau yn naturiol yn y Gymraeg, pe baent yn dewis gwneud hynny (Amcan Cydraddoldeb 4).<br>Byddwn yn gweithredu ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-32 (Amcan Cydraddoldeb 5). |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?** |
| Byddwn yn cyflawni Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 ac yn monitro cynnydd y mesurau llwyddiant. |
| **Gan gyfeirio at y canlynol, a ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y Gymraeg?**<br>Cliciwch yma am wybodaeth |

| | |
|---|---|
| **Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg** | Cadarnhaol |
| **Trin y Gymraeg, dim llai ffafriol na'r Saesneg** | Cadarnhaol |

| |
|---|
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'r safbwynt hwn?** |
| Mae'r cynllun yn cynnwys camau i hyrwyddo ein cyfleoedd gwaith i ddatblygu'r Gymraeg, i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn gallu cael mynediad at wasanaethau yn y Gymraeg ac i weithredu ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-32.<br>Bydd y cynllun a'r adroddiadau blynyddol yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae gwasanaethau'r cyngor yn cael eu darparu'n ddwyieithog. Cynigir cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd ar gais. |
| **Pa gamau y gallwch eu cymryd i gynyddu'r effaith gadarnhaol neu liniaru unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg?** |
| Byddwn yn cyflawni Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 ac yn monitro cynnydd y mesurau llwyddiant. |

## Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

**Cymdeithas sy'n ystyried sut y gallai ein gweithredoedd effeithio ar wledydd a phobl eraill ledled y byd.**

Cliciwch yma i ddarllen am gyfrifoldeb byd-eang.

| **Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol.** **AWGRYM** |
|---|
| Nid yw'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cyfrannu'n uniongyrchol at Gymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** |
| Nid yw'r cynllun yn cynnwys unrhyw gamau gweithredu penodol. Fodd bynnag, drwy feithrin cysylltiadau da ac adeiladu cydlyniant cymunedol, bydd gan gymunedau fwy o gysylltedd ac o bosibl gwell dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang. |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at y nod?** |
| Byddwn yn cyflawni Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 ac yn monitro cynnydd y mesurau llwyddiant. |

## Cryfhau'r Cynnig

Os ydych wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol yn yr adrannau uchod, rhowch fanylion am unrhyw newidiadau a chamau gweithredu ymarferol a allai helpu i ddileu neu leihau'r effeithiau negyddol.

| **Beth fyddwch chi'n ei wneud?** | **Pryd?** | **Pwy sy'n gyfrifol?** | **Cynnydd** |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn cyflawni Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 ac yn monitro cynnydd y mesurau llwyddiant. | 2024-28 | Gweithgor Cydraddoldeb Ceredigion | |

| **Os na chymerir camau i ddileu neu liniaru effeithiau negyddol, a fyddech cystal â chyfiawnhau pam.** *(Os ydych wedi nodi unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon yna mae'n rhaid newid neu ddiwygio'r cynnig.)* |
|---|
| Ein nod yw gweld mwy o fenywod mewn swyddi gradd uwch a chynyddu'r gynrychiolaeth o fenywod mewn gwleidyddiaeth leol. Bydd hyn yn cael effaith negyddol ar ddynion. Rhaid derbyn hyn os ydym am sicrhau cydraddoldeb rhywiol. |
| **Sut fyddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y cynnig?** |
| Mae ein Gweithgor Cydraddoldeb yn gyfrifol am ddatblygu, monitro ac adolygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn. Pwrpas y Grŵp yw ystyried sut y gall y Cyngor gyfrannu at gymdeithas decach drwy hyrwyddo cydraddoldeb a pherthynas dda mewn gweithgareddau o ddydd i ddydd.<br><br>Mae'r grŵp yn cyfarfod dair gwaith y flwyddyn ac yn darparu adroddiadau cynnydd blynyddol i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu y Cyngor ac i'r Cabinet. |

| |
|---|
| Bydd adroddiadau cynnydd blynyddol ar gael i'r cyhoedd drwy wefan y Cyngor. Gellir gofyn am gopïau papur os oes angen. |

## Egwyddor Datblygu Cynaliadwy: 5 Ffordd o Weithio

Disgrifiwch isod sut rydych wedi gweithredu'r pum ffordd o weithio yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

| | |
|---|---|
| **Hirdymor**<br>Sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr ac anghenion tymor hir a'r angen i gynllunio ar gyfer y dyfodol<br><br>AWGRYM | Mae hwn yn gynllun pedair blynedd sy'n adeiladu ar gynlluniau blaenorol. Gellir trosglwyddo materion cydraddoldeb hirdymor o un cynllun pedair blynedd i'r nesaf. Mae hyn yn ein galluogi i fynd i'r afael ag anghenion tymor hwy a chynllunio ar gyfer y dyfodol. |
| **Cydweithio**<br>Cydweithio â phartneriaid eraill i gyflawni canlyniadau<br><br>AWGRYM | Mae llawer o gyfleoedd i gydweithio ag eraill er mwyn cyflawni'r cynllun. Er enghraifft, bydd y cynllun newydd i raddedigion yn gofyn am gydweithio â phrifysgolion; byddwn yn gweithio gyda Chymorth i Ddioddefwyr i weithredu'r Nod Ymddiriedolaeth Troseddau Casineb a byddwn yn gweithio gyda'r tîm Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol ar ystod o weithredoedd. |
| **Cynnwys**<br>Cynnwys pobl sydd â buddiant a gofyn am eu barn<br><br>AWGRYM | Cynhaliwyd ymgyrch ymgysylltu ranbarthol i gasglu adborth cychwynnol ar gyflwr cydraddoldeb yn ardal Dyfed Powys. Anfonwyd y Cynllun ddrafft i'w ymgynghori'n gyhoeddus yng Ngaeaf 2023.<br><br>Mae'r cynllun Cydraddoldeb ei hun yn cynnwys camau gweithredu i weithio mwy gyda grwpiau o randdeiliaid o grwpiau lleiafrifol penodedig ac i wella'r ffordd yr ydym yn rhoi adborth i'r rhai sydd wedi cymryd rhan yn ein hymgyrchoedd Ymgysylltu ac ymgynghori. |
| **Atal**<br>Darparu adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu<br><br>AWGRYM | Datblygwyd y cynllun o ganlyniad i'n hymgysylltiad a'n hymchwil i'r sefyllfa bresennol o gydraddoldeb yng Ngheredigion. Nod y cynllun yw cydlynu ein hadnoddau i nodi a mynd i'r afael ag achosion sylfaenol anghydraddoldeb. |

| | |
|---|---|
| **Integreiddio**<br>Ystyried effaith eich cynnig ar bedwar piler llesiant (cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a'r amgylchedd), amcanion cyrff cyhoeddus eraill ac ar draws meysydd gwasanaeth yn y Cyngor.<br><br>AWGRYM | Mae'r gweithgor Cydraddoldeb yn cynnwys cynrychiolwyr o ystod o Wasanaethau'r Cyngor. Mae hyn yn ein helpu i ystyried rhyng-ddibyniaethau a thensiynau posibl rhwng gwasanaethau a'r pedair piler llesiant. |




## Risg

Crynhowch y risg sy'n gysylltiedig â'r cynnig.

| | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** |
|---|---|---|---|---|---|
| Meini prawf asesu effaith | Isel iawn | Isel | Canolig | Uchel | Uchel iawn |
| Meini prawf asesu tebygolrwydd | Annhebygol o ddigwydd | Llai tebygol o ddigwydd | Yr un mor debygol o ddigwydd ag o beidio digwydd | Mwy tebygol o ddigwydd | Tebygol o ddigwydd |

| **Disgrifiad o'r risg** | **Effaith** (difrifoldeb**)** | **Tebygolrwydd** (y gallu i gyflawni) | **Sgôr** (Effaith x Tebygolrwydd) |
|---|---|---|---|
| Methu cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb | 5 | 1 | 5 |

## Cymeradwyo

| **Swydd** | **Enw** | **Llofnod** | **Dyddiad** |
|---|---|---|---|
| **Rheolwr Corfforaethol** | Diana Davies |  | 13/02/2024 |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol** | Alun Williams |  | 13/02/2024 |
| **Cyfarwyddwr Corfforaethol** | Barry Rees |  | 13/02/2024 |
| **Deiliad y Portffolio** | Cllr Catrin MS Davies | Catrin Davies | 13/02/2024 |

# CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

**Adroddiad i'r:** **Cabinet**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **19 Mawrth 2024**

**Teitl:** **Trefniadau diwygiedig Tâl y Crwner 2024/2025**

**Pwrpas yr adroddiad:** **Cymeradwyo trefniadau tâl y Crwner a'r Crwner Cynorthwyol**

**Er:** **Penderfyniad**

**Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:**
**Y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet ar gyfer Partneriaethau, Gwasanaethau Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd.**

**Cefndir:**
Ar 4/7/23 yn dilyn cyhoeddi cylchlythyr 67 y JNC, cytunodd Cabinet y taliadau canlynol: Agenda Cabinet dydd Mawrth 4 Gorffennaf 2023

Penderfyniad
Cofnod 39

Cymeradwyo'r cyfraddau tâl canlynol ar gyfer yr Uwch Grwner a'r Crwner Cynorthwyol ar gyfer 2023/24 yn unol â Chylchlythyr 68 y JNC:

1) **Uwch Grwner rhan-amser**
   i) Cyflog Cadw o £22,200 y flwyddyn i gwmpasu cadw/argaeledd gwasanaeth y tu allan i oriau o 1 Ebrill 2023 hyd at 31 Mawrth 2024.
   ii) Defnyddio'r gyfradd ddyddiol o £489 i dalu cyflog blynyddol o £12,225 i'r Crwner (25 diwrnod y flwyddyn gan gynnwys diwrnodau hyfforddiant o 1 Ebrill 2023 hyd at 31 Mawrth 2024).
   Cyfanswm: £34,425 y flwyddyn (ynghyd ag argostau).

2) **Crwner Cynorthwyol:**
   - Diwrnod llawn: £417;
   - Hanner diwrnod: £209.

**Y sefyllfa bresennol:**
- Graddfa ddyddiol Uwch Grwner rhan-amser £489 - £555
- Graddfa ddyddiol Crwner Cynorthwyol £417-503

**Argymhelliad:**
Mae hi nawr yn ofynnol i gytuno'r graddfeydd cyflog ar gyfer yr Uwch Grwner rhan-amser and Crwner cynorthwyol ar gyfer 2024/25.

Mae'r graddfeydd cyflog o argymhellir yr un fath a'r rhai a gytunwyd gan Cabinet ar 4/7/23:

1) 2024/2025 (1/4/24-31/3/25):
   Uwch Grwner rhan-amser:
   i) Cyflog Cadw o £22,200 y flwyddyn tuag at sicrhau gwasanaeth/tu allan i oriau arferol ar gael o 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025.
   ii) Defnyddio'r gyfradd ddyddiol £489 i dalu cyflog blynyddol o £12,225 i'r Crwner (@25 niwrnod y flwyddyn gan gynnwys diwrnodau hyfforddiant).

   Cyfanswm swm blynyddol o £34,425 y flwyddyn (ynghyd ag argostau).

Crwner Cynorthwyol:
- diwrnod llawn: £417;
- hanner diwrnod: £209.

Mae'r JNC yn ymgynghori ar hyn o bryd ar y raddfeydd diwygiedig.

Os bydd y JNC yn rhyddhau gwybodaeth ddiwygiedig/Cylchlythyr ynghylch cyfraddau tâl y Crwner a'r Crwner Cynorthwyol ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025, fe fydd hyn yn cael ei ystyried ac fe fydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet.

**<u>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:</u>**
**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam**

Nac oes, nid yw'r adroddiad yn cynrychioli newid polisi na strategaeth.

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | AMH |
| **Cydweithio:** | AMH |
| **Cynnwys:** | AMH |
| **Atal:** | AMH |
| **Integreiddio:** | AMH |

**<u>Argymhelliad / Argymhellion:</u>**

1) **Bod y Cabinet yn cytuno'r raddfa gyflog ar gyfer 2024-2025 (1/4/24-31/3/25) fel a ganlyn:**

   **Uwch Grwner rhan-amser:**
   i) **Cyflog Cadw o £22,200 y/f tuag at gadw gwasanaeth/tu allan i oriau arferol o 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025.**
   ii) **Defnyddio'r gyfradd ddyddiol £489 i dalu cyflog blynyddol o £12,225 i'r Crwner (@25 niwrnod y flwyddyn gan gynnwys diwrnodau hyfforddiant).**

   **Cyfanswm swm blynyddol o £34,425 y flwyddyn (ynghyd ag argostau).**

   iii) **Costau swyddfa/lwfans cefnogi busnes - £5,000 y/f.**

2) **Bod y Cabinet yn cytuno'r raddfa gyflog ar gyfer 2024-2025 ar gyfer y Crwner Cynorthwyol:**
   - **diwrnod llawn: £417;**
   - **hanner diwrnod: £209.**

**Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:**
**I gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol a Chylchlythyron y JNC, lleihau heriau a diogelu'r pwrs cyhoeddus.**

**Trosolwg a Chraffu:**
Dim

**Fframwaith Polisi:**
Amherthnasol

**Amcanion Llesiant Corfforaethol:**
Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth (darparu gwasanaeth effeithlon y crwner)

**Goblygiadau Cyllid a Chaffael:**
Parhau â'r trefniadau cyfredol; potensial ar gyfer cynnydd yng nghostau cyflogau a goblygiadau i'r gyllideb yn ymwneud â thâl y Crwner a'r Crwner Cynorthwyol.

**Goblygiadau cyfreithiol:**
Cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol

**Goblygiadau staffio:**
Dim - Nid yw'r Crwner a'r Crwner Cynorthwyol wedi'u dynodi fel cyflogeion i'r Cyngor.

**Goblygiadau eiddo / asedau:**
Dim

**Risg(iau):**
Her gyfreithiol gan y Crwner a'r Crwner Cynorthwyol os na ddilynir yr argymhellion

**Pwerau Statudol:**
Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009:https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2009/
Rheoliadau Treuliau, Ffioedd a Lwfansau Crwneriaid 2013:
https://www.legislation.gov.uk/uksi/2013/

**Papurau Cefndir:**
Cylchlythyr 68 y JNC - JNC 68 - 5.6.23

**Atodiadau:**
Dim

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:**
Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaeth Cyfreithiol a Llywodraethu (a Swyddog Monitro)

**Swyddog Adrodd:**
Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaeth Cyfreithiol a Llywodraethu (a Swyddog Monitro)

**Dyddiad:**
13 Chwefror 2024

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

## CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **19 Mawrth 2024** |
| **Teitl:** | **Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch Llywodraeth Cymru 2024-25** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Cymeradwyo mabwysiadu Ardrethi Annomestig - Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch Llywodraeth Cymru 2024-25 fel Rhyddhad Ardrethi Annomestig Dewisol o dan Adran 47 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988** |
| **I'w:** | **Benderfynu** |

**Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:**
**Y Cynghorydd Gareth Davies, Aelod Cabinet ar gyfer Cyllid a Chaffael**

**Cyflwyniad**
Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch Llywodraeth Cymru (RLHRR) yn parhau dros dro am 2024-25.

Nod Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch Llywodraeth Cymru 2024-25 yw darparu cefnogaeth drwy gynnig gostyngiad o 40% ar filiau ardrethu annomestig i fusnesau cymwys sy'n defnyddio neu gweithredu yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch megis siopau, tafarndai a tai bwyta, campfeydd, lleoliadau perfformio a gwestai.

O fewn Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch Llywodraeth Cymru 2024-25 bydd uchafswm i swm y rhyddhad y caiff busnesau ei hawlio ar draws Cymru. Cyfanswm y rhyddhad sydd ar gael yw £110,000 ar draws yr holl eiddo sy'n cael eu defnyddio gan yr un busnes. Mae angen i bob busnes ddatgan, wrth wneud cais i awdurdodau lleol unigol, eu bod yn cadarnhau nad yw swm y rhyddhad y maent yn gwneud cais amdano ar draws Cymru yn fwy na'r uchafswm hwn.

Mae meini prawf o ran cymhwysedd ac eithriadau i'r Rhyddhad wedi eu hamlinellu yn y ddogfen canllawiau sydd ynghlwm a dderbyniwyd oddi wrth Lywodraeth Cymru.

Gan mai mesur dros dro yw hwn, ac y darperir rhyddhad ardrethi yn ôl disgresiwn o dan adran 47 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, bydd angen penderfyniad o ran mabwysiadu'r Cynllun yng Ngheredigion.

Bydd y cynllun yma caiff ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru yn cefnogi oddeutu 600 o fusnesau yng Ngheredigion gydag amcangyfrif cyfanswm gwerth o £2.3m.

**<u>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:</u>**
**A oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os nad oes, nodwch pam.**

Ni chwblhawyd AEI. Mae hwn yn gynllun dros dro gan Lywodraeth Cymru sy'n cael ei gynnig i holl Gynghorau Cymru er mwyn cynorthwyo wrth leihau baich Trethi Annomestig ar fusnesau cymwys yng Nghymru.

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | Amherthnasol |
| **Cydweithio:** | Amherthnasol |
| **Cynnwys:** | Amherthnasol |
| **Atal:** | Amherthnasol |
| **Integreiddio:** | Amherthnasol |

**<u>Argymhelliad:</u>**
**Argymhellir bod y Cabinet yn:**

**Mabwysiadu Ardrethi Annomestig - Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch Llywodraeth Cymru 2024-25 fel Rhyddhad Ardrethi Annomestig Dewisol o dan Adran 47 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.**

**<u>Rheswm dros y penderfyniad:</u>**
**Cefnogi busnesau lleol drwy ddefnyddio arian grant sydd ar gael.**

**<u>Trosolwg a Chraffu:</u>**
Nid yw'r Cynllun wedi ei gyfeirio at ystyriaeth Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu am ei fod yn Gynllun dros dro gan Lywodraeth Cymru.

**<u>Fframwaith Polisi:</u>**
Amherthnasol

**<u>Amcanion Llesiant Corfforaethol:</u>**
Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth.

**<u>Goblygiadau Ariannol a Chaffael:</u>**
Caiff y cynllun ei ariannu drwy grant oddi wrth Lywodraeth Cymru ac ad-delir Ceredigion am unrhyw ryddhad ardrethi a roddwyd yn unol â'r canllawiau / cynnig grant.

**<u>Goblygiadau Cyfreithiol:</u>**
Dim

**<u>Goblygiadau Staffio:</u>**
Dim

**<u>Goblygiadau Eiddo / asedau:</u>**
Dim

**<u>Risg(au):</u>**
Bydd methu mabwysiadu'r cynllun yn golygu y bydd trethdalwyr Ceredigion o dan anfantais ariannol a bydd Llywodraeth Cymru yn tynnu nôl eu harian.

**Pwerau Statudol:**
Adran 47 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.

**Papurau Cefndir:**
Canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y cynllun.

**Atodiadau:**
Atodiad 1- Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch Llywodraeth Cymru 2024-25

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:**
Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael

**Swyddog Adrodd:**
Ann Ireland, Rheolwr Corfforaethol: Refeniw ac Asesiadau Ariannol

**Dyddiad:**
12 Chwefror 2024

# Ardrethi Annomestig – Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch 2024-25

Canllawiau

## Disgrifiad o'r canllawiau

Lluniwyd y canllawiau hyn i helpu cynghorau sir a bwrdeistref sirol ("awdurdodau lleol") i weinyddu'r cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch ("y rhyddhad"). Ar 19 Rhagfyr 2023, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol y byddai'r rhyddhad ardrethi'n cael ei ehangu dros dro ar gyfer 2024-25. Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i Gymru yn unig.

Mae'r canllawiau yn gosod y meini prawf y bydd Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i bennu cyllid i awdurdodau lleol ar gyfer rhyddhad ardrethi sy'n cael ei ddarparu i eiddo manwerthu, hamdden a lletygarwch. Nid yw'r canllawiau yn disodli unrhyw ddeddfwriaeth bresennol ar ardrethi annomestig nac unrhyw fath arall o ryddhad.

Dylid anfon unrhyw gwestiynau am y cynllun at: **polisitrethilleol@llyw.cymru**

Mae'r rhyddhad yn cael ei gynnig o 1 Ebrill 2024 a bydd ar gael tan 31 Mawrth 2025.

## Cyflwyniad

Mae'r rhyddhad hwn wedi'i anelu at fusnesau a threthdalwyr eraill yng Nghymru yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch, er enghraifft siopau, tafarnau a bwytai, campfeydd, lleoliadau perfformio a gwestai. Darperir y rhyddhad fel cymorth ar gyfer y sectorau hyn er mwyn sicrhau bod mwy o obaith ganddynt o adfer o'r heriau economaidd sydd wedi effeithio arnynt dros y blynyddoedd diwethaf.

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cyllid grant i bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru i ddarparu'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch i fusnesau sy'n gymwys ar gyfer 2024-25. Nod y cynllun yw darparu cymorth i eiddo cymwys sydd wedi'i feddiannu drwy gynnig 40% o ostyngiad ar filiau ardrethi annomestig ar gyfer eiddo o'r fath. Bydd y cynllun ar gael i bob busnes cymwys, fodd bynnag bydd uchafswm i swm y rhyddhad y caiff busnesau ei hawlio ar draws Cymru. Cyfanswm y rhyddhad sydd ar gael yw £110,000 ar draws yr holl eiddo sy'n cael eu defnyddio gan yr un busnes. Mae angen i bob busnes ddatgan, wrth wneud cais i awdurdodau lleol unigol, eu bod yn cadarnhau nad yw swm y rhyddhad y maent yn gwneud cais amdano ar draws Cymru yn fwy na'r uchafswm hwn. Mae enghraifft o ffurflen ddatganiad wedi'i hamgáu yn Atodiad 1 i awdurdodau lleol ei defnyddio wrth ddatblygu eu ffurflenni eu hunain i'w cyhoeddi a'u cyflwyno i fusnesau.

Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau ynghylch rhoi'r cynllun hwn ar waith a'i gyflwyno.

# Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch

## Sut bydd y rhyddhad yn cael ei ddarparu?

Gan mai mesur dros dro yw hwn, rydym yn darparu’r rhyddhad drwy roi ad-daliad i awdurdodau lleol sy’n defnyddio’u pwerau rhyddhad ardrethi yn ôl disgresiwn o dan adran 47 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Yr awdurdodau lleol unigol eu hunain fydd yn mabwysiadu cynllun ac yn penderfynu ym mhob achos a ddylid caniatáu’r rhyddhad o dan adran 47. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi ad-daliad i’r awdurdodau lleol am y rhyddhad sy’n cael ei ddarparu yn unol â’r canllawiau hyn drwy grant o dan adran 31 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a adran 58A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

## Sut bydd y cynllun yn cael ei weinyddu?

Yr awdurdodau lleol eu hunain fydd yn penderfynu sut i weinyddu'r cynllun er mwyn sicrhau bod cymaint â phosib yn cymryd rhan a bod cyn lleied â phosib o faich gweinyddol ar dalwyr ardrethi a staff yr awdurdod lleol.

Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth glir a hygyrch i fusnesau ynghylch manylion a gweinyddiaeth y cynllun.

## Pa eiddo fydd yn gallu manteisio ar y rhyddhad?

Yr eiddo a fydd yn gallu manteisio ar y rhyddhad hwn fydd eiddo manwerthu, hamdden a lletygarwch – fel siopau, tafarnau a bwytai, campfeydd, lleoliadau perfformio a gwestai ledled Cymru. Ceir rhagor o fanylion am y meini prawf cymhwysedd a'r eithriadau i'r rhyddhad isod.

Dylai’r rhyddhad gael ei roi i bob busnes cymwys fel gostyngiad yn ei fil ardrethi yn seiliedig ar feddiannaeth rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025. At ddibenion y cynllun hwn, bydd eiddo manwerthu fel "siopau, bwytai, caffis a llefydd sy'n gwerthu diod" yn golygu fel a ganlyn (yn ddarostyngedig i feini prawf eraill yn y canllawiau).

**Hereditamentau sy'n cael eu defnyddio i werthu nwyddau i aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â nhw**

- Siopau (fel siop flodau, siop fara, cigydd, groser, siop ffrwythau a llysiau, gemydd, siop bapur ysgrifennu, siop drwyddedig, siop bapur newydd, siop caledwedd, archfarchnad ac ati)
- Siopau elusen
- Optegydd
- Fferyllfeydd
- Swyddfeydd post
- Siopau dodrefn neu ystafelloedd arddangos (fel siopau carpedi, gwydr dwbl, drysau garej)

- Ystafelloedd arddangos ceir neu garafannau
- Canolfannau gwerthu ceir ail law
- Marchnadoedd
- Gorsafoedd petrol
- Canolfannau garddio
- Orielau celf (lle mae modd prynu neu logi gwaith celf)

**Hereditamentau sy'n cael eu defnyddio i ddarparu'r gwasanaethau canlynol i aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â nhw**

- Gwasanaethau trin gwallt a harddwch
- Trwsio esgidiau/torri allweddi
- Asiantaethau teithio
- Swyddfeydd tocynnau (ee ar gyfer y theatr)
- Gwasanaethau sychlanhau
- Golchdai
- Trwsio cyfrifiaduron, setiau teledu neu gyfarpar domestig
- Trefnwyr angladdau
- Prosesu lluniau
- Llogi DVD neu fideo
- Llogi offer
- Llogi ceir
- Swyddfeydd gwerthu a gosod tai

**Hereditamentau sy'n cael eu defnyddio i werthu bwyd a/neu ddiod i aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â nhw**

- Bwytai
- Bwytai archebu o’r car
- Siopau tecawê
- Siopau brechdanau
- Caffis
- Siopau coffi
- Tafarnau
- Bariau neu fariau gwin

Rydym yn ystyried bod ymgynnull a hamdden yn golygu’r canlynol.

**Hereditamentau sy'n cael eu defnyddio i ddarparu chwaraeon, hamdden a chyfleusterau i aelodau o’r cyhoedd sy’n ymweld â nhw (gan gynnwys i wylio gweithgareddau o’r fath) ac i ymgynnull aelodau o’r cyhoedd sy’n ymweld â nhw.**

- Meysydd a chlybiau chwaraeon
- Cyfleusterau chwaraeon a hamdden
- Campfeydd
- Atyniadau twristaidd

- Amgueddfeydd ac orielau celf
- Plastai a thai hanesyddol
- Theatrau
- Lleoliadau cerddoriaeth fyw
- Sinemâu
- Clybiau nos

**Hereditamentau sy'n cael eu defnyddio i ymgynnull aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â nhw.**

- Neuaddau cyhoeddus
- Tai clybiau, clybiau a sefydliadau

Rydym yn ystyried bod gwestai, eiddo llety a phreswyl a llety hunanarlwyo yn golygu'r canlynol:

**Hereditamentau lle mae'r rhan annomestig yn cael ei defnyddio i ddarparu llety preswyl fel busnes:**

- Gwestai, tai llety a thai preswyl
- Cartrefi gwyliau
- Parciau a safleoedd carafannau

## Rhyddhad ôl-weithredol

Ni cheir gwneud dyfarniadau rhyddhad newydd yn ôl-weithredol ar gyfer blynyddoedd blaenorol o dan delerau'r cynllun. Er bod pwerau eang awdurdodau lleol yn golygu ei bod yn bosibl i ryddhad yn ôl disgresiwn gael ei ddyfarnu yn ôl-weithredol am hyd at chwe mis yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol berthnasol, nid yw cyllid ar gyfer unrhyw ddyfarniadau o'r fath yn dod o dan delerau'r cytundeb cyllido ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Ni ellir ond gwneud addasiadau yn ôl-weithredol os oes rhyddhad eisoes wedi'i ddyfarnu o dan delerau'r cynllun yn y flwyddyn berthnasol a bod atebolrwydd y trethdalwr yn cael ei ddiwygio yn dilyn hynny, o ganlyniad i newid mewn amgylchiadau.

## Ystyriaethau eraill

Er mwyn gallu manteisio ar y rhyddhad, dylai'r hereditament gael ei ddefnyddio'n bennaf neu'n gyfan gwbl at y dibenion cymwys. Yn debyg i fathau eraill o ryddhad, yr hyn sy'n digwydd yn yr eiddo sy'n bwysig yn hytrach na'r ffaith ei fod yn cael ei ddefnyddio. Felly, os yw hereditamentau yn cael eu defnyddio, ond nid yn bennaf neu'n gyfan gwbl ar gyfer y pwrpas cymwys, ni fyddant yn gymwys i gael y rhyddhad. I osgoi amheuaeth, dylid ystyried bod hereditamentau a gaeodd dros dro oherwydd cyngor y Llywodraeth ar COVID-19 yn hereditamentau sydd wedi'u meddiannu at ddibenion y rhyddhad hwn.

Nid oes bwriad i'r rhestr uchod fod yn un gwbl drylwyr, gan y byddai'n amhosibl rhestru'r holl ddefnyddiau manwerthu, hamdden a lletygarwch amrywiol sy'n bodoli. Hefyd bydd rhai enghreifftiau'n codi o ddefnydd cymysg. Fodd bynnag, y bwriad yw rhoi arweiniad i'r awdurdodau lleol ynghylch y mathau o ddefnydd sy'n gymwys am y rhyddhad ym marn Llywodraeth Cymru at y diben hwn. Dylai awdurdodau lleol benderfynu dros eu hunain a yw eiddo penodol nad yw ar y rhestr yn gyffredinol debyg o ran natur i'r uchod. Os felly dylid ei ystyried yn gymwys ar gyfer y cynllun. Yn yr un modd, os nad yw eiddo yn debyg yn gyffredinol i'r rhai ar y rhestr uchod, ni ddylai fod yn gymwys ar gyfer y cynllun.

Mae’r rhyddhad ardrethi yn cael ei roi yn ôl disgresiwn. Os yw awdurdodau lleol yn penderfynu defnyddio’u disgresiwn i beidio â chaniatáu rhyddhad i fusnesau cymwys, efallai y byddent yn dymuno ceisio cyngor cyfreithiol ar gyfer unrhyw faterion cyfreithiol a allai godi o ganlyniad i benderfyniad o’r fath, fesul achos.

Efallai y bydd busnesau o’r farn eu bod wedi gallu parhau i fasnachu ar lefel sylweddol yn ystod y cyfyngiadau Coronafeirws, ac felly efallai na fyddent yn dymuno gwneud cais am y rhyddhad.

## Y mathau o hereditamentau nad ydynt yn cael eu hystyried yn gymwys i gael Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch

Mae'r rhestr ganlynol yn nodi'r mathau o ddefnydd nad ydynt yn cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru fel defnydd manwerthu, hamdden neu letygarwch at ddiben y cynllun hwn, ac na fyddai'n gymwys i gael y rhyddhad. Fodd bynnag, yr awdurdodau lleol eu hunain fydd yn penderfynu a yw hereditamentau yn debyg o ran natur i'r rhai sy'n cael eu rhestru ac os na fyddent yn gymwys i gael y rhyddhad o dan y cynllun.

**Hereditamentau sy'n cael eu defnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf i ddarparu'r gwasanaethau canlynol i aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â nhw**

- Gwasanaethau ariannol (ee banciau, cymdeithasau adeiladu, peiriannau arian parod, bureaux de change, benthycwyr diwrnod cyflog, siopau betio, gwystlyddion)
- Gwasanaethau meddygol (ee milfeddygon, deintyddion, meddygon, osteopathiaid, ceiropractyddion)
- Gwasanaethau proffesiynol (ee cyfreithwyr, cyfrifwyr, asiantaethau yswiriant, ymgynghorwyr ariannol, tiwtoriaid)
- Swyddfeydd dosbarthu Swyddfa’r Post
- Meithrinfeydd dydd
- Llety cŵn a chathod
- Clybiau casino a gamblo
- Cartrefi arddangos ac ystafelloedd marchnata
- Asiantaethau cyflogaeth

### Hereditamentau nad ydynt yn rhesymol hygyrch i aelodau o’r cyhoedd sy’n ymweld â nhw

Os nad yw hereditamentau fel arfer yn rhesymol hygyrch i aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â nhw, ni fyddant yn gymwys i gael rhyddhad o dan y cynllun, hyd yn oed os oes defnydd atodol o'r hereditament y gellid ystyried ei fod yn syrthio o dan y disgrifiadau yn *Pa eiddo fydd yn gallu manteisio ar y rhyddhad?*

### Hereditamentau gwag

Dylai pob eiddo sy'n wag ar 1 Ebrill 2024 gael ei eithrio rhag y rhyddhad hwn. Fodd bynnag, o dan y cynllun Rhyddhad Eiddo Gwag gorfodol, bydd eiddo gwag yn derbyn gostyngiad o 100% yn ei ardrethi ar gyfer y tri mis cyntaf (ac mewn rhai achosion y chwe mis cyntaf) o fod yn wag.

### Hereditamentau sy’n eiddo i awdurdod lleol neu sy’n cael eu rhentu neu eu rheoli ganddo

Mae hereditamentau sy’n eiddo i awdurdod lleol neu sy’n cael eu rhentu neu eu rheoli ganddo, er enghraifft canolfannau ymwelwyr, siopau gwybodaeth i dwristiaid a siopau coffi neu siopau rhoddion sy’n rhan o adeiladau hanesyddol ac yn cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol, yn esempt o’r cynllun hwn.

## Faint o ryddhad sydd ar gael?

Cyfanswm y rhyddhad a ariennir gan y Llywodraeth sydd ar gael i bob eiddo o dan y cynllun hwn ar gyfer 2024-25 yw 40% o’r bil perthnasol. Mae hyn yn amodol ar uchafswm o £110,000 i bob busnes ar draws eu holl eiddo yng Nghymru.

Dylid cymhwyso’r rhyddhad i’r bil net sy’n weddill ar ôl gweithredu unrhyw ryddhad gorfodol (gan gynnwys elfennau yn ôl disgresiwn a ariennir yn llawn neu’n rhannol gan yr awdurdod lleol) ac unrhyw ryddhad arall yn ôl disgresiwn a ariennir gan grantiau adran 31 (ac eithrio’r rhai pan fo awdurdodau lleol wedi defnyddio eu pwerau rhyddhad ehangach yn ôl disgresiwn a gyflwynwyd gan Ddeddf Lleoliaeth 2011, nad ariennir gan grantiau adran 31). Mae’r mathau o ryddhad y dylid eu cymhwyso cyn y Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch yn cynnwys categorïau o ryddhad yn ôl disgresiwn a oedd ar gael cyn Deddf Lleoliaeth 2011 (e.e. rhyddhad ardrethi ar gyfer elusennau, clybiau chwaraeon amatur cymunedol, sefydliadau nid-er-elw, caledi, eiddo gwag). Caiff awdurdodau lleol ddefnyddio eu pwerau ehangach yn ôl disgresiwn i gynnig gostyngiadau pellach y tu allan i’r cynllun hwn neu ryddhad ychwanegol i hereditamentau o fewn y cynllun. Pan fo awdurdod lleol yn cymhwyso rhyddhad a ariennir yn lleol o dan adran 47 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1998, dylid ei gymhwyso ar ôl y Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch.

Bydd cymhwysedd ar gyfer y cynllun rhyddhad ardrethi a’r rhyddhad ei hun yn cael ei asesu a’i gyfrifo ar sail ddyddiol. Dylid defnyddio’r fformiwla ganlynol wrth benderfynu ar swm y rhyddhad ardrethi i’w ganiatáu ar gyfer hereditament penodol yn ystod blwyddyn ariannol:

Swm y rhyddhad i’w ganiatáu = V x 0.4, lle

V yw'r tâl dyddiol am yr hereditament ar gyfer y diwrnod trethadwy ar ôl gweithredu unrhyw ryddhad gorfodol ac unrhyw ryddhad arall yn ôl disgresiwn (ac eithrio'r rhai pan fo awdurdodau lleol wedi defnyddio eu pwerau rhyddhad yn ôl disgresiwn a gyflwynwyd gan Ddeddf Lleoliaeth 2011, nad ariennir gan grantiau adran 31).

Dylid cyfrifo hyn gan anwybyddu unrhyw addasiadau blwyddyn flaenorol i'r atebolrwydd sy'n syrthio ar y diwrnod.

Bydd busnesau sy'n defnyddio mwy nag un eiddo yn gallu cael Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch ar gyfer pob eiddo cymwys, o fewn uchafswm o £110,000 i bob busnes ar draws Cymru.

Gall busnes gydag un eiddo a rhwymedigaeth o fwy na £275,000 yn weddill (ar ôl unrhyw ryddhad) ddefnyddio dyraniad cyfan y rhyddhad. Ni fydd unrhyw fusnesau eraill sy'n eiddo i'r busnes hwnnw yn gymwys o dan y cynllun.

Mae eiddo manwerthu, hamdden a lletygarwch sydd wedi'i eithrio o'r Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach oherwydd y rheolau amlfeddiannaeth yn gymwys am y cynllun rhyddhad hwn, o fewn yr uchafswm.

## Newidiadau i hereditamentau presennol gan gynnwys newid meddiant

Bydd eiddo gwag sy'n dechrau cael ei ddefnyddio ar ôl 1 Ebrill 2024 yn gymwys i gael y rhyddhad hwn o ddyddiad ei feddiannu.

Os oes newid meddiant yn ystod y flwyddyn ariannol, ar ôl i'r rhyddhad gael ei ddarparu i'r hereditament, bydd y meddiannydd newydd yn gymwys i dderbyn y rhyddhad ar sail pro-rata os ydynt yn gweithredu yn y sectorau manwerthu, hamdden neu letygarwch. Bydd hyn yn cael ei gyfrifo yn seiliedig ar weddill y dyddiau meddiannu gan ddefnyddio'r fformiwla yn yr adran *Faint o ryddhad sydd ar gael?*

Dylid gweithredu'r gostyngiad yn ddyddiol gan ddefnyddio'r fformiwla a nodir uchod. Dylai hereditament a grëwyd o ganlyniad i raniad neu uniad yn ystod y flwyddyn ariannol, neu pan fo newid defnydd wedi bod, gael ei ystyried o'r newydd ar gyfer y gostyngiad ar y diwrnod hwnnw.

## Y terfyn arian parod a rheoli cymorthdaliadau

Ni chaiff talwr ardrethi, o dan unrhyw amgylchiadau, fynd y tu hwnt i'r terfyn arian parod, sef £110,000, ar draws eu holl hereditamentau yng Nghymru. Pan fo gan dalwr ardrethi gysylltiad cymwys â thalwr ardrethi arall, dylid ystyried y talwyr ardrethi hynny fel un talwr ardrethi at ddibenion y terfynau arian parod. Ystyrir bod gan dalwr ardrethi gysylltiad cymwys ag un arall yn yr achosion isod:

- mae'r ddau dalwr ardrethi yn gwmnïau ac mae un yn is-gwmni i'r un arall, neu mae'r ddau'n is-gwmnïau i'r un cwmni; neu
- dim ond un talwr ardrethi sy'n gwmni ac mae gan y talwr ardrethi arall y fath fuddiant yn y cwmni hwnnw a fyddai'n golygu mai ef fyddai cwmni daliannol yr un arall, pe bai'r talwr ardrethi arall yn gwmni.

Dechreuodd cyfundrefn rheoli cymorthdaliadau newydd y DU ar 4 Ionawr 2023, pan ddaeth Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022 i rym. Mae'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch yn debygol o fod yn gymhorthdal o dan y gyfundrefn newydd. Bydd angen i unrhyw ryddhad a ddarperir gan awdurdodau lleol o dan y cynllun hwn gydymffurfio â rhwymedigaethau rheoli cymorthdaliadau domestig a rhyngwladol y DU.

I'r graddau y mae awdurdod lleol yn bwriadu darparu rhyddhad sydd o dan y trothwyon Cymorth Ariannol Lleiaf (MFA), mae Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022 yn caniatáu i gyfranogwr economaidd (ee cwmni daliannol a'i is-gwmnïau) dderbyn hyd at £315,000 mewn cyfnod o 3 blynedd (sef blwyddyn 2024-25 a'r ddwy flwyddyn ariannol flaenorol). Nid oedd cynlluniau Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch yng Nghymru cyn 2023-24 yn cael eu darparu fel cymhorthdal. Dylai awdurdodau lleol ofyn i'r talwyr ardrethi, ar sail hunanasesu, ddatgan fel rhan o'u cais am Ryddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch nad ydynt yn mynd y tu hwnt i'r terfyn arian parod na'r terfyn MFA.

Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw cydymffurfio â'r holl ddarpariaethau rheoli cymorthdaliadau perthnasol, gan gynnwys gofynion MFA o ran gweithdrefnau a thryloywder. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y canllawiau statudol ar reoli cymorthdaliadau gan Lywodraeth y DU.

I gael cyngor pellach, cysylltwch â'r Uned Rheoli Cymorthdaliadau yn Llywodraeth Cymru drwy'r manylion isod:

Yr Uned Rheoli Cymorthdaliadau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: YrUnedRheoliCymorthdaliadau@llyw.cymru

# Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch 2024-25

## RHYDDHAD ARDRETHI MANWERTHU, HAMDDEN A LLETYGARWCH – DIBEN Y RHYDDHAD

Mae'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch ar gael i fusnesau cymwys sy'n gweithredu yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch. Nod y rhyddhad yw darparu cymorth ar gyfer y sectorau hyn er mwyn sicrhau bod mwy o obaith ganddynt o adfer o'r heriau economaidd sydd wedi effeithio arnynt dros y blynyddoedd diwethaf. Bydd busnesau cymwys yn cael gostyngiad o 40% yn eu rhwymedigaeth net ar gyfer ardrethi annomestig yn 2024-25. Ni ddylai uchafswm gwerth ariannol y rhyddhad ardrethi a ganiateir, ar draws pob eiddo yng Nghymru sy'n cael eu defnyddio gan yr un busnes, fod yn fwy na £110,000.

Bydd y rhyddhad yn cael ei ddarparu fel cymhorthdal ar ffurf Cymorth Ariannol Lleiaf (MFA). Rhaid i'r un busnes beidio â hawlio cyfanswm o fwy na £315,000 o MFA dros dair blynedd (gan gynnwys 2024-25). Nid oedd cynlluniau Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch yng Nghymru cyn 2023-24 yn cael eu darparu fel cymhorthdal ac ni ddylid eu cyfrif tuag at y terfyn MFA. Felly, rhaid i werth gros y rhyddhad a hawlir gan yr un busnes beidio â bod yn fwy na £110,000 yng Nghymru ar gyfer 2024-25 (i gydymffurfio â thelerau'r cynllun hwn) neu £315,000 o 2022-23 i 2024-25, gan gynnwys y blynyddoedd hynny (i gydymffurfio â gofynion rheoli cymorthdaliadau). Rhaid i fusnesau sy'n hawlio'r rhyddhad ddatgan nad yw'r swm a hawlir yn mynd y tu hwnt i'r terfynau hynny, cyn y gellir dyfarnu'r rhyddhad.

Mae angen i fusnesau ddatgan eu bod yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd a nodwyd yn y ddogfen ganllawiau hon a nodi ar gyfer pa eiddo y maent yn dymuno hawlio rhyddhad. Os yw 40% o'r atebolrwydd ar draws eiddo'r busnes yn fwy na £110,000 neu'r terfyn MFA, bydd angen i fusnesau nodi ar gyfer pa eiddo yr hoffent hawlio'r rhyddhad. Gall busnesau ddewis ar gyfer pa eiddo y byddant yn ceisio rhyddhad. Pan fydd cyfanswm y rhyddhad a ganiateir ar gyfer eiddo eraill yn agos i'r uchafswm o £110,000 neu'r terfyn MFA, gellir caniatáu swm o ryddhad sy'n llai na 40% ar gyfer eiddo cymwys arall.

Rhaid cyflwyno ffurflen gais i bob awdurdod lleol y mae'r busnes yn gwneud cais am ryddhad ar gyfer eiddo yn ei ardal. Rhaid i bob ffurflen gynnwys manylion pob eiddo y gwneir cais am ryddhad ar ei gyfer ar draws Cymru. Os na wneir cais, ni ellir rhoi rhyddhad.

Bydd unrhyw ymgais gan fusnes i wneud cais bwriadol i hawlio mwy na £110,000 o ryddhad yn ei roi mewn perygl o golli unrhyw ryddhad a roddwyd o dan y cynllun i'r busnes hwnnw gan unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru. Bydd gwybodaeth ar ryddhad a hawliwyd o dan y cynllun yn cael ei rhannu gydag awdurdodau lleol eraill a Llywodraeth Cymru, gan eu galluogi i adnabod unrhyw hawliau sy'n gyfanswm o fwy na £110,000 a gweithredu ar y rhain os oes angen.

Ni fydd Llywodraeth Cymru a [enw'r awdurdod lleol] yn goddef unrhyw ymgais gan fusnes i ffugio'u cofnodion na rhoi tystiolaeth ffug i gael y gostyngiad hwn. Mae hyn yn cynnwys hawlio cymorth sy'n fwy na'r uchafswm o £110,000 neu'r trothwy eithrio. Gall busnes sy'n gwneud cais ffug am unrhyw ryddhad, neu sy'n rhoi gwybodaeth ffug neu'n gwneud sylwadau ffug er mwyn cael rhyddhad, fod yn euog o dwyll o dan Ddeddf Twyll 2006 a gall wynebu camau cyfreithiol, yn ogystal â cholli unrhyw Ryddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch ar gyfer eu holl eiddo o dan gynllun 2024-25.

[Dylai awdurdodau lleol fel y rheolwyr data gynnwys datganiad preifatrwydd ar eu ffurflenni – gan alluogi rhannu data gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol eraill]

**Bydd angen i bob ymgeisydd ddarparu'r wybodaeth a ganlyn**

**Ydych chi'n gwneud cais am Ryddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch mewn mwy nag un ardal awdurdod lleol?**

**Os ydych, llenwch Rannau 1 a 2**

**Os nad ydych, llenwch Ran 1 yn unig**

**Rhan 1: Mae'r rhan hon yn berthnasol i bob ymgeisydd ac yn ymwneud â'r eiddo y maent yn hawlio Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch ar eu cyfer gan [enw'r awdurdod lleol]**

Enw a chyfeiriad y busnes: ...……………………………………………….

Rhif cofrestru'r cwmni (os yw'n berthnasol): ………………………………………………..

Enw'r ymgeisydd: ………………………………………………………………..

Rôl yr ymgeisydd yn y busnes (ee perchennog / cyfarwyddwr / ysgrifennydd y cwmni / cyfrifydd): ……………………………………….

Cyfeiriad e-bost yr ymgeisydd: …………………………………………………………………………

Rhif ffôn yr ymgeisydd: …………………………………………………………..

**Os ydych chi'n gwneud cais ar gyfer mwy nag un eiddo busnes, rhestrwch y rhain yn nhrefn blaenoriaeth ar gyfer derbyn rhyddhad, gan nodi mai'r uchafswm rhyddhad y gellir ei ganiatáu i fusnes yng Nghymru yw £110,000. Bydd rhyddhad yn cael ei roi ar gyfer eiddo yn y drefn yr ydych wedi'u nodi.**

Gellir dod o hyd i'r manylion angenrheidiol ar y bil Trethi Annomestig a anfonwyd atoch ar gyfer pob eiddo yr ydych yn dymuno hawlio rhyddhad ar ei gyfer.

| Cyfeiriad yr eiddo | Rhif Cyfrif Trethi Annomestig (Trethi Busnes) | Gwerth Trethadwy* |
|---|---|---|
| [Cyfeiriad yr eiddo] | | £ [efallai y gall awdurdodau lleol lenwi'r tabl yn awtomatig] |
| | | |
| | | |
| | | |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch a geisir yn [enw'r awdurdod lleol] (dim mwy na £110,000 ar draws Cymru)**<br><br>Cewch adael y rhan hon yn wag os nad yw Rhan 2 y cais hwn yn berthnasol i'ch busnes, neu os fydd uchafswm hawl eich busnes i ryddhad ar draws Cymru yn is na £110,000. Os oes angen ichi hawlio swm penodol o ryddhad gan [enw'r awdurdod lleol] i osgoi hawlio mwy na'r uchafswm o £110,000 ar gyfer eich busnes ar draws Cymru, rhaid ichi nodi hynny yma. | **£ [gall awdurdodau lleol gyfrifo uchafswm yn awtomatig, ond rhaid i'r ymgeisydd fedru gwneud cais am swm is i osgoi hawlio mwy na £110,000 ar draws Cymru]** |

*I ddarganfod eich gwerth trethadwy, gallwch nodi eich manylion yng ngwiriwr ar-lein Asiantaeth y Swyddfa Brisio.

**Rhan 2: Mae'r rhan hon yn berthnasol i fusnesau sy'n gwneud cais am ryddhad gan sawl awdurdod lleol yng Nghymru yn unig. Mewn achosion o'r fath, dylid gwneud cais ar wahân i bob awdurdod lleol.**

Eiddo mewn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, y mae Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch yn cael ei hawlio ar gyfer y busnes.

| Cyfeiriad | Awdurdod Lleol |
|---|---|
| [Cyfeiriad yr eiddo] | [Rhestr] |
| | |
| | |
| | |

**Datganiad:**

Rwy'n deall na all cyfanswm gwerth y rhyddhad a hawliwyd gan [ENW'R BUSNES] o dan y Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch ar draws Gymru gyfan fod yn fwy na £110,000 ac y bydd gwneud cais bwriadol i hawlio rhyddhad o dros £110,000 yn peryglu colli'r holl ryddhad a roddwyd o dan y cynllun. Rwy'n derbyn y cyfrifoldeb am roi gwybod i'm hawdurdod lleol am unrhyw newid mewn amgylchiadau, ar ôl cyflwyno fy nghais am ryddhad, a allai olygu bod y rhyddhad a roddwyd i'm busnes yn anghywir neu'n fwy na £110,000 ar draws Cymru (e.e. newid mewn gwerth trethadwy).

Rwy'n deall, os bydd rhyddhad o fwy na £110,000 yn cael ei roi am unrhyw reswm, y bydd cyfran ohono'n cael ei hawlio'n ôl, ar gyfer un eiddo neu ragor, i leihau gwerth y rhyddhad a roddwyd i £110,000 neu lai fel sy'n briodol. Rwy'n deall hefyd, os bydd rhyddhad o fwy na £110,000 yn cael ei roi o ganlyniad i ymgais fwriadol i hawlio mwy na'r uchafswm a ganiateir, y gellir dileu'r hawl i'r Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch cyfan a ganiateir ar gyfer [ENW'R BUSNES] ar draws Cymru, a bydd swm llawn yr atebolrwydd ardrethi yn daladwy.

Rwy'n deall y bydd y rhyddhad yn cael ei ddarparu fel cymhorthdal ar ffurf Cymorth Ariannol Lleiaf (MFA). Rwy'n cadarnhau na fyddaf, drwy hawlio'r rhyddhad hwn, yn derbyn cyfanswm o fwy na £315,000 o MFA dros dair blynedd (blynyddoedd ariannol 2022-23 i 2024-25, gan gynnwys y blynyddoedd hynny).

Rwy'n cydnabod y bydd fy awdurdod lleol, unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru a/neu Lywodraeth Cymru yn gwneud unrhyw wiriadau priodol i asesu'r cais hwn am ryddhad ardrethi, gan gynnwys croeswirio yn erbyn unrhyw wybodaeth sydd gan yr awdurdod, unrhyw awdurdod arall yng Nghymru neu Lywodraeth Cymru eisoes. Rwy'n deall y bydd y data yr wyf wedi'u darparu yn cael eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru ac, os oes angen, unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru at y diben hwn i atal twyll a chamgymeriadau.

Rwy'n datgan, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, bod yr wybodaeth a ddarperir yn y cais hwn yn wir ac yn gywir, ac rwy'n deall y gallai rhoi ateb ffug i unrhyw un o'r cwestiynau yn y cais hwn gael ei ystyried fel twyll.

Llofnod [xxx]

Enw [xxx]

Dyddiad [xx/xx/xxxx]

## CYNGOR SIR CEREDIGION

**Adroddiad i:** **Cabinet**

**Dyddiad y cyfarfod:** **19 Mawrth 2024**

**Teitl:** **Polisi Sicrwydd a Bondiau Corfforaethol**

**Pwrpas yr adroddiad:** **Cytuno ar ddiwygiadau i'r Polisi Sicrwydd a Bondiau Corfforaethol**

**Er:** **Penderfyniad**

**Portffolio'r Cabinet a'r Aelod Cabinet:**
**Y Cynghorydd Gareth Davies, Aelod Cabinet ar gyfer Cyllid a Chaffael**

**CEFNDIR**

Cymeradwyodd y Cabinet y polisi bondiau corfforaethol ar 5 Gorffennaf 2022. Cyflwynwyd y polisi i ganiatáu i swyddogion gael dull cyson o gymeradwyo bondiau gyda thrydydd partïon.

Mae'r polisi yn caniatáu i gontractwr neu ddatblygwr dalu premiwm i 'warantwr' i warantu cost darparu bond perfformiad. Yna mae'r 'gwarantwr' yn cymryd y cyfrifoldeb dros dalu arian y Cyngor os yw'r contractwr neu'r datblygwr yn methu â gwneud taliadau yn amodol ar y cytundeb a gytunwyd gyda'r Cyngor.

Mae'r polisi cyfredol yn nodi bod yn rhaid i 'warantwr' fod â isafswm sgôr credyd gydag un o'r tair asiantaethau sgôr credyd asiantaeth Moody's, Standard & Poor's a Fitch.

**CYNNIG**

Cynigir ychwanegu AM Best fel pedwerydd asiantaeth sgorio credyd i'r polisi. Mae AM Best yn asiantaeth statws credyd byd-eang sy'n arbenigo yn y diwydiant yswiriant. Cynigir y bydd graddiad hirdymor derbyniol o A- (Ardderchog) gydag AM Best yn darparu hyblygrwydd ychwanegol i gontractwyr/datblygwyr sy'n chwilio am ddarparwr 'gwarantwr' heb adael y Cyngor yn agored i unrhyw risg ychwanegol.

Os cytunir arno, bydd y polisi felly'n datgan bod yn rhaid i unrhyw 'warantwr' arfaethedig fod â isafswm sgôr credyd gydag un o'r pedair asiantaeth statws credyd isod.

| Asiantaeth Statws Credyd | Isafswm Sgôr Credyd Tymor Hir |
|---|---|
| Moody's | A3 |
| Standard & Poor's | A- |
| Fitch | A- |
| AM Best | A- |

Mae'r polisi diwygiedig arfaethedig ynghlwm fel Atodiad 1.

Cynigir hefyd i bwerau gael eu dirprwyo i'r Swyddog Adran 151 (Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael) i;

- wneud mân newidiadau i'r Polisi Sicrwydd a Bondiau Corfforaethol a,
- dderbyn 'gwarantwr' arfaethedig lle na ellir caffael un gyda sgôr credyd addas gydag un o'r pedair asiantaeth statws credyd. Bydd gwybodaeth ariannol sydd ar gael i'r Cyngor yn cael ei defnyddio i lywio'r penderfyniad hwn fesul achos.

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**
**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam**

Na – gwelliant i'r polisi presennol.

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**
**Hirdymor:** AMH
**Cydweithio:** AMH
**Cynnwys:** AMH
**Atal:** AMH
**Integreiddio:** AMH

**Argymhelliad / Argymhellion:**
**Argymhellir bod y Cabinet yn cymeradwyo:**

a) **Ychwanegu AM Best fel asiantaeth sgôr credyd i'r polisi**

b) **Dirprwyo pwerau i'r Swyddog Adran 151 i;**

   i. **wneud mân newidiadau i'r Polisi Sicrwydd a Bondiau Corfforaethol**
   ii. **dderbyn 'gwarantwr' arfaethedig lle na ellir caffael un gyda sgôr credyd addas gydag un o'r pedair asiantaeth statws credyd.**

**Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:**
**Darparu hyblygrwydd ychwanegol i gontractwyr/datblygwyr sy'n chwilio am ddarparwr 'bondiau' heb adael y Cyngor yn agored i unrhyw risg ychwanegol.**

**Trosolwg a Chraffu:**
Ystyriwyd y polisi gwreiddiol gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 21 Mehefin 2022

**Fframwaith Polisi:**
Polisi Sicrwydd a Bondiau Corfforaethol

**Amcanion Llesiant Corfforaethol:**
Hybu'r economi

**Goblygiadau Cyllid a Chaffael:**
Cynnal diogelwch adnoddau ariannol.
Galluogi proses gaffael llyfnach trwy ganiatáu mwy o hyblygrwydd i gontractwyr wrth gaffael bondiau.

**Goblygiadau cyfreithiol:**
Dim

**Goblygiadau staffio:**
Dim

**Goblygiadau eiddo / asedau:**
Dim

**Risg(au):**
Cynnal diogelwch adnoddau ariannol.

**Pwerau Statudol:**
Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1972

**Papurau Cefndir:**
Dim

**Atodiadau:**
Atodiad 1 - Polisi Sicrwydd a Bondiau Corfforaethol wedi'i ddiweddaru

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:**
Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael

**Swyddog Adrodd:**
Justin Davies, Rheolwr Corfforaethol: Cyllid Craidd

**Dyddiad:**
4 Mawrth 2024

**Cyngor Sir CEREDIGION County Council**

**Cyllid a Chaffael a Phriffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol | Finance and Procurement and Highways and Environmental Services**

# Polisi a Gweithdrefnau

# Bondiau a Sicrwydd

Mawrth 2024

## Rheoli Fersiynau

| Fersiwn | Dyddiad | Awdur | Sylw |
|---|---|---|---|
| 1.1 | Mawrth 2024 | Cyllid | Ychwanegu *AM Best* fel asiantaeth Sgorio Credyd derbyniol ar gyfer bondiau heb gymorth arian parod. |
| 1.0 | Mehefin 2022 | Cyllid | Mewnbwn y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu a Phriffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol |

# Cynnwys

Polisi ........................................................................................................ 4

1. Cyflwyniad ........................................................................................................ 4
2. Pwrpas y Polisi hwn ........................................................................................ 4

Gweithdrefn ........................................................................................................ 6

3. Cyflwyniad ........................................................................................................ 6

# Polisi

## 1. Cyflwyniad

1.1 Er mwyn sicrhau bod dull clir o weithredu yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cymeradwyo gwarantwr, mae Cyngor Sir Ceredigion yn bwriadu i'r polisi hwn gael ei weithredu gan swyddogion er mwyn lleihau'r risg i'r Cyngor a sicrhau bod dull teg a chyson o weithredu yn cael ei fabwysiadu ym mhob achos.

## 2. Pwrpas y Polisi hwn

2.1 Pwrpas y polisi hwn yw sicrhau bod y Cyngor yn dilyn y drefn gywir pan fo’r Cyngor angen Bond Perfformiad (a elwir weithiau yn Fond Gwarant Adeiladu) gan gontractwr mewn perthynas â chontractau a ddyfarnwyd gan y Cyngor yn unol â’i Reolau Gweithdrefn Contractau. Mae'r bond yn rhoi amddiffyniad i'r Cyngor rhag unrhyw golledion ac iawndal a gafwyd o ganlyniad i fethiant y parti contractio i gyflawni ei rwymedigaethau cytundebol.

2.2 Bydd y polisi'n berthnasol i unrhyw fond sydd ei angen ar y Cyngor gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, fondiau contractau fel y cyfeirir atynt uchod, bondiau sy'n ymwneud â Chytundebau adran 38/278 a Chytundebau Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau) fel y manylir isod.

2.3 Mae’r Cyngor yn llunio Cytundebau Adran 38/278 (Deddf Priffyrdd 1980) gyda datblygwr pan fo’r datblygwr hwnnw eisiau adeiladu ffordd ystâd newydd ar gyfer traffig diwydiannol, preswyl neu gyffredinol ac yn dymuno cynnig y ffordd honno i’r Cyngor ei mabwysiadu fel priffordd gyhoeddus. Mae mechnïwr/gwarantwr yn llunio Cytundeb adran 38/278 ochr yn ochr â'r datblygwr fel y gall y Cyngor ddefnyddio'r bond i sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud i gwblhau ffyrdd ystadau i'r safon briodol os na fydd y datblygwr yn bodloni ei ofynion cytundebol.

2.4 Mae’r Cyngor yn llunio Cytundebau SDCau (Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 a deddfwriaeth ddilynol a wnaed yn unol â hi) gyda datblygwr pan fydd yn rhaid i’r datblygwr hwnnw adeiladu systemau draenio cynaliadwy fel rhan o’u datblygiad y gellir eu mabwysiadu gan y Cyngor fel y Corff Cymeradwyo SDCau. Yn debyg i Gytundebau adran 38/278, mae mechnïwr/gwarantwr yn llunio Cytundeb y SDCau ochr yn ochr â'r datblygwr fel y gall y Cyngor alw'r bond i mewn

a'i ddefnyddio i wneud y gwaith hyd at safon fabwysiadwy os na fydd y datblygwr yn bodloni ei ofynion cytundebol o dan y cytundeb.

2.5 Bydd y Cyngor yn gyfrifol am nodi gwerth y Bond sydd ei angen (ac unrhyw gynnydd blynyddol ar gyfer chwyddiant neu unrhyw gynnydd penodol arall fel y bo'n briodol gan y Cyngor) a hefyd nodi gwerth ac amseriad unrhyw ryddhad rhannol drwy gydol cyfnod y contract/cytundeb sy'n berthnasol i'r bond.

# Gweithdrefn

## 3. Cyflwyniad

Cyn i'r Cyngor lunio unrhyw gontract/cytundeb sydd â bond a ddarperir gan 3ydd parti ac eithrio bondiau a gefnogir gan arian parod), bydd y swyddog(ion) sy'n delio â'r contract/cytundeb yn cyfeirio manylion y mechnïwr/gwarantwr arfaethedig a swm y bond i'r Gwasanaethau Cyllid a Chaffael am wiriad diwydrwydd dyladwy. Yn dilyn y gwiriad diwydrwydd dyladwy bydd y Gwasanaeth Cyllid a Chaffael yn cadarnhau i'r swyddog(ion) perthnasol a yw'r mechnïwr/gwarantwr wedi'i gymeradwyo dan ddarpariaethau'r polisi hwn. Manylir isod ar y mathau o fondiau a'r mathau o fechnïwyr/gwarantwyr sy'n dderbyniol i'r Cyngor.

### 3.1 Bondiau a gefnogir gan Arian Parod

Mae'r Cyngor yn ffafrio derbyn bond a delir mewn 'arian parod'. Byddai unrhyw fond arian parod yn cael ei dalu i'r Cyngor yn unol â thelerau'r contract/cytundeb y mae'r bond yn ymwneud ag ef. Pan fodlonir y gofynion cytundebol bydd y bond yn cael ei ad-dalu, gyda llog wedi'i ychwanegu, i'r contractwr neu'r datblygwr – gallai hyn ddigwydd mewn taliadau fesul cam yn dibynnu ar y cytundeb sydd yn ei le. Os nad yw'r contractwr neu'r datblygwr yn cwrdd â'r gofynion cytundebol, yna gall y Cyngor ddefnyddio'r bond ynghyd â'r llog i sicrhau bod y gofynion yn cael eu cyflawni. Y bond sy'n seiliedig ar arian parod yw'r ffordd hawsaf a mwyaf diogel i'r Cyngor sicrhau bod arian ar gael yn rhwydd a fydd yn arwain at gwblhau gwaith.

### 3.2 Bondiau nad ydynt yn cael eu Cefnogi gan Arian Parod

Os nad oes bond wedi'i gefnogi gan arian parod ar gael, fe fydd y Cyngor yn derbyn bond a warantwyd gan drydydd parti - cyfeirir at y rhain yn gyffredin fel bondiau sicrwydd ac fe'u llunnir ar yr un pryd â'r contract/cytundeb gyda'r Cyngor. Mae'r contractwr neu'r datblygwr yn talu premiwm i 'warantwr' i warantu cost darparu bond. Mae'r 'gwarantwr' yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb o dalu arian i'r Cyngor os yw'r contractwr neu'r datblygwr yn diffygdalu, neu'n methu â gwneud taliadau yn amodol ar y cytundeb cytundebol gyda'r Cyngor.

Er mwyn cael eu hystyried yn 'warantwyr' derbyniol, rhaid bod ganddynt isafswm sgôr credyd hirdymor o gydag o leiaf un o'r pedair asiantaeth statws credyd fel y dangosir yn y tabl isod,

| Asiantaeth Statws Credyd | Isafswm Sgôr Credyd Hirdymor |
|---|---|
| Moody's | A3 |
| Standard & Poor's | A- |
| Fitch | A- |
| AM Best | A- |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

# CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

**Adroddiad i'r:** **Cabinet**

**Dyddiad y cyfarfod:** **19/03/24**

**Teitl:** **Cyllideb Refeniw Reoladwy 23/24 - Perfformiad Ariannol – Chwarter 3**

**Pwrpas yr adroddiad:** **Rhoi adroddiad am y Gyllideb Refeniw 23/24 – y sefyllfa wirioneddol hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2023 a'r sefyllfa a ragwelir ddiwedd y flwyddyn**

**Er:** **Gwybodaeth**

**Portffolio'r Cabinet a'r Aelod Cabinet:**
**Y Cynghorydd Gareth Davies, Aelod Cabinet ar gyfer Cyllid a Chaffael**

## 1. CRYNODEB

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet ynghyn â pherfformiad ariannol pob Gwasanaeth mewn perthynas â Chyllideb Refeniw Reoladwy 23/24. Mae'r cyllidebau ar gyfer pob Gwasanaeth yn cael eu monitro'n a'u hadolygu'n rheolaidd, er mwyn asesu amseriad yr incwm a gwariant, yn ogystal ag asesu'r sefyllfa a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn a sicrhau bod camau cyweiriol yn cael eu cymryd lle bo hynny'n bosibl ac fel y bo'n briodol.

Ar adeg chwarter 3 o'r flwyddyn, mae'r sefyllfa ariannol yn dal i fod yn heriol iawn, ond mae'r sefyllfa wedi gwella ers chwarter 2. Bellach fe ragwelir y bydd y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yn seiliedig ar amcangyfrif gorwariant o £1.5m (sef 0.8% o'r gyllideb refeniw 23/24 o £180.1m) ar ôl cymryd i ystyriaeth y camau lliniaru amrywiol. Mae hyn yn welliant sylweddol o'r sefyllfa yn Ch2, a oedd yn rhagweld gorwariant o £2.7m, ac mae'n bennaf oherwydd y camau a gymerwyd gan y Grŵp Arweiniol a'r holl ddeiliaid Cyllideb i liniaru'r sefyllfa yn ystod y flwyddyn - gan gynnwys gwneud y defnydd mwyaf o gyllid allanol a rheoli swyddi gwag.

Mae'r prif heriau'n parhau heb eu newid, sy'n cynnwys:

- Dyfarniadau Cyflog Cenedlaethol yn cael eu cynyddu ac yn rhy ddrud.
- Cynnydd sylweddol yng nghostau Cludiant Dysgwyr o'r Cartref a'r Ysgol.
- Cynnydd sylweddol yn nifer y lleoliadau i Blant y Tu Allan i'r Sir.
- Costau sylweddol yn ymwneud â staff asiantaeth yng Nghartrefi Preswyl ein Hawdurdod Lleol, y gwasanaeth Galluogi a rolau Gweithwyr Cymdeithasol statudol.
- Cynnydd sylweddol yn nifer y lleoliadau Gofal Cymdeithasol i Bobl Hŷn.

Mae gan y Cyngor fantolen ariannol gydnerth, gyda £48.8m o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a £6.7m mewn Balansau Cyffredinol ar 31/03/23. Felly, mae digon o le i allu lliniaru'r sefyllfa hon yn ystod y flwyddyn, fodd bynnag, mae llawer o'r

pwysau o ran costau yn ystod y flwyddyn wedi ymddangos yn rhan o'r broses Pennu Cyllideb 24/25 fel heriau'r gyllideb sylfaenol parhaus.

I gydnabod y sefyllfa ariannol, rhoddodd y Grŵp Arweiniol ddull rheoli ariannol rhagweithiol iawn ar waith ym mis Awst, ar ôl derbyn mewnbwn a chyngor gan swyddog Adran 151. Roedd hyn yn cynnwys mesurau yn amrywio o ddefnyddio rhai cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi, gofyn i wasanaethau amrywiol wneud arbedion yn ystod y flwyddyn a rhoi rheolaethau ariannol ar waith ar wariant a recriwtio (gan gydnabod serch hynny bod angen bodloni'r rhwymedigaethau craidd sy'n rhai statudol, contractiol a rhai sy'n bodoli eisoes). Mae'r camau hyn wedi gwella'r sefyllfa ar gyfer Ch3 ac mae'r gwaith yn parhau gyda'r nod o wella'r sefyllfa ymhellach erbyn diwedd y flwyddyn, lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

## 2. PERFFORMIAD Y GYLLIDEB – PRIF HERIAU

Mae'r adran ganlynol yn ehangu ymhellach ar y 5 prif faes o bwysau sylweddol o ran cost:

i) Cafodd y cynnig cyflog 23/24 ar gyfer staff cyffredinol ei dderbyn yn derfynol gan yr Undebau yn yr Hydref (£1,925 hyd at SCP43 a 3.88% yn uwch na'r lefel honno) ac fe'i gweithredwyd ym mis Tachwedd 2023. Mae'r gost â amcangyfrifwyd yn gost gros ychwanegol o £894k, sydd, ar ôl ffactora'r £360k o arian wrth gefn, yn gadael £534k i'w liniaru yn ystod y flwyddyn trwy gronfeydd wrth gefn. Mae'r canlyniad parhaus hyn wedi'i gydnabod yn y gyllideb sylfaenol trwy Broses Pennu'r Gyllideb 24/25.

ii) Mae cost darparu cludiant statudol i ddysgwyr o'r cartref i'r ysgol wedi cynyddu 43% mewn perthynas â chontractau newydd sy'n cael eu tendro'n gystadleuol ar gyfer gwasanaethau o fis Medi 2023 ymlaen. Mae hyn wedi creu pwysau o ran cost ag effaith rhan o'r flwyddyn o £543k (ac effaith blwyddyn lawn ar gyfer proses gyllideb 24/25 o £839k). Bydd hyn yn cael ei liniaru o gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi eleni ac yna mae wedi'i gydnabod ym Mhroses y Gyllideb 24/25.

iii) Lleoliadau Plant y Tu Allan i'r Sir – Fel yn Ch3 bu cynnydd o 13 lleoliad preswyl o'i gymharu â phan osodwyd y Gyllideb 23/24. Mae hyn yn arwain at orwariant net a ragwelir o tua £1.9m a chyfanswm gwariant o tua £6.8m (cynnydd o £134k dros Ch2).

iv) Mae'r defnydd o staff asiantaeth mewn Cartrefi Preswyl wedi cynyddu'n sylweddol o'i gymharu â 22/23 oherwydd heriau parhaus o ran recriwtio ar gyfer rolau Gweithwyr Gofal a Chymorth, nad ydynt wedi'u helpu ymhellach gan frigiadau o achosion o COVID sy'n dal i ddigwydd. Dyma'r ffactor pennaf o fewn gorwariant net o £256k mewn Gwasanaethau Uniongyrchol o dan Porth Gofal. Mae costau pellach o ran staff asiantaeth ar gyfer rolau Gweithiwr Cymdeithasol statudol hefyd yn arwain at gostau ychwanegol mewn mannau eraill ar draws Porth Gofal a Porth Cynnal.

v) Lleoliadau i Bobl Hŷn – Mae gorwariant o £1.3m yn cael ei ragamcanu oherwydd cynnydd uwch na'r arfer yn niferoedd lleoliadau, yn enwedig rhwng Ch4 22/23 a Ch1 23/24.

Ar hyn o bryd mae tanwariant yn y gwasanaeth Cyllid a Chaffael - lle rhagwelir tanwariant o £2.4m (yn bennaf oherwydd bod gweithgarwch rheoli'r Trysorlys ar y

trywydd iawn i sicrhau budd o £1.95m) a'r Gwasanaeth Ysgolion a Dysgu Gydol Oes - lle rhagwelir tanwariant o £767k (yn bennaf oherwydd budd a gwneud y mwyaf o gyfleoedd cyllid grant).

Mae'r tybiaethau ariannol sydd eisoes wedi'u cynnwys yn y gorwariant a ragwelir o £1.5m yn cynnwys:

| **Tybiaeth** | **£'000** |
|---|---|
| Defnyddio Cronfa Wrth Gefn y Pwysau Cost a Chwyddiant | 1,178 |
| Defnyddio'r Gronfa Wrth Gefn Hapddigwyddiadau a Rheoli'r Gyllideb | 1,260 |
| Defnyddio Cronfa Wrth Gefn Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach (gan gynnwys £550k o'r £1m a glustnodwyd ar gyfer cymorth trosiannol mewn perthynas â Hafan y Waun) | 1,075 |
| Defnydd llawn o'r Gronfa Wrth Gefn a neilltuwyd ar gyfer Cyflogau / Ynni | 360 |
| **CYFANSWM** | **3,863** |

Mae hyn yn dangos pa mor heriol yw'r sefyllfa ariannol sylfaenol yn ystod y flwyddyn o hyd. Heb ddefnyddio'r mesurau lliniaru hyn, byddai'r sefyllfa'r gorwariant a ragwelir yn sylweddol uwch.

Mae'r holl Wasanaethau (ac eithrio Cyllidebau Ysgolion Dirprwyedig, sy'n gyfrifoldeb Cyrff Llywodraethu unigol) yn gwbl ymwybodol o'r fframwaith ariannol a'r rheolaethau a roddwyd ar waith ym mis Awst. Bwriedir i'r dull hwn o weithredu arafu, oedi neu gwtogi dros dro wariant nad yw'n hanfodol, tra'n cydnabod ar yr un pryd y bydd angen cyflawni rhwymedigaethau craidd sy'n statudol, contractiol a rhai sy'n bodoli eisoes o hyd..

## 3. PERFFORMIAD Y GYLLIDEB – SEFYLLFAOEDD GWASANAETHAU

Mae'r Cyllidebau Diweddaraf 23/24 yn adlewyrchu'r hyn a gynhwyswyd ac a gymeradwywyd yn adroddiadau Pennu'r Gyllideb 24/25 i'r Cyngor Llawn ar 29/02/24. Ni fu unrhyw symudiadau pellach i'r Gyllideb ac mae'r Dyfarniad Cyflog Staff Cyffredinol 23/24 bellach yn cael ei adlewyrchu'n llawn.

Er gwaethaf y meysydd mwy arwyddocaol o bryder sydd eisoes wedi'u hamlygu, mae nifer o wasanaethau sydd hefyd yn wynebu heriau eraill, er ei fod yn llai o faint. Mae'r rhain yn cynnwys cost Plant ar eu pen eu hunain sy'n Ceisio Lloches, incwm ffioedd cynllunio, incwm Gwastraff Masnach, costau gweithredol rheng flaen Casglu Gwastraff, incwm parcio ceir, incwm cysylltiedig ag eiddo, prisiau tendr Byw â Chymorth a niferoedd lleoliadau Anabledd Dysgu / Anabledd Corfforol.

Y prif feysydd newid sy'n arwain at welliant o tua £1.2m o Ch2 yw:

- Cyllid a Chaffael - mae tanwariant rhagamcanol wedi cynyddu £380k i £2.4m ychwanegol (cyfuniad o danwariant Rheoli'r Trysorlys a thanwariant Gwasanaeth craidd).

- Ysgolion a Dysgu Gydol Oes - mae tanwariant rhagamcanol wedi cynyddu £394k arall i £767k (yn bennaf, oherwydd y budd a gwneud y mwyaf o gyfleoedd cyllido allanol).
- Gwasanaethau Pyrth Gydol Oes - mae gorwariant rhagamcanol wedi gostwng £363k i £3.1m (yn bennaf oherwydd budd a gwneud y mwyaf o gyfleoedd cyllido allanol, ynghyd ag arwyddion cynnar o gostau asiantaethau yn gostwng yn y rhan fwyaf o'n Cartrefi Gofal Preswyl a gostyngiad mewn costau sy'n gysylltiedig â phecyn Gofal Cartref cymhleth iawn).

Roedd Cyllideb 23/24 yn cynnwys £3m o arbedion o dan y rhaglen Gwneud Pethau yn Wahanol: Dull Corfforaethol o weithredu. Mae statws BRAG cyfredol y ffrydiau gwaith fel a ganlyn:

| | | £'000 | |
|---|---|---|---|
| Glas | Cwblhawyd | 1,500 | 49% |
| Gwyrdd | Ar y trywydd iawn | 821 | 27% |
| Oren | Yn rhannol ar y trywydd iawn ond gyda rhai problemau | 461 | 15% |
| Coch | Ddim ar y trywydd iawn a/neu broblemau mawr | 253 | 8% |
| | | **3,035** | |

I grynhoi, mae £2.3m (76%) naill ai wedi'i gwblhau'n llawn neu ar y trywydd iawn. Nid yw'r ffrydiau gwaith sy'n Oren neu Goch yn achosi gorwariant yn ystod y flwyddyn i ddigwydd gan fod mesurau lliniaru ad-daliadol eraill ar waith naill ai yn y gwasanaethau priodol neu'n gorfforaethol (e.e. o'r grant ôl-ddyddiedig untro a adroddwyd yn Ch2, bydd £0.5m ohono yn cael ei drin yn gorfforaethol yng nghyllideb y Grŵp Arweinyddiaeth). Yr Adolygiad o Gludiant i Ddysgwyr yw'r ffrwd waith sy'n wynebu'r her fwyaf, er bod rhywfaint o arbedion naturiol wedi bod mewn siwrneiau sy'n ymwneud ag ADY sydd wedi cyflawni 37% (£147k) o'r arbedion o £400k a dargedwyd yn y maes hwn. Mae heriau mewn ffrydiau gwaith eraill, ond yn gyffredinol mae'r rhain yn ymwneud ag amserlenni cyflawni sy'n cymryd llawer o amser na'r disgwyl ac mae'r proffil cyflawni ariannol gwreiddiol yn rhy optimistaidd.

Dangosir dadansoddiad o sefyllfa 23/24 y Gyllideb Reoladwy fesul Gwasanaeth drosodd, gydag esboniad a manylion pellach wedyn yn Atodiadau A i N:

| Gwasanaeth | Y Gyllideb Ddiweddaraf £'000 | Cyllideb hyd at Rhagfyr 2023 £'000 | Gwir wariant hyd at Rhagfyr 2023 £'000 | *Amrywiant hyd at Rhagfyr 2023 £'000* | *Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant £'000* | | Sylw |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyswllt Cwsmeriaid a TGCh | **6,490** | 4,659 | 4,483 | *175* | | **-** | Disgwylir gan y gwasanaeth bydd y gyllideb yn mantoli yn ystod y flwyddyn ariannol 2023/24. |
| Gwasanaethau Democrataidd | **5,023** | 3,760 | 3,616 | *144* | | ***50*** | Ar yr adeg hon o'r flwyddyn, nid oes problemau wedi'u nodi. |
| Economi ac Adfywio | **3,966** | 2,599 | 2,819 | *(220)* | | **-** | Nid yw'r targedau incwm ar gyfer ffioedd Cynllunio a rhentu swyddfeydd yn cael eu gwireddu'n llawn. Fodd bynnag caiff hyn ei osod yn erbyn yr arbedion dros dro yn y gwasanaeth Twf & Menter gan fod strwythur staffio newydd yn cael ei sefydlu ar hyn o bryd. Felly nod y Gwasanaeth yw adennill y costau yn gyffredinol gyda rhywfaint o gymorth o'r cronfeydd wrth gefn er mwyn unioni'r diffyg a ragwelir yn y ffioedd cynllunio. |
| Cyllid a Chaffael | **18,982** | 16,406 | 14,045 | *2,361* | | ***2,400*** | Disgwylir gan y gwasanaeth y byddant wedi tanwario ar gyfer y flwyddyn, yn bennaf o'r arbedion rheoli Trysorlys o ganlyniad i fanteision cynnydd mewn cyfraddau llog o ran Incwm Buddsoddi ac ni ymgymerwyd â benthyciadau allanol yn y flwyddyn hyd yma. |
| Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol | **19,414** | 13,421 | 13,024 | *397* | | **-** | Mae'r Gwasanaeth yn parhau i wynebu pwysau costau/incwm amrywiol hyd at y cam chwater 3 o'r flwyddyn ariannol yma, ond efo cefnogaeth Corfforaethol am costau uwch Trafnidiaeth Ysgolion, ac ailystyriaeth y strategaeth gwariant am y flwyddyn ariannol llawn, disgwylir bydd gyllideb y wasanaeth yn mantoli erbyn diwedd 2023/24 . |
| Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu | **1,659** | 1,235 | 1,231 | *4* | | **-** | Ar yr adeg hon o'r flwyddyn, nid oes problemau wedi'u nodi. |
| Pobl a Threfniadaeth | **2,341** | 1,237 | 1,270 | *(33)* | | ***(35)*** | Mae costau pensiwn yn rhagamcanu gorwariant diwedd blwyddyn. |
| Polisi, Pherfformiad a Amddiffyn y Cyhoedd | **2,495** | 1,858 | 1,661 | *197* | | ***110*** | Ar yr adeg hon o'r flwyddyn, nid oes problemau wedi'u nodi a rhagwelir tanwariant bellach oherwydd cyfuniad o gyllid grant ychwanegol a thanwariant ar gyllidebau cyflogai. |

Parhad...

| Gwasanaeth | Y Gyllideb Ddiweddaraf £'000 | Cyllideb hyd at Rhagfyr 2023 £'000 | Gwir wariant hyd at Rhagfyr 2023 £'000 | *Amrywiant hyd at Rhagfyr 2023 £'000* | *Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant £'000* | | Sylw |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau Gydol Oed y Pyrth** | | | | | | | |
| Porth Cymorth Cynnar | **4,111** | 3,672 | 3,529 | *143* | 241 | | Ar adeg hon y flwyddyn, mae'r Gwasanaeth yn disgwyl cynnydd yn y tanwariant, yn bennaf oherwydd grantiau ychwanegol yn y maes Cymorth Cynnar a Cymorth ac Ymyrraeth ac mae sefyllfa y canolfannau llesiant wedi gwella sy'n cynnwys agoriad y Ganolfan Newydd yn Llanbedr Pont Steffan |
| Porth Cynnal | **33,731** | 27,404 | 29,888 | *(2,484)* | (2,909) | | Mae'r gwasanaeth yn ymdrin yn bennaf ag achosion a lleoliadau cymhleth haen uwch. Rydym yn gweld pwysau costau o ganlyniad i gostau uwch a/ neu niferoedd uwch ym meysydd Lleoliadau Pobl Hŷn, Cefnogi Byw, lleoliadau Anableddau Dysgu ac Anableddau Corfforol a chostau staff Asiantaeth. Mae cyfanswm hyn yn arwain at ragweld gorwariant o £2.9m ar gyfer y flwyddyn. |
| Porth Gofal | **15,501** | 11,033 | 11,338 | *(305)* | (458) | | Mae gofal cymdeithasol yn parhau i wynebu heriau recriwtio, er bod amodau a thelerau'r Cyngor yn gymharol deniadol. O ganlyniad mae defnydd o sylweddol staff asiantaeth yng Nghartrefi Gofal yr Awdurdod Lleol, y Gwasanaeth Galluogi a rolau Gweithwyr Cymdeithasol critigol ar y rheng flaen. Mae cryn tanwariant mewn Gofal Cartref yn sgil trefniadau contract newydd yn weithredol o ddiwedd mis Gorffennaf. Fodd bynnag mae cost achos Galluogi cymhleth wedi ei osod yn erbyn rhan fwyaf o hyn. Yn gyffredinol ar hyn o bryd rhagwelir gorwariant cychwynnol o £458k. |
| **Gwasanaethau Gydol Oed y Pyrth** | **53,343** | **42,109** | **44,755** | ***(2,646)*** | | ***(3,126)*** | |

Parhad...

| Gwasanaeth | Y Gyllideb Ddiweddaraf £'000 | Cyllideb hyd at Rhagfyr 2023 £'000 | Gwir wariant hyd at Rhagfyr 2023 £'000 | *Amrywiant hyd at Rhagfyr 2023 £'000* | *Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant £'000* | | Sylw |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgolion a Dysgu Gydol Oes | **56,788** | 56,294 | 55,645 | *649* | | ***767*** | Mae'r Gwasanaeth yn amcan tanwariant yn bennaf oherwydd grantiau ychwanegol o fewn Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes. |
| Arweiniol | **4,652** | 2,471 | 3,078 | *(607)* | | ***(1,670)*** | Er bod rhai arbedion o ran ffrydiau gwaith o fewn y flwyddyn nad ydynt hyd yma'n cyflawni'n llawn y targedau a osodwyd yn wreiddiol, mae hyn bellach yn cael ei wrthbwyso gan ennill unwaith ac am byth ar grant ôl-ddyddiedig. Yr her fwyaf yw cynnydd cyflymach yn nifer a chyfanswm cost lleoliadau Plant y tu allan i'r Sir gan y rhagwelir y bydd yn cyrraedd cyfanswm gwariant gros ar gyfer 23/24 o £6.8m (sy'n golygu gorwariant o ragwelir o £1.9m). |
| Ardollau, Premiwm Treth y Cyngor a Chronfeydd | **4,948** | 3,652 | 3,652 | - | | **-** | Mae diffyg cyffredinol o £534k ar y Dyfarniad Cyflog Staff Cyffredinol 23/24 (ar ôl caniatáu ar gyfer y Gronfa Wrth Gefn o £360k). Mae hyn i'w ariannu o arian a roddir o'r neilltu mewn cronfeydd wrth gefn at y diben hwn. |
| | | | | | | | |
| **Cyfanswm y Gyllideb Reoladwy** | **180,101** | **149,701** | **149,279** | ***421*** | | **(1,504)** | |

## 4. CASGLIAD

Mae dyfarniadau cyflog staff a chwyddiant ar brisiau contractau (refeniw a chyfalaf) yn parhau'n. Mae lefel cymhlethdod a nifer y lleoliadau / achosion heriol o fewn Gofal Cymdeithasol ac hefyd Addysg yn parhau i ddangos tuedd ar i fyny yn ystod y flwyddyn, fodd bynnag, mae arwyddion cynnar bod hyn yn dechrau arafu ar gyfer lleoliadau preswyl i blant y tu allan i'r sir. Mae'r her recriwtio yn dal i fod yn arbennig o amlwg mewn gofal cymdeithasol rheng flaen (gan fod y rolau Gweithiwr Cymdeithasol statudol a'r rolau Gweithwyr Gofal a Chymorth yn hanfodol yn ein Cartrefi Gofal) gyda'r defnydd a chost staff asiantaeth yn y meysydd hyn yn dal i fod yn sylweddol.

Mae gwasanaethau a'u deiliaid cyllideb wedi ymateb i'r her yn ystod y flwyddyn sy'n ofynnol ganddynt gan y swyddog Adran 151 a'r Grŵp Arweiniol ac mae'r gwelliant o tua £1.2m rhwng Ch2 a Ch3 yn gyflawniad sylweddol. Mae'r Grŵp Arweiniol hefyd wedi gofyn i SAC a'u Rheolwyr barhau i chwilio am gyfleoedd pellach i wella'r sefyllfa yn ystod Ch4, er mwyn targedu gwell sefyllfa erbyn diwedd y flwyddyn i leihau'r gorwariant a ragwelir o £1.5m lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**
**A oes asesiad effaith integredig wedi'i gwblhau? Os na, nodwch pam.**

Na

**Crynodeb o Asesiad Effaith Integredig:**

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | Amherthnasol |
| **Cydweithio:** | Amherthnasol |
| **Cynnwys:** | Amherthnasol |
| **Atal:** | Amherthnasol |
| **Integreiddio:** | Amherthnasol |

**Argymhelliad(au):**
**Nodi'r sefyllfa refeniw gyffredinol a amlinellir yn yr adroddiad.**

**Rhesymau dros y penderfyniad:**
**Cydnabod y sefyllfa ariannol a sicrhau bod y mesurau cywir yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni sefyllfa ariannol fantoledig ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24.**

**Trosolwg a Chraffu:**
Ystyriwyd yn ystod y broses o bennu'r gyllideb

**Fframwaith Polisi:**
Strategaeth Ariannol Tymor Canolig

**Amcanion Llesiant Corfforaethol:**
Mae'r Gyllideb yn cefnogi Amcanion Strategol y Cyngor

**Goblygiadau Cyllid a Chaffael:**
Nodwyd yn yr adroddiad

**Goblygiadau cyfreithiol:**
Rhan o rôl a chyfrifoldeb swyddog Adran 151 am weinyddu materion ariannol y Cyngor yn briodol o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1972. Yn yr un modd â Ch1 a Ch2, mae'r adroddiad hwn yn cynnwys cyngor allweddol a ddarperir gan swyddog Adran 151 oherwydd y sefyllfa ariannol heriol yn ystod y flwyddyn sy'n cael ei hwynebu.

**Goblygiadau staffio:**
Mae lefelau uchel parhaus o Ddyfarniadau Cyflog yn parhau i beri risg o fod angen adolygu blaenoriaethau'r Cyngor a Gwasanaeth.

**Goblygiadau eiddo / asedau:**
Amherthnasol

**Risg(au):**
Risg o gyllid annigonol os oes gorwariant sylweddol.

Mae'r sefyllfa 23/24 yn ystod y flwyddyn wedi bod yn hynod heriol ac mae llawer o'r materion ariannol yn llifo'n syth i mewn i'r broses Cyllideb 24/25. Mae'r sgôr risg ariannol wedi'i chynyddu'n ffurfiol i'r sgôr uchaf posibl o 25 yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

**Papurau Cefndir:**
Cyllideb Refeniw 2023/24

**Atodiadau:**
Atodiad A: Cyswllt Cwsmeriaid & TGCh
Atodiad B: Gwasanaethau Democrataidd
Atodiad C: Economi ac Adfywio
Atodiad D: Cyllid a Chaffael
Atodiad E: Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol
Atodiad F: Gwasanaeth Cyfreithiol a Llywodraethu
Atodiad G: Pobl a Threfniadaeth
Atodiad H: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd
Atodiad I: Porth Cymorth Cynnar
Atodiad J: Porth Cynnal
Atodiad K: Porth Gofal
Atodiad L: Ysgolion a Dysgu Gydol Oes
Atodiad M: Grŵp Arweiniol
Atodiad N: Ardollau, Premiwm Treth y Cyngor a Chronfeydd Wrth Gefn

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:**
Duncan Hall - SAC: Cyllid a Chaffael

**Swyddog Adrodd:**
Duncan Hall, Justin Davies a Kirsty Dawson

**Dyddiad:**
26/02/24

## Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Rhagfyr 2023 / Budget Forecast Report December 2023

**Cyswllt Cwsmeriaid a TGCh / Customer Contact & ICT** — **Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer : Alan Morris**

### 1. CRYNODEB / SUMMARY

**Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:**

Disgwylir gan y gwasanaeth bydd y gyllideb yn mantoli yn ystod y flwyddyn ariannol 2023/24.

It is expected by the service to breakeven during the 2023/24 financial year.

### 2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

| Gwasanaeth<br><br>Service | Y Gyllideb Ddiweddaraf<br><br>Latest Budget £'000 | Cyllideb hyd at Rhagfyr 2023 Budget to December 2023 £'000 | Gwir wariant hyd at Rhagfyr 2023 Actuals to December 2023 £'000 | Amrywiant hyd at Rhagfyr 2023<br><br>Variance to December 2023 £'000 | Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant Year End Forecast under/(over) spend £'000 | Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg<br><br>Explanation of forecast over/under spend & the level of risk | Lefel y risg (I, C neu U )<br><br>Level of risk (L, M or H) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| TGCh / ICT | **3,773** | 2,635 | 2,580 | 55 | ***(45)*** | Mae disgwyl l'r adran yma gorwario oherwydd cynnydd mewn gwariant nwyddau ac gwasanaethau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.<br><br>This area is expected to overspend due an increase in supplies and services expenditure expected at year end. | I / L |
| Gwasanaethau Cwsmeriaid / Customer Services | **1,536** | 1,143 | 1,076 | 67 | ***19*** | Mae disgwyl i'r adran yma tanwario oherwydd swyddi gwag at dechrau'r flwyddyn ariannol.<br><br>This area is expected to underspend due to staff vacancies at start of financial year. | I / L |
| Gwasanaethau Cymunedol / Community Services | **1,075** | 801 | 753 | 48 | ***26*** | Mae disgwyl i'r adran yma tanwario oherwydd llai o gosatu staff, ac incwm uwch o fewn Cofrestryddion.<br><br>This area is expected due to lower staff costs and higher Registrar income. | I / L |
| Rheoli'r Gwasanaethau a Strategaeth y Gwasanaethau / Service Management and Strategy | **106** | 80 | 74 | 5 | **-** | Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd.<br><br>There are no problem areas identified at present. | I / L |
| **CYFANSWM / TOTAL** | **6,490** | **4,659** | **4,483** | **175** | **-** | | |

**Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Rhagfyr 2023 / Budget Forecast Report December 2023**

| Gwasanaethau Democrataidd / Democratic Services | Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer : Lowri Edwards |
|---|---|

## 1. CRYNODEB / SUMMARY

**Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:**

Ar yr adeg hon o'r flwyddyn, nid oes problemau wedi'u nodi.
At this stage in the year there are no problem areas identified.

## 2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

| Gwasanaeth<br><br>Service | Y Gyllideb Ddiweddaraf<br><br>Latest Budget £'000 | Cyllideb hyd at Rhagfyr 2023 Budget to December 2023 £'000 | Gwir wariant hyd at Rhagfyr 2023 Actuals to December 2023 £'000 | Amrywiant hyd at Rhagfyr 2023<br><br>Variance to December 2023 £'000 | Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant Year End Forecast under/(over) spend £'000 | Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg<br><br>Explanation of forecast over/under spend & the level of risk | Lefel y risg (I, C neu U )<br><br>Level of risk (L, M or H) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Democrataidd / Democratic Services | **2,066** | 1,545 | 1,430 | 115 | ***40*** | Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd.<br>There are no problem areas identified at present. | I / L |
| Cymorth Corfforaethol i Wasanaethau / Corporate Service Support | **2,516** | 1,885 | 1,828 | 57 | ***50*** | Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd.<br>There are no problem areas identified at present. | I / L |
| Rheoli'r Gwasanaethau a Strategaeth y Gwasanaethau / Service Management and Strategy | **441** | 330 | 358 | (28) | ***(40)*** | Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd.<br>There are no problem areas identified at present. | I / L |
| **CYFANSWM / TOTAL** | **5,023** | **3,760** | **3,616** | **144** | **50** | | |

## Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Rhagfyr 2023 / Budget Forecast Report December 2023

**Economi ac Adfywio / Economy and Regeneration** — **Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer : Russell Hughes-Pickering**

### 1. CRYNODEB / SUMMARY

**Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:**

Nid yw'r targedau incwm ar gyfer ffioedd Cynllunio a rhentu swyddfeydd yn cael eu gwireddu'n llawn. Fodd bynnag caiff hyn ei osod yn erbyn yr arbedion dros dro yn y gwasanaeth Twf & Menter gan fod strwythur staffio newydd yn cael ei sefydlu ar hyn o bryd. Felly nod y Gwasanaeth yw adennill y costau yn gyffredinol gyda rhywfaint o gymorth o'r cronfeydd wrth gefn er mwyn unioni'r diffyg a ragwelir yn y ffioedd cynllunio.

Income targets for Planning fees and Office rentals are currently not being fully achieved. However this is currently being offset by temporary savings in the Growth & Enterprise service whilst a new staffing structure is being put in place. The Service is therefore aiming to breakeven overall, with some assistance from reserves to cover the projected Planning Fee shortfall.

### 2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

| Gwasanaeth<br>Service | Y Gyllideb Ddiweddaraf<br>Latest Budget £'000 | Cyllideb hyd at Rhagfyr 2023<br>Budget to December 2023 £'000 | Gwir wariant hyd at Rhagfyr 2023<br>Actuals to December 2023 £'000 | Amrywiant hyd at Rhagfyr 2023<br>Variance to December 2023 £'000 | Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant<br>Year End Forecast under/(over) spend £'000 | Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg<br>Explanation of forecast over/under spend & the level of risk | Lefel y risg (I, C neu U )<br>Level of risk (L, M or H) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Eiddo / Property Services | **3,058** | 1,846 | 2,008 | (162) | ***(230)*** | Rhagwelir y bydd diffyg yn nharged incwm y gwasanaeth ar hyn o bryd. Er bod ffynonellau incwm newydd ar gyfer adeiladau swyddfa yn dechrau dod i mewn byddwn ond yn medru gweld effaith rhannol y flwyddyn yn 23/24.<br>The service's income target is currently projected to fall short. Whilst new income streams for Office buildings are starting to come on stream, a part year affect will only be seen in 23/24. | U / H |
| Buddsoddiadau Economaidd Strategol / Strategic Economic Investments | **226** | 200 | 133 | 67 | ***75*** | Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd.<br>There are no problem areas identified at present. | I / L |
| Twf a Menter / Growth & Enterprise | **339** | 363 | 282 | 81 | ***155*** | Disgwylir gweithredu'r strwythur newydd ar gyfer Twf a Menter fydd yn arwain at rywfaint o arbedion dros dro hyd nes bydd y strwythur yn llawn.<br>The implementation of the new G&E structure is expected leading to some temporary savings until the structure is fully populated. | C / M |
| Gwasanaethau Cynllunio / Planning Services | **206** | 190 | 396 | (206) | - | Rhagwelir yn y flwyddyn y bydd diffyg tebygol yn yr incwm ffioedd cynllunio o £175k, ond gellir unioni hyn gan y cronfeydd wrth gefn a rheoli cyllidebau os bydd angen.<br>Planning Application Fee Income is projected to fall short by £175k at this stage in the year, but this will be covered by the Contingency & Budget Management reserve if/as required. | U / H |
| Rheoli'r Gwasanaethau a Strategaeth y Gwasanaethau / Service Management and Strategy | **137** | - | - | - | - | Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd.<br>There are no problem areas identified at present. | I / L |
| **CYFANSWM / TOTAL** | **3,966** | **2,599** | **2,819** | **(220)** | **-** | | |

## Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Rhagfyr 2023 / Budget Forecast Report December 2023

**Cyllid a Chaffael / Finance and Procurement** — **Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer : Duncan Hall**

### 1. CRYNODEB / SUMMARY

**Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:**

Disgwylir gan y gwasanaeth y byddant wedi tanwario ar gyfer y flwyddyn, yn bennaf o'r arbedion rheoli Trysorlys o ganlyniad i fanteision cynnydd mewn cyfraddau llog o ran Incwm Buddsoddi ac ni ymgymerwyd â benthyciadau allanol yn y flwyddyn hyd yma.

The service expects to underspend for the year, mostly stemming from Treasury management savings due to the benefit of rising interest rates on Investment Income and no external borrowing has been undertaken in the year to date.

### 2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

| Gwasanaeth<br>Service | Y Gyllideb Ddiweddaraf<br>Latest Budget £'000 | Cyllideb hyd at Rhagfyr 2023<br>Budget to December 2023 £'000 | Gwir wariant hyd at Rhagfyr 2023<br>Actuals to December 2023 £'000 | Amrywiant hyd at Rhagfyr 2023<br>Variance to December 2023 £'000 | Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant<br>Year End Forecast under/(over) spend £'000 | Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg<br>Explanation of forecast over/under spend & the level of risk | Lefel y risg (I, C neu U )<br>Level of risk (L, M or H) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaeth Cyllid a Chaffael / Finance & Procurement Service | **3,752** | 2,695 | 2,427 | 268 | ***200*** | Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd.<br>There are no problem areas identified at present. | I / L |
| Budd-daliadau Tai a Chynllun Cymorth Treth y Cyngor / Housing Benefits and Council Tax Support Scheme | **6,747** | 6,647 | 6,423 | 224 | ***200*** | Mae'r tanwariant a ragwelir yn ymwneud â Chynllun Cymorth Treth y Cyngor.<br>The forecast underspend relates to the Council Tax Support Scheme | I / L |
| Yswiriant, Terfynu a Chostau Corfforaethol Eraill / Insurance, Termination & Other Corporate Costs | **1,746** | 1,535 | 1,450 | 85 | ***50*** | Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd.<br>There are no problem areas identified at present. | I / L |
| Cyfrif Cyfalaf Corfforaethol / Corporate Capital Account | **6,737** | 5,529 | 3,745 | 1,784 | ***1,950*** | Rydym yn derbyn llog ychwanegol o'r buddsoddiadau oherwydd y cynnydd mewn cyfraddau llog. Hefyd, rydym yn talu llai ar fenthyciadau na'r hyn a gyllidebwyd ar ei gyfer.<br>There is further additional interest being generated on investments due to the increase in interest rates. In addition there are lower payments on loans than budgeted. | C / M |
| **CYFANSWM / TOTAL** | **18,982** | **16,406** | **14,045** | **2,361** | **2,400** | | |

## Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Rhagfyr 2023 / Budget Forecast Report December 2023

**Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol / Highways and Environmental Services** — **Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer : Rhodri Llwyd**

### 1. CRYNODEB / SUMMARY

**Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:**

Mae'r Gwasanaeth yn parhau i wynebu pwysau costau/incwm amrywiol hyd at y cam chwater 3 o'r flwyddyn ariannol yma, ond efo cefnogaeth Corfforaehol am costau uwch Trafnidiaeth Ysgolion, ac ailystyrieth y startegaeth gwariant am y flwyddyn ariannal llawn, disgwylir bydd gyllideb y wasanaeth yn mantoli erbyn diwedd 2023/24 .

The Service continues to face various cost/income pressures up to this quarter 3 stage of this financial year, but with corporate support for the higher costs of School Transport, and a reconsideration of the spending strategy for the full financial year, it is expected that the service's budget will break even by the end of 2023/24.

### 2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

| Gwasanaeth<br>Service | Y Gyllideb Ddiweddaraf<br>Latest Budget £'000 | Cyllideb hyd at Rhagfyr 2023<br>Budget to December 2023 £'000 | Gwir wariant hyd at Rhagfyr 2023<br>Actuals to December 2023 £'000 | Amrywiant hyd at Rhagfyr 2023<br>Variance to December 2023 £'000 | Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant<br>Year End Forecast under/(over) spend £'000 | Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg<br>Explanation of forecast over/under spend & the level of risk | Lefel y risg (I, C neu U )<br>Level of risk (L, M or H) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Casglu a Gwaredu Gwastraff / Waste Collection & Disposal | **5,533** | 3,948 | 4,142 | (194) | ***(383)*** | Pwysau incwm masnach is, ac effaith costau rheoli'r amhariadau casgluadau gwastraff.<br>Pressure from lower trade income, and the impact of managing the waste collection interruptions. | C/M |
| Parciau a gerddi, Glanhau Priffyrdd, Gwasanaethau Parcio, Harbwrs / Parks & Gardens, Highways Cleaning, Parking Services, Harbours | **(363)** | (363) | (94) | (269) | ***(287)*** | Pwysau incwm is o'r Gwasanaethau Parcio ac Harbyrau, yn ogystal a chostau uwch o fewn gyllideb yr Harbyrau.<br>Pressure from lower Parking Services and Harbour income, as well as higher costs within the Harbours budget. | C/M |
| Cludiant Teithwyr Corfforaethol, Uned Cynnal a Chadw Trafnidiaeth / Corporate Passenger Transport, Transport Maintenance Unit | **7,712** | 5,678 | 5,336 | 342 | ***562*** | Tanwariant ar trafnidiaeth cymdeithasol (am 3/4 flwyddyn), ac hefyd effaith y cyllid y disgwylir o LIC i gefnogi costau uwch gwasanaethau bysiau Cyhoeddus.<br>Underspend on social transport (3/4 year), plus impact of the higher funding expected from WG to support increased Public bus services costs. | C/M |
| Cynnal a Chadw Priffyrdd, Caffael a Strategaeth, Peirianneg Arfordirol a Gwaith Draenio Tir / Highways Maintenance, Coastal Engineering & Land Drainage Procurement & Strategy | **5,146** | 3,138 | 2,808 | 330 | ***80*** | Tanwariant bychan o fewn costau staff ac Peririanneg Arfordirol a Gwaith Draenio Tir.<br>A slight underspend with staff costs and Coastal engineering & Land Drainage. | I/L |
| Gwasanaethau Priffyrdd, Diogelwch y Ffordd, Rheoli Trafnidiaeth Rhanbarthol / Highways Services, Road Safety, Regional Transport Management | **781** | 556 | 417 | 139 | ***28*** | Disgwylir tanwariant bychan o fewn Gwasanaethau Priffyrdd (Goleuadau).<br>A slight underspend is expected within Highways Services (Lighting). | I/L |
| Rheoli'r Gwasanaethau a Strategaeth y Gwasanaethau / Service Management and Strategy | **605** | 464 | 415 | 49 | - | Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd.<br>There are no problem areas identified at present. | I/L |
| **CYFANSWM / TOTAL** | **19,414** | **13,421** | **13,024** | **397** | **-** | | |

## Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Rhagfyr 2023 / Budget Forecast Report December 2023

**Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu / Legal & Governance Services** — **Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer : Elin Prysor**

### 1. CRYNODEB / SUMMARY

**Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:**

Ar yr adeg hon o'r flwyddyn, nid oes problemau wedi'u nodi.

At this stage in the year there are no problem areas identified.

### 2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

| Gwasanaeth<br>Service | Y Gyllideb Ddiweddaraf<br>Latest Budget £'000 | Cyllideb hyd at Rhagfyr 2023<br>Budget to December 2023 £'000 | Gwir wariant hyd at Rhagfyr 2023<br>Actuals to December 2023 £'000 | Amrywiant hyd at Rhagfyr 2023<br>Variance to December 2023 £'000 | Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant<br>Year End Forecast under/(over) spend £'000 | Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg<br>Explanation of forecast over/under spend & the level of risk | Lefel y risg (I, C neu U )<br>Level of risk (L, M or H) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Cyfreithiol / Legal Services | **718** | 526 | 496 | 30 | - | Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd.<br>There are no problem areas identified at present. | I / L |
| Gwasanaethau Archwilio / Audit Services | **662** | 500 | 507 | (7) | - | Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd.<br>There are no problem areas identified at present. | I / L |
| Rheoli'r Gwasanaethau a Strategaeth y Gwasanaethau (gan gynnwys Crwneriaid) / Service Management and Strategy (including Coroners) | **279** | 209 | 228 | (19) | - | Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd.<br>There are no problem areas identified at present. | I / L |
| **CYFANSWM / TOTAL** | **1,659** | **1,235** | **1,231** | **4** | **-** | | |

# Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Rhagfyr 2023 / Budget Forecast Report December 2023

**Pobl a Threfniadaeth / People & Organisation** — **Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer : Geraint Edwards**

## 1. CRYNODEB / SUMMARY

**Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:**

Mae costau pensiwn yn rhagamcanu gorwariant diwedd blwyddyn.
Pension costs are projecting a year-end overspend.

## 2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

| Gwasanaeth<br><br>Service | Y Gyllideb Ddiweddaraf<br><br>Latest Budget £'000 | Cyllideb hyd at Rhagfyr 2023 Budget to December 2023 £'000 | Gwir wariant hyd at Rhagfyr 2023 Actuals to December 2023 £'000 | Amrywiant hyd at Rhagfyr 2023<br><br>Variance to December 2023 £'000 | Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant Year End Forecast under/(over) spend £'000 | Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg<br><br>Explanation of forecast over/under spend & the level of risk | Lefel y risg (I, C neu U )<br><br>Level of risk (L, M or H) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau Dynol / Human Resources | **1,178** | 832 | 878 | (46) | ***(60)*** | Mae costau pensiwn yn rhagamcanu gorwariant diwedd blwyddyn o £35k.<br><br>Pension costs are projecting a year-end overspend of £35k. | C/M |
| Profiad Gweuthiwr / Employee Experience | **522** | 391 | 369 | 22 | ***25*** | Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd.<br><br>There are no problem areas identified at present. | C/M |
| Dysgu a Datblygu / Learning and Development | **557** | (49) | (40) | (9) | | Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd.<br><br>There are no problem areas identified at present. | C/M |
| Rheoli'r Gwasanaethau a Strategaeth y Gwasanaethau / Service Management and Strategy | **84** | 63 | 63 | - | **-** | Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd.<br><br>There are no problem areas identified at present. | I / L |
| **CYFANSWM / TOTAL** | **2,341** | **1,237** | **1,270** | **(33)** | **(35)** | | |

## Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Rhagfyr 2023 / Budget Forecast Report December 2023

**Polisi, Pherfformiad a Amddiffyn y Cyhoed / Policy, Performance & Public Protection** — **Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer : Alun Williams**

### 1. CRYNODEB / SUMMARY

**Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:**

Ar yr adeg hon o'r flwyddyn, nid oes problemau wedi'u nodi. Rhagwelir tanwariant bellach oherwydd cyfuniad o gyllid grant ychwanegol a thanwariant ar gyllidebau cyflogai.

At this stage in the year there are no problem areas identified. An underspend is now projected due to a combination of additional grant funding and an underspend on Employee budgets.

### 2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

| Gwasanaeth<br>Service | Y Gyllideb Ddiweddaraf<br>Latest Budget £'000 | Cyllideb hyd at Rhagfyr 2023<br>Budget to December 2023 £'000 | Gwir wariant hyd at Rhagfyr 2023<br>Actuals to December 2023 £'000 | Amrywiant hyd at Rhagfyr 2023<br>Variance to December 2023 £'000 | Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant<br>Year End Forecast under/(over) spend £'000 | Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg<br>Explanation of forecast over/under spend & the level of risk | Lefel y risg (I, C neu U )<br>Level of risk (L, M or H) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Partneriaethau a Pherfformiad / Partnerships & Performance | **1,004** | 741 | 717 | 24 | ***25*** | Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. Mae'r tanwariant yn ymwneud yn bennaf ag arian grant ychwanegol.<br>There are no problem areas identified at present. The underspend mainly relates to additional grant funding. | I / L |
| Diogelu'r Cyhoedd / Public Protection | **1,375** | 1,030 | 865 | 165 | ***85*** | Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. Mae'r tanwariant yn ymwneud â llusgo swyddi gwag ar y Gyllideb Cyflogai.<br>There are no problem areas identified at present. The underspend relates to vacancy drag on the Employees Budget. | I / L |
| Rheoli'r Gwasanaethau a Strategaeth y Gwasanaethau / Service Management and Strategy | **116** | 87 | 79 | 8 | - | Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd.<br>There are no problem areas identified at present. | I / L |
| **CYFANSWM / TOTAL** | **2,495** | **1,858** | **1,661** | **197** | **110** | | |

Tudalen 419

## Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Rhagfyr 2023 / Budget Forecast Report December 2023

**Porth Cymorth Cynnar** | **Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer : Greg Jones**

### 1. CRYNODEB / SUMMARY

**Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:**

Ar adeg hon y flwyddyn, mae'r Gwasanaeth yn disgwyl cynnydd yn y tanwariant, yn bennaf oherwydd grantiau ychwanegol yn y maes Cymorth Cynnar a Cymorth ac Ymyrraeth ac mae sefyllfa y canolfannau llesiant wedi gwella sy'n cynnwys agoriad y Ganolfan Newydd yn Llanbebr.

At this stage in the year, the service is now expecting an increased underspend due mainly to additional grant funding in the Early Intervention and Support & Intervention Services and an improved financial position for the Wellbeing Centres which includes the benefit of the opening of the new Wellbeing Centre in Lampeter.

### 2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

| Gwasanaeth<br><br>Service | Y Gyllideb Ddiweddaraf<br><br>Latest Budget<br>£'000 | Cyllideb hyd at Rhagfyr 2023<br>Budget to December 2023<br>£'000 | Gwir wariant hyd at Rhagfyr 2023<br>Actuals to December 2023<br>£'000 | Amrywiant hyd at Rhagfyr 2023<br><br>Variance to December 2023<br>£'000 | Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant<br>Year End Forecast under/(over) spend<br>£'000 | Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg<br><br>Explanation of forecast over/under spend & the level of risk | Lefel y risg (I, C neu U )<br><br>Level of risk (L, M or H) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Cymorth Cynnar / Early Intervention Services | **903** | 1,314 | 1,203 | 111 | ***136*** | Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd, mae'r tanwariant yn ymwneud â chyllidebau gweithwyr.<br><br>There are no problem areas identified at present, the underspend relates to Employee budgets | I / L |
| Gwasanaethau Tai / Housing Services | **896** | 717 | 714 | 3 | ***48*** | Mae'r tanwariant a ragwelir yn ymwneud yn bennaf ag incwm uwch o ran Budd-dal Tai na'r hyn a ddisgwyliwyd ar gyfer llety dros dro.<br><br>The projected underspend mainly relates to higher than expected Housing Benefit income for temporary accommodation. | I / L |
| Canolfannau Lles / Wellbeing Centres | **1,570** | 1,052 | 1,053 | (1) | ***19*** | Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. Mae incwm yn dechrau dangos arwyddion positif yn y Canolfannau Llesiant ac y mae bellach yn cyflawni lefelau cyn COVID.<br><br>There are no problem areas identified at present. Income is starting to show encouraging signs in the Wellbeing Centres and is now hitting pre COVID levels. | C / M |
| Gwasanaethau Cymorth ac Ymyrraeth / Support and Intervention Services | **637** | 512 | 484 | 28 | ***38*** | Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd.<br><br>There are no problem areas identified at present. | I / L |
| Rheoli'r Gwasanaethau a Strategaeth y Gwasanaethau / Service Management and Strategy | **105** | 77 | 75 | 2 | **-** | Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd.<br><br>There are no problem areas identified at present. | I / L |
| **CYFANSWM / TOTAL** | **4,111** | **3,672** | **3,529** | **143** | **241** | | |

Tudalen 420

## Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Rhagfyr 2023 / Budget Forecast Report December 2023

**Porth Cynnal** | **Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer : Audrey Somerton Edwards**

### 1. CRYNODEB / SUMMARY

**Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:**

Mae'r gwasanaeth yn ymdrin yn bennaf ag achosion a lleoliadau cymhleth haen uwch. Rydym yn gweld pwysau costau o ganlyniad i gostau uwch a/ neu niferoedd uwch ym meysydd Lleoliadau Pobl Hŷn, Cefnogi Byw, lleoliadau Anableddau Dysgu ac Anableddau Corfforol a chostau staff Asiantaeth. Mae cyfanswm hyn yn arwain at ragweld gorwariant o £2.9m ar gyfer y flwyddyn.

The service mainly deals with the higher end complex cases and placements. Cost pressures resulting from higher costs and/or higher volumes are being seen in the areas of Older Persons Placements, Supported Living, Learning Disability & Physical Disability placements and Agency staff costs. This in total is leading to a projected overspend of £2.9m for the year.

### 2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

| Gwasanaeth<br><br>Service | Y Gyllideb Ddiweddaraf<br><br>Latest Budget £'000 | Cyllideb hyd at Rhagfyr 2023<br>Budget to December 2023 £'000 | Gwir wariant hyd at Rhagfyr 2023<br>Actuals to December 2023 £'000 | Amrywiant hyd at Rhagfyr 2023<br><br>Variance to December 2023 £'000 | Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant<br>Year End Forecast under/(over) spend £'000 | Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg<br><br>Explanation of forecast over/under spend & the level of risk | Lefel y risg (I, C neu U )<br><br>Level of risk (L, M or H) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofal wedi'i Gynllunio / Planned Care | **14,786** | 11,951 | 14,012 | (2,061) | ***(2,207)*** | Mae'r cynnydd yn y gorwariant o chwarter 2 yn ymwneud â 2 leoliad Mam ai Phlentyn. Mae'r gorwariant yn gyffredinol yn ymwneud a chyfuniad o ragweld costau uwch ar gyfer lleoliadau Pobl Hŷn (£1.1m) yn sgil nifer uwch na'r arfer o leoliadau yn Chwarter4 2022/23 (+9) a Chwarter 1 2023/24 (+12) gyda chynnydd bach yn Chwarter 2 2023/24. Roedd hefyd cynnydd mewn defnydd gweithwyr asiantaeth yn y tîm Asesu Plant & Teuluoedd(£197k). Hefyd, mae cost anghymesur ar y Cyngor o ran costau Plant ar eu Pen eu hunain yn Ceisio Lloches (£319k). Lleoliadau plant eraill (£245k). Taliadau Uniongyrchol Pobl Hyn (£86k)a gorwariant ar Gwasanaethau cadw cwmni'n (£109k)<br><br>The overspend increased from Qtr 2 mainly due to 2 Parent and baby placements. The overall overspend is due to a combination of a higher projected cost for Older Persons placements (£1.1m) due to a higher than normal level of placements in Q4 2022/23 (+9) and Q1 2023/24 (+12) with a further small increase in Q2 2023/24. In addition there is an increase in the use of agency workers in the Childrens & Family Assessment Team +£197k. Also, a disproportionate cost is having to be borne by the Council in relation to Unaccompanied Asylum Seeking Children costs (£319k), Other LAC placements (£245k), Older People Direct Payment overspend (£86k), Sitting service (£109k overspend). | U / H |
| Cymorth Estynedig / Extended Support | **13,797** | 11,428 | 11,651 | (223) | ***(466)*** | Mae'r sefyllfa wedi gwella ers chwarter 2 (gorwariant o £954k). Mae hyn yn bennaf oherwydd 2 taliadau uniongyrchol gwerth uchel yn dod i ben a gostyngiadau mewn costau gwely i rai lleoliadau Anabledd Dysgu. Er hyn, mae'r rhagamcaniad i ddiwedd y flwyddyn dal am orwariant sylweddol oherwydd chynnydd yn nifer lleoliadau Anableddau Dysgu ac Anableddau Corfforol ar y cyd â chynnydd mewn costau sy'n deillio o weithredu contractau Cefnogi Byw newydd.<br><br>The position has improved since Q2 (projected overspend of £954k). This is mainly due to two high value direct payments ending and reduced fees for some Learning Disability . However, the year end projection remains as a significant overspend due to an increased number of Learning Disability and Physical Disability placements combined with an increased cost stemming from letting new Supported Living contracts. | U / H |

**2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION**

| Gwasanaeth<br><br>Service | Y Gyllideb Ddiweddaraf<br><br>Latest Budget £'000 | Cyllideb hyd at Rhagfyr 2023<br>Budget to December 2023 £'000 | Gwir wariant hyd at Rhagfyr 2023<br>Actuals to December 2023 £'000 | Amrywiant hyd at Rhagfyr 2023<br><br>Variance to December 2023 £'000 | Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant<br>Year End Forecast under/(over) spend £'000 | Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg<br><br>Explanation of forecast over/under spend & the level of risk | Lefel y risg (I, C neu U )<br><br>Level of risk (L, M or H) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lles Meddyliol / Mental Wellbeing | **3,857** | 3,022 | 2,909 | 113 | ***140*** | Mae'r tanwariant yn ymwneud yn bennaf â gostyngiad yn nifer y lleoliadau Iechyd Meddwl na'r hyn a nodwyd yn y gyllideb.<br><br>The underspend mainly relates to a lower number of Mental Health placements than budgeted | C / M |
| Diogelu / Safeguarding | **899** | 661 | 849 | (188) | ***(334)*** | Mae'r gorwariant yn ymwneud yn bennaf â chostau staffio ac asiantaeth ychwanegol yn y tîm Diogelu.<br><br>The overspend mainly relates to additional agency and staffing costs in the Safeguarding team | C / M |
| Rheoli'r Gwasanaethau a Strategaeth y Gwasanaethau / Service Management and Strategy | **392** | 342 | 467 | (125) | ***(42)*** | Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd.<br><br>There are no problem areas identified at present. | I / L |
| **CYFANSWM / TOTAL** | **33,731** | **27,404** | **29,888** | **(2,484)** | **(2,909)** | | |

## Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Rhagfyr 2023 / Budget Forecast Report December 2023

**Porth Gofal** — **Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer : Donna Pritchard**

### 1. CRYNODEB / SUMMARY

**Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:**

Mae gofal cymdeithasol yn parhau i wynebu heriau recriwtio, er bod amodau a thelerau'r Cyngor yn gymharol deniadol. O ganlyniad mae defnydd o sylweddol staff asiantaeth yng Nghartrefi Gofal yr Awdurdod Lleol, y Gwasanaeth Galluogi a rolau Gweithwyr Cymdeithasol critigol ar y rheng flaen. Mae cryn tanwariant mewn Gofal Cartref yn sgil trefniadau contract newydd yn weithredol o ddiwedd mis Gorffennaf. Fodd bynnag mae cost achos Galluogi cymhleth wedi ei osod yn erbyn rhan fwyaf o hyn. Yn gyffredinol ar hyn o bryd rhagwelir gorwariant cychwynnol o £458k.

Social care continues to face recruitment challenges, despite the Council's terms and conditions being relatively attractive. This is resulting in significant use of agency staff in LA Residential Homes, the Enablement Service and critical frontline Social Worker roles. There is a significant underspend in Domiciliary Care, due to the new contractual arrangements that took effect from late July, however a complex Enablement case is offsetting a large part of this. Overall there is currently a projected overspend of £458k.

### 2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

| Gwasanaeth<br>Service | Y Gyllideb Ddiweddaraf<br>Latest Budget<br>£'000 | Cyllideb hyd at Rhagfyr 2023<br>Budget to December 2023<br>£'000 | Gwir wariant hyd at Rhagfyr 2023<br>Actuals to December 2023<br>£'000 | Amrywiant hyd at Rhagfyr 2023<br>Variance to December 2023<br>£'000 | Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant<br>Year End Forecast under/(over) spend<br>£'000 | Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg<br>Explanation of forecast over/under spend & the level of risk | Lefel y risg (I, C neu U )<br>Level of risk (L, M or H) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Uniongyrchol / Direct Services | **6,218** | 4,366 | 4,597 | (231) | ***(256)*** | Mae lefel sylweddol o wariant yn parhau ar staff Asiantaeth mewn Cartrefi Preswyl yr Awdurdod Lleol (ar hyn o bryd rhagwelir y bydd yn cost oddeutu c£1.0m yn fwy na'r gyllideb staffio sydd ar gael) a gellir ond gosod arbedion a ragwelir yn y Gwasanaeth Dydd (£501k) ac incwm grant ychwanegol a ddisgwylir yn y Gwasanaeth Maethu (£95k) yn rhannol yn ei erbyn.<br>There remains a significant level of spend on Agency staff in LA Residential Homes (currently projected to cost c£1.0m more than the available staffing budget), which is being only partially offset by projected savings in Day Services (£501k) and additional grant income expected in the Fostering service (c£95k). | U / H |
| Gwasanaethau Tymor Byr ac wedi'u Targedu / Targeted and Short Term Services | **6,901** | 4,899 | 4,478 | 421 | ***566*** | Mae swyddi gwag yn y Gwasanaeth Galluogi , ac mae'r cyfraddau uwch ar gyfer Gofal Cartref wedi dod i rym yn hwyr ym mis Gorffennaf 2023 o dan drefniadau contract newydd sydd wedi cael ei gyllidebu o 1af Ebrill, gyda'i gilydd yn cyflawni arbedion o ychydig dros £0.9m yn ystod y flwyddyn, fodd bynnag mae cost achos Galluogi cymhleth (£0.36m) yn erbyn rhan sylweddol o'r arbediad yma.<br>Enablement Service is currently carrying vacancies and the new uplifted Domiciliary Care rates came into force in late July 2023 under new contractual arrangements which had been budgeted from 1st April, together delivering in year savings of just over £0.9m, however the cost of a complex Domicilary Care case is offsetting a large part of this saving (£0.36m) | C / M |
| Gwananaethau Asesu a Brysbennu Integredig / Integrated Triage and Assessment Services | **1,907** | 1,444 | 1,943 | (499) | ***(737)*** | Mae'r gorwariant yn ymwneud yn bennaf â chost ychwanegol staff Asiantaeth.<br>The overspend relates mainly to the additional cost of Agency staff covering vacant posts in this area. | C / M |

## 2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

| Gwasanaeth<br><br>Service | Y Gyllideb Ddiweddaraf<br><br>Latest Budget<br>£'000 | Cyllideb hyd at Rhagfyr 2023<br>Budget to December 2023<br>£'000 | Gwir wariant hyd at Rhagfyr 2023<br>Actuals to December 2023<br>£'000 | Amrywiant hyd at Rhagfyr 2023<br><br>Variance to December 2023<br>£'000 | Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant<br>Year End Forecast under/(over) spend<br>£'000 | Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg<br><br>Explanation of forecast over/under spend & the level of risk | Lefel y risg (I, C neu U )<br><br>Level of risk (L, M or H) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheoli'r Gwasanaethau a Strategaeth y Gwasanaethau / Service Management and Strategy | **475** | 324 | 320 | 4 | ***(31)*** | Mae'r gwasanaeth yn edrych ymhellach ar fesurau o fewn y flwyddyn i sicrhau arbedion gan gynnwys lleihau cost staff asiantaeth yng nghartrefi'r Awdurdod Lleol.<br>The Service is looking at further in year measures to produce savings including reducing the cost of agency staff within LA homes. | U / H |
| **CYFANSWM / TOTAL** | **15,501** | **11,033** | **11,338** | **(305)** | **(458)** | | |

## Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Rhagfyr 2023 / Budget Forecast Report December 2023

**Ysgolion a Dysgu Gydol Oes / Schools & Lifelong Learning** — **Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer : Elen James & Clive Williams**

### 1. CRYNODEB / SUMMARY

**Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:**

Mae'r Gwasanaeth yn amcan tanwariant yn bennaf oherwydd grantiau ychwanegol o fewn Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes.

The Service is projecting an underspend mainly due to the benefit of grant funding within the Lifelong Learning part of the service.

### 2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

| Gwasanaeth<br><br>Service | Y Gyllideb Ddiweddaraf<br><br>Latest Budget £'000 | Cyllideb hyd at Rhagfyr 2023<br>Budget to December 2023 £'000 | Gwir wariant hyd at Rhagfyr 2023<br>Actuals to December 2023 £'000 | Amrywiant hyd at Rhagfyr 2023<br><br>Variance to December 2023 £'000 | Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant<br>Year End Forecast under/(over) spend £'000 | Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg<br><br>Explanation of forecast over/under spend & the level of risk | Lefel y risg (I, C neu U )<br><br>Level of risk (L, M or H) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgolion Cynradd / Primary Schools | **19,730** | 19,730 | 19,730 | - | **-** | Mae'r cyllid i gyd yn cael ei ddirprwyo i Gyrff Llywodraethol Ysgolion o 1 Ebrill. Mae'r cynnydd yng nghostau cyflogau ac ynni yn gorfodi ysgolion i ddefnyddio eu cronfeydd wrth gefn.<br><br>All funding is delegated to School Governing Bodies wef 1 April. The increase in salary and energy costs is requiring schools to utilise their reserves. | I / L |
| Ysgolion Uwchradd / Secondary Schools | **15,707** | 15,707 | 15,707 | - | **-** | | I / L |
| Ysgolion Pob Oed / All-through Schools | **12,099** | 12,099 | 12,099 | - | **-** | | I / L |
| Gwella Ysgolion / School Improvement | **1,890** | 3,095 | 3,238 | (143) | ***(79)*** | Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. Mae'r gorwariant yn ymwneud a chostau salwch<br><br>There are no problem areas identified at present. Overspend is due to sickness costs | I / L |
| Adnoddau Dysgu / Learning Resources | **346** | 290 | 243 | 47 | ***35*** | Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd.<br><br>There are no problem areas identified at present. | I / L |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol / Additional Learning Needs | **2,259** | 1,735 | 1,512 | 223 | ***73*** | Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. Mae lleihad wedi bod mewn costau a llwybrau trafnidiaeth ADY<br><br>There are no problem areas identified at present. There has been a reduction in SEN transport route costs. | I / L |
| Gwasanaethau Diwylliannol / Cultural Services | **1,143** | 566 | 517 | 49 | ***54*** | Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd, mae'r tanwariant yn ymwneud â chyllidebau gweithwyr.<br><br>There are no problem areas identified at present, the underspend relates to Employee budgets | I / L |
| Dysgu Gydol Oes / Lifelong Learning | **549** | 890 | 633 | 257 | ***403*** | Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd, mae'r tanwariant yn ymwneud â chyllidebau gweithwyr, a grantiau SPF<br><br>There are no problem areas identified at present, the underspend relates to Employee budgets, and SPF Grants | I / L |
| Ymgysylltu a Chyrhaeddiad / Engagement and Attainment | **1,673** | 1,238 | 1,115 | 123 | ***150*** | Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd, mae'r tanwariant yn ymwneud â chyllidebau gweithwyr, a grantiau SPF<br><br>There are no problem areas identified at present, the underspend relates to Employee budgets, and SPF Grants | I / L |

**2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION**

| Gwasanaeth<br><br>Service | Y Gyllideb Ddiweddaraf<br><br>Latest Budget £'000 | Cyllideb hyd at Rhagfyr 2023 Budget to December 2023 £'000 | Gwir wariant hyd at Rhagfyr 2023 Actuals to December 2023 £'000 | Amrywiant hyd at Rhagfyr 2023<br><br>Variance to December 2023 £'000 | Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant Year End Forecast under/(over) spend £'000 | Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg<br><br>Explanation of forecast over/under spend & the level of risk | Lefel y risg (I, C neu U )<br><br>Level of risk (L, M or H) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Uned Arlwyo Gorfforaethol / Corporate Catering Unit | **1,164** | 661 | 414 | 247 | ***164*** | Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd, mae'r tanwariant yn ymwneud â Grant UPFSM a'r cynnydd o £2.90 I £3.20<br><br>There are no problem areas identified at present, the underspend relates to the UPFSM grant and the increase from £2.90 to £3.20 | I / L |
| Rheoli'r Gwasanaethau a Strategaeth y Gwasanaethau / Service Management and Strategy | **228** | 283 | 437 | (154) | ***(33)*** | Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd.<br>There are no problem areas identified at present. | I / L |
| **CYFANSWM / TOTAL** | **56,788** | **56,294** | **55,645** | **649** | **767** | | |

Tudalen 426

## Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Rhagfyr 2023 / Budget Forecast Report December 2023

**Arweiniol / Leadership** | **Brif Weithredwr / Chief Executive : Eifion Evans**

### 1. CRYNODEB / SUMMARY

**Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:**

Er bod rhai arbedion o ran ffrydiau gwaith o fewn y flwyddyn nad ydynt hyd yma'n cyflawni'n llawn y targedau a osodwyd yn wreiddiol,mae hyn bellach yn cael ei wrthbwyso gan ennill unwaith ac am byth ar grant ôl-ddyddiedig. Yr her fwyaf yw cynnydd cyflymach yn nifer a chyfanswm cost lleoliadau Plant y tu allan i'r Sir gan y rhagwelir y bydd yn cyrraedd cyfanswm gwariant gros ar gyfer 23/24 o £6.8m (sy'n golygu gorwariant o ragwelir o £1.9m).

Whilst there are some in year Savings workstreams that are not yet fully delivering the original targets set, this is now offset by a one off gain on a backdated grant. The more fundamental challenge is an exponential rise in the number and total cost of Out of County Children's placements which is currently projected to reach a total gross spend for 23/24 of £6.8m (which results in a projected overspend of £1.9m).

### 2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

| Gwasanaeth<br>Service | Y Gyllideb Ddiweddaraf<br>Latest Budget £'000 | Cyllideb hyd at Rhagfyr 2023<br>Budget to December 2023 £'000 | Gwir wariant hyd at Rhagfyr 2023<br>Actuals to December 2023 £'000 | Amrywiant hyd at Rhagfyr 2023<br>Variance to December 2023 £'000 | Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant<br>Year End Forecast under/(over) spend £'000 | Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg<br>Explanation of forecast over/under spend & the level of risk | Lefel y risg (I, C neu U )<br>Level of risk (L, M or H) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grŵp Arweiniol / Leadership Group | **507** | 380 | 345 | 35 | ***45*** | Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd.<br>There are no problem areas identified at present. | I / L |
| Arbedion Corfforaethol / Corporate Savings | **(394)** | - | - | - | ***106*** | Roedd y targed gwreiddiol yn £875k, ac fe'i gostyngwyd i £394k yn dilyn symudiadau i'r gwasanaethau perthnasol o ran ffioedd a thaliadau a rhan o darged y Cludiant i Ddysgwyr. Mae'r gweddill yn ymwneud yn bennaf ag Arbedion Ynni (£125k) a Chludiant Dysgwyr (£253k). Mae budd-dal untro o £500k o hawliad grant ôl-ddyddiedig sydd wedi crisialu yn Ch2 bellach wedi'i gynnwys yma.<br>The original target was £875k, reduced to £394k following virements to respective services for Fees & Charges and part of the Learner Transport target. The balance left mainly relates to Energy Savings (£125k) and Learner Transport (£253k). A £500k one-off benefit from a backdated grant claim that has crystalised in Q2 has now been included here - this will be reflected at year end. | C / M |
| Cyllid wrth gefn / Contingencies | **289** | 216 | (7) | 223 | ***125*** | Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd.<br>There are no problem areas identified at present. | I / L |
| Lleoliadau y tu allan i'r Sir / Out of County Placements | **4,250** | 1,875 | 2,740 | (865) | ***(1,946)*** | Bu cynnydd lleoliad newydd ers gosod Cyllideb 23/24. Mae hyn yn arwain at bwysau costau sylweddol o fewn y cyfanswm costau a ragwelwyd sef £6.8m ar gyfer 23/24 (sy'n cymharu â £1.8m yn 2020/21). Disgwylir y bydd y cyfleusterau newydd yn y Sir ar waith o Ebrill 2024 ymlaen, felly defnyddir yr arbediad dros dro yn Porth Gofal yn rhannol yn erbyn hyn (0.6m).<br>There has been an increase in new placements since 23/24 Budget setting. This is leading to a substantial cost pressure with costs projected to be £6.8m for 23/24 (which compares with £1.8m in 2020/21). The new in county facilities are expected to start coming on stream from April 2024 onwards, so the temporary saving in Porth Gofal will be used as a partial offset (£0.6m). | U / H |
| **CYFANSWM / TOTAL** | **4,652** | **2,471** | **3,078** | **(607)** | **(1,670)** | | |

## Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Rhagfyr 2023 / Budget Forecast Report December 2023

**Ardollau, Premiwm Treth y Cyngor a Chronfeydd / Levies, Council Tax Premium and Reserves** — **Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer : Duncan Hall**

### 1. CRYNODEB / SUMMARY

**Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:**

Mae diffyg cyffredinol o £534k ar y Dyfarniad Cyflog Staff Cyffredinol 23/24 (ar ôl caniatáu ar gyfer y Gronfa Wrth Gefn o £360k). Mae hyn i'w ariannu o arian a roddir o'r neilltu mewn cronfeydd wrth gefn at y diben hwn.

There is an overall shortfall of £534k on the 23/24 General Staff Payaward (after allowing for the £360k Contingency), which is to be funded from monies set aside in reserves for this purpose.

### 2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

| Gwasanaeth<br><br>Service | Y Gyllideb Ddiweddaraf<br><br>Latest Budget £'000 | Cyllideb hyd at Rhagfyr 2023<br>Budget to December 2023 £'000 | Gwir wariant hyd at Rhagfyr 2023<br>Actuals to December 2023 £'000 | Amrywiant hyd at Rhagfyr 2023<br><br>Variance to December 2023 £'000 | Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant<br>Year End Forecast under/(over) spend £'000 | Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg<br><br>Explanation of forecast over/under spend & the level of risk | Lefel y risg (I, C neu U )<br><br>Level of risk (L, M or H) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ardollau / Levies | **4,867** | 3,652 | 3,652 | - | **-** | Mae risg gorwariant yn fach iawn am y caiff yr ardollau eu gosod yn flynyddol ac ni chânt eu hadolygu yn ystod y flwyddyn.<br>The risk of overspends is minimal as the levies are set annually and are not revised in year. | I / L |
| Premiwm Treth y Cyngor / Council Tax Premium | **615** | - | - | - | **-** | Mae'r swm sydd ar gael i'w wario yn dibynnu ar y premiwm a gesglir yn ystod y flwyddyn ar ôl caniatáu ar gyfer unrhyw ad-daliadau. Cynllun Tai Cymunedol Newydd a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 06/06/23.<br>The amount available to be spent will be dependent on the premium collected during the year after allowing for any refunds. New Community Housing scheme approved by Cabinet on 06/06/23. | I / L |
| Balansau a Chronfeydd wrth gefn / Balances & Reserves | **(534)** | - | - | - | **-** | Bydd unrhyw drosglwyddiad i / o'r Gronfa Gyffredinol yn cael ei ystyried ar ddiwedd y flwyddyn pan fydd sefyllfa gyffredinol y Cyngor yn hysbys. Mae'r £534k yn ymwneud â'r diffyg net yn y dyfarniad Cyflog Staff Cyffredinol 23/24, ar ôl caniatáu defnyddio'r Gronfa Wrth Gefn o £360k.<br>Any transfer to / from the General Fund will be considered at year end when the overall position for the Council is known. The £534k relates to the net shortfall in the 23/24 General Staff Payaward, after allowing for the use of the £360k Contingency. | C / M |
| **CYFANSWM / TOTAL** | **4,948** | **3,652** | **3,652** | **-** | **-** | | |

**CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **19 Mawrth 2024** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Monitro'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Chwarter 3** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Adrodd ar y Gwariant Cyfalaf hyd yn hyn** |
| **Er:** | **Gwybodaeth** |

**Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:**
**Y Cynghorydd Gareth Davies, Aelod Cabinet ar gyfer Cyllid a Chaffael**

## 1. Y Sefyllfa Gyffredinol

Mae Atodiad A yn cynnwys manylion ynghylch gwariant diweddaraf y Rhaglen Gyfalaf hyd at ddiwedd mis Rhagfyr.

Cyfanswm y gwariant yw £17.2m. Cyllideb y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer y flwyddyn yw £48.3m (ac eithrio'r Arian wrth Gefn).

## 2. Cynlluniau Newydd – Amrywiannau, Newidiadau yn y Gyllideb

Mae'r gyllideb ddiweddaraf bellach yn adlewyrchu'r rhaglen 2023/24 wedi'i diweddaru a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 23 Ionawr 2024. Mae'r rhaglen wedi'i lleihau yn unol â'r disgwyliadau ar wariant y gellir ei gyflawni erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2023/24. Mae'r cyllidebau, lle mae llithriad sydd yn wybodus a lle mae'r cynllun yn caniatáu, wedi cael eu hail-broffilio i 2024/25 a blynyddoedd canlynol.

## 3. Derbyniadau Cyfalaf

Mae £453k o Dderbyniadau Cyfalaf wedi'u cyflawni hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2024 gyda £76k yn cael ei neilltuo ar gyfer cynlluniau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth a £350k ar gyfer y buddsoddiad mewn Cartrefi Preswyl a weithredir gan y Cyngor.

Mae'r Rhaglen Gyfalaf yn cael ei monitro bob yn ail fis gan y Grŵp Monitro Cyfalaf, ac mae'r Grŵp yn ystyried materion megis cynnydd prosiectau, trosglwyddiadau, llithriant a'r goblygiadau a ddaw yn eu sgil ac maent yn adrodd yn ôl i'r Grŵp Datblygu.

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**
**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam**

Na. Nid yw'r adroddiad yn cyfeirio at newid mewn polisi na gwasanaeth.

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**
**Hirdymor:** AMH
**Cydweithio:** AMH

**Cynnwys:** AMH
**Atal:** AMH
**Integreiddio:** AMH

**Argymhelliad / Argymhellion:**
**Nodi'r adroddiad.**

**Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:**
**Nid oes angen gwneud penderfyniad.**

**Trosolwg a Chraffu:**
Ystyriwyd yn ystod y broses o bennu'r gyllideb.

**Fframwaith Polisi:**
Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

**Amcanion Llesiant Corfforaethol:**
Mae'r Rhaglen Gyfalaf yn sail i'r holl flaenoriaethau corfforaethol.

**Goblygiadau Cyllid a Chaffael:**
Yn cydymffurfio

**Goblygiadau cyfreithiol:**
Dim

**Goblygiadau staffio:**
Dim

**Goblygiadau eiddo / asedau:**
Dim yn uniongyrchol

**Risg(iau):**
Risg o ddiffyg cyllid os bydd gorwariant sylweddol

**Pwerau Statudol:**
Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992

**Papurau Cefndir:**
Rhaglen Gyfalaf Amlflwyddyn

**Atodiadau:**
Atodiad A – Adroddiad Monitro'r Rhaglen Gyfalaf

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:**
Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol- Cyllid a Chaffael

**Swyddog Adrodd:**
Liz Jones, Cyfrifydd Cynorthwyol

**Dyddiad:**
23/01/2024

| Adroddiad Monitro'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Chwarter 3 | Rheolwyr Corfforaethol / Rheolwyr Gwasanaeth | Cyllid Cyffredinol £'000 | Cyllid Grant £'000 | Cyfanswm £'000 | Cyfanswm y gwariant hyd yn hyn £'000 | Y gyllideb sydd ar ôl £'000 | Nodiadau ar gyfer y Cabinet |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgolion a Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | |
| Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif (Band B) | NJ | 3,386 | 6,178 | **9,564** | 4,693 | 4,871 | Proffil wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu proffil cyllido Ysgol Dyffryn Aeron |
| Ysgol Henry Richards | NJ | 37 | - | **37** | 1 | 36 | Dim materion i'w nodi |
| Darpariaeth Gofal Plant | NJ | - | 1,380 | **1,380** | 175 | 1,205 | Dim materion i'w nodi |
| Prydau Ysgol am Ddim | NJ | 798 | - | **798** | 103 | 695 | Dim materion i'w nodi |
| Canolfan Trochi Iaith a bloc newydd o ddosbarthiadau | NJ | - | 50 | **50** | 36 | 14 | Dim materion i'w nodi |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol - Addasiadau i Ysgolion | NJ | - | 458 | **458** | - | 458 | Dim materion i'w nodi |
| Prosiect E-sgol | NJ | - | 73 | **73** | 56 | 17 | Dim materion i'w nodi |
| Ysgolion - Gwaith Cyfalaf Ychwanegol | NJ | 2,285 | - | **2,285** | 1,178 | 1,107 | Peth oedi wedi bod. Rydym yn cysylltu â LIC i gael cymeradwyaeth i gario tanwariant ymlaen i 2024/25 |
| Systemau gwresogi o dan y llawr - Ysgolion | NJ | 60 | - | **60** | 5 | 55 | £385k wedi'i ail-broffio i 2024/25 gan fod y rhan fwyaf o'r gwariant ar gyfer Ysgol y Dderi yn 2024/25. |
| Gwaith Brys mewn Ysgolion | NJ | 150 | - | **150** | 38 | 112 | Dim materion i'w nodi |
| **Cyfanswm - Ysgolion a Dysgu Gydol Oes** | | **6,716** | **8,139** | **14,855** | **6,285** | **8,570** | |

| Adroddiad Monitro'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Chwarter 3 | Rheolwyr Corfforaethol / Rheolwyr Gwasanaeth | Cyllid Cyffredinol £'000 | Cyllid Grant £'000 | Cyfanswm £'000 | Cyfanswm y gwariant hyd yn hyn £'000 | Y gyllideb sydd ar ôl £'000 | Nodiadau ar gyfer y Cabinet |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Porth Cymorth Cynnar** | | | | | | | |
| Canolfan Lesiant - Llanbedr Pont Steffan | CY | 123 | 122 | **245** | 245 | (0) | Y cynllun wedi'i orffen |
| Canolfan Lesiant - Gwaith Brys | CY | 225 | - | **225** | 52 | 173 | £150k wedi'i ail-broffilio i 2024/25 gan fod y gwaith ar Bwll Nofio C H Plascrug ddim yn cychwyn tan Gorffennaf 24 |
| Uwchraddio Cyfleusterau - Canolfannau Llesiant - Chwaraeon Cymru | CY | - | 537 | **537** | 230 | 307 | £262k wedi'i ail-broffilio i 2024/25 - yn arian cyfatebol i'r grant o £108k o'r Gronfa Ffyniant a Rennir y DU a gymeradwywyd ar gyfer Cae Pob |
| Caeau Chwaraeon Artiffisial | CY | 107 | 4 | **111** | 112 | (1) | Y cynllun wedi'i orffen |
| Grantiau i Byllau Nofio Aberaeron a Chalon Tysul | CY | - | 89 | **89** | 78 | 11 | Y cynllun wedi'i orffen |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | LH | 1,400 | - | **1,400** | 854 | 546 | Dim materion i'w nodi |
| Cynlluniau Benthyciadau Gwella Cartrefi a Benthyciadau Troi Tai'n Gartrefi | LH | 61 | - | **61** | 10 | 51 | Dim materion i'w nodi |
| Cynllun Tai Cymunedol | | 100 | | **100** | - | 100 | Lawnsio cynllun newydd yn Nhachwedd 23 wedi'i ariannu o'r Premiwm Treth y Cyngor ar ail dai. |
| Grant Hwyluso i Fyw'n Annibynnol | LH | - | 146 | **146** | 64 | 82 | Dim materion i'w nodi |
| Y Gronfa Gofal Canolraddol - Prynu ac Adnewyddu Eiddo | LH | 10 | 42 | **52** | 40 | 12 | Arian grant £42k wedi'i gymeradwyo gan y rhanbarth - Cymeradwywyd ail-broffilio £161k i 2024/25 ar gyfer cynllun Hafan y Waun |
| Cronfa Datblygu Tir ac Adeiladau | LH | 400 | - | **400** | 69 | 331 | LIC wedi cymeradwyo estyniad i ddyddiad terfyn y cynllun sef Medi 24 - felly, ail-broffilwyd £1.288m i 2024/25. |
| Cronfa Tai â Gofal | LH | - | 120 | **120** | 28 | 92 | Rhai cynlluniau yn gysylltiedig â Phorth Gofal, felly mae'r gyllideb wedi'i rhannu yn unol â hyn. Mae'r cynlluniau sy'n gysylltiedig i Borth Cymorth Cynnar yn cynnwys Addasiadau Tai. Cymeradwywyd £80k ychwanegol yn ogystal ar gyfer addasiadau cyfleusterau Anabl. |
| Y Cynllun Grantiau Cartrefi Gwag Cenedlaethol | LH | 82 | - | **82** | - | 82 | Dim materion i'w nodi |
| **Cyfanswm - Porth Cymorth Cynnar** | | **2,508** | **1,060** | **3,568** | **1,782** | **1,786** | |

Tudalen 432

**Adroddiad Monitro'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Chwarter 3**

| | Rheolwyr Corfforaethol / Rheolwyr Gwasanaeth | Cyllid Cyffredinol £'000 | Cyllid Grant £'000 | Cyfanswm £'000 | Cyfanswm y gwariant hyd yn hyn £'000 | Y gyllideb sydd ar ôl £'000 | Nodiadau ar gyfer y Cabinet |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Yr Economi ac Adfywio** | | | | | | | |
| Gwaith Trin Carthion | AG | 200 | - | **200** | 130 | 70 | £456k wedi'i ail-broffilio i 2024/25 oherwyddd lithriad yn natblygiadau'r cynlluniau |
| Gwaith Brys Arall | AG | 100 | - | **100** | 14 | 86 | Trosglwyddo £22k i gynllun stryd South John Street, Cei Newydd |
| Adeiladau - Buddsoddi i Arbed | AG | 175 | - | **175** | 49 | 126 | Dim materion i'w nodi |
| Buddsoddiadau mewn Cynlluniau Ynni | AB | 5 | - | **5** | 1 | 4 | £745k wedi'i ail-broffilio i 2024/25 oherwydd llithriad i ddatblygiadau'r cynlluniau - Rhagwelir y bydd y cynllun gwaith yn cychwyn oddeutu mis Awst 24 |
| Rhaglen Datblygu Asedau | AD | - | 180 | **180** | 5 | 175 | Gweithio ar y Raglen Waith - rhagwelir na fydd gwariant yn 2023/24 - Cysylltu â LIC ar hyn o bryd i gymeradwyo trosglwyddo'r grant i 2024/25 |
| Neuadd y Farchnad Aberteif | AD | 369 | 28 | **397** | 293 | 104 | Cynllun yn agosâi at ei therfyn. |
| Rhaglen Adnewyddu Pomprennau | AD | 50 | - | **50** | 47 | 3 | Dim materion i'w nodi |
| Grant Gwella Mynediad | AD | - | 103 | **103** | 100 | 3 | Dim materion i'w nodi |
| Y themâu sy'n cael blaenoriaeth gan y Bartneriaeth Cyflwyno Adferiad Gwyrdd | AD | - | 32 | **32** | 11 | 21 | Dim materion i'w nodi |
| Arian Cyfalaf Lleoedd Lleol ar gyfer Natur | AD | - | 366 | **366** | 20 | 346 | Ambell broblem gyda'r cynllun - rhagwelir na fydd yr arian yn cael ei wario yn 23/24 - Cysylltu â LIC ar hyn o bryd i gymeradwyo trosglwyddo'r grant i 24/25. |
| Prosiectau Ffyniant Bro | AD | - | 1,794 | **1,794** | 385 | 1,409 | £3.214m wedi'i ail-broffilio i 2024/25 oherwydd llithriad i ddatblygiadau'r cynlluniau |
| Y Gronfa Rhwydweithiau Natur - Dalgylch Ardal Gadwraeth Arbennig Afon Teifi | AD | - | 445 | **445** | 443 | 2 | Y cynllun wedi'i orffen |
| Stryd Ioan, Ceinewydd - Gwella Mynediad i'r Ardal | AD | 9 | 36 | **45** | - | 45 | Cynnydd yn y gyllideb gan fod y tendr yn fwy na'r disgwyl - £22k wedi'i drosglwyddo o waith Brys. |
| **Cyfanswm - Yr Economi ac Adfywio** | | **908** | **2,984** | **3,892** | **1,499** | **2,393** | |

**Adroddiad Monitro'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Chwarter 3**

## Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol

| | Rheolwyr Corfforaethol / Rheolwyr Gwasanaeth | Cyllid Cyffredinol £'000 | Cyllid Grant £'000 | Cyfanswm £'000 | Cyfanswm y gwariant hyd yn hyn £'000 | Y gyllideb sydd ar ôl £'000 | Nodiadau ar gyfer y Cabinet |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnewyddu / Gwella Seilwaith y Priffyrdd | PJ | 2,200 | - | **2,200** | 1,253 | 947 | Dim materion i'w nodi |
| Gwasanaethau Amgylcheddol | GJ | 66 | - | **66** | 35 | 31 | Dim materion i'w nodi |
| Trawsnewid - Cerbydau Allyriadau Isel Iawn | PJ | - | 298 | **298** | 44 | 254 | Rheolwr y Cynllun wedi cychwyn ym mis Ionawr 24. |
| Grant Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan (CLILC) | PJ | 8 | 8 | **16** | (1) | 17 | Angen cadarnhau gyda CLILC efallai na fyddwn yn gwario hwn yn 2023/24, ac y byddwn yn ei ddefnyddio yn 2024/25 |
| Arian Craidd y Gronfa Teithio Llesol 2023/24 | PJ | - | 500 | **500** | 204 | 296 | Gor-wario o oddeutu £20k wedi'i nodi - yn trafod gyda TC. |
| Y Gronfa Teithio Llesol - Cyswllt Waunfawr i IBERS - Cam 1 | PJ | - | 1,490 | **1,490** | 444 | 1,046 | Rhagwelir gorwariant o £120k i gyflawni Cam 1 a chyflymu gwaith Cam 3. Trafod ar hyn o bryd gyda TC. Gwaith adeiladu'r mynd yn ei flawn. I'w gwblhau ym mis Mawrth 2024 |
| Y Gronfa Drafnidiaeth Leol - Dyraniad Craidd Bysiau Rhanbarthol | PJ | - | 250 | **250** | - | 250 | Aros am ganlyniad adroddiadau cyn symud ymlaen at gynllun manwl. |
| Y Gronfa Drafnidiaeth Leol - Cyllid Craidd ar gyfer Gwella Coridorau Bysiau TrawsCymru | PJ | - | 950 | **950** | 96 | 854 | Dim materion i'w nodi |
| Dyraniad Craidd 20mya | PJ | - | 739 | **739** | 595 | 144 | Gwaith ar fandaliaeth yn parhau, wrth i fandaliaeth barhau. Rhagwelir gorwariant wedi'i amcangyfrir y bydd yn £15k. LIC yn ymwybodol ac wedi awgrymu y bydd yn cael ei ariannu. |
| Llwybrau Diogel mewn Cymunedau - Llanrhystud | PJ | - | 50 | **50** | 38 | 12 | Dim materion i'w nodi |
| Cae'r Henwas (Cwblhau'r Safle) | PJ | 9 | - | **9** | 5 | 4 | Dim materion i'w nodi |
| Cynllun Lliniaru Llifogydd Dyfrffos Llandre / Y Borth - Cam Datblygu | PJ | - | 61 | **61** | 8 | 53 | Cynllun Dyfrffos Borth, estyniad i ddyddiad terfyn y cynllun ar 16/03/24 wedi'i gymeradwyo - rhagwelir y bydd y cynllun yn parhau i 2024/25, cysylltu â LIC ar hyn o bryd i gymeradwyo |

Tudalen 434

| **Adroddiad Monitro'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Chwarter 3** | **Rheolwyr Corfforaethol / Rheolwyr Gwasanaeth** | **Cyllid Cyffredinol £'000** | **Cyllid Grant £'000** | **Cyfanswm £'000** | **Cyfanswm y gwariant hyd yn hyn £'000** | **Y gyllideb sydd ar ôl £'000** | **Nodiadau ar gyfer y Cabinet** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diogelu'r Arfordir yn Aberaeron - Cam Datblygu | PJ | - | 107 | **107** | 116 | (9) | Cymeradwywyd ymestyn dyddiad gorffen y prosiect i 16/03/24 a chyflwynwyd cais i Lywodraeth Cymru am £50k o gyllid ychwanegol |
| Diogelu'r Arfordir yn Aberystwyth - Cam Datblygu | PJ | - | 232 | **232** | 94 | 138 | Rhagwelir y bydd y cynllun yn parhau i 2024/25 - Cysylltu â LIC ar hyn o bryd i gymreadwyo trosglwyddo'r cyllid i 24/25. |
| Diogelu'r Arfordir yn y Borth ac Ynyslas - Cam Datblygu | PJ | - | 40 | **40** | 1 | 39 | Wedi'i oedi oherwydd disgwylir canlyniadau modelu Afon Leri gan Gyfoeth Naturiol Cymru. |
| Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol Capel Bangor a Thal-y-bont - Cam Datblygu | PJ | - | 121 | **121** | 56 | 65 | Cymeradwywyd ymestyn dyddiad gorffen y prosiect i 16/03/24- Dim materion i'w nodi |
| Diogelu'r Arfordir yn Llangrannog - Cam Datblygu | PJ | - | 24 | **24** | 1 | 23 | Cymeradwywyd ymestyn dyddiad gorffen y prosiect i 16/03/24- Dim materion i'w nodi |
| Diogelu'r Arfordir yn Aberaeron | PJ | 13,000 | - | **13,000** | 1,890 | 11,110 | Contractwyr wedi cychwyn ar y safle ym mis Rhagfyr 23 - £3m wedi'i ail-broffilio i 23/24 oherwydd proffil gwariant y contractwyr. |
| Cerbydau Newydd i'r Fflyd | GJ | 848 | - | **848** | 177 | 671 | Dim materion i'w nodi |
| **Cyfanswm - Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol** | | **16,131** | **4,870** | **21,001** | **5,056** | **15,945** | |

Tudalen 435

| Adroddiad Monitro'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Chwarter 3 | Rheolwyr Corfforaethol / Rheolwyr Gwasanaeth | Cyllid Cyffredinol £'000 | Cyllid Grant £'000 | Cyfanswm £'000 | Cyfanswm y gwariant hyd yn hyn £'000 | Y gyllideb sydd ar ôl £'000 | Nodiadau ar gyfer y Cabinet |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Porth Gofal** | | | | | | | |
| Gwaith Brys - Cartrefi Preswyl | NL | 100 | - | **100** | 9 | 91 | Dim materion i'w nodi |
| Y Gronfa Gofal Canolraddol - Prosiect Dementia Hafan Deg | NL | - | 379 | **379** | 127 | 252 | Arian Grant o £379k wedi'i gymeradwyo o'r Cyllid a Reolir wedi'i Raglennu |
| Cronfa Tai â Gofal - Llety Diogel i Blant | NL | - | 1,182 | **1,182** | 322 | 860 | CTG - Derbyniwyd llythyrau Cynnig Grant ar gyfer Sycharth £753k - Byngalo Min y Môr £278k ac hefyd 66 Heol Tyn y Fron £278k mewn egwyddor - wedi'i broffilio dros 2 flynedd ariannol. |
| Cronfa Tai â Gofal | NL/HW | - | 121 | **121** | 34 | 87 | Gan fod rhai o'r cynlluniad CTG yn perthyn i Porth Gofal, mae'r gyllideb CTG wedi'i rhannu yn unol â hyn. Mae'r cynlluniau'n cynnwys, Storfa Offer Cymunedol Integredig (SOCI) Gwelliannau i Offer a Effeithlonrwydd, Asesiadau a synwyryddion a thrawsnewid Lolfa Ddementia Gyfeillgar yn Hafan Deg. |
| Uwchraddio Cartrefi Preswyl | NL | 280 | - | **280** | 126 | 154 | £220k wedi'i ail-broffiolio i 2024/25 oherwydd llithriad i ddatblygiadau'r cynlluniau |
| Buddsoddiad Cyfalaf Cartref Preswyl Hafan y Waun | NL | 200 | - | **200** | - | 200 | Dim materion i'w nodi |
| **Cyfanswm - Porth Gofal** | | **580** | **1,682** | **2,262** | **618** | **1,644** | |
| **Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig** | | | | | | | |
| Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig (Powys a Cheredigion) | CJE | - | 2,040 | **2,040** | 1,420 | 620 | £267k o gyllid ychwanegol yn 23/24 yn unol â'r proffil cyllido diweddaraf |
| **Cyfanswm - Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig** | | **-** | **2,040** | **2,040** | **1,420** | **620** | |
| **Cyswllt Cwsmeriaid** | | | | | | | |
| Buddsoddi mewn offer a seilwaith TGCh | AM | 390 | - | **390** | 322 | 68 | Dim materion i'w nodi |
| **Cyfanswm - Cyswllt Cwsmeriaid** | | **390** | **-** | **390** | **322** | **68** | |

Tudalen 436

| Adroddiad Monitro'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Chwarter 3 | Rheolwyr Corfforaethol / Rheolwyr Gwasanaeth | Cyllid Cyffredinol £'000 | Cyllid Grant £'000 | Cyfanswm £'000 | Cyfanswm y gwariant hyd yn hyn £'000 | Y gyllideb sydd ar ôl £'000 | Nodiadau ar gyfer y Cabinet |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyllid a Chaffael** | | | | | | | |
| Cynllun Grantiau Cymunedol | JD | 150 | - | **150** | 109 | 41 | Mae'r gyllideb wedi'i lleihau £50k i'r lefel gwariant a ragwelir ar gyfer 2023/24. |
| **Cyfanswm - Cyllid a Chaffael** | | **150** | **-** | **150** | **109** | **41** | |
| **Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd** | | | | | | | |
| Contract Inphase | AW | 30 | - | **30** | 30 | 0 | Cynllun wedi'i orffen. |
| **Cyfanswm - Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd** | | **30** | **-** | **30** | **30** | **0** | |
| **Diwygio Gwasanaethau** | | | | | | | |
| Cyfarwyddyd Cyfalafu - Diwygio Gwasanaethau | JD | 100 | - | **100** | 77 | 23 | Cyllid o'r Derbyniadau Cyfalaf er mwyn defnyddio'r Cyfarwyddyd Cyfalafu. |
| | | **27,513** | **20,775** | **48,288** | **17,198** | **31,090** | |
| **Ymrwymiadau a Gariwyd Drosodd** | | | | | | | |
| Ymrwymiadau a gariwyd drosodd (hen gynlluniau) | | - | - | **-** | 0 | (0) | Bydd yr hyn a gronnwyd yn 22/23 yn ariannu'r gwariant a gariwyd drosodd yn 23/24. |
| **Cyfanswm yr Ymrwymiadau a Gariwyd Drosodd** | | **-** | **-** | **-** | **0** | **(0)** | |
| **CYFANSWM Y RHAGLEN WAITH** | | **27,513** | **20,775** | **48,288** | **17,198** | **31,090** | |
| Arian wrth gefn | JD | 350 | - | **350** | - | 350 | |
| Grantiau newydd a gymeradwywyd / Arian cyfatebol ar gyfer cynlluniau grant | JD | 182 | 1,569 | **1,751** | - | 1,751 | |
| **Cyfanswm - Arian wrth gefn** | | **532** | **1,569** | **2,101** | **-** | **2,101** | |
| **CYFANSWM Y RHAGLEN GYFFREDINOL** | | **28,045** | **22,344** | **50,389** | **17,198** | **33,191** | |

Tudalen 437

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

## CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **19 Mawrth 2024** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Perfformiad Chwarterol Rheoli'r Trysorlys 2023/24** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Adrodd am Berfformiad Rheoli'r Trysorlys Chwarter 3 2023/24** |
| **Er:** | **Gwybodaeth** |

**Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:**
**Y Cynghorydd Gareth Davies, Aelod Cabinet ar gyfer Cyllid a Chaffael**

### 1. CYFLWYNIAD

Cyflwynir yr adroddiad hwn yn unol â Chod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar gyfer Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus (y Cod). Mae'r cod yn argymell bod gweithgarwch rheoli'r trysorlys yn cael ei adrodd o leiaf bob chwarter.

Dyma ddiffiniad CIPFA o reoli'r trysorlys:

> *"Rheoli buddsoddiadau'r awdurdod a'i lif arian, ei drefniadau bancio, ei drafodion ar y marchnadoedd arian a'r marchnadoedd cyfalaf; rheolaeth effeithiol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny a cheisio'r perfformiad gorau yn unol â'r risgiau hynny."*

### 2. SEFYLLFA'R PORTFFOLIO

Isod mae crynodeb o sefyllfa'r Cyngor o ran dyledion a buddsoddiadau, gyda manylion pellach yn cael eu dadansoddi yn Atodiad A (Buddsoddiadau) ac Atodiad B (Dyledion).

| | **Ar 31/03/2023 £m** | **Ar 31/12/2023 £m** |
|---|---|---|
| Benthyca Allanol | | |
| Benthyciadau'r PWLB | 101.1 | 100.6 |
| Benthyciad marchnad | 5.8 | 5.8 |
| Benthyciad ad-daladwy Llyw.C | 0.9 | 0.8 |
| ***Cyfanswm y Ddyled*** | **107.8** | **107.2** |
| | | |
| Buddsoddiadau sy'n cael eu dal | | |
| Yn fewnol | 38.7 | 43.5 |

| | | |
|---|---|---|
| ***Cyfanswm y Buddsoddiadau*** | **38.7** | **43.5** |
| ***Dyled Net*** | **69.1** | **63.7** |

## 3. DIWEDDARIAD ECONOMAIDD

**Yn nhrydydd chwarter 2023/24 gwelwyd:**

a) Gostyngiad yn y Cynnyrch Domestig Gros o 0.3% mis ar ôl mis, yn bosib yn rhannol oherwydd y tywydd anarferol o wlyb yn ystod adeg yma'r flwyddyn ond hefyd yn sgil y llusgo parhaus o'r cyfraddau llog uwch. Diwygiwyd y twf yn ystod yr ail chwarter gan ddod i ben ar 30 Medi, gan ddiwygio i lawr i minws 0.1% a diwygiwyd twf blynyddol hefyd lawr i 0.3%.
b) Gwelwyd gostyngiad siarp yn nhwf cyflogau, gyda'r prif gyfradd 3 mis blwyddyn ar flwyddyn yn gostwng o 8.0% ym mis Medi i 7.2% ym mis Hydref er bod cyfradd diweithdra y Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi parhau'n isel ar at 4.2%.
c) Mae chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn parhau ar dafl-lwybr sy'n mynd i lawr o 8.7% ym mis Ebrill i 3.9% ym mis Tachwedd.
d) Mae chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr craidd yn gostwng o lefel mis Mai oedd ar ei uchaf mewn 31 mlynedd o 7.1% i 5.1% ym mis Tachwedd, y gyfradd isaf ers Ionawr 2022. Yn debyg i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr, bydd chwyddiant craidd yn mesur prisiau dewis penodol o nwyddau a gwasanaethau gan dynnu allan prisiau cyfnewidiol iawn megis bwyd ac ynni.
e) Bu i Banc Lloegr gadw'r gyfradd llog sylfaenol ar 5.25% ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr.
f) Mae arenillion gilt dros 10-year wedi cwympo'n gyson wrth i fuddsoddwyr ddiwygio'r hyn maent yn ei ddisgwyl o'r cyfraddau llog i lefel is.

## 4. RHAGOLYGON CYFRADDAU LLOG

Mae'r Cyngor wedi penodi Link Group yn ymgynghorwyr trysorlys a rhan o'u gwasanaeth yw helpu'r Cyngor i ffurfio barn ar gyfraddau llog. Mae'r rhagolygon isod o gyfraddau'r PWLB wedi'u seilio ar y Gyfradd Sicrwydd (y gyfradd safonol namyn 20 pwynt sylfaenol).

Yn ôl y rhagolygon mwyaf diweddar, a wnaed ar 8 Ionawr 2024, nodwyd y farn y bydd y cyfraddau llog tymor byr a hirdymor yn codi yn y tymor byr ond y byddant yn dechrau cwympo yn ystod ail hanner blwyddyn calendr 2024.

**Rhagolygon Link Treasury Services o Gyfraddau Llog – ar 8 Ionawr 2024**

| | **Mawrth-24** | **Mehef-24** | **Medi-24** | **Rhag-24** | **Mawrth-25** | **Mehef-25** | **Medi-25** | **Rhaf-25** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhagolwg o Gyfradd y Banc | 5.25% | 5.25% | 4.75% | 4.25% | 3.75% | 3.25% | 3.00% | 3.00% |
| | | | | | | | | |
| <u>Cyfradd fenthyca PWLB</u> | | | | | | | | |
| 5 mlynedd PWLB | 4.50% | 4.40% | 4.30% | 4.20% | 4.10% | 4.00% | 3.80% | 3.70% |
| 10 mlynedd PWLB | 4.70% | 4.50% | 4.40% | 4.30% | 4.20% | 4.10% | 4.00% | 3.90% |
| 25 mlynedd PWLB | 5.20% | 5.10% | 4.90% | 4.80% | 4.60% | 4.40% | 4.30% | 4.20% |
| 50 mlynedd PWLB | 5.00% | 4.90% | 4.70% | 4.60% | 4.40% | 4.20% | 4.10% | 4.00% |

## 5. Y STRATEGAETH AR GYFER 2023/24

Cymeradwywyd strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer y flwyddyn gyfredol gan y Cyngor Llawn ym mis Mawrth 2023. Yn Strategaeth Fuddsoddi'r Cyngor amlinellwyd mai blaenoriaethau buddsoddi'r Cyngor yw sicrhau diogelwch o ran cyfalaf a hylifedd. Y nod yw sicrhau'r elw gorau ar y buddsoddiadau a hynny'n gydnaws â'r lefelau priodol o ddiogelwch a hylifedd. Yn gyffredinol, rhagwelwyd y byddai'r buddsoddiadau o ran gofynion llif arian craidd am gyfnodau hyd at 3 mis, ond byddai cyfle i fuddsoddi am gyfnodau hwy (hyd at flwyddyn) pe byddai balansau dros ben ar gael ar gyfer buddsoddi. Hyd yma, mae'r holl fuddsoddiadau eleni wedi bod yn unol â'r strategaeth.

O ran benthyca, mae gan y Cyngor falans eithaf sylweddol ac mae'n parhau i gynnal ei fenthyciadau mewnol sy'n helpu i sicrhau arbedion refeniw.

## 6. PORTFFOLIO BUDDSODDI

Yn atodiad A ceir rhestr lawn o'r buddsoddiadau sy'n cael eu dal ar 31/12/2023. Mae mwyafrif y buddsoddiadau yn rhai tymor byr, gan sicrhau bod y dyddiadau allweddol sy'n ymwneud â chyflogau, budd-dal tai a rhediadau taliadau credydwyr yn cael eu cwmpasu o fewn mis. Pan fo arian yn caniatáu, ychwanegir buddsoddiadau aeddfedu sydd â dyddiadau hwy er mwyn manteisio ar enillion uwch.

Bu i fuddsoddiadau yn ystod y naw mis o 1 Ebrill 2023 i 31 Rhagfyr 2023 arwain at incwm llog o £2.0m yn erbyn cyllideb o £1.0m ac o ganlyniad bu amrywiant ffafriol o £1.0m. Mae hyn yn sgil cyfraddau llog uwch na'r disgwyl pan osodwyd y gyllideb ar gyfer 2023/24.

Y gyllideb ar gyfer y flwyddyn yn llawn ar gyfer incwm buddsoddi yw £1.3m a rhagwelir y cyflawnir incwm o £2.4m gyda'r canlyniad bod amrywiad ffafriol o £1.1m ar gyfer y flwyddyn.

## 7. PORTFFOLIO BENTHYCA

Yn ystod 2023/24 hyd yn hyn, ni chymerwyd allan fenthyciadau newydd o'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) ond disgwylir y byddwn yn benthyca'n sylweddol yn y dyfodol agos. Mae Cynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron yn gofyn am fenthyciad darbodus o £27m dros y ddwy flynedd nesaf a fydd yn cael ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru. Mae ystyriaethau ynghylch benthyciwr, amseriad a phroffil y gofyniad benthyca hwn yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd.

Ni fydd benthyciadau PWLB yn aeddfedu yn ystod y flwyddyn.

Yn Atodiad B mae rhestr lawn o'r benthyciadau sy'n cael eu dal ar 31/12/2023.

## 8. AILDREFNU DYLEDION

Wrth i'r economi barhau i addasu i gyfraddau llog uwch, efallai y bydd cyfleoedd ar gael i aildrefnu dyledion – cyfleoedd sydd heb fod ar gael ers dros ddegawd. Bydd

y Cyngor yn parhau i fonitro'r sefyllfa ac yn gwerthuso'r cyfleoedd fydd ar gael os bydd y balansau'n caniatáu hynny.

Hyd yn hyn yn y flwyddyn ariannol hon, ni ad-dalwyd dyled cyn amser ac ni aildrefnwyd dyledion chwaith.

**9. CYDYMFFURFIO Â THERFYNAU'R TRYSORLYS**

Yn ystod y flwyddyn ariannol hyd yn hyn, mae'r Cyngor wedi gweithredu o fewn terfynau'r Trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus a nodwyd yn adroddiad Strategaeth Rheoli Trysorlys cymeradwy'r Cyngor am y flwyddyn. Yn Atodiad C gwelir Dangosyddion Darbodus 2023/24.

**10. YMGYNGHORWYR Y TRYSORLYS**

Mae'r Cyngor yn cyflogi Link Treasury Solutions Ltd fel ymgynghorydd allanol i'r Cyngor parthed y Trysorlys, ar gontract sy'n rhedeg tan 30/08/2026. Mae Link yn cynorthwyo drwy ddarparu dadansoddiad o deilyngdod credyd y parti arall mewn buddsoddiad, mae'n darparu rhagolygon o ran symudiadau cyfraddau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, mae'n cynnal adolygiadau o fantolenni, mae'n rhoi gwybodaeth yn rheolaidd am y newidiadau diweddaraf o ran yr economi a gwleidyddiaeth ynghyd â rhoi cyngor ynghylch unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth neu safonau cyfrifyddu.

**11. CONTRACT BANCIO**

Daeth y contract Banc gyda Barclays i ben ar 29 Chwefror 2024. Yn ystod Hydref 2023 bu i'r Cyngor ymgymryd ag ymarfer tendr llawn yn gwahodd gwasanaethau bancio i ddarparu tendr am gontract gwasanaethau bancio corfforaethol y Cyngor. Ar ôl ymarfer arfarnu cadarn rhoddwyd y contract i Barclays am gyfnod o saith mlynedd gyda'r opsiwn o ymestyn y contract am ddwy flynedd ychwanegol.

Mae Barclays yn fanc sydd wedi'i leoli yn y DU, mae ganddo statws credyd A1 (Moody's) hirdymor ac mae'n parhau i ddarparu gwasanaeth gwych i'r Cyngor. Mae Barclays wedi arbenigo yn y sector llywodraeth leol ers dros 15 mlynedd ac ar hyn o bryd mae'n darparu gwasanaethau bancio trafodiadol i bron i 25% o'r holl awdurdodau lleol ac mae'n dal perthynas trysorlys gyda bron i 70% yn y DU.

**<u>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:</u>**
**A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam.**

Naddo: Adroddiad er gwybodaeth yn unig.

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | Ddim yn berthnasol – er gwybodaeth yn unig |
| **Cydweithio:** | Ddim yn berthnasol – er gwybodaeth yn unig |
| **Cynnwys:** | Ddim yn berthnasol – er gwybodaeth yn unig |
| **Atal:** | Ddim yn berthnasol – er gwybodaeth yn unig |
| **Integreiddio:** | Ddim yn berthnasol – er gwybodaeth yn unig |

**Argymhelliad:**
**Nodi cynnwys yr adroddiad.**

**Rhesymau dros y penderfyniad:**
**Nid oes angen gwneud penderfyniad.**

**Trosolwg a Chraffu:**
Ystyriwyd yn ystod y broses o gymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2023/24.

**Fframwaith Polisi:**
Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2023/24

**Blaenoriaethau Llesiant Corfforaethol:**
Mae Rheoli'r Trysorlys yn sail i'r holl Flaenoriaethau Corfforaethol.

**Goblygiadau Cyllid a Chaffael:**
Adrodd gwybodaeth ynghylch y gweithgarwch Rheoli'r Trysorlys a'r incwm buddsoddi a'r llog allanol a dalwyd yn y flwyddyn.

**Goblygiadau cyfreithiol:**
Dim

**Goblygiadau Staffio:**
Dim

**Goblygiadau eiddo / asedau:**
Adrodd ynghylch perfformiad y balansau buddsoddi sy'n cael eu dal gan y Cyngor.

**Risg(iau):**
Dim

**Pwerau Statudol:**
Deddf Llywodraeth Leol 2003

**Papurau Cefndirol:**
Yr adroddiad ynghylch Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2023/24 a gyflwynwyd i'r Cyngor Llawn (Mawrth 2023)

**Atodiadau:**
Atodiad A – Portffolio Buddsoddi
Atodiad B – Portffolio Dyledion
Atodiad C – Dangosyddion Darbodus

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:**
Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael

**Swyddog Adrodd:**
Justin Davies, Rheolwr Corfforaethol – Cyllid Craidd

**Dyddiad:**
10 Chwefror 2024

**Atodiad A**

## PORTFFOLIO BUDDSODDI AR 31/12/2023:

| Manylion | Gwerth | Cyfradd Llog | Buddsoddiad | |
|---|---|---|---|---|
| | £ | % | o | i |
| **Buddsoddiadau Cyfnod Penodol** | | | | |
| Standard Chartered Sustainable Deposit | £2,000,000 | 5.76% | 05/09/2023 | 05/03/2024 |
| Marchnadoedd Corfforaethol Lloyds Bank | £2,000,000 | 5.66% | 05/10/2023 | 05/04/2024 |
| Bank of Scotland | £500,000 | 5.38% | 06/11/2023 | 10/01/2024 |
| Goldman Sachs International | £2,000,000 | 5.37% | 08/11/2023 | 08/02/2024 |
| Goldman Sachs International | £2,000,000 | 5.37% | 09/11/2023 | 09/02/2024 |
| NatWest Markets | £5,000,000 | 5.27% | 14/11/2023 | 14/02/2024 |
| Santander UK | £2,000,000 | 5.33% | 15/11/2023 | 16/02/2024 |
| DMADF | £500,000 | 5.18% | 20/11/2023 | 05/01/2024 |
| DMADF | £1,000,000 | 5.18% | 22/11/2023 | 22/01/2024 |
| DMADF | £500,000 | 5.19% | 27/11/2023 | 05/01/2024 |
| DMADF | £1,000,000 | 5.19% | 28/11/2023 | 29/01/2024 |
| DMADF | £1,000,000 | 5.19% | 28/11/2023 | 30/01/2024 |
| DMADF | £1,000,000 | 5.18% | 30/11/2023 | 05/01/2024 |
| DMADF | £1,000,000 | 5.18% | 30/11/2023 | 09/01/2024 |
| DMADF | £2,000,000 | 5.18% | 01/12/2023 | 12/01/2024 |
| DMADF | £500,000 | 5.20% | 05/12/2023 | 22/01/2024 |
| DMADF | £5,000,000 | 5.20% | 05/12/2023 | 31/01/2024 |
| DMADF | £2,000,000 | 5.20% | 06/12/2023 | 31/01/2024 |
| DMADF | £2,000,000 | 5.20% | 07/12/2023 | 02/02/2024 |
| DMADF | £500,000 | 5.20% | 08/12/2023 | 19/01/2024 |
| DMADF | £1,500,000 | 5.20% | 11/12/2023 | 19/01/2024 |
| DMADF | £700,000 | 5.20% | 14/12/2023 | 13/02/2024 |
| Cymdeithas Adeiladu Leeds | £1,000,000 | 5.22% | 19/12/2023 | 19/03/2024 |
| Marchnadoedd Corfforaethol Lloyds Bank | £1,000,000 | 5.38% | 19/12/2023 | 19/06/2024 |
| DMADF | £500,000 | 5.19% | 20/12/2023 | 16/01/2024 |
| DMADF | £500,000 | 5.20% | 21/12/2023 | 22/02/2024 |
| Cymdeithas Adeiladu Leeds | £1,000,000 | 5.22% | 21/12/2023 | 21/03/2024 |
| | | | | |
| | £39,700,000 | | | |
| | | | | |
| **Adneuon yng Nghyfrif Wrth Gefn Barclays** | | | | |
| Banc Barclays | £3,841,069 | 4.90% | - | - |
| | | | | |
| **Cyfanswm y buddsoddiadau ar 30/06/23** | **£43,541,069** | | | |

**Atodiad B**

## PORTFFOLIO DYLEDION AR 31/12/2023:

| Cyfeirnod y Benthyciad | Dull Ad-dalu | Dyddiad Dechrau | Dyddiad Aeddfedu | Cyfradd Llog Gwreiddiol | Balans ar 31/12/23 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Benthyciadau'r BBGC** | | | | | |
| **417195** | **A** | 24-Rhag-71 | 02-Rhag-31 | 8.000% | 16,461 |
| **419325** | **A** | 21-Maw-72 | 02-Rhag-31 | 7.750% | 11,513 |
| **427730** | **A** | 12-Meh-73 | 02-Meh-33 | 9.875% | 18,046 |
| **478179** | **M** | 26-Medi-96 | 31-Maw-56 | 8.125% | 5,000,000 |
| **478585** | **M** | 10-Rhag-96 | 30-Medi-56 | 7.500% | 3,000,000 |
| **480055** | **M** | 13-Hyd-97 | 30-Medi-57 | 6.375% | 6,000,000 |
| **480689** | **M** | 27-Maw-98 | 30-Medi-52 | 5.875% | 2,000,000 |
| **481159** | **M** | 20-Gorff-98 | 31-Maw-53 | 5.500% | 3,500,000 |
| **490819** | **M** | 24-Tach-05 | 31-Maw-31 | 4.250% | 2,000,000 |
| **490981** | **M** | 11-Ion-06 | 31-Maw-51 | 3.900% | 2,000,000 |
| **491703** | **M** | 07-Meh-06 | 30-Medi-41 | 4.350% | 2,700,000 |
| **491819** | **M** | 07-Gorff-06 | 30-Medi-31 | 4.500% | 5,300,000 |
| **491837** | **M** | 12-Gorff-06 | 02-Meh-39 | 4.450% | 2,000,000 |
| **492936** | **M** | 20-Chwef-07 | 06-Awst-32 | 4.550% | 6,000,000 |
| **493733** | **M** | 10-Awst-07 | 30-Medi-37 | 4.750% | 9,551,120 |
| **501411** | **A** | 10-Gorff-12 | 31-Maw-32 | 2.860% | 1,138,317 |
| **501928** | **A** | 01-Maw-13 | 31-Maw-29 | 2.630% | 1,146,639 |
| **502054** | **A** | 28-Maw-13 | 06-Chwef-33 | 2.860% | 1,255,058 |
| **502477** | **A** | 13-Awst-13 | 30-Medi-28 | 3.110% | 1,128,292 |
| **502596** | **M** | 10-Hyd-13 | 09-Hyd-36 | 4.210% | 5,000,000 |
| **502827** | **M** | 06-Chwef-14 | 10-Ion-25 | 3.660% | 3,000,000 |
| **502828** | **M** | 06-Chwef-14 | 10-Ion-27 | 3.840% | 2,000,000 |
| **502981** | **A** | 09-Ebr-14 | 31-Maw-34 | 3.680% | 1,413,119 |
| **502982** | **A** | 09-Ebr-14 | 30-Medi-28 | 3.230% | 1,593,406 |
| **503489** | **M** | 25-Tach-14 | 31-Maw-45 | 3.670% | 5,000,000 |
| **503490** | **A** | 25-Tach-14 | 31-Maw-44 | 3.400% | 1,116,593 |
| **503728** | **M** | 09-Chwef-15 | 31-Maw-60 | 2.750% | 4,000,000 |
| **503729** | **M** | 09-Chwef-15 | 31-Maw-61 | 2.750% | 4,000,000 |
| **504645** | **A** | 04-Chwef-16 | 30-Medi-45 | 2.760% | 2,114,052 |
| **506318** | **M** | 06-Medi-17 | 01-Medi-28 | 1.970% | 2,000,000 |
| **506319** | **M** | 06-Medi-17 | 01-Medi-46 | 2.560% | 6,000,000 |
| **507963** | **M** | 30-Hyd-18 | 31-Maw-34 | 2.500% | 2,000,000 |
| **507964** | **M** | 30-Hyd-18 | 30-Medi-48 | 2.460% | 1,800,000 |
| **508214** | **M** | 13-Rhag-18 | 30-Medi-39 | 2.520% | 2,000,000 |
| **509622** | **M** | 08-Awst-19 | 30-Medi-58 | 1.970% | 2,000,000 |
| **509623** | **M** | 08-Awst-19 | 30-Medi-34 | 1.730% | 1,800,000 |
| | | | | | **100,602,616** |
| **Benthyciad Marchnad** | | | | | |
| **Barclays** | **M** | 20-Meh-16 | 13-Medi-66 | 3.660% | 5,750,000 |
| **Benthyciad Ad-daladwy Llywodraeth Cymru** | | | | | |
| **Benthyciad Gwella Tai ac Eiddo Gwag 1** | **M** | 06-Maw-15 | 31-Maw-30 | 0.000% | 556,075 |
| **Benthyciad Gwella Tai ac Eiddo Gwag 2** | **M** | 27-Maw-20 | 31-Maw-35 | 0.000% | 250,000 |
| | | | | | **806,075** |
| **CYFANSWM** | | | | | **107,158,691** |

*Allwedd:A = Annuity (Blwydd-dâl) M = Maturity (Benthyciad sy'n aeddfedu)*

**Atodiad C**

## Dangosyddion Darbodus sy'n ymwneud â Rheoli'r Trysorlys

| Dyled gros a'r Gofyniad Cyllid Cyfalaf |
|---|
| Er mwyn sicrhau mai at ddiben cyfalaf yn unig y bydd dyled dros y tymor canolig, dylai'r awdurdod lleol sicrhau nad yw dyled allanol gros, ac eithrio yn y tymor byr, yn fwy na chyfanswm y gofyniad cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrifon o unrhyw ofynion cyllido cyfalaf ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol nesaf.<br><br>Mae'r swyddog Adran 151 yn dweud na chafodd yr awdurdod ddim anhawster i fodloni'r gofyniad hwn yn 2022/23, ac ni ragwelir dim anawsterau ar gyfer y flwyddyn gyfredol na blynyddoedd y dyfodol. Mae'r farn hon yn ystyried yr ymrwymiadau cyfredol, y cynlluniau presennol, a'r cynigion yn y rhaglen gyfalaf 3 blynedd. |

| Terfyn Awdurdodedig ar gyfer Dyled Allanol | | | |
|---|---|---|---|
| | **2023/24** | **2024/25** | **2025/26** |
| | **£m** | **£m** | **£m** |
| Benthyca | 155 | 163 | 168 |
| Rhwymedigaethau hirdymor eraill | 7 | 12 | 12 |
| **Cyfanswm** | **162** | **175** | **180** |

| Terfyn Gweithredol ar gyfer Dyled Allanol | | | |
|---|---|---|---|
| | **2023/24** | **2024/25** | **2025/26** |
| | **£m** | **£m** | **£m** |
| Benthyca | 149 | 157 | 162 |
| Rhwymedigaethau hirdymor eraill | 6 | 11 | 11 |
| **Cyfanswm** | **155** | **168** | **173** |

| Strwythur aeddfedu benthyca | | |
|---|---|---|
| | **Terfyn uchaf** | **Terfyn isaf** |
| Llai na 12 mis | 20% | 0% |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 20% | 0% |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 50% | 0% |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 75% | 0% |
| 10 mlynedd a throsodd | 95% | 25% |
| <u>Is-gategori 10 mlynedd a throsodd</u><br>50 mlynedd a throsodd | 20% | 0% |

| Terfyn uchaf ar gyfer cyfanswm y prifsymiau a fuddsoddir am fwy na blwyddyn | | |
|---|---|---|
| **2025/26** | **2025/26** | **2025/26** |
| £2.5m | £2.5m | £2.5m |

**Meincnod Atebolrwydd**

Dangosydd darbodus newydd ar gyfer 2023/24 yw'r Meincnod Atebolrwydd. Gofyniad Benthyca Net awdurdod lleol yw'r Meincnod Atebolrwydd, ynghyd â lwfans hylifedd. Ar ei ffurf symlaf, caiff ei gyfrifo drwy dynnu'r symiau ar y fantolen y gellir eu buddsoddi (cronfeydd wrth gefn, balansau llif arian) o swm y ddyled allanol sydd yn ddyledus. Wedyn ychwanegu isafswm y buddsoddiadau sydd eu hangen ar gyfer llif arian o ddydd i ddydd.


Mae pedair rhan i'r Meincnod Atebolrwydd:-

• Dyledion y benthyciadau sy'n ddyledus: benthyciadau presennol yr Awdurdod fydd dal heb eu talu yn y blynyddoedd i ddod.

• Benthyciadau CFR: mae hyn yn cael ei gyfrifo yn unol â'r diffiniad o fenthyciadau CFR yn y Cod Darbodus a'i ragamcanu i'r dyfodol yn seiliedig ar fenthyca darbodus cymeradwy a'r MRP arfaethedig.

• Gofynion o ran benthyciadau net: bydd hyn yn dangos dyled gros benthyciadau'r Awdurdod namyn buddsoddiadau rheoli'r trysorlys ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf, wedi'i ragamcanu i'r dyfodol ac yn seiliedig ar ei fenthyciadau darbodus cymeradwy, yr MRP arfaethedig ac unrhyw lif arian mawr a ragwelir.

• Meincnod atebolrwydd (neu'r gofynion o ran benthyciadau gros): mae hyn yn cyfateb i'r gofynion o ran benthyciadau net ynghyd â lwfans hylifedd tymor byr.



Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

# CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

**Adroddiad i'r:** **Cabinet**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **19/03/24**

**Teitl:** **Adroddiad Blynyddol Uned Gofalwyr Ceredigion 2022-2023**

**Pwrpas yr adroddiad:** **Adrodd ar gyflawniadau'r Tîm Gofalwyr a Chymorth Cymunedol Ceredigion a'r cynnydd yn erbyn eu targedau a'u hamcanion y cytunwyd arnynt yn ystod y flwyddyn 2022-2023**

**Er:** **Gwybodaeth**

**Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:**
**Y Cynghorydd Alun Williams, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet ar gyfer Gydol Oes a Llesiant**

**Cyflwyniad**
Mae'r Tîm Gofalwyr a Chymorth Cymunedol yn dod â'n Swyddogion Datblygu Gofalwyr, Cysylltwyr Cymunedol a Swyddog Heneiddio'n Dda at ei gilydd i weithio mewn un tîm sy'n canolbwyntio ar roi gwybodaeth, cyngor a chymorth i ofalwyr di-dâl a chefnogi aelodau'r gymuned yng Ngheredigion.

Diffinnir gofalwr fel 'Unrhyw un sy'n gofalu, yn ddi-dâl, am ffrind neu aelod o'r teulu sydd, oherwydd salwch, anabledd, problem iechyd meddwl neu gaethiwed, yn methu ymdopi heb eu cymorth'.

Mae gan ofalwyr hawl i fywyd y tu hwnt i'w rôl ofalu ac i wneud hynny, mae angen gwasanaethau effeithiol arnynt i gefnogi'r bobl y maent yn gofalu amdanynt ac ar eu cyfer nhw fel Gofalwyr yn eu rhinwedd eu hunain.

Mae Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at "Gymru sy'n Gyfeillgar i Ofalwyr", gan nodi bod Gofalwyr di-dâl o bob oed yn rhan werthfawr o gymdeithas. Dangosodd cyfrifiad 2021 fod tua 310,000 o ofalwyr di-dâl yng Nghymru sy'n cyfateb i 10.5% o boblogaeth dros 5 oed y wlad. Dangosodd y cyfrifiad hefyd fod 7,246 o bobl yng Ngheredigion yn rhoi gofal di-dâl. O'r nifer hwn roedd 3,664 yn rhoi mwy nag 20 awr o ofal di-dâl yr wythnos. Mae adroddiad a ysgrifennwyd ar y cyd gan Carers UK a Phrifysgol Sheffield yn dangos bod gofalwyr di-dâl yng Nghymru a Lloegr yn cyfrannu £162 biliwn y flwyddyn i'r economi. Ar ben hynny, mae gofalwyr yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol trwy ddal teuluoedd ynghyd, gan alluogi anwyliaid i gael y gorau o fywyd wrth wneud cyfraniad enfawr i gymdeithas.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi eu disgwyliad o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru 2014) y bydd iechyd, awdurdodau lleol a'r trydydd sector yn gweithio mewn partneriaeth i gefnogi Gofalwyr o dan y Ddeddf. Yn 2021, pennodd Llywodraeth Cymru o dan ei Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl, bedair blaenoriaeth:

- Adnabod a gwerthfawrogi gofalwyr
- Rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth
- Cefnogi bywyd ochr yn ochr â gofalu
- Cefnogi Gofalwyr Di-dâl mewn Addysg ac yn y Gweithle.

Mae rhoi gwybodaeth drwy lwyfannau'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a DEWIS yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Tîm Gofalwyr a Chymorth Cymunedol.

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**
**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam**

Nid oes ei angen, gan nad yw hyn yn newid polisi

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | Amherthnasol |
| **Cydweithio:** | Amherthnasol |
| **Cynnwys:** | Amherthnasol |
| **Atal:** | Amherthnasol |
| **Integreiddio:** | Amherthnasol |

**Argymhelliad / Argymhellion:**
**Nodi a derbyn Adroddiad Blynyddol 2022-2023 i gefnogi Tîm Gofalwyr a Chymorth Cymunedol Cyngor Sir Ceredigion.**

**Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:**
**Mae Adroddiad Blynyddol Tîm Gofalwyr a Chymorth Cymunedol Cyngor Sir Ceredigion 2022-2023 yn cael ei ddwyn gerbron y Cabinet er gwybodaeth.**

**Trosolwg a Chraffu:**
Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach - 11.03.2024

**Fframwaith Polisi:**
Strategaeth Gorfforaethol 22-27: Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach
Strategaeth Gydol Oed a Llesiant Ceredigion 2021-2027

**Amcanion Llesiant Corfforaethol:**
Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach

**Goblygiadau Cyllid a Chaffael:**
Dim

**Goblygiadau cyfreithiol:**
Dim

**Goblygiadau staffio:**
Dim

**Goblygiadau eiddo / asedau:**
Dim

**Risg(iau):**
Dim

**Pwerau Statudol:**
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**Papurau Cefndir:**
Dim


**Atodiadau:**
Atodiad 1 - Adroddiad Blynyddol Tîm Gofalwyr a Chymorth Cymunedol 2022-2023

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:**
Greg Jones, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cymorth Cynnar

**Swyddog Adrodd:**
Iwan Davies, Rheolwr Corfforaethol: Ymyrraeth Gynnar

**Dyddiad:**
30/01/24

**Atodiad 1**



## TÎM GOFALWYR A CHYMORTH CYMUNEDOL

# Adroddiad Blynyddol

2022 - 2023

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Cysylltu Ceredigion
Gofalwyr a Chymorth Cymunedol
Connecting Ceredigion
Carers and Community Support

# TABL O GYNNWYS


Meet the team 2

Cyflwyniad 3

Amcanion Busnes 4

Ymgorffori Strategaeth Weithredol Llesiant Gydol Oes a gweithio hybrid i fewn i'r tîm 4

Darparu cymorth, gwybodaeth a chyngor 5

Datblygu gwaith gyda grwpiau, busnesau a'r trydydd sector i adeiladu gwytnwch cymunedol 10

Datblygu seibiannau cynaliadwy ar gyfer gofalwyr 12

Uchafbwyntiau'r Tîm 13

Beth sydd angen i ni ei wneud nesaf? 19

Amcanion Busnes 2023 - 2024 19




# CWRDD Â'R TÎM



RHEOLWR TÎM - Sara Humphreys



CYDLYNYDD DATBLYGU GOFALWYR A'R GYMUNED (Gogledd Ceredigion) - Mel Walters



CYDLYNYDD DATBLYGU GOFALWYR A'R GYMUNED (De Ceredigion) - Bethan James



SWYDDOG DATBLYGU GOFALWYR - Susan Kidd



CYSYLLTYDD CYMUNEDOL - Enfys James



SWYDDOG DATBLYGU HENEIDDIO'N DDA - Paul Lewis



CYSYLLTYDD CYMUNEDOL - Carys Owens



CYSYLLTYDD CYMUNEDOL - Sarah Kendall



CYSYLLTYDD CYMUNEDOL - Sian Salcombe




CYSYLLTYDD CYMUNEDOL- Sam Henly



CYSYLLTYDD DIGIDOL - Lucy Steere



CYSYLLTYDD CYMUNEDOL - Diane Williams



PRENTIS GWEINYDDU BUSNES - Sophie Richards



CYSYLLTYDD DIGIDOL - Fraya Grattan

# CYFLWYNIAD



## NEGES WRTH RHEOLWR CORFFORAETHOL - YMYRRAETH GYNNAR, IWAN DAVIES

**Rwy'n falch iawn o gyflwyno adroddiad blynyddol Gofalwyr a Chymorth Cymunedol. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu ehangder y gwaith a wneir gan y Tîm Gofalwyr a Chymorth Cymunedol a'i bartner comisiwn Gofalwyr Ceredigion ynghyd â'r effaith gadarnhaol ar y rhai sy'n derbyn gwasanaethau.**

Wrth wraidd gwaith y tîm mae darparu gwybodaeth o ansawdd uchel i ddefnyddwyr y gwasanaeth ac mae'n galonogol gweld bod nifer y gofalwyr di-dâl sydd wedi'u cofrestru ar y Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr a'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Ifanc wedi cynyddu, sy'n golygu bod mwy o ofalwyr di-dâl y sir yn cael mynediad at wybodaeth fel y Cylchgrawn Gofalwyr.

Mae'r tîm hefyd wedi bod yn rhagweithiol wrth ymgysylltu â chymunedau Ceredigion yn trefnu digwyddiadau, galw heibio gyda'n Cysylltwyr Cymunedol ac wedi cefnogi'r mentrau Mannau Cynnes, unwaith eto yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhai sy'n mynychu.

Felly, hoffwn ddiolch yn fawr i'r tîm a’r sefydliadau partner am eu gwaith caled a'u hymrwymiad parhaus dros y flwyddyn ddiwethaf ac edrychwn ymlaen yn fawr at ddatblygu a chyflwyno meysydd gwaith newydd yn 2023-2024.

*Iwan Davies*



# AMCANION BUSNES

## YMGORFFORI STRATEGAETH WEITHREDOL LLESIANT GYDOL OES A GWEITHIO HYBRID I FEWN I'R TÎM

## Beth wnaethon ni?

### Ail-frandio'r tîm

Creu logo tîm newydd, manylion cyswllt a diweddaru ein taflenni.

Cysylltu Ceredigion
Gofalwyr a Chymorth Cymunedol
Connecting Ceredigion
Carers and Community Support







### Gwaith tîm

As a team we have got back into the swing of being out and about engaging with a range of groups and individuals.

### Cymunedau Oed-gyfeillgar

- Penodwyd Swyddog Heneiddio'n Dda.
- Ymgysylltu mewn archfarchnadoedd lleol i gyd-fynd â Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hyn.
- Dechreuwyd gwaith ar gysylltu ac ymweld â grwpiau i gasglu adborth ar yr **8 parth gwahanol**:

1. Mannau ac adeiladau allanol
2. Cludiant
3. Tai
4. Cyfranogiad Cymdeithasol
5. Parch a chynhwysiant cymdeithasol
6. Cyfranogiad a chyflogaeth ddinesig
7. Cyfathrebu a gwybodaeth
8. Cefnogaeth gymunedol a gwasanaethau iechyd

Bydd yr adborth yn sail i'r hunanasesiad Cymunedau Heneiddio'n Dda, y bydd y cyngor yn ei gyflwyno i Sefydliad Iechyd y Byd yn gynnar yn 2024. Y nod yw i Geredigion ddod yn Gymuned Oed-gyfeillgar.

# DARPARU GWYBODAETH, CYNGOR A CHYMORTH

## Beth wnaethon ni wneud?

Cysylltu Gofalwyr Connecting Carers CEREDIGION

Cynnydd o

**14%**

yn Aelodaeth Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr.




Cynyddu aelodaeth y Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Ifanc

**144%**

Printiwyd a rhannwyd

**4250**

cylchgrawn ar draws Ceredigion.







Dosbarthwyd Siarter Llywodraeth Cymru ar gyfer gofalwyr di-dâl i

**100%**

o'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr.

Dosbarthwyd

**3000**

Llyfryn Gwybodaeth i Ofalwyr Ifanc i ysgolion ar draws y sir.






Gweithio gyda Gofalwyr Ceredigion i gefnogi

**158**

o ofalwyr ifanc i gael bywyd y tu hwnt i'w rôl fel gofalwr.

Derbyniwyd
**607**
o atgyfeiriadau gan Gysylltwyr Cymunedol

Cysylltodd
**78**
o ofalwyr di-dâl â’r Cysylltwyr Cymunedol am gefnogaeth

Cafodd
**13**
gofalwr di-dâl eu cyfeirio at y Porth Gofal ar gyfer asesiad anghenion gofalwr

**Y tri phrif reswm y cysylltodd pobl â'r Cysylltwyr Cymunedol oedd:**

- Unigrwydd ac unigedd
- Ceisiadau Bathodyn Glas
- Materion sy'n ymwneud â chostau byw

O'r **137** o gleientiaid a ofynnodd am gymorth oherwydd unigrwydd ac unigedd, nid oedd gan **117** unrhyw aelodau o'r teulu na ffrindiau y gallent ddibynnu arnynt am gefnogaeth.

**Gogledd Ceredigion - 177 atgyfeiriad**

| Unigrwydd ac unigedd | Bathodyn Glas | Costau byw |
|---|---|---|
| 47 | 21 | 17 |

**Canol Ceredigion - 220 atgyfeiriad**


| Unigrwydd ac unigedd | Bathodyn Glas | Costau byw |
|---|---|---|
| 64 | 35 | 19 |

**De Ceredigion - 210 atgyfeiriad**

| Bathodyn Glas | Unigrwydd ac unigedd | Costau byw |
|---|---|---|
| 49 | 37 | 30 |



Gofalwyr Ceredigion Carers



Cefnogi Gofalwyr Ceredigion i ddarparu cyngor gwybodaeth ac arweiniad i

**805**
o oedolion sy’n ofalwyr a darparu

**2016**
awr o ofal newydd i roi cyfle i ofalwyr gael saib o’u rôl.




**39**
aelod o staff, gan gynnwys rheolwyr, wedi’u cefnogi drwy hyfforddiant a digwyddiadau gwybodaeth i ofalwyr.

# Ymgysylltu â'r cyhoedd ar draws y sir

2022-23 yw'r flwyddyn gyntaf ers pandemig Cofid-19 i'r tîm fedru cynnal a mynychu digwyddiadau cyhoeddus. Rydym wedi cynnal a mynychu **96** o ddigwyddiadau ar draws Ceredigion.

**243** o bobl wnaeth fynychu digwyddiadau galw heibio cymunedol

**49** digwyddiad galw heibio cymunedol

**24** o ddigwyddiadau partneriaethau wedi'u mynychu

**16** o ddigwyddiadau thema wedi'u trefnu gan y tîm

Cymryd rhan mewn **7** grŵp mynd i'r afael â chaledi



## Gwasanaeth Cymorth i Ofalwyr Ifanc Ceredigion- ail-gomisiynu a'i gyflwyno.

Ym mis Ebrill 2022 roeddem yn falch o gyhoeddi bod Gofalwyr Ceredigion Carers (GCC) wedi llwyddo i ennill y tendr i ddarparu'r Gwasanaeth Cymorth i Ofalwyr Ifanc yng Ngheredigion. Trwy gydol y flwyddyn, mae **357** o ofalwyr wedi ymgysylltu â'r gwasanaeth ers iddo ddechrau. Mae GCC wedi cefnogi gofalwyr ifanc a'u teuluoedd drwy ddarparu cefnogaeth 1:1 ac amrywiaeth o weithgareddau.









## Gofalwyr ifanc yn cael eu swyno gan fyd y panto

Ddiwedd mis Ionawr, estynnodd Gofalwyr Ceredigion wahoddiad i ofalwyr ifanc o bob rhan o Geredigion wylio'r pantomeim, Mother Goose, yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth.

Cafodd y gofalwyr ifanc o bob oed eu swyno gan y sioe, a hynny yng nghwmni cynulleidfa a oedd yn llenwi pob sedd yn Theatr y Werin. Roedd y perfformiad digrif yn llawn hwyl yr ŵyl, gyda chaneuon cofiadwy, comedi slapstic, a digonedd o fŵan a hisian!!

Ar un adeg, rhedodd y cast oddi ar y llwyfan, i fyny'r grisiau ac ar hyd y rhesi, gan wlychu'r gynulleidfa â gynau dŵr. Roedd yn gyfle perffaith i'r gofalwyr ifanc ymlacio a mwynhau eu hunain. A does dim dwywaith iddyn nhw wneud hynny, gyda'u bonllefau nhw'n uwch na neb arall!!

Trefnwyd yr ymweliad gan Jamie, Gweithiwr Allgymorth Gofalwyr Ifanc a Theuluoedd Gofalwyr Ceredigion. Dros y deuddeg mis diwethaf, mae Jamie wedi trefnu llawer o ymweliadau a gweithgareddau hwyliog i ofalwyr ifanc, gan gynnwys laser tag a phadlfyrddio.

***Dyfyniad o'r Cylchgrawn y Gofalwyr (Mawrth 2023)***

"Ro'n i'n poeni mai fi byddai'r hynaf yma a do'n i ddim yn siŵr iawn os oeddwn am ddod. A dweud y gwir, dwi wedi cael amser da. Do'n i ddim yn siŵr beth i'w ddisgwyl ond dwi'n sicr am ddod nôl y flwyddyn nesaf."

"Roedd hwnna'n wych! Fy hoff ran oedd pan wnaethon nhw redeg at y seddi gyda drylliau dŵr. Ges i wlychad a hanner ac ro'dd e mor cŵl."




## Hyfforddiant cydnerthedd a lles i ofalwyr

Datblygodd y tîm adnodd ar-lein ar gyfer gofalwyr di-dâl sy'n ceisio cefnogi gofalwyr di-dâl i:

- leihau lefelau straen
- gydbwyso lles
- fagu gwytnwch emosiynol

Gellir cael mynediad at y pecyn cymorth ar-lein, am ddim, gan unrhyw un ar wefan Cyngor Sir Ceredigion.

## Dewis Cymru

Mae'r holl Gysylltwyr Cymunedol wedi'u hyfforddi yn olygyddion Dewis. Gallant nawr gefnogi busnesau a grwpiau i gyhoeddi eu gwybodaeth ar Dewis. Gall staff gweinyddol hefyd ddarparu cymorth wrth adnewyddu a chynnwys



Dewis Cymru
Cael dewis a chymryd rheolaeth

## Sefydlu'r Gwasanaeth

Gwnaethom gyflwyno cyflwyniadau sefydlu gwasanaethau i **91** aelod o staff y cyngor, staff y trydydd sector a gweithwyr iechyd proffesiynol. Mae hyn yn cynnwys:

- Gweithwyr Cymdeithasol a Chynorthwywyr Gwaith Cymdeithasol
- Gweithwyr Cymdeithasol Asiantaethau
- Therapyddion Galwedigaethol Ysbyty Bronglais
- Tîm Allgymorth Cymunedol Hywel Dda
- Rhagnodwyr Cymdeithasol Hywel Dda
- DDAS
- CAMHS
- CMHT
- Fforwm Gofal Pobl Hŷn












# DATBLYGU GWAITH GYDA GRWPIAU, BUSNESAU A'R TRYDYDD SECTOR I ADEILADU GWYTNWCH CYMUNEDOL

## Beth wnaethon ni wneud?

### Cyflogwyr dros Ofalwyr

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i anrhydeddu a chymryd rhan fel aelod rhanbarthol o gynllun 'Cyflogwyr dros Ofalwyr' Gofalwyr Cymru. Fel rhan o ymrwymiad y cyngor i gefnogi gofalwyr di-dâl o fewn ein gweithlu ein hunain, mae'r Tîm Gofalwyr a Chymorth Cymunedol wedi darparu dwy haen o gyngor a chymorth drwy raglen o sesiynau ar gyfer rheolwyr a staff.

Rhannwyd **12** cylchlythyr i staff sy'n ofalwyr trwy'r Newyddion staff misol.

Cafwyd **11** sesiwn galw heibio i ofalwyr

Cyflwynwyd **4** sesiwn 'Gwybod eich hawliau gofalwyr'

Cynhaliwyd **4** sesiwn gwybodaeth 'Rheolwyr-cefnogi'r sgwrs dros ofal'




### Lleihau niwed

- Daeth yr holl staff a hyfforddwyd fel Cyfeillion Dementia'r Gymdeithas Alzheimer's a dau aelod o'r tîm yn Llysgenhadon Dementia. Gall Llysgenhadon Dementia ddarparu hyfforddiant y cyfeillion.
- Hyfforddiant alcohol a phobl hŷn
- Menywod a gamblo
- Hyfforddiant budd-daliadau

## Nodi bylchau – cyfeillio a thrafnidiaeth

Fel y gwelwyd mewn blynyddoedd cynt, **y ddau fwlch mwyaf yr ydym yn ei weld o fewn y gwasanaeth yw'r ddarpariaeth o drafnidiaeth a chyfeillio gwasanaethau**. Mae'r astudiaeth achos canlynol yn esiampl o sut yr ydym yn adnabod bylchau fel hyn a sut ydym yn mynd ati i fynd i'r afael â hwy.



**Sylwodd y Cysylltydd Cymunedol, Sarah Kendall,** ar yr angen cynyddol am wasanaethau cyfeillio a chymorth trafnidiaeth i hwyluso gweithgareddau cymdeithasol a thasgau dyddiol yn Aberystwyth. Ar ôl ymchwilio i'r gwasanaethau sydd ar gael, darganfu gynllun Canolfan Ddydd Hafan Y Waun i ddechrau clwb cymdeithasol newydd sy'n agored i'r gymuned, gan gynnig gweithgareddau amrywiol. Cefnogodd Sarah ofalwr a'i phriod sydd â dementia i fynychu'r clwb, a oedd yn bleserus ac yn foddhaus iddynt. Roedd Sarah wedi'i phlesio gyda'r effaith gadarnhaol gafodd y clwb, ac felly fe wnaeth Sarah argymell y clwb i eraill ond nododd bod heriau o ran trafnidiaeth. Ar ôl trafod hyn gyda Rheolwr y Ganolfan Ddydd, dysgodd Sarah eu bod wedi derbyn grant ar gyfer bws mini trydan, gan eu galluogi i gynnig cludiant i'r mynychwyr. Ehangodd y Ganolfan Ddydd ei gwasanaethau drwy gychwyn gwasanaeth siopa bob pythefnos. Parhaodd Sarah i gyfathrebu'n agos â'r Ganolfan Ddydd, gan eu cynorthwyo i gael mynediad at Grantiau Hwb Cynnes, gan arwain at y clwb yn dod yn Hwb Cynnes yn ystod y gaeaf a chyflwyno clwb cinio poblogaidd mewn gwahanol leoliadau yn Aberystwyth.



**Canlyniadau:**

- Bellach mae gan gleientiaid a gyfeirir rhwydwaith gymdeithasol ac maent yn mynychu gweithgareddau yn rheolaidd
- Gwnaeth Hafan Y Waun gais llwyddiannus am gyllid i ddod yn Hwb Cynnes ac mae bellach yn lle diogel i bobl yn y gymuned
- Nodi gwasanaeth siopa a chludiant ar gyfer cleientiaid sy'n ynysig yn gymdeithasol i fynychu gweithgareddau

*Mae wedi bod yn bleser mawr i mi weld fy nghleient yn mwynhau mynd i'r Clwb Ddydd Mawrth a gweld fy nghleient yn gwneud ffrindiau newydd.*

*Rwyf hefyd wedi mwynhau gweithio'n agos gyda'r Rheolwr a rhoi gwybod iddi am unrhyw grantiau posibl a allai gefnogi'r prosiectau ymhellach.*

*Rwyf bellach yn hysbysu cleientiaid yn rheolaidd am y Clwb Dydd Mawrth, y Clwb Cinio a'r tripiau siopa bob pythefnos.*

**Sarah Kendall - Cysylltydd Cymunedol**



### Mynd i'r afael â'r argyfwng costau byw

Er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng costau byw, cydweithiodd y tîm ag amrywiol bartneriaid a thimau o fewn yr awdurdod lleol i gyflwyno digwyddiadau a lledaenu taflenni gwybodaeth. Roedd yr ymdrechion hyn yn canolbwyntio ar ddarparu gwybodaeth a chymorth hanfodol, gyda'r nod o addysgu a chynorthwyo'r gymuned i reoli heriau ariannol yr argyfwng. Fe wnaeth ein dull cydweithredol wella cyrhaeddiad ac effaith y mentrau hyn yn sylweddol.


CYLCHLYTHYR GOFALWYR CEREDIGION
RHIFYN COSTAU BYW
IONAWR, 2023

**Croeso i Gylchlythyr arbennig Costau Byw gan y Tîm Gofalwyr a Chymorth Cymunedol.**

Rydym yn gwybod bod y cynnydd mewn costau byw yn gwneud pethau'n anodd i lawer o bobl, felly roeddem eisiau rhannu cyngor a gwybodaeth ar y gefnogaeth sydd ar gael i chi.

Roeddem hefyd eisiau rhannu peth o'r wybodaeth o'r digwyddiadau Diwrnod Hawliau Gofalwyr a gafodd ei gynnal ym mis Tachwedd. Rydym yn gwybod nad oedd rhai ohonoch yn gallu mynychu ac nid oeddem eisiau i chi golli allan.

Roedd Cyngor ar Bopeth, Nyth a Gofalwyr Ceredigion Carers ymhlith rhai o'r sefydliadau a ymunodd â ni yn ein digwyddiadau, darllenwch ymlaen i ddarganfod mwy...

CYNGOR AR BOPETH (CAB)

Mae CAB yn cynnig cyngor cyfrinachol am ddim ar lawer o bynciau yn cynnwys:

- Dyled ac arian
- Budd-daliadau yn cynnwys Lwfans Gofalwr
- Ynni
- Materion tai
- Gwaith
- Cyfraith a hawliau

Swyddfa Ceredigion: 01239 621974
Advicelink Cymru: 0800 702 2020
citizensadvice.org.uk/cymraeg

cyngor ar bopeth citizens advice
SGANIWCH FI

NYTH

Mae cynllun Nyth Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru yn cefnogi pobl ar incwm is sy'n derbyn budd-dal prawf modd neu bobl â chyflwr anadlol, cylchrediad y gwaed neu iechyd meddwl.

Mae Nyth yn cynnig cyngor diduedd am ddim, ac os ydych yn gymwys, pecyn o welliannau effeithlonrwydd ynni i'r cartref am ddim fel boeler newydd, gwres canolog neu inswleiddio.

0808 808 2244
nyth.llyw.cymru

Nyth Nest
SGANIWCH FI

Paratowyd gan: Dîm Gofalwyr a Chymorth Cymunedol Ceredigion
cysylltu@ceredigion.gov.uk
01545 574200

**Cylchlythyr arbennig i ofalwyr – Cyhoeddiad 'Costau Byw' Ionawr 2023**

# DATBLYGU SEIBIANNAU CYNALIADWY AR GYFER GOFALWYR

## Beth wnaethon ni wneud?

### Cerdyn Gofalwyr Ceredigion

Cyhoeddi **189** o gardiau gofalwr newydd i oedolion, cynnydd o **136%** ers y flwyddyn flaenorol.

Mae cyfanswm o **394** o ofalwyr di-dâl yng Ngheredigion yn defnyddio Cerdyn Gofalwr Ceredigion i gael mynediad at gyfleusterau hamdden am ddim yn y sir.

Cyhoeddi **55** o gardiau gofalwr ifanc newydd, cynnydd o **500%**






# UCHAFBWYNTIAU'R TÎM

## TALIAD CYMORTH O £500 I OFALWYR DI-DÂL

Gweithiodd y tîm gyda'r adran Cyllid a Chaffael i brosesu a thalu cais ar gyfer taliad cymorth Llywodraeth Cymru o £500 ar gyfer gofalwyr di-dâl a oedd ar gael i wneud cais rhwng mis Mai a mis Medi 2022. Roedd y tîm yn allweddol wrth gynghori gofalwyr di-dâl o'u hawliau. Gwnaed hyn trwy'r cyfryngau cymdeithasol a thrwy'r post. Trwy ein hymdrechion, llwyddodd Ceredigion i gyflawni un o'r cyfrannau uchaf o hawliadau yng Nghymru, a dderbyniwyd gan ofalwyr a oedd yn gymwys i gael y taliad.

Derbyniodd

**703**

o ymgeiswyr cymwys £500

Cyfanswm o

**£351,000**

wedi'i dalu

*"Hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth a'ch gwaith caled ar y cynllun hwn. Ar hyn o bryd, 77.5% yn manteisio ar hyn, sy'n ganlyniad rhagorol a gwn fod Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yn falch iawn o'r ffigwr hwn ac y byddai hithau hefyd yn dymuno ymuno â mi trwy ddiolch i bawb a gymerodd ran. Hyd yma, mae bron i 44,000 o ofalwyr di-dâl wedi elwa o'r taliad hwn."*

**Neges o ddiolch oddi wrth Duncan Hall,**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Cyllid a Chaffael**





# CRONFA GOFALWYR CEREDIGION

**Gwnaeth gofalwyr gais am hyd at £150 i wella eu hiechyd a'u lles.**




## BETH OEDD GOFALWYR YN GWARIO'R ARIAN ARNO?

**Y 5 prif gais**

- Gwyliau byr (179)
- Therapïau a Thriniaethau (84)
- Chwaraeon, ffitrwydd a gweithgareddau awyr agored (67)
- Dillad (56)
- Technoleg (52)

## DYWEDODD GOFALWYR...

"Diolch yn fawr iawn, mae hyn wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'm cyflwr meddyliol. Mae'n achos arbennig"

"Ro'n i ond am ddiolch yn fawr iawn am hwn. Dwi mor gyffrous i fwcio gwyliau yn fuan iawn. Rwy'n ddiolchgar iawn i chi i gyd."

"Diolch o waelod calon. Roeddwn i mor falch, nes i ddechrau llefain... Bydd hyn yn gwneud cymaint o wahaniaeth i mi."

"Rwyf bellach wedi defnyddio'r gronfa yn effeithiol iawn ac wedi prynu'r bysellfwrdd cerddoriaeth ro'n i wedi'i lygadu ers tro byd - diolch i chi does dim rhaid i mi freuddwydio am ei feddu rhagor."

"Diolch yn fawr am hyn, mae fy merch yn gyffrous iawn, mae hi wedi bod eisiau gêm Harry Potter newydd... Diolch unwaith eto-mae hi ar ben ei digon."

Cafodd
**£116,197**
ei ddyfarnu

Cafodd
**591**
cais unigol a theuluol eu prosesu

Elwodd
**776**
o ofalwyr

# MANNAU CROESO CYNNES

**Trwy gydol gaeaf 2022/23, bu tîm Cysylltwyr Cymunedol Ceredigion yn cydweithio â CAVO a grwpiau cymunedol ledled y sir i sefydlu Mannau Croeso Cynnes.**

Mae Mannau Croeso Cynnes yn lleoliadau cynnes a diogel sy'n rhad ac am ddim ac yn groesawgar i bob oedran, mae rhai ohonynt hefyd yn darparu diodydd poeth, byrbrydau a gweithgareddau.

Agorodd caffis, eglwysi, canolfannau cymunedol, neuaddau pentref, llyfrgelloedd a siopau llyfrau ar draws y sir eu drysau a chroesawu pobl o bob oed.

Roedd y Mannau Croeso Cynnes yn fan cyfarfod cymdeithasol i bobl ddod at ei gilydd ac adeiladu cyfeillgarwch.

**Astudiaeth achos Cysylltydd Cymunedol:**

Yn ystod cyfarfod tîm, buom yn trafod y prosiect Mannau Croeso Cynnes a chytunwyd y byddai cynnwys Cysylltwyr Cymunedol yn allweddol wrth ledaenu gwybodaeth am y cyllid sydd ar gael ledled Ceredigion. Penderfynwyd yn unfrydol i estyn allan yn rhagweithiol i bob cymuned yn y rhanbarth.

Yn fy rôl i, cefais fewnbwn gwerthfawr gan fy Rheolwr Tîm, a rannodd fanylion yn syth ar sut i wneud cais am y cyllid. Heb betruso, es ati i ddosbarthu'r wybodaeth i wahanol hybiau cymunedol, gan gynnwys Hwb Cymunedol y Borth, Eglwysi Lleol, Caffi Cymunedol Cletwr, Hafan y Waun a Neuaddau Cymunedol.

Ar ben hynny, gwnes i ymweliad personol â'r Bore Coffi a sefydlwyd yn ddiweddar yn Neuadd Rhydypennau i ddweud wrthynt am y cyfle cyllido newydd. Roedd ymateb Pwyllgor Neuadd Rhydypennau yn hynod gadarnhaol, ac fe wnaethant gais yn brydlon am y grant ar yr un diwrnod. Roeddwn wrth fy modd eu bod wedi llwyddo i gael y grant, a gefnogodd eu menter Bore Coffi Croeso Cynnes.

Oherwydd ein hymdrechion rhagweithiol i estyn allan, roeddwn yr un mor falch bod sawl man cymunedol arall wedi gwneud cais am gyllid mannau Croeso Cynnes ar gyfer eu gweithgareddau. Roedd hyn yn cynnwys, Hwb Cymunedol y Borth, Caffi Cletwr, Hafan y Waun, Eglwys Llanbadarn Fawr, Yr Iron Room yn Eglwysfach, Neuadd Talybont a Neuadd Rhydypennau yn Bow Street.

Mae'r ymateb gan y grwpiau cymunedol hyn wedi bod yn gadarnhaol iawn, a mynegwyd eu diolch am ddarparu gwybodaeth yn brydlon ac effeithiol ynghylch y cyllid sydd ar gael ar gyfer y prosiect Mannau Croeso Cynnes.

Oherwydd y berthynas gref, gadarnhaol y mae'r tîm wedi gallu meithrin gyda sefydliadau wrth ddatblygu'r Mannau Croeso Cynnes, byddwn yn parhau i adeiladu ar y gwaith hwn yn 2022-23.

Roedd
**42**
o Fannau Croeso Cynnes ar draws Ceredigion

**Gwnaeth y Cysylltwyr Cymunedol ddosbarthu:**

- **150** o adlewyrchwyr rheiddiadur
- **300** o nwyddau atal drafft
- **50** o flancedi
- **60** Bwlb golau arbed ynni

# GWEITHIO GYDAG IECHYD - PRESGRIPSIYNAU CYMDEITHASOL

## Tîm Amlasiantaeth Borth (MAT)*

Mae'r Tîm Gofalwyr a Chymorth Cymunedol wedi sefydlu cysylltiadau da ac wedi creu perthynas waith gref ymhlith aelodau MAT sydd wedi bod yn hynod hawdd i weithio â hwy pan fo angen cymorth pellach. Rydym wedi dod i adnabod tîm y feddygfa yn dda iawn ac o ran yr hyn rydym wedi'i ddysgu, rydym wedi dod i ddeall mwy am y rolau proffesiynol o fewn y feddygfa megis nyrsus Admiral, nyrs ardal, a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd eraill. Mae gennym hefyd syniad mwy clir o'u cyfranogiad yng ngofal unigolyn, lle mae'r person hwnnw ar ei daith yn gorfforol ac yn feddyliol ac mae'n ein hysbysu yn ein gwaith i sicrhau'r canlyniadau cadarnhaol gorau. Mae unrhyw rwystrau oedd yn bodoli rhwng ein tîm a'n cydweithwyr iechyd bellach wedi cael eu dileu trwy gymryd rhan yn y prosiect hwn.

MEDDYGFA BORTH SURGERY

Gwyliwch y fideo i weld gwybodaeth am MAT y Borth
*(Saesneg yn unig)*

bit.ly/BorthMAT

**150**
o gleifion wedi eu gweld gan MAT Borth a Thregaron





Cyfeiriwyd
**19**
claf yn uniongyrchol at y Tîm Gofalwyr a Chymorth Cymunedol

### Canlyniadau cleifion:

- **11** wedi'u cefnogi i ymuno â grwpiau cymdeithasol yn eu hardaloedd lleol
- Cyfeiriwyd **4** at wasanaeth cefnogi gofalwyr a gomisiynwyd ar gyfer cefnogaeth ddwys
- Cafodd **3** gymorth i gael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl
- Cefnogwyd **2** i gael mynediad at gymorth ymarferol yn y cartref wrth y Groes Goch ac Age Cymru
- Cefnogwyd **2** i gael mynediad at feddygfeydd Canolfan Cyngor ar Bopeth
- Cefnogwyd **1** i gael mynediad at Country Cars i gael cymorth gyda thrafnidiaeth

### Ehangu presgripsiynau cymdeithasol yng Ngheredigion

Ym mis Ionawr 2023, yn dilyn cydnabyddiaeth eang o gyflawniadau MAT Borth, gwahoddwyd y feddygfayn Nhregaron i ymuno. Mae gennym agwedd gadarnhaol ynglŷn â'r manteision posibl y bydd yn eu cynnig i gleifion a chymuned Tregaron drwy gydol 2023 - 2024.

**Noder: roedd MAT (Tîm Amlasiantaethol) yn cael ei adnabod ynghynt fel MDT (Y Tîm Amlddisgyblaethol) tan mis Chwefror 2023*

# BLWYDDYN LLAWN GWEITHGAREDDAU




"Doeddwn i ddim yn siŵr os oeddwn am ddod gan fy mod i mor brysur. Gwnaeth fy ngŵr fy annog i ddod heddiw ac rwy'n falch iawn fy mod i wedi dod gan fy mod wedi mwynhau'n fawr."

























"Roedd hi'n grêt dod wyneb yn wyneb gyda'r bobl ro'n i wedi siarad â nhw dros y ffôn. Roedd pawb yn gyfeillgar ac yn addysgiadol. Rwy'n edrych ymlaen at y digwyddiad nesaf!"






"Roedd yn llawer o gymorth, roedd pawb mor gyfeillgar, mae gennym ddigon i'w ddarllen. Diwrnod allan cynhyrchiol iawn, diolch."








"Fe wnes i fwynhau'r cyfle i siarad â gofalwyr eraill."






"Roedd hwn yn gyfle gwych i estyn allan at gwsmeriaid bregus oedd yn gwynebu argyfwng ynni. Ond roedd yr un mor ddefnyddiol ar gyfer cyrraedd partneriaid a dosbarthu marchnata i weithwyr rheng flaen. Diolch yn fawr."









"Cefais gyngor am y gwahanol grwpiau i'w mynychu, ond mae cyrraedd yno yn anodd oherwydd diffyg trafnidiaeth."





# BETH SYDD ANGEN I NI EI WNEUD NESAF?

## AMCANION BUSNES 2023/24

1. Darparu cyngor a chymorth gwybodaeth o safon i amrywiaeth o grwpiau ledled Ceredigion yn rhagweithiol
2. Datblygu gwaith i adeiladu gwytnwch cymunedol ar draws Ceredigion
3. Datblygu ystod o seibiannau byr cynaliadwy i ofalwyr



**Tîm Gofalwyr a Chymorth Cymunedol**
**Porth Cymorth Cynnar**
**Ceredigion County Council**

01545 574200

cysylltu@ceredigion.gov.uk

Cysylltu Ceredigion
Gofalwyr a Chymorth Cymunedol
Connecting Ceredigion
Carers and Community Support

## CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **19.03.2024** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Blynyddol Uned Gofalwyr Ceredigion 2022-2023** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Rhoi adborth yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach ar 11 Mawrth 2024** |

**Cefndir:**
Mae'r Tîm Gofalwyr a Chymorth Cymunedol yn dod â'n Swyddogion Datblygu Gofalwyr, Cysylltwyr Cymunedol a Swyddog Heneiddio'n Dda at ei gilydd i weithio mewn un tîm sy'n canolbwyntio ar roi gwybodaeth, cyngor a chymorth i ofalwyr di-dâl a chefnogi aelodau'r gymuned yng Ngheredigion.

**Argymhelliad:**
Yn dilyn trafodaeth, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i argymell y dylai'r Cabinet:

1. dderbyn Adroddiad Blynyddol y Tîm Gofalwyr a Chymorth Cymunedol.

Ymddiheurodd y Cynghorydd Alun Williams, yr Aelod Cabinet, fod yr adroddiad yn hwyr a chadarnhaodd fod pob swydd yn y tîm bellach wedi'u llenwi. Estynnodd y Cadeirydd longyfarchiadau i'r Tîm am eu gwaith caled a'u hymrwymiad.

**Y Cynghorydd Caryl Roberts**
***Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach***

## CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

**Adroddiad i'r:** **Cabinet**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **19 Mawrth 2024**

**Teitl:** **Gwasanaethau Arbenigol Porth Cynnal Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol Chwarter 2 2023 – 2024**

**Pwrpas yr adroddiad:** **Monitro cynnydd plant sy'n derbyn gofal trwy waith craffu Swyddogion Adolygu Annibynnol o'u cynlluniau a'u lleoliadau yn ystod ail chwarter 2023/2024**

**Er:** **Gwybodaeth**

**Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:**
**Y Cynghorydd Alun Williams, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet ar gyfer Gydol Oes a Llesiant**

**Cyflwyniad**
Yn yr adroddiad hwn cyflwynir gwybodaeth am y gwaith monitro a sicrhau ansawdd mewn perthynas â'r Plant sy'n Derbyn Gofal a adolygwyd yn ystod ail chwarter 2023/24.

Mae'r wybodaeth hon yn cynorthwyo'r Aelodau i gyflawni eu swyddogaethau fel Rhieni Corfforaethol.

Sail y wybodaeth yw'r ffurflenni monitro y mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn eu cwblhau yn dilyn pob adolygiad statudol o blant sy'n derbyn gofal, yn ogystal â'r wybodaeth arall y mae'r Gwasanaethau Plant yn ei chasglu am berfformiad.

Mae'r adroddiad yn cynnwys y safonau a'r targedau cenedlaethol a lleol a ddefnyddir i fesur canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal adeg eu hadolygiadau statudol, gan gynnwys Dangosyddion Perfformiad Llywodraeth Cymru a Thargedau Perfformiad Lleol.

Ar sail y wybodaeth sydd ar gael a'r hyn a fynegwyd yn ystod cyfarfod adolygu, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn llunio barn broffesiynol ynghylch effeithiolrwydd Cynllun Gofal y plentyn/person ifanc o ran bodloni ei anghenion, a gall argymell newidiadau i'r Cynllun Gofal.

Yn ystod y cyfarfod adolygu, bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes angen cymorth ar y plentyn/person ifanc er mwyn nodi pobl eraill berthnasol i gael cyngor cyfreithiol/cymryd camau ar ei ran. Roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol o'r farn bod angen gweithredu ar gyfer 2 berson ifanc yn ystod y cyfnod hwn.

Yn ogystal, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes unrhyw dramgwydd yn erbyn hawliau dynol y plentyn/person ifanc, ac os oes, gallai gyfeirio'r achos i CAFCASS. Ni chododd yr angen i wneud hynny mewn unrhyw adolygiad.

**<u>Crynodeb o'r Pwyntiau Allweddol:</u>**

- Ar ddiwedd Chwarter 2, roedd 130 o blant/pobl ifanc yn derbyn gofal o'i gymharu â 125 ar ddiwedd Chwarter 1.
- Cafodd 88 o blant eu hadolygu yn ystod y chwarter hwn o'i gymharu â 95 yn y chwarter blaenorol. Adolygwyd 95.5% o blant o fewn yr amserlen statudol.
- Roedd 7 plentyn wedi gadael gofal yn y chwarter hwn o'i gymharu ag 20 yn Chwarter 1. Y rhesymau dros y nifer uchel yn Chwarter 1 oedd bod nifer uchel o orchmynion gofal wedi'u dirymu. Cafodd 2 plentyn eu mabwysiadu yn y chwarter hwn, dychwelodd 3 adref i'w teuluoedd a symudodd 2 berson ifanc ymlaen i lety â chymorth neu ddarpariaeth byw'n annibynnol neu i leoliad cysylltu bywydau.
- Y ddarpariaeth lleoliad ar gyfer y plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn oedd bod 20 mewn gofal maeth Awdurdod Lleol yn y sir, a 1 mewn lleoliadau gofal maeth yr Awdurdod Lleol y tu allan i'r sir, 15 mewn lleoliadau gofalwyr sy'n berthnasau yn y sir a 5 y tu allan i'r sir, 2 mewn Asiantaeth Faethu Annibynnol yn y sir a 5 y tu allan i'r sir, cafodd 7 plentyn eu lleoli gyda rhieni a chafodd 21 eu lleoli mewn darpariaeth gofal preswyl y tu allan i'r sir. Roedd 2 mewn lleoliad Preswyl Mam a Baban, roedd 1 mewn llety â chymorth/byw'n annibynnol ac roedd 2 mewn lleoliadau eraill.
- Ar gyfer plant a adolygwyd yn y chwarter hwn, y cynlluniau parhad oedd yn eu lle oedd: 30 o blant yn aros mewn gofal maeth tymor hir, 18 o blant yn cael gofal gan berthnasau, 5 plentyn mewn lleoliad gyda rhiant, 10 o blant yn cael eu tracio'n gyfochrog, 4 plentyn yn cael eu mabwysiadu, 6 plentyn mewn gofal preswyl, 1 plentyn yn cael ei gefnogi i ail-fyw gyda'i rieni, 1 plentyn o dan gynllun Gwarcheidwaeth Arbennig a 2 o blant mewn lleoliad byw'n annibynnol.
- Roedd 41 o blant yn derbyn gofal o dan statws cyfreithiol Gorchymyn Gofal Llawn, 26 o dan Orchymyn Gofal Dros Dro, 2 o dan Orchymyn Lleoli, ac 19 o dan Adran 76.
- O'r plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn, cafodd 95.5% o'r plant ymweliad statudol. Roedd hyn yn cymharu ag 100% yn Chwarter 1.
- Cofnodwyd bod 27.3% o'r Cynlluniau Gofal a Chymorth wedi'u sefydlu yn yr adolygiad cyntaf o'i gymharu â'r 54.5% a oedd ar waith yn Chwarter 1. Roedd y ganran isel y chwarter hwn oherwydd problemau staffio yn y Tîm Gofal Wedi'i Gynllunio oedd wedi atal y cynlluniau rhag cael eu cwblhau mewn pryd. Roedd sylw yn cael ei roi i'r materion staffio ar hyn o bryd.
- Nododd 88 o adolygiadau fod safbwyntiau diwylliannol y person ifanc wedi cael eu bodloni.
- Cafodd 55 o bobl ifanc eu lleoli gyda Gofalwyr Maeth Lleol oedd yn gallu siarad yr un iaith â nhw.
- Nododd 6 adolygiad fod y person ifanc yn blentyn heb fod yng nghwmni oedolyn a chafodd ei roi mewn lleoliad gofal nad oedd yn bodloni ei anghenion iaith gyntaf. Roedd cyfieithydd yn yr adolygiad er mwyn i'r person ifanc allu cyfrannu'n briodol.
- Cydnabuwyd mewn 49 o adolygiadau bod anghenion crefyddol y person ifanc yn cael eu bodloni, ac ar gyfer 37 adolygiad pellach nid oedd yn hysbys a oedd yr anghenion wedi'u bodloni neu beidio.
- Cadarnhawyd bod Awdurdod Dirprwyedig wedi'i sefydlu ar gyfer 59 o blant a adolygwyd, gyda 9 adolygiad yn nodi nad oedd hyn eto wedi'i wneud eto. Ni

wyddys a oedd hyn wedi digwydd mewn 6 adolygiad, a gwnaeth 14 adolygiad arall gofnodi nad oedd yn berthnasol i'r person ifanc.

- Roedd gan 63.6% o’r plant a adolygwyd yn y chwarter hwn Gynllun Parhad yn ei le a oedd wedi’i gytuno erbyn yr ail adolygiad, os na chynlluniwyd i ddychwelyd adref.
- Canran y plant (â digon o grebwyll) sy’n deall y rheswm dros dderbyn gofal oedd 90.3%.
- Canran y plant â digon o grebwyll oedd wedi cymryd rhan neu a gafodd eu hymgynghori ynghylch eu hadolygiad oedd 97.1%.
- Canran y plant a gafodd wybod am eu hawl i gael Gwasanaeth Eirioli oedd 83.3%.
- Nifer a chanran y rhieni roedd y Gweithiwr Cymdeithasol wedi ymgynghori â hwy cyn yr adolygiad neu a fu’n bresennol yn yr adolygiad oedd 98.7%.
- Nifer a chanran y cynlluniau lleoli (gan gynnwys darpariaeth addysg ac iechyd) yr aseswyd eu bod yn bodloni anghenion plant/pobl ifanc sy’n derbyn gofal oedd 97.7%.
- Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal oedran ysgol oedd â Chynllun Addysg Personol o fewn 20 diwrnod ysgol ar ôl cael eu derbyn i ofal neu ar ôl dechrau mewn ysgol newydd yn ystod y chwarter hwn oedd 98.1%.
- Canran y Plant sy'n Derbyn Gofal a dderbyniodd Asesiadau Iechyd yn unol â’r gofynion statudol oedd 95.4%.
- Cynhaliwyd 23 o Gynlluniau Llwybr yn ystod y chwarter hwn. Cynhaliwyd 91.3% o Adolygiad o Gynlluniau Llwybr o fewn y terfynau amser.
- Canran y bobl ifanc ag Ymgynghorydd Personol / Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig oedd 100% yn ystod y chwarter hwn.
- Canran y bobl ifanc yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer eu cyfarfod adolygu yn ystod y chwarter hwn oedd 91.3% ond dim ond 39.1% a gofnododd fod y person ifanc wedi mynychu eu hadolygiad.
- Mewn 95.7% adolygiad cadarnhawyd bod y Cynllun Llwybr yn bodloni anghenion y person ifanc.

**<u>Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol:</u>**
**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam**

Na. Caiff yr adroddiad hwn ei ddarparu'n barhaus ac mae'n dangos y gwaith parhaus a wneir gyda phlant sy'n derbyn gofal yng Ngheredigion.

**Crynodeb o’r Asesiad Effaith Integredig:**

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | Amherthnasol |
| **Cydweithio:** | Amherthnasol |
| **Cynnwys:** | Amherthnasol |
| **Atal:** | Amherthnasol |
| **Integreiddio:** | Amherthnasol |

**<u>Argymhelliad / Argymhellion:</u>**
**Nodi cynnwys yr adroddiad a’r lefelau gweithgarwch o fewn yr Awdurdod Lleol.**

**<u>Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:</u>**
**Er mwyn monitro dull llywodraethu gweithgarwch yr Awdurdod Lleol a’i asiantaethau partner ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.**

**Trosolwg a Chraffu:**
Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach

**Fframwaith Polisi:**
Strategaeth Gorfforaethol

**Amcanion Llesiant Corfforaethol:**
Creu cymunedau gofalgar ac iach

**Goblygiadau Cyllid a Chaffael:**
O fewn y gyllideb graidd

**Goblygiadau cyfreithiol:**
Dim

**Goblygiadau staffio:**
Dim

**Goblygiadau eiddo / asedau:**
Dim

**Risg(iau):**
Mae'r adroddiad yn nodi'r risgiau o ran niwed i blant a sut y cânt eu diogelu.

**Pwerau Statudol:**
Deddf Plant 1989, Deddf Plant 2004 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**Papurau Cefndir:**
Dim ond dogfennau mewnol y Gwasanaethau Arbenigol

**Atodiadau:**
Atodiad A- Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol ar gyfer Chwarter 2 2023/24

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:**
Audrey Somerton-Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal

**Swyddog Adrodd:**
Elizabeth Upcott, Rheolwr Corfforaethol: Diogelu

**Dyddiad:**
8 Ionawr 2024

**Atodiad A**

# Cyngor Sir CEREDIGION County Council

## Gwasanaeth Diogelu

## Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol

## Chwarter 2: 1 Gorffennaf 2023 – 30ain Medi 2023

GOLUD GWLAD RHYDDID

...yn gofalu i wneud gwahaniaeth
...taking care to make a difference

**CYNNWYS**

**TUDALEN:**


| | | |
|---|---|---|
| **ADRAN UN:** | **CYFLWYNIAD** | **3** |
| **ADRAN DAU:** | **CYNLLUNIO GOFAL** | **4** |
| **ADRAN TRI:** | **YMGYNGHORI A CHYFRANOGI** | **21** |
| **ADRAN PEDWAR:** | **PROTOCOL DATRYS PROBLEMAU** | **24** |
| **ADRAN PUMP:** | **GWERTHUSO** | **25** |
| **ADRAN CHWECH:** | **CYNLLUNIAU LLWYBR** | **26** |
| **ADRAN SAITH:** | **GOFAL SEIBIANT BYR RHEOLAIDD** | **28** |
| **ADRAN WYTH:** | **GOFAL SEIBIANT BYR** | **29** |

## ADRAN UN: CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn darparu'r wybodaeth a gasglwyd gan y Gwasanaeth Sicrhau Ansawdd ac Adolygu Annibynnol er mwyn monitro perfformiad a sicrhau ansawdd y gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal, plant sy'n gadael gofal, plant sydd mewn lleoliadau preswyl, a phlant sy'n derbyn gofal seibiant a seibiannau byr. Mae'r wybodaeth yn seiliedig ar y ffurflenni monitro sy'n cael eu cwblhau gan y Swyddogion Adolygu Annibynnol yn dilyn pob cyfarfod adolygu yn ystod y chwarter hwn ynghyd â gwybodaeth arall am berfformiad a gedwir gan y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd.

## MEINCNODI

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y mesurau a'r targedau cenedlaethol a lleol a ddefnyddir i fesur y canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n gadael gofal ar adeg eu cyfarfod adolygu.

Ar sail y wybodaeth sydd ar gael a'r hyn a fynegir yn ystod y cyfarfod adolygu, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn llunio barn broffesiynol ynghylch effeithiolrwydd cynllun gofal y plentyn/person ifanc o ran bodloni ei anghenion, a bydd yn tynnu sylw rheolwyr at unrhyw ymarferion gwael.

Yn ystod y cyfarfod adolygu bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes angen cymorth ar y plentyn/person ifanc i adnabod pobl eraill berthnasol i gael cyngor cyfreithiol/cymryd camau ar ei ran. Barnwyd bod angen gweithredu ar gyfer 2 blentyn/person ifanc yn ystod y cyfnod dan sylw.


Yn ogystal, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes unrhyw dramgwydd yn erbyn hawliau dynol y plentyn/person ifanc ac, os oes, gallai gyfeirio'r achos i CAFCASS Cymru. Ni chododd yr angen i wneud hynny mewn unrhyw gyfarfod adolygu yn ystod y cyfnod hwn.

## ADRAN DAU

## CYNLLUNIO GOFAL

**1. Y Prif Ffigurau ar gyfer Chwarter 2:**

| **Mae'r tabl a'r siart isod yn rhoi cyfanswm y data plant sy'n derbyn gofal ar ddiwedd pob chwarter gan ddechrau gyda'r chwarter diweddaraf.** | |
|---|---|
| 30 Medi 2023 | 130 |
| 30 Mehefin 2023 | 125 |
| 31 Mawrth 2023 | 132 |
| 31 Rhagfyr 2022 | 122 |
| 30 Medi 2022 | 112 |
| 30 Mehefin 2022 | 105 |
| 31 Mawrth 2022 | 100 |
| 31 Rhagfyr 2021 | 97 |
| 30 Medi 2021 | 91 |




**2. Nifer a chanran yr adolygiadau o blant sy'n derbyn gofal a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser statudol.**

<u>Targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 95.5%</u>

Adolygwyd 88 o blant yn ystod y chwarter hwn.


- Cynhaliwyd 84 (95.5%) cyfarfod adolygu plant sy’n derbyn gofal o fewn y terfynau amser statudol.

- Cynhaliwyd 4 (4.5%) cyfarfod adolygu plant sy’n derbyn gofal y tu allan i’r gofynion statudol; cofnodwyd y rhesymau fel a ganlyn: -


    - Bu oedi o ran adolygiad 1 plentyn oherwydd newid yn y Swyddog Diogelu ac Adolygu Annibynnol.

- Yn achos 1 plentyn arall roedd hyn oherwydd gwyliau ysgol / argaeledd gweithwyr proffesiynol yn ogystal â'r angen i gynnal ymweliad ar y cyd â'r rhiant.
- Marwolaeth perthynas agos oedd y rheswm dros yr oedi ar gyfer 1 plentyn arall ac roedd yr adolygiad ar gyfer 1 plentyn ychwanegol y tu allan i'r terfynau amser oherwydd oedi cyn i'r asiantaethau gael gwybod am newid yn statws cyfreithiol y plentyn.

| | Gorff-Medi 2023 | Ebrill-Meh 2023 | Ion-Maw 2023 | Oct-Rhag 2022 | Gorff-Medi 2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y plant a adolygwyd yn ystod y chwarter | 88 | 95 | 101 | 116 | 63 |
| Nifer yr adolygiadau a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser | 84 | 90 | 95 | 99 | 56 |
| Nifer yr adolygiadau a gynhaliwyd y tu allan i'r terfynau amser | 4 | 5 | 6 | 17 | 7 |




## 3. Oed a rhyw plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn:



**4. Anghenion Diwylliannol, Crefyddol ac Iaith**

Nododd 88 (100.0%) adolygiad fod safbwyntiau diwylliannol y person ifanc yn cael eu bodloni.
Cydnabuwyd mewn 49 o adolygiadau bod anghenion crefyddol y person ifanc yn cael eu bodloni ac ar gyfer 37 adolygiad pellach nid oedd yn hysbys a oedd yr anghenion wedi'u bodloni neu beidio.
Roedd angen cyfieithydd a chafodd cyfieithydd ei ddarparu ar gyfer pob un o'r 6 adolygiad. Yn achos 1 adolygiad arall gofynnwyd am gyfieithydd ond fe'i gwrthodwyd gan y person ifanc, gan ei fod/ ei bod yn gallu siarad Saesneg rhagorol.

**5 Dinasyddiaeth**


Cofnododd 81 adolygiad fod y plentyn / person ifanc yn Ddinesydd y Deyrnas Unedig, gyda 7 adolygiad yn nodi nad oedd y plentyn / person ifanc yn Ddinesydd y Deyrnas Unedig.

Roedd 6 plentyn / person ifanc yn blant ar eu pennau eu hunain sy’n ceisio lloches, nid oedd gan yr un o'r plant / pobl ifanc hyn Gynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr EU wedi’i sefydlu.
Roedd gan 1 plentyn / person ifanc arall nad oedd yn Ddinesydd y Deyrnas Unedig Statws Preswylwyr Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.

Cofnododd pob un o'r 6 adolygiad nad oedd cais wedi'i wneud ar gyfer Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr EU; fodd bynnag cofnododd 3 adolygiad fod y person ifanc yn cael ei gefnogi yn hyn o beth.

**6 Natur lleoliadau’r plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn:**


| Math o Lleoliad | Yn y Sir | Tu Allan i'r Sir | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Gofalwyr Maeth yr Awdurdod Lleol | 20 | 1 | 21 |
| Gofalwyr sy’n Berthnasau | 15 | 5 | 20 |
| Gofalwyr Asiantaeth Faethu Annibynnol | 2 | 5 | 7 |
| Lleoli â Rhieni | 4 | 3 | 7 |
| Arall | 1 | 1 | 2 |
| Lleoli â Theulu | 3 | 4 | 7 |
| Preswyl | | 21 | 21 |
| Mabwysiadu | | | |
| Preswyl Mamau a Babanod | | 2 | 2 |
| Gofalwyr Maeth Asiantaeth Faethu Annibynnol ar gyfer Rhieni a Babanod | | | |
| Ysbyty | | | |
| Llety â Chymorth/Byw'n Annibynnol | | 1 | 1 |
| | **45** | **43** | **88** |




| |
|---|
| Roedd 55 o bobl ifanc a adolygwyd wedi cael eu lleoli gyda gofalwyr oedd yn siarad eu hiaith eu hunain. |
| Nododd 6 adolygiad fod y person ifanc yn blentyn heb fod yng nghwmni oedolyn a chafodd ei roi mewn lleoliad gofal oedd heb fodloni ei anghenion iaith gyntaf. Roedd cyfieithydd yn yr adolygiad er mwyn i'r person ifanc allu cyfrannu'n briodol. |

## 7. Statws cyfreithiol y plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn:


| Statws cyfreithiol y plant a adolygwyd | |
|---|---|
| Gorchymyn Gofal Llawn | 41 |
| Gorchymyn Gofal Dros Dro | 26 |
| Gorchymyn Lleoli | 2 |
| Adran 76 | 19 |
| **Cyfanswm** | **88** |




**Awdurdod Dirprwyedig**
Cadarnhawyd bod awdurdod dirprwyedig wedi'i sefydlu ar gyfer 59 o blant a adolygwyd, gydag 9 adolygiad yn nodi nad oedd hyn wedi'i wneud eto.  Nid wyddys a oedd hyn wedi digwydd mewn 6 adolygiad, gyda 14 adolygiad arall yn cofnodi nad oedd yn berthnasol i'r achos.

### 8. Y rhesymau pam bod y plant a adolygwyd wedi gadael gofal

| Cyfnod | Y nifer sydd wedi gadael gofal | Y rheswm droes adael gofal | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Mabwysiadu | Dychwelyd adref at y teulu | Pan dwi'n barod | Dirymu'r Gorchymyn Gofal | Llety â Chymorth / Byw'n Annibynnol/ Cysylltu Bywydau |
| **Gorff-Medi 2023** | **7** | 2 | 3 | 0 | 0 | 2 |
| **Ebr - Meh 2023** | **20** | 0 | 2 | 1 | 15 | 2 |
| **Ion - Maw 2023** | **3** | 1 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| **Hyd - Rhag 2022** | **8** | 0 | 6 | 1 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **38** | **3** | **11** | **2** | **15** | **7** |



**9. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal sydd â Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig.**


Targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 98.9%

- Cofnododd 87 (98.9%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal fod Gweithiwr Cymdeithasol cymwysedig yn gweithio gyda'r plentyn.
- Cofnododd 1 (1.1%) adolygiad Plentyn sy'n Derbyn Gofal bod y plentyn wedi'i ddyrannu i'r tîm heb fod unrhyw weithiwr cymdeithasol wedi'i nodi.

**10. Nifer a chanran yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal a adolygwyd o fewn y terfynau amser gofynnol.**

Targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 95.5%


- Derbyniodd 84 (95.5%) o blant sy'n derbyn gofal ymweliadau gan Weithiwr Cymdeithasol yn unol â'r gofynion statudol.




**11. Nifer a chanran y Cynlluniau Gofal a Chymorth (Rhan 6) a oedd wedi'u sefydlu erbyn dyddiad y lleoliad cyntaf a'r cynlluniau cyfredol a oedd ar gael ar gyfer yr adolygiad.**

Targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 27.3%

- Daeth 11 o blant yn blant sy'n derbyn gofal yn ystod y chwarter hwn; cofnodwyd mewn 3 (27.3%) cyfarfod adolygu fod gan y plentyn / person ifanc Gynllun Gofal a Chymorth (Rhan 6) wedi'i sefydlu erbyn dyddiad ei leoliad. Nid oedd y Cynllun Gofal a Chymorth (Rhan 6) wedi'i sefydlu erbyn dyddiad y lleoliad ar gyfer y 8 plentyn / person ifanc arall.




- Cofnododd 63 (71.6%) adolygiad fod y Cynllun Gofal a Chymorth (Rhan 6) yn gyfredol.

- Nododd y Swyddog Adolygu Annibynnol fod angen diweddaru cofnodion y Cynllun Gofal a Chymorth (Rhan 6) ar gyfer 25 o blant. Nodwyd bod angen diweddaru'r Cynllun Gofal a Chymorth o hyd ar gyfer 14 plentyn/person ifanc.

**12. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal sydd â Chynllun Parhad wedi'i sefydlu erbyn yr ail adolygiad os na chynlluniwyd ar gyfer dychwelyd adref.**

Targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 63.6%


- Cynhaliwyd 11 ail adolygiad yn ystod y chwarter hwn, a chofnododd 7 (63.6%) adolygiad fod Cynllun Parhad wedi'i gytuno. Mae hyn yn cymharu ag 62.5% yn y chwarter blaenorol.

- Mewn 4 (4.5%) adolygiad yn ystod y cyfnod hwn cofnododd y Swyddog Adolygu Annibynnol bryderon ynghylch cynnydd y Lleoliad/Cynllun Gofal a Chymorth/ Cynllun Parhad.


  Roedd natur y pryderon fel a ganlyn: -

  - Dim Cynllun Gofal ar System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru er y byddai'r achos yn mynd gerbron llys.
  - Nid oes cynllun clir ar gyfer y person ifanc, dywedwyd bod y Gweithiwr Cymdeithasol yn 'chwilio am leoliad'. Roedd y Person Ifanc yn aros gyda pherthynas ar hyn o bryd. Nid oedd asesiad wedi'i wneud o'r sefyllfa.
  - Nid yw'r Gweithiwr Cymdeithasol wedi cwblhau gwaith papur ar gyfer Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig oherwydd cyfyngiadau amser a llwyth gwaith. Nid ydyw wedi rhoi gwybod i'r Swyddog Adolygu Annibynnol.
  - Cafodd y person ifanc ei leoli gyda gofalwyr maeth tymor byr a'r cynllun oedd symud y person ifanc i ofalwyr maeth newydd yn yr hirdymor. Mae hyn wedi'i nodi yn yr adolygiadau blaenorol ond nid yw wedi'i ddatrys eto. Cafodd y person ifanc wybod am y lleoliad a nodwyd ym mis Chwefror ond ni


symudodd i'r lleoliad hwnnw. Mae hyn wedi bwrw'r person ifanc oddi ar ei echel ac mae tanseilio ei berthynas â'r gweithiwr cymdeithasol a ddyrannwyd.




## 13. Faint o Amser Mewn Gofal:




## 14: Natur y Cynlluniau Parhad:




**15. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal a gafodd ofal seibiant gan rywun heblaw eu prif ofalwyr**

- Mewn 1 (1.1%) adolygiad nodwyd bod y plentyn/person ifanc yn cael gofal seibiant byr i ffwrdd o'i brif ofalwr; nododd yr adolygiad o blant sy'n derbyn gofal hyn fod y gofal seibiant yn bodloni anghenion y plentyn/ person ifanc.

**6. Nifer a chanran y bobl ifanc gymwys sydd â Chynllun Llwybr yn unol â'r gofynion.**

<u>Targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 36.4%</u>

- Mewn 2 (36.4%) adolygiad o berson ifanc cofnodwyd bod gan y person ifanc Gynllun Llwybr wedi'i sefydlu a bod Ymgynghorydd Personol wedi'i benodi ar ei gyfer.
- Mewn 7 (63.6%) adolygiad cofnodwyd nad oedd gan y person ifanc Gynllun Llwybr wedi'i sefydlu.
- Nododd 8 o'r adolygiadau uchod fod Ymgynghorydd Personol wedi'i benodi ar gyfer y bobl ifanc, fodd bynnag, nododd 3 adolygiad fod Ymgynghorydd Personol heb ei benodi eto.




**17 Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal (o oedran a lefel dealltwriaeth briodol) sy'n deall y rhesymau pam eu bod yn cael eu gofalu amdanynt**

<u>Targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 90.3%</u>

- Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 72 o blant/pobl ifanc oherwydd barnwyd nad oedd 16 o blant / pobl ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll i ddeall pan eu bod yn derbyn gofal.

- Roedd 65 (90.3%) yn y grŵp hwn yn dangos rhyw fath o ddealltwriaeth pam eu bod yn derbyn gofal gan rywun heblaw am eu teuluoedd o'i gymharu â 93.2% yn y chwarter blaenorol.

- Nododd 7 (9.7%) adolygiad fod y gwaith Taith Bywyd angen ei wneud gyda'r plentyn/person ifanc i'w helpu i ddeall y rhesymau pam ei fod yn derbyn gofal.

**18. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal (fel y bo'n briodol o ran eu hoedran a'u crebwyll) a oedd yn deall eu Cynllun Gofal a Chymorth.**

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 69 o blant/pobl ifanc oherwydd barnwyd nad oedd 19 o blant / pobl ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau.

- Roedd 57 (82.6%) yn y grŵp hwn yn dangos dealltwriaeth o'r hyn a oedd yn eu Cynlluniau Gofal a Chymorth (rhan 6).

- Nododd 12 (17.4%) adolygiad fod angen rhannu hwn gyda'r plant/pobl ifanc.

**19. Mesur Cenedlaethol 33: Nifer a chanran yr achosion o symud plant sy'n derbyn gofal.**

- Mewn 10 (11.4%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn/person ifanc wedi symud lleoliad yn ystod y chwarter hwn o'i gymharu â (17.9%) yn y chwarter blaenorol.

Y rhesymau dros newid y lleoliad oedd:

- Roedd 1 person ifanc wedi symud i leoliad yn nes at Geredigion.
- Bu rhaid i frawd a chwaer a oedd wedi'u lleoli gyda gofalwyr gwahanol adael oherwydd bod y ddau ofalwr wedi rhoi rhybudd. Roedd y ddau wedi symud at ofalwyr maeth gwahanol am gyfnod byr, tra bo aelodau gwahanol o'r teulu yn cael eu hasesu. Yn dilyn hynny cafodd y ddau eu symud yn llwyddiannus at berthnasau.
- Yn achos person ifanc arall, rhoddodd gofalwyr rybudd o ran eu lleoliad a gwnaed symudiad wedi'i gynllunio i leoliad preswyl.
- Cafodd 1 person ifanc symudiad wedi'i gynllunio i leoliad cam i lawr fel rhan o'i asesiad.
- Roedd lleoliad addas yn dal i gael ei nodi ar gyfer 1 person ifanc a oedd wedi gadael lleoliad blaenorol.
- Cafodd 1 person ifanc arall symudiad heb ei gynllunio i'w ofalwyr presennol ac roedd angen cadarnhad a oeddent yn fodlon darparu lleoliad 'Pan fyddaf yn Barod', ar ôl i'r gofalwyr blaenorol benderfynu dod â'u lleoliad i ben.
- Symudodd 1 person ifanc i leoliad gyda rhiant arall.
- Symudodd 1 person ifanc i leoliad preswyl o fewn yr un cwmni. Nodwyd bod y lleoliad yn fwy priodol i fodloni anghenion y person ifanc.

- Symudodd 1 person ifanc o leoliad preswyl yn Lloegr i leoliad preswyl arall a oedd yn nes at ei deulu a Cheredigion.

Roedd y symudiadau yn achos 4 o'r plant heb eu cynllunio, ni chofnododd yr un o'r adolygiadau fod Cyfarfod Sefydlogrwydd wedi'i gynnal o fewn 6 wythnos i symud lleoliad.

**20 Nifer a chanran y cynlluniau lleoli (gan gynnwys darpariaeth addysg ac iechyd) yr aseswyd eu bod yn bodloni anghenion plant sy'n derbyn gofal.**

<u>Targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 97.7%</u>

- Cofnodwyd bod 86 (97.7%) o gynlluniau lleoli/gofal a chymorth yn bodloni anghenion plant / pobl ifanc o'i gymharu â 95.8% yn y chwarter blaenorol.

- Cofnododd 2 (2.3%) adolygiad nad oedd y lleoliad/gofal a chymorth yn bodloni anghenion y plentyn/person ifanc. Y rhesymau a gofnodwyd oedd: -

  - Nodwyd bod 1 person ifanc yn NEET (heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) ac felly mynegwyd pryder gan nad oedd lleoliad addas parhaol ar gael.
  - Yn achos person ifanc arall, roedd lleoliad blaenorol wedi methu ac roedd angen cadarnhad y gallai'r lleoliad presennol gynnig lleoliad 'Pan fyddaf yn Barod'.

**21. Nifer a chanran y pryderon diogelu a nodwyd mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal yn ystod y chwarter hwn**

- Mewn 6 (6.8%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal nodwyd pryderon diogelu ar gyfer y person ifanc; cadarnhawyd bod y pryderon yn cael sylw.

**22. Nifer y plant sy'n derbyn gofal a enwir ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.**

- Nodwyd mewn 8 (9.1%) adolygiad bod y person ifanc wedi'i enwi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

**23. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal a gafodd Asesiadau Iechyd yn unol â'r gofynion statudol**

<u>Targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 95.4%</u>


- Roedd gan 83 (95.4%) o'r plant/pobl ifanc sy'n derbyn gofal wedi cael asesiad iechyd cyfredol erbyn eu hadolygiad o'r gymharu â 96.0% yn y chwarter blaenorol.

- Cofnodwyd mewn 7 (63.6%) o’r Adolygiadau Cyntaf fod yr Asesiad Iechyd wedi'i gwblhau o fewn 4 wythnos i'r plentyn ddod yn blentyn a oedd yn derbyn gofal.

- Yn achos 4 (36.4%) adolygiad cyntaf, cofnodwyd nad oedd yr Asesiad Iechyd wedi'i gynnal o fewn 4 wythnos i'r plentyn ddod yn blentyn a oedd yn derbyn gofal. Fodd bynnag, cofnododd 2 o'r adolygiadau hyn fod Asesiad Iechyd wedi'i gwblhau wedi hynny, gyda phlentyn / person ifanc arall yn gadael gofal o fewn cyfnod byr o amser. Roedd un Asesiad Iechyd arall dal heb ei gwblhau.

- Yn achos 76 (100.0%) adolygiad pellach, cofnodwyd bod Asesiadau Iechyd yn cael eu cynnal bob 6 mis ar gyfer plant o dan 5 oed a phob 12 mis i blant dros 5 oed.

- Gwrthododd 1 (1.1%) plentyn/person ifanc sy'n derbyn gofal gael asesiad iechyd wedi'i gwblhau ac felly fe'i tynnwyd allan o'r hafaliad.




**Sylw:** Mae oedi yn digwydd yn aml oherwydd na chaiff gwybodaeth ei rhannu am blant newydd yn symud i leoliad, bod lleoliad yn newid neu fod yr Awdurdod Lleol yn dod â lleoliadau i ben.

## 24. Canran y plant a oedd wedi cofrestru gyda deintydd o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl dechrau derbyn gofal

<u>Targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 72.7%</u>

**Wedi cofrestru gyda deintydd**

Mae'r data ar gyfer cofrestru plant/pobl ifanc gyda deintydd o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl iddynt ddechrau derbyn gofal yn ymwneud â 11 plentyn/person ifanc.

- Mewn 8 (72.7%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn/person ifanc wedi cofrestru gyda deintydd o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl dechrau yn y lleoliad.

- Mewn 3 (27.3%) adolygiad nodwyd bod y plentyn/person ifanc heb gofrestru eto gyda deintydd.

**Wedi cofrestru gyda deintydd**

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud ag 77 o blant / pobl ifanc oherwydd diystyriwyd 11 plentyn/ person ifanc a oedd yn cael eu hadolygiad plant sy'n derbyn gofal cyntaf o'r ffigurau uchod er mwyn bodloni gofynion y Mesur Cenedlaethol.

- Roedd 69 (89.6%) o blant a phobl ifanc wedi cofrestru gyda deintydd. Mae hyn yn cymharu â 83.3% yn y chwarter blaenorol.

- Roedd angen i 8 (10.4%) plentyn/person ifanc gofrestru gyda deintydd.

**Sylw**: Mae pob plentyn wedi cael ei atgyfeirio / cofrestru gyda deintydd lleol.

**25. Mesur Cenedlaethol 30: Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal oedd wedi cael eu gweld gan ddeintydd o fewn 3 mis ar ôl dechrau derbyn gofal.**

**Wedi cael ei weld gan ddeintydd**

Mae'r data ar gyfer cael ei weld gan ddeintydd o fewn 3 mis ar ôl dechrau derbyn gofal yn ymwneud ag 10 plentyn.

- Cofnodwyd mewn 6 adolygiad (60.0%) bod y plentyn/person ifanc wedi cael ei weld gan ddeintydd cofrestredig o fewn 3 mis ar ôl dechrau derbyn gofal.

- Cofnodwyd mewn 4 adolygiad (40.0%) nad oedd y plentyn/person ifanc wedi cael ei weld gan ddeintydd cofrestredig o fewn 3 mis ar ôl dechrau derbyn gofal. Fodd bynnag, cafodd 1 plentyn ei weld 2 fis cyn iddo ddod yn Blentyn a oedd yn Derbyn Gofal.

**Wedi cael ei weld gan ddeintydd**


<u>Targed a bennwyd 90% - Yr hyn a gyflawnwyd 85.7%</u>

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 71 o blant/pobl ifanc gan fod 17 o blant/pobl ifanc yn iau na 2 oed a/neu'n cael eu hadolygiad o blant sy'n derbyn gofal cyntaf, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau uchod er mwyn bodloni gofynion y Mesur Cenedlaethol.

- Cofnodwyd bod 60 (85.7%) o blant a phobl ifanc wedi gweld deintydd yn y 12 mis blaenorol o'i gymharu â 80.8% yn y chwarter blaenorol.

- Cofnodwyd nad oedd 10 (14.3%) o blant a phobl ifanc wedi gweld deintydd.

- Cofnodwyd bod gan 1 (1.4%) person ifanc ffobia deintyddol ac felly cafodd ei dynnu allan o'r hafaliad.




**26. Mesur Cenedlaethol 31: Canran y plant sy'n derbyn gofal a oedd wedi cofrestru gyda Meddyg Teulu o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl dechrau yn eu lleoliad.**

- Mewn 19 (95.0%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn wedi cofrestru gyda darparwr gwasanaethau meddygol cyffredinol o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl dechrau yn y lleoliad.

- Adroddwyd mewn 1 (5.0%) adolygiad bod y cam gweithredu hwn heb ei gymryd adeg yr adolygiad. Nodwyd bod y person ifanc hwn wedi'i gofrestru gyda meddyg teulu lleol pan oedd yn ei leoliad blaenorol ond nad oedd wedi symud i feddyg teulu lleol.

**27. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal a oedd wedi cofrestru gyda meddyg teulu.**

Targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

- Roedd 88 (100.0%) o blant a phobl ifanc wedi cofrestru gyda meddyg teulu, sy'n gyson â'r chwarter blaenorol.

- Roedd 77 (91.7%) o blant wedi cael eu holl frechiadau.

- Roedd 7 (8.3%) o blant yn hwyr yn cael eu brechiadau. Mae 4 o'r bobl ifanc hyn yn blant ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches a chynhigir rhaglen garlam iddynt gan fod ganddynt hanes brechu blaenorol anghyflawn.

Cafodd 4 adolygiad eu diystyru o’r ffigurau oherwydd roedd y rhiant yn gwrthod y brechiadau.

**Sylw:** Mae diweddaru'r sefyllfa o ran imiwneiddio yn broses barhaus er mwyn medru cydymffurfio â'r amserlenni imiwneiddio.

- Mewn 80 (90.9%) adolygiad o blant cofnodwyd bod iechyd meddwl/emosiynol y plant/pobl ifanc wedi cael ei ystyried yn ystod asesiad Iechyd a/neu wrth drafod yn y cyfarfod.

- Mewn 8 (9.1%) o adolygiad cofnodwyd nad oedd y problemau iechyd meddwl wedi cael eu hystyried.

- Mewn 12 (13.6%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal nodwyd bod problem iechyd meddwl gan y person ifanc.

- Cafodd problemau ymddygiad eu nodi ar gyfer 13 (14.8%) o blant/pobl ifanc yn ystod y cyfnod hwn.


**28. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal yr aseswyd eu bod angen cymorth gan Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a gafodd eu hatgyfeirio ac a dderbyniodd asesiad/gwasanaeth.**

- Mewn 2 (2.3%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal cofnodwyd bod y plentyn/person ifanc wedi cael ei atgyfeirio i CAMHS, a chadarnhawyd mewn 1 o'r 2 adolygiad bod yr atgyfeiriad wedi cael ei dderbyn ar gyfer y plentyn/person ifanc.

**29. Natur y ddarpariaeth addysg:**

Yn ystod y chwarter hwn roedd y plant a'r bobl ifanc a adolygwyd yn y ddarpariaeth addysg ganlynol.

| **Darpariaeth Addysg** | |
|---|---|
| Plant cyn-ysgol | 15 |
| Disgyblion ysgolion gynradd | 33 |
| Disgybl ysgol uwchradd | 26 |
| Uned Cyfeirio Disgyblion (PRU) | 1 |
| Prosiectau eraill - Lleoliad Gwaith Arbenigol | 1 |
| Coleg | 6 |
| Colli addysg | |
| Heb fod mewn addysg, gwaith na hyfforddiant (NEET) | 5 |
| Addysg heblaw yn yr ysgol | |
| Preswyl | |
| Wedi gadael yr ysgol | |
| Tiwtora | 1 |
| Addysg Ddewisol yn y Cartref | |
| Cyflogedig | |
| **Cyfanswm** | **88** |




**30. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal oedran ysgol a oedd â Chynllun Addysg Personol o fewn 20 diwrnod ysgol ar ôl dechrau derbyn gofal neu ar ôl dechrau mewn ysgol newydd.**

<u>Targed a bennwyd 70% - Yr hyn a gyflawnwyd 98.1%</u>

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 58 o blant/pobl ifanc oedran statudol i ddechrau'r ysgol ac felly'n gymwys i gael Cynllun Addysg Personol.

- Roedd gan 52 (98.1%) o blant a phobl ifanc oedran statudol i ddechrau ysgol Gynllun Addysg Personol cyfredol.

    - ➢ Mewn 6 (85.7%) adolygiad cofnodwyd bod y Cynllun Addysg Personol wedi'i gwblhau o fewn 20 diwrnod ysgol o fod yn blentyn sy'n derbyn gofal, neu 20 diwrnod gwaith ar ôl newid ysgol, yn unol â'r gofynion.

    - ➢ Mewn 46 (100.0%) adolygiad cofnodwyd bod gan y person ifanc Gynllun Addysg Personol cyfredol.

- Mewn 1 (1.9%) adolygiad cofnodwyd nad oedd y Cynllun Addysg Personol wedi cael ei gwblhau o fewn y terfynau amser; wedi hynny gadawodd y plentyn / person ifanc ofal o fewn 6 wythnos o ddod yn blentyn a oedd yn derbyn gofal.

- Nid oedd gan 5 plentyn / person ifanc Gynllun Addysg Personol ar waith adeg eu hadolygiad cyntaf ac fe'u tynnwyd allan o'r hafaliad oherwydd eu bod wedi dod yn blant sy'n derbyn gofal ar ddiwedd tymor ysgol haf a'u bod wedi cael eu hadolygu yn ystod gwyliau'r ysgol.  Cafodd Cynlluniau Addysg Personol eu rhoi ar waith ar ôl i'r ysgol ddychwelyd ym mis Medi.

- Roedd gan 14 (23.7%) o blant a phobl ifanc a oedd yn mynd i'r ysgol/coleg anghenion dysgu ychwanegol cydnabyddedig.

- Mewn 21 (36.2%) adolygiad daethpwyd i'r casgliad bod y plant/pobl ifanc a oedd yn mynd i'r ysgol/coleg yn tangyflawni o ran eu haddysg. Ym mhob un o'r 21 adolygiad cofnodwyd bod y bobl ifanc yn cael cymorth.

- Mewn 8 (61.5%) adolygiad nodwyd bod y ddarpariaeth addysg wedi'i sefydlu ar ddechrau'r lleoliad.

- Mewn 5 (38.5%) adolygiad cofnodwyd nad oedd y ddarpariaeth addysg wedi'i sefydlu ar ddechrau'r lleoliad.

- Mewn 2 (3.4%) adolygiad cofnodwyd y bu cyfnod pan oedd y plentyn/person ifanc heb fod mewn addysg am gyfnod tra ei fod aros am le mewn ysgol

**31. Mesur Cenedlaethol 32: Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi symud i ysgol arall, ac eithrio trefniadau pontio**

<u>Targed a bennwyd 0% - Yr hyn a gyflawnwyd 3.5%</u>

- Mewn 2 (3.5%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn/person ifanc wedi symud i ysgol arall ac nad oedd yn symud yn dilyn pontio, o'i gymharu ag 0.0% yn y chwarter blaenorol.

**32. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal a gafodd eu gwahardd o'r ysgol**

<u>Targed a bennwyd 12% gwaharddiad dros dro –Yr hyn a gyflawnwyd 3.4%</u>
<u>Targed a bennwyd 1% gwaharddiad parhaol – Yr hyn a gyflawnwyd 0.0%</u>

- Mewn 2 adolygiad (3.4%) adroddwyd bod y person ifanc wedi'i wahardd o'r ysgol dros dro yn ystod y cyfnod adolygu. Mae hyn yn cymharu ag 3.1% yn y chwarter blaenorol.

- Ni adroddwyd mewn unrhyw adolygiad (0.0%) bod y person ifanc wedi'i wahardd yn barhaol o'r ysgol, sy'n gyson â'r chwarter blaenorol.

Y gwaharddiadau yn ystod y chwarter hwn oedd: -
1 sesiwn - 0.5 diwrnod

# ADRAN TRI

## YMGYNGHORI A CHYFRANOGI

1. **Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal a oedd yn ddigon hen ac yn meddu ar ddigon o grebwyll fel bod Gweithiwr Cymdeithasol wedi gallu ymgynghori â hwy neu roeddent yn bresennol yn eu cyfarfod adolygu.**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 97.1%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 70 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 18 adolygiad nad oedd y plant/pobl ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll i fod yn rhan i'r broses ymgynghori, er bod 2 blentyn/person ifanc wedi bod yn bresennol yn eu hadolygiad.

- Cofnodwyd mewn 68 (97.1%) adolygiad fod ymgynghori wedi digwydd.
- Cofnodwyd mewn 2 (2.9%) adolygiad nad oedd ymgynghoriad wedi digwydd

Dadansoddiad o'r ymgynghori
Roedd 29 plentyn/person ifanc yn bresennol yn eu cyfarfod adolygu ar Teams.
Roedd 39 plentyn/person wedi cwblhau papurau ymgynghori wedi siarad â'r Swyddog Adolygu Annibynnol a/neu gweithiwyr proffesiynol, rhieni, gofalwyr neu eiriolwyr wedi'u cynrychioli yno.

- Cafodd y Swyddog Adolygu Annibynnol gysylltiad uniongyrchol ag 20 plentyn/person ifanc yn ystod y cyfnod adolygu y tu allan i'r cyfarfod adolygu.

2 **Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y plant a oedd yn gwybod am eu hawl i gael Gwasanaeth Eirioli / Cynllun Ymwelwyr Annibynnol**

Targed a bennwyd 100% - Yn hyn a gyflawnwyd 83.3%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 72 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 16 adolygiad nad oedd y plant/pobl ifanc a adolygwyd yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll i gael gwybod am eu hawl i gael Eiriolwr/Cynllun Ymwelydd Annibynnol, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau.

- Cafodd 60 (83.3%) plentyn/person ifanc wybod am eu hawl i gael Eiriolwr/Cynllun Ymwelydd Annibynnol.
- Ni hysbyswyd 12 (16.7%) o blant / pobl ifanc am eu hawl i gael Eiriolwr / Cynllun Ymwelydd Annibynnol.

**3 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y plant a gafodd wybod am y drefn gwyno**

Targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 90.8%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 65 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 23 adolygiad nad oedd y plentyn/ person ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll, felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau.

- Roedd 59 (90.8%) o blant/pobl ifanc yn gwybod am y drefn gwyno o'i gymharu â 95.1% yn y chwarter blaenorol.

- Mewn 6 (9.2%) adolygiad cofnodwyd bod y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ansicr a oedd y plentyn/person ifanc yn gwybod am y broses gwyno neu beidio.

**4 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y rhieni y bu i'r Gweithiwr Cymdeithasol ymgynghori â hwy cyn yr adolygiad neu a fu'n bresennol yn y cyfarfod adolygu.**

Targed a bennwyd 80% - Yr hyn a gyflawnwyd 98.7%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud ag 79 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 9 adolygiad nad oedd y rhieni yn rhan o'r broses adolygu statudol, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau.

- Cwblhaodd 78 (98.7%) o rieni bapurau ymgynghori neu roeddent wedi cwrdd neu siarad â'r Swyddog Adolygu Annibynnol cyn a/neu ar ôl y cyfarfod adolygu, a/neu roeddent wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod adolygu eu hunain, a/neu roedd gweithwyr proffesiynol wedi'u cynrychioli yno.

- Nododd 1 adolygiad (1.3%) nad oedd dim ymgynghori wedi digwydd. Roedd hyn oherwydd amgylchiadau'r teulu ar y pryd.

  Dadansoddiad o'r ymgynghori
  Cafodd papurai ymgynghori eu hanfon ar gyfer pob un o'r 78 o adolygiad.
  Mewn 40 adolygiad cadarnhawyd bod y rhieni'n bresennol neu eu bod wedi siarad â'r Swyddog Adolygu Annibynnol dros y ffôn cyn a/neu ar ôl yr adolygiad.

**5 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y gofalwyr maeth y bu i'r Gweithiwr Cymdeithasol ymgynghori â hwy neu a fu'n bresennol yng nghyfarfod adolygu'r plentyn.**

Targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 98.8%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 82 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 8 adolygiad bod y plentyn wedi'i leoli â rhiant neu'n byw'n annibynnol, felly diystyriwyd yr adolygiadau hyn yn y ffigurau.

- Cwblhaodd 81 (98.8%) o ofalwyr maeth bapurau ymgynghori a/neu buont yn bresennol yn yr adolygiadau yn ystod y cyfnod hwn.

- Nododd 1 (1.2%) adolygiad nad oedd ymgynghoriad wedi bod â'r gofalwyr. Roedd hyn oherwydd sefyllfa'r person ifanc adeg yr adolygiad.

**6 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y cynrychiolwyr iechyd a fu'n bresennol mewn adolygiad neu a anfonodd adroddiad**

Targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 88.6%

- Mewn 78 (88.6%) adolygiad cadarnhawyd bod gwybodaeth am iechyd ar gael ar gyfer y cyfarfod.

- Mewn 10 (11.4%) adolygiad adroddwyd nad oedd gwybodaeth am iechyd ar gael ar gyfer y cyfarfod.

**Sylwadau:** Pan fydd pobl ifanc yn byw y tu allan i'r sir, mae'n fwy anodd cael y gweithwyr iechyd proffesiynol i fynychu

**7. Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y cynrychiolwyr ysgol a fu'n bresennol mewn adolygiad neu a anfonodd adroddiad**

Targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 86.4%

- Mewn 57 (86.4%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal roedd rhywun o'r ysgol yn bresennol neu wedi darparu adroddiad ysgrifenedig o'i gymharu â 81.4% yn y chwarter blaenorol.

- Cofnododd 9 (13.6%) o'r adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal nad oedd unrhyw gynrychiolydd ysgol nac adroddiad ysgrifenedig.

**8. Dangosydd perfformiad lleol: Nifer a chanran y dogfennau adolygiad o blant sy'n derbyn gofal a gwblhaodd y Gweithiwr Cymdeithasol cyn yr adolygiad.**

Targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 44.3%

- Mewn 39 (44.3%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal cadarnhawyd bod y gweithiwr cymdeithasol wedi cwblhau'r ddogfen adolygu cyn y cyfarfod adolygu o'i gymharu â 49.5% yn y chwarter blaenorol.

- Mewn 49 (55.7%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal cadarnhawyd nad oedd y ddogfen adolygu wedi'i chwblhau gan y gweithiwr cymdeithasol cyn yr adolygiad.

## ADRAN PEDWAR:
## PROTOCOL DATRYS PROBLEMAU

Gwnaeth y Swyddog Diogelu ac Adolygu Annibynnol roi'r Protocol Datrys Materion ar waith ar gyfer un person ifanc yn ystod y cyfnod hwn.

Cynhaliwyd 4 adolygiad canol cyfnod yn ystod y cyfnod hwn a lle'r oedd angen roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn cynnal adolygiadau yn gynharach pan oedd pryderon.

## ADRAN PUMP

## GWERTHUSO

Nid oedd y wybodaeth hon ar gael ar gyfer y chwarter hwn.

## ADRAN CHWECH

## CYNLLUNIAU LLWYBR

### Ar gyfer pobl ifanc dros 16 oed nad ydynt yn blant sy'n derbyn gofal/pobl ifanc dros 18 oed sydd wedi gadael gofal

Cynhaliwyd 23 Adolygiad o Gynlluniau Llwybr yn ystod y chwarter hwn.

**1 Dangosydd Perfformiad: Canran yr Adolygiadau o Gynlluniau Llwybr a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser.**

- Cynhaliwyd 21 (91.3%) o Adolygiadau o Gynlluniau Llwybr o fewn y terfynau amser o'i gymharu â 82.4% yn y chwarter blaenorol.
- Cynhaliwyd 2 (8.7%) Adolygiad o Gynlluniau Llwybr y tu allan i'r terfynau amser. Roedd y rhesymau a gofnodwyd fel a ganlyn: -
    - Aildrefnwyd 2 adolygiad oherwydd argaeledd y Swyddog Adolygu Annibynnol / Ymgynghorydd Personol.

**2 Dangosydd Perfformiad: Canran y bobl Ifanc ag Ymgynghorydd Personol /Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig**

- Ym mhob un o'r 23 (100%) adolygiad nodwyd bod gan yr holl bobl ifanc Ymgynghorydd Personol a/neu Weithiwr Cymdeithasol dynodedig.

**3 Dangosydd Perfformiad: Canran y Cofnodion o'r Adolygiad o Gynlluniau Llwybr a oedd wedi'u cwblhau erbyn y cyfarfod**

- Roedd y Cofnod Adolygu wedi'i gwblhau ar gyfer 18 (78.3%) Adolygiad o Gynlluniau Llwybr o'i gymharu ag 94.1% yn y chwarter blaenorol.
- Mewn 5 (21.7%) adolygiad adroddwyd nad oedd y Cofnod o'r Adolygiad wedi'i gwblhau adeg yr adolygiad.

**4 Dangosydd perfformiad: Canran y bobl ifanc yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer y cyfarfod adolygu**

- Cadarnhawyd mewn 21 (91.3%) adolygiad y bu'r bobl ifanc yn bresennol yn y cyfarfod adolygu a/neu fod rhywun wedi'u cynrychioli yno.
- Nodwyd mewn 2 (8.7%) adolygiad fod barn y plentyn/person ifanc heb gael ei chynrychioli yn yr adolygiad a/neu heb fod yn bresennol yn yr adolygiad.

**5 Dangosydd perfformiad: Canran y bobl Ifanc a oedd yn bresennol yn eu cyfarfod adolygu**

- Mewn 9 (39.1%) adolygiad cofnodwyd y bu'r person ifanc yn bresennol yn y cyfarfod adolygu.
- Mewn 14 (60.9%) adolygiad cofnodwyd na fu'r person ifanc yn bresennol yn yr adolygiad.

**6 Dangosydd Perfformiad: Canran y Cynlluniau Llwybr oedd yn bodoli anghenion y person ifanc**

- Mewn 22 (95.7%) adolygiad cadarnhawyd bod y Cynllun Llwybr yn bodloni anghenion y person ifanc.
- Mewn 1 (4.3%) adolygiad cofnodwyd nad oedd y Cynllun Llwybr yn bodloni anghenion y person ifanc.

**7 Dangosydd Perfformiad: Canran y Cynlluniau Llwybr a ddiweddarwyd cyn gadael gofal/ pen-blwydd yn 18 oed.**

- Adroddodd 3 (0.0%) Adolygiad o Gynlluniau Llwybr fod y Cynllun Llwybr wedi'i diweddaru cyn i'r person ifanc adael gofal/ troi'n ddeunaw oed.

**8 Gwerthuso - Nid oedd y wybodaeth hon ar gael ar gyfer y chwarter hwn.**

## ADRAN 7

## GOFAL SEIBIANT BYR RHEOLAIDD

Ni chynhaliwyd adolygiad o ofal seibiant byr rheolaidd yn ystod y chwarter hwn.

## ADRAN 8

## GOFAL SEIBIANT BYR

Ni chynhaliwyd unrhyw adolygiadau o ofal seibiant byr yn ystod y chwarter hwn.

## CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **19.03.2024** |
| **Teitl:** | **Argymhelliad y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2024 i ystyried Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol ar gyfer Chwarter 2, 2023-2024**. |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Rhoi adborth yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach ar 11 Mawrth 2024** |

**Cefndir:**
Yng nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2024, ystyriwyd Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol ar gyfer Chwarter 2 2023-2024.

Derbynnir adroddiadau chwarterol gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach fel rhan o'r ystyriaeth barhaus o'r pwnc i sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn cyflawni ei ddyletswyddau fel y Rhiant Corfforaethol.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys safonau a'r targedau cenedlaethol a lleol a ddefnyddir i fesur y canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n gadael gofal adeg eu cyfarfod adolygu, ac mae'n cynnwys Dangosyddion Perfformiad Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad:**
Yn dilyn trafodaeth, roedd Aelodau'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Cabinet:

- nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefel o weithgarwch o fewn yr Awdurdod Lleol.

**Rheswm dros y penderfyniad:**
Er mwyn monitro dull llywodraethu gweithgarwch yr Awdurdod Lleol a'i asiantaethau partner ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal.

**Y Cynghorydd Caryl Roberts**
***Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach***

# CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **19 Mawrth 2024** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS – Chwarter 2 2023/24** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Monitro gweithgarwch ar sail amlasiantaethol o ran y camau a gymerwyd i ddiogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion.** |
| **Er:** | **Gwybodaeth** |

**Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:**
**Y Cynghorydd Alun Williams, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet ar gyfer Gydol Oes a Llesiant**

**Cefndir**

Amgaeir Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS ar gyfer Chwarter 2 2023/24.

Adroddiadau rheoli amlasiantaethol yw'r rhain ar ddiogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion yn ystod y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf a 30 Medi 2023. Maent yn darparu gwybodaeth reoli ar y camau a gymerwyd o dan Weithdrefnau Diogelu Cymru.

Mae'r Adroddiadau yn cynnwys y wybodaeth a ddarparwyd gan asiantaethau eraill sy'n ymwneud â diogelu llesiant plant ac oedolion yng Ngheredigion.

Mae aelodau Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS (Ceredigion) yn trafod y wybodaeth reoli hon er mwyn monitro a gwerthuso pa mor effeithiol yw'r trefniadau ar gyfer diogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion a'r canlyniadau.

Mae'r cyfarfodydd amlasiantaethol hyn yn rhoi cyfle i nodi a gweithredu ar unrhyw faterion perfformiad a materion eraill o fewn y maes gwaith hwn.

Mae gwybodaeth am berfformiad hefyd yn cael ei darparu i Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru sydd hefyd yn gyfle i ddadansoddi perfformiad, tueddiadau a materion ar draws y Rhanbarth.

**Crynodeb o'r Pwyntiau Allweddol:**

- Yn Chwarter 2, cafwyd cynnydd yn nifer y cysylltiadau/adroddiadau a gafwyd ynghylch plant/pobl ifanc o'i gymharu â Chwarter 1 - gyda 928 o gysylltiadau/adroddiadau a dderbyniwyd yn Ch2 o'i gymharu â 888 o gysylltiadau/adroddiadau a dderbyniwyd yn Ch1.
- Fodd bynnag, er bod cynnydd yn nifer y cysylltiadau/adroddiadau a dderbyniwyd yn Chwarter 2, roedd gostyngiad yn nifer cyffredinol y cysylltiadau/adroddiadau a aeth yn ei flaen i gamau yr oedd angen eu cymryd o dan Weithdrefnau Amddiffyn Plant, o 172 yn Ch1 i 132 yn Chwarter 2. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod mwy

o gysylltiadau/adroddiadau yn cael eu cyfeirio at Wasanaethau Ymyrraeth Gynnar/Atal neu eu cyfeirio am asesiad ar gyfer gofal a chymorth ac felly nid yw'n cael ei gyfeirio at yr angen am ymyriadau Diogelu. Mae hyn o ganlyniad i ddatblygiad parhaus y model Llesiant Trwy Oedran, ac yn benodol, datblygu Brysbennu Porth Gofal i Blant.

- 14.2% oedd canran yr atgyfeiriadau a aeth ymlaen i Drafodaeth Strategaeth yn Chwarter 2 o'i gymharu â 19.4% yn Ch1. Yn Ch2 aeth 5.9% o'r adroddiadau ymlaen i Ymholiad Adran 47, o'i gymharu ag 8.8% yn Ch1 ac yna mewn perthynas â'r rhai a aeth ymlaen i Gynhadledd Amddiffyn Plant Cychwynnol, aeth 0.9% ymlaen i'r cam hwnnw yn Ch2, o'i gymharu â 0.7% yn Ch1.
- Mae cyfanswm nifer y plant sy'n destun Cynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol yn y chwarter hwn wedi gostwng ymhellach i 16, o'i gymharu â 23 yn chwarter 1, a 35 yn Ch4.
- Cyfanswm nifer y plant a roddwyd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn y chwarter hwn yn dilyn y Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol oedd 10 o'i gymharu ag 20 yn Ch1.
- Cyfanswm nifer y plant a gafodd eu tynnu ar ôl Cynadleddau Amddiffyn Plant Adolygiad yn y chwarter hwn oedd 22.
- Bu gostyngiad yn nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd gan yr Heddlu yn y chwarter hwn ac mae'n ymddangos mai Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg yw'r prif ffynonellau adrodd yn y chwarter hwn.
- Mae cyfanswm yr ymholiadau Adran 47 a gynhaliwyd wedi gostwng yn y chwarter hwn hefyd, gyda 55 yn cael eu cynnal yn y chwarter hwn o'i gymharu â 78 yn Chwarter 1; Cynhaliwyd 41 o'r ymholiadau hynny ar y cyd â'r Heddlu yn y chwarter hwn a gwnaed 14 fel Asiantaeth Sengl Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Y prif gategori o gam-drin a arweiniodd at ymholiad Adran 47 yn cael ei gynnal yn chwarter dau oedd Cam-drin Corfforol a cham-drin / camfanteisio rhywiol, fel yn achos Chwarter 1.
- Roedd 40 o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar ddiwedd y chwarter hwn, o'i gymharu â 52 ar ddiwedd Chwarter 1. Yn y chwarter hwn, cofrestrwyd 21 o blant o dan y categori esgeulustod, 14 o dan y categori cam-drin emosiynol/seicolegol, 4 o dan y categori cam-drin ac esgeulustod emosiynol/seicolegol ac yna 1 o dan y categori cam-drin rhywiol a cham-drin emosiynol/seicolegol.
- Y prif faes sy'n peri pryder mewn perthynas â'r chwarter hwn oedd y gostyngiad sylweddol yng nghanran y Cynadleddau Amddiffyn Plant Cychwynnol a gynhaliwyd o fewn yr amserlen statudol o 15 diwrnod gwaith ar ôl cytuno bod angen CAPC. Gostyngodd y ganran yn Chwarter 2 i 43.7% o'i gymharu â Chwarter 1 sef 80%. Roedd y gostyngiad oherwydd materion staffio. Fodd bynnag, cynhaliwyd y Cynadleddau Adolygu a'r Grwpiau Craidd yn bennaf mewn amserlenni, gyda 91.7% o Gynadleddau Adolygu yn cael eu cynnal mewn amserlen a 90% o grwpiau craidd yn cael eu cynnal o fewn yr amserlen statudol.
- O ran **Diogelu Oedolion**, bu gostyngiad yn nifer yr oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin a/neu eu hesgeuluso, gyda 176 o oedolion mewn perygl yn cael eu hadrodd yn y chwarter hwn o'i gymharu â 221 o oedolion mewn perygl yn cael eu hadrodd yn chwarter 1.
- Staff yn yr Awdurdod Lleol oedd prif ffynhonnell yr atgyfeiriadau yn y chwarter hwn.

- Y categori cam-drin a adroddwyd fwyaf y chwarter hwn oedd cam-drin emosiynol / seicolegol (87), esgeulustod (84) o oedolion mewn perygl lle mai hwn oedd y prif gategori o gam-drin; Roedd 47 yn ymwneud â cham-drin corfforol, 49 mewn perthynas â cham-drin ariannol a 9 yn ymwneud â cham-drin rhywiol. Cam-drin ac esgeuluso emosiynol/seicolegol oedd y categorïau uchaf o gam-drin a adroddwyd yn y chwarter peryglus hefyd ond roedd esgeulustod yn fwy cyffredin yn y chwarter hwnnw.
- O'r adroddiadau a dderbyniwyd, mewn perthynas â phob categori o gam-drin, dywedwyd mai dynion oedd y dioddefwyr uchaf na menywod mewn perthynas â'r categori esgeulustod a cham-drin ariannol a'r menywod yn fwy dioddefwyr mewn perthynas â cham-drin corfforol, rhywiol ac emosiynol/seicolegol.
- Yn Chwarter 2, adroddwyd bod y rhan fwyaf o'r camdriniaeth/esgeulustod wedi digwydd yng nghartrefi pobl eu hunain, gyda pherthynas / ffrind y person mwyaf cyfrifol am y cam-drin/esgeulustod a gofnodwyd. Yr ail uchaf oedd mewn cartref gofal, gyda gweithiwr cyflogedig yn gyfrifol am y camdriniaeth/esgeulustod honedig.

**<u>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:</u>**
**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam**

Na. Caiff yr adroddiad hwn ei ddarparu'n barhaus ac mae'n dangos y gwaith parhaus sy'n cael ei wneud mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion.

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | Amherthnasol |
| **Cydweithio:** | Amherthnasol |
| **Cynnwys:** | Amherthnasol |
| **Atal:** | Amherthnasol |
| **Integreiddio:** | Amherthnasol |

**<u>Argymhelliad / Argymhellion:</u>**
**Nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefelau gweithgarwch â'r Awdurdod Lleol.**

**<u>Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:</u>**
**Er mwyn monitro dull llywodraethu gweithgarwch yr Awdurdod Lleol a'i asiantaethau partner.**

**<u>Trosolwg a Chraffu:</u>**
Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu

**<u>Fframwaith Polisi:</u>**
Strategaeth Gorfforaethol

**<u>Amcanion Llesiant Corfforaethol:</u>**
Creu cymunedau gofalgar ac iach

**<u>Goblygiadau Cyllid a Chaffael:</u>**
Dim

**Goblygiadau cyfreithiol:**
Sicrhau cydymffurfiaeth â'n dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Plant 1989 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014; Rhan 7

**Goblygiadau staffio:**
Dim

**Goblygiadau eiddo / asedau:**
Dim

**Risg(iau):**
Rheoli diogelu Plant ac Oedolion mewn Perygl

**Pwerau Statudol:**
Deddf Plant 1989 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014

**Papurau Cefndir:**
Dim

**Atodiadau:**
Atodiad 1- CYSUR CWMPAS Grwp Gweithredol Lleol Adroddiad Rheoli Perfformiad Ch2 2023-2024

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:**
Audrey Somerton- Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal

**Swyddog Adrodd:**
Elizabeth Upcott, Rheolwr Corfforaethol: Diogelu

**Dyddiad:**
10.01.2024

**Acronymau:**
CP – Amddiffyn Plant
CPR – Cofrestr Amddiffyn Plant
Part 4 – Honiadau a wnaed yn erbyn aelod o staff neu'r rhai sy'n gweithio gyda phlant e.e. – gofalwyr maeth, gwirfoddolwyr, cylchoedd chwarae at ati
CPCC – Cynadleddau Achos Amddiffyn Plant
ICPC – Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant

**Atodiad 1**

# GRŴP GWEITHREDOL LLEOL CYSUR CEREDIGION

## Adroddiad Rheoli Perfformiad

**Chwarter: 2**

**1.7.23 – 30.9.23**

| **CYNNWYS:** | **TUDALEN** |
|---|---|
| ADRAN 1:<br>Cyflwyniad | 3 |
| ADRAN 2:<br>Prif Ddata a Data Cymharol | 4 |
| ADRAN 3:<br>Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant | 6 |
| ADRAN 4:<br>Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant | 8 |
| ADRAN 5:<br>Cynadleddau Amddiffyn Plant | 9 |
| ADRAN 6:<br>Y Gofrestr Amddiffyn Plant | 17 |
| ADRAN 7:<br>Cyfarfodydd Strategaeth Amddiffyn mewn Amgylchiadau Arbennig | 19 |
| ADRAN 8:<br>Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant Amlasiantaethol | 20 |
| ADRAN 9<br>Heddlu – MARAC | 21 |
| ADRAN 10:<br>Gwasanaethau Dysgu | 22 |
| ADRAN 11:<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 28 |
| ADRAN 12:<br>S-CAMHS | 32 |
| ADRAN 13:<br>Diogelu Oedolion | 39 |

## ADRAN 1: CYFLWYNIAD:

Dyma'r adroddiad rheoli amlasiantaethol ar gyfer diogelu plant yng Ngheredigion yn ystod y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf i 30 Medi 2023. Mae'n darparu gwybodaeth rheoli perfformiad am y camau a gymerwyd i ddiogelu plant.

Mae'n cynnwys adroddiadau gan asiantaethau sy'n bartneriaid ynglŷn â diogelu a hybu llesiant plant yng Ngheredigion.

Mae'r dangosyddion a'r mesurau a ddefnyddir yn cael eu diffinio a'u hadrodd yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Mae aelodau Grŵp Gweithredol Lleol CYSUR Ceredigion yn trafod y wybodaeth reoli hon yn gyson er mwyn monitro a gwerthuso pa mor effeithiol yw'r trefniadau diogelu plant yng Ngheredigion a'r canlyniadau.

Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau neu gwestiynau am yr adroddiad hwn at:

Elizabeth Upcott
Rheolwr Corfforaethol Diogelu,
Elizabeth.Upcott@ceredigion.gov.uk
01545 574212


## Adran 2: Prif Ddata a Data Cymharol

| **Canlyniadau'r Atgyfeiriadau** | **Gorff - Medi 2023** | **Ebrill-Meh 2023** | **Ion-Maw 2023** | **Hyd - Rhag 2022** | **Gorff - Medi 2022** |
|---|---|---|---|---|---|
| Adroddiadau / Atgyfeiriadau sy'n arwain at Drafodaethau / Cyfarfodydd Strategaeth Amddiffyn Plant | 132 | 172 | 200 | 193 | 171 |
| | | | | | |
| Nifer y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant (ac eithrio Cynadleddau Trosglwyddo a Chyn Geni) | 6 | 6 | 15 | 16 | 7 |
| Nifer y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant Cyn Geni | 2 | - | 1 | 1 | 2 |
| Nifer y Cynadleddau Trosglwyddo Amddiffyn Plant | - | - | - | 1 | 1 |
| Cynadleddau Trosglwyddo Amddiffyn Plant Cyn Geni | - | - | - | - | - |
| **Cyfanswm y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant (gan gynnwys Cynadleddau Trosglwyddo a Chyn Geni)** | **8** | **6** | **16** | **18** | **10** |
| **Cyfanswm y plant a fu'n destun Cynadleddau Cychwynnol / Cyn Geni / Trosglwyddo** | **16** | **10** | **23** | **35** | **21** |
| | | | | | |
| Nifer y plant â'u henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant (ac eithrio Cynadleddau Throsglwyddo a Chyn Geni) | 9 | 10 | 20 | 30 | 14 |
| Nifer y plant â'u henwau i'w rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant pan gânt eu geni | 1 | - | - | 1 | 2 |
| Nifer y plant â'u henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar ôl eu trosglwyddo o Awdurdodau Lleol eraill | - | - | - | - | - |
| Nifer y plant â'u henwau i'w rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant adeg geni ar ôl eu trosglwyddo o Awdurdodau Lleol eraill | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| **Cyfanswm y plant â'u henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar ôl Cynadleddau Cychwynnol** | **10** | **10** | **20** | **31** | **16** |
| Cyfanswm y plant na roddwyd eu henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | 6 | - | 3 | 4 | 5 |
| | | | | | |
| Nifer y Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant | **22** | **20** | **32** | **17** | **16** |
| Nifer y Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant Cyn Geni | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| **Cyfanswm y Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant (gan gynnwys Cyn Geni)** | **22** | **20** | **32** | **17** | **16** |
| Nifer y plant a fu'n destun Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant | **36** | **28** | **51** | **39** | **26** |
| Nifer y plant â'u henwau i'w rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant pan gânt eu geni | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| **Cyfanswm y plant a fu'n destun Cynadleddau Adolygu / Cyn Geni** | **36** | **28** | **51** | **39** | **26** |
| **Cyfanswm y plant sy'n parhau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant** | **14** | **20** | **36** | **11** | **13** |
| Cyfanswm y plant y tynnwyd eu henwau oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | 22 | 8 | 15 | 28 | 13 |

**Dadansoddiad:**


Roedd gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau a arweiniodd at gymryd camau gweithredu o dan Weithdrefnau Diogelu Cymru yn ystod y chwarter hwn.
Canran y plant a drafodwyd mewn cynadleddau adolygu ac a gafodd eu datgofrestru oedd 61%.


## Adran 3: Adroddiadau ac Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant:




## Dadansoddiad:

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol Mewnol wedi cynyddu a nhw yw'r ffynhonnell fwyaf o atgyfeiriadau yn ystod y chwarter, mae ysgolion wedi gostwng ychydig gyda gostyngiad sylweddol gan yr Heddlu.







## Dadansoddiad:


Aberystwyth yw'r ardal lle y ceir y nifer fwyaf o atgyfeiriadau yn gyson.

| **Dadansoddiad yn ôl % o Weithgarwch Diogelu<br>Chwarter 2 2023 / 2024 (1 Gorffennaf – 30 Medi)** | | | |
|---|---|---|---|
| Mae nifer yr holl gysylltiadau cychwynnol yn cyfeirio at wybodaeth am blant. | | | |
| Atgyfeiriadau 928 | Trafodaethau Strategaeth 14.2% | Ymholiadau Adran 47 5.9% | Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant 0.9% |

Yn Chwarter 1, roedd 888 o gysylltiadau/atgyfeiriadau; O'r rheini, aeth 19.4% ymlaen i Drafodaeth Strategaeth, aeth 8.8% ymlaen i Ymholiad Adran 47, ac aeth 0.7% ymlaen i Gynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant.

## ADRAN 4: Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant




**Dadansoddiad:**
Y pryderon pennaf a arweiniodd at gwblhau ymholiadau amddiffyn plant yn Chwarter dau oedd honiadau am gam-drin corfforol a cham-drin/camfanteisio'n rhywiol. Cynhaliwyd y mwyafrif o'r ymholiadau ar y cyd rhwng yr Heddlu a'r Gwasanaethau Plant.


## ADRAN 5: Cynadleddau Amddiffyn Plant

| Mae'r tabl hwn yn cynnwys ffigurau wedi'u dadansoddi mewn perthynas â Chanlyniadau Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant | Nifer y plant | Nifer y plant heb eu geni | Nifer y teuluoedd | Nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, gan gynnwys rhai heb eu geni a rhai a drosglwyddwyd | Nifer y plant â Chynllun Plentyn sydd Angen Gofal a Chymorth os na chofrestrwyd |
| 8 | 13 | 3 | 5 | 10 | 6 |


**Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser**

Cofnodwyd bod 43.7% o'r Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant wedi'u cynnal o fewn 15 diwrnod gwaith ar ôl y Drafodaeth/Cyfarfod Strategaeth. Gohiriwyd un cynhadledd ar gyfer 3 brawd/chwaer oherwydd nad oedd gweithwyr proffesiynol ar gael herwydd gwyliau'r haf a'r angen i gwrdd â'r rhiant i ddatgelu gwybodaeth. Nodwyd bod anawsterau wrth ddod o hyd i leoliad ar gyfer y cyfarfod, yn ogystal ag argaeledd ISRO a Rhieni ar gyfer cynhadledd hybrid ar gyfer 1 plentyn arall. Gohiriwyd cynhadledd arall ar gyfer 5 brawd/chwaer oherwydd argaeledd gweithwyr proffesiynol, gwyliau'r haf ac amgylchiadau yn ymwneud â llesiant y rhieni.

Mae Cynadleddau Achos Cychwynnol ac Adolygu yn cael eu cynnal yn hybrid / rhithwir trwy Microsoft Teams. Mae rhieni a phlant wedi gallu cymryd rhan yn y cyfarfodydd.




**Cyfarfodydd y Grŵp Craidd Amddiffyn Plant a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser:**
Cofnodwyd bod 90.0% o Gyfarfodydd y Grŵp Craidd Amddiffyn Plant wedi cael eu cynnal o fewn 10 niwrnod gwaith ar ôl y Gynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant.. Cafodd 1 Grŵp Craidd ar gyfer 1 plentyn ei ohirio oherwydd camgymeriad gyda'r dyddiad.





| Mae'r tabl hwn yn cynnwys ffigurau dadansoddiad mewn perthynas â chanlyniadau Adolygu Cynadleddau Amddiffyn Plant: | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant** | **Nifer y plant** | **Nifer y plant heb eu geni** | **Nifer y teuluoedd** | **Nifer y plant sy'n aros ar y Gofrestr Amddiffyn Plant** | **Nifer y plant a gafodd eu tynnu oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant** | **Nifer y plant â Chynllun Plentyn sydd Angen Gofal a Chymorth yn dilyn datgofrestru** |
| 22 | 36 | - | 22 | 14 | 22 | 16 |


**Canlyniadau'r Adolygiadau:**
O'r 22 o blant a ddatgofrestrwyd, roedd 16 yn derbyn ymyrraeth bellach ar Gynllun Plant Mewn Angen Gofal a Chymorth gyda'r 5 o plentyn arall yn dod yn Blant sy'n Derbyn Gofal. Cofnodwyd nad oedd angen gwasanaethau ar 1 plentyn/person ifanc.

**Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser:**
Cofnodwyd bod 91.7% o'r Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant wedi'u cynnal o fewn y terfynau amser.
Y rheswm am yr oedi wrth gynnal 1 cynhadledd o fewn y terfynau amser i deulu o 3 brawd/chwaer oedd argaeledd ISRO a gwyliau'r haf.




| **Cyfranogiad rhieni a phlant mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant<br>*Data cymharol Chwarter 1 mewn cromfachau** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Adroddiad y Gweithiwr Cymdeithasol i rieni 24 awr cyn y Gynhadledd Amddiffyn Plant** | ***Cadeirydd Amddiffyn Plant wedi cwrdd â'r teulu cyn y Gynhadledd Amddiffyn Plant** | ***Cadeirydd Amddiffyn Plant wedi cwrdd â'r plentyn cyn y Gynhadledd Amddiffyn Plant** | ***Aelod o'r teulu yn bresennol yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant** | ***Cyfleu barn plant mewn Cynhadledd Amddiffyn Plant pan nad oeddent yn bresennol (5-18 oed)** | ***Presenoldeb plant yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant (11 oed neu'n hŷn)** | ***Plant y penodwyd eiriolwr / Tros Gynnal ar eu cyfer** |
| 100% (100%) | 92% (84%) | 33% (75%) | 96% (87%) | 62% (87%) | 15% (24%) | 43% (52%) |


Summary of the main Risk Factors for the 40 children who were on the Ceredigion Child Protection Register at 30 September 2023
40
35
30
25
20
15
10
5
0
36
25
21
21
13
10
10
9
3
3
2
1
Parental Separation
Domestic abuse
Parental mental health difficulties
Parental substance/alcohol misuse
Adult offences of violence
Parental non-cooperation of CP Plan
Risk taking behaviour/substance misuse (YP)
Risk of child sexual exploitation
Mother, father or partner been in prison
Parental learning disability
Legal action to safeguard previous children
Adult offences against children



Summary of the main Risk Factors for the 52 children who were on the Ceredigion Child Protection Register at 30 June 2023
60
50
40
30
20
10
0
49
39
36
28
28
18
13
9
6
5
4
4
Parental Separation
Domestic abuse
Parental mental health difficulties
Adult offences of violence
Parental substance/alcohol misuse
Parental non-cooperation of CP Plan
Risk taking behaviour/substance misuse (YP)
Risk of child sexual exploitation
Legal action to safeguard previous children
Mother, father or partner been in prison
Adult offences against children
Parental learning disability


| Y Tri Pherygl Pennaf Tocsig ar gyfer y 40 o blant a oedd ar Gofrestr Amddiffyn Plant Ceredigion ar 30 Medi 2023 | | |
|---|---|---|
| Nifer y plant sydd â Chynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth lle mae pob un o'r Tri Pherygl Tocsig yn ymddangos (Cam-drin Domestig, Rhieni'n Camddefnyddio Sylweddau a Phroblemau Iechyd Meddwl Rhieni) | 11 | 27.5% |
| Nifer y plant sydd â Chynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth lle mae Rhieni'n Gwahanu a / neu yn y Carchar yn ymddangos (Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod) | 36 | 90.0% |
| Nifer y plant sydd â Chynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth lle mae pob un o'r pum Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod yn ymddangos (Cam-drin Domestig, Rhieni'n Camddefnyddio Sylweddau, Iechyd Meddwl Rhieni, Rhieni'n Gwahanu ac yn y Carchar) | 0 | 0.0% |


**Dadansoddiad:**
Y prif ffactorau risg a gofnodwyd oedd rhieni'n gwahanu, cam-drin domestig, anawsterau iechyd meddwl rhieni a rhieni'n camddefnyddio sylweddau/alcohol.

Ni wnaeth unrhyw un o'r cynadleddau nodi Rhieni a oedd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer atgyfeiriad i'r Prosiect Ysbrydoli Teuluoedd, fodd bynnag, cyfeiriwyd dau deulu at y Rhaglen Cyflawni Dewisiadau.

## Presenoldeb Asiantaethau mewn Cynadleddau:






Mae'r siartiau uchod yn dangos yr asiantaethau a fu'n bresennol mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant. Ar gyfartaledd estynnwyd gwahoddiad i 7 aelod o staff asiantaethau i bob cynhadledd a bu 3 yn bresennol.
Roedd 5 adroddiad ysgrifenedig ar gyfartaledd ar gael ym mhob Cynhadledd Amddiffyn Plant.

Roedd 17 Cynhadledd Amddiffyn Plant (33%) ar gyfer plentyn wedi argymell galw cyfarfod Grŵp Teulu.
Roedd 34 (65%) o benderfyniadau cofrestru Cynhadledd Amddiffyn Plant yn unfrydol, gyda 15 (29%) o gofrestriadau Cynhadledd Amddiffyn Plant yn benderfyniad mwyafrif; a 3 (6%) o gofrestriadau plant ddim yn unfrydol.
Roedd 3 (6%) o Gynadleddau Amddiffyn Plant (1%) ar gyfer plentyn wedi nodi bod anghytuno ynghylch diogelwch y Cynllun Amddiffyn Plant ar gyfer diogelu llesiant plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.
Cafodd 3 (6%) o blant eu nodi fel gofalwyr ifanc.
Ar gyfer 6 (14%) o blant nodwyd bod diffyg gwybodaeth ynghylch partner y fam.
Ar gyfer 3 (6%) o bobl ifanc nodwyd bod ganddynt anabledd dysgu cymedrol / difrifol, a nodwyd bod gan 2 (6%) o bobl ifanc Gynllun Datblygu Unigol.
Nodwyd bod gan 2 (4%) o blant anabledd corfforol/nam ar y synhwyrau, a nodwyd bod anawsterau o ran ymddygiad gan 5 (10%) o bobl ifanc.
Nodwyd bod gan 4 (8%) o blant anawsterau lleferydd/iaith, a nodwyd bod 2 (6%) person ifanc wedi'u gwahardd o'r ysgol.

## ADBORTH PLANT A RHIENI


Nid yw'r system flaenorol ar gyfer cael adborth plant a theuluoedd yn dilyn eu presenoldeb yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant wedi bod yn bosibl ers dechrau'r pandemig ym Mawrth 2020 oherwydd y ffaith bod y rhan fwyaf o Gynadleddau yn cael eu cynnal yn rhithiol.


Fodd bynnag, ers dechrau Ebrill 2022, mae Holiaduron Gwerthuso wedi cael eu hanfon at deuluoedd ar ôl iddynt fod yn bresennol yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant i geisio eu barn a'u hadborth. Bydd y broses hon yn parhau hyd nes y bydd Cynadleddau Amddiffyn Plant yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb.


| **ADBORTH PLANT A RHIENI** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Darparwyd holiaduron gwerthuso i blant/pobl ifanc (o oedran/lefel dealltwriaeth briodol), rhieni a gofalwyr a fynychodd Gynadleddau Amddiffyn Plant yn ystod y chwarter. Dosbarthwyd cyfanswm o 38 holiadur; Fodd bynnag, ni ddychwelwyd yr un. | | | | | | |
| **Sut oedd lleoliad ac amser y gynhadledd?** | | | | **Oeddech chi'n teimlo'n barod i fod yn bresennol yn y gynhadledd?** | | |
| | Addas iawn | Iawn | Anaddas | Oeddwn | Ddim yn siŵr | Ddim o gwbl |
| Plant | | | | | | |
| Rhieni | | | | | | |
| Gofalwyr | | | | | | |
| Aelodau'r teulu | | | | | | |
| **Oeddech chi'n gallu dweud eich dweud?** | | | | **Ydych chi'n teimlo bod eich safbwyntiau wedi'u hystyried** | | |
| | Oeddwn | Dim digon | Nac oeddwn | Oeddwn | Peth | Ddim o gwbl |
| Plant | | | | | | |
| Rhieni | | | | | | |
| Gofalwyr | | | | | | |
| Aelodau'r teulu | | | | | | |


| **Hoffech chi ddweud rhywbeth a allai ein helpu i wella'r broses?** | | **Y camau a gymerwyd gan y Gwasanaeth Sicrhau Ansawdd ac Adolygu Annibynnol i fynd i'r afael â phryderon** |
|---|---|---|
| Plant | • | |
| Rhieni | • | |
| Gofalwyr | • | |
| Aelodau'r Teulu Estynedig | • | |

## ADRAN 6: Y Gofrestr Amddiffyn Plant






| **Mesur 28 Llywodraeth Cymru – Yr amser ar gyfartaledd y bu pob plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant:** | | |
|---|---|---|
| Ar gyfer y Mesur hwn mae'n ofynnol rhoi'r amser ar gyfartaledd mewn diwrnodau calendr y treuliodd pob plentyn ar y Gofrestr cyn ei ddatgofrestru yn ystod y chwarter dan sylw | Gorffennaf-Medi | 242.27 |

| **Mesur 27 Llywodraeth Cymru – Nifer y plant a ail-gofrestrwyd ar Gofrestr Amddiffyn Plant yr Awdurdod Lleol o fewn y flwyddyn** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cynadleddau Cychwynnol** | **Gorff-Medi 2023** | **Ebr-Meh 2023** | **Ion-Maw 2023** | **Hyd-Rhag 2022** | **Gorff-Medi 2022** | **Ebr-Meh 2022** | **Ion-Maw 2022** | **Hyd-Rhag 2021** |
| Nifer y plant oedd wedi bod ar y gofrestr o'r blaen ac a ddatgofrestrwyd dros y 12 mis diwethaf | 0 | 0 | 3 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 |

## ADRAN 7: Cyfarfodydd Strategaeth Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan

| Categori o Gyfarfod Strategaeth Amddiffyn Plant | Cyfanswm yr achosion | Cyfanswm y cyfarfodydd |
|---|---|---|
| Perygl o gamfanteisio ar blant | **12** | **17** |
| Pryderon ynghylch esgeulustod | **7** | **10** |
| Pryderon ynghylch cam-drin corfforol | **2** | **4** |
| Pryderon ynghylch ymddygiad rhywiol niweidiol | **7** | **7** |
| Pryderon ynghylch person ifanc yn mynd ar goll | **4** | **5** |
| Pryderon ynghylch cam-drin emosiynol | **4** | **4** |
| Pryderon ynghylch person sy'n dod i gysylltiad â phlant yn rhinwedd ei swydd | **10** | **11** |
| **Cyfanswm y cyfarfodydd** | | **58** |
| **Cyfanswm yr achosion a drafodwyd yn y chwarter hwn** | **46** | |

## ADRAN 8: Cyfarfodydd Rheoli Amlasiantaethol ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (MACE)

| Achos Newydd / Adolygu | Ymadael / Aros yn MACE | Gwryw / Benyw | Oedran | Yn y cartref / mewn gofal | Cofrestr Amddiff yn Plant | Dyddiad y cyfarfod | Presenoldeb Asiantaethau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| N | Aros | B | 13 | C | Na | 13.09.23<br>28.09.23 | Diogelu, yr Heddlu, Addysg, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Iechyd |
| A | Aros | B | 14 | C | Ie | 12.09.23 | Diogelu, yr Heddlu, Addysg, Cynhwysiant Addysgol, Iechyd, Comisiynydd Heddlu a Throseddu |
| N | Ymadael | G | 16 | C | Na | 09.08.23 | Diogelu, yr Heddlu, Cynhwysiant Addysgol, Gofal wedi'i Gynllunio, Comisiynydd Heddlu a Throseddu |
| A | Aros | G | 16 | C | Na | 18.07.23<br>12.09.23 | Diogelu, yr Heddlu, Gofal wedi'i gynllunio, Addysg, Dewisiadau |
| N | Aros | B | 16 | C | Ie | 18.08.23 | Diogelu, yr Heddlu, Gofal wedi'i gynllunio, Iechyd |
| A | Ymadael | B | 15 | C | Ie | 17.07.23<br>08.09.23 | Diogelu, Heddlu, Gofal Cynlluniedig, Addysg, Iechyd |
| N | Ymadael | G | 17 | C | Na | 20.07.23<br>22.08.23<br>06.09.23 | Diogelu, Heddlu, BPG, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Cymdeithas Tai Gorllewin Cymru, Tai |
| N | Aros | G | 15 | C | Ie | 08.08.23 | Diogelu, yr Heddlu, Gofal wedi'i gynllunio, CAMHS, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid |
| N | Aros | G | 15 | C | Na | 18.07.23<br>12.09.23 | Diogelu, yr Heddlu, Gofal wedi'i gynllunio, Addysg, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid |

## ADRAN 9: Adroddiad Marac yr Heddlu

| Adran | Achosion â drafodwyd yn ddyddiol | Achosion gyda phlant | Nifer y Plant | Achosion MARAC | Achosion gyda phlant | Nifer y Plant |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | 240 | 102 | 185 | 17 | 5 | 14 |
| Ceredigion | 68 | 28 | 57 | 8 | 5 | 10 |
| Sir Benfro | 166 | 92 | 215 | 10 | 7 | 15 |
| Powys | 139 | 61 | 126 | 17 | 7 | 17 |

## ADRAN 10: Gwasanaethau Dysgu

**ADRODDIAD LOG GWASANAETHAU YSGOLION**

**BWLIO**

Mae data bwlio yn parhau I gael eu casglu yn dymhorol ym mhob cyfarfod Llywodraethol yr ysgolion. Gweler isod, data Tymor yr Gwanwyn 2023 (a gafodd ei goladu yn ystod tymor yr Haf 2023).

| Math o fwlio | Hydref 2022 | Gwanwyn 2023 |
|---|---|---|
| Gallu | 2 | 3 |
| Oedran | 0 | 0 |
| Edrychiad | 7 | 5 |
| Biffonig | 0 | 1 |
| Anabledd | 3 | 0 |
| Rhyw | 3 | 2 |
| Homoffobig | 3 | 1 |
| Plentyn sy'n derbyn gofal | 0 | 0 |
| Di-ddeuaidd | 0 | 0 |
| Beichiogrwydd neu Famolaeth | 0 | 0 |
| Hiliol | 12 | 2 |
| Crefydd neu Gred | 0 | 0 |
| Rhywiol | 0 | 3 |
| Cyfeiriadedd rhywiol | 0 | 0 |
| Trawsffobig | 0 | 0 |
| Gofalwr Ifanc | 0 | 0 |
| E Ddiogelwch | 9 | 7 |
| Eraill | 26 | 7 |
| Ddim wedi'i nodi | 2 | 2 |
| **Cyfanswm** | **67** | **33** |

*Mae'r ffigyrau uchod yn dangos gostyngiad yn nifer yr achosion o fwlio sy'n cael eu cofnodi, o'i gymharu â'r tymor blaenorol, sef tymor r Hydref 2022, lle cafodd 67 o achosion eu cofnodi.*

## HYFFORDDIANT

Mae hyfforddiant Diogelu ac Amddiffyn Plant Lefel 1 ar gael fel rhaglen e-ddysgu yn unig a nodir isod nifer y staff sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn yn ystod cyfnod Chwarter 1.  Yn ogystal, mae nifer y staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant Amddiffyn Plant Lefel 2 yn rhithiol yn ystod y cyfnod hwn wedi'i nodi isod hefyd.

| | |
|---|---|
| Lefel 1 | 863 mewnol<br>60 allanol |
| Lefel 2 | 25 mewnol<br>12 allanol |

## Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Mae 309 aelod o staff mewnol a 26 aelod o staff allanol wedi cwblhau hyfforddiant ar lein Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn ystod cyfnod Chwarter 1

## ADDYSG DDEWISOL GARTREF


| Nifer y plant rydych yn ymwybodol ohonynt sydd yn cael eu haddysgu'n ddewisol gartref | Nifer y plant Addysg Ddewisol Gartref sy'n hysbys i'r Awdurdod Lleol sydd wedi cael cynnig ymweliad blynyddol yn ystod y 12 mis diwethaf | Canlyniad |
|---|---|---|
| 234 | 194 | Wedi gwrthod – 72<br><br>Heb fynychu – 8<br><br>Plentyn wedi'i weld – 80<br><br>Plentyn heb ei weld – 13<br><br>Adroddiad a dderbyniwyd – 3<br><br>Ad-drefnwyd - 18 |


## PLANT SY'N DERBYN GOFAL


| | |
|---|---|
| Plant oedran ysgol statudol sy'n derbyn gofal yng Ngheredigion | *Gorffennaf: 51*<br>*Medi:48 (mae 1 wedi'i gofrestru'n ddeuol ond y tu allan i'r sir mewn preswyl/ mae 1 yn aros am le mewn ysgol yn Lloegr ond yn dal ar gofrestr yng Ngheredigion)* |
| Plant oedran ysgol statudol sy'n derbyn gofal a leolir y tu allan i'r Sir | *Gorffennaf: 38*<br>*Medi: 39 (40 os ydych chi'n cynnwys y gofrestr ddeuol sydd wedi'i gofrestru y tu allan i'r sir PDG)* |
| Plant oedran ysgol statudol sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol eraill | *Gorffennaf: 23*<br>*Medi: 23* |

**CYSYLLTIADAU YSGOLION**


Gweler isod nifer a natur y cysylltiadau a dderbyniwyd gan ysgolion/sefydliadau addysg yn ystod cyfnod Chwarter 2.







Sylwer, roedd 30 o Ysgolion Cynradd wedi cysylltu yn ystod Chwarter 2. Oherwydd y rhif uchel hyn, nid oedd modd cynnwys pob Ysgol un tabl, felly mae'r uchod dim ond yn nodi'r ysgolion oedd wedi cysylltu pedair gwaith neu ragor yn ystod y cyfnod.







Oherwydd y nifer fawr o resymau a roddwyd ar gyfer cysylltu, mae rhai wedi cael eu grwpio gyda'i gilydd fel y nodir isod er mwyn gallu cyflwyno'r wybodaeth yn fwy eglur ar y siart. Yn yr adroddiad arbennig hwn, rwyf wedi tynnu sylw at y prif bryderon yn unig.

| | |
|---|---|
| Llesiant | Gan gynnwys plant sydd ar goll, presenoldeb, tor-berthynas, gofalwyr ifanc, problemau cysylltu yn ystod y cyfnod clo, problemau cysylltu rhwng rhieni |
| Rhywiol | Gan gynnwys perthnasau amhriodol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant |

Sylwer, cafodd 34 o ddisgyblion ei gwahardd o ysgolion uwchradd Ceredigion yn ystod chwarter 2, a hynny am gyfanswm o 64.5 o ddiwrnodau. (Y rhif yma yn ostyngiad o'r chwarter blaenorol, gan fod y cyfnod yma yn cynnwys mis Awst, pan mae'r ysgolion ar gau dros wyliau'r haf). Y rhesymau a nodwyd ar gyfer y gwaharddiadau wedi'u nodi fel; Bwlian, Difrod, Sylweddau, Camdriniaieth Hilliol, Camdriniaeth Geiriol, Ymddygiad Bygythiol, Cam-drin Corfforol, ymddygiad sy'n tarfu ar eraill yn barhaus.

Yn ogystal â hyn, derbyniodd Porth Cymorth Cynnar 65 o atgyfeiriadau ar gyfer cymorth ac atal yn ystod chwarter 2 (eto, y niferoedd yn llai oherwydd yr uchod). Nid yw'r ffigwr yma yn cynnwys atgyfeiriadau gan y Tîm o Amgylch y Teulu.


Operation Encompass
60
50
40
30
20
10
0
2021
2022
2023
Gorffennaf / July
Awst / August
Medi / September

# ADRAN 11: IECHYD

**Adroddiad Diogelu Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar gyfer y Grwpiau Gweithredol Lleol**

**Chwarter 2 2023/24**


Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth a diweddariadau i'r Grwpiau Gweithredol Lleol ar y datblygiadau o ran diogelu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn ystod Chwarter 2, 2023/24

## Diogelu Oedolion

Cynhaliodd y Tîm Diogelu Oedolion adolygiad ôl-weithredol o bob achos o ddifrod pwysau y gellir ei osgoi rhwng Ionawr 2021 ac Awst 2023. Cyflwynwyd y canfyddiadau i'r Grŵp Darparu Gwasanaeth Diogelu Aciwt. Dadansoddwyd y data o ddigwyddiadau fesul mis, safle a ward ysbyty, a graddfa. Mae'r data hwn i'w gael i bob gwasanaeth er mwyn nodi unrhyw gyfnod o gynnydd a gostwng ac unrhyw gyfleoedd dysgu ychwanegol nad ydynt wedi'u nodi o bosibl mewn cynlluniau gweithredu penodol. Mae'r wybodaeth i gyd wedi'i choladu ar daenlen fyw, a fydd yn cael ei diweddaru yn dilyn pob cyfarfodydd craffu. Bydd hyn yn sicrhau bod gan yr holl wasanaethau aciwt y wybodaeth berthnasol fel y bydd yn datblygu.

Mae'r data hefyd ar gael i'r Tîm Hyfywedd Meinwe sy'n gallu defnyddio'r wybodaeth hon i dargedu hyfforddiant ac o bosibl monitro effaith yn yr un modd. Mae enghreifftiau diweddar o'r hyfforddiant hwn yn cynnwys gwaith ar safle PPH i wella'r broses o adnabod a graddio difrod pwysau a'r ymchwiliad angenrheidiol i hysbysu'r panel craffu.

**<u>Chwarter 2 2023/24 Data Difrod Pwysau Osgoi Ysbyty Aciwt</u>**




Roedd cyfanswm o 33 o achosion o ddifrod pwysau y gellir eu hosgoi a adolygwyd mewn


cyfarfodydd craffu difrod pwysau ar draws y pedwar safle ysbyty acíwt yn Ch2, gostyngiad bach o Ch1. Mae nifer yr achosion a adroddir bellach yn adlewyrchu pan fo pwysau difrod mewn gwirionedd, yn hytrach nag fel o'r blaen, pan oedd y nifer yn adlewyrchu'r dyddiad y cyflwynwyd achosion o ddifrod pwysau mewn cyfarfodydd craffu. Nodir y gall y ffigurau newid mewn adroddiadau yn y dyfodol oherwydd oedi rhwng y difrod pwysau a ddigwyddodd a dilyniant drwy'r broses graffu; Gall hyn ddigwydd pan fydd achosion yn cael eu gohirio mewn cyfarfodydd craffu, neu gyfarfodydd a ohiriwyd.

O'r 33 achos a adolygwyd, cofnodwyd 26 ar raddfa 1 neu 2, un ar raddfa 3, 1 na ellid gosod graddfa a 5 fel Anaf Meinwe Dwfn posib. Nid yw'n anghyffredin i ddifrod pwysau gael ei adrodd fel Anaf Meinwe Dwfn posib, ond o fewn ychydig ddyddiau, daw'n amlwg ei fod yn radd 1 neu 2. Mae adrodd am achosion yn dal y difrod pwysau ar ei radd fwyaf arwyddocaol. Mae cyfran uwch o achosion ar raddau is o hyd.

Rhoddir sicrwydd o ran yr achosion o ddifrod pwysau a adroddwyd sydd heb eu trafod eto yn y cyfarfodydd craffu a bydd camau gweithredu priodol wedi cael eu rhoi ar waith i reoli difrod pwysau unigolion yn ddiogel adeg ei nodi.


**Plant sy'n Derbyn Gofal**

Mae'r data isod yn cynrychioli'r cynnydd mewn gweithgarwch sy'n gysylltiedig â Phlant sy'n Derbyn Gofal ym Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae'r data'n dangos llwybr cynyddol sy'n effeithio ar lwyth gwaith mewn timau gweithredol a thîm corfforaethol PDG.




| Ch2 Data 2023-2024 | Plant sy'n Derbyn Gofal | Nifer wedi'u gosod ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda gan ALI eraill | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Sir Benfro | 252 | 57 | 309 |
| Sir Gaerfyrddin | 242 | 137 | 379 |
| Ceredigion | 143 | 34 | 177 |
| Cyfanswm | 637 | 228 | 865 |

**Plant sy'n Ceisio Lloches ar eu pen eu hunain**




**Risgiau**
Mae'r risg yn parhau ar gyfer y gwasanaeth oherwydd pwysau cost i'r gyllideb gwasanaeth Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG) i ddiwallu anghenion plant sy'n chwilio am loches ar eu pen eu hunain sydd wedi'u lleoli gan y Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol. Ar hyn o bryd o'r 63 sydd wedi'u lleoli, dim ond un sy'n byw o fewn Ôl Troed Hywel Dda. Mae'r gwasanaeth yn mynd i gostau oherwydd comisiynu asesiadau iechyd yn yr ardaloedd lle mae'r plant ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches wedi'i leoli.

**Diogelu Plant**

Mae'r Adran Achosion Brys yn YGG wedi creu rôl Cefnogi Diogelu i alluogi gwaith gwella mewn perthynas â diogelu plant a Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn yr adran. Mae cynnydd rhagorol yn cael ei wneud gyda chydymffurfiad hyfforddiant diogelu plant lefel 3 wrth ddarparu hyfforddiant pwrpasol i'r tîm. Mae mesurau canlyniadau yn cael eu datblygu i'n galluogi i werthuso'r effaith.

**Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol**

Mae peilot IRIS yn Sir Gaerfyrddin yn parhau ac rydym yn chwilio am adnoddau i barhau â'r peilot ar ôl mis Mai 2024.

Mae'r cynllun peilot Eiriolwr Trais Domestig Iechyd sydd wedi'i leoli yn Adran Achosion Brys Ysbyty Cyffredinol Bronglais yn parhau a bydd adroddiad interim yn cael ei gyflwyno i Elusennau'r GIG yn y Flwyddyn Newydd.

Mae'r Ymarferydd Arweiniol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cefnogi ymgorffori ymholiadau arferol mewn Adrannau Achosion Brys ac Unedau Mân Anafiadau.

Mae Gweithgor Diogelu Strategol y Bwrdd Iechyd a'r Pwyllgor Profiad Ansawdd a Diogelwch wedi nodi cyhoeddiad Adolygiad Dynladdiad Domestig Sir Benfro ym mis Mehefin.

**System Reoli Unwaith Dros Gymru**

Mae cwblhau'r ffurflenni dyletswydd diogelu i adrodd drwy Datix Cymru yn mynd yn ei flaen yn dda. Rydym yn diolch i'n partneriaid Awdurdod Lleol am gefnogi'r peilot, yr unig beilot yng Nghymru.

**Mandy Nichols-Davies**
**Pennaeth Diogelu**

## ADRAN 12: Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (S-CAMHS):

### Adroddiad Diweddaru S-CAMHS ar gyfer CYSUR

Yn unol â dogfen Llywodraeth Cymru "Canllawiau Derbyn", mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi rhoi Polisi/Llwybr Derbyn cadarn yn ei le yn amlinellu'r broses ar gyfer derbyn unrhyw berson ifanc i'r Ward Iechyd Meddwl Oedolion. Mae'r canllawiau yn datgan bod rhaid i'r Bwrdd Iechyd gael uned ddynodedig, ac o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yr uned ddynodedig yw Ward Morlais ar gampws Ysbyty Glangwili.

Mae protocol newydd wedi cael ei gymeradwyo i fodloni'r gofyniad statudol hwn a fydd yn sicrhau cydymffurfiaeth yn erbyn disgwyliadau Llywodraeth Cymru.


Gall cael eich derbyn i ward iechyd meddwl oedolion fod yn brofiad brawychus a gwneir pob ymdrech i ystyried y dewis arall lleiaf cyfyngol ar gyfer derbyn cleifion. Yn y mwyafrif o achosion caiff person ifanc ei dderbyn i'r uned ddynodedig ar Ward Cilgerran gyda chymorth staff o'r uned iechyd meddwl.


Yn unol â'r canllawiau, mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant ychwanegol ar ddiogelu pobl ifanc ac, yn ogystal, mae staff ar Ward Morlais i gyd wedi cwblhau'r canlynol:

- Hyfforddiant Diogelu Plant Lefel 3
- Tystysgrif DBS fanylach ddilys
- Hyfforddiant penodol ar anghenion emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc
- Hyfforddiant ar y Ddeddf Iechyd Meddwl a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014


Rhaid i bawb a dderbynnir i wely iechyd meddwl gael ei adrodd, yn fewnol i gychwyn, fel DATIX, a dilynir hyn gan adroddiad Digwyddiad Anffafriol Difrifol i'r Uned Gyflenwi yn unol â'r ddogfen Canllawiau Derbyn Llywodraeth Cymru.

**Chwarter 2 Derbyniadau i wely addas i'r oedran yr Enfys / Morlais ar y Ward Iechyd Meddwl Oedolion ar safle Ysbyty Glangwili:**




**Chwarter 2 Derbyniadau i wely addas i'r oedran yr Enfys / Morlais yn ôl rhyw:**





**Chwarter 2 Derbyniadau i wely'r Enfys / Morlais yn ôl ardal:**




**Derbyniadau i Wely Addas i Oedran Paediatreg (Uned yr Enfys, ddim yn adroddadwy)**

Mae cofnodion arbenigol CAMHS ar gyfer Chwarter 2 2023-24 wedi'u hamlinellu uchod gyda chyfanswm o 4 wedi'u derbyn, 3 wedi'u derbyn i'r gwely pediatrig ac 1 wedi'i dderbyn i'r Ward Iechyd Meddwl Oedolion (Morlais). Roedd llai wedi'u derbyn dros fisoedd yr haf er bod y rhain yn tueddu i fod yn gyfnodau derbyn estynedig.

**Chwarter 2 Derbyniadau i'r Enfys / Morlais wedi'i rannu yn ôl tîm derbyn:**




**Statws Deddf Iechyd Meddwl**

Ni chawsom UNRHYW weithgaredd ar gyfer plant dan 18 oed yn ystod Chwarter 1 yn unol â'r Ddeddf Iechyd Meddwl:

**Canlyniadau Derbyn**

| | Wedi'i ryddhau gartref | Ei dderbyn ymlaen | Aros ar y ward |
|---|---|---|---|
| **Enfys** | 2 | 1 | 0 |
| **Morlais** | 1 | 0 | 0 |


**Derbyniadau sy'n gysylltiedig â chleifion hunan-niweidio**

O fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda mae systemau cadarn yn eu lle i S-CAMHS ddarparu asesiad iechyd meddwl yn dilyn atgyfeiriad gan y ward pediatrig, pan gaiff unrhyw berson ifanc ei dderbyn yn dilyn achos o hunan-niweidio. Yn gyffredinol y rheswm am ei dderbyn yw gorddos, ond gall fod yn dilyn achos bwriadol o dorri'r croen neu geisio crogi ei hun.


Bydd pob achos o orddos/hunan-niweidio yn cael apwyntiad dilynol o fewn tri diwrnod gwaith i fonitro risg a darparu cymorth. Mae llwybr cadarn yn ei le ynghyd ag arweiniad ar gyfer derbyn yr holl bobl ifanc sy'n cyflwyno eu hunain yn dilyn hunan-niweidio er mwyn gallu cytuno ar asesiad iechyd meddwl cynhwysfawr a chynllun rheoli risg. Lle y bo'n briodol, gellir ystyried atgyfeirio i'r Tîm Diogelu a/neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'r tabl canlynol yn rhoi manylion am y nifer a dderbyniwyd yn dilyn achos o hunan-niweidio bwriadol yn Chwarter 2 2023/2024 ar gyfer y 3 Ardal Awdurdod Lleol:


**Chwarter 2 Ystadegau derbyniadau hunan-niweidio / gorddos wedi'u rhannu yn ôl rhyw ac ardal:**





**Chwarter 2 Ystadegau derbyniadau hunan-niweidio / gorddos wedi'u rhannu yn ôl rhyw a phroffil oedran:**



### Data Cymhariaeth (12 mis diwethaf) – Gwely Addas i'r Oedran





### Tueddiadau Derbyniadau yn ôl ardal (12 mis diwethaf)




### Cymhariaeth Derbyn Blynyddol yn ôl ardal

Mae'r graff canlynol yn cymharu'r nifer a dderbyniwyd ar gyfer Chwarter 2 2023/2024 yn erbyn y nifer a dderbyniwyd ar gyfer yr un chwarter yn 2022/2023 a 2021/2022, wedi'i ddiffinio ymhellach yn ôl ardal.




**Eiriolaeth**

Yn unol â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2012, disgwylir i'r Byrddau Iechyd sicrhau bod mynediad i Wasanaethau Eiriolaeth yn ei le, yn unol â Rhan 4 o'r Mesur, ar gyfer unrhyw unigolyn a dderbynnir i'r ysbyty.  Gofynnir i bob person ifanc a dderbynnir i Ward Morlais a hoffai gael mynediad i Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol.  Y targed perfformiad disgwyliedig yw bod 100% o gleientiaid yn cael cynnig hyn a bod y wybodaeth yn cael ei chofnodi a'i hadrodd trwy ein Dadansoddwr Gwybodaeth.

Ar Ward Cilgerran mae gwybodaeth yn cael ei darparu i bobl ifanc pan gânt eu derbyn ar argaeledd cael mynediad i'r Gwasanaeth Eiriolaeth.  Fodd bynnag, nid yw'r safon perfformiad uchod yn gymwys, felly nid yw data yn cael eu casglu fel mater o arfer.

# CEREDIGION


# GRŴP GWEITHREDOL LLEOL CWMPAS

## Adroddiad Rheoli Perfformiad – Diogelu Oedolion

**Chwarter: 2**


**1/7/23 – 30/9/23**

**Trosolwg Chwarter 2**





Number of reports of an adult suspected of being at risk received
120
100
80
60
40
20
0
68
42
49
62
73
45
74
71
102
54
91
106
75
83
58
July
August
September
October
November
December
January
February
March
April
May
June
July
August
September
2022/23 Q2
2022/23 Q3
2022/23 Q4
2023/24 Q1
2023/24 Q2


| Quarter | Month | Reports |
|---|---|---|
| 2022/23 Q2 | August | 42 |
| | July | 68 |
| | September | 49 |
| 2022/23 Q3 | December | 45 |
| | November | 73 |
| | October | 62 |
| 2022/23 Q4 | February | 71 |
| | January | 74 |
| | March | 102 |
| 2023/24 Q1 | April | 54 |
| | June | 106 |
| | May | 91 |
| 2023/24 Q2 | August | 83 |
| | July | 75 |
| | September | 58 |


Number of reports of an adult suspected of being at risk received -Source of Report
100
80
60
40
20
0
2022/23 Q2
2022/23 Q3
2022/23 Q4
2023/24 Q1
2023/24 Q2
Advocate
Ambulance service
Care regulator
Independent hospital
Local authority
Local health board
Other
Police
Probation
Provider agency
Relative/friend
Self reported
Third sector
3
2
1
1
1
1
8
6
5
7
5
4
5
1
2
3
1
19
26
42
49
60
20
25
18
38
25
23
13
44
22
14
28
40
55
38
38
6
1
3
8
33
34
39
55
41
18
17
14
15
11
1
3
4
2
8
7
6
15
10
9


| Report Source | Quarter | | | | | Total |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2022/23 Q2 | 2022/23 Q3 | 2022/23 Q4 | 2023/24 Q1 | 2023/24 Q2 | |
| Advocate | 3 | 2 | 1 | 1 | 1 | 8 |
| Ambulance service | 1 | 8 | 6 | 5 | 7 | 27 |
| Care regulator | 0 | 5 | 4 | 5 | 1 | 15 |
| Independent hospital | 0 | 0 | 2 | 3 | 1 | 6 |
| Local authority | 19 | 26 | 42 | 49 | 60 | 196 |
| Local health board | 20 | 25 | 18 | 38 | 25 | 126 |
| Other | 23 | 13 | 44 | 22 | 14 | 116 |
| Police | 28 | 40 | 55 | 38 | 38 | 199 |
| Probation | 6 | 1 | 3 | 8 | 0 | 18 |
| Provider agency | 33 | 34 | 39 | 55 | 41 | 202 |
| Relative/friend | 18 | 17 | 14 | 15 | 11 | 75 |
| Self reported | 1 | 3 | 4 | 2 | 8 | 18 |
| Third sector | 7 | 6 | 15 | 10 | 9 | 47 |



Number of reports of an adult suspected of being at risk received - DA Notifications
Yes
No
300
250
200
150
100
50
0
5
159
10
180
17
247
16
251
8
216
2022/23 Q2
2022/23 Q3
2022/23 Q4
2023/24 Q1
2023/24 Q2





Number of reports of an adult suspected of being at risk received - Sexual Abuse
Female
Male
25
20
15
10
5
0
13
3
20
5
17
10
13
6
9
0
2022/23 Q2
2022/23 Q3
2022/23 Q4
2023/24 Q1
2023/24 Q2






Number of reports of an adult suspected of being at risk received - Physical Abuse
Female
Male
Other - Do Not use
60
40
20
0
24
6
0
26
12
0
54
20
0
41
21
1
33
14
0
2022/23 Q2
2022/23 Q3
2022/23 Q4
2023/24 Q1
2023/24 Q2



Number of reports of an adult suspected of being at risk received - Emotional/Psychological Abuse
80
60
40
20
0
58
57
73
61
56
20
20
38
30
30
0
0
1
0
1
2022/23 Q2
2022/23 Q3
2022/23 Q4
2023/24 Q1
2023/24 Q2
Female
Male
Transgender - Do Not use



Number of reports of an adult suspected of being at risk received - Financial Abuse
30
25
20
15
10
5
0
27
11
0
26
21
0
28
18
0
19
25
0
22
26
1
2022/23 Q2
2022/23 Q3
2022/23 Q4
2023/24 Q1
2023/24 Q2
Female
Male
Transgender - Do Not use



Number of reports of an adult suspected of being at risk received - Neglect
60
40
20
0
Female
Male
39
19
36
25
34
38
48
51
37
47
2022/23 Q2
2022/23 Q3
2022/23 Q4
2023/24 Q1
2023/24 Q2



Number of reports received that proceeded to an enquiry
300
250
200
150
100
50
0
No
Yes
102
57
107
73
152
95
119
132
127
89
2022/23 Q2
2022/23 Q3
2022/23 Q4
2023/24 Q1
2023/24 Q2



Number of enquiries that concluded that action was required
100
80
60
40
20
0
Yes
No
7
50
15
58
39
56
46
86
31
58
2022/23 Q2
2022/23 Q3
2022/23 Q4
2023/24 Q1
2023/24 Q2



Number of enquiries that concluded that action was required - Own Home
35
30
25
20
15
10
5
0
3
10
26
30
21
2022/23 Q2
2022/23 Q3
2022/23 Q4
2023/24 Q1
2023/24 Q2



Number of enquiries that concluded that action was required - Community
10
8
6
4
2
0
2
8
6
2
2022/23 Q2
2022/23 Q3
2022/23 Q4
2023/24 Q1
2023/24 Q2



Number of enquiries that concluded that action was required - Care Home Setting
10
8
6
4
2
0
1
3
2
8
6
2022/23 Q2
2022/23 Q3
2022/23 Q4
2023/24 Q1
2023/24 Q2



Number of enquiries that concluded that action was required - Health Setting
3.5
3
2.5
2
1.5
1
0.5
0
1
2
3
2
2
2022/23 Q2
2022/23 Q3
2022/23 Q4
2023/24 Q1
2023/24 Q2



Number of enquiries that concluded that action was required - Place
50
40
30
20
10
0
2022/23 Q2
2022/23 Q3
2022/23 Q4
2023/24 Q1
2023/24 Q2
Health Setting
Care Home Setting
Community
Own Home
1
1
2
3
2
3
10
3
2
8
26
2
8
6
30
2
6
2
21


Number of enquiries that concluded that action was required - Paid Employee
14
12
10
8
6
4
2
0
1
4
8
12
8
2022/23 Q2
2022/23 Q3
2022/23 Q4
2023/24 Q1
2023/24 Q2


Number of enquiries that concluded that action was required - Relative / Friend
30
25
20
15
10
5
0
5
8
26
19
19
2022/23 Q2
2022/23 Q3
2022/23 Q4
2023/24 Q1
2023/24 Q2


Number of enquiries that concluded that action was required - Other Service User
2.5
2
1.5
1
0.5
0
2
2
1
2022/23 Q2
2022/23 Q3
2022/23 Q4
2023/24 Q1
2023/24 Q2


Number of enquiries that concluded that action was required - Other
16
14
12
10
8
6
4
2
0
1
3
4
14
5
2022/23 Q2
2022/23 Q3
2022/23 Q4
2023/24 Q1
2023/24 Q2


Number of enquiries that concluded that action was required - Person
50
40
30
20
10
0
2022/23 Q2
2022/23 Q3
2022/23 Q4
2023/24 Q1
2023/24 Q2
Other
Other Service User
Volunteer
Relative / Friend
Paid Employee
1
5
1
3
8
4
4
2
26
8
14
2
19
12
5
1
19
8

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol